HORIZON NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

Wylfa Newydd Project

8.21 Welsh Language Impact Assessment (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

Application Reference Number: 8.21

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008
Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

Horizon Internal DCRM Number: WN0902-CPN-PAC-REP-00002_Welsh

[This page is intentionally blank]

Cynnwys

Crynodeb gweithredol v
Cyflwyniad 1
Cwmpas 1
Ardaloedd astudiaeth yr AEIG 2
Dull 3
Grŵp llywio'r AEIG 3
Asesiad o'r effeithiau 6
Effeithiau'r prosiect cyfan 6
Ardal Datblygu Wylfa Newydd 10
Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol) 12
Parcio a Theithio 13
Newidiadau i Briffordd yr A5025 13
Canolfan Logisteg 13
Mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant 14
Effeithiau manteisiol 14
Effeithiau niweidiol 16
Casgliad 17
A Cyflwyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd a'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg 18
A.1 Cyflwyniad 18
Prosiect Wylfa Newydd 18
Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg 20
A.2 Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau 23
Cyflwyniad 23
Pam fod angen cynnal AEIG? 23
Deddfwriaeth genedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio 24
Polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith polisi iaith 26
Strategaethau addysg ac iaith cenedlaethol 27
Polisïau cynllunio lleol 27
Strategaethau lleol 29
Canllawiau perthnasol eraill 31
A.3 Trosolwg o'r prosiect a chyflwyniad i'r datblygiadau 32
Cyflwyniad 32
Rhaglen amlinellol o'r camau adeiladu a gweithredu 39
Y gweithlu adeiladu 40
A.4 Cwmpasu ac ymgynghori ynghylch yr AEIG 40
Adroddiadau cwmpasu 40
Ymgynghoriad a gynhaliwyd 41
A.5 Dull asesu 56
Cyd-destun y fethodoleg 56
Ardaloedd astudiaeth yr AEIG 57

Y fethodoleg fanwl *65*
A.6 Proffil yr iaith Gymraeg 72
Trosolwg cenedlaethol *72*
Trosolwg lleol *72*
Siaradwyr Cymraeg *77*
Amrywiadau daearyddol *79*
Oedran a'r iaith Gymraeg *87*
Gwlad enedigol a'r iaith Gymraeg *89*
Newid demograffig a'r Gymraeg *89*
Y Gymraeg mewn meysydd astudiaeth amrywiol *98*
B Effeithiau'r prosiect cyfan 107
B.1 Cyflwyniad 107
B.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG ar lefel y prosiect cyfan 107
B.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 107
Adeiladu *108*
Gweithredu *115*
Datgomisiynu *116*
B.4 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu 117
Nodweddion y boblogaeth *117*
Ansawdd bywyd *158*
Ffactorau economaidd *166*
Cyflenwad seilwaith ac addysg *195*
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol *209*
B.5 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu 221
Nodweddion y boblogaeth *221*
Ansawdd bywyd *222*
Ffactorau economaidd *222*
Cyflenwad seilwaith ac addysg *224*
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol *225*
B.6 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r prosiect cyfan 225
B.7 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella ar lefel y prosiect cyfan 229
Effeithiau gweddilliol *249*
C Ardal Datblygu Wylfa Newydd 255
C.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd 255
C.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 259
Adeiladu *259*
Gweithredu *264*
Datgomisiynu *265*
C.4 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu 265
Nodweddion y boblogaeth *266*
Ansawdd bywyd *271*
Ffactorau economaidd *278*
Cyflenwad seilwaith ac addysg *285*
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol *290*
C.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd 297

C.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd 301
C.7 Effeithiau gweddilliol 302
D Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol 307
D.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer 307
D.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 311
Adeiladu 311
Gweithredu 311
Datgomisiynu 312
D.4 Asesiad o'r effeithiau 312
Nodweddion y boblogaeth 312
Ansawdd bywyd 316
Ffactorau economaidd 319
Cyflenwad seilwaith ac addysg 324
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol 326
D.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer 329
D.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer 333
D.7 Effeithiau gweddilliol 333
E Parcio a Theithio 337
E.2 Ardaloedd Astudiaeth yr AEIG o ran Parcio a Theithio 337
E.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 341
Adeiladu 341
E.4 Asesiad o'r effeithiau 341
Nodweddion y boblogaeth 341
Ansawdd bywyd 346
Ffactorau economaidd 351
Cyflenwad seilwaith ac addysg 356
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol 359
E.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r cyfleuster Parcio a Theithio 362
E.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r cyfleuster Parcio a Theithio 365
E.7 Effeithiau gweddilliol 365
F Newidiadau i Briffordd yr A5025 369
F.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Newidiadau i Briffordd yr A5025 369
F.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 373
Adeiladu 373
F.4 Asesiad o'r effeithiau 375
Nodweddion y boblogaeth 375
Ansawdd bywyd 379
Ffactorau economaidd 383
Cyflenwad seilwaith ac addysg 390
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol 395
F.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd 398

F.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Newidiadau i'r Briffordd 401
F.7 Effeithiau gweddilliol 401
G Canolfan Logisteg 406
G.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Ganolfan Logisteg 406
G.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau 409
Adeiladu 409
Gweithredu 409
Datgomisiynu 409
G.4 Asesiad o'r effeithiau 410
Nodweddion y boblogaeth 410
Ansawdd bywyd 414
Ffactorau economaidd 417
Cyflenwad seilwaith ac addysg 421
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol 424
G.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Ganolfan Logisteg 427
G.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Ganolfan Logisteg 431
G.7 Effeithiau gweddilliol 431
H Effeithiau cronnus 434
H.1 Cyflwyniad 434
Beth ydy effeithiau cronnus? 434
Sut rydym yn asesu effeithiau cronnus 436
H.2 Effeithiau cronnus o fewn y prosiect 437
H.3 Effeithiau cronnus rhwng prosiectau 471
I Cyfeiriadau 485

Rhestr o'r Atodiadau

Atodiad I1 yr AEIG – Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur A-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG 63
Ffigur A-2 Prif ardaloedd yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol 64
Ffigur A-3 Dadansoddiad o'r waelodlin 75
Ffigur A-4 Nifer a chanran o siaradwyr Cymraeg yn ôl ardal yn 2011 77
Ffigur A-5 Canran a nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, 1951-2011 78
Ffigur A-6 Cyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn), yn ôl ward yn 2011 81
Ffigur A-7 Newid (pwynt %) yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) yn ôl ward, 2001-2011 85
Ffigur A-8 Strwythur oed y boblogaeth (tair oed a hŷn) yn 2001 a 2011 87
Ffigur A-9 Canran y boblogaeth (tair oed a hŷn) a allai siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran yn 2001 a 2011 88
Ffigur A-10 Mudo poblogaeth net Ynys Môn yn ôl carfannau oedran 2001 i 2015 .. 90

Ffigur A-11 Mudo poblogaeth net gogledd Cymru yn ôl carfannau oedran 2001 i 2015 93
Ffigur A-12 Nifer y bobl a wnaeth fudo o Ynys Môn yn 2014-15 yn ôl oed a chyrchfan 95
Ffigur A-13 Llif mewnfudo i Ynys Môn o'r DU yn ôl oed a tharddiad, 2014-2015 96
Ffigur A-14 Canran y boblogaeth (tair oed a hŷn) a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl ardal, 2011 99
Ffigur B-1 Proffil dangosol y gweithlu adeiladu 110
Ffigur B-2 Proffil dangosol llety'r gweithlu adeiladu 111
Ffigur B-3 Cynllun Ymgysylltu Swyddi a Sgiliau yn ystod y cam gweithredu 179
Ffigur C-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd ... 257
Ffigur C-2 Amserlen adeiladu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd 260
Ffigur C-3 Proffil o faint y gweithlu yn ystod cam adeiladu'r Prosiect 261
Ffigur D-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer 309
Ffigur E-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Parcio a Theithio 339
Ffigur F-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Newidiadau i Briffordd yr A5025 371
Ffigur G-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Ganolfan Logisteg 407
Ffigur H-2 Tarddiad effeithiau cronnus 435

[Mae’r dudalen hon i fod yn wag]

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae Horizon yn cyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i adeiladu, i weithredu ac i gynnal a chadw gorsaf bŵer niwclear newydd ar dir i'r gorllewin o Gemaes ar Ynys Môn.

Mae'r adran hon yn Grynodeb Gweithredol o'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG), ac mae'n rhan o'r dogfennau sydd wedi'u paratoi i gyd-fynd â'r cais am gydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn darparu penawdau technegol yr AEIG, gan gynnwys ei brif gasgliadau. Mae'r crynodeb hwn wedi'i dargedu'n benodol i gefnogi'r Arolygiaeth Gynllunio yn eu hadolygiad. Mae Crynodeb Annhechnegol ar wahân ar gael fel adroddiad annibynnol.

Mae'r AEIG hwn yn cyflwyno asesiad o effeithiau rhagweledig Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant. Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol yn cael eu nodi, cynigir mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella rhai manteisiol.

Mae'r AEIG hwn yn seiliedig ar adroddiadau ar asesiadau effaith eraill ac wedi dylanwadu ar rai ohonynt, gan gynnwys:

- Datganiad Amgylcheddol yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA);
- Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) (Cyfeirnod y Cais: 8.19); a'r
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Cyfeirnod y Cais: 8.22).

Cwmpas

Mae Prosiect Wylfa Newydd yn cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi.

Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy Orchymyn Cydsyniad Datblygu, sef: yr Orsaf Bŵer; datblygiadau eraill ar y safle; Gwaith Morol; Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer; a Datblygiadau Cysylltiedig.

Oherwydd cydrannau amrywiol Prosiect DCO Wylfa Newydd (fel y nodir uchod), mae'r asesiad o'r effeithiau yn cael ei rannu'n gydrannau penodol o Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae cyfres o asesiadau datblygiadu unigol sy'n canolbwyntio ar effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ategu'r gwaith o asesu'r effeithiau ar y prosiect cyfan. Mae'r asesiad o'r effeithiau wedi'i rannu'n ôl y cydrannau canlynol o Brosiect DCO Wylfa Newydd:

- effeithiau'r prosiect cyfan (hy nid effeithiau sy'n benodol i ddatblygiad) (wedi'u hasesu yng nghyfrol B);
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd (wedi'i hasesu yng nghyfrol C);
- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol) (wedi'u hasesu yng nghyfrol D);
- Parcio a Theithio (wedi'i asesu yng nghyfrol E);

- Newidiadau i Briffordd yr A5025 (wedi'u hasesu yng nghyfrol F); a'r
- Ganolfan Logisteg (wedi'i hasesu yng nghyfrol G).

Mae cwmpas yr AEIG yn canolbwyntio ar effeithiau sy'n gysylltiedig â'r camau adeiladu a gweithredu. Mae'r gwaith o ddatgomisiynu'r Orsaf Bŵer yn cael ei ystyried yn ansoddol ond yn gryno, gan adlewyrchu'r tebygolrwydd y gallai newid technolegol dros gyfnod o 60 mlynedd newid faint o lafur a'r math o lafur sydd ei angen, a'r amser y bydd yn ei gymryd yn sylweddol.

Mae asesiad cronnus yr AEIG yn ystyried holl elfennau Prosiect DCO Wylfa Newydd gyda'i gilydd, yn ogystal â'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 (effeithiau cronnus o fewn y prosiect) (a gyflwynir yng nghyfrol H). Cynhaliwyd asesiad i werthuso potensial Prosiect DCO Wylfa Newydd i ryngweithio â phrosiectau eraill a thrwy hynny gael effeithiau cronnus rhwng prosiectau ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae hwn wedi'i gyflwyno yng nghyfrol H hefyd.

Ardaloedd astudiaeth yr AEIG

Oherwydd y rhyngddibyniaethau rhwng effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ac effeithiau economaidd-gymdeithasol, mae'r ardaloedd daearyddol a gofodol a ddefnyddiwyd yn yr AEIG yn seiliedig ar y rheini sydd wedi'u defnyddio ar gyfer yr asesiad economaidd-gymdeithasol, sy'n cael eu cyflwyno ym mhennod B2 (elfennau economaidd-gymdeithasol) (Cyfeirnod y Cais: 6.2.2) y Datganiad Amgylcheddol.

Mae effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn dibynnu'n fawr ar y gweithlu sydd ei angen, yn enwedig nifer y gweithwyr a'u dosbarthiad daearyddol. Bydd yr effeithiau ar gymunedau, y Gymraeg a'i diwylliant yn amrywio mewn gwahanol leoliadau.

Mae ardaloedd astudiaeth yr AEIG yn cynnwys:

- Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Ardal Dylanwad Leol (ADL)
- Prif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol, sy'n cynnwys:
  - Gogledd Ynys Môn;
  - Gorllewin Ynys Môn;
  - De Ynys Môn; a
  - Thir Mawr Menai.
- Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu);
- Gogledd Orllewin Cymru;
- Gogledd Cymru; a
- Chenedlaethol/arall.

Dull

Grŵp llywio'r AEIG

Cafodd Grŵp Llywio gyda chadeirydd annibynnol ei sefydlu i arwain proses yr AEIG a sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cael cyfrannu'n ehangach at AEIG Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae aelodau'r Grŵp Llywio hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, Menter Môn, Llais Ni a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn arsylwi ar waith y Grŵp Llywio, ond nid ydynt yn aelodau.

Hefyd, cafodd y fethodoleg arfaethedig a ddisgrifir yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ei rhannu ag aelodau o Grŵp Llywio'r AEIG, sydd wedi cymeradwyo'r dull arfaethedig. Dylid nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi nac yn hyrwyddo unrhyw fethodoleg benodol ar gyfer cynnal AEIG. Oherwydd ei bod yn arsylwi gwaith y Grŵp Llywio, nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo nac yn gwrthod y fethodoleg arfaethedig sydd wedi'i nodi yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae Datganiadau Tir Cyffredin yn cofnodi safbwyntiau pob sefydliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant.

Methodoleg: Cafodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr AEIG ei chyflwyno yn Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith [RD1]. Mae methodoleg yr AEIG yn seiliedig ar y strategaethau a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol canlynol:

- *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD3];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD4];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol LDP6; Yr Iaith Gymraeg* [RD5];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD6];
- *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD7]; a
- *Chanllawiau Ymarfer ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD8].

Mae *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2] yn cynnig canllawiau arfer gorau ar y fethodoleg ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iaith ar gyfer datblygiad prosiect penodol. Nid yw'r arweiniad hwn wedi'i fabwysiadu'n benodol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol; fodd bynnag mae'r fethodoleg wedi cael ei chopïo yn y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r fethodoleg ar gyfer yr AEIG hwn fel a ganlyn:

Cam 1: canfod beth ydy'r waelodlin

Mae'r waelodlin yn gyfuniad o ddatganiadau, polisïau a data perthnasol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ardaloedd yr astudiaeth. Mae ystod eang o dystiolaeth wedi'i chasglu i gyfrannu at yr AEIG hwn er mwyn cyflwyno dealltwriaeth gyffredinol o broffil a sefyllfa bresennol y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth, yn enwedig ym mhrif ardal yr astudiaeth. Mae'r data sydd wedi cael ei gasglu yn sylfaen i'r waelodlin, sydd wedi'i dadansoddi fel rhan o'r AEIG hwn. Caiff hyn ei gyflwyno yn atodiad A7-1.

Cam 2: dadansoddi effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y waelodlin

Mae'r data sylfaenol sydd wedi'i gasglu wedi cael ei ddadansoddi er mwyn ystyried i ba raddau, a sut (o ran effeithiau niweidiol a manteisiol), byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardal yr astudiaeth.

Mae'r dadansoddiad o effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y waelodlin yn ystyried ardaloedd astudiaeth amrywiol. Roedd hyn yn golygu bod modd canfod yr ardaloedd daearyddol a oedd fwyaf tebygol o wynebu effeithiau (ardaloedd yr astudiaeth a phum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol), a sut roedd yr ardaloedd hyn yn debygol o gael eu heffeithio.

Caiff yr effeithiau sy'n cael eu hystyried yn effeithiau'r prosiect cyfan eu hasesu yng nghyfrol B, er enghraifft effeithiau'r gweithlu adeiladu ar nodweddion y boblogaeth. Mae'r effeithiau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n benodol i safle yn cael eu hasesu yng nghyfrolau perthnasol (C i G) yr AEIG hwn.

Cam 3: cwestiynau rhestr wirio sy'n seiliedig ar asesiad

Mae'r AEIG yn asesu effeithiau tebygol camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn erbyn pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol er mwyn sefydlu'r effeithiau ar y gymuned yn gyffredinol ac ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn fwy penodol. Dyma'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol:

- nodweddion y boblogaeth;
- ansawdd bywyd;
- ffactorau economaidd;
- cyflenwad seilwaith ac addysg; ac
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r asesiad o'r effeithiau wedi'i rannu'n ôl y cydrannau canlynol o Brosiect DCO Wylfa Newydd:

- effeithiau'r prosiect cyfan (hy nid effeithiau sy'n benodol i safle);
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol);
- Parcio a Theithio;
- Newidiadau i Briffordd yr A5025; a
- Chanolfan Logisteg.

Mae'r asesiad ar gyfer pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys 18 o gwestiynau, sy'n ymwneud â'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol; caiff y 18 cwestiwn eu cyflwyno yn nhabl A-11 yr AEIG hwn. Mae'r cwestiynau hyn yn tarddu o ganllawiau arfer gorau y cyfeirir atynt yn A.6.4 yng nghyfrol A yr AEIG hwn.

Mae'r holl gwestiynau wedi cael pwysoliad, sy'n amrywio o bwysoliad uchel i ganolig i isel (o ran effeithiau ieithyddol), a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn. Mae'r pwysoliad ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei ychwanegu at sgôr mynegai sylfaen er mwyn cael sgôr mynegai terfynol (gyda phwysoliad). Caiff cwestiynau sydd wedi cael pwysoliad uchel eu lluosi â 1.0, caiff cwestiynau sydd â phwysoliad canolig eu lluosi â 0.7, a chaiff cwestiynau sydd â phwysoliad isel eu lluosi â 0.5.

Mae pob cwestiwn yn cyflwyno asesiad o'r effaith ddisgwyliedig. Mae'r asesiad o'r effaith yn gwbl oddrychol ar sail gwybodaeth sylfaenol, tystiolaeth flaenorol a barn broffesiynol, a'i fwriad yw nodi'r effeithiau sy'n debygol o ddigwydd yn sgil Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'r aseswr yn gorffen asesiad pob cwestiwn drwy nodi effaith gyffredinol fanteisiol, niwtral neu niweidiol. Yna, rhoddir sgôr i'r effaith gyffredinol er mwyn adlewyrchu maint yr effaith (gweler tabl A-12 yr AEIG hwn).

Yna, cafodd y 18 sgôr mynegai sylfaen (wedi cael eu pwysoli) eu defnyddio i gyfrifo'r sgôr mynegai sylfaen cyffredinol ar gyfer pob cam: Y Prif Gamau Adeiladu a gweithredu (ar gyfer pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd), sef y sgôr cyfartalog ar draws y 18 cwestiwn. Mae'r sgoriau mynegai sylfaen (wedi cael eu pwysoli) hefyd wedi cael eu defnyddio i gyfrifo sgôr mynegai dimensiynol, sy'n rhoi sgôr cymedr ar gyfer pob un o'r cydrannau bywyd cymunedol: cymedr ar gyfer y boblogaeth; ansawdd bywyd; ffactorau economaidd; a chyflenwad seilwaith a materion cymdeithasol.

Mae'r AEIG yn asesu ac yn sgorio Prif Gamau Adeiladu a gweithredu'r Prosiect wrth ystyried yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan (cyfrol B) a'r asesiad o Ardal Datblygu Wylfa Newydd (cyfrol C) yn erbyn y cwestiynau fel cynigion ar wahân wrth ystyried y gwahaniaethau amlwg posibl yn effeithiau camau gwahanol y Prosiect. Mae'r gwaith o ddatgomisiynu'r Orsaf Bŵer yn cael ei asesu yn ansoddol, gan adlewyrchu'r tebygolrwydd y gallai newid technolegol dros gyfnod o 60 mlynedd arwain at newid sylweddol o ran faint o lafur a'r math o lafur sydd ei angen, a'r amser y bydd yn ei gymryd. Mae'r asesiad o'r effeithiau ar Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (cyfrol D) a Datblygiadau Cysylltiedig (cyfrolau E i G) yn ystyried effeithiau'r camau adeiladu a gweithredu yn unig.

Cam 4: datblygu mesurau lliniaru a gwella

Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol posibl yn cael eu nodi yn yr asesiad, mae mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol yn cael eu cynnig.

Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant yn ogystal â lliniaru effeithiau niweidiol tebygol. Mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler atodiad B4-1 yr AEIG) gan weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr ym maes cynllunio iaith. Mae'r fethodoleg ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a gwella yn cael ei chyflwyno'n fanylach yn atodiad B4-1 yr AEIG.

Mae'r mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol y Gymraeg, gan gynnwys aelodau ac arsylwyr Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'i datblygu ar sail cyfuniad o weithdai i randdeiliaid, ymgynghoriadau un-i-un ac adolygiadau o lenyddiaeth a dogfennau perthnasol.

Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn dilyn pedair thema allweddol:

- gweithlu;
- plant a phobl ifanc;
- y gymuned; ac

- atebolrwydd.

Cam 5: monitro effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant

Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn datgan bod rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'i datblygu yn credu ei bod yn hollbwysig datblygu mecanweithiau priodol i oruchwylio'r broses o roi'r Strategaeth ar waith yn Horizon ac i fonitro cynnydd yn allanol. Caiff prosesau o'r fath eu hystyried yn bwysig o ran sicrhau bod y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cael ei rhoi ar waith yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol, a bod camau cywiro'n cael eu cymryd i oresgyn rhwystrau a allai godi.

Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi pedwar mesur yn ymwneud â monitro proses Horizon a phartneriaid allanol o roi'r Strategaeth ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu grŵp o uwch reolwyr yn Horizon a fydd yn goruchwylio/bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn ogystal â Chynllun Gweithredu a Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon;
- sefydlu grŵp rhanddeiliad allanol i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a rhoi cyngor ar ei chyflawni; a, gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny.

Asesiad o'r effeithiau

Mae canfyddiadau allweddol yr AEIG wedi'u strwythuro er mwyn ystyried cydrannau penodol Prosiect DCO Wylfa Newydd, ac yna'r effeithiau cronnus. Caiff y canfyddiadau eu crynhoi isod.

Effeithiau'r prosiect cyfan

Nodweddion y boblogaeth

Mae potensial i gael cyfleoedd cyflogaeth sylweddol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o swyddi yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Byddai hyn yn cadw pobl ifanc oed gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth ac yn denu rhai newydd hefyd. Gan fod poblogaeth sy'n heneiddio ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae hyn yn debygol o adfer cydbwysedd y strwythur oedran a byddai'n debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd, a fyddai o fudd i'r Gymraeg a'i diwylliant o ran cadw pobl leol, lle mae canran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg.

Byddai disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y camau adeiladu a gweithredu leihau patrymau'r gorffennol sef pobl ifanc a phobl oed gweithio yn symud o Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Byddai cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu, o ganlyniad i hyd at 7,500 o weithwyr a'u teuluoedd yn mewnfudo o'r tu allan i'r ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg

a phobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i lefel yr effaith fod yn uwch yng Ngogledd Ynys Môn, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell.

Byddai cael hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys Tregele, Cemaes, Amlwch, Llanfachraeth a Llanfaethlu.

Byddai presenoldeb hyd at 3,000 o weithwyr mewn cymunedau ledled prif ardal yr astudiaeth yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn nifer o gymunedau, yn arbennig yn y wardiau yng Ngogledd Môn, fel Llanbadrig, Llanfaethlu, Mechell a Moelfre yn ogystal ag ward Llanbedrgoch yn Ne Ynys Môn. Yn y cymunedau yn y wardiau hyn y byddai gweithwyr adeiladu a'u teuluoedd na fyddant yn byw gartref yn aros.

Byddai presenoldeb gweithwyr adeiladu sy'n aros yng Nghampws y Safle hefyd yn cael effaith niweidiol ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg a'i diwylliant a'i hamlygrwydd yn wardiau Llanbadrig, Mechell a Llanfaethlu.

Efallai na fydd gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd sy'n symud i'r ardal yn llwyr werthfawrogi nac yn deall diwylliant a thraddodiadau unigryw y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth (effaith niweidiol ganolig), a allai arwain at densiynau cymdeithasol a gwrthdaro (effaith niweidiol fach iawn).

Cyflogaeth, sgiliau ac addysg

Disgwylir y bydd y cyfleoedd cyflogaeth sylweddol a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael prif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant. Byddai hyn yn helpu i gadw pobl ifanc leol, gyda nifer ohonynt yn siarad Cymraeg (mae 31.9% o'r rhai o dan 25 oed yn siarad Cymraeg), ac yn cyfrannu at wyrdroi patrwm tymor hir, sef pobl yn y grŵp oedran hwn yn gadael yr ardal.

Ystyrir bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam adeiladu yn arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae tua hanner (48.1%) y gweithlu adeiladu lleol yn siarad Cymraeg. Felly, disgwylir y bydd nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg yn cael gwaith drwy Brosiect DCO Wylfa newydd yn ystod y cam adeiladu. Disgwylir y bydd tua 2,000 o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi pan fydd y cam adeiladu yn ei anterth. Er mai swyddi dros dro fyddai'r rhain (yn ystod y cyfnod adeiladu a fydd yn para naw mlynedd), mae'n ffynhonnell gyflogaeth bwysig i bobl leol. Byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd sylweddol am brentisiaethau (cynllun sydd ar waith yn barod). Oherwydd graddfa a hyd Prosiect DCO Wylfa Newydd, byddai'r posibilrwydd o gael prentisiaeth ac yna ennill cyflogaeth yn sylweddol.

Byddai'r cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu yn arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth, oherwydd byddai 85% o weithlu'r cam gweithredu yn bobl leol (mae 61.0% o'r boblogaeth honno'n siarad Cymraeg). Credir bod cyfleoedd cyflogaeth yn elfen bwysig o gynnal a chryfhau cymunedau ac felly statws a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Buddsoddi a gwario yn yr economi leol

Byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at fanteision mawr i fusnesau lleol, gan gynnwys yn y sector twristiaeth, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu. Byddai'n cael effaith fanteisiol ganolig gyffredinol ar fusnesau lleol hefyd, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith. Byddai'r rhain yn cyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus.

Mae gwariant ychwanegol yn yr economi leol, yn arbennig o ganlyniad i'r cam adeiladu, yn effaith fanteisiol ar fusnesau lleol gogledd Cymru, ac mae Siarter a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi ar waith i gefnogi hyn. Gan fod canran uchel o boblogaeth Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn siaradwyr Cymraeg, byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar fusnesau siaradwyr Cymraeg neu fusnesau sy'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyrir mai galwedigaethau uchel eu gwerth yw'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Byddai'r rhain yn cyfrannu at gynyddu enillion cyfartalog trigolion lleol Ynys Môn yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, gan fod disgwyl i 85% o weithlu'r cam gweithredu fod yn byw yn Ynys Môn.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai busnesau lleol yn gweld dadleoli llafur yn lleol o ganlyniad i'r cyfleoedd cyflogaeth newydd a ddaw yn sgil y cam adeiladu.

Busnesau lleol

Mae disgwyl i'r cam adeiladu arwain at fanteision mawr i fusnesau lleol gan gynnwys y sector twristiaeth, ac yn gyffredinol byddai'n cael effaith fanteisiol ganolig ar fusnesau lleol, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith, gan gyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus. Mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith fel Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai busnesau lleol yn gweld dadleoli llafur yn lleol o ganlyniad i'r cyfleoedd cyflogaeth newydd a ddaw yn sgil y cam adeiladu.

Prisiau tai

Byddai'r llety sydd ar gael (yn ôl gwaith dadansoddi economaidd-gymdeithasol a gyflwynir yng Nghyfrol C y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1)) yn awgrymu y byddai digon o le ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu i fodloni'r galw am lety gan weithwyr adeiladu a fyddai'n symud i'r ardal. Fodd bynnag, gan fod fforddiadwyedd tai yn broblem yn barod ar Ynys Môn, gallai'r cynnydd yn y galw am lety yng Ngogledd a Gorllewin Ynys Môn arwain at godi pris llety eto fyth, gan wneud problem sy'n bodoli'n barod yn waeth, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Gan fod 57.2% o boblogaeth bresennol Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg, byddai cynnydd ym mhris llety'n effeithio ar allu'r boblogaeth leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i ddal ati i fyw yn lleol, gan arwain at effaith niweidiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant yn gyffredinol.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

Byddai disgwyl i gyflwyno plant gweithwyr adeiladu i ysgolion cyfrwng Cymraeg newid y cydbwysedd o ran siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg. Heb fesurau lliniaru, gallai hynny gael effaith niweidiol ar statws ac amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a

wneir ohoni ymhlith plant oedran ysgol, gan arwain at effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol.

Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai disgwyl i gyfanswm nifer y plant oedran ysgol a'u dosbarthiad drwy is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth gael effeithiau amlwg ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymysg plant oed cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth. Felly, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol yn ystod y cam gweithredu.

Gwasanaethau cymunedol a lleol

Byddai mwy o alw am gyfleusterau cymunedol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu yn fanteisiol o ran diogelu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sy'n cael eu darparu, fel swyddfeydd post, banciau a thafarndai ar gyfer y boblogaeth leol, er mai effaith fanteisiol fach iawn fyddai hyn. Gan fod y rhain yn fannau ymgynnull cymdeithasol lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd, mae diogelu'r rhain yn golygu diogelu'r cyfleoedd cymdeithasol a'r cyfleoedd o ddydd i ddydd lle byddai'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae diogelu gwasanaethau o'r fath sy'n cael eu darparu hefyd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan o wead cymdeithasol y cymunedau.

O ran yr effeithiau ar y cyfleusterau gofal iechyd sy'n cael eu darparu, byddai cynnydd bychan yn y galw am wasanaethau'r GIG yn ystod y cam adeiladu yn sgil gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd yn mewnfudo. Mae hyn o oherwydd y gwasanaethau gofal iechyd a fyddai'n cael eu darparu i'r gweithwyr na fyddent yn byw gartref yng Nghampws y Safle a chyfraniad gan Horizon i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n cofrestru â meddyg teulu Cymreig oddi ar Gampws y Safle. Ar y sail hon, byddai disgwyl effaith niwtral ar y gwasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu darparu a'r rhai sy'n cael eu darparu ar gyfer y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg). Byddai gweithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd wedi setlo'n barhaol a byddent yn defnyddio gwasanaethau presennol y GIG heb gael effaith niweidiol ar gapasiti/ansawdd ac felly, ni fyddai disgwyl dim effaith ar gyfleusterau neu wasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu cynnig i'r boblogaeth leol yn ystod y cam adeiladu yn cyfrannu at gadw pobl ifanc rhag gadael prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n weithgar mewn grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd. Credir bod cadw pobl ifanc leol, gyda chanran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg, o fudd i grwpiau ieuenctid, gwirfoddol a gweithgaredd lleol, gan fod hynny'n diogelu dyfodol grwpiau o'r fath. Fodd bynnag, byddai disgwyl i gyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol cyfrwng Cymraeg wanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y grwpiau hynny, gan arwain at effaith niweidiol fach iawn gyffredinol yn ystod y cam adeiladu.

Gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i gymunedau gael effaith niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu, oherwydd nifer y gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth.

Er y gallai rhwydweithiau cymdeithasol cryf ar Ynys Môn wella gallu'r boblogaeth i wrthsefyll newidiadau i'r gymuned, yn arbennig yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae gwaith arolwg cymunedol (sy'n cyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesu materion goddrychol sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd) yn dangos bod rhywfaint o amwysedd neu ansicrwydd ymhlith y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu pryder posibl ymhlith y boblogaeth bresennol ynghylch y mewnlif o weithwyr adeiladu o'r tu allan i'r ardal yn symud i gymunedau prif ardal yr astudiaeth.

Mae posibilrwydd y bydd nifer y gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd (7,500) y disgwylir iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu, yn gwanhau diwylliant a thraddodiadau presennol y Gymraeg, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned, gan arwain at effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol.

Amwynder amgylcheddol

Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r effeithiau amgylcheddol posibl yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd fod yn benodol i'r safle yn hytrach nag effeithiau'r prosiect cyfan. Nodir effeithiau penodol i safle yn eu tro isod. Mae disgwyl i effeithiau amgylcheddol posibl ar lefel prosiect cyfan yn ystod y cam adeiladu ddigwydd yn bennaf oherwydd sŵn a dirgryndod. Mae'r effeithiau hyn yn berthnasol i dderbynyddion preswyl a mannau chwarae cyhoeddus. Mae'n bosibl i'r effeithiau niweidiol a nodwyd yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu leihau pa mor ddymunol fydd byw mewn rhai ardaloedd. Gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny os bydd pobl o'r ardaloedd hynny'n penderfynu symud. O ganlyniad i amwynder amgylcheddol, nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol ar yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y cam gweithredu, mae effeithiau amgylcheddol posibl hefyd yn codi'n bennaf oherwydd sŵn a dirgryndod o ganlyniad i gyflwyno'r gwelliannau i'r briffordd sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd. Nodir effaith fach iawn yn gyffredinol ar y Gymraeg a hynny'n anuniongyrchol o ganlyniad i effeithiau amgylcheddol posibl.

Ardal Datblygu Wylfa Newydd

Nodweddion y boblogaeth

Effaith niwtral ar y Gymraeg ac eithrio allfudo lle mae disgwyl effaith niweidiol fach yn ystod y cam adeiladu ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu.

Oherwydd graddfa a hyd sylweddol y gweithgareddau adeiladu (naw mlynedd) yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu, byddai potensial am golli llawer iawn o amwynder o gymunedau cymdogol yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai gan y newid hwn mewn amwynder y potensial i arwain at y boblogaeth bresennol sy'n byw yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar hyn o bryd yn allfudo mewn mannau, yn enwedig yng nghymunedau Cemaes a Thregele, lle byddai disgwyl i'r newidiadau mewn amwynder fod yn fwyaf sylweddol.

Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd allfudo'n digwydd o ganlyniad i bresenoldeb yr Orsaf Bŵer yn ystod y cam gweithredu. Fodd bynnag, pe byddai poblogaethau lleol (sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg) yn allfudo, gallai hynny arwain at golli siaradwyr Cymraeg yn barhaol o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan arwain at effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol.

Amwynder amgylcheddol

Gallai effeithiau amgylcheddol posibl yn ystod cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at bobl leol yn gadael ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Petai pobl yn gadael yr ardal o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr amwynder amgylcheddol, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn yr ADL, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell, gan arwain at effaith niweidiol fach yn gyffredinol. Gallai'r cam gweithredu effeithio ar ansawdd amgylcheddol amwynderau'r ADL, gan ystyried sŵn, dirgryndod, goleuo ac effeithiau gweledol. Er y gallai hyn olygu ei bod yn llai dymunol byw yn yr ADL, nid yw'r cysyniad o Orsaf Bŵer yn un newydd o ystyried presenoldeb yr Orsaf Bŵer Bresennol ers dechrau'r 1970au. Byddai'r Orsaf Bŵer hefyd yn gysyniad cyfarwydd yn yr ADL yn dilyn y cam adeiladu. Gan fod allfudo'n annhebygol o ddigwydd yn ystod y cam gweithredu, ni ddisgwylir y bydd effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i diwylliant (effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol).

Cyflenwad seilwaith ac addysg

Disgwylir y bydd presenoldeb hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle yn arwain at rywfaint o gynnydd yn y galw am gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau'r ADL. Fodd bynnag, ni fyddai gweithwyr yn dibynnu ar y gymuned i gael gafael ar wasanaethau o'r fath oherwydd byddai darpariaeth helaeth ar gael yng Nghampws y Safle. Byddai'r cynnydd yn y galw o fudd i gymunedau'r ADL oherwydd y byddai'n cyfrannu at ddiogelu cyfleusterau cymunedol a fyddai'n cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r effaith fanteisiol hon yn erbyn yr effaith niweidiol a fyddai'n codi o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu, a fyddai'n ddi-Gymraeg yn bennaf, mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, a allai wanhau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni. Felly, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol ar y Gymraeg yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.

Busnesau lleol

Mae disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys y rheini sy'n aros yng Nghampws y Safle, arwain at wario ychwanegol mewn busnesau lleol yn yr ADL, a fyddai'n effaith fanteisiol fach iawn, gan gyfrannu at gymuned ac economi wledig gynaliadwy a ffyniannus. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod hi'n bosibl y bydd rhai busnesau twristiaeth yn gweld rhai effeithiau niweidiol oherwydd y posibilrwydd o ailddosbarthu ymwelwyr o ogledd Ynys Môn, o ganlyniad i newidiadau i ansawdd amgylcheddol yr amwynder. Fodd bynnag, byddai rhai busnesau twristiaeth yn gweld newid yn y ffynhonnell o wariant (o ymwelwyr i weithwyr adeiladu). Disgwylir i weithredu'r Orsaf Bŵer arwain at wariant ychwanegol i fusnesau yn yr ADL, a fyddai o fudd i'r busnesau lleol hyn. Mae disgwyl y bydd y rhain yn cynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol y cam gweithredu (60 mlynedd) (effaith fanteisiol fach iawn).

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

Gall y mewnlifiad o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref i gymunedau sy'n agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at rywfaint o wrthdaro/tensiynau

cymdeithasol rhwng trigolion ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref, sy'n cael ei nodi fel effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol.

Hefyd, mae posibilrwydd y bydd presenoldeb gweithwyr adeiladu yn y cymunedau hynny, yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac yn ymwneud â'r gymuned (gan gynnwys ymuno â grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd) yn gwanhau ac yn lleihau amlygrwydd traddodiadau a diwylliant Cymru. Mae gan enwau lleoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gysylltiadau topograffigol neu maent yn disgrifio nodweddion y dirwedd, fel Pen-yr-allt neu Penrhyn. Hefyd, maent yn gysylltiedig â phobl, er enghraifft Tyddyn-Goronwy, neu'n gysylltiedig â swyddogaeth, fel Ysgubor Ddegwm. Gyda rhai enwau lleoedd, er bod yr enw wedi'i warchod yn y dirwedd, fel Porth Wnal, byddai unrhyw gysylltiadau wedi mynd yn angof neu wedi diflannu. Felly, nodir effaith niweidiol fach ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn ystod cam adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Gallai cyflwyno hyd yn oed nifer fach iawn o weithwyr adeiladu di-Gymraeg i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd newid y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn grwpiau o'r fath, gan y byddai iaith y grwpiau hynny'n newid er mwyn pobl ddi-Gymraeg, sy'n cael ei nodi'n effaith niweidiol fach.

Byddai gwaith adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd y gweithgareddau adeiladu a fyddai'n gysylltiedig, hefyd yn effeithio ar ddealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant y Gymraeg o bosibl oherwydd effeithiau uniongyrchol ar olion archeolegol, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol.

Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol)

Effaith niwtral gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer oherwydd bod effeithiau ar y boblogaeth yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.

Byddai disgwyl i waith adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at newid yn amwynder amgylcheddol cymunedau ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd yr aer, sŵn a dirgryndod. Byddai disgwyl i'r effeithiau fod yn fach o ran yr aflonyddwch ar drigolion ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ac ni fyddai disgwyl i hyn arwain at ostyngiad yn ansawdd bywyd cyffredinol cymunedau ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (effaith niweidiol fach iawn).

Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu a gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at fwy o wariant mewn gwasanaethau a busnesau lleol fel y siop a'r swyddfa bost a'r dafarn. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu mae disgwyl iddynt fod yn gweithio ar y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r nifer fach o staff cam gweithredu o ddydd i ddydd (y tu allan i argyfwng) a fydd yn gysylltiedig â'r Labordy Arolygon Amgylcheddol, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr ADL yn sgil gwario ychwanegol fod yn fach (effaith fanteisiol fach iawn).

Parcio a Theithio

Effaith niwtral gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.

Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu a gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at fwy o wariant mewn gwasanaethau a busnesau lleol fel y siop a'r swyddfa bost a'r dafarn. Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod yn sylweddol; fodd bynnag, byddai'n arwain at effaith fanteisiol drwy gyfrannu at eu diogelu yn yr ADL (effaith fanteisiol fach iawn). Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio (chwe blynedd), ac felly byddai o fudd i boblogaeth yr ADL, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Newidiadau i Briffordd yr A5025

Effaith niwtral gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.

Disgwylir i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at rai effeithiau niweidiol bach iawn ar fusnesau lleol ar hyd yr A5025, oherwydd y bydd llai o bobl yn pasio heibio, a gallai fod effaith ar lwyddiant masnachol dwy fferm yn y dyfodol oherwydd colli tir amaethyddol sy'n rhan o'r daliad amaethyddol. Byddai effeithiau o'r fath yn cael effeithiau anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys adeiladu adrannau newydd o ffordd fel ffyrdd osgoi a gwaith alinio ffyrdd mewn pum lleoliad ar hyd yr A5025 rhwng y Fali ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai gwaith o'r fath yn ystod y cam adeiladu neu ar ôl gorffen yn effeithio ar gost tai yn gyffredinol yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai Adran 3 arwain at wella amwynder eiddo preswyl ar hyd priffordd bresennol yr A5025 yn gyffredinol yn y pentref gan fod disgwyl i lefelau presennol y traffig ddisgyn mwy na 60%. Gallai hyn arwain at gynnydd cyffredinol yng ngwerth anheddau preswyl ym mhentref Llanfachraeth; fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnydd hwn mewn gwerth yn un sylweddol. Wrth ystyried effaith y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gyffredinol, nodir effaith niweidiol gyffredinol fach iawn.

Ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, byddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 wella amwynder amgylcheddol pentrefi y Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu, gan greu effaith fanteisiol fach iawn yn y tymor hir. Byddai'r cymunedau hyn yn parhau i fod yn gymunedau cynaliadwy a hygyrch, a byddai'n haws cyrraedd priffordd yr A5025 ohonynt, ond byddai'r cymunedau yn elwa ar ansawdd bywyd gwell o ganlyniad i lai o gerbydau yn pasio drwy'r pentrefi, yn enwedig ym mhentrefi Llanfachraeth a'r Fali.

Canolfan Logisteg

Effaith niwtral gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod gwaith adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.

Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu a gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Ganolfan Logisteg arwain at fwy o wariant mewn busnesau a

gwasanaethau lleol yng Nghaergybi. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu mae disgwyl iddynt fod yn gysylltiedig â'r Ganolfan Logisteg a'r nifer fach o'r staff cam gweithredu o ddydd i ddydd a fydd yn gysylltiedig â'r Ganolfan Logisteg, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr ADL yn sgil gwariant ychwanegol fod yn fach (effaith fanteisiol fach iawn).

Mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

Mae Horizon yn cydnabod pwysigrwydd datblygu mesurau lliniaru a gwella er mwyn ymateb i effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Fe wnaeth Horizon benodi arbenigwyr cynllunio iaith a wnaeth gyfraniad arbenigol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y Gymraeg a mentrau Cymraeg er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r mesurau lliniaru a gwella. Mae'r arbenigwyr cynllunio iaith hefyd wedi gweithio gyda Horizon i ddatblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i Diwylliant (a gyflwynir yn Atodiad B4-1 yr AEIG), sy'n cyd-fynd â Pholisi Iaith Gymraeg Horizon.

Mae'r mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol y Gymraeg, gan gynnwys aelodau ac arsylwyr Grŵp Llywio'r AEIG. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'i datblygu ar sail cyfuniad o weithdai i randdeiliaid, ymgynghoriadau un-i-un ac adolygiadau o lenyddiaeth a dogfennau perthnasol.

Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn dilyn pedair thema allweddol:

- gweithlu;
- plant a phobl ifanc;
- y gymuned; ac
- atebolrwydd.

Er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd, bydd Horizon yn penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Bydd y Cydlynydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.

Effeithiau manteisiol

Er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant, mae mesurau wedi cael eu datblygu, ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

Ymrwymiadau o ran gwella

Y Gweithlu

Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl a ddaw yn sgil y gweithlu adeiladu a gweithredu drwy wneud y canlynol:

- penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd;
- hyrwyddo cyfleoedd am swyddi yn lleol a thargedu'r gwaith recriwtio at siaradwyr Cymraeg fel rhan o strategaethau recriwtio ehangach;
- parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd swyddi Prosiect DCO Wylfa Newydd ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys y Proffiliau Swyddi a'r 'Mapiau Llwybrau Gyrfa' dwyieithog. Byddai Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl, gan gynnwys staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) a chontractwyr lleol;
- hysbysebu swyddi drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg yn benodol fel rhan o strategaethau recriwtio ehangach. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd sydd wrthi'n cael ei sefydlu, yn ogystal â phartneriaid eraill sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg;
- ystyried pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen fel rhan o'r broses recriwtio wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu ar gyfer pob swydd yn Wylfa Newydd. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy ddatblygu a mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer Wylfa Newydd Horizon;
- cynnwys staff sy'n siarad Cymraeg ar baneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol er mwyn deall sgiliau ieithyddol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant ymhlith y gweithlu drwy ddosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant fel rhan o ddeunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg;
- darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith Gymraeg corfforaethol Horizon;
- datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd pan fydd hyn yn ofyn perthnasol ar gyfer swydd. Byddai Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr ac yn cynnal eu cynllun 'bathodynnau oren' siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac er mwyn annog pobl i'w defnyddio;
- diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog; a
- gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg drwy sicrhau y bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n ymwneud â'r Prosiect yn ddwyieithog.

Buddsoddi a gwario yn yr economi leol

Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl sy'n ymwneud â'r economi, y Gymraeg a'i diwylliant drwy wneud y canlynol:

- ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses gaffael;

- darparu gwybodaeth am fusnesau lleol i gontractwyr drwy'r gadwyn gyflenwi;
- sefydlu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd. Byddai'r gwasanaeth hwn yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi gweithwyr i gefnogi'r rhaglen adeiladu. Nod y Strategaeth Swyddi a Sgiliau, a'r elfen Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn benodol, fyddai:
  - recriwtio gweithwyr newydd yn y farchnad lafur;
  - hyfforddi a gwella sgiliau newydd-ddyfodiaid ac eraill; a
  - darparu gwasanaeth broceriaeth i gefnogi busnesau y mae eu gweithwyr wedi symud ymlaen i Brosiect DCO Wylfa Newydd.

Plant a phobl ifanc

Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd drwy wneud y canlynol:

- parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysg dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr addysg bellach (ee drwy ddarparu deunyddiau dosbarth a chyflwyniadau); a
- chynnal cynllun prentisiaethau Prosiect DCO Wylfa Newydd a pharhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' i bobl ifanc.

Effeithiau niweidiol

Er mwyn lliniaru effeithiau niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant, mae mesurau wedi cael eu datblygu, ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

Ymrwymiadau o ran lliniaru

Y Gweithlu

Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl yng nghyswllt y gweithlu adeiladu a gweithredu drwy wneud y canlynol:

- penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd;
- darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith Gymraeg corfforaethol Horizon;
- datblygu a chylchredeg pecynnau croeso i holl deuluoedd gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys gwybodaeth am statws yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni mewn gwasanaethau addysg lleol ac yn y gymuned ehangach;
- casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu a rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Gall y broses hon fod yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth

Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu i helpu i fonitro'r mewnlif o weithwyr a'u teuluoedd.

Plant a phobl ifanc

Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- darparu cyllid i wasanaethau addysg lleol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (gwasanaethau trochi iaith). Bydd lefel y cymorth ar gyfer y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw.

Gwasanaethau cymunedol a lleol

Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- ariannu'r gwasanaethau iaith cymunedol a fydd yn cael eu darparu (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi newydd-ddyfodiaid i integreiddio a datblygu'r gallu i siarad Cymraeg yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddog Cynnwys y Gymuned;
- hwyluso'r drafodaeth barhaus â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn i drafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a lliniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddai lefel y lliniaru y cytunir arno yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw; a
- helpu i dalu am wasanaeth cyfieithu cymunedol.

Prisiau tai

Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- sefydlu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr Wylfa Newydd. Byddai'r gwasanaeth hwn a'i grŵp goruchwylio (a fyddai'n cynnwys awdurdodau lleol) yn ffordd o fonitro effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y cyflenwad a'r galw am lety a thai o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd.

Amwynder amgylcheddol

Mae effeithiau niweidiol ar amwynder amgylcheddol, ac yn anuniongyrchol felly ar y Gymraeg a'i diwylliant, yn ymwneud â sŵn, ansawdd aer, y dirwedd ac effaith weledol, ac mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â'r rhain yn cael eu cyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol. Ystyrir nad oes angen mesurau lliniaru sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg a'i diwylliant.

Casgliad

O bwyso a mesur, mae effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hystyried yn effaith niwtral. Mae'r casgliad hwn yn ystyried yr effeithiau niweidiol a nodir, yn bennaf yn ystod y cam adeiladu (ac felly maen nhw'n effeithiau tymor byr) a'r effeithiau manteisiol a nodir, yn bennaf yn ystod y cam gweithredu (sy'n effeithiau tymor hir).

A Cyflwyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd a'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

A.1 Cyflwyniad

A.1.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon) er mwyn cefnogi'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig ar Ynys Môn, gogledd Cymru. Mae'n cyd-fynd â Datganiad Amgylcheddol a gynhyrchwyd i gefnogi'r Cais am DCO.

A.1.2 Fel y nodwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Cymru yn wlad ddwyieithog, lle na ddylid trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ei strategaeth, *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod "*yr iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru.*" [RD9, t.2]. Mae hi'n rhan o'r hyn sy'n diffinio cenedl Cymru ac yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Mae Ynys Môn a Gwynedd ymhlith cadarnleoedd y Gymraeg. Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae Ynys Môn yn cynnwys yr ail gyfran uchaf [RD10].

A.1.3 Mae adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae adran 31 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais, gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

A.1.4 Mae hyn yn sicrhau bod ystyriaeth gyson a phriodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth baratoi ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac wrth benderfynu arnynt.

A.1.5 Mae'r AEIG hwn yn cyflwyno asesiad o effeithiau rhagweledig Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol yn cael eu nodi, cynigir mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella rhai manteisiol.

Prosiect Wylfa Newydd

A.1.6 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi. Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu disgrifio isod. Bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael cydsyniad o dan DCO a bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y naill a'r llall; bydd y Gwaith Morol (gweler isod) yn cael cydsyniad o dan y DCO a'r Drwydded Forol.

Prosiect DCO Wylfa Newydd

A.1.7 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;
- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wylio'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens y ffin a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan;
- Gwaith Morol sy'n cynnwys:
  - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, mannau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
  - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, mannau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas;
- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol;

  Datblygiadau Cysylltiedig

  - Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
  - cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir i weithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
  - Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
  - y newidiadau i Briffordd yr A5025;
  - Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
    - Tŷ Du;

- Cors Gwawr;
- Cae Canol-dydd

A.1.8 Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddisgrifio'r ardaloedd daearyddol sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd a'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu:

- Safle'r Orsaf Bŵer – yr ardaloedd dangosol o dir a môr lle byddai'r rhan fwyaf o'r Orsaf Bŵer barhaol, Gwaith Morol a datblygiadau eraill ar y safle; ac
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd – yr ardaloedd dangosol o dir a môr gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, y Gwaith Morol, Campws y Safle a datblygiadau eraill ar y safle (Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd).

Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu

A.1.9 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol a gwaredu'r deunyddiau ar ôl y gwaith Carthu yn y Safle Gwaredu.

Gwaith Galluogi

A.1.10 Mae'r Gwaith Galluogi yn cynnwys y Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle a'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025.

A.1.11 Mae Horizon wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Gwaith Galluogi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg annibynnol yn cyd-fynd â'r ceisiadau cynllunio hyn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

A.1.12 Er mwyn cynnal hyblygrwydd yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r Cynigion Paratoi a Chlirio'r Safle hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cais am DCO. Nid ydy'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn rhan o'r cais am DCO.

A.1.13 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cydrannau uchod Prosiect DCO Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy'r DCO ar gael yn adran A.3 yr AEIG hwn, ac mae disgrifiadau manwl ar gael yn y penodau canlynol am y datblygiad arfaethedig - D1 (Cyfeirnod y Cais: 6.4.1), E1 (Cyfeirnod y Cais: 6.5.1), F1 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.1), G1 (Cyfeirnod y Cais: 6.7.1) a H1 (Cyfeirnod y Cais: 6.8.1) yn y Datganiad Amgylcheddol.

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

A.1.14 Mae AEIG yn declyn i helpu i wneud penderfyniadau wrth asesu effeithiau posibl prosiect ar yr iaith, diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Mae adran A.2 yr AEIG hwn yn cynnwys canllawiau perthnasol a'r ymarfer gorau o ran sut dylid cynnal AEIG.

A.1.15 Mae AEIG yn asesu effeithiau tebygol datblygiad sy'n cael ei gynnig (Prosiect DCO Wylfa Newydd yn yr achos hwn) ar bum prif agwedd o fywyd cymunedol er mwyn canfod beth ydy'r effaith ar gymuned yn gyffredinol ac, yn fwy

penodol, ar y Gymraeg a'i diwylliant. Dyma'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol sy'n cael eu hystyried mewn AEIG:

- nodweddion y boblogaeth;
- ansawdd bywyd;
- ffactorau economaidd;
- cyflenwad seilwaith ac addysg; ac
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

A.1.16 Mae'r agweddau allweddol hyn yn cael eu diffinio yn adran A.6 yr AEIG hwn.

A.1.17 Pan fydd yr asesiad yn nodi effeithiau niweidiol ar yr iaith, diwylliant a'r gymuned Gymraeg, bydd mesurau lliniaru yn cael eu hawgrymu i liniaru'r effeithiau niweidiol hynny. Pan fydd effeithiau manteisiol yn cael eu canfod, bydd mesurau gwella'n cael eu hawgrymu er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol hyn ymhellach ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg.

Nodau ac amcanion yr AEIG

A.1.18 Nod yr AEIG hwn ydy asesu effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant a'r gymuned.

A.1.19 Mae amcanion yr AEIG wedi'u nodi isod:

- mesur faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd a phroffil cymunedol sy'n berthnasol i ardaloedd yr astudiaeth er mwyn deall sut byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant;
- rhagweld, dadansoddi ac asesu effeithiau tebygol Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys effeithiau cymunedol ac ieithyddol uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau cronnus; a
- llunio mesurau lliniaru a chynigion gwella i leihau effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol a nodwyd fel rhan o'r asesiad.

Grŵp Llywio'r AEIG

A.1.20 Mae Grŵp Llywio gyda chadeirydd annibynnol wedi ei sefydlu i arwain proses yr AEIG a sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cael cyfrannu'n ehangach at AEIG Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae aelodau'r Grŵp Llywio hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, Menter Môn, Llais Ni a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn arsylwi ar waith y Grŵp Llywio, ond nid ydynt yn aelodau.

Dogfennau ategol

A.1.21 Cynhwysir yr atodiadau canlynol gyda'r AEIG:

- atodiad A7-1, Adroddiad Gwaelodlin Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys rhagor o ddata sylfaenol ieithyddol a

chymunedol manwl ar gyfer Ynys Môn, gogledd Cymru ac ardaloedd astudio eraill sy'n cael eu defnyddio yn yr asesiad; ac

- atodiad B4-1, Strategaeth Lliniaru a Gwella yng nghyswllt y Gymraeg a'i Diwylliant, sy'n cyflwyno gwybodaeth gefndir am ddatblygiad y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, trosolwg o'r fethodoleg sydd wedi'i mabwysiadu a'r mesurau sydd wedi cael eu datblygu.

Astudiaethau eraill

A.1.22 Mae nifer o adroddiadau eraill yn cyd-fynd â'r cais am gydsyniad datblygu hefyd. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant a, phan fo'n berthnasol, mae'r AEIG hwn yn cyfeirio at yr adroddiadau eraill hyn, sef:

- Datganiad Amgylcheddol yr Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) (sy'n cynnwys asesiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol penodol);
- Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) (Cyfeirnod y Cais: 8.19); a'r
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Cyfeirnod y Cais: 8.22).

Strwythur y ddogfen

A.1.23 Mae'r AEIG hwn yn dilyn strwythur a dull tebyg i'r hyn a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Interim Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau [RD11].

A.1.24 Mae'r AEIG hwn wedi'i rannu yn naw o gyfrolau (A i I).

- Mae cyfrol A yn cyflwyno Prosiect DCO Wylfa Newydd a'r AEIG. Caiff y gyfrol ei chefnogi gan atodiad sy'n nodi data sylfaenol cymunedol ac ieithyddol manwl.
- Mae cyfrol B yn cyflwyno'r asesiad o'r effeithiau hynny y mae'n fwy priodol eu hystyried ar lefel y prosiect cyfan yn hytrach nag ystyried pob datblygiad cyfansoddol yn ei dro. Caiff mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd. Caiff y gyfrol hon ei chefnogi gan atodiad sy'n cyflwyno manylion y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).
- Mae cyfrol C yn cyflwyno'r asesiad o'r effeithiau sy'n deillio o ddatblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, heblaw am y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig. Caiff mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd.
- Mae cyfrol D yn cyflwyno'r ystyriaeth a roddwyd i effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, hy y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol. Caiff

mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd.

- Mae cyfrol E yn cyflwyno'r ystyriaeth a roddwyd i effeithiau'r cyfleuster Parcio a Theithio. Caiff mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd.
- Mae cyfrol F yn cyflwyno'r ystyriaeth a roddwyd i effeithiau'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Caiff mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd.
- Mae cyfrol G yn cyflwyno'r ystyriaeth a roddwyd i effeithiau'r Ganolfan Logisteg. Caiff mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella rhai manteisiol eu cyflwyno hefyd.
- Mae cyfrol H yn cyflwyno'r asesiad o effeithiau cronnus gwahanol ddatblygiadau Prosiect DCO Wylfa Newydd ac effeithiau cronnus Prosiect DCO Wylfa Newydd ynghyd â phrosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol.
- Mae cyfrol I yn rhoi'r cyfeirnodau ar gyfer yr AEIG.

A.2 Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau

Cyflwyniad

A.2.1 Mae'r AEIG yn ymateb i'r ddeddfwriaeth berthnasol, y fframweithiau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol a strategaethau sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel mater cynllunio.

Pam fod angen cynnal AEIG?

A.2.2 Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, ac felly mae iddi rym cyfreithiol ac ni ddylid ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

A.2.3 Mae modd ystyried mai Ynys Môn a Gwynedd ydy'r fro Gymraeg lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, wrth gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru. Er mai dim ond 19% o boblogaeth Cymru oedd yn siarad Cymraeg yn 2011, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn uwch o lawer: 57.2% a 65.4% yn y drefn honno [RD10]. Ar ben hynny, mae Horizon yn cydnabod bod y Gymraeg a'i diwylliant yn elfennau annatod o wead cymdeithasol y cymunedau a'u bod wrth galon yr ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan lawer o bobl.

A.2.4 Bydd ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, fel newidiadau demograffig, yr economi, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd a phrisiau tai a'r system addysg. Felly, mae'n hanfodol deall effeithiau tebygol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ffactorau o'r fath er mwyn asesu'r effeithiau ar ffyniant yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol.

A.2.5 Yng Nghymru, mae'r iaith Gymraeg hefyd yn ystyriaeth gynllunio statudol o bwys y mae'n rhaid rhoi sylw iddi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys datblygiadau mawr fel Prosiect DCO Wylfa Newydd. Yn unol â

pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol (gweler tablau A-1 i A-5), rhaid i rai prosiectau yng Nghymru fynd drwy broses asesu benodol oherwydd eu natur, eu maint a'r tebygolrwydd y byddant yn effeithio'n sylweddol ar y Gymraeg. Gelwir y broses asesu hon yn 'AEIG'.

A.2.6 Mae'r AEIG yn ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol, fframweithiau polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a strategaethau sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel mater cynllunio. Caiff deddfwriaeth a pholisi perthnasol eu rhestru yn nhablau A-1 i A-5.

Deddfwriaeth genedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio

Tabl A-1 Deddfwriaeth genedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio

Dogfen	Crynodeb
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae pump o Reoliadau Safonau'r Gymraeg wedi'u mabwysiadu ers mis Mawrth 2015, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Gweinidogion Cymru a sefydliadau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rheoliadau yn pennu safonau darparu gwasanaeth; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion ar gyfer sefydliadau. Dyma nodau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg: • gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg; • cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg; • dweud yn glir wrth sefydliadau beth mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg; a • sicrhau bod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau sydd ar gyrff yn yr un sector.
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013	Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer camu i mewn i ysgolion sy'n peri pryder, gwella ysgolion, trefniadaeth ysgolion a'r Gymraeg mewn Cynlluniau Strategol Addysg. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Nod y Strategaeth yw creu system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod yr iaith yn ffynnu a chynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.

Dogfen	Crynodeb
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Yn gosod nodau uchelgeisiol, tymor hir o ran llesiant i adlewyrchu'r Gymru y mae pobl Cymru eisiau byw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu mwy cydlynol – gan helpu i greu Cymru rydyn ni eisiau byw ynddi nawr ac yn y dyfodol. Un o'i nodau yw creu Cymru â diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu a lle mae cymdeithas yn hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'n nodi carreg filltir bwysig i'r iaith, gan danlinellu ei statws swyddogol.
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 6 Gorffennaf 2015 ac mae'n gwneud darpariaethau eang. Mae adrannau 11 a 31 y Ddeddf yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae Adran 11 y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar yr iaith Gymraeg. Mae adran 31 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais, gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy adran yn sicrhau bod ystyriaeth gyson a phriodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith polisi iaith

Tabl A-2 Polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith polisi iaith

Dogfen	Crynodeb
Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) [RD12]	Mae Pennod 4 (Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd) yn nodi'r iaith Gymraeg fel rhan o wead diwylliannol a chymdeithasol Cymru a bod Llywodraeth Cymru wedi ymroi i sicrhau y caiff yr iaith Gymraeg ei chefnogi a'i hannog i ffynnu. Gall ystyriaethau'n ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar yr amod eu bod yn berthnasol i'r cais.
Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg [RD7]	Mae'n cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Bydd dyfodol yr iaith ledled Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau y tu hwnt i system gynllunio'r dref a'r wlad, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn er mwyn cynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu. Mae'n cynghori ar rôl y system cynllunio defnydd tir i gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg yn y dyfodol drwy sefydlu'r amodau i ganiatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau, gellid rhoi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol. Nid yw Adran 70(2) y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol ar y Gymraeg uwchlaw unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, ac mae'n rhaid i benderfyniadau ar yr holl geisiadau am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar resymau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.
Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008) [RD13]	Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi fframwaith strategol er mwyn cyfeirio ymyriadau datblygu a pholisi yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n nodi *"bod gan y Gymraeg ran bwysig i'w chwarae yn ein cymunedau ac y dylid ei hyrwyddo fel nodwedd gadarnhaol i'r ardal".*

Strategaethau addysg ac iaith cenedlaethol

Tabl A-3 Strategaethau addysg ac iaith cenedlaethol

Dogfen	Crynodeb
Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr [RD9]	Cafodd y strategaeth ei lansio gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 10 Gorffennaf 2017 er mwyn cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn dweud bod *"yr her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol"* [RD10, t.4]. Mae tair thema strategol wedi'u nodi yn y strategaeth er mwyn gwireddu'r weledigaeth: • cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; • cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a • chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg [RD14]	Mae'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwneud gwelliannau o ran addysgu a dysgu'r Gymraeg fel iaith, gan gynnwys, yn benodol, Cymraeg ail iaith. Prif nod y strategaeth yw cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith â'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Polisïau cynllunio lleol

A.2.7 Mae prif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol (fel sy'n cael ei diffinio yn nhabl A-10 yr AEIG hwn) at ddiben yr AEIG hwn yn cynnwys ardaloedd daearyddol sydd yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy yn ogystal â rhannau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Tabl A-4 Polisïau cynllunio lleol

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016. Datganiad Ysgrifenedig (CDLlC) [RD15]	*Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016.* Dyma *Ddatganiad Ysgrifenedig* sy'n cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, a pholisïau eraill i hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn ceisio hwyluso'r math o ddatblygiad a all greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu tuag at gynnal a chreu cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Mae polisïau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ystyried mesurau i wella a diogelu'r iaith a'i diwylliant. Mae Polisi Strategol PS9 yn benodol i Brosiect DCO Wylfa Newydd a datblygiadau perthnasol. Mae'n esbonio'r ffactorau y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi sylw manwl iddynt wrth ystyried gwahanol elfennau o Brosiect DCO Wylfa Newydd, sy'n cynnwys effeithiau ieithyddol wrth ystyried gofynion llety y gweithwyr. Mae Polisi Strategol PS10, sy'n ymwneud â llety dros dro ar ffurf campws ar raddfa fawr ar gyfer gweithwyr adeiladu, yn benodol yn gofyn am fecanweithiau priodol i liniaru effaith niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant neu gyfraniad at liniaru'r effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS1 a Pholisi ISA1 y cynllun.
Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 [RD16]	Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, ac mae polisïau eraill yn hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn gofyn am ddatblygu i gefnogi a chynnal llesiant tymor hir y Gymraeg.
Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022 [RD17]	Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, ac mae polisïau eraill yn hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn ceisio hwyluso'r math o ddatblygu sy'n cynnal neu'n cryfhau integredd y Gymraeg.
Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg [RD3]	Mae'n cynnig arweiniad ar sut bydd yr awdurdod cynllunio yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag effeithiau'r datblygiadau arfaethedig ar y Gymraeg ac yn rhoi cyngor ar y wybodaeth ategol a all fod yn ofynnol gyda cheisiadau cynllunio unigol.
Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg [RD4]	
Canllawiau Cynllunio Atodol LDP6; Yr Iaith Gymraeg [RD5]	

Dogfen	Crynodeb
Canllawiau Cynllunio Atodol 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg [RD6]	
Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA Wylfa) [RD18]	Mae CCA Wylfa yn nodi gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, sy'n cyd-fynd â dyheadau economaidd-gymdeithasol ehangach Cyngor Sir Ynys Môn a'r dyheadau o ran etifeddiaeth mewn perthynas â phob datblygiad newydd ar yr ynys. Mae'r weledigaeth fel a ganlyn, "*Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol*". Mae CCA Wylfa yn cynnwys polisi (GP13) sy'n ystyried ei bod yn hanfodol bod Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnal a, lle bo'n bosibl, yn cryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant fel rhan bwysig o wead cymdeithasol a hunaniaeth gymunedol Ynys Môn. Cyhoeddwyd Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd: Drafft Ymgynghori ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2018. Mae'r CCA drafft yn destun ymgynghoriad adeg cyflwyno'r ddogfen hon, ac mae'n cynnwys sylwadau y mae Horizon wedi'u cyflwyno. Felly ni ellir rhoi llawer o bwysau arno. Cyhoeddwyd y CCA drafft ar ôl cynnal yr asesiad hwn, felly nid yw wedi cael ei ystyried wrth asesu na datblygu mesurau lliniaru. Er hynny, mae'n berthnasol fod bwriad y CCA drafft o ran asesu a lliniaru yn gyson â'r CCA a fabwysiadwyd. Mae statws y CCA yn cael ei ddadansoddi ymhellach yn y Datganiad Cynllunio (Cyfeirnod y Cais: 8.1).

Strategaethau lleol

Tabl A-5 Strategaethau lleol

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 [RD19]	Nod y Cynllun yw sicrhau bod addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r seilwaith addysg. Mae hefyd yn ceisio gwella'r broses o gynllunio darpariaeth a dilyniant cyfrwng Cymraeg ar draws pob ystod oedran, gan wella sgiliau iaith a chodi safonau'r Gymraeg a Chymraeg fel ail iaith. Mae saith deilliant wedi'u nodi er mwyn cyflawni nod y Cynllun.

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 [RD20]	Prif nod y Cynllun yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei datblygu fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen. Nod y Cynllun yw dwyieithrwydd gyda chydbwysedd o blaid y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer datblygu rhagor. Mae saith deilliant wedi'u nodi er mwyn cyflawni nod y Cynllun.
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy [RD21]	Nod y Cynllun yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae saith deilliant wedi'u nodi er mwyn cyflawni nod y Cynllun.
Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn 2013-2025 [RD22]	Mae'n canolbwyntio sylw ar wella ansawdd bywyd pobl a chymunedau lleol drwy wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r cyfleoedd yn y sector ynni carbon-isel yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella perfformiad economaidd a lefel sgiliau'r gweithlu ar Ynys Môn. Hefyd, mae'r cynllun yn nodi bod y Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth yn elfennau ffyniannus ac annatod o wead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn.
Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-2017 [RD23]	Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod pwysigrwydd y Rhaglen Ynys Ynni o ran cynnig cyfle 'unwaith mewn cenhedlaeth' i greu nifer sylweddol o swyddi newydd o ganlyniad i'r buddsoddi arfaethedig a thwf posibl yn y sector ynni carbon isel. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi bod angen i Gyngor Sir Ynys Môn ddatblygu cynlluniau a fydd yn creu mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc, yn gwella seilwaith ac yn cynnal y gadwyn gyflenwi. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bod y Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu hyrwyddo drwy weithredu strategaeth iaith Gymraeg sydd wedi'i datblygu.

Dogfen	Crynodeb
Strategaeth y Gymraeg Ynys Môn 2016-2021 [RD24]	Strategaeth iaith Gymraeg a luniwyd gan y Fforwm Strategol Iaith yn Ynys Môn, sef fforwm wedi'i gadeirio'n annibynnol sy'n cynnwys aelodau o sefydliadau a grwpiau amrywiol. Mae'r strategaeth iaith yn dynodi tri maes strategol sy'n sail i'r strategaeth, sy'n cynnwys: • plant a phobl ifanc/y teulu; • y gweithle, gwasanaethau Cymraeg eu hiaith, y seilwaith; ac • y gymuned.
Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 [RD25]	Strategaeth Iaith Gymraeg wedi'i llunio gan 'hunaniaith', sef corff sy'n gweithredu fel menter iaith yng Ngwynedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymestyn cyfnod gweithredu'r strategaeth bresennol hyd at 2018 er mwyn sicrhau bod y strategaeth nesaf yn gyson â chynllun Llesiant Gwynedd ac i sicrhau bod y blaenoriaethau a'r cyfeiriad strategol a nodir yn y ddwy ddogfen mewn perthynas â'r Gymraeg, yn adlewyrchu ac yn cryfhau ei gilydd. Mae'r strategaeth iaith yn dynodi chwe maes strategol sy'n sail i'r strategaeth, sy'n cynnwys: • y teulu; • plant a phobl ifanc; • cymunedau; • gwasanaethau Cymraeg; • y gweithle; a • seilwaith.

Canllawiau perthnasol eraill

A.2.8 Mae canllawiau perthnasol eraill wedi'u crynhoi yn nhabl A-6 ynghyd ag amlinelliad o'r materion mae angen eu hystyried yn yr AEIG hwn.

Tabl A-6 Canllawiau perthnasol eraill

Dogfen	Crynodeb
Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen [RD2]	Y ddogfen hon yw'r gwaith a gwblhawyd gan gonsortiwm o sefydliadau a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn cynrychioli ymdrechion yr holl bartneriaid sydd â diddordeb mewn datblygu dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r iaith Gymraeg er mwyn hybu lles yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol. Nid yw'r ddogfen hon yn cynrychioli safbwynt polisi cynllunio unrhyw un o'r cyrff a gymerodd ran.

Dogfen	Crynodeb
	Mae'r ddogfen yn cynnig y canllawiau arfer gorau ar y fethodoleg ar gyfer cynnal AEIG. Caiff hyn ei adlewyrchu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn perthynas â'r Gymraeg.

A.3 Trosolwg o'r prosiect a chyflwyniad i'r datblygiadau

Cyflwyniad

A.3.2 Gall pŵer niwclear chwarae rhan hollbwysig o ran diwallu'r her o gynnal cyflenwadau sicr o ynni ar gyfer y DU. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) (NPS EN-6) yn dynodi lleoliad y Prosiect arfaethedig fel safle a allai fod yn addas ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear newydd erbyn diwedd 2025.

A.3.3 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyrraedd y targed sydd wedi'i osod mewn cyfraith i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o leiaf erbyn 2050, ar sail lefelau 1990. Gan fod pŵer niwclear yn ffynhonnell ynni carbon isel, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn glir fod lle pwysig iddo o ran amrywio a datgarboneiddio'r galw am drydan.

A.3.1 Rhoddir cyflwyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd yn adran A.1 yr AEIG hwn, ac mae cyflwyniad i gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu rhoi isod.

Gorsaf Bŵer, datblygiadau eraill ar y safle a Gwaith Morol

Gorsaf Bŵer

- **Y Prif Offer** - byddant wedi'u lleoli ar un ynys pŵer ac yn cynnwys y rhannau hynny o'r Orsaf Bŵer sy'n galluogi cynhyrchu pŵer:
  - dau adeilad adweithydd;
  - dau adeilad tyrbin;
  - dau adeilad rheoli;
  - un adeilad gwasanaeth; ac
  - un adeilad gwastraff ymbelydrol.
- **Offer cyffredin gan gynnwys ABWR** - sy'n cynnwys y rhannau hynny o'r Orsaf Bŵer sy'n gwasanaethu cynhyrchu pŵer ond sy'n cael eu rhannu rhwng y ddau UK ABWR:
  - adeiladau gwastraff ymbelydrol cyffredin; a
  - System Dŵr Oeri (sydd hefyd yn rhan o'r Gwaith Morol).
- **Cyfleusterau, adeiladau, strwythurau a nodweddion ategol:** y rhannau o'r Orsaf Bŵer sy'n angenrheidiol er mwyn ategu'r gwaith o adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r prif offer, gan gynnwys:

- swyddfeydd; a
- chyfleusterau diogelwch.

Datblygiadau eraill ar y safle

- gwaith tirweddu a phlannu;
- draeniau;
- systemau rheoli dŵr wyneb;
- gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol;
- Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol ar y safle;
- meysydd parcio;
- compowndiau adeiladu a meysydd parcio dros dro;
- ardaloedd gosod;
- ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro;
- ardal dros dro i wylio'r gwaith adeiladu;
- dargyfeirio cyfleustodau;
- ffens y ffin; a
- ffensys adeiladu.

Gwaith Morol

A.3.2 Mae'r Gwaith Morol yn cynnwys:

- Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, strwythurau sugno a gollwng y System Dŵr Oeri, Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, mannau gollwng draeniau dŵr wyneb, system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu (*dredging*);
- Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, mannau gollwng ac angorfa dros dro i gychod camlas.

A.3.3 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o Ardal Datblygu Wylfa Newydd a Safle'r Orsaf Bŵer ar gael ym mhennod D1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.1).

Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu

A.3.4 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol Parhaol, y Gwaith Morol Dros Dro, gwaredu deunyddiau sydd wedi'u carthu *(dredged)* yn y Safle Gwaredu (yng ngogledd Caergybi), draenio dŵr wyneb i'r môr, adeiladu man gollwng elifion trin dŵr gwastraff a draenio carthion sydd wedi'u trin i'r môr.

Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

A.3.5 Byddai'r holl Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar yr un safle. Mae'r safle sydd wedi'i ddewis wrth ymyl yr A5025 yn Llanfaethlu, sydd 7.5 km o Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ar safle sy'n cael ei ddefnyddio ar hyd o bryd fel garej a lle parcio cerbydau. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys:

- Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen i ddarparu cyfleusterau cyfathrebu a rheoli wrth gefn a fyddai'n cael eu defnyddio i reoli digwyddiad yn yr Orsaf Bŵer o bell petai digwyddiad eithriadol o annhebygol yn digwydd ac nad oes modd cynnal y prif gyfleusterau yn Safle'r Orsaf Bŵer neu os nad oes ffordd o gyrraedd Safle'r Orsaf Bŵer.
- Garej Offer Argyfwng Symudol i alluogi Horizon i storio nifer o gerbydau arbenigol mewn lleoliad sy'n agos at Safle'r Orsaf Bŵer ond ar wahân iddo, gan ganiatáu iddynt gael eu defnyddio i gefnogi digwyddiad ar frys yn ôl yr angen. Byddai modd defnyddio'r Garej Offer Argyfwng Symudol hefyd fel pwynt stiwardio ar gyfer y gefnogaeth a fyddai'n cyrraedd ar Ynys Môn cyn symud ymlaen i Safle'r Orsaf Bŵer mewn sefyllfa frys. Byddai'r Garej Offer Argyfwng Symudol yn yr un adeilad â'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen;
- Byddai Labordy Arolygon Amgylcheddol yn perfformio swyddogaeth weithredu arferol o ddydd i ddydd ar gyfer monitro amgylcheddol ac o'r herwydd byddai'n cynnwys cyfleusterau fel offer monitro ymbelydredd i gynnal arolygon radiolegol yn yr ardal leol;
- meysydd parcio ceir a llwybrau i gerddwyr;
- mynediad ac ardaloedd danfon;
- generadur;
- adeilad y pwmp;
- pwmp tanwydd a man llenwi;
- is-orsaf;
- dau danc tanwydd tanddaearol;
- compownd ysbwriel;
- podiau swyddfa symudol;
- lleoliad i storio cynhwysyddion;
- ffensys diogelwch; a
- phant draenio.

A.3.6 Byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cael eu defnyddio yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae angen y cyfleusterau er mwyn darparu gwytnwch yn erbyn digwyddiadau eithriadol sy'n annhebygol iawn.

A.3.7 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gael ym mhennod E1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.5.1).

Datblygiadau Cysylltiedig

A.3.8 Mae'r Datblygiadau Cysylltiedig yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac mae'n cynnwys Campws y Safle; cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir ar gyfer y gweithwyr adeiladu; Canolfan Logisteg ym Mharc Cybi; a'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae pob un o'r rhain yn cael eu disgrifio isod.

Campws y Safle

A.3.9 Byddai Campws y Safle yn darparu llety i weithwyr dros dro ar dir i'r gogledd ddwyrain o Ardal Datblygu Wylfa Newydd, a byddai'n cael ei gyflawni fesul cam. Byddai Campws y Safle yno yn ystod cam adeiladau'r Orsaf Bŵer yn unig. Pan na fyddai eu hangen mwyach, byddai adeiladau Campws y Safle yn cael eu symud oddi yno a byddai'r ardal yn cael ei dychwelyd i'w chyflwr cyn iddi gael ei datblygu. Byddai llwybrau troed cyhoeddus a mynediad i Faes Parcio'r Fisherman yn cael eu hadfer ar ôl datgomisiynu.

A.3.10 Byddai Campws y Safle yn cynnwys:

- llety ar gyfer tua 4,000 o weithwyr ar ffurf modiwlau 'campws' (gan ddarparu lle byw annibynnol ar gyfer pob gweithiwr);
- Canolfan Feddygol Campws y Safle (ar lawr gwaelod bloc llety);
- adeilad amwynder gan gynnwys:
  - ffreutur;
  - caffi;
  - ardal dderbynfa;
  - campfa;
  - bar; a
  - gofod cymdeithasol arall.
- cyfleusterau hamdden yn yr awyr agored gan gynnwys dwy ardal gemau aml-ddefnydd, seddi yn yr awyr agored a mannau cyhoeddus anffurfiol;
- ffordd fynediad i Gampws y Safle (o'r safle i'r A5025);
- man gollwng i fysiau a lle parcio;
- llefydd parcio anabl (staff yn unig) a lle parcio ar gyfer faniau ysgafn/bysiau mini;
- llefydd parcio dros dro i weithwyr;
- ffyrdd mynediad mewnol ar gyfer cerddwyr, cerbydau gwasanaeth a cherbydau brys;
- ffens Paladin 2.4m o uchder o amgylch y ffin;
- gwaith tirweddu meddal; ac
- is-orsaf eilaidd, cywasgwr, lle i storio beics a biniau.

A.3.11 Byddai'r cyfanswm o tua 4,000 o welyau yn cael eu darparu dros gyfanswm o hyd at 25 adeilad a fyddai â rhwng pedwar a saith llawr. Byddai pob adeilad yn darparu rhwng 128 a 224 o welyau.

A.3.12 Byddai gwasanaethau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r llety i weithwyr, er na fyddent yn cael eu darparu ar Gampws y Safle ei hun, yn cynnwys y canlynol:

- byddai hyd at 800 o lefydd parcio cysylltiedig ar gael i'r de o Gampws y Safle, wrth ymyl y ffordd fynediad (er yn ystod y camau cychwynnol, byddai 400 o lefydd ar gael ar Gampws y Safle i'r dwyrain o'r adeilad amwynderau);
- bydd cyfleuster o fewn ffens ddiogelwch Safle'r Orsaf Bŵer yn trin mân anafiadau. Bydd y cyfleuster hwn hefyd yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau mwy difrifol hefyd; ac
- estyniad i waith trin carthion Dŵr Cymru (nid ydy hyn yn rhan o Brosiect DCO Wylfa Newydd gan ei fod yn cael ei wneud gan y cwmni dŵr lleol).

A.3.13 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o Gampws y Safle ar gael ym mhennod D1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.1).

Parcio a Theithio

A.3.14 Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig yn Dalar Hir yn union i ogledd ddwyrain Cyffordd 4 ar yr A55 a thua 18.5km o Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

A.3.15 Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cynnwys:

- lle diogel i barcio hyd at 1,900 o geir a fyddai'n cynnwys lle ar gyfer 10 car anabl, yn ogystal â lle ar gyfer 55 bws mini a 35 o feics modur;
- parth aros am fysiau a chodi a gollwng ar gyfer hyd at 15 o fysiau gyda lle parcio ychwanegol ar gyfer wyth bws;
- cyfleuster trafnidiaeth bws a fyddai'n darparu:
  - gwybodaeth am drafnidiaeth;
  - ardal aros;
  - cyfleusterau lles;
  - ffreutur ar gyfer gyrwyr y bysiau;
  - cyfleusterau swyddfa rheoli.
- mynediad drwy gylchfan newydd wrth ymyl cyffordd bresennol yr A55-A5 (Cyffordd 4);
- tirweddu a phlannu sgrin er mwyn lliniaru'r effaith weledol;
- datblygiadau ategol eraill, gan gynnwys lle i storio hyd at 25 beic, arwyddion, ffensys, goleuadau, camerâu cylch cyfyng a chyfleustodau;
- croesfan ym mhen dwyreiniol y safle.

A.3.16 Byddai'r Parcio a Theithio hwn yn cael ei ddefnyddio yn ystod cam adeiladu'r Orsaf Bŵer er mwyn cludo a rheoli llif rhai o weithlu'r cam adeiladu yn ôl ac ymlaen o Ardal Datblygu Wylfa Newydd, er mwyn lleihau nifer y cerbydau a fydd yn cael eu gyrru i Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

A.3.17 Ar ôl adeiladu'r Orsaf Bŵer, byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn dod i ben a byddai'r tir yn cael ei adfer i'w ddefnydd blaenorol (tir amaethyddol). Byddai llinell bresennol y gwrych a llinell newydd arfaethedig y gwrych i'r gorllewin o'r

safle, ynghyd â phlannu coed a llwyni, gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol, ar hyd y ffin ddeheuol yn cael eu cadw fel budd i'r dyfodol.

A.3.18 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o'r cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir ar gael ym mhennod F1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.6.1).

Newidiadau i Briffordd yr A5025

A.3.19 Mae'r prif lwybr i Ardal Datblygu Wylfa Newydd o'r tir mawr a'r porthladd yng Nghaergybi yn rhedeg ar hyd yr A55, yr A5 a'r A5025. Roedd astudiaethau gan Horizon yn 2010-2011 (sy'n cael eu crynhoi ym mhennod G2 y Datganiad Amgylcheddol (dewisiadau amgen ac esblygiad y dyluniad) (Cyfeirnod y Cais: 6.7.2)) yn nodi bod cyfyngiadau ffisegol a gweithredol ar y darn o'r A5025 rhwng cymuned y Fali a ffordd fynediad yr Orsaf Bŵer Bresennol o ran lled ac aliniad y ffordd, y cyfleoedd i oddiweddyd a chyflwr wyneb y ffordd.

A.3.20 Byddai angen amrywiaeth o waith i wella'r A5025 er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon presennol o ran diogelwch ac o ran yr amgylchedd ac i liniaru effeithiau adeiladu a gweithredu'r Prosiect.

A.3.21 Mae'r Newidiadau arfaethedig i Briffordd yr A5025 yn rhan bwysig o Brosiect DCO Wylfa Newydd, ac yn angenrheidiol fel rhan o'r Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ehangach. Mae'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn golygu adeiladu rhannau newydd o ffordd fel ffyrdd osgoi a gwaith ail-alinio'r ffordd.

A.3.22 Mae'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn ceisio mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol posibl ar gymunedau, gan gynnwys sŵn oherwydd mwy o draffig a gwahanu cymunedau.

A.3.23 Mae'r A5025 rhwng y Fali a Safle'r Orsaf Bŵer tua 16.5km o hyd ac, yn ddaearyddol, mae modd ei disgrifio mewn wyth adran yn gyffredinol. Mae Adrannau 1, 3, 5 a 7 yn ymwneud â'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.

A.3.24 Mae modd disgrifio'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 fel a ganlyn:

- adran 1 – rhwng yr A5 i'r dwyrain o Gyffordd y Fali ac i'r gogledd o Gyffordd y Fali – cylchfan pedair braich arfaethedig a ffordd osgoi yn cysylltu'r A5 â'r A5025 i'r dwyrain o gyffordd bresennol yr A5/A5025 sydd â signalau;
- adran 3 – rhwng i'r gogledd o Lanynghenedl ac i'r gogledd o Lanfachraeth – 2km o briffordd arfaethedig i ddarparu ffordd osgoi i'r dwyrain o bentref Llanfachraeth;
- adran 5 – rhwng i'r de o Lanfaethlu ac i'r gogledd o Lanfaethlu – ffordd osgoi arfaethedig er mwyn sythu dau dro nad ydynt yn cyrraedd y safon ar hyn o bryd ger tafarn y Llew Du a drwy Lanfaethlu;
- adran 7 – rhwng i'r gogledd o Lanrhuddlad ac i'r gogledd o Gefn Coch – ffordd osgoi arfaethedig er mwyn cael gwared â dau dro nad ydynt yn cyrraedd y safon ar hyn o bryd yn Llanrhwydrys;

- cyffordd Ffyrdd Fynediad Gorsaf Bŵer newydd - cyffordd cylchfan arfaethedig sy'n cysylltu Ffordd Fynediad arfaethedig yr Orsaf Bŵer â phriffordd gyhoeddus bresennol yr A5025.

A.3.25 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar gael ym mhennod G1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.7.1).

A.3.26 Mae'r Gwelliannau arfaethedig i Briffordd yr A5025 yn cynnwys adnewyddu'r ffordd gerbydau bresennol a gwaith lledu bach o fewn neu wrth ymyl ffin y briffordd. Mae Adrannau 2, 4, 6 ac 8 yn ymwneud â'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025. Mae'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn destun cais cynllunio ar wahân i Gyngor Sir Ynys Môn o dan *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*.

Canolfan Logisteg

A.3.27 Byddai'r Ganolfan Logisteg arfaethedig i'r gogledd orllewin o ardal gyflogaeth ehangach Parc Cybi, tua 19km o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai'r Ganolfan Logisteg yn cynnwys:

- adeilad lles/swyddfa;
- ciosg diogelwch;
- pwynt rhoi cyfarwyddiadau i yrwyr;
- bae archwilio dan do;
- sganiwr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV); a
- pharthau parcio (100 bae parcio ar gyfer cerbydau HGV, MGV a LGV, 12 bae parcio i staff (gan gynnwys un lle anabl)).

A.3.28 Byddai'r Ganolfan Logisteg yn cael ei defnyddio yn ystod cam adeiladu'r Orsaf Bŵer er mwyn rheoli llif y traffig ar hyd yr A5025, er mwyn atal cerbydau rhag gadael yn un ar ôl y llall ac er mwyn osgoi adegau sensitif o'r dydd (fel oriau brig o ran gwaith ac amser danfon a chasglu plant o'r ysgol).

A.3.29 Ar ôl adeiladu'r Orsaf Bŵer, byddai'r safle ar gael at ddefnydd arall yn amodol ar gael y cysyniadau angenrheidiol.

A.3.30 Mae rhagor o ddisgrifiadau manwl o'r Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi ar gael ym mhennod H1 y Datganiad Amgylcheddol (datblygiad arfaethedig) (Cyfeirnod y Cais: 6.8.1).

Cais perthnasol gan y National Grid

A.3.31 Byddai'r ynni trydanol a gynhyrchir gan yr Orsaf Bŵer yn cael ei drosglwyddo i'r National Grid drwy'r is-orsaf 400kV bresennol. Mae'r cysylltiad o'r is-orsaf 400kV i'r National Grid ym Mhentir ger Bangor ar dir mawr Cymru yn brosiect DCO ar wahân, sy'n cael ei adnabod fel Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ac sy'n cael ei gyflawni ar wahân gan National Grid Electricity Transmission plc. Bydd y cais am DCO ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru hefyd yn cynnwys Datganiad Amgylcheddol ac AEIG. Mae effeithiau cronnus Prosiect DCO Wylfa Newydd ynghyd â Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru wedi cael eu hasesu, ac maen nhw'n cael eu cyflwyno yng nghyfrol H.

Ardaloedd lliniaru ecolegol

A.3.32 Mae Horizon wedi ymrwymo i ddarparu pecyn gwneud iawn a fyddai'n creu ardaloedd newydd o gynefinoedd corsiog cyfoethog ac yn gwella ardaloedd o gynefinoedd corsiog cyfoethog sydd eisoes yn bodoli mewn tri safle ar Ynys Môn:

- Tŷ Du;
- Cors Gwawr; a
- Cae Canol-dydd.

A.3.33 Mae rhagor o fanylion am y gwaith yma, gan gynnwys cynlluniau sy'n dangos eu lleoliad, ar gael yn y Datganiad Amgylcheddol atodiadau D9-23 a D9-24 (Strategaeth Gwneud Iawn SoDdGA – Cyfrolau I (Cyfeirnod y Cais: 6.4.56) a II (Cyfeirnod y Cais: 6.4.57)).

Rhaglen amlinellol o'r camau adeiladu a gweithredu

A.3.34 Disgwylir y bydd rhaglen adeiladu'r Orsaf Bŵer yn dechrau ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu. Mae disgwyl i'r Prif Gam Adeiladu gymryd tua naw mlynedd, gyda'r uned ABWR gyntaf yn weithredol saith mlynedd ar ôl cael cydsyniad datblygu, a'r ail uned ABWR yn weithredol tua dwy flynedd wedyn.

A.3.35 Byddai'r gwaith o adeiladu'r cyfleuster storio tanwydd wedi'i ddefnyddio yn dechrau tua 14 mlynedd ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu, ac ni fyddai angen hyn tan tua 2035. Byddai'r cyfleuster storio Gwastraff solet Lefel Ganolradd yn cael ei adeiladu yr un pryd. Mae rhagor o fanylion am waith adeiladu ar gael yn atodiad D1-1 y Datganiad Amgylcheddol (datganiad dull adeiladu) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.17).

A.3.36 Byddai gweithgareddau fel gwaith cloddio mawr, gwaith cloddio dwfn, cloddio creigiau ac adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol yn dechrau yn y flwyddyn gyntaf ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu. Mae'n debyg byddai gweithgareddau adeiladu, cynhyrchu concrit, dosbarthu a gosod, gwaith atgyfnerthu dur, defnyddio craeniau, mynediad i strwythurau a logisteg cysylltiedig y safle yn cyrraedd eu hanterth yn ystod blwyddyn 4, ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu.

A.3.37 Rhagwelir y byddai'r gwaith o adeiladu Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn dechrau yn y drydedd flwyddyn ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu, ac yn para tua dwy flynedd. Byddai Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar waith hyd at gam datgomisiynu'r Orsaf Bŵer.

A.3.38 Rhagwelir y byddai'r gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn dechrau yn y flwyddyn gyntaf ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu, ac y byddai'r gweithgareddau adeiladu ar y safle'n para am tua 18 mis. Byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud fesul cam er mwyn paratoi ar gyfer pan fydd y gweithlu adeiladu'n cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod pan fydd yr Orsaf Bŵer yn cael ei hadeiladu. Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei ddefnyddio am tua 10 mlynedd.

A.3.39 Bwriedir i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 gael eu cwblhau mewn da bryd ar gyfer dechrau ar y gweithgareddau adeiladu mawr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Disgwylir i gam adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ddechrau yn haf 2019 a phara am tua 18 mis. Yna byddai'r ffyrdd ar agor i draffig yn gynnar yn 2021.

A.3.40 Disgwylir y byddai'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi yn dechrau yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu, ac yn para am tua 15 mis. Disgwylir y byddai'r Ganolfan Logisteg yn weithredol am gyfnod o tua 10 mlynedd.

A.3.41 Disgwylir y byddai'n debygol y byddai Campws y Safle yn weithredol tua dwy flynedd ar ôl dyfarnu cydsyniad datblygu, ac yn weithredol am bum mlynedd, gyda'r lefelau meddiannaeth uchaf yn ystod dwy flynedd olaf ei gam gweithredu. Fodd bynnag, byddai Campws y Safle yn cael ei ddylunio i gael ei ddefnyddio am o leiaf 10 mlynedd. Byddai'n cael ei adeiladu mewn tri cham. Byddai'r cam cyntaf yn darparu llety ar gyfer tua 1,000 o weithwyr (cam un), yna'n cynyddu'n raddol i ddarparu llety ar gyfer tua 2,500 o weithwyr (cam dau) a thua 4,000 o weithwyr (cam tri).

Y gweithlu adeiladu

A.3.42 Byddai angen miloedd o weithwyr adeiladu yn ystod y rhaglen adeiladu a fydd yn para am tua naw mlynedd, ac mae disgwyl y bydd cynifer â 8,500 o weithwyr shifftiau yn ystod y cyfnodau prysuraf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnydd annisgwyl yn nifer y gweithwyr yn cael ei liniaru, defnyddir uchafswm o 9,000 o weithwyr at ddibenion asesu. Gwelir yr eithriad i hynny mewn asesiadau lle mae'r nifer is o weithwyr yn cynrychioli'r sefyllfa 'waethaf', ac felly'r ffigur isaf sy'n cael ei asesu, sef 8,500 o weithwyr. Cyflwynir rhagor o fanylion am y gweithlu adeiladu yn adran B.3 yr AEIG hwn.

A.4 Cwmpasu ac ymgynghori ynghylch yr AEIG

Adroddiadau cwmpasu

A.4.1 Ceir rhagor o fanylion am gwmpasu'r AEA yng nghyswllt Prosiect DCO Wylfa Newydd ym mhennod A6 (Adroddiad Cwmpasu ac Atodiad yr AEA) (Cyfeirnod y Cais: 6.1.6) y Datganiad Amgylcheddol.

A.4.2 Ym mis Tachwedd 2009, cyflwynodd Horizon Adroddiad Cwmpasu AEA [RD26] i'r Arolygiaeth Gynllunio. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid, cafwyd Barn Gwmpasu [RD27] ym mis Ebrill 2010. Mae'r Farn Gwmpasu yn nodi y dylai'r effeithiau ar y gymuned leol gael eu hystyried yn asesiad economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys yr effaith ar ddiwylliant lleol a'r Gymraeg.

A.4.3 Yn 2014, ymgynghorodd Horizon ar ei Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith [RD1] (ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un sy'n cael ei drafod isod), sy'n cyflwyno'r materion a nododd Horizon eu bod yn berthnasol i'w hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Gofynnwyd am sylwadau ac adborth gan randdeiliaid allweddol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un er mwyn helpu â'r AEIG.

A.4.4 Ym mis Mawrth 2016, cyflwynodd Horizon Adroddiad Cwmpasu AEA wedi'i ddiweddaru [RD28] i'r Arolygiaeth Gynllunio. Prif bwrpas gwneud cais am Farn Gwmpasu bellach oedd sicrhau bod y newidiadau i Brosiect DCO Wylfa Newydd a'r fframwaith polisi a deddfwriaeth yn cael eu hystyried yn y broses gwmpasu.

A.4.5 Cafwyd Barn Gwmpasu [RD29] gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym mis Ebrill 2016. Gan roi sylw penodol i'r Gymraeg a'i diwylliant, mae'r Farn Gwmpasu yn nodi bod yn rhaid cynnal AEIG ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ac y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl gweld cydlyniant clir rhwng yr asesiad economaidd-gymdeithasol a'r AEIG, gyda chroesgyfeirio priodol rhwng dadansoddi data a chasgliadau. Hefyd, rhoddwyd sylw i sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â phwysigrwydd ystyried y Gymraeg drwy gydol proses yr AEA.

A.4.6 Ym mis Mai 2017, cyflwynodd Horizon drydydd cais am ddogfennau cwmpasu AEA i'r Arolygiaeth Gynllunio ar ffurf atodiad i Adroddiad Cwmpasu 2016 [RD30]. Roedd yr atodiad yn rhoi sylw i newidiadau arfaethedig i'r dyluniad yn dilyn rhaglen optimeiddio dyluniad, ac roedd hefyd yn rhoi sylw i newidiadau gweithdrefnol yn dilyn deddfu *Deddf Cymru 2017* sydd wedi caniatáu i'r cais am gydsyniad datblygu roi sylw i Ddatblygiadau Cysylltiedig.

A.4.7 Roedd yr atodiad hwn yn nodi y byddai ystyriaethau o'r Gymraeg yn 'edau aur' drwy gydol y Datganiad Amgylcheddol, yn enwedig yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol a fydd yn cyflwyno'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Bydd yr effeithiau cronnus ar y Gymraeg yn cael eu hystyried yn yr AEIG ac yn cael eu hadlewyrchu yn y gyfrol ar effeithiau cronnus yn y Datganiad Amgylcheddol (cyfrol I, Cyfeirnod y Cais: 6.9). Byddai mesurau lliniaru a gwella yn cael eu datblygu gyda mewnbwn gan arbenigwyr cynllunio iaith ac adborth gan randdeiliaid, i liniaru effeithiau niweidiol a gwella effeithiau manteisiol a allai ddeillio o Brosiect DCO Wylfa Newydd.

A.4.8 Cafodd Barn Gwmpasu ei mabwysiadu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 14 Mehefin 2017 [RD31]. Mae'r Farn Gwmpasu yn cadarnhau bod angen i Horizon roi sylw i'r materion sydd wedi'u codi eisoes ym Marn Gwmpasu 2016 fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol terfynol, ac mae ei ddogfennau atodol (gan gynnwys yr AEIG) yn bwysig er mwyn gallu cynnal asesiad cadarn.

Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

A.4.9 Mae ystyriaeth gynhwysfawr o'r gweithgareddau ymgynghori sy'n cael eu cynnal a'r adborth sydd wedi dod i law mewn perthynas â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn gyffredinol yn cael ei darparu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad fel rhan o'r cais am gydsyniad datblygu. Pwrpas yr adran hon yw rhoi cyd-destun i'r AEIG drwy roi sylw i'r gweithgareddau penodol hynny sydd wedi helpu â'r gwaith asesu a gyflwynir yn yr AEIG hwn.

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un

A.4.10 Cafodd Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ei gynnal ym mis Medi 2014 gyda'r nod o rannu'r wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd i hyrwyddo trafodaeth agored a pharhaus ag ymgyngoreion Horizon, rhanddeiliaid a'r gymuned, a hynny yn ystod cam cynnar yn natblygiad Prosiect DCO Wylfa Newydd pan fyddai modd i'r adborth ddylanwadu'n rhesymol ar gynigion dylunio.

A.4.11 Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer llety gweithwyr yn nogfennau'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un. Fodd bynnag, bryd hynny, nid oedd lleoliad Campws y Safle wedi cael ei benderfynu eto.

A.4.12 Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi manylion yr 'Ardal Chwilio Fawr' ar gyfer dewis safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig (gan gynnwys Campws y Safle), yn ogystal â manylion y broses dewis safle gychwynnol ar gyfer penderfynu ar safleoedd priodol ar gyfer Datblygiadau Cysylltiedig.

A.4.13 Ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un, mae grŵp llywio'r AEIG wedi cwrdd bob chwarter i gynghori ynghylch methodoleg yr AEIG ac er mwyn trafod canfyddiadau'r gwaith asesu wrth iddyn nhw ddod i'r fei. Mae'r Grŵp Llywio hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r mesurau lliniaru a gwella sy'n cael eu cyflwyno yn yr AEIG hwn a'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).

A.4.14 Mae Horizon yn cydnabod pwysigrwydd datblygu mesurau lliniaru a gwella er mwyn ymateb i effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Fe wnaeth Horizon benodi arbenigwyr cynllunio iaith a wnaeth gyfraniad arbenigol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y Gymraeg a mentrau Cymraeg er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r mesurau lliniaru a gwella. Mae'r arbenigwyr cynllunio iaith hefyd wedi gweithio gyda Horizon i ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) a'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg Corfforaethol, sy'n mynd law yn llaw â Pholisi Iaith Gymraeg Horizon [RD32].

A.4.15 Ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un, gyda chyfeiriad penodol at waith asesu'r AEIG, mae Horizon wedi cyflawni'r canlynol.

- Datblygu a diffinio gwaelodlin iaith Gymraeg. Mae'r waelodlin hon yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran y Gymraeg a'i diwylliant yn yr ardaloedd astudiaeth, ac mae effeithiau rhagweladwy Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi cael eu mesur yn erbyn y waelodlin hon.
- Ystyried effaith dosbarthu gweithwyr adeiladu i Gampws y Safle ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at y broses o ddewis lleoliad ar gyfer Campws y Safle.
- Asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar y Gymraeg, ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Cafodd fersiwn drafft o'r asesiad rhagarweiniol ei rannu â Grŵp Llywio'r AEIG yn ystod gaeaf 2015/16. Cafodd asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau, a gyflwynwyd ar ffurf Adroddiad Cynnydd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, eu rhannu â'r Grŵp Llywio AEIG a Chyngor Sir Ynys Môn fel rhan o Ddiweddariad Prosiect Horizon (Ionawr 2016). Cafodd y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i Adroddiad Cynnydd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg eu hystyried a'u defnyddio i lunio Adroddiad Interim yr AEIG a oedd yn rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau Horizon.
- Datblygu mesurau lliniaru a gwella mewn ymateb i'r effeithiau posibl interim ar y Gymraeg a'i diwylliant ochr yn ochr â Grŵp Llywio'r AEIG a thîm AEIG Horizon, sy'n cynnwys arbenigwyr cynllunio ieithyddol. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy ym mis Mehefin 2016 gydag aelodau'r Grŵp Llywio a rhanddeiliaid allanol eraill. Y nod oedd cytuno ar y prif themâu ar gyfer y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) a'r mesurau lliniaru a gwella

cyffredinol y dylid eu cynnwys ynddi. Nodwyd themâu allweddol ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a gwella yn dilyn adolygu Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith Prosiect DCO Wylfa Newydd [RD1] a blaenoriaethau o ddogfen Strategaeth Iaith Gymraeg (drafft) Cyngor Sir Ynys Môn. Cytunwyd ar dair thema allweddol (gweithlu; plant a phobl ifanc; a'r gymuned) yn y gweithdy ym mis Mehefin 2016 gydag aelodau'r Grŵp Llywio a rhanddeiliaid. Nodwyd pedwaredd thema, sef 'Atebolrwydd' ac fe'i hychwanegwyd ar ôl cynnal ail weithdy i randdeiliaid ym mis Hydref 2016. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn dangos sut mae'r themâu hyn wedi datblygu.

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau

A.4.16 Fel rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau Horizon, mae Horizon hefyd wedi mabwysiadu a chyhoeddi Addewid Iaith Gymraeg [RD34] i ddangos ei ymrwymiad i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant wrth ddatblygu Prosiect DCO Wylfa Newydd.

A.4.17 Roedd Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Adroddiad Interim AEIG) [RD33] yn rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau Horizon. Roedd hwn yn grynodeb i aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb iaith o brif effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg, ar sail y gwaith asesu a oedd wedi cael ei wneud ar y pryd. Nodwyd y prif effeithiau ar gyfer pob cam o Brosiect DCO Wylfa Newydd, hy adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Mae Tabl A-7 yn amlinellu sut mae'r materion allweddol a gafodd eu codi yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau wedi cael eu hystyried yn yr asesiad.

Tabl A-7 Materion allweddol yn ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant sydd wedi codi yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Dau Gam

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Effeithiau negyddol yn sgil effeithiau tymor byr y cynnydd yn y boblogaeth nad oedd wedi'i faintioli yn iawn.	Mae'r newidiadau yn y boblogaeth wedi cael eu dadansoddi a'u hasesu ymhellach yn yr asesiad.
Mae'r AEIG yn cyflwyno dehongliad sefydlog o'r effaith debygol. Awgrym i gyflwyno cyfres o sefyllfaoedd posibl sy'n ymwneud â dyfodiad siaradwyr Cymraeg dros amser.	At ddibenion asesu, mae'r asesiadau yn seiliedig ar y sefyllfa waethaf ac nid ar bob sefyllfa. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno ar y tybiaethau, y fethodoleg ac ar bwrpas y Model Disgyrchiant, ac mae cytundeb cyffredinol bod y Model Disgyrchiant yn cyflwyno'r dull mwyaf addas ar gyfer asesu dosbarthiad y gweithwyr adeiladu.

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Dim digon o ystyriaeth i ddiwylliant y Gymraeg ochr yn ochr â'r iaith Gymraeg	Caiff diwylliant y Gymraeg ei ystyried ochr yn ochr â'r iaith Gymraeg yn yr asesiad o'r effeithiau.
Cynnydd yn y galw am lety yn effeithio ar fforddiadwyedd tai ar gyfer pobl leol.	Ystyriwyd effaith y gweithwyr na fyddant yn byw gartref ar y galw am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth, a fyddai'n cael effaith ganlyniadol ar brisiau tai, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4).
Mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg - consensws cyffredinol ynghylch y themâu allweddol, ond nid oes cytundeb ynghylch mesurau manwl.	Mae mesurau lliniaru a gwella wedi cael eu datblygu ymhellach a'u mireinio. Mae'r mesurau a gyflwynir yn yr AEIG yn cynnwys mwy o fanylion, er mwyn cynnwys mecanwaith darparu (mae rhagor o fanylion am y broses o ddatblygu'r mesurau yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG)).
Dim digon o fanylion yng nghyswllt y gwaith arfaethedig o fonitro'r mesurau lliniaru a gwella.	Mae mesurau wedi cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant sy'n ymwneud â'r gwaith o fonitro mesurau lliniaru a gwella.
Ansicrwydd ynghylch rôl a goblygiadau Matrics Risg Llywodraeth Cymru ar y gwaith sy'n cael ei gyflwyno yn yr AEIG, yn enwedig y fethodoleg.	Nid yw Matrics Risg Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi eto; fodd bynnag, mae'r canfyddiadau cychwynnol wedi cael eu cyflwyno i grŵp llywio'r AEIG. Mae grŵp llywio'r AEIG yn cytuno nad yw canfyddiadau'r Matrics Risg yn effeithio ar y fethodoleg sy'n cael ei defnyddio yn yr AEIG.
Nid yw strategaethau iaith cenedlaethol a lleol yn cael eu hystyried mewn digon o fanylder yn yr AEIG.	Mae mwy o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i strategaethau iaith cenedlaethol a lleol wrth gynnal asesiad o'r effaith wrth ddatblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).

A.4.18 Roedd Adroddiad Interim yr AEIG [RD33] hefyd yn egluro sut gellid lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl y gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd eu cael ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Cafodd mesurau lliniaru a gwella cychwynnol eu cyflwyno ym mhennod 10 yr Adroddiad Interim AEIG. Fe wnaeth y sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau lywio a galluogi datblygu'r mesurau lliniaru a gwella hyn ymhellach.

A.4.19 Ar ôl cytuno ar fesurau lliniaru a gwella eang ag aelodau'r grŵp llywio a rhanddeiliaid, datblygwyd fframwaith ar gyfer y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) (ar sail ar y themâu y cytunwyd arnynt) gyda mewnbwn gan aelodau'r Grŵp Llywio, y cytunwyd arnynt ym mis Awst 2016.

A.4.20 Ymgynghorwyd rhagor â rhanddeiliaid y Gymraeg rhwng mis Awst a mis Hydref 2016 drwy gyfres o gyfweliadau un-i-un. Casglwyd safbwyntiau manylach ar feysydd lliniaru y dylid eu cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) a sut y gellid rhoi'r rhain ar waith. Cynhaliwyd cyfweliadau ag aelodau o'r Grŵp Llywio a chynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliad y Gymraeg eraill yn ystod mis Medi a mis Hydref 2016.

A.4.21 Cynhaliwyd ail weithdy i randdeiliaid y Gymraeg (er mwyn cynnwys y Grŵp Llywio a grŵp ehangach o randdeiliaid y Gymraeg allanol) ym mis Hydref 2016, ar ôl llunio drafft o fesurau lliniaru a gwella. Y nod oedd rhannu'r mesurau drafft ar gyfer lliniaru a gwella â rhanddeiliaid a'u datblygu ymhellach.

A.4.22 Ar ôl datblygu Strategaeth ddrafft ar gyfer Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, cafodd hyn ei rannu ag aelodau'r Grŵp Llywio, ac mae'r sylwadau a ddaeth i law wedi cael eu hystyried er mwyn cyfrannu at fersiwn derfynol y Strategaeth (atodiad B4-1 yr AEIG).

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri

A.4.23 Ym mis Mai 2017, cynhaliodd Horizon Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri ar gynigion eraill wedi'u diweddaru ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd. Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i Brosiect DCO Wylfa Newydd ers Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, gan gynnwys effeithiau wedi'u diweddaru ar y Gymraeg a'i diwylliant yn y Brif Ddogfen Ymgynghori. Mae Tabl A-8 yn amlinellu sut mae'r materion allweddol a gafodd eu codi yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri wedi cael eu hystyried yn yr asesiad.

Tabl A-8 Materion allweddol yn ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant sydd wedi codi yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Dau Tri

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Y prif fater a gafwyd o ymatebion yr ymgyngoreion oedd cais am ragor o ymrwymiad a gwybodaeth am y cynigion lliniaru sydd yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd consensws eang ymhlith yr ymgyngoreion y byddai Prosiect Wylfa Newydd yn arwain at gyfleoedd a heriau i gymeriad Cymreig yr Ynys; fodd bynnag, roedd safbwyntiau gwahanol ynglŷn â sut dylid lliniaru effeithiau negyddol, ac i ba raddau.	Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn darparu rhagor o fanylion ar y mesurau ac yn mapio'r rhain yn erbyn 18 cwestiwn yr AEIG.
Roedd unigolion a sefydliadau yn cefnogi rôl y Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn frwd; fodd bynnag, roedd cais am fwy o wybodaeth am y rôl.	Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn cynnwys gwybodaeth am natur rôl Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Ar hyn o bryd, mae Horizon yn ystyried gofynion manwl y rôl.
Roedd addysg yn faes diddordeb allweddol a gofynnodd yr ymgyngoreion am ragor o gefnogaeth gan Horizon i liniaru effaith mewnlifiad o bobl ddi-Gymraeg ar ysgolion. Awgrymwyd mesurau fel ariannu rhagor o leoedd mewn ysgolion a threfniadau trochi iaith ar gyfer y rheini sy'n symud i'r ardal.	Mae mesur ar ariannu gwasanaethau trochi iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1yr AEIG).
Mynegwyd pryder na ddylid ystyried y Gymraeg ar ei phen ei hun. Mae'n	Mae ystyriaethau a chyfeiriadau at y Gymraeg, gan gynnwys yr AEIG a'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
"edau aur" sy'n rhedeg drwy holl agweddau'r datblygiad.	Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi cael eu cynnwys ar draws dogfennau'r cais am DCO pan fo hynny'n berthnasol.
Cafwyd cais am fwy o wybodaeth yng nghyswllt amserlenni mewn perthynas â chynigion lliniaru, er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith cyn mewnlifiad y gweithwyr a'u teuluoedd.	Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn cynnwys gwybodaeth am yr amserlenni sy'n gysylltiedig â phob mesur.
Nodwyd gofyniad i Horizon roi adnoddau wrth gefn ar waith ar gyfer unrhyw sefyllfa annisgwyl.	Byddai angen ystyried hyn ar lefel ehangach fel rhan o broses liniaru'r prosiect cyfan.
Cafwyd sylw y byddai crynhoi'r holl weithwyr mewn un campws dros dro yn arwain at fwy o effeithiau negyddol na'r strategaeth fwy gwasgarog a gynigiwyd yn Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.	Mae'r broses o roi llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu ar Gampws y Safle yn cael ei hasesu'n fanwl yn yr AEIG.
Roedd mesurau lliniaru ar gyfer annog gweithwyr i siarad Cymraeg yn wastraff arian ac mae'n annhebygol o lwyddo. Roedd rhai yn credu ei bod yn bwysig bod y gweithwyr adeiladu a gweithredu yn siarad Saesneg ar y safle oherwydd rhesymau diogelwch.	Mae Horizon yn rhoi gwerth ar sgiliau dwyieithrwydd. Mae Horizon yn cefnogi ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl, tra'n cydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y diwydiant niwclear yn y DU ac iaith ein rheoleiddwyr.
Awgrym y dylai Horizon gynnig/hyrwyddo'r Gymraeg fel sgìl galwedigaethol i weithwyr.	Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg i weithwyr, sy'n amrywio o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i sgiliau lefel uwch. Mae hefyd wedi ymrwymo i annog y staff i fanteisio ar gyfleoedd pan fo hynny'n berthnasol iddynt.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill

Adroddiad Cynnydd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

A.4.24 Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2016 (rhwng Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ac Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau), cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i Gyngor Sir Ynys Môn ac i grŵp llywio'r AEIG a oedd yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru am ddatblygu'r dyluniad a'r asesiad sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cam interim yn y broses AEIG, ac roedd adborth yr ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth bwysig i'w chynnwys yn yr asesiad cyn yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.

Fersiwn Ddrafft yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

A.4.25 Yn ystod mis Medi 2017, cafodd fersiwn ddrafft yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ei rhoi i randdeiliaid statudol a rhai anstatudol allweddol. Mae materion allweddol sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu dynodi yn Nhabl A-9 yn ogystal â gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd o ganlyniad i hynny.

Tabl A-9 Materion allweddol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant a godwyd mewn ymateb i fersiwn ddrafft yr AEIG

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Yn ystod pob trafodaeth, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn datgan ei fod yn disgwyl bod yr iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cael eu trin fel thema hollgynhwysfawr ac edau aur sy'n sail i ystyriaethau o effeithiau a lliniaru ar gyfer pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Hefyd, mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn un o'r saith o nodau Llesiant y mae gofyn eu hystyried (yn ogystal ag egwyddorion datblygu cynaliadwy) wrth wneud penderfyniadau ynghylch y prosiect. Mae angen y wybodaeth angenrheidiol ar y cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, er mwyn iddynt allu cyflawni'r dyletswyddau hyn yng nghyswllt Wylfa Newydd.	Er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu trin fel edau aur drwy gydol Prosiect Wylfa Newydd, bydd Horizon yn rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y prosesau canlynol: Gwneud penderfyniadau; Datblygu mesurau lliniaru a gwella ar lefel y prosiect cyfan; a Pharatoi Datganiad Amgylcheddol y DCO, asesiadau annibynnol y DCO a cheisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.
Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi nodi ei fod wedi argymell yn flaenorol bod adran yn cael ei chynnwys ym mhob pennod o Ddatganiad Amgylcheddol y DCO a gyflwynir sy'n rhoi sylw i'r goblygiadau a gaiff y thema benodol	Bydd effaith Prosiect Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hasesu yn yr AEIG hwn. Er nad yw cynnwys yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn rhan o rôl y Datganiad Amgylcheddol, mae Horizon o'r farn ei bod yn berthnasol ac yn

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
honno o'r Datganiad Amgylcheddol ar yr iaith Gymraeg.	angenrheidiol cyfeirio at le mae ystyriaeth wedi'i rhoi i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant mewn dogfennau eraill gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol a'r asesiadau annibynnol (AEI ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Bydd hyn yn dangos bod Horizon wedi ystyried yr iaith Gymraeg a'i diwylliant fel edau aur drwy gydol Prosiect Wylfa Newydd.
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwerthfawrogi bod Horizon yn derbyn y bydd mewnlifiad o weithwyr adeiladu di-Gymraeg yn lleihau cyfran y Siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd effaith, a thrwy hynny'r camau lliniaru priodol ar gyfer y mewnfudo hwn, yn dibynnu ar nifer y gweithwyr yn mewnfudo, eu dibynyddion, eu lleoliad, y lleoedd sydd eu hangen mewn ysgolion, faint o ryngweithio fydd â'r cymunedau lle maent yn byw a hyd eu harhosiad.	Dim angen cymryd camau.
Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bryderon sylweddol â chynnwys fersiynau diwygiedig y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant gan fod rhai o'r cynigion lliniaru a groesawyd yn fersiwn Mawrth 2017 y Strategaeth wedi'u diwygio/gwanhau a rhai wedi'u gadael allan heb dystiolaeth i gefnogi'r newidiadau hyn.	Mae rhai o'r mesurau yn y fersiwn derfynol wedi'u diwygio. Er enghraifft, mae mesurau 1243, 1244, 1253 ac 1257 nawr yn cynnwys mwy o ymrwymiad. Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Ers mis Mawrth 2017, mae'r rhaglen wedi dwysáu yng ngogledd yr ynys, ac mae bellach yn cynnwys 4000 o weithwyr yn cael llety yng Nghampws y Safle. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mynegi pryderon am y gostyngiad yn y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal hon yn barod, a gallai hyn gael ei ddwysáu gan y cynigion hyn, a fyddai'n golygu mewnlif o weithwyr a'u teuluoedd yn dod i ogledd yr ynys. Mae'n hanfodol bod Horizon yn	Mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5), sy'n cyflwyno'r egwyddorion y bydd Horizon a'i bartneriaid yn eu dilyn i reoli'r gweithlu. Bydd yr egwyddorion yn helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno'n ddiogel, yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, ac y bydd yn lleihau effeithiau posibl y nifer fawr o weithwyr adeiladu dros dro ar y

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
darparu rhagor o wybodaeth am gynigion Rheoli Gweithwyr.	gymuned leol. Bydd Horizon hefyd yn sicrhau bod y safonau a'r gweithdrefnau'n cael eu gorfodi a bydd yn cefnogi'r gymuned a rhanddeiliaid i osgoi problemau y gellir eu rhagweld ac ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol os bydd problemau'n codi neu pan fyddant yn codi. Bydd gofyn i Horizon baratoi a chyflwyno Cod Ymddygiad i'w gymeradwyo yn unol â'r egwyddorion yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) a rhoi'r Cod Ymddygiad ar waith yn ystod gwaith adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Bydd yn rhaid i weithwyr a chyflogwyr (contractwyr) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad drwy gytundebau adeiladu a llafur. Yn ogystal â'r Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) sy'n ceisio sicrhau bod y cynnig llety ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn ddeniadol i weithwyr ac yn eu denu tuag at y prosiect. Ond mae hefyd yn ceisio eu cymell a'u tywys tuag at ddewisiadau llety sydd o fudd i'r ardal leol ac sy'n osgoi effeithiau niweidiol ar gymunedau cyfagos. Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) yn amlinellu'r darpariaethau canlynol a byddai'r rhain yn cael eu sicrhau drwy gyfrwng rhwymedigaethau cynllunio a chyfraniadau ariannol: Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr; y Gronfa Dai, a'r cyfleusterau Iechyd a Lles sydd ar gael i weithwyr. Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) hefyd yn cynnwys manylion unrhyw ddarpariaethau ychwanegol fyddai'n angenrheidiol o ran unrhyw newid i'r strategaeth llety sy'n wahanol i'r hyn sy'n cael ei adrodd yn y bennod hon

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
	(hy bydd hyd at 4,000 o'r rhain yn cael llety yng Nghampws y Safle; disgwylir i 3,000 ddefnyddio'r llety sydd ar gael yn barod ym mhrif ardal yr astudiaeth a disgwylir i tua 2,000 fod yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth yn barod, gan gynrychioli'r gweithlu lleol).
Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn bryderus am fod geiriad y ddogfen hon wedi newid o ymrwymiad i ystyriaeth mewn sawl enghraifft.	Mae mesurau 1243, 1244 1253 ac 1257 nawr yn cynnwys mwy o ymrwymiad.
Mae enghreifftiau o'r ymrwymiadau a gafodd eu gadael allan o fersiwn Mawrth 2017 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynnwys; a. ymrwymiad i gynnwys targed ieithyddol ar gyfer swyddi perthnasol; b. ymrwymiad i gynnwys cwrteisi ieithyddol ar gyfer holl staff adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd; c. ymrwymiad i fod yn rhagweithiol wrth annog staff i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy gyrsiau hyfforddi; a d. ymrwymiad i ddefnyddio gwerthusiadau gweithwyr i sefydlu gofynion sgiliau ar gyfer rolau penodol.	Mae ymrwymiad i gwrteisi ieithyddol wedi'i gynnwys eto erbyn hyn ym Mesur 1253. Bydd gofynion sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer rolau'n cael eu hasesu drwy Fesur 1243. Bydd sut mae gofynion sgiliau'n gysylltiedig â gwerthusiadau a nodau gweithwyr yn ystyriaeth ar gyfer Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.
Mae enghreifftiau o'r camau gweithredu a gafodd eu gadael allan o fersiwn Mawrth 2017 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynnwys; a. Sicrhau bod Menter Newydd a chyflenwyr yn Haen 2 ac is yn darparu gwybodaeth am eu capasiti iaith Gymraeg a sut byddant yn dilyn polisi Iaith Gymraeg Horizon; b. Sicrhau bod Menter Newydd a chyflenwyr ym mhob haen yn cael eu hannog i gynnig gwasanaeth dwyieithog mewn rolau cyhoeddus; c. Modiwl hyfforddiant i annog sgiliau integreiddio ieithyddol ac arweinyddiaeth gymunedol; a d. Ariannu prosiectau cymunedol.	Mae Mesur 1251 yn cynnwys ymrwymiad y bydd Horizon yn darparu gwybodaeth ynghylch 'sut bydd contractwyr yn dilyn polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol)'. Mae Horizon wedi cadarnhau na fydd gan gontractwyr rolau cyhoeddus. Mae ymrwymiad i ddeunyddiau hyfforddi priodol wedi'i gynnwys ym mesur 1260. Byddai ariannu prosiectau cymunedol yn rhan o'r pecyn buddion i'r gymuned, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Mae'r broses wanhau a chrynhoi yn tanseilio tryloywder a chyfreithlondeb y strategaeth ddiwygiedig gan fod hyn wedi'i wneud heb gyfeirio at y Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Horizon er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Mae angen manylion ynghylch sut yn union y bydd Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn datblygu i fonitro ac asesu'r holl gynnydd yn annibynnol.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Mae'n siomedig nodi, er bod Horizon wedi ymrwymo i gasglu data am deuluoedd sy'n symud i'r ardal, nid yw wedi gwneud ymrwymiad o'r fath i gasglu data am sgiliau iaith ei weithlu na diweddaru'r data hwn o dro i dro. Mae'r wybodaeth sylfaenol hon yn hanfodol er mwyn sefydlu gwaelodlin ar gyfer y Strategaeth Sgiliau Iaith. Byddai'r dull gweithredu hwn yn helpu Horizon i fesur cynnydd ei weithlu o ran sgiliau iaith.	Mae mesur 1251 yn cynnwys ymrwymiad y bydd: 'Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau'. Bydd rhoi'r mesur hwn ar waith yn cael ei ddatblygu fel rhan o rôl Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.
Mae natur a chymhlethdod y prosiect yn tynnu sylw at yr angen am gronfa benodol ar gyfer amgylchiadau annisgwyl. Mae'n rhaid i'r ymateb lliniaru fod yn ddigon hyblyg i ymateb ar frys pan fydd angen.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Mae angen ystyried dwysâd y prosiect yng ngogledd Ynys Môn o safbwynt yr iaith Gymraeg er mwyn gweithio'n agos â theuluoedd i hybu integreiddio a lleihau tensiynau yn y gymuned. Mae angen cael rhaglen dreigl i gyllido Swyddog Gweithgareddau Cymunedol Dwyieithog yn nalgylch pob ysgol uwchradd (5 swydd). Dylai'r rhaglen gael ei hymestyn i weddill yr Ynys ar ôl hynny.	Mae mesur 1260 yn ymrwymo i ariannu gwasanaethau iaith cymunedol i gefnogi pobl sy'n newydd i'r ardal i fwrw gwreiddiau a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Effaith Cynnwys y Gymuned.
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bryderus am y diffyg ymrwymiad a ffocws i uwchraddio cyfleusterau STEM mewn ysgolion. Mae hyn yn	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
hanfodol o safbwynt iaith Gymraeg i sicrhau bod disgyblion lleol sy'n astudio'r pynciau hyn yn ddwyieithog yn cael cyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach ac uwch a bod mewn sefyllfa yn y pen draw i gystadlu am gyfleoedd gwaith yn Wylfa Newydd.	
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi ymrwymiad y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i benodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i helpu i ddatblygu, rhoi ar waith a monitro rhaglen weithredu y cytunwyd arni. Ond mae'n siomedig iawn nad yw'r broses recriwtio wedi dechrau eto. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cadarnhau yn flaenorol i'n hymateb i PAC3 y byddem yn fodlon darparu unrhyw gefnogaeth neu gyfraniad yng nghyswllt y broses recriwtio, a gofynnwyd am gyfle i adolygu a chyflwyno sylwadau ar y disgrifiad swydd cyn hysbysebu'r rôl hon. Cred Cyngor Sir Ynys Môn bod gofyn i ddeiliad y swydd fod ar lefel uwch er mwyn i'r rôl gael unrhyw ddylanwad.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Mae angen ymrwymo i ddechrau rhoi rhai mesurau lliniaru ar waith yn gynnar er mwyn caniatáu digon o amser paratoi ee y ddarpariaeth beripatetig ar gyfer trochi iaith.	Mae'r sbardun ar gyfer lliniaru wedi'i ddiwygio i 'cyn ymgynghori' ar gyfer rhai mesurau. Er enghraifft, mae mesur 1257 wedi'i ddiwygio i sicrhau y bydd 'arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau.' Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Mae angen buddsoddiad ac ymyrraeth ar unwaith er mwyn cynllunio'r trefniadau lliniaru'n effeithiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ogledd yr ynys.	Mae'r sbardun ar gyfer lliniaru wedi'i ddiwygio i 'cyn ymgynghori' ar gyfer rhai mesurau. Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Pŵer Niwclear Horizon yn cyflwyno darlun sylfaenol a chefndir ar gyfer natur ieithyddol Ynys Môn a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r adroddiad yn llwyr gydnabod y bydd newid yn y boblogaeth, gyda hyd at 9,000 o weithwyr yn cyrraedd, yn cael effaith niweidiol yn gyffredinol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.	Sylw wedi'i nodi. Nid ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.
Mae'n gadarnhaol bod Horizon wedi penderfynu ymdrin â'r sylwadau a'r ymatebion blaenorol i'r AEIG a'i fod wedi datblygu Strategaeth Lliniaru'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar y cyd â Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen, ac mae wedi dangos bod Horizon yn fodlon gweithredu ar gyngor rhanddeiliaid/grŵp llywio.	Sylw wedi'i nodi. Nid ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.
Fel rhan o'i strategaeth lliniaru, mae Pŵer Niwclear Horizon wedi ymrwymo i benodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i gyflwyno Strategaeth Lliniaru'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae hyn i'w groesawu unwaith eto, ond hoffem gael esboniad pellach ynghylch ble mae'r swydd yn ffitio o fewn y strwythur staffio presennol a pha sicrwydd sydd yna y bydd y swydd yn cael ei diogelu yn y tymor hir.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Nid oes digon o ymrwymiadau o ran arian, adnoddau nac amser yn Strategaeth Lliniaru'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel y mae ar hyn o bryd. Bydd yn amhosibl dweud pa mor strategol a chadarn yw'r mesurau lliniaru nes byddwn yn cael gweld hyn, yn ogystal â manylion ynghylch sut bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith a'u datblygu mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol.	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106 a'r Datganiad Tir Cyffredin.
Yng nghyswllt yr uchod, ac er ein bod yn deall na fydd Horizon yn dymuno	Rhoddir sylw i hyn drwy gyfrwng trafodaethau am y pecyn Adran 106

Materion a godwyd	Camau sydd wedi'u cymryd
pennu ffigur ar gyfer y rhan sy'n ymwneud â gwella'n ehangach (buddion i'r gymuned) yn y strategaeth, bydd gofyn i'r adrannau sy'n dibynnu ar y Cod Ymarfer Adeiladu ac Adran 106 ddynodi darpariaethau a symiau perthnasol i ddangos y bydd mesurau lliniaru addas yn cael eu darparu. Mewn rhai achosion, fel cyflenwi athrawon arbenigol, bydd gofyn gweithredu cyn cael y cydsyniad terfynol/penderfyniad buddsoddi terfynol.	a'r Datganiad Tir Cyffredin. Mae rhywfaint o fanylion ychwanegol wedi'u cyflwyno nawr yng nghyswllt y mesur sy'n ymwneud â'r gwasanaeth athro peripatetig (1257).
Fodd bynnag, mae nifer o'r mesurau addysg yn mynnu y bydd y prosiectau'n cael eu cefnogi "yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw", ac mae hyn yn bryder. Nid yw'n gwbl glir, ac mewn rhai achosion, efallai na fydd yn bosibl sicrhau'r mesurau lliniaru angenrheidiol ar sail pro-rata.	Dim angen cymryd camau.
Felly, hoffem i Horizon ymrwymo'n llwyr i'r mesurau hyn, gan bennu hyd a lled y cymorth sydd ei angen i roi'r prosiect ar waith, a hynny mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a'r grŵp llywio.	Dim angen cymryd camau.

A.4.26 Mae rhagor o fanylion ynghylch ymgynghori ar gael yn y Prif Adroddiad Ymgynghori (Cyfeirnod y Cais: 5.1).

A.5 Dull asesu

Cyd-destun y fethodoleg

A.5.1 Cafodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr AEIG ei chyflwyno yn Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith [RD1]. Er bod ymatebion i ddogfennau eraill Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un yn rhoi sylw i bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o wead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn, dim ond ychydig o ymatebion a gafwyd a oedd yn ymwneud yn benodol ag Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith [RD1]. Nid oedd unrhyw sylwadau yn awgrymu newidiadau i'r fethodoleg a'r cwmpas arfaethedig.

A.5.2 Roedd Adroddiad Cynnydd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a oedd yn rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Dau Gam Horizon yn grynodeb o brif effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant, yn seiliedig ar y fethodoleg a gyflwynir yn yr Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith [RD1].

A.5.3 Daeth sylwadau i law yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a oedd yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig. Roeddent yn nodi'r angen i ystyried Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sydd wrthi'n cael eu datblygu. Er nad yw'r gwaith hwn wedi'i gyhoeddi eto, mae canfyddiadau cychwynnol y gwaith o ddatblygu Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg wedi'u cyflwyno i Horizon ac i Grŵp Llywio'r AEIG. Trafodwyd Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg mewn cyfarfod o grŵp llywio'r AEIG a daethpwyd i'r casgliad ei fod fwy neu lai'n gyson â methodoleg AEIG Horizon.

A.5.4 Mae methodoleg yr AEIG yn seiliedig ar y strategaethau a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol canlynol:

- *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD3];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD4];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol LDP6; Yr Iaith Gymraeg* [RD5];
- *Canllawiau Cynllunio Atodol 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD6];
- *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD7]; a
- *Chanllawiau Ymarfer ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg* [RD8].

A.5.5 Mae *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2] yn cynnig canllawiau arfer gorau ar y fethodoleg ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iaith ar gyfer datblygiad prosiect penodol. Nid yw'r arweiniad hwn wedi'i fabwysiadu'n benodol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol; fodd bynnag mae'r fethodoleg wedi cael ei chopïo yn y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

A.5.6 Mae'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd ag AEIG yn dilyn yr un a nodir yn *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2].

A.5.7 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg er mwyn arwain y broses o asesu datblygiadau seilwaith a chymunedol ar raddfa fawr ar y Gymraeg.

Ardaloedd astudiaeth yr AEIG

A.5.8 Oherwydd y rhyngddibyniaethau rhwng effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ac effeithiau economaidd-gymdeithasol, mae'r ardaloedd daearyddol a gofodol a ddefnyddiwyd yn yr AEIG yn seiliedig ar y rheini sydd wedi'u defnyddio ar gyfer yr asesiad economaidd-gymdeithasol, sy'n cael eu cyflwyno ym mhennod B2 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.2.2).

A.5.9 Mae'r cwmpas gofodol ar gyfer asesu effeithiau yn ofyniad allweddol ar gyfer yr holl asesiad. Mae effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn dibynnu'n fawr ar y gweithlu sydd ei angen, yn enwedig nifer y gweithwyr a'u dosbarthiad daearyddol. Bydd yr effeithiau ar gymunedau, y Gymraeg a'i diwylliant yn amrywio mewn gwahanol leoliadau. Felly, gall diffinio'r cwmpas gofodol fod yn gymhleth oherwydd yr angen i ystyried unigolion a chymunedau o wahanol bellteroedd o Ardal Datblygu Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig.

A.5.10 Hefyd, mae data economaidd-gymdeithasol a data am y Gymraeg ar gael ar draws ystod eang o lefelau gofodol. Oherwydd yr angen am ddata manwl a'r angen i roi golwg gyffredinol, mae ystod o gwmpasau gofodol wedi'u dewis at ddibenion asesu sydd wedi'u cyflwyno yn yr AEIG hwn.

A.5.11 Mae cwmpas daearyddol ardaloedd yr astudiaeth sy'n cael eu defnyddio yn yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn ffigur A-1 a ffigur A-2 ac mae'r rhesymeg sy'n sail i hynny'n cael ei esbonio yn nhabl A-10.

Tabl A-10 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG

Ardal	Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynrychioli'r ardaloedd o dir a môr sy'n cael eu dangos gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer, Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae'r ardal hon yn cynrychioli'r ardal fwyaf sy'n ymestyn o gwmpas Safle'r Orsaf Bŵer y byddai Prif Waith Adeiladu'r Orsaf Bŵer yn effeithio arni'n uniongyrchol a bydd yn cael ei defnyddio i ffurfio lleoliad a nodweddion yr Orsaf Bŵer weithredol. Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn wardiau Llanbadrig a Mechell.	-

Ardal	Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
	Mae graddfa ddaearyddol Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael ei diffinio yn ffigur A-1.	
Ardal Dylanwad Leol (ADL)	Mae'r ADL yn cynrychioli 'clustogfa' o tua 5km o ganol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r cymunedau sydd ar ffin y rhanbarthau hyn yn cael eu cynnwys yn yr asesiad. Mae'r cymunedau hyn yn cael eu nodi yng nghyfrolau perthnasol yr AEIG hwn. Mae'r rhanbarth 5km wedi'i ddewis er mwyn sicrhau bod effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ffisegol (o ran asesiad gweledol, aer a sŵn) wedi'u cynnwys yn yr asesiad o'r effeithiau sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd yn yr AEIG. Mae'r derbynyddion allweddol sydd wedi'u lleoli'n agos i'r ffin hon wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Mae graddfa ddaearyddol ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael ei diffinio yn ffigur A-1. Mae cwmpas daearyddol y Datblygiadau Cysylltiedig yn cael ei ystyried mewn ADL sydd wedi'i theilwra ac sy'n ymestyn tua 1km o ffin y safle. Mae'r ardal hon wedi'i dewis i wneud yn siŵr bod effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ffisegol (o ran asesiad gweledol, aer a sŵn) yn cael eu cynnwys yn yr AEIG. Mae'r Datblygiadau Cysylltiedig sy'n amodol ar yr ADL sy'n 1km fel a ganlyn: Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen/Labordy Arolygon Amgylcheddol/Garej Offer Argyfwng Symudol); Parcio a Theithio; Campws y Safle; Newidiadau i Briffordd yr A5025; a'r Ganolfan Logisteg. Mae graddfa'r Ardaloedd Dylanwad Lleol yn gyson â'r rheini sy'n cael eu cyflwyno a'u defnyddio yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol a	Materion sy'n effeithio ar gymunedau wrth ymyl neu'n agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. O ran natur dros dro y Datblygiadau Cysylltiedig, mae cwmpas yr asesiad yn rhoi sylw i gamau adeiladu a gweithredu pob datblygiad drwy gydol oes unigol gymharol pob un. Mae'r ADL ar gyfer Datblygiadau Cysylltiedig yn 1km yma oherwydd mai dyma'r hyn sy'n cael ei ystyried yn derfyn unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol a ystyrir yn yr AEIG hwn.


Ardal	Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
	gyflwynir ym mhenodau C1, (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1), D3 (Cyfeirnod y Cais: 6.4.3), E3 (Cyfeirnod y Cais: 6.5.3), F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3), G3 (Cyfeirnod y Cais: 6.7.3) a H3 (Cyfeirnod y Cais: 6.8.3) y Datganiad Amgylcheddol. Cyflwynir graddfa ddaearyddol pob ADL ar gyfer y Datblygiadau Cysylltiedig yn ffigurau C-1, D-1, E-1, F-1 a G-1 yn y drefn honno.	
Prif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol	Mae'r ardal hon yn cynrychioli'r ardal sydd fwyaf tebygol o wynebu effaith (manteisiol a niweidiol) Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'n cael ei diffinio gan ddwy Ardal Teithio i'r Gwaith sef 'Bangor, Caernarfon a Llangefni' a 'Chaergybi'. Mae'r ffin ofodol wedi'i diffinio ar sail y ffit gorau rhwng wardiau gweinyddol o Gyfrifiad o'r Boblogaeth 2001 a ffiniau'r Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (gweler ffigur A-2). Adeg llunio'r ffiniau hyn, nid oedd y ffin Ardaloedd Teithio i'r Gwaith 2011 ar gael. Gan fod ardal teithio i'r gwaith 2011 ychydig yn llai nag ardal 2001 (gan nad yw'n cynnwys wardiau Conwy), ystyrir ei bod yn fwy priodol i ddal i ddefnyddio set ddata 2001 a chynnwys y wardiau hyn. Mae'r ardal hon yn cael ei gwahanu ymhellach fel y diffinnir isod. Cyflwynir graddfa ddaearyddol pob is-adran prif ardal yr astudiaeth yn ffigur A-2.	Mae'r ardal hon yn ganolbwynt allweddol ar gyfer asesu yn yr AEIG yn ogystal â'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir yng Nghyfrol B y Datganiad Amgylcheddol - Cyflwyniad i'r pynciau B2 - elfennau economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.2.2). Mae'r ardal astudiaeth hon wedi cael ei defnyddio i ystyried effeithiau ar yr holl agweddau allweddol ar fywyd cymdeithasol, sy'n cynnwys: nodweddion y boblogaeth, ansawdd bywyd (o ran iechyd y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth); ffactorau economaidd; cyflenwad seilwaith ac addysg; ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol. O ran yr asesiad economaidd-gymdeithasol, mae effeithiau ar lety, gwasanaethau cyhoeddus a thwristiaeth yn cael eu hystyried yn bennaf yn yr ardal hon. Hyd ag y bo modd, mae effeithiau busnesau a chadwyni cyflenwi yn cael

Ardal		Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
			eu hystyried ar y raddfa hon hefyd.
Ynys Môn	Gogledd Ynys Môn	Ardal sy'n cydymffurfio ag is-adran Ynys Môn, sy'n cynrychioli cymunedau o amgylch Amlwch ac sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r is-adran hon yn seiliedig ar gyfanswm y wardiau sydd wedi'u diffinio yng Nghyfrifiad 2011.	Mae'r is-adran hon wedi'i defnyddio i asesu'r effeithiau y byddai'n bosibl eu teimlo ar y lefel hon, sy'n cynnwys: nodweddion y boblogaeth; ansawdd bywyd; cost tai; cyflenwad seilwaith ac addysg; ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol.
	Gorllewin Ynys Môn	Ardal sy'n cydymffurfio ag is-adran Ynys Môn sy'n cynrychioli cymunedau yng ngorllewin yr ynys gan gynnwys Caergybi. Mae'r is-adran hon yn seiliedig ar gyfanswm y wardiau sydd wedi'u diffinio yng Nghyfrifiad 2011.	Mae'r is-adran hon wedi'i defnyddio i asesu'r effeithiau y byddai'n bosibl eu teimlo ar y lefel hon, sy'n cynnwys: nodweddion y boblogaeth; ansawdd bywyd; cost tai; cyflenwad seilwaith ac addysg; ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol.
	De Ynys Môn	Ardal sy'n cydymffurfio ag is-adran Ynys Môn sy'n cynrychioli cymunedau yn ne'r ynys gan gynnwys Llangefni a mannau croesi'r Fenai. Mae'r is-adran hon yn seiliedig ar gyfanswm y wardiau sydd wedi'u diffinio yng Nghyfrifiad 2011.	Mae'r is-adran hon wedi'i defnyddio i asesu'r effeithiau y byddai'n bosibl eu teimlo ar y lefel hon, sy'n cynnwys: nodweddion y boblogaeth; ansawdd bywyd; cost tai; cyflenwad seilwaith ac addysg; ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol.
Y Tir Mawr	Tir Mawr Menai	Mae Tir Mawr Menai yn is-adran yng Ngwynedd, sy'n cynrychioli'r cymunedau ar y tir mawr ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y prif aneddiadau, sef Bangor a Chaernarfon. Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd bach o Gonwy hefyd.	Mae'r is-adran hon wedi'i defnyddio i asesu'r effeithiau y byddai'n bosibl eu teimlo ar y lefel hon, sy'n cynnwys: nodweddion y boblogaeth; ansawdd bywyd; cost tai; cyflenwad seilwaith ac addysg; ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol.


Ardal	Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu)	Mae'r ardal hon yn seiliedig ar bellter teithio 90 munud o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae casgliadau'r adroddiad *Workforce Mobility and Skills in the UK Construction Sector* [RD35] yn dynodi bod 85% o weithwyr adeiladu yn byw o fewn pellter teithio 90 munud o'u man gwaith. Mae'r diffiniad yn seiliedig ar y dewis mwyaf addas o wardiau gweinyddol o Gyfrifiad o'r Boblogaeth 2011. Mae unrhyw ward sydd yn llwyr neu'n rhannol o fewn amser teithio 90 munud wedi cael ei chynnwys. Mae'r ardal yn cynrychioli'r terfyn amser teithio un ffordd a dybir ar gyfer gweithwyr i deithio bob dydd o'u cyfeiriadau preswyl parhaol (mae'r unigolion hyn yn cael eu galw'n weithwyr sy'n byw gartref hefyd). Mae graddfa ddaearyddol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn cael ei nodi yn ffigur A-1.	Mae gweithwyr sy'n teithio neu weithwyr sy'n byw gartref yn cael eu tynnu o'r rhanbarth hwn. Felly, mae'r asesiad o'r ffactorau economaidd, yn enwedig effeithiau ar gyflogaeth a sgiliau, amrywiaeth economaidd a lefelau cyflog, yn canolbwyntio ar yr ardal ddaearyddol hon. Ffactorau economaidd o ran busnesau a chadwyni cyflenwi; mae sgil-effeithiau economaidd a phrisiau tai/llety hefyd wedi cael eu hystyried ar y raddfa hon.
Gogledd Orllewin Cymru	Mae'r ardal hon yn cynnwys rhanbarthau awdurdod lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.	Mae'r ardal hon wedi cael ei defnyddio mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl cynrychioli prif ardal yr astudiaeth oherwydd cyfyngiadau ystadegol.
Gogledd Cymru	Mae'r ardal hon yn cynnwys grŵp o ranbarthau awdurdod lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r ardal hon hefyd wedi'i defnyddio pan nad yw'n bosibl cynrychioli'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) oherwydd cyfyngiadau o ran data ystadegol, gan gynnwys data ar gyfer gwaelodlin ar gyfer cyflogaeth a gwybodaeth am weithgarwch economaidd, ac ar gyfer asesiadau o effeithiau ar wasanaethau achub a thân. Mae'n werth nodi bod yr ardal hon yn fwy trefol a diwydiannol (gyda datblygiadau allweddol mewn rhai	Mae'r ardal hon wedi cael ei defnyddio pan nad yw'n bosibl cynrychioli'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) oherwydd cyfyngiadau o ran ystadegau. Mae effeithiau ar fusnesau a'r gadwyn gyflenwi yn ogystal ag effeithiau economaidd dilynol wedi cael eu hystyried ar y raddfa hon hefyd.

Ardal	Cwmpas daearyddol	Cwmpas asesu
	ardaloedd yn Sir y Fflint ac ati) ac mae'r boblogaeth yn llawer uwch nag yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).	
Cenedlaethol / arall	Mae daearyddiaeth safonol fel Cymru, Prydain Fawr a'r DU yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol, naill ai er mwyn rhoi cyd-destun neu er mwyn ystyried effeithiau a allai godi y tu hwnt i'r ardaloedd daearyddol uchod.	-

Ffigur A-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG



Ffigur A-2 Prif ardaloedd yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol


ANGLESEY / YNYS MÔN
CAERNARFON BAY / BAE CAERNARFON
CONWY BAY / BAE CONWY
HOLYHEAD BAY / BAE CAERGYBI
HOLY ISLAND / YNYS GYBI
MENAI BRIDGE
BEAUMARIS
PENMAENMAWR
LLANFAIRFECHAN
BETHESDA
LLANBERIS
CAERNARFON
BANGOR
HOLYHEAD CAERGYBI
LLANGEFNI
BENLLECH
AMLWCH
SNOWDONIA / YR WYDDFA
BLAENAU FFESTINIOG
BETWS-Y-COED
CONWY
Middle Mouse
Carmel Head
Point Lynas
Ynys Dulas
Moelfre
Puffin Island
Dutchman Bank
Lavan Sands / Traeth Lafan
Menai Strait
Afon Conwy
Afon Seiont
Afon Ogwen
Afon Llugwy
Afon Dwyfach
Afon Glaslyn
Afon Dwyryd
Afon Mawddach
Afon Dyfi
Afon Teifi
Afon Tywi
Afon Taf
Afon Ebwy
Afon Wysg
Afon Hafren
Afon Dyfrdwy
Afon Clwyd
Afon Elwy
Afon Aled
Afon Conwy
Afon Lledr
Afon Llugwy
Afon Ogwen
Afon Seiont
Afon Gwyrfai

Y fethodoleg fanwl

A.5.12 Mae'r fethodoleg ganlynol wedi cael ei mabwysiadu i gynnal yr AEIG hwn ac i ddarparu amserlen o gyfleoedd a chyfyngiadau ieithyddol, effeithiau posibl ac i gyfrannu at y dull arfaethedig ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a/neu wella.

A.5.13 Mae'r fethodoleg yn dilyn yr un a nodir yn Adroddiad Cwmpasu'r AEIG, a oedd yn amodol ar yr ymgynghori yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un (Medi 2014). Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un mewn perthynas â'r fethodoleg arfaethedig a nodir isod.

A.5.14 Hefyd, cafodd y fethodoleg arfaethedig a ddisgrifir yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg [RD1] ei rhannu ag aelodau o Grŵp Llywio'r AEIG, sydd wedi cymeradwyo'r dull arfaethedig. Dylid nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi nac yn hyrwyddo unrhyw fethodoleg benodol ar gyfer cynnal AEIG. Oherwydd ei bod yn arsylwi gwaith y Grŵp Llywio, nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo nac yn gwrthod y fethodoleg arfaethedig sydd wedi'i nodi yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg [RD1]. Mae'r fethodoleg ar gyfer cynnal yr AEIG a chwmpas daearyddol yr asesiad wedi'u cymeradwyo gan y cynllunwyr iaith annibynnol a benodwyd gan Horizon hefyd.

A.5.15 Mae'r AEIG yn y CDLlC [RD36] yn cydnabod bod *"...cynnal asesiadau iaith yn faes sy'n destun trafodaeth ac yn arbenigedd sy'n dal i gael ei ddatblygu... Dylid nodi hefyd bod methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar Iaith yn broses oddrychol sydd â'r nod o ganfod yr effeithiau posibl a allai ddeillio o gynnig neu bolisi."*

Cam 1: Sefydlu gwaelodlin

A.5.16 Mae'r waelodlin yn gyfuniad o ddatganiadau, polisïau a data perthnasol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ardaloedd yr astudiaeth.

Casglu a dadansoddi data perthnasol i lunio gwaelodlin

A.5.17 Mae ystod eang o dystiolaeth wedi'i chasglu i gyfrannu at yr AEIG hwn er mwyn cyflwyno dealltwriaeth gyffredinol o broffil a sefyllfa bresennol y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth, yn enwedig ym mhrif ardal yr astudiaeth. Mae data wedi'i gasglu ar gyfer y pynciau canlynol, a ystyrir eu bod fwyaf perthnasol i bennu'r waelodlin:

- poblogaeth;
- proffil y Gymraeg;
- economi a chyflogaeth;
- tai (gan gynnwys y farchnad dai);
- ysgol ac addysg (darpariaeth y blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd, addysg bellach ac uwch);
- grwpiau cymdeithasol a chymunedol;
- y Gymraeg a gwasanaethau cyhoeddus;

- iechyd a lles cymunedol; a
- thwristiaeth.

A.5.18 Mae'r data sydd wedi cael ei gasglu yn sylfaen i'r waelodlin, sydd wedi'i dadansoddi fel rhan o'r AEIG hwn. Caiff hyn ei gyflwyno yn atodiad A7-1.

Cam 2: Dansoddi effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y waelodlin

A.5.19 Mae'r data sylfaenol sydd wedi'i gasglu wedi cael ei ddadansoddi er mwyn ystyried i ba raddau, a sut (o ran effeithiau niweidiol a manteisiol), byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardal yr astudiaeth.

A.5.20 Mae'r dadansoddiad o'r data sylfaenol sydd wedi'i gasglu wedi dangos bod y Gymraeg a'i diwylliant yn elfen annatod o wead cymdeithasol cymunedau ledled Ynys Môn a Gwynedd. Mae hefyd wedi dangos bod nifer o elfennau eraill o fywyd cymdeithasol, fel addysg a darpariaeth trochi iaith, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd a fforddiadwyedd tai, gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg i gyd yn cyfrannu at ddefnydd, statws, amlygrwydd a hyfywedd y Gymraeg a'i diwylliant yng nghymunedau'r meysydd astudiaeth.

A.5.21 Er bod amrywiaeth sylweddol yng nghyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar lefel ward a chymunedau'r cyngor, cydnabyddir bod cadw, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd drwy'r siroedd fel sy'n cael ei ddangos yn y *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021* [RD24] a *Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017* [RD25], ac nid mewn meysydd penodol yn unig. Mae *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021* yn nodi targed i sicrhau cynnydd i 60.1% o leiaf yng nghyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn Ynys Môn erbyn Cyfrifiad 2021 (fel yr oedd yn 2001), ac mae Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 yn nodi targed i sicrhau cynnydd o 5% yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd erbyn Cyfrifiad 2021. Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir ar gyfer gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru hefyd, ac mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* [RD9] yn pennu blaenoriaethau strategol ar sut mae gwireddu'r weledigaeth a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

A.5.22 Yna, cafodd effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn y meysydd astudiaeth eu hystyried mewn ymateb i leoliad daearyddol yr holl ddatblygiadau sy'n rhan o Brosiect Wylfa Newydd (gweler adran A.3 yr AEIG hwn). Dyma ffactorau a oedd yn arbennig o berthnasol i ystyriaethau o effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant:

- nifer y gweithwyr sydd eu hangen yn ystod pob cam o Brosiect DCO Wylfa Newydd a'u cartrefi (hy gweithwyr lleol a fydd yn byw gartref ac sydd eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) neu weithwyr na fyddant yn byw gartref a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth);
- dosbarthiad daearyddol y gweithwyr na fyddant yn byw gartref a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth;

- y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i roi llety i'r gweithwyr adeiladu, gan gynnwys dyluniad y cyfleusterau ar Gampws y Safle;
- cwmpas y gwaith ar gyfer pob elfen o Brosiect DCO Wylfa Newydd;
- strategaethau Horizon yn benodol:
  - Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant;
  - Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5);
  - Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) (sy'n cynnwys y Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr);
  - Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3);
  - Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6); a
  - Chod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.13);

A.5.23 Mae'r dadansoddiad o effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y waelodlin yn ystyried sawl maes astudiaeth, ac maen nhw wedi cael eu diffinio yn nhabl A-10. Roedd hyn yn golygu bod modd canfod yr ardaloedd daearyddol a oedd fwyaf tebygol o wynebu effeithiau (ardaloedd yr astudiaeth a phum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol), a sut roedd yr ardaloedd hyn yn debygol o gael eu heffeithio.

A.5.24 Caiff yr effeithiau sy'n cael eu hystyried yn effeithiau'r prosiect cyfan eu hasesu yng nghyfrol B, er enghraifft effeithiau'r gweithlu adeiladu ar nodweddion y boblogaeth. Mae'r effeithiau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n benodol i safle yn cael eu hasesu yng nghyfrolau perthnasol (C i G) yr AEIG hwn.

Cam 3: Cwestiynau rhestr wirio sy'n seiliedig ar asesiad

A.5.25 Mae'r AEIG yn asesu effeithiau tebygol camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn erbyn pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol er mwyn sefydlu'r effeithiau ar y gymuned yn gyffredinol ac ar iaith a diwylliant y Gymraeg yn fwy penodol. Dyma'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol:

- nodweddion y boblogaeth;
- ansawdd bywyd;
- ffactorau economaidd;
- cyflenwad seilwaith ac addysg; ac
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

A.5.26 Oherwydd gwahanol gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd (mae disgrifiad ohonynt yn adran A3 yr AEIG hwn) mae'r asesiad o'r effeithiau yn cael ei rannu'n gydrannau penodol o'r prosiect gyda chyfres o asesiadau datblygiadau unigol (effeithiau sy'n benodol i safle) yn canolbwyntio ar effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ategu'r gwaith o asesu effeithiau'r prosiect cyfan (hy nid effeithiau sy'n benodol i safle). Felly, nid yw'r effeithiau sydd wedi'u dynodi yn yr asesiad ar gyfer y prosiect cyfan (cyfrol B) yn cynrychioli effeithiau cyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i

diwylliant; cyflwynir y rhain yn yr asesiad o'r effeithiau cronnus o fewn y datblygiad (cyfrol H). Mae'r dull hwn yn gyson â'r dull a gafodd ei fabwysiadu yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol sy'n cael ei gyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.2. 2) ac Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19).

A.5.27 Mae'r asesiad o'r effeithiau wedi'i rannu'n ôl y cydrannau canlynol o Brosiect DCO Wylfa Newydd:

- effeithiau'r prosiect cyfan (hy nid effeithiau sy'n benodol i safle);
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol);
- Parcio a Theithio;
- Newidiadau i Briffordd yr A5025; a
- Chanolfan Logisteg.

A.5.28 Mae'r asesiad ar gyfer pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys 18 o gwestiynau, sy'n ymwneud â'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol; caiff y 18 cwestiwn eu cyflwyno yn nhabl A-11. Mae'r cwestiynau hyn yn tarddu o ganllawiau arfer gorau y cyfeirir atynt yn adran A.2 yng nghyfrol A yr AEIG hwn.

A.5.29 Mae pob cwestiwn wedi cael ei bwysoli ac maent yn amrywio o bwysoliad uchel i ganolig i isel (o ran effeithiau ieithyddol). Mae'r pwysoliad sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob un o gwestiynau'r rhestr wirio yn tarddu o ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg (bryd hynny). Cafodd y pwysoliad ar gyfer pob cwestiwn ei gyflwyno yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar Iaith [RD1] ac ni ddaeth unrhyw sylwadau i law mewn ymateb i'r pwysoliad arfaethedig. Ar ôl i Horizon benodi cynllunwyr iaith ym mis Mai 2016, cafodd y pwysoliad a gynigiwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith o'r Iaith ei adolygu a'i gymeradwyo gan y cynllunwyr iaith a gafodd eu penodi (heblaw am ddiwygio'r pwysoliad a roddwyd ar gyfer cwestiwn16 a chwestiwn 18 o bwysoliad isel i bwysoliad canolig). Mae'r pwysoliad terfynol yn cael ei gyflwyno yn nhabl A-11. Mae'r pwysoliad ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei ychwanegu at sgôr mynegai sylfaen er mwyn cael sgôr mynegai terfynol (gyda phwysoliad). Caiff cwestiynau sydd wedi cael pwysoliad uchel eu lluosi â 1.0, caiff cwestiynau sydd â phwysoliad canolig eu lluosi â 0.7, a chaiff cwestiynau sydd â phwysoliad isel eu lluosi â 0.5.

Tabl A-11 Cwestiynau rhestr wirio a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau canfyddedig Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y gymuned a'r iaith a'r raddfa a ddefnyddiwyd i bwysoli

Agwedd allweddol ar fywyd cymunedol/cwestiynau'r rhestr wirio	Graddfa bwysoli
Nodweddion y boblogaeth	
C1: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y boblogaeth?	**(pwysoliad uchel)**

Agwedd allweddol ar fywyd cymunedol/cwestiynau'r rhestr wirio	Graddfa bwysoli
C2: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?	**(pwysoliad uchel)**
C3: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o allfudo?	**(pwysoliad uchel)**
C4: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o newid strwythur oedran y gymuned?	**(pwysoliad uchel)**
Ansawdd bywyd	
C5: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?	**(pwysoliad isel)**
C6: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol?	**(pwysoliad isel)**
C7: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais?	**(pwysoliad isel)**
Ffactorau economaidd	
C8: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?	**(pwysoliad canolig)**
C9: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?	**(pwysoliad canolig)**
C10: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?	**(pwysoliad canolig)**
C11: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol?	**(pwysoliad canolig)**
C12: Ydy prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai?	**(pwysoliad uchel)**
Cyflenwad seilwaith ac addysg	
C13: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?	**(pwysoliad uchel)**
C14: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddarpariaeth gofal iechyd?	**(pwysoliad isel)**
C15: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar wasanaethau lleol?	**(pwysoliad canolig)**
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol	
C16: A fydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau?	**(pwysoliad canolig)**
C17: A fydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at newidiadau i draddodiadau/diwylliant y Gymraeg?	**(pwysoliad uchel)**
C18: A fydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith ar grwpiau/gweithgarwch gwirfoddol lleol?	**(pwysoliad canolig)**

A.5.30 Mae pob cwestiwn yn cyflwyno asesiad o'r effaith ddisgwyliedig. Mae'r asesiad o'r effaith yn gwbl oddrychol ar sail gwybodaeth sylfaenol, tystiolaeth flaenorol a barn broffesiynol, a'i fwriad yw nodi'r effeithiau sy'n debygol o ddigwydd yn sgil Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'r aseswr yn gorffen asesiad pob cwestiwn drwy nodi effaith gyffredinol fanteisiol, niwtral neu niweidiol. Yna, rhoddir sgôr i'r effaith gyffredinol er mwyn adlewyrchu maint yr effaith (gweler tabl A-12).

Tabl A-12 Ystod y sgoriau mynegai sylfaen a ddefnyddiwyd i adlewyrchu maint yr effaith

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

A.5.31 Yn unol â'r fethodoleg a gyflwynir yn *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* [RD2], cafodd y 18 sgôr mynegai sylfaen (wedi cael eu pwysoli) eu defnyddio i gyfrifo'r sgôr mynegai sylfaen cyffredinol ar gyfer pob cam: y camau adeiladu a gweithredu (ar gyfer pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd), sef y sgôr cyfartalog ar draws yr holl gwestiynau. Mae'r sgoriau mynegai sylfaen (wedi cael eu pwysoli) hefyd wedi cael eu defnyddio i gyfrifo sgôr mynegai dimensiynol, sy'n rhoi sgôr cymedr ar gyfer pob un o'r cydrannau bywyd cymunedol: cymedr ar gyfer y boblogaeth; ansawdd bywyd; ffactorau economaidd; a chyflenwad seilwaith a materion cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi aseswyr i gymharu'r sgôr cymedr ar gyfer pob un o'r pum cydran, gan gydnabod yr effeithiau ehangach a ddisgwylir a'r cyfaddawdu posibl rhwng un gydran a'r llall [RD2].

A.5.32 Mae'r AEIG yn asesu ac yn sgorio camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd wrth ystyried yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan (cyfrol B) a'r asesiad o Ardal Datblygu Wylfa Newydd (cyfrol C) yn erbyn y cwestiynau fel cynigion ar wahân wrth ystyried y gwahaniaethau amlwg posibl yn effeithiau camau gwahanol Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'r gwaith o ddatgomisiynu'r Orsaf Bŵer a chydrannau eraill Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu hasesu yn ansoddol, gan adlewyrchu'r tebygolrwydd y gallai newid technolegol dros gyfnod o 60 mlynedd arwain at newid sylweddol o ran faint o lafur a'r math o lafur sydd ei angen, a'r amser y bydd yn ei gymryd. Gan fod effeithiau datgomisiynu'n cael eu hasesu'n ansoddol, nid ydynt yn cael eu sgorio yn erbyn y 18 cwestiwn yn y rhestr wirio.

A.5.33 Mae'r asesiad o'r effeithiau ar Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (cyfrol D) a Datblygiadau Cysylltiedig (cyfrolau E i G) yn ystyried effeithiau'r camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

A.5.34 Cynhelir asesiad o'r effeithiau cronnus (o fewn y prosiect a rhwng prosiectau) ar y Gymraeg a'i diwylliant a chyflwynir hyn yng nghyfrol H yr AEIG.

Cam 4: Datblygu mesurau lliniaru a gwella

A.5.35 Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol posibl yn cael eu nodi yn yr asesiad, mae mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol yn cael eu cynnig.

A.5.36 Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant yn ogystal â lliniaru effeithiau niweidiol tebygol. Fel y soniwyd eisoes, mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) drwy weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr cynllunio iaith. Mae'r fethodoleg ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a gwella yn cael ei chyflwyno'n fanylach yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

A.5.37 Mae'r mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol y Gymraeg, gan gynnwys aelodau ac arsylwyr Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) wedi'i datblygu ar sail cyfuniad o weithdai i randdeiliaid, ymgynghoriadau un-i-un ac adolygiadau o lenyddiaeth a dogfennau perthnasol.

A.5.38 Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn dilyn pedair thema allweddol:

- gweithlu;
- plant a phobl ifanc;
- y gymuned; ac
- atebolrwydd.

Cam 5: Monitro effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant

A.5.39 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn datgan bod rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'i datblygu yn credu ei bod yn hollbwysig datblygu mecanweithiau priodol i oruchwylio'r broses o roi'r Strategaeth (atodiad B4-1 yr AEIG) ar waith yn Horizon ac i fonitro cynnydd yn allanol. Caiff prosesau o'r fath eu hystyried yn bwysig o ran sicrhau bod y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn cael ei rhoi ar waith yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol, a bod camau cywiro'n cael eu cymryd i oresgyn rhwystrau a allai godi.

A.5.40 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi pedwar mesur yn ymwneud â

monitro proses Horizon a phartneriaid allanol o roi'r Strategaeth ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu grŵp o uwch reolwyr yn Horizon i oruchwylio/bod yn gyfrifol am gyflwyno'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu Corfforaethol Horizon.
- sefydlu grŵp rhanddeiliad allanol i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) ar waith a rhoi cyngor ar ei chyflawni; a gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny.

A.6 Proffil yr iaith Gymraeg

Trosolwg cenedlaethol

A.6.1 Yn 1911, roedd bron i filiwn (997,000) o siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn yng Nghymru. Yn 1981, cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg o'r lefel hon i 504,000, ond yna cafwyd cynnydd rhwng 1981 a 2001 (gan gyrraedd 582,000). Fodd bynnag, yn dilyn hyn, gostyngodd y nifer fymryn eto erbyn 2011 (562,000) [RD37].

A.6.2 Gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 1971 a 1991 (20.8% yn 1971, 19% yn 1981 a 18.7% yn 1991). Erbyn 2001, cynyddodd y ganran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl i 20.8% [RD37]. Fodd bynnag, rhwng 2001 a 2011, cafwyd gostyngiad arall o -1.7 pwynt canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

A.6.3 Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd nifer y cymunedau a oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf a chollwyd nifer o gymunedau lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel y brif iaith [RD37]. Gall y rhesymau dros y gostyngiad hwn gynnwys diffyg gwaith a chyfleoedd cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u magu yn lleol a'u bod wedi symud o'r ardal oherwydd hynny; gostyngiad yn y diwydiannau traddodiadol a oedd yn arfer cyflogi canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn ogystal â phroblemau yn yr economi wledig; a bod pobl ddi-Gymraeg yn mudo yn bennaf i'r ardaloedd mwy gwledig ac i'r arfordir atyniadol [RD37].

Trosolwg lleol

A.6.4 Mae Ynys Môn a Gwynedd wedi cael eu cydnabod am eu crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg rhugl yn Arolwg Defnyddio'r Iaith Gymraeg 2013-15 [RD39]. Maent yn gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yng Nghymru. Mae Gwynedd yn cynnwys y ganran uchaf (65.4%) ac Ynys Môn yn cynnwys yr ail uchaf (57.2%) o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

A.6.5 Mae iaith, diwylliant a threftadaeth y Gymraeg yn elfennau hanfodol o wead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn, er bod y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng wardiau, gyda mwy o grynodiad yng nghanol daearyddol Ynys Môn a Llangefni a'r ardaloedd cyfagos. Cynhaliwyd


yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Môn ym mis Awst 2017, a oedd yn gatalydd pwysig ar gyfer codi proffil y Gymraeg a'i diwylliant.

A.6.6 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan mai dyma iaith llawer o deuluoedd yn eu cartrefi, iaith yr ysgolion, a'r iaith sy'n cael ei defnyddio mewn siopau, tafarndai, banciau a chyfleusterau iechyd lleol, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau cymunedol.

A.6.7 Mae'r bennod hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r waelodlin a gasglwyd. Mae Ffigur A-3 yn nodi'r prif bwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn y waelodlin.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur A-3 Dadansoddiad o'r waelodlin




[

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Siaradwyr Cymraeg

A.6.8 Yn 2011, roedd gan Ynys Môn (57.2%) a phrif ardal yr astudiaeth (61.0%) ganran uwch o siaradwyr Cymraeg na'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (42.7%). Mae ffigur A-4 yn dadansoddi nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl ardal yn 2011.

Ffigur A-4 Nifer a chanran o siaradwyr Cymraeg yn ôl ardal yn 2011[1]



A.6.9 Gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg yn y tair ardal rhwng 2001 a 2011, ac roedd gostyngiad o 325 yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, gostyngiad o 336 ym mhrif ardal yr astudiaeth a gostyngiad o 2,883 yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

A.6.10 Rhwng 2001 a 2011, roedd y gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, ym mhrif ardal yr astudiaeth ac yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) fel a ganlyn:


- o 59.0% i 57.2% ar Ynys Môn (gostyngiad o 1.8 pwynt canran);
- o 64.1% i 61.0% ym mhrif ardal yr astudiaeth (gostyngiad o 3.1 pwynt canran); ac
- o 44.8% i 42.7% yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (gostyngiad o 2.1 pwynt canran).

A.6.11 Er bod Ynys Môn wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y ganran o'r boblogaeth a oedd yn siarad Cymraeg rhwng 1951 a 2011 (o 80.0% i 57.2%), o ran nifer gyffredinol y siaradwyr Cymraeg, mae hi wedi gweld mymryn o gynnydd yn y

[1] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau iaith Gymraeg (KS207WA)

siaradwyr Cymraeg [RD38] fel y dangosir yn ffigur A-5. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu'r twf cyffredinol ym mhoblogaeth yr ynys o ganlyniad i ddatblygiadau cyflogaeth mawr yn y 1960au, sef yr Orsaf Bŵer Bresennol ac Alwminiwm Môn [RD38], a'r twf yn nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd yn dilyn Deddf Addysg 1944.

Ffigur A-5 Canran a nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, 1951-2011[2]



A.6.12 Comisiynwyd Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn 2013, a chafodd ei gyhoeddi ar 26 Tachwedd 2015 [RD39]. Cynhaliwyd yr arolwg dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2013 a 2015. Roedd yr arolwg yn casglu data gan oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg er mwyn dysgu pa mor dda roedden nhw'n siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd ac â phwy y maen nhw'n ei defnyddio. Mae canlyniadau Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 yn seiliedig ar sampl o 7,175 o siaradwyr Cymraeg.

A.6.13 Yn ôl Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15, mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng a nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw'n rhugl wedi cynyddu yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 2004-06. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng 2,600 ar Ynys Môn a 2,100 yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod hwn [RD39]. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw'n rhugl wedi cynyddu 4,300 ar Ynys Môn a 5,600 yng Ngwynedd [RD39].

A.6.14 Mae Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 hefyd yn nodi bod rhai o'r gostyngiadau mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ers 2004-06 wedi'u canfod mewn ardaloedd sydd â'r boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg

[2] [RD10]

[RD39]. Cafodd y crynodiadau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl eu canfod mewn awdurdodau lleol yn ardaloedd gorllewinol Cymru, ac roedd y crynodiad uchaf yng Ngwynedd (78%), Ynys Môn (68%), Ceredigion (66%) a Sir Gaerfyrddin (64%) [RD39].

A.6.15 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg mewn unrhyw gymuned neu ward yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith, a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol a chymunedol mewn ardal leol yn cyfrannu at werth iaith ac yn creu teimlad o berthyn i gymuned neu ardal [RD25].

A.6.16 Ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol cyfrwng Cymraeg helaeth mewn cymunedau, sy'n aml yn cael eu harwain gan amrywiaeth o rwydweithiau a grwpiau creadigol a chymdeithasol sy'n rhan annatod o wead cymdeithasol y cymunedau. Mae'r grwpiau rhain yn cynnwys (ond ddim wedi'u cyfyngu i) Yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin, Theatr Ieuenctid Môn, Gwasanaeth Ieuenctid Statudol, Alleni Môn (grŵp celfyddydau perfformio lleol) yn ogystal â llu o glybiau chwaraeon a chelfyddydau perfformio eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Mae'r holl grwpiau hyn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau, gan adlewyrchu iaith aelodau eu cymuned.


Amrywiadau daearyddol

A.6.17 Mae tystiolaeth o'r llenyddiaeth yn awgrymu bod y Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei defnyddio mewn gweithgareddau cymdeithasol, busnes a hamdden mewn cymunedau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg [RD40]. Yn 2011, roedd 37.8% (28 ward) o'r wardiau ym mhrif ardal yr astudiaeth yn cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Roedd 7 o'r 28 ward ar Ynys Môn ac roedd 21 o'r wardiau yn is-adran Tir Mawr Menai prif ardal yr astudiaeth.

A.6.18 Mae Ffigur A-6 yn dangos cyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) yn ôl ward yn 2011.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur A-6 Cyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn), yn ôl ward yn 2011[3]



[3] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau iaith Gymraeg (KS207WA)


[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

A.6.19 Mae canran y bobl a allai siarad Cymraeg yn 2011 ym mhob ward ar draws prif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol (KSA) yn amrywio'n sylweddol o 18.6% yn ward Menai (Bangor) i 87.8% yn ward Llanrug, gyda'r naill ward a'r llall yn is-adran Tir Mawr Menai prif ardal yr astudiaeth.

A.6.20 Mae Ffigur A-7 yn dangos y newid (pwynt %) yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) yn ôl ward rhwng 2001 a 2011.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur A-7 Newid (pwynt %) yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) yn ôl ward, 2001[4]-2011[5] [6]



4 NOMIS: Cyfrifiad 2001 [RD41]: Gwybodaeth am y Gymraeg (KS025)

5 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau iaith Gymraeg (KS207WA)


6 Yn 2001, ni chafodd 450 o ffurflenni Cyfrifiad eu prosesu yn ward Porth Amlwch gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a oedd yn golygu na chafodd 1,068 o boblogaeth y ward eu cyfrif. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu ffigurau 2001 a 2011.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Oedran a'r iaith Gymraeg

A.6.21 Mae Ffigur A-8 yn dangos strwythur oedran y boblogaeth ar Ynys Môn, ym mhrif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn 2001 a 2011.

Ffigur A-8 Strwythur oed y boblogaeth (tair oed a hŷn) yn 2001[7] a 2011[8]



A.6.22 Gwelodd Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ostyngiad yng nghanran y boblogaeth 3-15 oed a 25-49 oed rhwng 2001 a 2011, ond mae cynnydd wedi bod yn y boblogaeth 50-64 oed yn y tair ardal. Mae hyn yn dangos bod Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio yn gyffredinol.

A.6.23 Wrth gymharu strwythur oed poblogaeth Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) â strwythur oed Cymru gyfan, mae'n amlwg bod canran y boblogaeth sy'n 50 oed a hŷn yn uwch yn Ynys Môn (45.3%), ym mhrif ardal yr astudiaeth (40.2%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (43.7%) o gymharu â Chymru (39.1%).


A.6.24 Mae Ffigur A-19 yn dangos y ganran o'r boblogaeth a allai siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn 2001 a 2011.

---

7 NOMIS: Cyfrifiad 2001 [RD41]: Rhyw ac oed yn ôl y gallu i siarad Cymraeg (CS146)

8 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA)

Ffigur A-9 Canran y boblogaeth (tair oed a hŷn) a allai siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran yn 2001[9] a 2011[10]



A.6.25 Mae Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) wedi gweld cynnydd yng nghanran y bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed a allai siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. O'r holl grwpiau oedran, dim ond y grŵp 3 i 15 oed a welodd gynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg, a gwelodd Ynys Môn gynnydd o 1.3% pwynt canran, gwelodd prif ardal yr astudiaeth gynnydd o 0.8% pwynt canran a gwelodd yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) gynnydd o 1.2% pwynt canran yn y siaradwyr Cymraeg. Mae'r grŵp oedran 3 i 15 oed yn parhau i fod y grŵp oedran sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar y cyfan ar draws y tair ardal.

A.6.26 Mae'r cynnydd yn y ganran o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed rhwng 2001 a 2011 yn dangos bod addysg cyfrwng Cymraeg wedi llwyddo i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol. Yn 2011, roedd 71.9% o'r boblogaeth 3-15 oed a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg.

A.6.27 Yn ôl Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 roedd 18% o'r siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ac 11% o'r siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd, ac roedd 4% wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd [RD39].

---

9 NOMIS: Cyfrifiad 2001 [RD41]: Rhyw ac oed yn ôl y gallu i siarad Cymraeg (CS146)

10 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA)

A.6.28 Mae dilyniant ieithyddol disgyblion drwy addysg gynradd yn uchel yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd – mae bron i'r holl blant sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 [RD39].

A.6.29 Felly, mae'n amlwg fod gan addysg cyfrwng Cymraeg rôl hanfodol yn nyfodol yr iaith. Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg wedi creu enillion mawr yn y niferoedd o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg ac yng nghanran y boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

A.6.30 Mae Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 hefyd yn nodi pwysigrwydd defnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg gartref. Roedd 71% o'r siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 73% o'r siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi dysgu siarad Cymraeg gartref. Ar lefel Cymru, roedd y rhain yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran o 21% yn y grŵp oedran 3-15, i 79% yn y grŵp oedran 65 a hŷn [RD39].

A.6.31 Mae rhuglder rhieni plentyn yn dylanwadu ar y sefyllfaoedd lle mae plentyn wedi dysgu siarad Cymraeg gartref. Os ydy dau riant plentyn yn siaradwyr Cymraeg rhugl, mae'n fwy tebygol y bydd y plentyn yn dysgu siarad Cymraeg gartref.

Gwlad enedigol a'r iaith Gymraeg

A.6.32 Yn 2011, roedd tua dwy ran o dair o boblogaeth Ynys Môn (65.4%) a phrif ardal yr astudiaeth (66.8%) wedi cael eu geni yng Nghymru, ac roedd canran fymryn yn is (60.3%) o boblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) wedi cael eu geni yng Nghymru[11].

A.6.33 Roedd dros dri chwarter trigolion Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth a oedd hefyd wedi cael eu geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 (78.2% a 81.4% yn y drefn honno), ac roedd bron i ddwy ran o dair (63.0%) o drigolion yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a oedd wedi cael eu geni yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg yn 2011[12].

A.6.34 Roedd canrannau is o'r trigolion a gafodd eu geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn (17.6%), ym mhrif ardal yr astudiaeth (18.3%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (12.2%)[13].

Newid demograffig a'r Gymraeg

Mudo

A.6.35 Mae Ffigur A-10 a ffigur A-11 yn dangos y data mudo ar gyfer y cyfnod 2001 i 2015 ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru yn y drefn honno.


---

11 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

12 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

13 NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

Ffigur A-10 Mudo poblogaeth net Ynys Môn yn ôl carfannau oedran 2001 i 2015[14]




[14] Llywodraeth Cymru 2016 [RD42]: Mudo rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gweddill y DU (POPU5023).

A.6.36 Mae Ynys Môn wedi gweld mewnlif net o boblogaeth yn y rhan fwyaf o flynyddoedd rhwng 2001-02 a 2014-15. Eithriadau i'r patrwm hwn oedd y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11 a'r flwyddyn 2014-15. Fodd bynnag, roedd all-lif net o bobl 15-29 oed bob blwyddyn o 2001-02 i 2014-15. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfartaledd o 168 o bobl rhwng 15 a 29 oed yn gadael Ynys Môn yn flynyddol, a gwelwyd yr all-lif mwyaf yn 2003-04, sef 330. Mae'n bosibl bod cysylltiad rhwng hyn â'r prinder cyfleoedd cyflogaeth ar yr ynys. Mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad o 889 (5.4%) yn nifer y Gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn mewn cyflogaeth rhwng 2009 a 2014.

A.6.37 Yn ystod yr un cyfnod (2001-02 i 2014-15), cafwyd mewnlif net o bobl 45-64 oed bob blwyddyn i Ynys Môn

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur A-11 Mudo poblogaeth net gogledd Cymru yn ôl carfannau oedran 2001 i 2015[15]




[15] Llywodraeth Cymru, 2016 [RD42]: Mudo rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gweddill y DU (POPU5023).

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

A.6.38 Ar y cyfan, mae gogledd Cymru wedi gweld mewnlifiad net cyffredinol rhwng 2001 a 2015, ond yn yr un modd ag Ynys Môn, mae wedi gweld all-lif net parhaus o bobl 15-29 oed. Fodd bynnag, mae gogledd Cymru wedi gweld mewnlif net parhaus o bobl 30-44 yn ystod y cyfnod hwn.

A.6.39 Mae Ffigur A-12 yn dangos y nifer o bobl a wnaeth fudo o Ynys Môn yn 2014-15 yn ôl oed a chyrchfan.

Ffigur A-12 Nifer y bobl a wnaeth fudo o Ynys Môn yn 2014-15 yn ôl oed a chyrchfan [16]




A.6.40 Yn ystod 2014-2015, roedd y nifer uchaf o bobl a oedd yn mudo o Ynys Môn ymhlith y grŵp oedran 25-44, wedi'i ddilyn yn agos gan y grŵp oedran 16-24. Fe wnaeth nifer fawr ar draws yr holl grwpiau oedran allfudo i Loegr, wedi'i ddilyn gan ogledd Cymru, ac fe wnaeth nifer fawr o'r bobl ifanc 16-24 oed allfudo i siroedd a oedd yn cynnwys trefi prifysgol fel Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor.

A.6.41 Mae Ffigur A-13 yn dangos y llif mewnfudo i Ynys Môn o'r DU yn ôl oed a tharddiad yn 2014-2015.

[16] Llywodraeth Cymru, 2016 [RD42]: Mudo rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gorllewin y DU (POPU5023).

Ffigur A-13 Llif mewnfudo i Ynys Môn o'r DU yn ôl oed a tharddiad, 2014-2015[17]



A.6.42 Yn ystod 2014-2015, roedd y mewnfudo uchaf ymhlith pobl 25-44 oed. Roedd y nifer fwyaf o bobl ar draws yr holl grwpiau oedran yn mewnfudo o Loegr, wedi'i ddilyn gan ogledd Cymru. Mae'n debygol bod canran uchel o'r rheini a wnaeth fewnfudo i Ynys Môn yn bobl ddi-Gymraeg oherwydd eu bod yn dod o Loegr a rhannau eraill o ogledd Cymru lle nad yw'r Gymraeg mor gryf.

Yr economi a'r iaith Gymraeg

A.6.43 Mae newid demograffig hefyd yn dylanwadu ar dwf economaidd a'r farchnad dai leol. Mae pwysigrwydd economïau lleol a'r gweithle o ran cefnogi statws y Gymraeg wedi cael ei nodi mewn nifer o ganllawiau a dogfennau polisi diweddar. Mae rhai enghreifftiau o ddogfennau polisi allweddol sy'n cyfeirio at y cysylltiadau pwysig rhwng y Gymraeg a'r economi wedi cael eu hamlinellu isod.

A.6.44 Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* [RD9] Llywodraeth Cymru, yn pwysleisio bod angen cynyddu gwerth y Gymraeg fel sgìl ar gyfer y gweithle, er mwyn cryfhau economïau ardaloedd Cymraeg traddodiadol gogledd a gorllewin Cymru, er mwyn cynyddu gwerth economaidd yr iaith ac er mwyn cefnogi siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardaloedd hynny neu ddychwelyd iddyn nhw.

A.6.45 Mae'r CDLlC [RD15] yn nodi'r cysylltiad rhwng twf economaidd a dyfodol yr iaith Gymraeg:

[17] Llywodraeth Cymru, 2016 [RD42]: Mudo rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gweddill y DU (POPU5023).

> "Bydd darparu fframwaith sy'n hwyluso datblygiadau sy'n cynnal, gwella, moderneiddio ac arallgyfeirio'r economi yn darparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau Cymraeg eu hiaith."

A.6.46 Mae pwysigrwydd twf economaidd hefyd wedi cael ei nodi mewn cyhoeddiadau cynllunio, ac mae canllawiau Nodyn Cyngor Technegol 20 [RD7] hefyd yn nodi bod "*dosbarthiad twf economaidd hefyd yn gallu effeithio ar gymeriad cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau. Gallai polisïau sy'n sicrhau bod lefel ac ystod ddigonol o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys safleoedd ac eiddo, i gynnal a datblygu cymunedau lleol ddod â budd hefyd i'r Gymraeg*."

A.6.47 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yng nghyswllt Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn [RD36] yn cydnabod y bydd hwyluso "*datblygiadau sy'n cynnal, gwella, moderneiddio ac arallgyfeirio'r economi yn darparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau Cymraeg eu hiaith."*

A.6.48 Mae hefyd yn cydnabod yr "*angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi a'r busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu, a ddylai helpu i gadw'r gweithlu presennol o siaradwyr Cymraeg a denu trigolion oedran gweithio a oedd yn arfer gweithio yn yr ardal i ddychwelyd yno"* [RD36].

A.6.49 Mae darparu "*digon o dai a thwf economaidd yn elfennau pwysig o leihau allfudo pobl (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) o'u cymunedau, yn ogystal â hwyluso'r broses o fudo ymhlith teuluoedd mewn gwaith, a fydd yn ei dro yn helpu i gynnal neu greu cymunedau sydd â chydbwysedd oed*" [RD36].

A.6.50 Felly, mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt y CDLlC yn cydnabod y synergedd rhwng twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a llesiant y Gymraeg.

A.6.51 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-15: Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg 2013-15 [RD39], mae tua 60% o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 69% yng Ngwynedd bob amser (neu fel arfer) yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr. Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol na siaradwyr nad oedden nhw'n rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser neu fel arfer â'u cyd-weithwyr.

A.6.52 O ran yr angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn cyflogaeth, roedd 22% o siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn a 30% yng Ngwynedd wedi nodi yn eu disgrifiad swydd bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol. Hefyd, mae 25% o siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn a 18% yng Ngwynedd wedi nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.

A.6.53 Ar lefel Cymru, o ran yr angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn cyflogaeth, roedd disgrifiad swydd 15% o siaradwyr Cymraeg yn dynodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, ac roedd disgrifiad swydd 27% o siaradwyr Cymraeg yn dynodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.

A.6.54 Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o gael sgiliau iaith Gymraeg wedi'u dynodi naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol yn eu disgrifiad swydd (56%

o'r rhai â disgrifiad swydd) o gymharu â siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw'n rhugl (31% o'r rheini â disgrifiadau swydd).

A.6.55 Yng ngoleuni'r uchod, mae'n amlwg bod perthynas glir rhwng twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg.

Tai a'r iaith Gymraeg

A.6.56 Mae argaeledd tai fforddiadwy yn cael ei gydnabod yn eang fel ffactor bwysig wrth gadw pobl ifanc mewn cymunedau a lleihau allfudo. Oherwydd y rheswm hwn, mae pris tai yn benodol wedi cael ei gydnabod fel ffactor sy'n effeithio ar allfudo o ardaloedd gwledig sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.

A.6.57 Un mesur o fforddiadwyedd yn y farchnad dai yw canran yr aelwydydd nad ydyn nhw'n gallu fforddio prynu tŷ lefel mynediad, sy'n cael ei ddiffinio fel tŷ yn y chwartel isaf o brisiau tai [RD38].


A.6.58 Yn 2012, roedd 68.2% neu 21,433 o aelwydydd ar Ynys Môn wedi cael eu 'prisio allan o'r farchnad dai'. Ward Llanfair-yn-Neubwll oedd â'r ganran isaf o deuluoedd a oedd wedi cael eu 'prisio allan o'r farchnad dai', sef 37.2%, a ward Llanbedrgoch oedd â'r ganran uchaf, sef 79.9% [RD38]. Yn ystod yr un cyfnod yng Ngwynedd, cafodd 58.1% neu 30,911 o aelwydydd eu 'prisio allan o'r farchnad dai'. Ward Menai ym Mangor (yn is-adran Tir Mawr Menai prif ardal yr astudiaeth) sydd â'r ganran isaf o aelwydydd wedi'u 'prisio allan o'r farchnad dai', sef 33.6%, a ward Abersoch (yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu)) oedd â'r ganran uchaf, sef 93.4% [RD43].

A.6.59 Felly, ystyrir bod fforddiadwyedd tai yn broblem ar hyn o bryd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Y Gymraeg mewn meysydd astudiaeth amrywiol

Mae Ffigur A-14 yn dangos canran y boblogaeth (tair oed a hŷn) a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 ym mhob maes astudiaeth fel sy'n cael eu diffinio yn nhabl A-10.

Ffigur A-14 Canran y boblogaeth (tair oed a hŷn) a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl ardal, 2011[18]



A.6.60 O'r holl is-adrannau ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae'r Gymraeg ar ei chryfaf yn Nhir Mawr Menai (63.7%), wedi'i ddilyn yn agos gan Dde Ynys Môn (62.2%). Mae is-adran Tir Mawr Menai yn sir Gwynedd, lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf.

Gogledd Ynys Môn

A.6.61 Yn 2011, roedd 60.8% o boblogaeth Gogledd Ynys Môn (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na'r ganran ar gyfer prif ardal yr astudiaeth (61.0%) ond yn uwch na'r ganran ar gyfer Ynys Môn (57.2%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (42.7%).

A.6.62 Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd a chanolfannau Amlwch a Chemaes yng Ngogledd Ynys Môn. Er bod dros 60% o boblogaeth Gogledd Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg ar gyfartaledd, mae amrywiadau yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg rhwng y wardiau.

Ardal Datblygu Wylfa Newydd

A.6.63 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys data ar gyfer wardiau Llanbadrig a Mechell.

A.6.64 Yn 2011, roedd 57.1% o'r boblogaeth (tair oed a hŷn) yn wardiau Llanbadrig a Mechell gyda'i gilydd yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na'r ganran ar gyfer prif ardal yr astudiaeth (61.0%), sy'n debyg i'r ganran ar gyfer Ynys Môn (57.2%) ac yn uwch na'r ganran ar gyfer yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd

[18] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau iaith Gymraeg (KS207WA)

(Adeiladu) (42.7%). Mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Mechell (61.1%) o'i gymharu â Llanbadrig (52.4%) yn 2011.

A.6.65 Er bod ychydig dros hanner poblogaeth (56.3%) wardiau Llanbadrig a Mechell gyda'i gilydd wedi cael eu geni yng Nghymru[19], mae gan wardiau Llanbadrig a Mechell gyda'i gilydd ganran uwch (87.8%) o boblogaeth a gafodd ei geni yng Nghymru ac sy'n gallu siarad Cymraeg nag Ynys Môn (78.2%) a phrif ardal yr astudiaeth (81.4%)[20].

Amlwch

A.6.66 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Amlwch yn cynnwys data ar gyfer wardiau Porth Amlwch ac Amlwch Wledig.

A.6.67 Mae statws y Gymraeg yn gymharol iach yn Amlwch yn ôl yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt y CDLLC a fabwysiadwyd [RD36] gan fod 61.1% o'r boblogaeth (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 sy'n uwch na'r ganran ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae amrywiadau o fewn y canrannau hyn, gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Porth Amlwch (64.5%) o'i gymharu ag Amlwch Wledig (54.3%) yn 2011.

A.6.68 Mae gan Amlwch ganran fymryn yn llai o bobl a gafodd eu geni yng Nghymru (63.8%) nag Ynys Môn (65.4%)[21]. Mae canran poblogaeth Amlwch a gafodd eu geni y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg yn un o'r uchaf (19.6%) ar Ynys Môn (17.6%) sy'n awgrymu bod newydd-ddyfodiaid yn dewis dysgu Cymraeg neu fod Amlwch yn ardal ddymunol i siaradwyr Cymraeg sy'n penderfynu dychwelyd i Ynys Môn [RD36].

A.6.69 Mae'r twf o ran adeiladu a welwyd yn Amlwch ers 2002 yn gymharol isel. Oherwydd hyn, mae'r lefel ddangosol o dwf sy'n cael ei gynnig yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn uwch o lawer na'r hyn a welwyd yn y gorffennol, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Amlwch fel canolfan ar Ynys Môn [RD36].

Cemaes

A.6.70 Mae statws y Gymraeg yng Nghemaes yn fregus yn ôl Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y CDLlC a fabwysiadwyd [RD36], gan fod 50.5% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae gan Gemaes ganran is o'r boblogaeth sydd wedi cael ei geni yng Nghymru (53.1%) nag Ynys Môn (66.4%) [RD36]. Mae gan Gemaes gyfradd isel o aelwydydd lle mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg [RD36]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod bod tai yn llai fforddiadwy yng Nghemaes a bod canran gymharol uchel o ail gartrefi; o'r herwydd, mae'r tai sydd ar gael i'r boblogaeth leol yn gyfyngedig [RD36].

[19] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

[20] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

[21] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

Gorllewin Ynys Môn

A.6.71 O blith holl is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth, Gorllewin Ynys Môn sydd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg. Dim ond ychydig o dan hanner (48.9%) y boblogaeth (tair oed a hŷn) oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, sy'n is na'r ganran ar gyfer Ynys Môn (57.2%) a phrif ardal yr astudiaeth (61.0%) drwyddi draw, ond mae'n uwch na'r ganran ar gyfer yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (42.7%).

A.6.72 Mae canolfannau Caergybi, Bodedern, Rhosneigr a'r Fali yng Ngorllewin Ynys Môn. Er bod Gorllewin Ynys Môn yn cynnwys y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae amrywiadau yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol ardaloedd.

Caergybi

A.6.73 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Caergybi yn cynnwys data ar gyfer wardiau Tref Caergybi, Kingsland, Ffordd Llundain, Maeshyfryd, Morawelon, Parc a'r Mynydd a Phorth-y-felin.

A.6.74 Mae statws y Gymraeg yn fregus yng Nghaergybi [RD36] gan fod 42.2% o'r boblogaeth (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 sy'n is na'r ganran ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae amrywiadau yn y canrannau rhwng wardiau, gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Parc a'r Mynydd (50.3%) wedi'i ddilyn gan Ffordd Llundain (45.3%) ac mae'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Tref Caergybi (39.1%) wedi'i ddilyn gan Borth-y-felin (39.7%) yn 2011.

A.6.75 Mae gan Gaergybi ganran uwch o bobl a gafodd eu geni yng Nghymru (73.9%) nag Ynys Môn (65.4%)[22]. Mae canran poblogaeth Caergybi a gafodd ei geni yng Nghymru ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel ym mhob ward sy'n awgrymu bod gan Gaergybi gyfradd trosglwyddo iaith isel rhwng rhieni sy'n siarad Cymraeg a'u plant [RD36].

A.6.76 Mae Caergybi yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 833 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) sy'n gyfystyr â 55 o unedau tai bob blwyddyn [RD36].

Bodedern

A.6.77 Mae statws y Gymraeg ym Modedern yn gymharol gryf [RD36], gan fod 70.7% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Roedd Bodedern wedi gweld gostyngiad yng nghanran y boblogaeth 0-19 oed (-14.5%) a 20-19 oed (14.1%) y naill a'r llall rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu bod angen darparu tai addas i ddiwallu'r angen gan gynnwys ar gyfer teuluoedd ifanc yno [RD36]. Mae Bodedern yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 57 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

[22] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

Rhosneigr

A.6.78 Yn 2011, roedd 36% o boblogaeth Rhosneigr yn gallu siarad Cymraeg sy'n is o lawer na'r ganran ar gyfer Ynys Môn (57.2%), prif ardal yr astudiaeth (61.0%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (42.7%). Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod bod fforddiadwyedd tai yn broblem fawr yn Rhosneigr gyda llai o dai fforddiadwy yn y canol nag yn unrhyw le arall ar Ynys Môn [RD36]. Mae gan Rhosneigr ganran uchel o ail gartrefi hefyd, gydag un tŷ o bob pump sy'n cael ei adeiladu yn ail gartref [RD36]. Roedd canran poblogaeth 0-19 oed Rhosneigr wedi disgyn 16.5% rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu bod teuluoedd lleol ifanc sy'n symud allan yn broblem. Mae'n bosibl bod prinder tai fforddiadwy yn cyfrannu at hyn [RD36]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod ei bod hi'n bwysig iawn cadw a denu teuluoedd ifanc lleol er mwyn cynnal yr iaith yn Rhosneigr [RD36].

Y Fali

A.6.79 Mae statws y Gymraeg yn y Fali yn gymharol fregus [RD36], gan fod 54.7% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae gan y Fali gyfradd isel o aelwydydd lle mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg [RD36]. Gwelodd y Fali gynnydd sylweddol yng nghanran y boblogaeth dros 65 oed rhwng 2001 a 2011 [RD36]. Yn ystod yr un cyfnod, gwelodd y Fali ostyngiad yng nghanran y boblogaeth oedran gweithio sy'n awgrymu bod angen darparu tai addas ar gyfer teuluoedd ifanc yn y Fali [RD36]. Mae'r Fali yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 84 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

De Ynys Môn

A.6.80 Yn 2011, roedd 62.2% o boblogaeth De Ynys Môn (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg sy'n uwch na'r ganran o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, ym mhrif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

A.6.81 Mae canolfannau Biwmares, Benllech, Gaerwen, Llanfairpwll, Llangefni, Porthaethwy a Phentraeth yn Ne Ynys Môn. Er bod dros 60% o boblogaeth De Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg ar gyfartaledd, mae amrywiadau yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd.

Biwmares

A.6.82 Yn 2011, roedd 38.3% o boblogaeth Biwmares yn gallu siarad Cymraeg. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem fawr ym Miwmares ac mae yno ganran uchel o ail gartrefi [RD36]. Gwelodd Biwmares ostyngiad yng nghanran (-10.8%) y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu bod teuluoedd lleol ifanc sy'n symud allan yn broblem. Mae'n bosibl bod prinder tai fforddiadwy yn cyfrannu at hyn [RD36]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod ei bod hi'n bwysig iawn cadw a denu teuluoedd ifanc lleol er mwyn cynnal yr iaith ym Miwmares [RD36].

Benllech

A.6.83 Yn 2011, roedd 43.3% o boblogaeth Benllech yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon o siaradwyr Cymraeg yn is na'r ganran ar gyfer Ynys Môn. Mae

fforddiadwyedd tai yn broblem fawr ym Menllech ac mae yno ganran uchel o ail gartrefi [RD36]. Gwelodd Benllech ostyngiad yng nghanran (-9.3%) y boblogaeth 16-64 oed rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu bod pobl oed gweithio sy'n symud allan yn broblem. Mae'n bosibl bod prinder tai fforddiadwy yn cyfrannu at hyn [RD36]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod ei bod hi'n bwysig iawn cadw a denu'r boblogaeth oed gweithio ym Menllech [RD36].

Gaerwen

A.6.84 Mae statws y Gymraeg yng Ngaerwen yn gymharol iach [RD36], gan fod 76.5% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae ystod eang o gyfleoedd gwaith ar gael yng Ngaerwen [RD36]. Gwelodd Gaerwen ostyngiad yng nghanran y boblogaeth iau a oedd yn siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu y bydd hi'n bwysig hybu cyflenwad digonol o unedau tai, gan gynnwys tai fforddiadwy i gadw trigolion yn enwedig oedolion ifanc a theuluoedd [RD36]. Mae Gaerwen yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 58 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

Llanfairpwll

A.6.85 Yn 2011, roedd 71.8% o boblogaeth Llanfairpwll yn gallu siarad Cymraeg. Gwelodd Llanfairpwll ostyngiad yng nghanran y boblogaeth iau a oedd yn siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod *"mae'r ffaith bod canran o'r boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg wedi disgyn yn awgrymu nad oes tai addas a/neu fod llai o gyfleoedd gwaith i gadw teuluoedd ifanc yn yr ardal"* [RD36, t.54-55]. Mae Llanfairpwll yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 82 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

Llangefni

A.6.86 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Llangefni yn cynnwys data ar gyfer wardiau Cefni, Cyngar ac ward Tudur.

A.6.87 Mae statws y Gymraeg yn gymharol iach yn Llangefni [RD36] gan fod 80.7% o'r boblogaeth (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 sy'n uwch na'r ganran ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

A.6.88 Mae gan Langefni ganran uwch o bobl a gafodd eu geni yng Nghymru (82.2%) nag Ynys Môn (65.4%)[23]. Mae canran poblogaeth Llangefni a gafodd eu geni yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg, a'r ganran a gafodd eu geni'r tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg yn uchel (91.5% a 30.5% y naill a'r llall)[24].

A.6.89 Mae Llangefni yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 673 o unedau tai dros

[23] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

[24] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

gyfnod y cynllun (2011-2026) sy'n gyfystyr â 44 o unedau tai bob blwyddyn [RD36].

Porthaethwy

A.6.90 Yn 2011, roedd 55.9% o boblogaeth Porthaethwy yn gallu siarad Cymraeg. Mae tai ychydig yn llai fforddiadwy ym Mhorthaethwy o gymharu ag Ynys Môn drwyddi draw; fodd bynnag, nid ydy ail gartrefi yn broblem fawr yn yr ardal [RD36]. Mae Porthaethwy yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 115 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

Pentraeth

A.6.91 Yn 2011, roedd 60.5% o boblogaeth Pentraeth yn gallu siarad Cymraeg. Gwelodd Pentraeth ostyngiad yng nghanran y boblogaeth iau a oedd yn siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu y bydd hi'n bwysig hybu cyflenwad digonol o unedau tai, gan gynnwys tai fforddiadwy i gadw trigolion yn enwedig oedolion ifanc a theuluoedd yn ar ardal [RD36]. Mae Pentraeth yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 57 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

Tir Mawr Menai

A.6.92 Yn 2011, roedd 63.7% o boblogaeth (tair oed a hŷn) Tir Mawr Menai yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon yn uwch na'r ganran ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

A.6.93 Mae canolfannau Bangor, Bethesda, Caernarfon, Llanberis, Llanrug a Phenygroes yn Nhir Mawr Menai. Er bod dros 60% o boblogaeth Tir Mawr Menai yn gallu siarad Cymraeg, mae amrywiadau yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd.

Bangor

A.6.94 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Bangor yn cynnwys data ar gyfer wardiau Deiniol, Dewi, Garth, Glyder, Hendre, Hirael, Marchog, a Menai (Bangor).

A.6.95 Yn 2011, roedd 36.4% o boblogaeth Bangor (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg sy'n is na phrif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae amrywiadau rhwng y wardiau, gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn wardiau Dewi, Glyder a Marchog (52.5%, 51.7% a 50.2% yn y drefn honno) ac mae'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn wardiau Menai (Bangor) a Deiniol (18.5% a 22.8% y naill a'r llall).

A.6.96 Roedd ychydig o dan hanner (49.6%) poblogaeth Bangor wedi cael eu geni yng Nghymru. Mae canran y boblogaeth a gafodd eu geni yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg ym Mangor yn is (64.4%) na phrif ardal yr astudiaeth (81.4%)[25]. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod bod y ganran is hon o'r boblogaeth a gafodd ei

[25] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

geni yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg *"yn awgrymu nad ydy'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn teuluoedd sydd eisoes yn byw yn yr ardal"* [RD36 t.40]. Roedd pob ward yn y ddinas wedi gweld cynnydd yng nghanran y boblogaeth rhwng 2001 a 2011. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod myfyrwyr yn symud i'r ardal yn ogystal â'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y ddinas fel Prifysgol Cymru ac Ysbyty Gwynedd [RD36]. Efallai fod rhai pobl yn byw ym Mangor hefyd ond yn teithio i fusnesau neu ddiwydiannau i'r dwyrain, sy'n awgrymu bod yr ardal yn ddeniadol iawn i aelwydydd di-Gymraeg [RD36].

A.6.97 Mae Bangor yn cael ei chydnabod fel Canolfan Is-ranbarthol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 969 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) sy'n gyfystyr â 64 o unedau tai bob blwyddyn [RD36].

Bethesda

A.6.98 Mae statws y Gymraeg ym Methesda yn gymharol iach [RD36], gan fod 77.5% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Gwelodd Bethesda gynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Mae Bethesda yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 99 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod bod angen sicrhau bod tai newydd yn ddeniadol i deuluoedd ac oedolion ifanc er mwyn cynnal yr iaith ym Methesda [RD36].

Caernarfon

A.6.99 Mae gwybodaeth leol ar gyfer Caernarfon yn cynnwys data ar gyfer wardiau Peblig, Cadnant a Menai (Caernarfon).

A.6.100 Mae statws y Gymraeg yn iach iawn yng Nghaernarfon [RD36] gan fod 85.6% o'r boblogaeth (tair oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 sy'n uwch na'r ganran ar gyfer prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae Caernarfon yn gadarnle i'r Gymraeg [RD36].

A.6.101 Mae gan Gaernarfon ganran uchel o bobl a gafodd eu geni yng Nghymru (85.2%), canran uchel a gafodd eu geni yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg (94.5%) a chanran a gafodd ei geni y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg (34.3%)[26]. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod *"nad ydy lefel y newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg i'r dref yn ymddangos fel petai'n rhoi pwysau ar yr iaith"* [RD36].

A.6.102 Mae Caernarfon yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 415 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) sy'n gyfystyr â 27 o unedau tai bob blwyddyn [RD36].

Llanberis

A.6.103 Mae statws y Gymraeg yn Llanberis yn gymharol iach [RD36], gan fod 74.7% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Gwelodd Llanberis

[26] NOMIS: Cyfrifiad 2011 [RD10]: Sgiliau Cymraeg yn ôl gwlad enedigol yn ôl oed (LC2206WA).

ostyngiad yng nghanran y boblogaeth iau rhwng 2001 a 2011 sy'n awgrymu y bydd hi'n bwysig cadw teuluoedd ac oedolion ifanc er mwyn cynnal yr iaith yno [RD36]. Mae Llanberis yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 65 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

Llanrug

A.6.104 Yn 2011, Llanrug oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (87.8%) o holl wardiau Cymru. Mae gan Lanrug ganran uchel (72.5%) o'r boblogaeth a gafodd ei geni yng Nghymru a chanran uchel iawn (95.3%) o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi'i geni yng Nghymru [RD36]. Gwelodd Llanrug gynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 [RD36]. Mae Llanrug yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 61 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026).

Penygroes

A.6.105 Fel Llanrug, mae Penygroes yn gadarnle bwysig i'r Gymraeg gyda 86.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 [RD36]. Mae gan Benygroes ganran uchel iawn (97.2%) o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi cael ei geni yng Nghymru [RD36]. Mae Penygroes yn cael ei chydnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn y CDLlC a fabwysiadwyd ac mae'n dangos lefel twf o 89 o unedau tai dros gyfnod y cynllun (2011-2026) [RD36].

B Effeithiau'r prosiect cyfan

B.1 Cyflwyniad

B.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o effeithiau posibl y prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant, ar sail gwybodaeth sydd yn adran B.3 yr AEIG hwn. Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant sy'n berthnasol ar lefel prosiect cyfan yn hytrach nag effeithiau ar safle penodol. Mae effeithiau lleol, fel effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn y cymunedau wrth ymyl Safle'r Orsaf Bŵer neu safleoedd y Datblygiadau Cysylltiedig gan gynnwys busnesau cyfagos, yn cael eu hasesu yng nghyfrolau C i G.

B.1.2 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhagweld yn ansoddol.

B.1.3 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.

B.1.4 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran B.4.

B.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG ar lefel y prosiect cyfan

B.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn yn cael eu cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-10, adran A.5 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

B.2.2 Mae'r ardaloedd astudiaeth ar gyfer effeithiau'r prosiect cyfan yn cynnwys prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), sy'n cyd-fynd â'r rheini a ddefnyddiwyd yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol ar gyfer y prosiect cyfan ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1).

B.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

B.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu yn seiliedig ar ddull paramedr, fel yr amlinellir ym mhennod B1 (cyflwyniad i'r broses asesu) (Cyfeirnod y Cais: 6.2.1) y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r dull paramedr yn ei gynnig, ac yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Adeiladu

B.3.2 Mae AEIG Prosiect DCO Wylfa Newydd yn defnyddio nifer uchaf y gweithlu adeiladu fel sail ar gyfer yr asesiad. Mae disgwyl y bydd y gweithlu adeiladu yn cynnwys tua 8,500 o weithwyr yn ystod y cyfnod prysuraf. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod Prosiect DCO Wylfa Newydd yn gallu bod yn hyblyg i bwysau oherwydd mwy o alw na fydd wedi cael ei ragweld, mae'r asesiad yn seiliedig ar 9,000 o weithwyr. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddefnyddio i adlewyrchu'r sefyllfa waethaf bosibl, ar sail elfennau penodol ar lefel y prosiect cyfan, fel nifer y gweithwyr a'r gwelyau sydd ar gael ar draws daliadaethau, at ddibenion yr AEIG hwn. Ar y sail hon, nid ystyrir bod Cynlluniau Paramedr a Chynlluniau Gwaith yn berthnasol i'r asesiad hwn, oherwydd na fydd newidiadau i'r cynlluniau hyn yn newid elfennau allweddol ar lefel y prosiect cyfan (fel yr amlinellir uchod) ar gyfer yr AEIG hwn. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd wedi cael ei ddefnyddio yn y Datganiad Amgylcheddol, gan roi sylw penodol i'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1).

B.3.3 Er y cydnabyddir y gallai effeithiau godi hefyd o ganlyniad i lefelau is o weithwyr dros gyfnod hirach, ystyrir bod arwyddocâd unrhyw effeithiau o'r fath yn is nag unrhyw rai a asesir yn ystod y cyfnod prysuraf. Dylid hefyd nodi, er bod yr asesiad yn cael ei gynnal gan feddwl am y cyfnod prysuraf, byddai'r mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar er mwyn gallu osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau ar unrhyw adeg pan allent godi.

B.3.4 Mae'r wybodaeth am y gweithlu a drafodir isod yn sail ar gyfer yr asesiad o'r effeithiau ar gyfer effeithiau'r prosiect cyfan.

B.3.5 Nid yw gallu ieithyddol y gweithlu adeiladu yn hysbys; fodd bynnag, at ddibenion asesiad yn yr AEIG, tybiwyd mai pobl ddi-Gymraeg fyddai'r holl weithwyr nad fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosibl absoliwt.

B.3.6 Mae Ffigur B-1 yn dangos proffil chwarterol mynegol gweithlu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Mae'n seiliedig ar dybiaeth o 58 mis rhwng y Gwaith Adeiladu Niwclear Cyntaf[27] a'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Uned 1, gyda'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Uned 2 yn dilyn 17 mis yn ddiweddarach. Mae'r proffil hwn o'r gweithlu'n cynnwys y gweithwyr fydd eu hangen ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig, gan nodi y byddai gweithwyr y cam gweithredu yn ymuno â'r gweithlu yn ystod y cam adeiladu a byddai gorgyffwrdd.

B.3.7 Fel y nodir uchod, gan feddwl am y 'sefyllfa waethaf bosibl' at ddibenion asesu, cyfanswm nifer y gweithwyr yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu fydd 9,000. Byddai hyd at 4,000 o'r rhain yn cael llety yng Nghampws y Safle; mae disgwyl i 3,000 ddefnyddio'r llety sydd eisoes ar gael ym mhrif ardal yr

[27] Dyddiad yr adeiladu cyntaf di-droi'n-ôl (tywallt concrit strwythurol fel rheol) ar gyfer adeiladau sydd ag arwyddocâd diogelwch niwclear.

astudiaeth; ac mae disgwyl i o leiaf 2,000 fod yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth yn barod a dyma fydd y gweithlu lleol.


B.3.8 Mae Ffigur B-2 yn dangos proffil disgwyliedig defnyddio llety. Mae hyn yn cynnwys pob math o stoc llety, gan gynnwys darparu gwelyau yng Nghampws y Safle fel y nodwyd yn y Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4). Byddai'r gwelyau hyn ar gael tua diwedd blwyddyn 4 pan fydd y gweithlu'n cynyddu'n sylweddol. Dylid nodi nad oes disgwyl y byddai'r llety'n cael ei lenwi mewn ffordd fertigol gyda Champws y Safle yn cynrychioli'r stoc olaf a fyddai'n cael ei ddefnyddio, fel sydd o bosibl yn cael ei awgrymu yn y ffigur.

B.3.9 Er mwyn cefnogi'r asesiad a chanfod yr effeithiau posibl ar raddfa sy'n fwy lleol na'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), defnyddiwyd model disgyrchiant fel ffordd o ragweld lleoliad y gweithlu adeiladu yn y pen draw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae hwn yn fodel sy'n nodi dosbarthiad gofodol tebygol gweithwyr yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae canlyniadau'r model yn sail ar gyfer yr asesiad sy'n cael ei gyflwyno yn yr AEIG hwn. Cafodd hyn hefyd ei ddefnyddio yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) (lle caiff manylion y model disgyrchiant eu cyflwyno hefyd).


B.3.10 Mae'r model disgyrchiant yn dosbarthu gweithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu ar sail dau grŵp:

- gweithwyr sy'n byw gartref: y rheini sy'n teithio o'u prif gartref bob dydd; a
- gweithwyr nad ydynt yn byw gartref: y gweithwyr hynny a fyddai'n defnyddio llety dros dro yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd oherwydd ei bod hi'n anymarferol iddynt deithio o'u prif gartref bob dydd.

Ffigur B-1 Proffil dangosol y gweithlu adeiladu



Ffigur B-2 Proffil dangosol llety'r gweithlu adeiladu



Dosbarthiad gweithwyr adeiladu ar draws mathau o lety

Mesurau lliniaru creiddiol - adeiladu

B.3.11 Mae darparu Campws y Safle a'r cyfleusterau yn y campws hwnnw yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn fesur lliniaru creiddiol er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar y farchnad dai leol a chyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus. Mae hon yn agwedd allweddol o'r Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4). Bydd y Strategaeth Llety Gweithwyr yn cael ei hardystio a bydd yn rhaid paratoi a gweithredu Cod Ymddygiad sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion yn y Strategaeth Llety Gweithwyr a fydd yn cael ei sicrhau o dan Ofyniad DCO. Mae'r effeithiau lleol posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant sy'n benodol i ddatblygiad Campws y Safle yn cael eu hasesu yng nghyfrol C yr AEIG hwn ar wahân i nodweddion y boblogaeth sy'n cael eu hasesu yng nghyfrol B.

B.3.12 Yn ychwanegol at y mesurau lliniaru hyn, mae'r mesurau lliniaru creiddiol a nodir yn asesiadau'r Datganiad Amgylcheddol, sy'n ymwneud â'r dirwedd a materion gweledol, ansawdd yr aer, a sŵn, yn darparu mesurau lliniaru sy'n anuniongyrchol berthnasol i'r effeithiau ar y Gymraeg wrth ystyried ansawdd bywyd.

B.3.13 Mae Map Lliniaru (MRM) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am gydsyniad datblygu. Bydd y ddogfen hon yn nodi'r holl fesurau lliniaru a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol, yn ogystal â mesurau lliniaru eraill nad ydynt yn rhai amgylcheddol sydd wedi cael eu cynnig gan Horizon (fel Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr). Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o becyn y cais am DCO ei hun, ond ei hunig ddiben yw helpu'r Awdurdod Archwilio a phartïon sydd â diddordeb i ddeall sut caiff y mesurau lliniaru mae Horizon yn dibynnu arnynt eu sicrhau.

B.3.14 Ar ben hynny, byddai plannu ar y twmpathau tirweddu a phlannu coetir fesul cam yn sgrinio cymunedau Tregele a Chemaes. Mae hyn yn berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau wrth ystyried ansawdd bywyd. Byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy'r egwyddorion yn y Datganiad Dylunio a Mynediad (Cyfeirnod y Cais: 8.2) a'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (Cyfeirnod y Cais: 8.16). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhenodau perthnasol cyfrol C y Datganiad Amgylcheddol (effeithiau'r prosiect cyfan, Cyfeirnod y Cais: 6.3).

Arferion lliniaru da - adeiladu

B.3.15 Mae nifer o weithgareddau i gefnogi datblygiad y gweithlu adeiladu yn yr ardal leol wedi cael eu hamlinellu yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3). Er na chaiff y strategaeth hon ei sicrhau fel un o ofynion y DCO, mae'n amlinellu elfennau ynghylch sut byddai Horizon yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, ac aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ariannu ac i hwyluso darparu hyfforddiant ychwanegol yn amserol er mwyn diwallu anghenion sgiliau penodol a nodir ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd. Bydd yr elfennau hyn yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau yn cael eu sicrhau drwy rwymedigaethau cynllunio ac yn cefnogi Horizon i gynyddu canran y gweithwyr a fydd yn byw gartref a fydd yn y gweithlu yn ystod y cam adeiladu. At ddibenion asesu, amcangyfrifir y bydd hyn yn 2,000 o weithwyr o leiaf. Byddai hyn yn hybu ac yn galluogi hyfforddiant cyn cyflogaeth bosibl er mwyn

hwyluso mwy o gyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae manylion y strategaeth ar gael yn atodiad B4-1 AEIG hwn.

B.3.16 Bydd Horizon yn parhau i weithio gyda'i Bartner Menter ar y Cyd, Menter Newydd, i godi ymwybyddiaeth o Brosiect DCO Wylfa Newydd a'r cyfleoedd datblygu busnes a ddaw yn sgil hynny, gyda'r ffocws ar fusnesau lleol (Ynys Môn) a rhanbarthol (gogledd Cymru). Mae Siarter Cadwyn Gyflenwi Horizon (sydd ar gael yn www.horizonnuclearpower.com/hafan) yn nodi ei ymrwymiad i ddiogelwch, cydweithrediad ac ymgysylltiad, ochr yn ochr â chaffael ac integriti. Mae hefyd yn amlinellu beth mae Horizon yn ei ddisgwyl gan gyflenwyr, ac yn nodi sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau mwy o ganlyniadau manteisiol i bob parti.

B.3.17 Ochr yn ochr â hyn, mae Horizon yn datblygu Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi i gefnogi gwireddu'r nodau a nodir yn y Siarter. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei sicrhau drwy rwymedigaethau cynllunio. Bydd cylch gorchwyl a memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael eu datblygu fel rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai Horizon yn sefydlu gweithgor a fyddai'n annog awdurdodau statudol, rhanddeiliaid, partneriaid y prosiect a darparwyr trydydd parti'r gadwyn gyflenwi i gydweithio yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd y Cynllun Gweithredu'n canolbwyntio gan fwyaf ar sicrhau bod y busnesau yn yr ardal yn barod ar gyfer y cyfleoedd a fydd ar gael. Bydd yn nodi, er enghraifft:

- sut bydd cyfleoedd cadwyn cyflenwi yn cael eu rhannu;
- sut bydd cyflenwyr yn cofrestru ac yn cael eu cymeradwyo;
- nodi categorïau cadwyn gyflenwi sydd i'w targedu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- mesurau monitro perfformiad a sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws diwydiannau ehangach;
- mae Horizon yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Parodrwydd Busnes sy'n cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a drwy'r Cynllun Gweithredu, bydd Horizon yn dod o hyd i unrhyw weithgareddau eraill sydd eu hangen o dan y rhaglen hon;
- amodau safonol contract a thelerau talu teg.

B.3.18 Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut byddai cyfleoedd yn cael eu rhannu â busnesau, sut byddai'r prosesau cofrestru cyflenwyr yn gweithio, y porth digidol y byddai modd ei ddefnyddio, sut bydd perfformiad yn cael ei fonitro a'i asesu.

B.3.19 Yn ogystal â hyn, mae'r arferion lliniaru da a nodir yn asesiadau tirwedd a gweledol, ansawdd aer a sŵn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3) yn berthnasol i'r AEIG wrth asesu'r effeithiau ar ansawdd bywyd.

B.3.20 Bydd Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnodau'r Cais: 8.7 i 8.12) yn nodi'r safonau a'r mesurau gwaith sy'n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth, ac yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gyda'r nod

o reoli effeithiau niweidiol ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd yn nodi strategaethau ar gyfer y prosiect cyfan a fydd yn cael eu hategu gan Is Godau Ymarfer Adeiladu sy'n darparu safonau a mesurau ychwanegol sy'n arbennig o berthnasol i safle neu leoliad penodol. Bydd y Cod Ymarfer Adeiladu a'r Is Godau Ymarfer Adeiladu yn ddogfennau ardystiedig, a bydd cydymffurfiad yn cael ei sicrhau drwy Ofynion y DCO.

B.3.21 Yn ogystal â hyn, mae'r Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) (a fydd yn ddogfen a fydd wedi'i hardystio) yn nodi'r egwyddorion a fydd yn arwain datblygiad y Cod Ymarfer Adeiladu fel:

- yr ymddygiad a ddisgwylir;
- rhwymedigaethau mewn perthynas â hyfforddiant a darparu cyfleusterau i'r gweithlu;
- rhwymedigaethau i ddefnyddio mesurau lliniaru prosiect penodol (hy Parcio a Theithio);
- gofynion adrodd, ymchwilio a disgyblu;
- Cod Ymddygiad ar gyfer gweithwyr; a
- rhaglenni y bydd personél yn eu dilyn (er enghraifft, cynefino a diwylliant).

B.3.22 Bydd yr egwyddorion yn helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno'n ddiogel, yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, ac y bydd yn lleihau effeithiau posibl y nifer fawr o weithwyr adeiladu dros dro ar y gymuned leol. Bydd Horizon hefyd yn sicrhau bod y safonau a'r gweithdrefnau'n cael eu gorfodi a bydd yn cefnogi'r gymuned a rhanddeiliaid i osgoi problemau y gellir eu rhagweld ac ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol os bydd problemau annisgwyl yn codi.

B.3.23 Bydd gofyn i Horizon baratoi a chyflwyno Cod Ymddygiad i'w gymeradwyo yn unol â'r egwyddorion yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) a rhoi'r Cod Ymddygiad ar waith yn ystod gwaith adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Bydd yn rhaid i weithwyr a chyflogwyr (contractwyr) gydymffurfio â Chod Ymddygiad Wylfa Newydd drwy gytundebau adeiladu a llafur.

B.3.24 Yn ogystal â'r Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) sy'n ceisio sicrhau bod y cynnig llety ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn ddeniadol i weithwyr ac yn eu denu tuag at y prosiect. Ond mae hefyd yn ceisio eu cymell a'u tywys tuag at ddewisiadau llety sydd o fudd i'r ardal leol ac sy'n osgoi effeithiau niweidiol ar gymunedau cyfagos.

B.3.25 Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) yn amlinellu'r darpariaethau canlynol a byddai'r rhain yn cael eu sicrhau drwy gyfrwng rhwymedigaethau cynllunio a chyfraniadau ariannol:

- Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr;
- y Gronfa Dai; a
- chyfleusterau Iechyd a Lles sydd ar gael i'r gweithwyr.

B.3.26 Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4) hefyd yn cynnwys manylion unrhyw ddarpariaethau ychwanegol fyddai'n angenrheidiol o ran

unrhyw newid i'r strategaeth llety sy'n wahanol i'r hyn sy'n cael ei adrodd yn y bennod hon (hy bydd hyd at 4,000 o weithwyr yn cael llety yng Nghampws y Safle; disgwylir i 3,000 ddefnyddio'r llety sydd ar gael yn barod ym mhrif ardal yr astudiaeth a disgwylir i tua 2,000 fod yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth yn barod, gan gynrychioli'r gweithlu lleol).

B.3.27 Oherwydd y rhyngddibyniaethau rhwng yr asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1), Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Cyfeirnod y Cais: 8.22) mae'r mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig fel rhan o'r asesiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i liniaru'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Gweithredu

B.3.28 Mae'r AEIG yn seiliedig ar amcangyfrif o 850 o weithwyr pan fydd yr orsaf yn gweithredu'n llawn. Mae disgwyl y bydd 85% o'r rheini yn byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae disgwyl i'r holl weithwyr hynny bron fyw ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rheini o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (128) a fyddai'n adleoli ar gyfer eu gwaith. Amcangyfrifir y byddai tua 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion yn adleoli gyda'r gweithwyr ym mhrif ardal yr astudiaeth hefyd, gan wneud cyfanswm o 200 o weithwyr y cam gweithredu a phartneriaid/dibynyddion a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth. At ddibenion asesu, tybiwyd y byddai holl weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn bobl ddi-Gymraeg, er mwyn asesu'r sefyllfa waethaf bosibl.

B.3.29 Ar sail dosbarthiad gweithwyr y cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Orsaf Bŵer Bresennol, amcangyfrifir y byddai 85% (neu 740 o weithwyr) ynghyd â 36 o bartneriaid a 27 o ddibynyddion yn aros ar Ynys Môn.

B.3.30 Dyma ddadansoddiad o'r gweithlu:

- 25% gweithrediadau;
- 25% cynnal a chadw;
- 25% peirianneg;
- 10% cymorth technegol; a
- 15% cymorth busnes a masnachau eraill.

B.3.31 Byddai angen gweithlu cyfnod segur ychwanegol o 1,000 bob 18 mis, ar gyfer pob Uned. Ni fyddai'r cyfnodau segur ar gyfer pob Uned yn digwydd ar yr un pryd. Byddai cadwyn gyflenwi Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael ei defnyddio i gael gafael ar y gweithwyr hyn. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud mewn dwy shifft o 12 awr dros 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Byddai cyfnodau segur yn para tua 25 i 30 diwrnod bob tro. Byddai hyn yn cael ei ymestyn i ddiffodd am 45 diwrnod bob deg mlynedd.

Mesurau lliniaru creiddiol - gweithredu

B.3.32 Mae'r mesurau lliniaru creiddiol a nodir yn asesiadau tirwedd a gweledol, ansawdd aer a sŵn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3) i gyd yn darparu mesurau lliniaru sy'n berthnasol, yn anuniongyrchol i'r effeithiau ar y Gymraeg, wrth ystyried ansawdd bywyd.

Arferion lliniaru da - gweithredu

B.3.33 Byddai Siarter y Gadwyn Gyflenwi a drafodir uchod yn cefnogi ymgysylltiad cadwyn gyflenwi barhaus drwy gydol cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3) a fyddai'n cael ei rhoi ar waith yn ystod y cam adeiladu, yn fesur lliniaru ymarfer da er mwyn cynyddu cyfraniad lleol gweithlu'r cam gweithredu. Yn ogystal â'r llwybr mynediad safonol at yrfaoedd yn y sector, mae hon yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu ag ysgolion, y rheini sydd wedi bod yn ddi-waith ers tro byd, cyn bersonél Lluoedd Ei Mawrhydi ac ystod o gynlluniau hyfforddi ar gyfer prentisiaid a graddedigion. Nid yw'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau yn Ddogfen Rheoli ac felly ni fydd yn cael ei hardystio fel rhan o'r DCO; fodd bynnag, bydd amrywiol elfennau (fel y gwasanaeth cyflogaeth neu'r targedau cyflogaeth) yn cael eu sicrhau drwy gytundeb adran 106.

B.3.34 Mae'r mesurau lliniaru ymarfer da a nodir yn asesiadau tirwedd a gweledol, ansawdd aer a sŵn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3) i gyd yn darparu mesurau lliniaru sy'n berthnasol, yn anuniongyrchol i'r effeithiau ar y Gymraeg, wrth ystyried ansawdd bywyd. Ac eithrio Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6), mae'r mesurau lliniaru sy'n cael eu hamlinellu yn yr adran 'Arferion lliniaru da - adeiladu' i gyd yn berthnasol i'r cyfnod gweithredu.

Datgomisiynu

B.3.35 Mae disgwyl i'r Uned gyntaf gael ei datgomisiynu ym mlwyddyn 69 ar y sail bod y cyfnod gweithredu yn dechrau tua diwedd blwyddyn 9. Ar hyn o bryd nid oes modd i Horizon wneud rhagamcaniadau cadarn o'r gweithlu a'r goblygiadau cysylltiedig.

B.3.36 Fodd bynnag, mae modd cael syniad o'r newidiadau posibl mewn gweithlu drwy edrych ar brosiectau tebyg fel hen orsafoedd pŵer Magnox yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd, yn ogystal â'r Orsaf Bŵer Bresennol yn Nhrwyn Wylfa. Byddai'r gostyngiad yn niferoedd gweithlu'r cam gweithredu yn ystod y datgomisiynu yn digwydd fesul cam, fodd bynnag, mae manylion penodol am hyn ar gael ar hyn o bryd.

B.3.37 Fel arferion lliniaru da, byddai Horizon yn ceisio ailddefnyddio, ailhyfforddi ac ailsgilio staff y cam gweithredu mewn rolau datgomisiynu. Drwy weithredu Siarter y Gadwyn Gyflenwi a'r Cynllun Gweithredu Cyflenwi cysylltiedig byddai Horizon yn annog y contractwyr sy'n gyfrifol am ddatgomisiynu i ddefnyddio busnesau lleol cymaint ag y bo modd.

B.4 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

B.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn yr 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol.

B.4.2 Mae'r asesiad ar gyfer pob un o'r 18 cwestiwn yn y rhestr wirio wedi'u nodi o dan y penawdau canlynol:

- cefndir: rhoi'r wybodaeth gefndir ynghylch sut gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant yng nghyd-destun y cwestiwn;
- gwaelodlin/tystiolaeth flaenorol: gosod y waelodlin ac amlinellu'r dystiolaeth flaenorol am y cwestiwn penodol hwnnw;
- effeithiau yn ystod y cam adeiladu: cyflwyno asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu gan gynnwys casgliad o'r effaith gyffredinol gan gynnwys sgôr;
- effeithiau yn ystod y cam gweithredu: cyflwyno asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam gweithredu gan gynnwys casgliad o'r effaith gyffredinol gan gynnwys sgôr; a
- mesurau lliniaru/gwella: cyflwyno'r mesurau lliniaru gofynnol arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella er mwyn manteisio i'r eithaf ar effeithiau manteisiol.

Nodweddion y boblogaeth

C1: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);
- arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Y Cefndir

B.4.3 Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar symudiadau'r boblogaeth mewn ardal. Gall gael effaith gadarnhaol drwy sefydlogi poblogaethau neu hybu twf drwy fewnfudo. Fodd bynnag, gall lefelau sylweddol o fudo, i mewn neu allan, gael effaith niweidiol ar gydbwysedd cymdeithasol ardal, ac o ganlyniad, gall ddylanwadu ar nodweddion allweddol cymuned fel y defnydd o'r Gymraeg.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.4 Mae Atodiad A7-1 yr adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth a sgiliau yn yr iaith Gymraeg ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn 2011. Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol

sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg yn yr amrywiol ardaloedd astudiaeth ar gael yn adran A.6.

B.4.5 Rhwng 2001 a 2015 mae Ynys Môn wedi gweld mewnlif cyffredinol o bobl o bob oed ar gyfartaledd. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Ynys Môn wedi parhau i weld all-lif net o bobl iau (15-29 oed) (-168 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd). Mae pobl 45 i 64 oed wedi bod yn symud i mewn i Ynys Môn yn gyson hefyd (173 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd).

B.4.6 Diffyg cyfleoedd economaidd a symud i gael addysg uwch yw dau o'r prif resymau pam mae pobl ifanc yn symud [RD36]. Rhwng 2009 a 2013, cafwyd gostyngiad o 1,050 (6%) o weithwyr cyfwerth ag amser llawn mewn cyflogaeth yn Ynys Môn.

B.4.7 Mae darparu digon o dai a thwf economaidd yn elfennau pwysig i leihau faint o bobl (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) sy'n symud allan o'u cymunedau [RD36].

B.4.8 Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn nodi bod disgwyl i rannau o Ynys Môn a Gwynedd weld cyfleoedd gwaith sylweddol o 2018 ymlaen o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd, datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol a phrosiectau seilwaith mawr eraill [RD15]. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn darparu ar gyfer 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Mae'r lefel hon o dwf a nodwyd yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn seiliedig ar dwf wedi'i arwain gan gyflogaeth y mae disgwyl iddo gael ei gyflawni'n rhannol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.9 Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, mae disgwyl y bydd poblogaeth Ynys Môn yn parhau i ddisgyn, gan ostwng 3% yn ystod y cyfnod tan 2039 (blwyddyn olaf y rhagolwg). Ond mae disgwyl i boblogaeth gogledd Cymru gynyddu 4% ac i boblogaeth Cymru gyfan gynyddu 5% erbyn 2039. Nid yw'r amcanestyniadau hyn yn nodi'n benodol eu bod yn cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd ac felly dylid eu hystyried fel amcanestyniadau nad ydynt yn cynnwys y datblygiad.

B.4.10 Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn comisiynu ei amcanestyniadau poblogaeth ei hun sy'n ystyried effeithiau posibl y Rhaglen Ynys Ynni ar yr ynys, gan gynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd [RD45]. Mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu y bydd poblogaeth Ynys Môn yn tyfu 9.5% rhwng 2016 a 2035, blwyddyn diweddaraf amcanestyniadau. Mae hyn yn groes i'r patrymau am i lawr sy'n cael eu dangos gan ystadegau swyddogol.

B.4.11 Roedd canran uchel o boblogaeth prif ardal yr astudiaeth (3 oed a hŷn) yn siarad Cymraeg yn 2011 (61.0% o'i gymharu â chyfartaledd o 19% yng Nghymru). Serch hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth wedi gostwng ychydig o 79,805 (64.6%) yn 2001 i 79,470 (61.0%) yn 2011 - gostyngiad o 0.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi'i briodoli i newidiadau demograffig yn y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg yn allfudo, pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng cyfrifiadau [RD46].

B.4.12 Rhwng 2001 a 2011, roedd y cwymp mwyaf yng nghanran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymysg y rheini a oedd yn 20-24 oed, wedi'i ddilyn gan y

rheini a oedd yn 16-19 oed. Roedd canran y bobl ifanc 20-24 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi disgyn 9.7 pwynt canran dros y cyfnod hwn (o 58.6% i 48.9%) ac roedd canran y rheini a oedd yn 16-19 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi disgyn 9.0 pwynt canran (o 71.9% i 62.9%). Ystyrir bod hyn yn ymwneud â'r all-lif parhaus o bobl ifanc 15-19 oed o 2001 hyd at 2014.

B.4.13 Roedd canran y plant 3-4 a 5-15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu ym mhrif ardal yr astudiaeth rhwng 2001 a 2011 (0.9 pwynt canran ac 1.5 pwynt canran yn y drefn honno). Mae canran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn y grŵp oedran 5-15 o hyd, ac mae'n sylweddol uwch na'r holl grwpiau oedran eraill gydag 84.4% yn siarad Cymraeg. Mae modd priodoli'r cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ymhlith y grwpiau hyn yn bennaf i rôl addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.14 Gostyngodd canran y wardiau ym mhrif ardal yr astudiaeth lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o 40.5% (30 ward) yn 2001 i 37.8% (28 ward) yn 2011. Mae cynllunwyr ieithyddol ac eraill wedi dadlau ers amser fod angen dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn i'r iaith Gymraeg fod yn iaith bob dydd mewn cymuned ac yn rhan o'i gwead cymdeithasol [RD40]. Roedd canran y bobl a allai siarad Cymraeg yn 2011 ym mhob ward ar draws prif ardal yr astudiaeth yn amrywio'n sylweddol o 18.6% yn ward Menai (Bangor) i 87.8% yn ward Llanrug, gyda'r naill ward a'r llall yn is-adran Tir Mawr Menai prif ardal yr astudiaeth.

B.4.15 Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar draws prif ardal yr astudiaeth wedi disgyn ers 2001 gyda'r rhan fwyaf o'r wardiau sydd wedi gweld gostyngiad yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn. Roedd y gostyngiad mwyaf yn ward Garth (-15.7 pwynt canran) sydd yn Nhir Mawr Menai. Caiff hyn ei briodoli i fyfyrwyr Prifysgol Bangor a ddaw o'r tu allan i Gymru. Dim ond mewn 10 o'r 74 ward ym mhrif ardal yr astudiaeth y gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Roedd y ddwy ward a welodd y cynnydd a'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn is-adran Tir Mawr Menai prif ardal yr astudiaeth.

B.4.16 Wrth edrych ar ddata'r Cyfrifiad ar gyfer 1961 a 1971 (cyfnod adeiladu'r Orsaf Bŵer Bresennol), roedd gan nifer o ardaloedd arfordirol Ynys Môn lai na 80% o'r boblogaeth a allai siarad Cymraeg, gan gynnwys plwyf Llanbadrig, sef lle mae'r Orsaf Bŵer Bresennol [RD46]. Yn ystod y 1960au, cafodd y cysylltiadau ffyrdd â Lloegr eu gwella a gwelwyd cynnydd yn y nifer a oedd yn berchen ar gar. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn twristiaeth ac yn nifer y bobl a oedd yn symud i ardaloedd arfordirol i ymddeol [RD46]. Mae hi'n bosibl bod rhywfaint o'r cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y 1960au o ganlyniad i adeiladu'r Orsaf Bŵer Bresennol; fodd bynnag, nid oes modd profi hyn [RD46].

B.4.17 Gwelodd y rhan fwyaf o blwyfi ac wardiau Ynys Môn ostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1961 a 1971 ond gwelodd rhai gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Gwelodd Llanbadrig ostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg (-15 pwynt canran) rhwng 1961 a 1971 ond cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg (+43 o bobl) [RD46]. Yn hyn o beth, roedd Ynys Môn yn wahanol i'r rhan fwyaf o Gymru [RD46]. Nododd Aitchison a Cater yn The Welsh Language 1961-1981 An Interpretative Atlas, wrth drafod Cymru

drwyddi draw *"Within the main Welsh-speaking areas, isolated but notable increases were recorded by such communities as Llangefni, Llanfairpwllgwyngyll and Amlwch on the Isle of Anglesey"* [RD46, t.3].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.18 Yn ystod y cam adeiladu, byddai'r angen am hyd at 9,000 o weithwyr adeiladu ar y cyfnod prysuraf, gyda hyd at 7,000 o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref (a 505 o bartneriaid a dibynyddion) yn symud i brif ardal yr astudiaeth yn arwain at newid sylweddol i nodweddion poblogaeth bresennol prif ardal yr astudiaeth. Ar y cyfnod prysuraf, mae disgwyl y bydd 4,000 o'r 7,000 o weithwyr na fyddant yn byw gartref yn aros yng Nghampws y Safle, ac mae disgwyl y bydd 3,000 yn aros yn y gymuned. Mae effeithiau'r gweithwyr hyn ar lefelau daearyddol gwahanol yn cael eu hamlinellu isod.

Effeithiau ar lefel prif ardal yr astudiaeth ac ar lefel is-ardal

B.4.19 Ar sail poblogaeth bresennol prif ardal yr astudiaeth (yn 2011), byddai (tua) 7,500 yn ychwanegol o weithwyr adeiladu a'u teuluoedd yn arwain at gynnydd o 5.4% yn y boblogaeth ar lefel prif ardal yr astudiaeth a'r cynnydd canlynol ar lefel is-ardal:

- Gogledd Ynys Môn: 38.2% (o 13,608 i 18,808 (yn fras));
- Gorllewin Ynys Môn: 4.2% (o 24,760 i 25,800 (yn fras));
- De Ynys Môn: 2.3% (o 31,383 i 32,118 (yn fras));
- Tir Mawr Menai: 0.8% (o 68,075 i 68,595 (yn fras)).

B.4.20 Byddai'r cynnydd mwyaf mewn poblogaeth felly'n digwydd yng Ngogledd Ynys Môn (38.2%) a Gorllewin Ynys Môn (4.2%). Byddai is-ardal Gogledd Ynys Môn yn gweld y cynnydd mwyaf oherwydd ei bod yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd a Champws arfaethedig y Safle, a fyddai'n darparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref.

B.4.21 Byddai'r rhan fwyaf o'r 3,000 o weithwyr na fyddent yn byw gartref na fyddent yn byw yng Nghampws y Safle hefyd yn symud i is-ardaloedd Gogledd Ynys Môn (1,030) a Gorllewin Ynys Môn (890), a byddid yn disgwyl i lai symud i Dde Ynys Môn (640) a Thir Mawr Menai (440).

B.4.22 Ar lefel prif ardal yr astudiaeth, byddai'r cynnydd yn y boblogaeth (oherwydd presenoldeb gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd) yn effeithio'n niweidiol ar y cydbwysedd rhwng y siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan leihau canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth 3.4% (ar sail data sylfaenol Cyfrifiad 2011). Oherwydd y byddai'r cynnydd yn y boblogaeth fwyaf yng Ngogledd Ynys Môn, byddai'r is-ardal hon hefyd yn gweld y gostyngiad mwyaf yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Mae'r newid yng nghanran y boblogaeth a fyddai'n gallu siarad Cymraeg (ar sail data cyfrifiad 2011) yn cael ei ddangos isod:

- gostyngiad o 17.2 pwynt canran yng Ngogledd Ynys Môn;
- gostyngiad o 2.0 pwynt canran yng Ngorllewin Ynys Môn;
- gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn Ne Ynys Môn;

- gostyngiad o 0.5 pwynt canran yn Nhir Mawr Menai;

Effeithiau ar lefel trefi/wardiau

B.4.23 Mae modelu disgyrchiant (gweler atodiad C1-2 o'r Atodiad Technegol Economaidd-Gymdeithasol, Cyfeirnod y Cais: 6.3.9) yn awgrymu bod disgwyl i tua 54% o'r 3,000 o weithwyr na fyddant yn byw gartref (na fyddent yn aros yng Nghampws y Safle) symud i lety y tu allan i brif drefi[28]. Byddai disgwyl i bron i draean o'r gweithwyr hyn ddiwallu eu gofynion llety yng Nghaergybi (475), Benllech a Llanbedrgoch (254) ac Amlwch (160). Mae disgwyl i Fangor, Porthaethwy a Llanfairpwll hefyd ddarparu llety i tua 170 a 107 o weithwyr. Gan fod ond disgwyl i'r prif drefi ddarparu llety i tua 54% o'r gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref (na fyddent yn byw yng Nghampws y Safle), byddai disgwyl hefyd i'r ardaloedd gwledig y tu allan i'r prif drefi weld cynnydd mewn poblogaeth. Mae hi'n bwysig nodi bod canlyniadau modelu disgyrchiant yn rhagweld dosbarthiad gweithwyr na fyddant yn byw gartref ar sail y cyflenwad o lety a'r pellter teithio o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r effeithiau a drafodir isod yn rhoi arwydd o effeithiau posibl dosbarthiad gweithwyr na fyddant yn byw gartref ar y boblogaeth a chanran y siaradwyr Cymraeg yn wardiau prif ardal yr astudiaeth heb fesurau lliniaru a/neu wella.

B.4.24 Mae is-ardaloedd Gogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn, lle byddai'r cynnydd mwyaf i'w weld o ran poblogaeth, hefyd yn cynnwys trefi Caergybi ac Amlwch (sy'n cael eu nodi fel Canolfannau Gwasanaethau Trefol yn y CDLlC. Mae Caergybi ac Amlwch yn cael eu cydnabod fel aneddiadau cynaliadwy a hygyrch a fydd yn gweld lefel uchel o dwf yn sgil y CDLlC (833 o unedau tai yng Nghaergybi a 533 o unedau tai yn Amlwch dros gyfnod y cynllun hyd at 2026), yn seiliedig ar dwf wedi'i arwain gan gyflogaeth y mae disgwyl iddo gael ei gyflawni'n rhannol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae effeithiau posibl y newid mewn poblogaeth ar Gaergybi ac Amlwch yn cael eu trafod yn eu tro isod.

B.4.25 Caergybi yw'r ganolfan fwyaf ar Ynys Môn. Ar sail model disgyrchiant (sy'n ystyried y cyflenwad o lety a'r pellter teithio), disgwylir i Gaergybi roi llety i 476 o weithwyr adeiladu, a fyddai'n cyfateb i gynnydd o 4.2% ym mhoblogaeth 2011 yn ystod y cyfnod prysuraf. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn nodi lefel o dwf ar gyfer Caergybi a fyddai'n achosi cynnydd o tua 16%[29] yn y boblogaeth (dros gyfnod o 15 mlynedd) (ar sail y boblogaeth yn 2011). Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod pwysigrwydd polisïau tai fforddiadwy, datblygu fesul cam, cynnal a chadw a gwella seilwaith i sicrhau na fydd y lefel hon o dwf yn cael effaith andwyol sylweddol ar y ganran o siaradwyr Cymraeg yng Nghaergybi [RD36]. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth a ddisgwylir yng Nghaergybi yn sgil gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd (ar sail model disgyrchiant a data Cyfrifiad 2011 fel gwaelodlin) yn llawer is na'r cynnydd sydd wedi'i nodi ar gyfer Caergybi yn y CDLlC a fabwysiadwyd, sy'n

[28] Y prif drefi yw Amlwch, Bangor, Biwmares, Benllech a Llanbedrgoch, Bethel a Llanrug, Bethesda, Caernarfon a Bontnewydd, Deiniolen, Caergybi, Llandygai, Llangefni, Porthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll.

[29] Ar sail maint aelwydydd amcanol o 2.18 ar gyfer 2026 ym Mhapur Pwnc 3A: Poblogaeth a Thai Mawrth 2016 [RD44].

seiliedig ar dwf wedi'i arwain gan gyflogaeth y mae disgwyl iddo gael ei gyflawni'n rhannol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.26 Ystyrir mai demograffig y Gymraeg yng Nghaergybi sydd fwyaf bregus [RD36] gyda chanran is o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (42.2%). Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn holl wardiau'r dref rhwng 2001 a 2011.

B.4.27 Er mwyn dangos effaith waethaf bosibl lefel y twf yn y boblogaeth ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghaergybi, pe tybir y byddai'r holl weithwyr na fyddent yn byw gartref yn bobl ddi-Gymraeg, ar sail poblogaeth 2011, byddai twf y boblogaeth yn sgil y gweithwyr na fyddent yn byw gartref yn arwain at ostyngiad o 1.8 pwynt canran yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg (o 42.2% i 40.0%). Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa waethaf bosibl, ac nid yw'n ystyried y twf yn y boblogaeth a ddisgwylir ar gyfer Caergybi (ar sail y strategaeth twf economaidd yn y CDLlC a fabwysiadwyd), y mae disgwyl iddo gael effaith fanteisiol ar y Gymraeg [RD36].

B.4.28 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu strategaeth iaith Gymraeg, sy'n gosod targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chanran y boblogaeth ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg i 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021, sydd i'w wireddu drwy gynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi bod ffocws ar Gaergybi ar hyn o bryd i wella hyder pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae gwaith dwys â theuluoedd, plant, pobl ifanc a'r gymuned yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Nghaergybi er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg ar lefel gymdeithasol [RD24].

B.4.29 Felly, mae disgwyl y bydd poblogaeth prif ardal yr astudiaeth wedi cynyddu erbyn cyfnod prysuraf y cam adeiladu (blwyddyn 7) a bydd nifer a chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar Ynys Môn wedi cynyddu hefyd.

B.4.30 Byddai'r cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd yn mewnfudo yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg, ac mae mesurau'n cael eu cynnig i liniaru'r effaith hon.

B.4.31 Mae Amlwch yn ganolfan gymharol fawr ar Ynys Môn, sef ail ganolfan fwyaf Gogledd Ynys Môn, ar ôl Caergybi. Ar sail model disgyrchiant (sy'n ystyried y cyflenwad o lety a'r pellter teithio), byddai Amlwch yn gweld cynnydd o 228 yn y boblogaeth yn sgil gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref, a fyddai'n cyfateb i gynnydd o 6.0% yn y boblogaeth yn ystod y cyfnod prysuraf ar sail poblogaeth 2011. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn nodi lefel o dwf ar gyfer Amlwch a fyddai'n achosi cynnydd o tua 31%[30] yn y boblogaeth (dros gyfnod o 15 mlynedd) (ar sail y boblogaeth yn 2011). Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod bod y twf neu'r lefel ddangosol arfaethedig ar gyfer Amlwch yn llawer uwch na'r hyn sydd wedi'i weld yn y gorffennol. Ond, mae hyn yn adlewyrchu rôl Amlwch fel Canolfan Gwasanaethau Trefol ac yn cyd-fynd â thwf wedi'i arwain gan gyflogaeth a strategaeth economaidd y cynllun.

[30] Ar sail maint aelwydydd amcanol o 2.18 ar gyfer 2026 ym Mhapur Pwnc 3A: Poblogaeth a Thai Mawrth 2016 [RD44].

B.4.32 Mae AEIG y CDLlC a fabwysiadwyd [RD36] yn nodi y byddai angen i ddatblygiad yn Amlwch ystyried mesurau lliniaru er mwyn helpu newydd-ddyfodiaid i ymgartrefu yn yr ardal a dysgu'r Gymraeg. Mae hefyd yn cydnabod y dylai'r lefel arfaethedig o dwf gyfrannu at adfywio Amlwch, a byddai'r mesurau lliniaru yn helpu i gynnal a chryfhau'r Gymraeg [RD36].

B.4.33 Mae lefel y twf yn y boblogaeth a ddisgwylir yn Amlwch (yn ystod y cyfnod prysuraf) yn sgil gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref (6% neu 228 o bobl) yn llawer is na lefel y twf a nodwyd ar gyfer Amlwch yn y CDLlC a fabwysiadwyd (31% neu 1,162 o bobl[31]), sydd eisoes yn ystyried twf wedi'i arwain gan gyflogaeth yn Amlwch y mae disgwyl iddo gael ei gyflawni'n rhannol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.34 Ystyrir bod y Gymraeg yn gymharol iach yn Amlwch [RD36], lle'r oedd 61.1% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (yn 2011), sy'n debyg i'r sefyllfa ym mhrif ardal yr astudiaeth. O ran effaith lefel twf y boblogaeth ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg yn Amlwch, gan dybio bod yr holl weithwyr na fyddant yn byw gartref yn bobl ddi-Gymraeg, byddai hyn yn arwain at ostyngiad o 3.6 ym mhwyntiau canran y siaradwyr Cymraeg yn Amlwch.

B.4.35 Mae model disgyrchiant yn awgrymu y byddai ardaloedd gwledig prif ardal yr astudiaeth yn rhoi llety i tua 47% o'r gweithwyr na fyddent yn byw gartref (na fyddent yn byw yng Nghampws y Safle). Heb ymyrraeth, mae disgwyl i lefel twf y boblogaeth mewn nifer fach o wardiau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, fel Llanbadrig a Mechell, arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl ddi-Gymraeg (ar sail ffigurau Cyfrifiad 2011) ac at ostyngiad yng nghanran y boblogaeth a fydd yn gallu siarad Cymraeg.

B.4.36 Ar lefel ward, byddai effeithiau sylweddol mewn rhannau o Ogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn; fodd bynnag, byddai disgwyl i rai wardiau y tu allan i'r is-ardaloedd hyn weld lefel uchel o gynnydd yn boblogaeth hefyd.

B.4.37 O ganlyniad i'r gweithwyr adeiladu a fydd yn aros yn y gymuned (hy, nid yng Nghampws y Safle) mae'r model disgyrchiant yn awgrymu mai'r wardiau y mae disgwyl iddynt weld y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yw Porth Amlwch (6.4% neu 160 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Amlwch Wledig (5.3% neu 68 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Llanbadrig (17.2% neu 234 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Llanfaethlu (9.6% neu 159 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Mechell (7.6% neu 118 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Moelfre (15.5% neu 165 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Brynteg (5.0% neu 93 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Llanbedrgoch (10.6% o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Llanfair-yn-Neubwll (8.8% neu 79 o weithwyr na fyddant yn byw gartref), Porthyfelin (8.8% neu 199 o weithwyr na fyddant yn byw gartref) a Threarddur (6.4% neu 143 o weithwyr na fyddant yn byw gartref).

B.4.38 O ran yr effaith ar y ganran o siaradwyr Cymraeg ar lefel ward o ganlyniad i weithwyr adeiladu yn aros yn y gymuned, y wardiau y mae disgwyl iddynt weld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yw Porth Amlwch

[31] Ar sail maint aelwydydd amcanol o 2.18 ar gyfer 2026 ym Mhapur Pwnc 3A: Poblogaeth a Thai Mawrth 2016 [RD44] ac yn dangos lefel twf o 533 o unedau tai [RD36].

(4.0 pwynt canran), Llanbadrig (7.9 pwynt canran), Llanfaethlu (5.8 pwynt canran), Mechell (4.5 pwynt canran), Moelfre (7.1 pwynt canran) a Llanbedrgoch (4.3 pwynt canran).

B.4.39 Ar sail y model disgyrchiant, mae disgwyl i wardiau Gwyngyll a Bryngwran ddisgyn o dan y trothwy o 70% o siaradwyr Cymraeg, ac mae disgwyl i wardiau Llanbadrig, Parc a'r Mynydd a Moelfre ddisgyn o dan y trothwy o 50% o siaradwyr Cymraeg.

B.4.40 Byddai'r lefel hon o dwf yn y boblogaeth yn cael effaith niweidiol fawr ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg.

Effeithiau ar lefel Ardal Datblygu Wylfa Newydd

B.4.41 Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys Campws y Safle, a fyddai'n rhoi llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref. Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd, (yn ôl y diffiniad yn nhabl A-10 a ffigur A-2) yn cynnwys wardiau Llanbadrig a Mechell. Cydnabyddir y byddai'r ddwy ward yn rhoi llety i nifer uchel o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd (y rheini a fyddai'n aros mewn llety yn y gymuned); fodd bynnag, byddent hefyd yn rhoi llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle.

B.4.42 Gallai'r twf poblogaeth yn y ddwy ward, gan ystyried y gweithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle yn ogystal â'r gweithwyr a'u teuluoedd y tu allan i Gampws y Safle, arwain at gynnydd o 150% yn y boblogaeth gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r lefel hon o gynnydd yn y boblogaeth yn seiliedig ar lefelau'r boblogaeth yng nghyfrifiad 2011 ac nid yw'n ystyried y twf poblogaeth a ragwelwyd yn y CDLlC a fabwysiadwyd drwy strategaeth twf wedi'i arwain gan gyflogaeth.

B.4.43 Cynnydd dros dro am gyfnod o hyd at naw mlynedd fyddai'r cynnydd yn y boblogaeth yn sgil y cam adeiladu. Mae Horizon wedi ymrwymo i liniaru effeithiau niweidiol a fyddai'n codi yn ystod y cam adeiladu, ac un o themâu allweddol Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon (atodiad B4-1 yr AEIG) yw 'y gweithlu'.

B.4.44 Mae effeithiau'r cynnydd yn y boblogaeth yn sgil y gweithwyr adeiladu a fyddai'n aros yng Nghampws y Safle yn cael eu hystyried yng nghyfrol C yn yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.45 Yn gyffredinol, ar lefel ofodol ar draws prif ardal yr astudiaeth, mae disgwyl i'r cynnydd yn y boblogaeth yn sgil mewnfudiad tua 7,500 o weithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd (y mae disgwyl i'r rhan fwyaf ohonynt fod yn bobl ddi-Gymraeg) effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg/pobl ddi-Gymraeg yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth, lle'r oedd 61% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg yn 2011. Mae'r effaith ar lefel is-ardal yn dangos y byddai'r effaith yng Ngogledd Ynys Môn ac yng Ngorllewin Ynys Môn yn fwy na'r effaith yn Ne Ynys Môn ac yn Nhir Mawr Menai. Oherwydd eu bod yn agos i Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r cyflenwad o lety, byddai wardiau fel Llanbadrig a Mechell (a fyddai'n rhoi llety i hyd at 4,000 o weithwyr yng Nghampws y Safle ac i weithwyr adeiladu a'u teuluoedd yn y gymuned) a

Llanbedrgoch yn gweld lefelau sylweddol o gynnydd yn y boblogaeth (150% ac 11% yn y drefn honno), a fyddai'n cael effaith niweidiol fawr ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg yn y wardiau hynny.

B.4.46 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.6).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.47 Yn ystod y cam gweithredu, byddai angen 850 o weithwyr ac mae disgwyl i 85% (723) o'r gweithwyr cam gweithredu hynny fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae disgwyl i'r holl weithwyr hynny bron fyw ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rheini o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (128) a fyddai'n adleoli ar gyfer eu gwaith. Amcangyfrifir y byddai tua 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion yn adleoli gyda'r gweithwyr ym mhrif ardal yr astudiaeth hefyd, gan wneud cyfanswm o 200 o weithwyr y cam gweithredu a phartneriaid/dibynyddion a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth.

B.4.48 Ar sail dosbarthiad gweithwyr y cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Orsaf Bŵer Bresennol, amcangyfrifir y byddai 85% (neu 740 o weithwyr) ynghyd â 36 o bartneriaid a 27 o ddibynyddion yn aros ar Ynys Môn.

B.4.49 Er y byddai hyn yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, nid oes disgwyl i nifer y bobl arwain at effeithiau sylweddol ar y boblogaeth. Mae disgwyl y byddai'r gweithwyr cam gweithredu o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (128 o weithwyr y cam gweithredu, 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion) yn cynnwys canran is o siaradwyr Cymraeg o'i gymharu â'r rheini o brif ardal yr astudiaeth (lle mae 61% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (lle mae 42.7% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg). Am na fyddai disgwyl i'r cam gweithredu ddechrau tan flwyddyn 9, nid yw poblogaeth prif ardal yr astudiaeth yn hysbys ar gyfer y cam hwnnw. Fodd bynnag, pe bai'r cynnydd ym mhoblogaeth prif ardal yr astudiaeth yn sgil gweithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd yn adleoli i brif ardal yr astudiaeth yn cael ei gyfrif ar sail cyfrifiad 2011, byddai hyn yn arwain at gynnydd o 0.1% yn y boblogaeth. Mae hyn yn dangos mai bach iawn fyddai effaith y cam gweithredu ar y newid yn y boblogaeth ac ni fyddai disgwyl iddo gael effaith niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

B.4.50 O ran effaith gweithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth ar ganran y siaradwyr Cymraeg, unwaith eto, nid yw canran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth ym mlwyddyn 9 (pan mae disgwyl i'r cam gweithredu ddechrau) yn hysbys. Fodd bynnag, er mwyn dangos y newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar sail data cyfrifiad 2011, pe byddem yn tybio y byddai'r 200 o weithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth i gyd yn bobl ddi-Gymraeg, byddai hyn yn arwain at ostyngiad o 0.1 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

B.4.51 Mae hyn yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosibl, gan dybio y byddai'r holl weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd yn bobl ddi-Gymraeg). Fodd bynnag, rhaid nodi y byddai disgwyl i rai o'r gweithwyr na fyddant yn byw

gartref a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth gynnwys gweithwyr sy'n adleoli o ardaloedd eraill yng Nghymru a chyn drigolion lleol sydd efallai wedi gadael yr ardal yn y gorffennol ac sy'n dychwelyd i brif ardal yr astudiaeth i gael gwaith. Nid yw hyn yn ystyried y strategaethau sydd ar waith ar hyn o bryd yng Ngwynedd ac Ynys Môn, nac yn ystyried y weledigaeth sydd gan Lywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, yng Ngwynedd ac yng Nghymru gyfan.

B.4.52 Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr y cam gweithredu fyw ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam gweithredu (ac mae disgwyl i 85% aros ar Ynys Môn), felly gallai'r cam gweithredu arwain at gynnydd bach yn nifer y bobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn. Gan ystyried fod y swyddi gweithredu yn rhai parhaol, byddai hon yn effaith tymor hir.

B.4.53 Yn ogystal â'r 850 o weithwyr y cam gweithredu, mae disgwyl y bydd 1,000 o staff cyfnod segur nad ydynt yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth, yn cael eu cyflogi am gyfnodau dros dro. Oherwydd natur dros dro eu presenoldeb, nid oes disgwyl iddynt gyfrannu at y cynnydd tymor hir yn lefel poblogaeth prif ardal yr astudiaeth nac at gydbwysedd tymor hir y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg yn sgil y cam gweithredu.

B.4.54 Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth parhaol o ansawdd uchel a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu, lle mae disgwyl i 85% o'r gweithlu fod yn weithwyr lleol, yn cyfrannu at gadw poblogaeth bresennol Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Rhwng 2001 a 2014, mae Ynys Môn wedi gweld all-lif blynyddol cyson o bobl 15-29 oed, ac ystyrir bod hynny yn rhannol oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth. Felly, mae cyfleoedd cyflogaeth y cam gweithredu yn cynnig cyfle i wyrdroi'r duedd honno a chadw mwy o bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn.

B.4.55 Mae rhagolygon poblogaeth Ynys Môn yn disgwyl y bydd gostyngiad o 3% hyd at 2039, er bod disgwyl y bydd poblogaeth gogledd Cymru a Chymru yn codi 4% a 5% yn y drefn honno. Felly, ystyrir y byddai'r mewnfudiad i brif ardal yr astudiaeth ac i Ynys Môn (cynnydd o 0.1% yn y boblogaeth ar sail cyfrifiad 2011) o ganlyniad i'r cam gweithredu yn cael effaith fanteisiol ar Ynys Môn, o ran cyfrannu at leihau'r gostyngiad mewn niferoedd poblogaeth.

B.4.56 Mae twf poblogaeth yn bwysig i hyfywedd cymunedau ac felly mae'n bwysig er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau (a thrwy hynny yn cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol) [RD43]. Mae sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi tymor hir o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol yn bwysig i gynnal a chryfhau cymunedau.

B.4.57 Mae'r newid economaidd sylweddol a ddisgwylir yn sgil y prosiectau seilwaith mawr ar Ynys Môn wrth galon y CDLlC sydd wedi'i fabwysiadu, yn enwedig statws Ardal Fenter Ynys Môn a datblygu gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa Newydd.

B.4.58 Mae'r *Adroddiad ar yr archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2016* [RD47] yn cydnabod, mewn ymateb i'r newid economaidd a ragwelir sy'n deillio o brosiectau seilwaith mawr ar Ynys Môn, gan gynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r CDLlC yn *"ceisio darparu ar gyfer twf dyheadol, a arweinir gan gyflogaeth, sydd wedi'i seilio ar gynnydd*

disgwyliedig mewn gweithgarwch economaidd a fyddai, i bob pwrpas, yn gwyrdroi'r duedd o bobl ifanc yn gadael yr ardal i chwilio am waith ac yn cynyddu ffyniant yr ardal." [RD47, t.8-9]. Mae Arolygwyr y CDLlC sydd wedi'i fabwysiadu wedi canfod bod y strategaeth hon a'r twf poblogaeth sy'n gysylltiedig â hi yn rhai cadarn.

B.4.59 Mae'r *Adroddiad ar yr Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2011-2016 Ynys Môn a Gwynedd* hefyd yn cydnabod bod y CDLlC yn nodi'r:

"angen i hyrwyddo economïau lleol iach fel y ffactor pwysicaf yn ôl pob tebyg i gynnal cymunedau lleol a chryfhau'r iaith. Mae'r Cynghorau'n cydnabod y gallai twf o'r fath arwain at fygythiadau posibl i gydbwysedd ieithyddol yr ardal, ond maent wedi dod i'r casgliad bod manteision posibl, gan gynnwys i iechyd yr iaith yn y dyfodol trwy geisio gwyrdroi'r duedd ymhlith pobl ifanc i symud i ffwrdd o'r cymunedau hyn a methu â dychwelyd o ganlyniad i ddiffyg swyddi sy'n talu'n dda. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r ymagwedd hon fel ymateb dilys i amgylchiadau lleol." [RD47, t.12-13].

B.4.60 Mae datblygiad economaidd yn mynd law yn llaw â thwf poblogaeth, a heb gyfleoedd economaidd, gan gynnwys swyddi tymor hir o ansawdd uchel, byddai poblogaethau oedran gweithio, yn arbennig pobl ifanc, yn llai tebygol o aros yn Ynys Môn na phrif ardal yr astudiaeth, neu ddychwelyd yno.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.61 Byddai'r mewnlifiad o 200 o weithwyr y cam gweithredu na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd i brif ardal yr astudiaeth yn arwain at dwf o 0.1% yn y boblogaeth. Nid oes disgwyl y byddai'r lefel hon o gynnydd yn y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth dros nifer o flynyddoedd yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae twf poblogaeth yn bwysig i hyfywedd cymunedau ac felly mae'n bwysig er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau (a thrwy hynny yn cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol) [RD43].

B.4.62 At ddibenion asesu, tybiwyd mai di-Gymraeg fyddai holl weithwyr y cam gweithredu na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad o 0.1% mewn pwyntiau canran o ran siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth (ar sail data Cyfrifiad 2011). Byddai hyn yn cael effaith niweidiol fach ar y Gymraeg.

B.4.63 Ar y cyfan, wrth ystyried effaith fanteisiol fach cynnydd bach yn y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth (cynnydd o 0.1%) a chymharu hynny â'r effaith niweidiol fach ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth (0.1% pwynt canran), nodir effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth yn ystod y cam gweithredu.

B.4.64 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau i wella'r effaith fanteisiol hon.

B.4.65 Caiff mesurau lliniaru a gwella arfaethedig eu hamlinellu isod.

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.66 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r cynnydd yn nifer y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael effaith niweidiol ganolig ar yr iaith Gymraeg yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau ar y boblogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; gwasanaethau cymunedol a lleol ac atebolrwydd. Mae mesurau lliniaru a gwella perthnasol yn cael eu dangos yn nhabl B-1 isod, ac mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cael eu cynnwys yn Atodiad B4-1 yr AEIG.

Tabl B-1 Mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â nodweddion y boblogaeth

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
1	Mesur gwella - Mae angen cydlynu'r mesurau yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.	Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu mesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a'u rhoi ar waith yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect.	Adnoddau Dynol Horizon	Horizon - Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
9	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant wrth wneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd Horizon yn gwerthfawrogi eu sgiliau ieithyddol.	Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.	Adnoddau Dynol Horizon; Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio Horizon; y Gadwyn Gyflenwi a Masnachol; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn; Contractwr Menter Newydd; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu (gwaith paratoi a chlirio'r safle) ac ar ôl hynny	Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
10	Mae angen sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac o bolisi iaith Gymraeg Horizon.	Bydd Horizon yn cynnwys gofynion o ran gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod rhwng contractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol).	Horizon: Tîm y Gadwyn Gyflenwi a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14).	Menter Newydd	Cyn y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106
11	Mesur gwella - cynyddu'r cyfleoedd i gwmnïau lleol (sy'n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) i gystadlu am waith yn Wylfa Newydd.	Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn,	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Menter Newydd, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
		awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.				
12	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd eu sgiliau ieithyddol yn cael eu gwerthfawrogi, a phan fo hynny'n briodol, yn cael eu datblygu. Wrth i nifer y gweithwyr o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth gynyddu, mae angen gwneud siaradwyr Cymraeg yn fwy amlwg, er mwyn annog pobl i	Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyn perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun 'bathodyn'	Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Grŵp Llandrillo Menai (y darparwr hyfforddiant y mae Horizon wedi'i benodi); Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
	ddefnyddio'r iaith yn Wylfa Newydd.	ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddaru hyn bob blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg.				
13	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg.	Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er	Adnoddau Dynol Horizon	Menter Newydd; Cyngor Sir Ynys Môn - i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
		mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu.				
16	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg.	Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith gael eu hyfforddi a bod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Ysgolion, Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (grŵp cynrychioliadol sefydliadau iaith Gymraeg), Cyngor Gwynedd	Cyn y cam adeiladu.	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
		â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei monitro'n ofalus drwy gasglu data fel y nodir ym mesur lliniaru 13. (Cyfeirnod y Cais: 8.14)				
17	Mae angen lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o bartneriaid a dibynyddion (251 o ddibynyddion yn ôl yr amcangyfrif) sy'n dod gyda gweithwyr na fyddant yn byw gartref, o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	Bydd Horizon yn datblygu ac yn dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned.	Horizon, Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn		Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
18	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u	Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn; cynrychiolwyr iaith cymunedol (ee Mentrau	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
	teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned.		Iaith lleol); Cyngor Gwynedd; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg		
19	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar (ee gofal plant, meithrinfeydd, gwasanaethau cyn ysgol).	Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw,	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
		gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.				
20	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny'n berthnasol i brosiect Wylfa Newydd Horizon) i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu cadarnhau cyn y cam adeiladu.	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn; Menter Môn	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
21	Lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon	Uwch Reolwyr Horizon, Datblygu Strategol Cymru a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Horizon - Adnoddau Dynol, Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu, Cadwyn Gyflenwi, Masnachol - Pennaeth Caffael Strategol	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
22	Lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio (Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant) grŵp rhanddeiliaid allanol i fonitro sut caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni	Horizon	Awdurdodau Lleol, Sefydliadau cymunedol	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau (i'w gadarnhau)
23	Mae angen gwerthuso'r Strategaeth hon a gwir effaith Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg.	Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny	Horizon	Awdurdodau Lleol, Sefydliadau cymunedol	Blynyddoedd 7-9	Cytundeb Adran 106
24	Lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	Bydd Horizon yn rhoi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith drwy gydol cyfnod adeiladu'r Prosiect. Bydd Horizon yn monitro ac yn adrodd ynghylch sut mae'n cydymffurfio â'r strategaeth hon bob chwe mis i'r Grŵp Rheoli (a nodir ym mesur 1264) a bydd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.	Horizon		Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

C2: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- a allai Prosiect DCO Wylfa Newydd arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg; ac
- a fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Y Cefndir

B.4.67 Mae patrymau mudo yn rhan allweddol o newid mewn poblogaeth, ac mae mewnfudo'n dibynnu'n fawr ar amodau economaidd.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.68 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data am y boblogaeth a sgiliau iaith Gymraeg prif ardal yr astudiaeth wedi'u nodi'n rhan o gwestiwn 1. Gan nad oes cymunedau cynhenid o siaradwyr Cymraeg dramor, heblaw am yn y Wladfa yn yr Ariannin, mae'n debygol fod y rhan fwyaf o fewnfudwyr sy'n symud o wledydd eraill Prydain neu o dramor, yn bobl ddi-Gymraeg.

B.4.69 Un o effeithiau mewnfudo yw, hyd yn oed os yw nifer y siaradwyr Cymraeg yn sefydlog, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng [RD52].

B.4.70 Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* [RD9] yn cydnabod:

"Mae mewnfudo yn her i'r Gymraeg, ond gall hefyd fod yn gyfle i ddangos sut gall yr iaith gael ei defnyddio i gofleidio amlddiwyllianedd ac amrywiaeth. Gallai hynny fod drwy raglenni i ddysgu Cymraeg neu raglenni i helpu plant a theuluoedd i gefnogi dysgu a'u cynorthwyo i ymgartrefu yn eu cymunedau newydd." [RD9, t.69].

B.4.71 Un newidyn y mae modd ei ystyried o ran ystadegau mudo a'r Gymraeg yw gwlad enedigol y boblogaeth mewn cysylltiad â'u sgiliau iaith Gymraeg.

B.4.72 Yn 2011, roedd canran is (18.5%) o boblogaeth prif ardal yr astudiaeth a oedd wedi'i geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r bobl a oedd wedi'u geni yng Nghymru (81.9%). Mae canran is o'r boblogaeth sydd wedi'i geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg (14.1%) o gymharu â'r rhai sydd wedi'u geni yng Nghymru (85.9%).

B.4.73 Er gwaethaf y dirywiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, roedd y nifer o bobl wedi'u geni y tu allan i Gymru ond a oedd yn gallu siarad Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth wedi cynyddu (78 yn fwy o bobl).

B.4.74 Mae gan yr Awdurdodau Addysg ym mhrif ardal yr astudiaeth (Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) bolisi dwyieithrwydd ym mhob ysgol ar draws prif ardal yr astudiaeth. Yn 2011, roedd 71.9% o'r boblogaeth 3-15 oed ar Ynys Môn, a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru, yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg. Roedd hyn yn gynnydd ers 2001, lle'r oedd 66.3% o'r boblogaeth 3-15 oed ar Ynys Môn a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod polisi addysg ddwyieithog yr Awdurdod

Addysg yn cael effaith gadarnhaol o ran gallu'r plant sydd wedi cael eu geni y tu allan i Gymru i siarad Cymraeg.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.75 Oherwydd nifer y gweithwyr a fyddai'n angenrheidiol yn ystod y cam adeiladu, byddai hyn yn arwain at tua 7,500 o weithwyr na fyddent yn byw gartref (a'u teuluoedd) yn symud i brif ardal yr astudiaeth i gael gwaith. O'r boblogaeth ychwanegol hon, byddai disgwyl i tua 93% chwilio am lety ar Ynys Môn, gyda'r 7% arall yn chwilio am lety ar Dir Mawr Menai. Mae'r boblogaeth ychwanegol hon o tua 7,000 ar Ynys Môn yn gyfystyr â 10% o'r boblogaeth yn 2011, ac mae'r ffigur ar gyfer Tir Mawr Menai (tua 500) yn gyfystyr â 0.4% o boblogaeth 2011 Gwynedd.

B.4.76 Byddai'r boblogaeth ychwanegol yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth ar wahanol lefelau gofodol, a disgwylir i hynny fod fwyaf yn is-ardaloedd Gogledd Ynys Môn (38.2% neu 5,200 o bobl) a Gorllewin Ynys Môn (4.2% neu 1,040 o bobl). Mae'r is-ardaloedd hyn yn cynnwys prif ganolfannau Caergybi ac Amlwch, a fyddai'n rhoi llety i ganran uchel o weithwyr na fyddent yn byw gartref, yn ogystal â wardiau Llanbadrig a Mechell, a fyddai'n rhoi llety i hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle.

B.4.77 Yn ogystal â'r prif ganolfannau sef Caergybi ac Amlwch, byddai gweithwyr na fyddent yn byw gartref a fyddai'n symud i ardaloedd eraill ym mhrif ardal yr astudiaeth (y tu allan i'r prif drefi) hefyd yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth, fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yng nghwestiwn 1. Byddai lefel y mewnfudo i rai wardiau fel Llanbadrig a Mechell (a fyddai'n rhoi llety i hyd at 4,000 o weithwyr yng Nghampws y Safle, yn ogystal â gweithwyr adeiladu a'u teuluoedd yn y gymuned), sydd yn agos iawn at Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac yn is-ardal Gogledd Ynys Môn yn uchel iawn (150%). Byddai ward Llanbedrgoch yn Ne Ynys Môn (rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 10.6%) yn gweld lefel uchel o fewnfudo hefyd. Byddai hyn o ganlyniad uniongyrchol i weithwyr na fyddent yn byw gartref yn symud i'r ardal, a disgwylir y bydd y rhan fwyaf yn bobl ddi-Gymraeg.

B.4.78 Mae effaith cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i weithwyr na fyddant yn byw gartref yn mewnfudo i'r ardal yn cael ei chyflwyno yng nghwestiwn 1, ac mae hyn hefyd yn berthnasol wrth asesu'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar y ganran o siaradwyr Cymraeg, ac o ganlyniad, ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ar wahanol lefelau gofodol. Disgwylir i lefel yr effaith fod yn uwch ar lefel ward fanwl. Byddai'r gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y wardiau sy'n agos iawn at Ardal Datblygu Wylfa Newydd, fel Llanbadrig a Mechell, yn arwain at effaith niweidiol fawr ar y wardiau hyn. Byddai wardiau Llanbadrig a Mechell, gyda'i gilydd, yn gweld gostyngiad o 34.7% pwynt canran yn y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (o 57.1% i 22.4%) o siaradwyr Cymraeg.

B.4.79 Oherwydd y niferoedd a oedd yn symud i wardiau Llanfaethlu a Phorth Amlwch yn 2011, byddai'r cynnydd a fyddai'n cael ei ragweld yn y wardiau hynny yn ôl model disgyrchiant yn arwain at ostyngiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y wardiau hyn (gostyngiad o 5.8 a 4.0 pwynt canran yn y drefn honno).

B.4.80 Er bod gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw gymuned yn cael ei ystyried yn berthnasol wrth asesu effeithiau, ystyrir bod y trothwyon o 70% a 50% o siaradwyr Cymraeg mewn cymuned yn arbennig o arwyddocaol.

B.4.81 Awgryma dadansoddiad sylfaenol fod cymunedau sy'n cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg yn gymunedau lle mae'r Gymraeg yn hyfyw fel iaith gymunedol. Byddai'r gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref yn mewnfudo i wardiau sy'n cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd hefyd yn gweld effaith niweidiol, oherwydd byddai'r wardiau hyn yn disgyn o dan y trothwy o 70% lle ystyrir bod iaith yn hyfyw fel iaith gymunedol, o ganlyniad i'r cynnydd yn y boblogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys wardiau:

- Bryngwran (Gorllewin Ynys Môn) – byddai cynnydd o 1.8% yn y boblogaeth, a gostyngiad o 1.3% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg; a
- Gwyngyll (De Ynys Môn) – byddai cynnydd o 1.3% yn y boblogaeth a gostyngiad o 0.9% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

B.4.82 Ar sail data Cyfrifiad 2011, mae 54 ward ym mhrif ardal yr astudiaeth yn cynnwys poblogaeth lle mae dros 50% yn siarad Cymraeg. Byddai hyn yn gostwng i 50 o ganlyniad i weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref yn mewnfudo i'r cymunedau yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r wardiau canlynol yn disgyn o dan y trothwy 50% hefyd.

- Byddai poblogaeth Llanbadrig (Gogledd Ynys Môn) yn cynyddu 17.2% a byddai gostyngiad o 7.9 pwynt canran yn y nifer fyddai'n gallu siarad Cymraeg;
- Byddai poblogaeth Llanfair-yn-Neubwll (Gorllewin Ynys Môn) yn cynyddu 2.7% a byddai gostyngiad o 1.4 pwynt canran yn y nifer a fyddai'n gallu siarad Cymraeg;
- Byddai poblogaeth Moelfre (Gogledd Ynys Môn) yn cynyddu 15.5% a byddai gostyngiad o 7.1 pwynt canran yn y nifer fyddai'n gallu siarad Cymraeg; a
- Byddai poblogaeth Parc a'r Mynydd (Gorllewin Ynys Môn) yn cynyddu 1.8% a byddai gostyngiad o 0.9 pwynt canran yn y nifer fyddai'n gallu siarad Cymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.83 Byddai'r gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref, sy'n mewnfudo i'r ardal, yn cael effaith niweidiol ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd gofodol dros dro, a hynny am hyd at naw mlynedd. Mae'r effaith a nodir yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu (blwyddyn 7). Fodd bynnag, gan fod disgwyl i'r cam adeiladu bara am hyd at naw mlynedd, ystyrir bod hyn yn gyfnod digon hir o amser i gael effaith niweidiol ar les y Gymraeg a'i diwylliant yn rhai o'r wardiau sydd wedi'u henwi uchod.

B.4.84 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir isod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fawr yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.8).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.85 Byddai'r cynnydd ym mhoblogaeth prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, fel sydd wedi'i drafod yng nghwestiwn 1 yn digwydd o ganlyniad i 128 o weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd yn mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn i gael gwaith. Felly, mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 1 yn berthnasol i'r asesiad o'r cwestiwn hwn; ond, mae'r cwestiwn hwn yn ystyried effaith mewnfudo yn benodol.

B.4.86 Oherwydd natur barhaol y swyddi gweithredu, byddai poblogaeth yn mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn yn effaith fanteisiol tymor hir.

B.4.87 Gan fod disgwyl i boblogaeth Ynys Môn ddisgyn 3% rhwng 2015 a 2036 yn ôl y rhagolygon, ystyrir bod y mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn o ganlyniad i'r cam gweithredu yn effaith fanteisiol i Ynys Môn, o ran cyfrannu at y gostyngiad yn niferoedd y boblogaeth.

B.4.88 Mae twf poblogaeth yn bwysig i hyfywedd cymunedau ac felly mae'n bwysig er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau (a thrwy hynny, gryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol). Mae sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi tymor hir o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol yn bwysig i gynnal a chryfhau cymunedau. Mae datblygiad economaidd yn mynd law yn llaw â thwf poblogaeth, a heb gyfleoedd economaidd, gan gynnwys swyddi tymor hir o ansawdd uchel, ni fyddai poblogaethau oedran gweithio, yn arbennig pobl ifanc, yn gallu aros yn Ynys Môn na phrif ardal yr astudiaeth, na dychwelyd yno. Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn rhagweld twf mewn poblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun (2011 i 2026) ar sail strategaeth twf sy'n cael ei arwain gan gyflogaeth (sy'n seiliedig ar fewnfudo i Ynys Môn a Gwynedd), ac mae AEIG y CDLlC [RD36] yn nodi bod hyn yn cael effaith fanteisiol ar y Gymraeg.

B.4.89 Ni ddisgwylir i nifer y gweithwyr, eu partneriaid a'u dibynyddion fod yn sylweddol, a bydd yn arwain at 128 o weithwyr, 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion yn mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth yn barhaol.

B.4.90 Byddai effaith y mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn ar y Gymraeg a'i diwylliant yn dibynnu, i raddau, ar agwedd y gweithwyr a'u teuluoedd tuag at y Gymraeg a'i diwylliant a'u parodrwydd i geisio dysgu siarad yr iaith.

B.4.91 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wead diwylliannol cymunedau ym mhrif ardal yr astudiaeth, ac mae'n iaith bob dydd sy'n cael ei defnyddio yn y gymuned. Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg mewn gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gynghorau lleol, byrddau iechyd ac adrannau addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae deddfwriaethau, polisïau a chanllawiau, gan gynnwys strategaethau cenedlaethol a lleol (gweler adran A.2 yr AEIG hwn), gan gynnwys strategaethau iaith ac addysg, ar waith er mwyn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n cael ei normaleiddio mewn nifer o wardiau mewn siroedd i wella a chryfhau traddodiadau a diwylliant y Gymraeg. Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi llesiant y Gymraeg ac mae wedi gweithredu Polisi Iaith Gymraeg [RD32], sy'n amlinellu'n glir ei ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

B.4.92 Felly, mae mesurau ar waith yn barod a fydd yn sicrhau bod y nifer fach o weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth

i gael gwaith yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, ystyrir bod mesurau lliniaru a gwella ychwanegol yn angenrheidiol i sicrhau bod y gweithlu di-Gymraeg a'u teuluoedd yn dysgu am y Gymraeg a'r cyfleoedd yn y cymunedau lleol i ddysgu a defnyddio'r iaith yn gymdeithasol yn y gweithle, gartref ac yn y gymuned.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.93 Disgwylir i Brosiect DCO Wylfa Newydd arwain at weithwyr nad ydynt yn byw gartref a'u teuluoedd (200 o bobl) yn mewnfudo o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Er mwyn ystyried y sefyllfa waethaf bosibl at ddibenion asesu, rydym wedi tybio y byddai'r rhain i gyd yn bobl ddi-Gymraeg. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant i raddau, oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth (sy'n arwain at ostyngiad o 0.1 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg, ar sail canran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ôl data cyfrifiad 2011). Er bod hyn yn cyflwyno'r sefyllfa waethaf bosibl, ystyrir y bydd hyn yn annhebygol. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr na fyddant yn byw gartref hefyd yn debygol o gynnwys siaradwyr Cymraeg o'r ardal leol a allai fod wedi symud o'r ardal yn y gorffennol, a fyddai'n dychwelyd i'r ardal.

B.4.94 Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i nifer fach o weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd a fyddai'n mewnfudo i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn gael effaith ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg/pobl ddi-Gymraeg i raddau a fyddai'n arwain at effaith niweidiol sylweddol ar statws ac amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd ohoni fel iaith gymunedol ym mhrif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn.

B.4.95 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.96 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r cynnydd yn nifer y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael effaith niweidiol fawr ar yr iaith Gymraeg yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hyn ar fewnfudo. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; gwasanaethau cymunedol a lleol ac atebolrwydd. Mae'r mesurau a gynigir yng nghyswllt poblogaeth (Gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fewnfudo (sef mesurau 1, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22 a 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C3: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- a yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;

- a fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Y Cefndir

B.4.97 Mae allfudo'n gysylltiedig yn aml â thueddiadau economaidd a phrisiau a'r ddarpariaeth tai.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.98 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo.

B.4.99 Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r gwaith o asesu allfudo yw'r ffaith fod Ynys Môn wedi profi all-lif net cyson o bobl (15-29 oed) yn ystod y cyfnod 2001 i 2014. Ar gyfer y grwpiau oedran eraill, mae'r allfudo yn isel. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran allfudo o Ynys Môn a gogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

B.4.100 Gwelodd y grŵp oedran 20-24 y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 (gostyngiad o 9.7 pwynt canran o 58.6% i 48.9%) wedi'i ddilyn gan y grŵp oedran 16-19, a welodd ostyngiad o 9.0 pwynt canran (o 71.9% i 62.9%). Mae hyn debygol o fod yn uniongyrchol berthnasol i'r all-lif parhaus o bobl ifanc 15-29 oed rhwng 2001 a 2014.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.101 Mae disgwyl i ragor o gyfleoedd gwaith yn ystod y cam adeiladu arwain at fewnfudo yn hytrach nag allfudo, fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yng nghwestiwn 1 a chwestiwn 2. Byddai'r cam adeiladu yn galw am hyd at 9,000 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod prysuraf, a byddai disgwyl i 2,000 (tua 22%) fod yn byw gartref (hy eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu)). Byddai hyn yn cyflwyno cyfleoedd gwaith sylweddol i boblogaeth bresennol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), yn enwedig Ynys Môn (gan gynrychioli cynnydd o 6% mewn cyflogaeth ar Ynys Môn).

B.4.102 Dengys tueddiadau'r gorffennol fod Ynys Môn wedi gweld pobl ifanc 15-29 oed yn allfudo ers 2001 oherwydd diffyg cyfle i gael gwaith a diffyg tai fforddiadwy. Mae dadansoddiad o'r waelodlin yn nodi mai allfudo yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu cymunedau prif ardal yr astudiaeth. Er bod hyn yn nodweddiadol o sawl ardal wledig lle y mae pobl ifanc eisiau symud o'u cartref i ddinasoedd mwy, mae'r potensial i gam adeiladu leihau a hyd yn oed wrthdroi tueddiadau allfudo pobl ifanc o Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn cael ei ystyried yn fanteisiol iawn.

B.4.103 Mae'r strategaeth twf cyflogaeth sydd yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn amlygu'r angen i gynyddu nifer y swyddi er mwyn cadw gweithlu Cymraeg Ynys Môn a Gwynedd a denu trigolion oedran gweithio sydd wedi gadael yn ôl i'r ardal.

B.4.104 Mae'r dyheadau twf economaidd hyn yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn mynd law yn llaw â darparu digon o dai. Ystyrir bod y naill a'r llall yn elfennau pwysig ar gyfer lleihau allfudo (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) o gymunedau prif ardal yr astudiaeth sydd maes o law yn helpu i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

B.4.105 Byddai cadw pobl leol ar Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth (y mae 57.2% a 61.0% ohonynt yn siarad Cymraeg yn y drefn honno) yn fanteisiol yn nhermau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, gan y gallai'r rhain fel arall adael yr ardal i ganfod gwaith. Gallai cadw'r boblogaeth leol hefyd gael effaith fanteisiol yn y tymor hir, gan y byddai cyfleoedd cyflogaeth ar gael i'r boblogaeth leol yn ystod y cam gweithredu. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach o dan 'effeithiau yn ystod y cam gweithredu'.

B.4.106 Mae cyfrol C i G hefyd yn cynnwys effeithiau'r cam adeiladu ar amwynder datblygiadau penodol i safle, a allai arwain at rywfaint o allfudo ymysg y boblogaeth bresennol. Mae cwestiwn 6 yn trafod effeithiau'r prosiect cyfan ymhellach.

B.4.107 Er bod effeithiau'r cam adeiladu'n fwy tebygol o gael eu gweld mewn ardaloedd astudiaeth safle benodol, mae hi hefyd yn berthnasol ystyried effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo ar lefel prosiect cyfan.

B.4.108 Caiff ei gydnabod yng nghwestiwn 1 a chwestiwn 2 bod disgwyl i rai wardiau weld cynnydd mawr yn y boblogaeth (ar sail model disgyrchiant) a allai gyfrannu at newid nodweddion y boblogaeth yn gyffredinol yn y wardiau a'r ardaloedd hynny. Gallai hyn wedyn olygu bod y boblogaeth bresennol yn gadael wardiau o'r fath oherwydd y newid yn nodweddion y boblogaeth a'r gymuned. Petai hyn yn digwydd, gallai hyn effeithio'n niweidiol ar nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y wardiau a'r cymunedau hynny.

B.4.109 Roedd arolwg cymunedol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd (Adroddiad yr AEI cyfrol Q, atodiad yr AEI – canlyniadau'r Arolwg Cymunedol, Cyfeirnod y Cais: 8.19) wedi ystyried effaith bosibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ymlyniad emosiynol i fan preswylio.

B.4.110 Er nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn golygu bod poblogaeth Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth yn symud allan o'r ardal, mae canlyniadau'r arolwg cymunedol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn rhoi arwydd defnyddiol o safbwyntiau'r boblogaeth leol.

B.4.111 Mae canlyniadau'r arolwg cymunedol yn dynodi ei bod yn annhebyg y bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio ar ymlyniad emosiynol mwyafrif mawr o'r ymatebwyr (81%) i'r ardal lle maen nhw'n byw. Mae hyn yn awgrymu y byddai lefel yr ymlyniad yn gallu gwrthsefyll hyd yn oed newidiadau perthnasol mawr (Adroddiad yr AEI, cyfrol Q, Cyfeirnod y Cais: 8.19). Roedd mwy o bobl ger Cemaes (23%) yn cytuno y byddai lle'r oeddent yn byw yn golygu llai iddynt petai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu na phobl ger Amlwch (11%), Caergybi (5%) ac ardaloedd eraill Ynys Môn (8%). Mae hyn yn awgrymu er y gall Prosiect DCO Wylfa Newydd gael rhywfaint o effaith, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n nes at Ardal Datblygu Wylfa Newydd fel Cemaes, o ran yr ymlyniad emosiynol sydd gan bobl Ynys Môn at lle maen nhw'n byw, nid yw'n awgrymu y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at allfudo cyffredinol o Ynys Môn na phrif ardal yr astudiaeth. Gan nad oes disgwyl gweld allfudo o Ynys Môn na phrif ardal yr astudiaeth, ni ddisgwylir gweld colli aelwydydd sy'n siarad Cymraeg ar lefel y prosiect cyfan.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.112 Felly, mae'n bosibl i'r cyfleoedd gwaith sylweddol a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu leihau patrymau'r gorffennol o bobl ifanc yn symud o Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth, ac ystyrir bod hyn yn effaith fanteisiol fawr.

B.4.113 Mae'n rhaid cydbwyso allfudo posibl o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd yn newid cyfansoddiad poblogaeth cymunedau presennol, fel y rheini y cyfeirir atyn nhw yng nghwestiwn 1 a chwestiwn 2 a bod Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio ar yr ymlyniad emosiynol sydd gan drigolion Ynys Môn at lle maen nhw'n byw, yn erbyn effaith fanteisiol y cyfleoedd gwaith a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu (swyddi ar gyfer 2,000 o weithwyr a fydd yn byw gartref yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu) ar leihau patrymau o'r gorffennol o bobl yn symud o Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth, yn enwedig pobl ifanc a phobl oedran gwaith. Byddai'r gweithwyr hyn a fyddai'n byw gartref yn aros ym mhrif ardal yr astudiaeth, a byddai nifer ohonynt yn magu teuluoedd dwyieithog a fyddai o fudd i les y Gymraeg.

B.4.114 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.4).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.115 Mae'r cynnig o gyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel yn ystod y cam gweithredu yn fwy tebygol o arwain at fewnfudo yn hytrach nag allfudo, a thrafodwyd hyn yn fanwl yng nghwestiwn 2.

B.4.116 Nodwyd yng nghwestiynau 1 a 2 bod amcanestyniadau poblogaeth yn rhagweld bod disgwyl i boblogaeth Ynys Môn ddisgyn 3% rhwng 2015 a 2036 [RD10], ac mae disgwyl i boblogaeth gogledd Cymru a Chymru gynyddu. Mae pwysigrwydd twf poblogaeth er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau (ac felly helpu i gynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant) wedi cael ei gydnabod yng nghwestiynau 1 a 2 yn ogystal â'r ffaith bod datblygu economaidd a thwf poblogaeth oed gweithio yn mynd law yn llaw.

B.4.117 Mae disgwyl y bydd y cyfleoedd gwaith o ansawdd uchel a thymor hir a gynigir yn ystod y cam gweithredu, yn enwedig gan fod disgwyl i 85% o weithlu'r cam gweithredu fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), yn helpu i gadw'r boblogaeth oedran gweithio bresennol ar Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Bydd hyn hefyd, o bosibl, yn lleihau allfudo ymysg pobl ifanc a'r boblogaeth oedran gweithio. Ystyrir bod hyn yn bwysig wrth ystyried yr allfudo net parhaus mae Ynys Môn wedi'i weld rhwng 2001 a 2014 ymysg pobl 15-29 oed a'r disgwyl y bydd poblogaeth Ynys Môn yn disgyn hyd at 2036 [RD10]. Ystyrir bod yr allfudo net o Ynys Môn ymysg pobl ifanc yn rhannol oherwydd y prinder cyfleoedd cyflogaeth, yn ogystal â'r prinder tai fforddiadwy. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd [RD36] yn cydnabod y byddai cynyddu'r allbwn economaidd o amrywiol sectorau a chynyddu nifer y swyddi'n cyfrannu at gadw'r gweithlu Cymraeg presennol a denu trigolion oed gweithio i ddychwelyd i'r ardal.

B.4.118 Mae Horizon wedi ymrwymo i uchafu hygyrchedd cyfleoedd i bobl leol ymuno â gweithlu cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Strategaeth Swyddi a Sgiliau Horizon (Cyfeirnod y Cais: 8.3) a fyddai'n cael ei rhoi ar waith yn ystod y cam adeiladu, yn fesur lliniaru ymarfer da er mwyn cynyddu cyfraniad lleol gweithlu'r cam gweithredu. Mae'n cynnwys cynigion fel trosglwyddo staff o safleoedd Magnox eraill yng ngogledd Cymru i weithlu Horizon, rhaglen graddedigion Horizon (sy'n debygol o gynnwys derbyn pobl ifanc leol) a rhaglen i recriwtio prentisiaid peirianneg, gan dargedu trigolion gogledd-orllewin Cymru'n benodol.

B.4.119 Nid yw gweithredu Gorsaf Bŵer Niwclear ar Ynys Môn yn gysyniad newydd. Mae yma Orsaf Bŵer Bresennol yn barod sydd wedi bod yn cynhyrchu trydan ers dechrau'r 1970au. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod bod graddfa Prosiect DCO Wylfa Newydd yn fwy na'r Orsaf Bŵer Bresennol. Erbyn y cam gweithredu, ar ôl y cam adeiladu, ni fydd presenoldeb Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn newydd ac felly nid oes disgwyl iddi gyfrannu at allfudo o brif ardal yr astudiaeth.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.120 Mae'n bosibl i gam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd leihau neu hyd yn oed wyrdroi'r patrwm o allfudo a welwyd yn Ynys Môn dros y blynyddoedd diwethaf, drwy ddarparu 722 o gyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel i boblogaeth leol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

B.4.121 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.6).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.122 Mae'r asesiad yn nodi y byddai mwy o gyfleoedd gwaith o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg yn ystod y cam adeiladu ac effaith fanteisiol fach ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) nodi'r mesurau gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio cynyddu'r effeithiau manteisiol hyn a drwy hyn, o bosibl, lleihau'r allfudo. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; gwasanaethau cymunedol a lleol ac atebolrwydd. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt poblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fewnfudo (sef mesurau 1, 9, 10, 11, 12, 21, 22 a 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Ar ben hynny, mae'r mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn nhabl B-2 isod hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar allfudo. Mae holl fesurau yn nhabl B-1 a B-2 hefyd wedi cael eu cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG.

Tabl B-2 Mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau allfudo

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
2	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd ac adnoddau asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael eu cofnodi yn rhan o'r broses recriwtio ac yn cael eu cynnwys ym mhroffil y swydd.	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio a chymorth allanol o bosibl; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
3	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg	Siaradwyr Cymraeg allanol o bosibl.	Cyn y camau adeiladu a gweithredu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
		asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn.	a'i Diwylliant			
4	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd.	Bydd Horizon yn parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i gymunedau a phobl ifanc yn rheolaidd, gan gynnwys Mapiau Llwybrau Gyrfa dwyieithog Wylfa Newydd a Phroffiliau swyddi. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn annog ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn arwain ar hyn. Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac	Tîm Addysg Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn	Y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
		adnoddau 'model rôl' amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion.				
5	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd.	Fel rhan o'i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Llywodraeth Cymru; Adran Gwaith a Phensiynau; Grŵp Llywio'r AEIG; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn; Gyrfa Cymru	Parhaus	Cytundeb Adran 106
6	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a	Diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys	Pennaeth Datblygu Strategol	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn Wylfa Newydd.	manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.	(Cymru) Horizon;	Iaith Gymraeg a'i Diwylliant		
7	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn Wylfa Newydd.	Bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd yn ddwyieithog.	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon, contractwyr	Y cam Adeiladu, y cam gweithredu	Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.13)
8	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu.	Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd	Adnoddau Dynol Horizon / Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i	Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
		Horizon yn darparu rheolwyr recriwtio perthnasol a hyfforddiant i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu.	Diwylliant - Gweler Mesur 1 (1242)			
14	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd.	Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr Addysg Bellach.	Tîm Addysg Horizon	Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Ysgolion, Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, Fforwm Penaethiaid, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
15	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd.	Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu	Hyfforddiant Horizon; tîm Addysg Horizon	Darparwyr hyfforddiant (Grŵp Llandrillo Menai)	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
		gynllun cyfatebol, i bobl ifanc.				

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

C4: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at newid strwythur oedran yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - tensiynau cymdeithasol/chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Y Cefndir

B.4.123 Anaml iawn y mae newid, cynnydd a gostyngiad yn y boblogaeth yn unffurf ar draws proffil oedran. Mae datblygiadau'n debyg o effeithio ar wahanol grwpiau oedran mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bosibl y bydd datblygiadau mawr yn effeithio ar strwythur poblogaeth mewn ardal benodol. Fe all y math o ddatblygiad a'i faint olygu bod grŵp oedran penodol yn fwy tebygol neu'n llai tebygol o fudo i ardal neu ohoni. Gall datblygiadau ar raddfa fawr hefyd arwain at densiynau cymdeithasol, er enghraifft, o ganlyniad i drigolion newydd yn symud i'r ardal.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.124 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau yn yr iaith Gymraeg ar gyfer Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn 2011.

B.4.125 Mae'r boblogaeth oedran gweithio (y rheini rhwng 16 a 64 oed) yn rhoi syniad ynghylch gallu'r boblogaeth i gymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd. Mae'r boblogaeth oedran gweithio ar gyfer Ynys Môn ac o fewn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) tua 61%, sydd ychydig yn llai na phrif ardal yr astudiaeth a chyfartaledd Cymru, sef 63%.

B.4.126 Roedd data Cyfrifiad 2011 hefyd yn datgelu bod pobl 65 oed a hŷn yn cyfrif am ganran ychydig yn uwch o'r boblogaeth ar Ynys Môn (22%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (22%) o gymharu â phrif ardal yr astudiaeth (19%) a Chymru gyfan (19%).

B.4.127 Mae canran poblogaeth Ynys Môn yn y categorïau oedran 20-24, 25-29 a 30-34 yn gymharol isel (5.5%, 5.2% a 5.1% yn y drefn honno) wrth gymharu â'r ganran yn y categorïau hŷn. Y grŵp oedran 60-64 sydd â'r ganran uchaf (7.8%) o'r boblogaeth o blith holl gategorïau oed yr ynys. Mae canran y bobl 65 oed a hŷn wedi cynyddu o 2001 i 2011, ac mae gostyngiad cynyddol wedi bod yng nghanran y bobl ifanc 0-15 oed.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.128 Byddai cael gweithwyr na fyddent yn byw gartref ym mhrif ardal yr astudiaeth yn gwneud i ddemograffig yr ardal newid dros dro fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yng nghwestiwn 1. Mae hyn yn cael ei asesu ar lefel prif ardal yr astudiaeth yn hytrach nag ar lefel ward, gan nad yw'r model disgyrchiant yn

rhagweld dosbarthiad gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd yn ôl oed. O ran dosbarthiad oedran, byddai 11% o'r gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth rhwng 18 a 24 oed, byddai 22% rhwng 25 a 34 oed, byddai 37% rhwng 35 a 49 oed a byddai 30% dros 50 oed. Yn ogystal â'r gweithwyr adeiladu, byddai disgwyl i rai gweithwyr adeiladu ddod â theuluoedd gyda nhw, gan ychwanegu 220 o ddibynyddion i brif ardal yr astudiaeth ynghyd â 285 o bartneriaid yn ystod y cyfnod prysuraf.

B.4.129 Yn 2011, roedd 61% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn, 63% o gyfanswm poblogaeth prif ardal yr astudiaeth a 61% o gyfanswm poblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn bobl oedran gweithio. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru (63%). Byddai 7,000 yn ychwanegol o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth oedran gweithio prif ardal yr astudiaeth (o 63% i 65%). Byddai cynnydd llai yn nifer y plant oed cynradd ac uwchradd hefyd.

B.4.130 Tybir y byddai 22% o'r gweithlu adeiladu yn weithwyr a fyddai'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (2,000), a bod disgwyl i 1,256 ddod o Ynys Môn. Byddai hyn yn cynrychioli cyfleoedd gwaith ychwanegol ar gyfer poblogaeth oedran gweithio'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), yn enwedig poblogaeth oedran gweithio Ynys Môn, o ganlyniad i'r cam adeiladu. Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn cyfrannu at gadw a sefydlogi'r boblogaeth oedran gweithio yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ac ar Ynys Môn yn arbennig, y mae 40.6% a 55.9% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

B.4.131 Oherwydd y patrwm cyson o bobl ifanc 15-29 oed yn gadael ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2014, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd cyflogaeth y cam adeiladu yn sefydlogi, neu hyd yn oed yn gwrthdroi'r tueddiadau hyn, drwy gadw pobl ifanc yn yr ardal. O bosibl, gall pobl leol sydd wedi gadael yr ardal yn y gorffennol i chwilio am waith yn rhywle arall ddychwelyd i'r ardal.

B.4.132 Mae posibilrwydd y gall galluogi pobl ifanc a'r boblogaeth oedran gweithio i aros yn eu hardaloedd lleol neu hyd yn oed ddenu pobl leol yn ôl i Ynys Môn ac i brif ardal yr astudiaeth, sefydlogi neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, sydd o fudd i'r gymuned leol lle caiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth, gan gynnal a chryfhau cymuned sydd â chydbwysedd oedran.

B.4.133 Gan fod canran uchel o boblogaeth oedran gweithio prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn siarad Cymraeg ac y byddai 2,000 o'r gweithwyr adeiladu yn weithwyr a fyddai'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), mae hyn yn gyfle i gadw siaradwyr Cymraeg oedran gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), a fyddai'n fanteisiol o ran yr iaith Gymraeg.

B.4.134 Mae cynyddu nifer y bobl oedran gweithio mewn ardal yn fantais amlwg i'r gymuned leol, yn arbennig o ran gweithgarwch economaidd. Ac ystyried bod canran poblogaethau oedran gweithio Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, ystyrir bod hon yn effaith fanteisiol.

B.4.135 Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd y tybir y bydd canran sylweddol o'r gweithwyr nad ydynt yn byw gartref a fydd yn symud i brif ardal yr astudiaeth yn ddi-Gymraeg. Er y byddai hyn yn cyfrannu at adfer cydbwysedd y strwythur oedran, byddai canran y boblogaeth ddi-Gymraeg yn cynyddu. Nodir effaith hyn fel rhan o gwestiynau 1 a 2.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.136 Felly, o ystyried y potensial am gyfleoedd cyflogaeth sylweddol i gadw a denu pobl ifanc a phobl oedran gweithio i brif ardal yr astudiaeth, ardal sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio, mae hyn yn debygol o adfer cydbwysedd strwythur oedran prif ardal yr astudiaeth.

B.4.137 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.6).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.138 Yn 2011 roedd poblogaeth oedran gweithio Ynys Môn tua 61%, ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 63%. Mae poblogaeth Ynys Môn yn heneiddio ac mae canran y bobl sy'n 65 oed a hŷn wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 [RD10]. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn disgwyl y bydd poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd yn heneiddio gan ddisgwyl y bydd 32.6% o boblogaeth Ynys Môn yn 65 oed neu hŷn erbyn 2036, wrth gymharu â 22.5% yn 2011 [RD48].

B.4.139 Byddai'r cyfleoedd am gyflogaeth barhaol a fyddai ar gael yn ystod y cam gweithredu hefyd yn atyniadol i rai yn y boblogaeth oedran gweithio, yn enwedig pobl ifanc, yn ogystal â'r rhai sydd wedi symud i ffwrdd yn flaenorol ac sy'n dymuno dychwelyd i'w hardal leol i ymsefydlu. Felly, mae posibilrwydd y bydd y cam gweithredu yn gwrthdroi'r tueddiadau sydd wedi'u gweld ar Ynys Môn ers 2001, lle mae all-lif cyson wedi bod ymhlith pobl 15-29 oed. Gallai hefyd helpu i gael cydbwysedd gwell o ran proffil oedran gan fod disgwyl i'r boblogaeth heneiddio yn ôl amcanestyniadau poblogaeth. Gan ystyried fod y swyddi gweithredu yn rhai parhaol, byddai hon yn effaith fanteisiol yn y tymor hir.

B.4.140 Mae'n bosibl y bydd y cam gweithredu, felly, yn adfer y cydbwysedd strwythur oedran ym mhrif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, drwy gadw'r boblogaeth oedran gweithio sy'n byw yno'n barod, gan gynnwys pobl ifanc, yn ogystal â drwy ddenu unigolion lleol sydd wedi gadael yr ardal yn y gorffennol. Mae cynyddu nifer y bobl oedran gweithio mewn ardal yn fantais amlwg i'r gymuned leol, yn arbennig o ran gweithgarwch economaidd. Nid ystyrir bod y newid i'r strwythur oedran yn cyfrannu tuag at ddymuniad i'r boblogaeth bresennol symud i ffwrdd. Nid ystyrir chwaith ei fod yn chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol.

B.4.141 Gan fod canran uchel o boblogaeth oedran gweithio bresennol prif ardal yr astudiaeth yn siarad Cymraeg ac y byddai 85% o weithwyr y cam gweithredu yn dod o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), mae hyn yn gyfle i gadw siaradwyr Cymraeg oedran gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth, a fyddai'n fanteisiol o ran yr iaith Gymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.142 Felly, byddai'r cam gweithredu yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n cadw ac yn denu poblogaethau oedran gweithio. Gan ystyried fod poblogaeth Ynys Môn yn heneiddio (a bod disgwyl iddi barhau i heneiddio tan 2036) a'r tueddiadau yn y gorffennol o allfudo parhaus gan bobl ifanc, byddai'r cam gweithredu yn cyfrannu tuag at adfer cydbwysedd strwythur oedran prif ardal yr astudiaeth yn enwedig Ynys Môn, yn y tymor hir. Byddai hyn yn effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Ystyrir bod gweithgaredd economaidd cryfach yn darparu cyfle i gryfhau'r iaith Gymraeg.

B.4.143 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.6).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.144 Mae'r asesiad hwn yn nodi y byddai'r cynnydd yn nifer a chanran y bobl oedran gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth o ganlyniad i Wylfa Newydd yn arwain at effaith fanteisiol ganolig yn ystod y cam adeiladu ac effaith fanteisiol fach yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) nodi mesurau arfaethedig a fyddai'n ceisio gwella'r effeithiau manteisiol hyn yn ogystal â mesurau lliniaru a fyddai'n ceisio mynd i'r afael ag effaith gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd a'u teuluoedd yn symud i'r ardal (ee ar wasanaethau addysg). Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; gwasanaethau cymunedol a lleol ac atebolrwydd. Mae'r mesurau a gynigir yng nghyswllt poblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fewnfudo (sef mesurau 1, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22 a 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

Ansawdd bywyd

C5: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Y Cefndir

B.4.145 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd pobl a'r gymuned y maent yn byw ynddi. Mae modd cysylltu dirywiad mewn iechyd ag ystod eang o benderfynyddion, gan gynnwys stoc wael o dai, dim digon o le mewn tai, cysylltiadau cludiant gwael a dirywiad mewn amgylchiadau ariannol. Os bydd datblygiad yn arwain at ddirywiad mewn ansawdd bywyd, gall sefydlogrwydd y gymuned fod o dan fygythiad oherwydd gall y rheini sy'n gallu fforddio i

symud o ardal wneud hynny. Mewn ardal lle caiff yr iaith Gymraeg ei siarad yn helaeth, gall hyn effeithio ar ganran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.146 Mae dadansoddiad sylfaenol manwl o iechyd wedi'i ddarparu yn Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) a gyflwynwyd fel rhan o'r DCO ac mae atodiad A7-1 yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd a'r iaith Gymraeg ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

B.4.147 Yn 2011, roedd 50.4% o boblogaeth Gwynedd yn dweud bod eu hiechyd yn dda iawn o gymharu â 48% ar Ynys Môn a 46.6% yng Nghymru.

B.4.148 Roedd cyfran uwch o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn (81.1%) ac yng Ngwynedd (83.1%) yn 2011 yn dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn' o'i gymharu â chyfanswm y boblogaeth (78.6% a 81.1% yn y drefn honno) [RD37].

B.4.149 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon llesiant personol a dylid ystyried eu bod yn rhoi amcangyfrif da yn unig, yn hytrach na mesur llesiant personol yn y Deyrnas Unedig yn union. Mae'r arolwg llesiant personol yn dangos bod trigolion Ynys Môn, ar gyfartaledd, yn fwy bodlon â'u bywyd yn gyffredinol na gweddill y DU.

B.4.150 Mae mesuriad swyddogol Llywodraeth Cymru o'r amddifadedd cymharol yn ardaloedd bach Cymru yn cael ei gyflwyno ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ar hyn o bryd mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys wyth parth amddifadedd ar wahân ac mae'n sgorio ardaloedd bach penodol sy'n cael eu galw yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o ran amddifadedd.

B.4.151 Mae'r parth iechyd yn mesur marw cyn amser ac amharu ar safon byw oherwydd salwch. Mae'n ystyried iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae prif ardal yr astudiaeth ymysg y lleiaf amddifad o ran iechyd, gyda llai na 30% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn hanner isaf y mynegai.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.152 Mae'n bosibl i'r gweithgareddau arfaethedig sy'n ymwneud â'r cam adeiladu effeithio ar iechyd pobl leol. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac ym mhenodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3). Y penderfynyddion pwysig ar gyfer iechyd pobl leol yw ansawdd aer, sŵn, gweithgaredd corfforol, cyflogaeth a thai.

B.4.153 Daw Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) i'r casgliad yr ystyrir mai effaith net gyffredinol fanteisiol fach fyddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ei chael ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'r farn broffesiynol hon yn pwyso effeithiau niweidiol posibl yr aflonyddu amgylcheddol a chymdeithasol i'r cymunedau agosaf yn erbyn y manteision economaidd ehangach ac o ran cyflenwad ynni. Mae disgwyl i ddatblygu cynaliadwy greu amodau cadarnhaol ar gyfer iechyd a llesiant.

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.154 Effaith fanteisiol fach fydd effaith gyffredinol adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant, yn anuniongyrchol oherwydd effeithiau ar iechyd y boblogaeth leol.

B.4.155 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.1). Mae'r effaith hon heb fesurau i wella'r effaith fanteisiol hon.

B.4.156 Byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru'r effaith niweidiol ar iechyd ac mae'r rhain yn cael eu trafod yn fanylach yn Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac ym mhenodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.157 Yn ystod y cam gweithredu mae'n bosibl i Brosiect DCO Wylfa Newydd effeithio ar iechyd pobl leol. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac ym mhenodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3). Y penderfynyddion pwysig ar gyfer iechyd pobl leol yw sŵn, gweithgaredd corfforol, cyflogaeth a thai.

B.4.158 Byddai disgwyl i effeithiau sŵn yn ystod y cam gweithredu fod yn is na'r rhai a ddynodwyd ar gyfer y Prif Waith Adeiladu. Mae hyn yn bennaf oherwydd y mesurau lliniaru sŵn sydd wedi'u cynnwys yn y dyluniad (ee lleoliad cyfarpar o fewn strwythurau concrit trwm), ond hefyd y dulliau sy'n cael eu cynnig ar gyfer lliniaru'r prif ffynonellau sŵn allanol. Nid oes disgwyl y bydd dirgryniad sylweddol pan fydd yr orsaf ar waith.

B.4.159 Byddai cynnydd sylweddol mewn cyfleoedd gwaith yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer iechyd a llesiant. Yn ystod y cam gweithredu byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cyflogi tua 850 o bobl, gan gynnwys cyfran sylweddol o bobl leol a fyddai'n dod â mwy o fantais economaidd i Ynys Môn ac i ogledd Cymru.

B.4.160 Mae Horizon yn ceisio ymgysylltu â phobl leol i lenwi nifer o'r swyddi. Byddai hyn yn creu nifer o gyfleoedd ar gyfer gweithwyr lleol, pobl ifanc, y rheini sy'n gadael ysgol a graddedigion yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu tangyflogi ar hyn o bryd. Byddai cefnogi addysg a hyfforddiant yn gwneud byd o wahaniaeth i iechyd a llesiant tymor hir cymunedau Ynys Môn, ee drwy enillion gwell a fyddai'n golygu bod modd gwario mwy ar nwyddau a gwasanaethau sy'n hybu iechyd, fel gwresogi neu fwyd iach.

B.4.161 Byddai Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn dod â chyflenwad sefydlog o drydan carbon isel i Gymru ac i'r DU. Byddai gan hyn nifer o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd a llesiant. Mae cyflenwad sefydlog o bŵer yn helpu i weithredu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, cynnal swyddi a gweithgarwch economaidd a defnyddio technoleg. Mae technoleg sy'n cynhyrchu ynni carbon isel yn gallu helpu i leihau newid yn yr hinsawdd a'i lu o effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.

B.4.162 Byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd o fudd i bobl sy'n gweithio, y rhai sy'n dibynnu arnyn nhw a'r economi yn ehangach. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd

yn gyfle i wella iechyd a llesiant pobl sy'n byw ar Ynys Môn ac yn ardal ehangach ardal gogledd Cymru ee drwy leihau lefelau amddifadedd.

B.4.163 Mae cerdded, beicio a gweithgareddau egnïol eraill yn bwysig ar gyfer iechyd a llesiant; y cymunedau sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd sy'n debyg o weld y newid mwyaf oherwydd bydd y rhwydwaith o lwybrau cerdded a llwybrau beicio sy'n cael eu defnyddio ganddynt yn cael eu cau neu eu dargyfeirio gan leihau'r apêl/tawelwch.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.164 Felly, mae disgwyl i gam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd gael effaith fanteisiol ar iechyd y bobl leol drwy effeithiau manteisiol o ran gweithgarwch ffisegol a chyflogaeth, effaith niwtral o ran tai a rhywfaint o effeithiau sŵn a dirgryndod. Nid yw'r rhain yn cael eu hystyried fel effeithiau sylweddol.

B.4.165 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.1). Mae'r effaith hon heb fesurau i wella'r effaith fanteisiol hon.

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.166 Fel rhan o'i fesurau lliniaru ehangach, byddai Horizon yn sefydlu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr Wylfa Newydd. Byddai'r gwasanaeth hwn a'i grŵp goruchwylio (a fyddai'n cynnwys awdurdodau lleol) yn rhoi mecanwaith i fonitro'r mewnlif o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd, gan ddarparu gwybodaeth am lle bydd gweithwyr yn symud a'u heffaith bosibl ar wasanaethau iechyd lleol.

C6: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Y Cefndir

B.4.167 Mae'n bosibl yr effeithir ar y cydbwysedd rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg os bydd ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn dirywio neu os bydd lefelau presennol yr amwynderau cyffredinol yn dirywio, gan effeithio ar ansawdd bywyd. Gallai teuluoedd sy'n gallu fforddio i wario mwy benderfynu allfudo petai mwynderau'r ardal leol yn dirywio.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.168 Mae parth 'amgylchedd ffisegol' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn mesur y ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rheini sy'n byw mewn ardal, ac mae'n cynnwys ystyried y perygl o lifogydd, ansawdd aer ac agosatrwydd at safleoedd diwydiannol neu wastraff [RD49]. Mae dros 50% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is prif ardal yr astudiaeth yn hanner uchaf y parth 'amgylchedd ffisegol', ac nid oes llawer o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y degraddau isaf. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is Ynys Môn yn dod o dan y categori lleiaf amddifad,

yn enwedig yn ardal ogleddol Ynys Môn. Mae'r ardal o amgylch yr Orsaf Bŵer Bresennol yn cael ei dynodi'n fwy amddifad na'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is cyfagos (20-50% mwyaf amddifad o ran yr amgylchedd ffisegol).

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.169 Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o'r effeithiau ar amwynder yn ystod y cam adeiladu fod yn rhai penodol i safle yn hytrach nag effeithiau prosiect cyfan. Mae effeithiau amwynder penodol i safle yn cael eu hasesu yng nghyfrolau D i G yr AEIG hwn.

B.4.170 Mae'r asesiad o'r effeithiau ar ansawdd yr aer sy'n cael ei gyflwyno ym mhennod C4 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.4) dim ond yn ystyried effeithiau ar ansawdd yr aer o draffig fel effaith prosiect cyfan. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad na nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar gyfer effeithiau ansawdd aer o draffig yn ystod y cam adeiladu.

B.4.171 Mae'r asesiad o'r effeithiau ar sŵn a dirgryndod sy'n cael ei gyflwyno ym mhennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) dim ond yn ystyried effeithiau sŵn a dirgryndod o ganlyniad i gyflwyno'r gwelliannau i'r briffordd sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ardal yr astudiaeth sy'n cynnwys bron i 20km o Gaergybi i Dregele (de i'r gogledd).

B.4.172 Nodir bod effeithiau sŵn a dirgryndod gweddillol yn amrywio o effeithiau manteisiol mawr i niweidiol mawr o ganlyniad i ostyngiad/cynnydd mewn traffig yn ystod y dydd/nos ar gyfer derbynyddion preswyl ac ardal chwarae gyhoeddus. Gweler pennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) am fanylion. Mae'n bosibl i'r effeithiau niweidiol a nodwyd yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu leihau pa mor ddymunol fydd byw mewn rhai ardaloedd. Gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny os bydd pobl o'r ardaloedd hynny'n penderfynu symud.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.173 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.174 Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o'r effeithiau ar amwynder yn ystod y cam gweithredu fod yn rhai penodol i safle yn hytrach nag effeithiau prosiect cyfan. Mae effeithiau amwynder penodol i safle yn cael eu hasesu yng nghyfrolau D i G yr AEIG hwn.

B.4.175 Mae'r asesiad o'r effeithiau ar ansawdd yr aer sy'n cael ei gyflwyno ym mhennod C4 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.4) dim ond yn ystyried effeithiau ar ansawdd yr aer o draffig fel effaith prosiect cyfan. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad na nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar gyfer effeithiau ansawdd aer traffig yn ystod y cam gweithredu.

B.4.176 Mae'r asesiad o'r effeithiau ar sŵn a dirgryndod sy'n cael ei gyflwyno ym mhennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) dim ond yn

ystyried effeithiau sŵn a dirgryndod o ganlyniad i gyflwyno'r gwelliannau i'r briffordd sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ardal yr astudiaeth sy'n cynnwys bron i 20km o Gaergybi i Dregele (de i'r gogledd).

B.4.177 Yn ystod y cam gweithredu, nodir effeithiau sy'n amrywio o rai niweidiol mawr i rai manteisiol mawr o ran sŵn a dirgryndod. Caiff effeithiau niweidiol mawr eu nodi oherwydd y cynnydd mewn sŵn traffig ffyrdd yn ystod y dydd a'r nos, er bydd traffig yn ystod y nos yn effeithio ar fwy o eiddo.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.178 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.179 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at effaith niweidiol fach yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Ni chaiff dim mesurau lliniaru neu wella eu cynnig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg a'i diwylliant; fodd bynnag, gweler pennod C5 (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) y Datganiad Amgylcheddol am fanylion mesurau lliniaru a gwella.

C7: A ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Y Cefndir

B.4.180 Mae'r iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gymunedau ffyniannus a chynaliadwy, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae 70% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Byddai troseddu, fel y bydd iechyd ac amwynder, yn dylanwadu ar gydlyniant a sefydlogrwydd cymdeithasol yn y tymor hir. Mae cymuned gynaliadwy yn gymuned sy'n cadw troseddu ar lefel dderbyniol. Fe allai cynnydd yn nifer y troseddau neu fwy o ofn trais ddrysu cydbwysedd cymuned, ac arwain at gyfradd uwch o bobl yn allfudo. Gallai hefyd arwain at straen personol a allai waethygu pryderon iechyd acíwt. Mae pob un o'r materion hyn sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd yn fygythiad i gydbwysedd cymdeithasol. Mae anghydbwysedd cymdeithasol yn debygol o fynd yn groes i fuddiannau'r iaith Gymraeg, sy'n dibynnu ar gymunedau cymdeithasol cytbwys er mwyn ffynnu.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.181 Mae Atodiad A7-1 yr adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

B.4.182 Cofnodwyd 55.71 trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth ar draws gogledd Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2016. Roedd y gyfradd hon yn llawer uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd yn Ynys Môn a Gwynedd, sef 42.26 fesul 1,000 o

bobl a 49.83 fesul 1,000 o bobl, yn y drefn honno. Roedd y troseddau a oedd wedi'u cofnodi yn uwch ar gyfer categorïau 'trais a throseddau rhywiol'.

B.4.183 Ymchwiliwyd i'r canfyddiad o droseddu yng ngogledd Cymru yn 2009, gydag adroddiad yn y wasg yn nodi bod ofn pobl o drais yn uwch na ddylai fod yng ngogledd Cymru [RD50]. Datgelodd yr adroddiad heddlu cysylltiedig a ryddhawyd ym mis Mawrth 2009 fod 12% o bobl yn ofn dioddef trosedd treisgar, er mai'r tebygolrwydd gwirioneddol oedd 0.11%. Roedd un allan o bob pump o'r ymatebwyr yn credu bod siawns o 40% y bydden nhw'n dioddef trosedd cyffredinol, er mai'r gyfradd wirioneddol oedd 3%, yn ôl system fapio awdurdod yr heddlu. Mae hyn yn awgrymu bod ofn/canfyddiad uchel o drosedd yng ngogledd Cymru.

B.4.184 Fel rhan o'r prosiect Swyddogion Cynnwys y Gymuned ar y cyd rhwng Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon, roedd teimlo'n ddiogel mewn cymuned yn dod yn uchel ar restr pobl o flaenoriaethau ac roedd nifer yn teimlo bod ysbryd cymunedol yn ased enfawr [RD51].

B.4.185 Mae parth diogelwch cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried amddifadedd sy'n ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel ac mae'n edrych ar y profiad go iawn o droseddau a thân, yn ogystal â chanfyddiadau o ddiogelwch allan yn yr ardal leol [RD49]. Mae dros 50% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is Ynys Môn yn hanner uchaf y parth diogelwch cymunedol, gyda llond llaw yn unig o'r ardaloedd hyn yn y degraddau isaf, o amgylch Caergybi, Llangefni, Amlwch a'r Fali. Mae hyn yn awgrymu bod Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Ynys Môn yn fwy diogel yn gymharol na chyfartaledd Cymru.

B.4.186 Mae tystiolaeth o fonitro adeiladu Sizewell B yn dangos bod modd lleihau lefel y troseddau sy'n gysylltiedig â gweithlu'r Orsaf Bŵer i lefelau isel, gyda mesurau lliniaru priodol.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.187 Yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu, gallai fod poblogaeth ychwanegol o tua 7,500 ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys gweithwyr na fyddent yn byw gartref, partneriaid a dibynyddion. O'r boblogaeth ychwanegol hon, byddai disgwyl i tua 93% chwilio am lety ar Ynys Môn, gyda'r 7% arall yn chwilio am lety ar Dir Mawr Menai. Mae'r boblogaeth ychwanegol hon o tua 7,000 ar Ynys Môn yn gyfystyr â 10% o'r boblogaeth yn 2011, ac mae'r ffigur ar gyfer Tir Mawr Menai (tua 500) yn gyfystyr â 0.4% o boblogaeth 2011 Gwynedd.

B.4.188 Pe tybid y byddai cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at gynnydd cymesur mewn troseddu ar y cyfraddau troseddu presennol, yna mae'n bosibl y byddai'r boblogaeth ychwanegol ym mhrif ardal yr astudiaeth o ganlyniad i'r cam adeiladu'n gallu arwain at gynnydd o 0.5% yn nifer y digwyddiadau yn ardal Cwnstabliaeth Gogledd Cymru. Mae hyn yn gyfystyr â 258 digwyddiad ychwanegol posibl bob blwyddyn ar Ynys Môn a 20 digwyddiad ychwanegol y flwyddyn yng Ngwynedd.

B.4.189 Mae hyn yn tybio y byddai'r holl weithwyr ychwanegol yn bresennol yn yr ardal yn llawn-amser, ond ni ddisgwylid mai dyma fydd y sefyllfa gan y byddent yn

gweithio ar batrwm shifftiau 11 diwrnod o waith a thri diwrnod i ffwrdd. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn nodi effaith fach iawn o ran y newid yn lefel y troseddau.

B.4.190 Fel rhan o arferion lliniaru da, mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) yn nodi'r safonau disgwyliedig a fydd ar y gweithwyr adeiladu o ran eu hymddygiad tra byddant yn cael eu cyflogi ar Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.191 Roedd arolwg cymunedol Prosiect DCO Wylfa Newydd (Adroddiad yr AEI, cyfrol Q, Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn ystyried sut roedd pobl Ynys Môn yn disgwyl i'r gweithwyr adeiladu ymddwyn yn yr ardal leol, gan fesur yr ofn o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau. Roedd yr arolwg cymunedol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl (64%) yn disgwyl i'r gweithwyr adeiladu ymddwyn yn dda yn yr ardal leol, gyda 14% ddim yn anghytuno nac yn cytuno â'r datganiad, 4% yn anghytuno, 5% heb farn a 12% ddim yn siŵr. Mae'r arolwg yn awgrymu bod rhywfaint o ansicrwydd ymysg y boblogaeth leol gyda thua chwarter y bobl â barn niwtral neu ddim yn siŵr. Mae hyn yn awgrymu nad oes llawer o ofn ymysg pobl Ynys Môn am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau gan weithwyr adeiladu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.192 Ar lefel y prosiect cyfan, ni fyddai disgwyl i Brosiect DCO Wylfa Newydd gynyddu lefel y troseddau na thrais ym mhrif ardal yr astudiaeth a fyddai'n ei gwneud hi'n llai dymunol byw ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i'r cam adeiladu arwain at gynnydd yn y boblogaeth o tua 7,500 o bobl ac felly, byddai unrhyw gynnydd yn lefel y troseddau neu'r trais yn gymesur i'r cynnydd mewn poblogaeth. Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn effeithio ar ba mor ddymunol yw byw ym mhrif ardal yr astudiaeth ac nid oes disgwyl iddo ddylanwadu ar y cydbwysedd cymdeithasol tymor hir yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth.

B.4.193 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.194 Ar lefel y prosiect cyfan, byddai cynnydd ym mhoblogaeth prif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam gweithredu yn arwain at gynnydd cymesur mewn troseddau. Mae hyn yn gyfystyr â saith digwyddiad ychwanegol ar Ynys Môn, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.2% (gweler pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) i gael gwybodaeth fanwl. Ystyrir y cynnydd hwn yn un isel ac ni fyddai'n gwneud Ynys Môn yn lle llai dymunol i fyw.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.195 Ystyrir bod y cynnydd cymesur mewn troseddau o ganlyniad i gynnydd parhaol yn y boblogaeth yn fach ac ni fyddai disgwyl i hyn ei gwneud hi'n llai dymunol byw ar Ynys Môn, a fyddai'n effeithio ar y cydbwysedd cymdeithasol tymor hir yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth.

B.4.196 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.197 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol fach iawn ar droseddu neu drais yn y gymuned yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hynny a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; gwasanaethau cymunedol a lleol ac atebolrwydd. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar droseddu (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22 a 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd. Mae mesurau i liniaru'r effeithiau ar droseddu hefyd yn cael eu cynnig yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5).

Ffactorau economaidd

C8: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol; neu
  - gynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg; neu
  - gynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Y Cefndir

B.4.198 Mae gan waith datblygu y potensial i effeithio ar y gadwyn gyflenwi ac ar fusnesau lleol sydd wedi hen sefydlu. Byddai prosiect seilwaith mawr yn sicrhau gwariant cyfalaf cysylltiedig uchel, a fyddai'n fanteisiol i fusnesau lleol. Byddai hyn yn cynnwys gwariant o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd a gwariant gan weithlu'r prosiect, a'r galw uwch am nwyddau a gwasanaethau. Gall prosiectau seilwaith mawr hefyd arwain at ddadleoli llafur o'r economi leol, a fyddai'n mynd yn groes i fuddiannau busnesau lleol.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.199 Mae Atodiad A7-1 yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o niferoedd a chanrannau trigolion Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) sydd wedi'u cyflogi mewn gwahanol sectorau.

B.4.200 Mae cyfran fawr o weithlu Ynys Môn yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Adwerthu a gwasanaethau llety a bwyd sy'n cyfrannu fwyaf at y cyfrannau o weithwyr yn y sector gwasanaeth. I raddau, mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithgaredd twristiaeth ar Ynys Môn.

B.4.201 Mae Ynys Môn yn ddibynnol iawn ar ficrofusnesau sy'n cyflogi naw person neu lai. Roedd tua 85% o fusnesau Ynys Môn yn perthyn i'r categori hwn yn 2016, gyda llai na 2% yn cyflogi 50 person neu fwy.

B.4.202 Yn ystod prosiect ar y cyd Swyddogion Cynnwys y Gymuned [RD51], mynegwyd pryderon y byddai cyflogau uwch o ganlyniad i ddatblygiad mwy fel Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at weithwyr y busnesau lleol llai yn dewis gweithio ar adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, a fyddai'n golygu na fyddai gan fusnesau llai staff medrus i gymryd eu lle. Mynegwyd pryderon hefyd y byddai'r busnesau llai hynny'n stopio masnachu ac o'r herwydd ni fyddent ar gael i'w gweithwyr blaenorol ddychwelyd iddynt ar ôl i'r cam adeiladu ddod i ben, a fyddai o bosibl yn gallu arwain at ddiweithdra ar lefel fawr yn yr ardal [RD51].

B.4.203 Roedd sawl barn wahanol hefyd ynghylch manteision ac anfanteision twristiaeth ac effeithiau datblygiadau mawr ar drefi a phentrefi. Roedd nifer yn teimlo bod y diwydiant twristiaeth ei hun yn ased ac yn rhoi hwb mawr ei angen i ardaloedd fel Biwmares, Bae Trearddur a Chemaes, ac roeddent yn teimlo y byddai cynnydd yn y boblogaeth gyda'r gweithlu adeiladu yn helpu i gynnal rhai o'r busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Roedd pobl eraill yn teimlo y byddai'r gweithlu a datblygu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn effeithio'n niweidiol ar y diwydiant twristiaeth oherwydd tagfeydd traffig, a'r posibilrwydd am fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd nifer wedi galw am reoli llety'r gweithlu'n ofalus i sicrhau na fydd busnesau lleol yn gweld cynnydd sydyn mewn busnes, gan gynyddu niferoedd staff a'r gwasanaethau a gynigir dim ond wedyn i weld mai cynnydd dros dro oedd hwn ac nad oedd modd ei gynnal ar ôl i'r cam adeiladu ddod i ben. Roedd nifer yn teimlo y dylid annog y gweithlu i ddefnyddio busnesau lleol ac ymweld â safleoedd lleol i dwristiaid fel ffordd o integreiddio i gymunedau yn ystod eu cyfnod yma [RD51].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.204 Byddai cyflwyno prosiect seilwaith mawr fel Prosiect DCO Wylfa Newydd ar Ynys Môn yn sicrhau gwariant cyfalaf cysylltiedig uchel. At ei gilydd byddai'r cynnydd ym mhoblogaeth gyffredinol prif ardal yr astudiaeth o ganlyniad i'r gweithlu adeiladu yn cynyddu gwariant yn yr economi leol, a fyddai'n fanteisiol i fusnesau lleol.

B.4.205 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol ym mhennod B1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.2.1) yn ystyried swm a dosbarthiad gwariant gan y gweithlu adeiladu ac yn rhoi syniad o'r gwir fuddsoddiad a ddisgwylir yn y gwahanol economïau 'lleol': Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ehangach. Cyflwynir y rhain isod fel rhan o'r AEIG sy'n trafod effaith y cam adeiladu ar fusnesau lleol.

Gwariant lleol fel cyfran o gyfanswm gwerth adeiladu costau Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd

B.4.206 Nid oes amcangyfrifon sy'n ymwneud â gwerth posibl contractau lleol ar gyfer cam adeiladu cyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar gael ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y byddai 60% o werth £10+ biliwn Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael ei wario yn y DU yn ystod y cam adeiladu. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o'r gwerth fyddai'n cael ei wario'n lleol (hy yng ngogledd Cymru). Mae rhagor o waith yn cael ei ddatblygu er mwyn deall gallu'r gadwyn gyflenwi leol, ac mae mentrau fel Rhaglen Parodrwydd Busnes, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru, ar y gweill i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae Horizon a chontractwyr Menter Newydd yn ei ddisgwyl gan eu darpar gyflenwyr.

B.4.207 Gan edrych ar wybodaeth feincnodi, mae prosiectau adeiladu gorsafoedd niwclear newydd eraill wedi cyflawni rhwng 2% (Flamanville 3) a 4% (Sizewell B) [RD52] o gyfanswm gwerth eu prosiect yn lleol. Dylid nodi bod yr ardaloedd lleol ar gyfer y prosiectau hyn yn ardaloedd llai na gogledd Cymru, ac yn debyg iawn i brif ardal yr astudiaeth.

B.4.208 Ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, pe byddai rhwng 2% a 4% yn cael ei gyflawni fel cyfraniad lleol, byddai hyn gyfystyr â buddsoddiad o rhwng £200 miliwn a £400 miliwn yng ngogledd Cymru dros y cyfnod adeiladu.

B.4.209 Dylid ystyried unrhyw gyfraniad lleol yng nghyd-destun yr economi leol. Yn 2015, roedd Gwerth Ychwanegol Gros gogledd Cymru yn £12.8 biliwn, cynnydd o 3.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar sail Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yr economi, a chan dybio buddsoddiad cyfartalog bob blwyddyn, mae gwariant lleol posibl o 4% yn cyfateb i dwf blynyddol (dros werthoedd 2015) o 0.4% yng Ngwerth Ychwanegol Gros yng ngogledd Cymru. Mae hyn gyfwerth â chynnydd o 15% yn y gyfradd twf cyfartalog blynyddol dros 10 mlynedd (2.4%) yng Ngwerth Ychwanegol Gros yng ngogledd Cymru.

B.4.210 Mae gwariant ychwanegol yn yr economi leol, o ganlyniad i'r cam adeiladu, yn effaith fanteisiol ar fusnesau lleol gogledd Cymru, ac mae Siarter a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi ar waith i gefnogi hyn. Gan fod canran uchel o boblogaeth Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn siaradwyr Cymraeg, byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar fusnesau Cymraeg eu hiaith. Oherwydd bod y Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae Horizon yn cydnabod bod gallu busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi i gyfathrebu â Horizon drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig, er mwyn cynnal a chryfhau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

B.4.211 Mae *Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned* [RD51] yn nodi bod trigolion Ynys Môn yn cydnabod y gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd fod o fudd i fusnesau lleol, drwy gyfrwng mwy o wario mewn siopau, tai bwyta, llety ac ati yn lleol.

Athreuliad llafur

B.4.212 Byddai cyfleoedd newydd am swyddi yn creu nifer o wahanol effeithiau o fewn y farchnad lafur leol, gan gynnwys annog gweithwyr presennol i symud o swydd sydd ganddynt yn barod i weithio'n uniongyrchol ar y Prosiect.

Athreuliad llafur yw'r term am hyn, a allai effeithio ar fusnesau presennol yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae hyn yn cael ei egluro'n fwy manwl ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1).

B.4.213 Gall athreuliad llafur gael effaith fanteisiol neu niweidiol ar fusnesau, yn dibynnu ar y math o swydd a'r buddsoddiad a wneir yn y gweithiwr. Gallai athreuliad llafur yng nghyd-destun Prosiect DCO Wylfa Newydd godi drwy gyfrwng unrhyw rai o'r isod:

- creu swydd wag mewn sector arall neu gyda chyflogwr arall y gall gweithiwr arall presennol (sy'n byw gartref) ei llenwi o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu);
- denu gweithiwr newydd o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu);
- caniatáu i unigolyn di-waith o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) gael gwaith; neu
- ddenu unigolyn di-waith o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

B.4.214 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn cyfrifo bod trosiant cyffredinol swyddi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) rhwng 2012 a 2013 yn 9% o gyfanswm cyflogaeth yr ardal ar gyfartaledd. Hefyd, mae nifer fawr o bobl yn allfudo o Ynys Môn ac yn allgymudo, sy'n arwydd nad oes digon o ran niferoedd na'r math o swyddi ar gael ar gyfer y boblogaeth. Byddai creu swyddi lleol yn gwella'r sefyllfa hon.

B.4.215 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn awgrymu y gallai'r economi leol gynnal uchafswm o 5,560 o weithwyr a ddiffinnir eu bod yn meddu ar sgiliau 'perthnasol i niwclear' yn symud o'u swyddi cyfredol i swyddi newydd a grëir gan y Prosiect, heb achosi effaith na fyddai'r economi leol yn gallu delio â hi. Byddai'r amcangyfrif o ran nifer y gweithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn 2,000, sy'n llawer yn is na'r cyfraddau trosiant presennol yn y sectorau gweithlu 'perthnasol i niwclear' yn lleol.

B.4.216 Felly, mae'r dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu ychydig iawn o effaith ar y farchnad lafur, ac mae canlyniadau'r arolwg busnesau a chadwyn gyflenwi'n cydnabod ac yn cefnogi'r canlyniadau hyn. Yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, codwyd nifer o bryderon am y posibilrwydd o effaith ar gadw staff yng nghyswllt Prosiect DCO Wylfa Newydd. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â staff medrus a phrofiadol yn y diwydiannau niwclear ac adeiladu, a'r sectorau arlwyo a gwasanaethau lle gallai cyflogeion symud i ymgymryd â swyddi rheoli cyfleusterau, diogelwch neu glerigol ar Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.217 Roedd canlyniadau'r arolwg busnesau yn cyflwyno barn gymysg am yr athreuliad llafur posibl. Tynnodd rhai busnesau lleol sylw at y cynnydd tebygol yn y galw am rai galwedigaethau a lefelau cyflog uwch, fel pryderon posibl. Fodd bynnag, nododd nifer o fusnesau eu bod yn disgwyl gweithio ar Brosiect

DCO Wylfa Newydd ac y gallent gael budd o allu cynnig contractau hwy a mwy diogel i staff.

B.4.218 Byddai Siarter y Gadwyn Gyflenwi a'r Cynllun Gweithredu Cyflenwi yn ceisio cefnogi busnesau i gymryd rhan ym Mhrosiect DCO Wylfa Newydd ac elwa'n uniongyrchol, a byddai'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3) yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd i'r farchnad lafur. Hefyd, mae mesurau lliniaru i gefnogi busnesau presennol yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn cael eu cyflwyno o dan y pennawd 'Mesurau lliniaru a/neu wella' isod.

B.4.219 Ar sail yr ymatebion i'r arolwg, dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o'r trosiant presennol yn y farchnad, yr arferion lliniaru da a chydnabod y pryderon lleol a godwyd ynghylch y mater, nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol o ran athreuliad llafur, a allai effeithio ar fusnesau Cymraeg eu hiaith.

B.4.220 Byddai canran o'r gweithlu nad ydynt yn byw gartref yn chwilio am lety i dwristiaid yn ystod y cam adeiladu. Bydd hyn yn sicrhau gwariant ychwanegol yn yr economi leol i fusnesau lleol sy'n cynnig llety i dwristiaid, ac asesir hyn isod.

Refeniw i ddarparwyr llety twristiaeth

B.4.221 Mae'r dadansoddiad gwaelodlin yn awgrymu bod twristiaeth yn sector pwysig i Ynys Môn.

B.4.222 Yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu, mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y byddai hyd at 450 o welyau i dwristiaid yn cael eu defnyddio gan weithwyr mewn gwestai a llety gwely a brecwast, yn ogystal â 650 o welyau mewn llety carafannau a champio mewn safleoedd cofrestredig (gweler pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1). Ar sail cyfradd defnydd gwely posibl o 80% dros un flwyddyn, a'r £38.41 (2017) y noson [Cyd-gyngor Cenedlaethol y Diwydiant Adeiladu Peirianneg, 2016] a roddir i weithwyr fel lwfans dyddiol, amcangyfrifir y bydd y refeniw ychwanegol i ddarparwyr twristiaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth tua £12 miliwn y flwyddyn yn y cyfnod prysuraf.

B.4.223 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol (gweler pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn nodi y byddai'r galw mwyaf am welyau ar Ynys Môn. Felly, byddai'r rhan fwyaf o'r refeniw ychwanegol i ddarparwyr twristiaeth (£10.6 miliwn y flwyddyn yn ystod y cyfnod prysuraf) yn cael ei wireddu ar Ynys Môn yn hytrach nag unrhyw le arall ym mhrif ardal yr astudiaeth. Roedd data twristiaeth Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM) yn dangos gwariant o £78.9 miliwn gan dwristiaid ar lety, bwyd a diod ar Ynys Môn yn 2014. Felly, mae'r cynnydd hwn yn y gwariant yn cynrychioli twf o 13% dros lefelau gwaelodlin. Dylid nodi bod disgwyl i gyfanswm y galw am welyau yn y sector hwn fod dros 700 o welyau am tua thair blynedd.

B.4.224 Mae cynnydd o 13% dros lefelau gwaelodlin gwariant twristiaid ar lety, bwyd a diod fwy neu lai'n gyfwerth â chyfanswm y twf rhwng 2007 a 2014.

B.4.225 O ran refeniw i ddarparwyr twristiaeth, nodir bod hon yn effaith fanteisiol ganolig, a fyddai'n cyfrannu at gynnal diwydiant twristiaeth ffyniannus.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.226 Felly, byddai disgwyl i'r cam adeiladu gynhyrchu manteision mawr i fusnesau lleol gan gynnwys y sector twristiaeth, a byddai'n cael effaith fanteisiol yn gyffredinol ar fusnesau lleol, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith, gan gyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus. Mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith fel Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai busnesau lleol yn gweld dadleoli llafur yn lleol o ganlyniad i'r cyfleoedd cyflogaeth newydd a ddaw yn sgil y cam adeiladu.

B.4.227 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.5).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.228 Er ein bod yn cydnabod bod mwy o gyfleoedd i fusnesau a chyflenwyr lleol gael budd o'r cam adeiladu, byddai'r gwariant gweithredol hefyd o fudd i fusnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi. Byddai Horizon wedi ymrwymo i ymgysylltu â busnesau a chyflenwyr lleol i gyflawni neu gefnogi gwaith yn y dyfodol yn ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys yn ystod y cam gweithredu.

Gwariant blynyddol yn ystod y cam gweithredu

B.4.229 Mae cyfanswm gwerth y gwariant gweithredu dros oes yr Orsaf Bŵer gyfystyr â £1.8 biliwn mewn gwerth presennol, sy'n gyfwerth â thua £30 miliwn y flwyddyn. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys costau staff, tanwydd, ardrethi busnes, cyfraniadau ariannol eraill, ffioedd National Grid na chostau masnachu eraill.

B.4.230 Yn 2015, roedd Gwerth Ychwanegol Gros yng ngogledd Cymru yn £12.8 biliwn, ac mae'r amcangyfrif o'r gwariant blynyddol yn ystod y cam gweithredu mewn gwerth presennol yn gyfwerth â 0.2% o'r Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol, a oedd yn tyfu bob blwyddyn ar gyfartaledd o 2.1% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

B.4.231 Cyflwynir yr effaith ar gyflogau lleol yn ystod y cam gweithredu yng nghwestiwn 11. Fodd bynnag, wrth ystyried effaith cyflogau uniongyrchol ar incwm ychwanegol yn yr economi leol, mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol (gweler pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn amcangyfrif y byddai costau staff yn yr Orsaf Bŵer gyfwerth â £506 miliwn mewn gwerth presennol dros gyfnod 60 mlynedd y cam gweithredu. Tybir y byddai'r rhan fwyaf o'r staff yn ystod y cam gweithredu yn byw ar Ynys Môn yn y pen draw. Yn unol â thueddiadau'r gweithlu yn yr Orsaf Bŵer Bresennol, disgwylir y byddai swm sy'n gyfwerth ag £8.4 miliwn mewn gwerth presennol yn cael ei fuddsoddi yn economi Ynys Môn bob blwyddyn dros 60 mlynedd y cam gweithredu.

B.4.232 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol hefyd yn amcangyfrif, ar sail lluosyddion incwm, y disgwylir i'r cyflogau uniongyrchol hyn gynhyrchu incwm ychwanegol gwerth £11.6 miliwn y flwyddyn i'r economi leol, a fyddai'n creu

cyfanswm incwm o tua £20.0 miliwn yn flynyddol i economi Ynys Môn yn gyffredinol. Byddai hyn o fudd i fusnesau lleol, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith, oherwydd y gwariant ychwanegol yn lleol.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.233 Felly, yn ystod y cam gweithredu, byddai'r gwariant ychwanegol yn yr economi leol oherwydd gwariant gweithredol a chyflogau ychwanegol a fyddai'n cael eu talu yn ystod y cam gweithredu o fudd i fusnesau lleol gan gynnwys busnesau Cymraeg. Mae gweithgarwch economaidd yn ffactor bwysig o ran cynnal a chryfhau cymunedau (a'r Gymraeg a'i diwylliant hefyd).

B.4.234 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.4).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.235 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol ganolig ar fusnesau lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol ganolig yn ystod y cam gweithredu.

B.4.236 Mae'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3) a amlinellir fel mesurau lliniaru arfer da yn cynnwys sefydlu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd. Byddai'r Gwasanaeth hwn yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi gweithwyr i gefnogi'r rhaglen adeiladu. Byddai'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau, a Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd fel rhan o hynny, yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd i'r farchnad lafur; hyfforddi ac uwchsgilio newydd-ddyfodiaid ac eraill; a darparu gwasanaeth broceriaeth drwy ôl-lenwi swyddi gwag i gefnogi busnesau y mae eu gweithwyr wedi symud i'r Prosiect, gan arwain at anawsterau cael rhywrai yn eu lle. Byddai hyn yn cefnogi ac yn lliniaru'r effeithiau posibl sy'n ymwneud ag athreuliad llafur, petai hynny'n codi.

B.4.237 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio cynyddu'r effeithiau manteisiol hyn i fusnesau lleol. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesurau 10 ac 11 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C9: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- Creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd bod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy achosi i fusnesau lleol gau)?

Y Cefndir

B.4.238 Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn lleol, gan ddibynnu ar y sgiliau sydd gan bobl leol. Mae'r asesiad yn ystyried y ddeinameg rhwng galw Prosiect DCO Wylfa Newydd am lafur a chyflenwad a chapasiti'r gweithlu lleol. Byddai diffyg cyflenwad a chapasiti'r gweithlu llafur lleol i gwrdd â galw Prosiect DCO Wylfa Newydd am lafur yn dylanwadu ar gyfraddau allfudo.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

Cyflogaeth y farchnad lafur

B.4.239 Yn 2015, roedd 112,400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (atodiad C1-1 yr Adroddiad Gwaelodlin ar nodweddion Economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.8). Ar Ynys Môn, nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn oedd 15,400. Rhwng 2009 a 2015, roedd gostyngiad o 6% yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn ar Ynys Môn, ond roedd cynnydd o 5.2% yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a 4.3% yng Nghymru. Roedd y gostyngiad yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn ar Ynys Môn yn cyd-daro â chyflogwyr mawr, fel Alwminiwm Môn, yn cau.

B.4.240 Yn 2015, roedd 3.2% o'r boblogaeth gweithio ar Ynys Môn yn gweithio yn y meysydd amaethyddiaeth a physgota, dros ddwbl y gyfran ar draws Cymru ac yn uwch na'r 2.0% ar draws yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn ei chyfanrwydd. Roedd y gyfran a gyflogwyd yn y diwydiant adeiladu (5.9%) hefyd yn uwch nag yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (5.5%) ac yng Nghymru (4.8%).

B.4.241 Mae'r strwythur diwydiannol wedi bod yn newid ar Ynys Môn ers 2009. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys cynnydd o 42% mewn llety a gwasanaethau bwyd ar Ynys Môn rhwng 2009 a 2015, yn groes i gynnydd mwy cymedrol o 11.6% yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a 12.5% yng Nghymru. Mae'r sector gweithgynhyrchu ar Ynys Môn wedi gweld gostyngiad o 0.9% yn ei gyfran gyflogaeth, yn groes i gynnydd o 14.5% yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a 6.5% yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod ffatri Alwminiwm Môn wedi cau.

B.4.242 Yn 2011, roedd 58.3% o'r boblogaeth o drigolion arferol 16 oed neu hŷn oedd mewn swydd ar Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg, a 43.7% oedd y ffigur hwnnw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). O blith y trigolion arferol a oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu ar Ynys Môn ac yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), roedd 64.8% a 48.1% y naill a'r llall yn siarad Cymraeg.

B.4.243 Yn ystod prosiect ar y cyd y Swyddogion Cynnwys y Gymuned, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod datblygiadau ar raddfa fawr yn y gorffennol, fel yr Orsaf Bŵer Bresennol, wedi dod â chyfleoedd gwaith a chyflogau da gyda nhw, a byddai nifer yn hoffi gweld yn hyn yn digwydd eto yn y cymunedau presennol [RD51].

Patrymau cymudo

B.4.244 Mae patrymau cymudo yn rhoi syniad o symudedd perthynol llafur a rôl ardaloedd arbennig o ran cefnogi gweithgarwch economaidd ar draws cefnwlad ehangach nag yr awgrymir gan eu ffiniau gweinyddol.

B.4.245 Yn 2011, roedd bron i 9,000 o drigolion Ynys Môn yn teithio i weithleoedd y tu allan i'r ynys. O'r rheini, roedd dros 6,500, sef 74%, o'r gweithwyr all-lif yn teithio i Wynedd. Roedd yr all-lif hwn i Wynedd wedi cynyddu 32% o'i gymharu â 2001. Roedd ychydig dros 3,000 o bobl yn teithio i Ynys Môn i weithio, gyda'r mwyafrif yn dod o Wynedd. Mae hyn yn awgrymu bod prinder cyfleoedd gwaith ar Ynys Môn ar hyn o bryd, gyda nifer o'r trigolion yn teithio i ardaloedd y tu allan i Ynys Môn i weithio.

Gweithgarwch economaidd

B.4.246 Yn 2015, roedd y gyfradd cyflogaeth ar Ynys Môn ar ei uchaf (73.8%) ers 2004, ond gostwng wnaeth y gyfradd yn 2016 (70.8%) a chynyddu yng ngogledd Cymru (73.2%) ac yng Nghymru (71.2%).

B.4.247 Yn 2016, roedd cyfradd gweithgarwch economaidd Ynys Môn (75.1) yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru (74.8) ond yn is na'r gyfradd yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (76.3). Roedd yr amcangyfrif o boblogaeth Ynys Môn a oedd yn economaidd weithgar yn 2016 yn 30,600. Roedd cyfradd anweithgarwch economaidd Ynys Môn ychydig yn is (24.9) na'r gyfradd yng Nghymru (25.2). Ond, mae cyfran uwch o bobl economaidd anweithgar sydd ddim eisiau swydd yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (77.2%) ac yn Ynys Môn (77.0%), o'i gymharu â 74.2% yng Nghymru.

Yr iaith Gymraeg a'r gweithle

B.4.248 Mae unigolion yn treulio cyfran uchel o'u hamser yn y gwaith, felly mae'r gweithle yn un o'r prif lefydd sy'n pennu'r iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr* yn nodi bod y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion ac yn gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg [RD9].

B.4.249 Ar Ynys Môn, roedd 65% o'r rheini a oedd yn gweithio yn credu bod eu cyflogwr yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol o'r busnes. Yng Ngwynedd, roedd 69% yn credu bod eu cyflogwr yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol o'r busnes [RD39].

B.4.250 Ail faes blaenoriaeth Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn 2016-2021 yw'r gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith [RD24]. Nod y maes blaenoriaeth hwn yw *"hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau."* [RD24, t.25].

B.4.251 Mae'r strategaeth yn nodi *"y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio."* [RD24, t.25]. Mae hefyd yn cydnabod rôl

allweddol y gweithle o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill yn eu bywydau [RD24].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

Newidiadau i gyflogaeth yn y sector adeiladu

B.4.252 Yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu, byddai disgwyl bod angen hyd at 9,000 o weithwyr ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae gwybodaeth fanwl am y dadansoddiad o'r gweithwyr adeiladu ar gael yn adran B.3 yr AEIG hwn. Mae tybiaethau economaidd-gymdeithasol yn disgwyl y bydd o leiaf 2,000 (tua 22%) o'r gweithlu adeiladu ar y cyfnod prysuraf eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ac, felly, ystyrir bod y rhain yn weithwyr a fydd yn byw gartref. Mae'r cyfraniad lleol yn amrywio o 90% ar gyfer gwasanaethau oddi ar y safle, diogelwch a staff clercaidd, i 7% ar gyfer staff rheoli a goruchwylio.

B.4.253 Er ei bod yn wir na fydd pob swydd a fydd yn cael ei chreu gan Brosiect DCO Wylfa Newydd yn y sector adeiladu, byddai'r rhan fwyaf yn debyg o fod ynddo. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 14,400 o drigolion yn cael eu cyflogi yn y sector adeiladu yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai'r gofyn am o leiaf 2,000 o weithwyr o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn arwain at gynnydd dros dro o 14% mewn cyflogaeth adeiladu yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ac ystyried bod 64.6% a 48.1% o boblogaeth Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu yn siarad Cymraeg [RD10], ystyrir bod y cyfleoedd gwaith a gynigir i weithwyr a fydd yn byw gartref yn ystod y cam adeiladu yn effaith fanteisiol fawr i'r Gymraeg a'i diwylliant.

B.4.254 Y tu allan i gyfnod prysuraf y cam adeiladu, byddai cyfleoedd gwaith ychwanegol yn cael eu cynnig i bobl leol i weithio ar gamau adeiladu neu weithredu'r Datblygiadau Cysylltiedig a'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Mae tabl B-3 isod yn dangos y gweithlu lleol uchaf a amcangyfrifir ar gyfer adeiladu a gweithredu'r datblygiadau hyn ochr yn ochr â'r gweithlu adeiladu cyffredinol ar y cyfnod prysuraf. Mae adeiladu'r Datblygiadau Cysylltiedig a'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn digwydd cyn cyfnod prysuraf cyffredinol y cam adeiladu. Mae cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cyfleusterau hyn wedi cael ei chynnwys yma gan ei bod yn disgyn o fewn cam adeiladu cyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.255 Mae Tabl B-3 yn dangos yr amcangyfrifon ar gyfer y galw uchaf am lafur ar gyfer pob un o'r Datblygiadau Cysylltiedig a'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai angen y swyddi hyn cyn cyfnod prysuraf y cam adeiladu. Mae swyddi 'gweithredu' yn cael eu cynnwys yn y tabl hwn oherwydd byddai eu hangen yn ystod y Prif Gam Adeiladu.

Tabl B-3 Yr amcangyfrifon ar gyfer y galw uchaf am lafur*

Elfen o'r prosiect	Adeiladu	Gweithredu
Newidiadau i Briffordd yr A5025	211	-
Canolfan Logisteg	50	29

Elfen o'r prosiect	Adeiladu	Gweithredu
Parcio a Theithio	70	13
Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer	85	-

**Nid yw hyn yn cynnwys gweithredu Campws y Safle oherwydd bod hyn yn cael ei gynnwys o dan adeiladu.*

B.4.256 Ar ben hynny, mae dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y byddai 1,800 arall o swyddi anuniongyrchol ac ysgogedig[32] yn cael eu creu yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ac ystyried bod 58.3% o boblogaeth arferol Ynys Môn 16 oed a hŷn sydd mewn gwaith yn siarad Cymraeg, mae hyn yn cyflwyno effeithiau manteisiol ychwanegol o ran cyflogaeth ar gyfer poblogaeth Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) sy'n siarad Cymraeg.

Newidiadau i gyflogaeth ar Ynys Môn

B.4.257 Mae'r asesiad model disgyrchiant yn amcangyfrif y byddai disgwyl i 1,256 o weithwyr a fyddai'n byw gartref ddod o Ynys Môn, sy'n cyfateb i tua 63% o'r rheini y mae disgwyl iddynt fod yn byw gartref ac o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae hyn yn seiliedig ar y sgiliau sydd ar gael yn yr ardal a gofynion Prosiect DCO Wylfa Newydd, ochr yn ochr â disgwyliadau teithio. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd tua 30,400 o drigolion Ynys Môn mewn gwaith ar yr adeg honno, a oedd 16% yn uwch na'r nifer yng Nghyfrifiad 2001. A thybio bod cyflogaeth yn aros ar y lefel hon, mae'r gyflogaeth ychwanegol felly yn cynrychioli newid o 4% ar yr ynys. Asesir bod arwyddocâd yr effeithiau yn fanteisiol ganolig.

B.4.258 Yn 2011, roedd 58.3% o boblogaeth arferol Ynys Môn 16 oed a hŷn a oedd mewn gwaith yn siarad Cymraeg; byddai hyn yn cyflwyno effeithiau manteisiol ychwanegol o ran cyflogaeth ar gyfer poblogaeth Gymraeg Ynys Môn yn ystod y cam adeiladu.

B.4.259 Mae dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y byddai'r lefel hon o gyflogaeth ar Ynys Môn o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd yn creu 1,130 o swyddi anuniongyrchol ac ysgogedig ychwanegol mewn rhannau eraill o economi Ynys Môn. Dylid nodi nad yw'r swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig hyn yn ychwanegol at y 9,000 o weithwyr a ddisgwylir yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu ond yn hytrach fe'u cyflwynir i ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n benodol i Ynys Môn.

B.4.260 Mae'r CDLlC a fabwysiadwyd yn cydnabod y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd a buddsoddiadau eraill Rhaglen Ynys Ynni Môn, petai'r sefyllfa orau yn cael ei gwireddu, yn golygu y byddai'r sefyllfa gyflogaeth ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn gwella'n sylweddol dros amser [RD15]. Mae'r CDLlC a

[32] Mae swyddi anuniongyrchol yn golygu swyddi sy'n cael eu creu drwy brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae swyddi ysgogedig yn golygu swyddi sy'n cael eu creu oherwydd bod gweithwyr yn gwario eu harian yn yr economi.

fabwysiadwyd felly wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gostyngiad yn hytrach na derbyn gostyngiad [RD15].

B.4.261 Mae'r strategaeth twf cyflogaeth sydd yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn amlygu'r angen i gynyddu nifer y swyddi er mwyn cadw gweithlu Cymraeg Ynys Môn a Gwynedd a denu trigolion oedran gweithio sydd wedi gadael yn ôl i'r ardal. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir i boblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn ystod y cam adeiladu felly'n cefnogi'r strategaeth twf swyddi a ragwelwyd fel rhan o'r CDLlC a fabwysiadwyd er mwyn cael effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

B.4.262 Mae arolwg cymunedol Prosiect DCO Wylfa Newydd [RD51] yn ystyried y disgwyliadau o fanteision Prosiect DCO Wylfa Newydd ar gyfer pobl Ynys Môn, o ran eu hymateb gwybyddol ac emosiynol. Mae'r arolwg cymunedol yn dynodi bod mwyafrif mawr o bobl (83%) yn cytuno y byddai'r Orsaf Bŵer yn cynnig cyfleoedd i bobl leol o ran swyddi a buddsoddiad. Fodd bynnag, nid oedd dim amrywiadau yn y canlyniadau rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.263 Ystyrir bod y cyfleoedd gwaith a gynigir yn ystod y cam adeiladu yn fanteisiol o ran y Gymraeg a'i diwylliant, oherwydd eu bod yn cadw gweithlu Cymraeg presennol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae 48.1% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu yn siarad Cymraeg yn yr ardal honno. Disgwylir y byddai tua 2,000 o weithwyr a fyddai'n byw gartref yn cael eu cyflogi yn ystod y cam adeiladu. Er mai swyddi dros dro fyddai'r rhain am gyfnod yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu, maent yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig i bobl leol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae Horizon yn disgwyl y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd sylweddol am brentisiaethau, ac o ystyried maint a hyd Prosiect DCO Wylfa Newydd, byddai'r posibiliadau ar gyfer ymgymryd â phrentisiaeth ac yna gael cyflogaeth, i gyd yn seiliedig ar Brosiect DCO Wylfa Newydd, yn sylweddol.

B.4.264 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.6).

B.4.265 Er y byddai'r cyfleoedd am swyddi a fyddai ar gael yn ystod y cam adeiladu yn cael effaith fanteisiol ar y boblogaeth, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, mae Horizon wedi ymrwymo i gynyddu'r cyfleoedd i bobl leol ddod yn rhan o weithlu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae'r mesurau gwella yn cael eu nodi isod.

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.266 Yn ystod y cam gweithredu, byddai 850 o weithwyr yn cael eu cyflogi ac, ar sail meincnodau o brosiectau eraill, er enghraifft yr Orsaf Bŵer Bresennol, a drwy weithredu ystod eang o fesurau gwella gan Horizon, disgwylir y byddai 85% o'r rheini yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), felly yn lleol eu natur. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:


- hyfforddi a datblygu;

- trosglwyddo gwybodaeth;
- ymgysylltu ag ysgolion gan gynnwys gweithgareddau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg;
- prentisiaethau;
- lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith;
- rhaglenni i raddedigion;
- ymgysylltu â'r rheini sydd wedi bod yn ddi-waith ers tro a chyn aelodau o'r lluoedd arfog; a
- chynnwys pobl brofiadol o'r farchnad lafur bresennol. Mae Ffigur B-3 yn dangos y cysylltiadau rhwng y partïon hyn a sut byddent yn bwydo i mewn i Brosiect Wylfa Newydd drwy'r partneriaid cefnogaeth hyfforddiant a fyddai'n cael eu defnyddio gan Horizon.

B.4.267 Byddai'r cyfleoedd gwaith yn ystod y cam gweithredu yn swyddi parhaol o ansawdd uchel gyda rhagolygon da i symud ymlaen mewn gyrfa.

B.4.268 Mae'r mathau o swyddi a fyddai ar gael yn ystod y cam gweithredu yn cael eu cyflwyno yn adran B.3 yr AEIG hwn ac mae canran uchel o boblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) sy'n gweithio yn y sectorau hynny yn siaradwyr Cymraeg. Byddai'r swyddi yn ystod y cam gweithredu felly yn cyflwyno cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel i boblogaeth Gymraeg Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Ffigur B-3 Cynllun Ymgysylltu Swyddi a Sgiliau yn ystod y cam gweithredu



B.4.269 Tybir y byddai bron iawn pob un o'r 850 o bobl a gyflogir yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth gan gynnwys canran a fyddai'n symud i Ynys Môn i weithio. Gan dybio y byddai dosbarthiad gweithwyr y cam gweithredu yn debyg i'r dosbarthiad ar gyfer yr Orsaf Bŵer Bresennol, amcangyfrifir y byddai 85% (neu 740 o weithwyr a'u partneriaid a'u dibynyddion) yn byw ar Ynys Môn yn y pen draw.

B.4.270 Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 30,400 o drigolion Ynys Môn yn cael eu cyflogi ar yr adeg honno, a fyddai'n cynyddu hyd at 2% o ganlyniad i'r swyddi gweithredu parhaol. Nid yw hyn yn ystyried colledion o ganlyniad i weithgareddau eraill ar yr ynys, fel datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol, er bod disgwyl i hyn barhau i gyflogi rhai cannoedd o staff yn y tymor byr i ganolig. Felly, efallai y bydd y waelodlin marchnad lafur i'r dyfodol yn wahanol ar ddechrau'r cam gweithredu.

B.4.271 Wrth ystyried y patrymau parhaus mewn allfudo ymysg y grŵp oedran 15 i 29 o Ynys Môn rhwng 2001 a 2014, gogledd Cymru a Chymru drwyddi draw, gall y cyfleoedd gwaith gweithredu a gynigir hefyd gefnogi'r broses o wyrdroi'r patrwm hwn gan y byddent yn swyddi parhaol drwy gydol y cyfnod gweithredu o 60 mlynedd.

B.4.272 Ystyrir bod cadw pobl ifanc yn bwysig o ran cymunedau sydd â chydbwysedd cymdeithasol, yn enwedig cymunedau Cymraeg lle byddent yn magu teuluoedd dwyieithog, gan gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth hefyd yn gyfle i ddenu cyn drigolion sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd, gan gyfrannu ymhellach at gynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn.

B.4.273 Ac ystyried bod yr amcanestyniadau poblogaeth yn rhagweld y byddai poblogaeth Ynys Môn yn disgyn yn gyson rhwng 2016 a 2039, byddai'r cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cam gweithredu yn cyfrannu at gadw'r boblogaeth oedran gweithio bresennol ar Ynys Môn ac ystyrir bod hyn yn effaith fanteisiol o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

B.4.274 Yn ychwanegol at yr 850 o swyddi gweithredu parhaol, yn ystod cyfnodau segur wedi'u cynllunio i wneud gwaith cynnal a chadw, byddai angen 1,000 o weithwyr ychwanegol. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud mewn dwy shifft o 12 awr dros 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Byddai cyfnodau segur yn para tua 25 i 30 diwrnod bob tro. Byddai hyn yn cael ei ymestyn i ddiffodd am 45 diwrnod bob deg mlynedd. Byddai'r mwyafrif o'r staff hyn yn staff na fyddent yn byw gartref.

B.4.275 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol felly yn tybio y byddai creu 1,000 o swyddi ychwanegol yn ystod cyfnodau segur wedi'u cynllunio ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn cael prin ddim effaith os o gwbl ar gyflogaeth ar Ynys Môn; fodd bynnag, cydnabyddir bod cwmnïau lleol ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau i'r Orsaf Bŵer Bresennol yn ystod cyfnodau segur a bod Sizewell B yn ystod ei gyfnod segur cyntaf wedi recriwtio 37% o'i weithwyr o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ar gyfer y safle hwnnw. Mae hi'n bosibl felly y gallai cyfnodau segur ddarparu rhai canlyniadau cyflogaeth manteisiol; fodd bynnag, nid yw hyn yn sicr ar hyn o bryd.

B.4.276 Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD32] yn cadarnhau bod lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn y sefydliad yn cael ei hasesu ar hyn o bryd ond bod Horizon wedi ymrwymo i ddatblygu hyn ymhellach. Caiff mesurau o'r fath eu cyflwyno isod o dan yr adran 'Mesurau lliniaru a/neu wella' ac yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG). Un o brif themâu'r strategaeth yw'r gweithlu (sy'n cyd-fynd ag un o ardaloedd blaenoriaeth Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn [RD24]), sy'n cynnwys mesurau sy'n ymwneud â datblygu sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr Horizon yn y gweithle.

B.4.277 Saesneg fyddai iaith weithredol Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, am resymau diogelwch. Fodd bynnag, mae Horizon yn derbyn ei gyfrifoldeb corfforaethol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Caiff y manylion eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.278 Felly, byddai'r cyfleoedd gwaith parhaol, o ansawdd uchel, a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu yn arwain at effaith fanteisiol fawr ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn, oherwydd byddai 85% o'r gweithlu gweithredu yn bobl leol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ystyrir bod cyfleoedd gwaith yn agwedd bwysig o gynnal a chryfhau cymunedau ac felly'r Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig ar Ynys Môn, sydd wedi gweld pobl ifanc yn gadael yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf.

B.4.279 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.6).

B.4.280 Caiff mesurau gwella eu cynnig er mwyn gwella'r effaith fanteisiol hon ymhellach.

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.281 Mae'r asesiad yn nodi y byddai mwy o gyfleoedd gwaith o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg yn ystod y cam adeiladu ac effaith fanteisiol fawr yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau gwella arfaethedig sy'n ceisio cynyddu'r effeithiau manteisiol hyn. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 dan Gwestiwn 3 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar swyddi lleol (sef mesurau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, a 15 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C10: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Y Cefndir

B.4.282 Gall y datblygiadau greu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau penodol. Bydd rhai datblygiadau yn gofyn am ddefnydd uwch o'r iaith fel sgìl yn y farchnad lafur. Bydd rhai eraill yn gofyn am sgiliau nad ydynt ar gael yn y farchnad lafur leol, gan arwain at fewnfudo gweithwyr sy'n meddu ar y sgiliau penodol hyn.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.283 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu'r amgylchedd gorau posibl i gefnogi twf yr iaith Gymraeg a datblygiad economaidd, a fydd o fudd i'r naill a'r llall. Maent yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a llesiant y Gymraeg [RD9].

B.4.284 Un o'r themâu a bwysleisiwyd yn ystod Y Gynhadledd Fawr oedd bod angen cynyddu gwerth y Gymraeg fel sgìl ar gyfer y gweithle, cryfhau economïau ardaloedd Cymraeg traddodiadol gogledd a gorllewin Cymru, cynyddu gwerth economaidd yr iaith, a chefnogi siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardaloedd hynny.

B.4.285 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â llif ymfudo yn y DU yn ôl oed a chyrchfan ar gael yn adran A.6.

B.4.286 Mae poblogaethau oedran gweithio, yn arbennig pobl ifanc, yn cael eu denu at leoliadau daearyddol lle mae datblygiad economaidd ar ei gryfaf ac mae economi ffyniannus yno. Fodd bynnag, byddai lleoliadau sydd ag economi ffyniannus hefyd yn denu unigolion di-Gymraeg. Fel y trafodwyd eisoes, gall y broses o boblogaethau di-Gymraeg yn mewnfudo i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned effeithio ar ganran y siaradwyr Cymraeg a defnydd cyffredinol o'r iaith.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.287 Bydd cynnydd mewn cyfleoedd i gael gwaith, fel y rhagwelir erbyn y cam adeiladu, yn naturiol yn denu ystod eang o weithwyr a byddai'r gweithlu lleol yn wynebu cystadleuaeth gan weithwyr eraill o'r tu allan i'r ardal.

B.4.288 Byddai'r cam adeiladu yn cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth, a'r disgwyl yw y bydd y rhain yn cael eu cymryd gan weithwyr sy'n byw gartref a gweithwyr na fyddant yn byw gartref. Yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu disgwylir i tua 22% o'r gweithwyr adeiladu (2,000) ddod o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a disgwylir i tua 1,256 o'r rhain ddod o Ynys Môn. Byddai hyn yn cael effaith fanteisiol o ran llesiant yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig ar Ynys Môn, gan y byddai'r cyfleoedd am swyddi yn helpu i gadw'r boblogaeth bresennol, gyda chanran helaeth ohonynt yn siarad Cymraeg.

Mae dull gweithredu Horizon, a nodir yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3), yn cynnwys mesurau a luniwyd i wneud y mwyaf o'r cyfle i bobl leol ennill y sgiliau angenrheidiol i fod yn rhan o'r gweithlu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.289 Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth yn galw am ystod eang iawn o wahanol sgiliau. Byddai swyddi yng ngham adeiladu'r Prosiect yn amrywio o swyddi lefel mynediad, i swyddi goruchwylio a rheoli a swyddi technegol ac arbenigol. Gan ystyried y byddid yn disgwyl i tua 22% o'r gweithlu adeiladu fod yn byw gartref, byddai ystod y swyddi yn arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn yr ardal. Mae'r cyfraniad lleol yn amrywio o 90% ar gyfer gwasanaethau oddi ar y safle, diogelwch a staff clercaidd, i 7% ar gyfer staff rheoli a goruchwylio.

B.4.290 Ystyrir bod sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, yn bwysig i gefnogi ac i gynnal hyfywedd cymunedau. Mae'r strategaeth twf swyddi a gynigir fel rhan o'r CDLlC a fabwysiadwyd yn ceisio rhoi fframwaith i hwyluso datblygiadau sy'n cynnal, yn gwella, yn moderneiddio ac yn amrywio economi Ynys Môn a Gwynedd, gan ddarparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a llesiant y Gymraeg [RD9].

B.4.291 Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cyflawni *"Cymru sydd â diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu"*. Caiff ei gydnabod bod sylfaen economaidd gadarn yn un o'r ystod eang o ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant y Gymraeg yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r arallgyfeirio economaidd sy'n cael ei gynnig yn ystod y cam adeiladu yn cynnig cyfleoedd mawr i feithrin twf yn y defnydd o'r Gymraeg, ynghyd â thwf economaidd. Mae Horizon wedi ymrwymo i gynyddu gwerth y Gymraeg fel sgìl yn y gweithle ac mae mesurau gwella'n cael eu cynnig fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) i wireddu ei weledigaeth.

B.4.292 Cydnabyddir na fydd modd i'r llafur lleol ddiwallu'r galw am lafur adeiladu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen; ar gyfer swyddi arbenigol mae'r gronfa o dalent yn tueddu i fod ar wasgar ar draws y byd. Felly, byddai gweddill y galw am lafur adeg y cam adeiladu yn cael ei gyflawni gan uchafswm o tua 7,000 o weithwyr na fyddent yn byw gartref, gan leihau canran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal lle siaredir y Gymraeg yn eang fel rhan o wead cymdeithasol y gymuned. Byddai mesurau'n cael eu cynnig i liniaru effaith niweidiol cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg (a'u teuluoedd) i brif ardal yr astudiaeth.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.293 Felly, mae'r cyfleoedd am gyflogaeth a'r ystod eang o swyddi a fydd yn cael eu cynnig yn y cam adeiladu yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd ym mhrif ardal yr astudiaeth, a fyddai yn fanteisiol i'r Gymraeg a'i diwylliant o ran helpu i gadw pobl leol, gyda chyfran uchel ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r berthynas rhwng twf economaidd a llesiant y Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol yn glir, gan gyflwyno cyfleoedd i Horizon gynyddu gwerth economaidd y Gymraeg fel sgìl ar gyfer y gweithle. Fodd bynnag, oherwydd natur arbenigol y swyddi adeiladu, byddai hyn yn golygu y

byddai gweithwyr na fyddent yn byw gartref yn symud i brif ardal yr astudiaeth (gweler cwestiwn 1 a chwestiwn 2).

B.4.294 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.4).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.295 Oherwydd y math o gyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu byddai hyn yn darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn, gan arwain at arallgyfeirio economaidd. Mae'r mathau o swyddi y byddai eu hangen yn cael eu cyflwyno'n fanwl yn adran B.3 o'r AEIG hwn ond byddent yn cynnwys gweithrediadau (tua 25%), cynnal a chadw (tua 25%), peirianneg (tua 25%), cymorth technegol (tua 10%), cymorth busnes a masnachau eraill (tua 15%).

B.4.296 O'r 850 o staff gweithredu sydd eu hangen, mae disgwyl i 85% (neu 723) fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai'r cam gweithredu felly yn darparu amrywiaeth ehangach o swyddi gwahanol gan gyfrannu at amrywiaeth economaidd, ond gan hefyd ddarparu cyfleoedd cyflogaeth mawr i boblogaeth leol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai gan hyn effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn oherwydd byddai mwy o amrywiaeth economaidd, yn enwedig ar gyfer gweithlu lleol, yn cyfrannu at gynnal a chryfhau hyfywedd cymunedol. Maes o law byddai hyn yn cefnogi ac yn cryfhau'r Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn.

B.4.297 Byddai mwy o amrywiaeth economaidd hefyd yn cael effaith fanteisiol o ran cadw poblogaeth leol prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn. Ac ystyried bod Ynys Môn wedi gweld pobl ifanc rhwng 15 a 29 yn symud allan o'r ardal yn gyson rhwng 2001 a 2014 a'r disgwyl y byddai poblogaeth Ynys Môn yn disgyn 3% hyd at 2039, byddai hyn yn effaith fanteisiol o ran cadw poblogaeth Gymraeg prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cydnabod bod twf economaidd yn elfen bwysig o leihau allfudo (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) [RD36].

B.4.298 Datblygiad sy'n *"cynnal, yn gwella, yn moderneiddio ac yn arallgyfeirio'r economi yn darparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau Cymraeg."* [RD36]. Byddai cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cyfrannu at arallgyfeirio economi Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth a fyddai'n cryfhau ac yn effeithio'n fanteisiol ar gymunedau Cymraeg yr ardaloedd hynny.

B.4.299 Ar y sail y byddai 85% o weithwyr y cam gweithredu yn lleol, byddai 15% (neu 128 o weithwyr) o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ac felly'n fwy tebygol o gynnwys canran uwch o weithwyr di-Gymraeg. Er y byddai mewnfudiad o weithwyr o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn cyfrannu at gynyddu nifer y bobl ddi-Gymraeg ar Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth, nid ystyrir bod nifer y bobl a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn yn sylweddol. Felly, er y byddai rhywfaint o effaith niweidiol, nodir bod hyn yn effaith niweidiol fach iawn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.300 Felly, mae disgwyl i weithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd gyfrannu at arallgyfeirio economaidd o ran yr amrywiaeth o fathau o swyddi a fyddai ar gael. Oherwydd y byddai 85% o weithlu'r cam gweithredu yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), byddai hyn yn arwain at effeithiau manteisiol mawr o ran cyflogaeth i boblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn swyddi parhaol o ansawdd uchel. Caiff hyn ei gydbwyso yn yr erbyn effaith niweidiol fach iawn o ran rhai pobl ddi-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn (gweler yr asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 2).

B.4.301 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.5).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.302 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol ganolig ar arallgyfeirio economaidd yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol ganolig yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio cynyddu'r effeithiau manteisiol hyn. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 dan Gwestiwn 3 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar swyddi lleol (sef mesurau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, a 15 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C11: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Y Cefndir

B.4.303 Mae prosiectau isadeiledd mawr fel Prosiect DCO Wylfa Newydd yn gallu effeithio ar lefelau cyflog lleol gan ddibynnu ar ystod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir a lefel y sgiliau sydd eu hangen. Byddai pobl a grwpiau gwahanol yn ystyried effeithiau datblygiadau ar lefelau cyflog lleol mewn ffyrdd gwahanol.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.304 O ran enillion wythnosol nid yw Ynys Môn wedi gweld twf sylweddol mewn enillion rhwng 2008 a 2016, er bod enillion wedi tyfu 7.9% yn 2015 cyn disgyn 2.7% yn 2016. Mae hyn yn groes i Wynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint sydd wedi gweld twf mwy sylweddol ers 2008. Yn 2016, roedd canolrif enillion wythnosol Ynys Môn yn £469 ac roedd Gwynedd ychydig o dan £440. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru sef £498.

B.4.305 Yn 2014, roedd incwm gwario gros aelwydydd y pen ar Ynys Môn yn £16,238 a dyma oedd y trydydd uchaf ymysg 22 awdurdod lleol Cymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

B.4.306 Wrth ystyried data enillion galwedigaethol Cymru ar gyfer swyddi dethol sydd â sgiliau sy'n berthnasol i niwclear, mae amrywiaethau sylweddol i'w gweld yn enillion y grwpiau galwedigaethol dan sylw. Yng Nghymru, yr enillion uchaf yn 2016 oedd gweithwyr peirianneg proffesiynol a oedd yn £707.60 sef dros ddwywaith y lefel ar gyfer swyddogion diogelwch, a oedd yn £359.00. Yn gyffredinol, mae gan y sector ynni a'r gadwyn gyflenwi enillion uchel eu gwerth.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.307 Nid yw'r lefelau cyflog disgwyliedig ar gyfer y gweithlu adeiladu yn hysbys. Fodd bynnag, wrth ystyried enillion presennol galwedigaethau sy'n berthnasol i'r sector niwclear, rhagwelir y gallai'r cam adeiladu ddarparu enillion uchel eu gwerth i'r gweithlu, a fyddai'n cyfrannu at gynyddu gwerth cyffredinol enillion wythnosol ac incwm cartrefi trigolion a fydd yn byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a'r rheini sy'n byw ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.308 Mae dadansoddiad o'r data am enillion galwedigaethol presennol ar gyfer galwedigaethau sy'n cyd-fynd â sgiliau yn y maes niwclear yn dangos amrywiadau enillion mawr o enillion wythnosol o £738.20 ar gyfer gweithwyr peirianneg proffesiynol i £366.90 ar gyfer swyddogion diogelwch. Mae data am enillion cyfartalog yn dangos bod y canolrif cyflog ar gyfer trigolion Ynys Môn oddeutu £421.15 yn 2015 ac ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru roedd ychydig yn uwch sef £461.54.

B.4.309 Ac ystyried yn 2011 bod 64.8% a 48.1% o boblogaeth Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu yn siarad Cymraeg, byddai'r cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol yn y sector adeiladu o fudd i boblogaeth Gymraeg Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) drwy gynnig swyddi sydd ag enillion uchel.

B.4.310 Er yr ystyrir y byddai'r cynnydd yn y cyflogau i'r boblogaeth leol a fyddai'n cael eu cyflogi yn ystod y cam adeiladu yn effaith fanteisiol i'r gweithwyr, gellid ei ystyried yn effaith niweidiol i fusnesau lleol a allai brofi dadleoli gweithwyr sy'n gadael i weithio ar gam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Gallai'r cynnig o gyflogau uwch i'r rheini a gyflogir ar y cam adeiladu olygu y gallai rhai busnesau lleol gael trafferth i gadw gweithwyr presennol.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.311 Felly, ac ystyried y byddai'r mwyafrif o weithlu adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn llafur sifil ac yn swyddi proffesiynol, sydd yn gyffredinol yn cynnig enillion wythnosol uwch na'r canolrif wythnosol presennol ar gyfer Ynys Môn, byddai disgwyl i'r cam adeiladu arwain at godi'r canolrif incwm wythnos ar gyfer Ynys Môn yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai cyflogau uwch o gyfleoedd cyflogaeth adeiladu gael effaith niweidiol ar rai busnesau lleol.

B.4.312 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.313 Ar sail enillion galwedigaethol presennol sy'n berthnasol i'r sector niwclear, disgwylir y byddai'r cam gweithredu yn darparu enillion o werth uchel i'r gweithlu. Byddai hyn yn cyfrannu at gynyddu gwerth cyffredinol enillion wythnosol ac incwm cartrefi ar gyfer trigolion prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn (ar sail y dybiaeth y byddai holl weithwyr y cam gweithredu bron yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth gyda'r rhan fwyaf o weithwyr y cam gweithredu yn byw ar Ynys Môn).

B.4.314 O ran galwedigaethau gweithwyr y cam gweithredu, caiff y rhain eu cyflwyno yn adran B.3 yr AEIG hwn. Byddai'r cam gweithredu'n darparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth ar draws sawl galwedigaeth. Ystyrir llawer o'r galwedigaethau yn rhai uchel eu gwerth, a fyddai â'r potensial i gyfrannu at gynyddu gwerth cyffredinol enillion wythnosol ac incwm cartrefi trigolion prif ardal yr astudiaeth.

B.4.315 Mae cynyddu enillion ac incwm cartrefi yn un ffactor sy'n cyfrannu at dwf economaidd. Ystyrir bod hyn yn rhan bwysig o gynnal a chryfhau cymunedau bywiog (ac felly'r Gymraeg a'i diwylliant yn y cymunedau hynny).

B.4.316 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a llesiant y Gymraeg [RD9] ac mae wedi ymrwymo i greu'r amgylchedd gorau posibl i gefnogi twf y Gymraeg a datblygu economaidd a fydd o fudd i'w gilydd. Mae'r cyfleoedd gwaith parhaol sy'n cael eu cynnig yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn gyfle mawr ar gyfer tyfu'r Gymraeg ynghyd â'r manteision economaidd. Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi a chryfhau'r Gymraeg a chaiff mesurau i wella'r effaith fanteisiol hon eu cyflwyno isod o dan yr adran 'Mesurau lliniaru a/neu wella' ac yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.317 Felly, ystyrir mai galwedigaethau uchel eu gwerth yw'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir. Byddai'r rhain yn cyfrannu at gynyddu enillion cyffredinol trigolion prif ardal yr astudiaeth yn enwedig Ynys Môn, gan fod disgwyl i 85% o weithlu'r cam gweithredu fod yn byw ar Ynys Môn.

B.4.318 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.3).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.319 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol fach ar lefelau cyflogau yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio cynyddu'r effeithiau manteisiol hyn. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 dan Gwestiwn 3 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar lefelau cyflogau lleol (sef mesurau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, a 15 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant).

Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C12: A yw Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o effeithio ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- atal pobl leol Gymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal/gymuned?

Y Cefndir

B.4.320 Mae sicrhau cymysgedd o stoc dai o ansawdd uchel i ddiwallu amrywiaeth o anghenion gwahanol yn bwysig ar gyfer cynnal cymunedau cymysg a bywiog. Mae amrywiadau yn y galw am dai yn debygol o arwain at naill ai cynnydd neu ostyngiad mewn prisiau tai. Mae hyn yn debygol o effeithio'n anghyfartal ar wahanol adrannau o'r gymuned. Gallai cynnydd yn y galw am dai o ganlyniad i brosiect seilwaith mawr fel Prosiect DCO Wylfa Newydd arwain at gynnydd mewn prisiau tai lleol. Gallai hyn arwain at rai grwpiau o'r boblogaeth yn methu fforddio pris y farchnad. Gallai arwain hefyd at fewnfudo ac allfudo a allai, yn eu tro, gael effaith ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.321 Mae'r dadansoddiad o'r waelodlin yn dangos bod fforddiadwyedd tai wedi bod yn fater tymor hir ar Ynys Môn a'i fod yn dal i fod felly. Mae'n bosibl bod hyn wedi cyfrannu at y patrymau diweddar o bobl yn symud o'r ardal gan fod nifer o bobl ifanc 15-29 oed wedi symud allan o'r ardal yn gyson. Cydnabyddir bod pobl ifanc 18-21 oed hefyd efallai'n symud allan o'r ardal i chwilio am addysg bellach. Ystyrir bod fforddiadwyedd tai yn cael effaith uniongyrchol ar wead cymdeithasol y cymunedau hyn, gan fod gallu pobl leol i fyw yno yn gyfyngedig.

B.4.322 Cydnabyddir nad fforddiadwyedd tai yw'r unig ffactor allweddol sy'n effeithio ar bobl ifanc yn allfudo o'r ardal; mae cyfleoedd i gael gwaith hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor allweddol, ac mae hyn wedi cael ei drafod eisoes fel rhan o gwestiwn 8.

Prisiau tai

B.4.323 Canolrif pris gwerthu tai ar Ynys Môn yn ystod y tri mis hyd at fis Mawrth 2016 oedd £160,000, a oedd yn uwch na Gwynedd (£146,000), Conwy (£149,000) a Sir Ddinbych (£136,000), ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (£145,000).

B.4.324 Mae gwerth tai uchaf ar gyfer tai sengl, ond mae'r gwahaniaeth pris cyfartalog mwyaf yng Ngwynedd lle mae pris tŷ ar gyfartaledd yn £146,000 ac mae'r pris cyfartalog ar gyfer tŷ sengl yn £215,250.

B.4.325 Roedd prisiau tai ar Ynys Môn wedi disgyn rhwng 2009 a 2012 cyn codi 3.4% yn 2013 ac yn 2014 a 3.2% yn 2015. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru lle'r oedd prisiau tai wedi parhau i ddisgyn tan 2013 cyn codi 1.2% yn 2014 a 3.1% yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2015.

Tai fforddiadwy

B.4.326 Yn 2015 roedd canolrif prisiau tai ar Ynys Môn 7.1 gwaith yn fwy na'r canolrif incwm, wrth gymharu â'r gymhareb ddelfrydol o 2.9 ar gyfer incwm unigol a 3.5 ar gyfer incwm deuol. Fodd bynnag, roedd y gymhareb yn uwch yng Ngwynedd sef 8.1 ac yng Nghonwy sef 7.3. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 9.1 ar draws Cymru a Lloegr.

B.4.327 Yn 2012, roedd gwahaniaeth sylweddol yng nghymhareb canolrif prisiau tai a chanolrif incwm cartrefi ar draws Ynys Môn. Ward Llanfair-yn-Neubwll oedd â'r gymhareb isaf, sef 3.5, a Rhosneigr oedd â'r gymhareb uchaf, sef 10.2. Roedd cymhareb uchel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Amlwch Wledig, Llanbadrig a Moelfre sydd yng Ngogledd Ynys Môn, ac yn wardiau Llanddyfnan, Llanbedrgoch a Biwmares sydd yn Ne Ynys Môn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith nad oes trigolion arferol yng nghyfran uchel o'r tai yn y wardiau hyn, sy'n cynnwys ail gartrefi neu gartrefi gwyliau.

B.4.328 Mynegwyd pryderon yn ystod prosiect ar y cyd Swyddogion Cynnwys y Gymuned [RD51] fod prinder tai fforddiadwy a llety rhent ar Ynys Môn. Roedd gallu gweithio a dod o hyd i dŷ mewn ardal yn agos at deulu, ffrindiau, gweithgareddau cymunedol a gwasanaethau yn ganolog i lesiant trigolion. Roedd nifer wedi mynegi pryderon oherwydd y prinder dewisiadau tai sydd ar gael ar gyfer pobl hŷn sydd eisiau cartref llai ac aros yn annibynnol ond sydd yn gyfoethog o ran eu hasedau. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y prinder stoc dai a'r ofn y byddai'r gystadleuaeth am dai yn cynyddu gyda nifer y gweithwyr a oedd yn debyg o setlo'n lleol yn dilyn cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd [RD51].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.329 Mae nifer o ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y farchnad dai leol sy'n effeithio ar argaeledd, ar werth ac ar y galw am dai mewn ardal benodol. Gallai presenoldeb Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd olygu y bydd prisiau tai yn disgyn; fodd bynnag efallai y byddai dymuniad gweithwyr adeiladu i gael llety yn agos at Orsaf Bŵer Wylfa Newydd hefyd yn golygu bod prisiau tai yn codi. Gellir meddwl am gynnydd mewn prisiau tai fel mantais, ond gallai hyn gael effeithiau cymdeithasol niweidiol mewn gwirionedd, wrth i eiddo ddod yn llai fforddiadwy i bobl leol, sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg.

B.4.330 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn asesu'r holl welyau sydd ar gael ym mhrif ardal yr astudiaeth (gan gynnwys dadansoddiad i lefel is-ardal) er mwyn darparu llety i weithwyr na fyddent yn byw gartref a fyddai'n chwilio am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu, ar sail dosbarthiad y gweithwyr na fyddent yn byw gartref yn ôl y model disgyrchiant.

B.4.331 Mae Tabl B-4 yn dangos capasiti y stoc llety gyffredinol a'r galw amdani yn ôl is-ardaloedd ym mhrif ardal yr astudiaeth. Mae 6,212 o welyau ar gael ar gyfer gweithwyr na fyddant yn byw gartref ar draws prif ardal yr astudiaeth yn ogystal â'r 3,750 o welyau carafannau a gwersylla. Amcangyfrifir bod y galw am welyau tua 2,350 a'r galw am welyau carafannau a gwersylla tua 650. Felly, ar lefel prif ardal yr astudiaeth, ni fyddai'r galw am welyau a fyddai'n cael ei greu gan weithwyr dros dro na fyddent yn byw gartref, yn fwy na'r cyflenwad.

Dyma'r galw y mae disgwyl y bydd llety ar eu cyfer o fewn y llety presennol sydd ar gael ym mhrif ardal yr astudiaeth.

Tabl B-4 Cyflenwad a galw yn is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth – cyfanswm stoc llety*

Ardal	Pob llety (heb gynnwys carafannau a gwersylla)		Carafannau a llety gwersylla	
	Capasiti	Galw	Capasiti	Galw
Gogledd Ynys Môn	554	754	575	278
De Ynys Môn	1,524	434	1,136	201
Gorllewin Ynys Môn	1,863	776	524	115
Tir Mawr Menai	2,271	385	1,515	55
Cyfanswm	6,212	2,350	3,750	650

**Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu am i fyny*

B.4.332 Os caiff llai na'r amcangyfrif o 2,000 o weithwyr a fydd yn byw gartref eu cyflogi, byddai hyn yn golygu bod angen llety ar fwy o weithwyr na fyddent yn byw gartref. Gallai hyn olygu bod y galw am weithwyr adeiladu dros dro yn fwy na'r galw o fewn mathau penodol o stoc llety. Fodd bynnag, ac ystyried bod y waelodlin llety ar gyfnod prysuraf y cam adeiladu yn debyg o gynnwys mwy o argaeledd yn unol â'r twf tai a nodwyd yn y CDLlC a fabwysiadwyd, byddai datblygwyr yn disgwyl ac yn ymateb i'r galw a fyddai'n cael ei greu gan Brosiect DCO Wylfa Newydd. Nid yw'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol felly'n disgwyl gweld effaith niweidiol ar fathau penodol o stoc llety.

B.4.333 Mae pryderon wedi cael eu codi'n lleol am y posibilrwydd y bydd gweithwyr adeiladu yn aros ar Ynys Môn neu ym mhrif ardal yr astudiaeth ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, a thrwy hynny'n creu pwysau ychwanegol neu dymor hwy ar stoc llety. Fodd bynnag, gellir nodi i arolwg a gynhaliwyd ar gyfer Datblygiad Niwclear Sizewell B ddangos nad oedd unrhyw un o'r gweithwyr nad oeddynt yn byw gartref wedi aros yn Suffolk a Norfolk ar ôl i'w cyflogaeth yn Sizewell B ddod i ben [RD53]. Mae hyn, yn ogystal â'r galw ehangach disgwyliedig yn y sector niwclear o ganlyniad i'r rhaglen i Adeiladu Gorsafoedd Niwclear Newydd, yn awgrymu ei bod yn annhebyg y bydd galw sylweddol gan weithwyr na fyddant yn byw gartref am lety ar ôl gorffen adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfran gweddol uchel o ail gartrefi ym mhrif ardal yr astudiaeth (o ran y rhai nad ydyn nhw'n breswylwyr gydag ail gyfeiriad yn yr awdurdod lleol, roedd Gwynedd yn bedwerydd ac Ynys Môn yn nawfed ar draws Cymru a Lloegr). Fel y nodir uchod, mae'r amcanestyniadau poblogaeth a'r ffigurau o ran y galw am dai a amlinellir yn y CDLlC a fabwysiadwyd yn cynnwys y twf economaidd a fydd yn cael ei greu yn rhannol gan Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.334 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn rhoi asesiad manwl o'r effeithiau ar y galw am lety yn y sector rhentu preifat, stoc perchen-feddianwyr, stoc gudd a stoc twristiaeth, ac mae'r asesiad o'r effeithiau ar brisiau tai ac felly'r Gymraeg yn seiliedig ar hyn.

Sector rhentu preifat ym mhrif ardal yr astudiaeth

B.4.335 Mae tabl B-5 yn dangos y capasiti a'r galw am welyau yn y sector rhentu preifat yn ôl is-adrannau prif ardal yr astudiaeth.

Tabl B-5 Cyflenwad a galw yn is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth - sector rhentu preifat

Ardal	Capasiti	Galw
Gogledd Ynys Môn	129	239
De Ynys Môn	316	161
Gorllewin Ynys Môn	282	274
Tir Mawr Menai	559	226
Cyfanswm	1,286	900

B.4.336 Amcangyfrifir bod nifer y gwelyau sydd ar gael yn y sector rhentu preifat ychydig o dan 1,300 ar sail sut mae'r farchnad yn gweithredu'n lleol ar hyn o bryd. Roedd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y byddai tua thraean o'r gweithlu na fyddent yn byw gartref a fyddai'n chwilio am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth (tua 900) yn ceisio symud i lety preifat ar rent. Yn seiliedig ar y lefel hon o alw, a'r pryderon y gwyddys amdanynt yn lleol ar hyn o bryd ynghylch argaeledd yn y stoc hon, mae'n bosibl y bydd effeithiau i'w gweld yn lleol ar argaeledd o fewn y stoc hon.

B.4.337 Gall materion posibl hefyd ddigwydd ar lefel is-ardal o fewn prif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i'r galw am lety fod fwyaf yng Ngogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn (513 o welyau) lle nad yw'r capasiti sydd ar gael sef tua 410 o welyau yn ddigon. Mae'r ffaith bod y galw yn fwy na'r capasiti yn y sector hwn yn awgrymu y gallai prisiau llety godi. Byddai hyn yn effeithio'n niweidiol ar y rheini sy'n rhentu ar hyn o bryd neu sy'n ceisio cael llety yn y sector rhentu preifat.

B.4.338 Gallai hyn arwain at roi pwysau ychwanegol ar y stoc dai cymdeithasol yn yr ardal neu fod pobl yn gorfod symud allan o'r ardal er mwyn gallu cael llety rhent preifat addas. Ac ystyried bod Ynys Môn eisoes yn gweld llawer iawn o bobl 15-29 oed yn symud allan o'r ardal a allai fod yn rhannol oherwydd prinder tai a fforddiadwyedd tai, byddai'r effaith niweidiol hon a nodwyd felly yn gwaethygu problem sydd eisoes yn bodoli, a fyddai'n effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg gan y byddai poblogaeth Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth yn cael eu 'prisio allan o'r farchnad'. Gallai hyn olygu bod pobl yn symud allan o'r ardal, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Stoc perchen-feddianwyr ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.339 Mae disgwyl i unedau tai perchen-feddianwyr gael eu meddiannu gan un gweithiwr a'u partner a/neu ddibynyddion. Ar sail lefel y galw wrth gymharu

â'r cyflenwad, mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn dod i'r casgliad ar lefel prif ardal yr astudiaeth na fyddid yn disgwyl unrhyw effaith uniongyrchol ar argaeledd. Mae hyn yn ystyried y targed tai uwch i adlewyrchu twf wedi'i arwain gan gyflogaeth a ddisgwylir ar gyfer Ynys Môn yn y CDLlC a fabwysiadwyd.

B.4.340 Cydnabyddir bod y model disgyrchiant wedi dod o hyd i gyfyngiadau ar lefel is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth yng Ngogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn lle mae'r galw (235 a 166 y naill a'r llall) yn fwy na'r capasiti presennol neu'n agos ato (105 a 172 y naill a'r llall).

B.4.341 Fel y cyflwynir yn y waelodlin, mae fforddiadwyedd tai yn broblem ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Yn 2015 roedd canolrif prisiau tai ar Ynys Môn 7.1 gwaith yn fwy na'r canolrif incwm, wrth gymharu â'r gymhareb ddelfrydol o 2.9 ar gyfer incwm unigol a 3.5 ar gyfer incwm deuol. Mae rhai wardiau yng Ngogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn sydd â chymarebau uchel o ran canolrif pris tai ac incwm. Mae'r rhain yn cynnwys Amlwch Wledig a Llanbadrig yng Ngogledd Ynys Môn a ward Rhosneigr yng Ngorllewin Ynys Môn sydd â'r gymhareb uchaf o ran canolrif pris tai ac incwm ar Ynys Môn sef 10.2 (yn ystod 2012).

B.4.342 Ac ystyried bod wardiau Llanbadrig a Mechell yn debyg o weld y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth a gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref yn symud i'r ardal (ar sail y model disgyrchiant) gan arwain at y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar draws prif ardal yr astudiaeth i gyd, a bod gan y wardiau hynny gymhareb uchel o ran canolrif prisiau tai ac incwm yn barod, byddai disgwyl i'r cynnydd yn y galw am eiddo perchen-feddianwyr yng Ngogledd Ynys Môn effeithio'n niweidiol ar y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn wardiau Llanbadrig a Mechell. Byddai hyn yn effeithio ar allu'r boblogaeth leol, sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg, i allu prynu eu cartref eu hunain.

B.4.343 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn nodi effaith niweidiol fach ar y sector hwn, ar sail yr ystyriaeth bod y cynnydd yn y galw wedi cael ei ystyried yn y CDLlC a fabwysiadwyd a bod y galw hwn wedi cael ei rannu dros nifer o flynyddoedd.

B.4.344 Felly, petai'r galw am lety perchen-feddianwyr yn tyfu yn fwy na'r capasiti, byddai sgil-effeithiau ar yr iaith Gymraeg o ran gallu poblogaeth prif ardal yr astudiaeth (y mae 61% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg) i gael gafael ar lety o'r fath. Gallai gwthio prisiau llety i fyny y tu hwnt i gyrraedd poblogaeth prif ardal yr astudiaeth arwain at bobl yn symud allan o brif ardal yr astudiaeth. Caiff mesurau eu cynnig felly i liniaru'r effaith hon, petai'n digwydd.

Stoc gudd a thwristiaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth

B.4.345 Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chost tai/llety ar gyfer poblogaeth prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg, mae effaith y galw am stoc llety cudd a thwristiaeth yn berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg oherwydd gallai materion sy'n ymwneud â chapasiti mewn stoc o'r fath gael sgil-effeithiau ar fathau eraill o lety fel y sector rhentu preifat a pherchen-feddianwyr.

B.4.346 Byddai llety cudd yn cyfrannu at ddarparu llety ar gyfer gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref ym mhrif ardal yr astudiaeth a byddai'n bennaf yn cynnwys pobl sy'n rhentu ystafelloedd allan yn eu heiddo eu hunain. Disgwylir y gallai'r ffigur hwn gynyddu yn nes at yr amser adeiladu wrth i'r cyfleoedd a gyflwynir gan Brosiect DCO Wylfa Newydd ddod yn fwy amlwg a phendant i gymunedau lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sefyllfa a welwyd yn Hinkley Point C.

B.4.347 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn nodi y gallai'r stoc gudd dros ben yng Ngorllewin Ynys Môn ddarparu llety ar gyfer y gorlif bach o alw o Ogledd Ynys Môn. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, does dim ond modd i weithwyr ddefnyddio'r cyflenwad sy'n cael ei gyflwyno ac fel y nodir uchod, mae disgwyl i'r cyflenwad hwnnw gynyddu dros amser. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn disgwyl na fyddai'r galw yn cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol.

B.4.348 Ar lefel prif ardal yr astudiaeth, nid yw'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn disgwyl i'r galw am lety twristiaeth fod yn fwy na'r cyflenwad a dyma'r achos ar lefel is-ardal prif ardal yr astudiaeth hefyd, gan gynnwys yng Ngogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn lle byddai'r rhan fwyaf o'r galw i'w weld. Nid yw'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn disgwyl unrhyw effeithiau niweidiol yn y stoc twristiaeth.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.349 Felly, ar lefel prif ardal yr astudiaeth, mae faint o lety sydd ar gael yn awgrymu bod digon o gapasiti i gwrdd â'r holl alw am lety gan weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref. Fodd bynnag, mae dadansoddiad manwl yn nodi y gallai'r galw am lety yn y sector rhentu preifat a llety perchen-feddianwyr ar lefel is-ardal fod yn fwy na'r capasiti. Byddai disgwyl i hyn arwain at gynnydd mewn prisiau llety. Nodir bod lefel yr effaith yn un niweidiol ganolig ar gyfer y sector rhentu preifat ac yn niweidiol fach ar gyfer llety perchen-feddianwyr gan fod y CDLlC a fabwysiadwyd wedi cynllunio ar gyfer cynnydd yn y galw drwy dwf tai wedi'i arwain gan gyflogaeth ar Ynys Môn, gan ystyried yr angen am anheddau fforddiadwy.

B.4.350 Gan fod fforddiadwyedd tai yn broblem yn barod ar Ynys Môn, gallai'r cynnydd yn y galw am lety yng Ngogledd a Gorllewin Ynys Môn arwain at godi pris llety eto fyth, gan wneud problem sy'n bodoli'n barod yn waeth, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Petai hyn yn digwydd, byddai hyn yn lleihau faint o lety sydd ar gael i'r boblogaeth leol, yn enwedig pobl ifanc, am bris fforddiadwy. Gallai hyn effeithio'n niweidiol ar hyfywedd cymunedau Cymraeg, gan effeithio ar les y Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol.

B.4.351 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.5).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.352 Amcangyfrifir y gall hyd at 128 aelod o staff y cam gweithredu ddod o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) i ddechrau er mwyn gweithio

ar Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae disgwyl i holl weithwyr y cam gweithredu bron fyw ym mhrif ardal yr astudiaeth ac mae disgwyl i'r mwyafrif (85%) fyw ar Ynys Môn, gan gynnwys y rheini sy'n symud i fyw er mwyn cael gwaith.

B.4.353 Byddai'r cam gweithredu felly yn arwain at yr angen am dai ar gyfer y gweithwyr a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn. Mae tybiaethau economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif mai amcan o'r cymysgedd daliadaeth adeg gweithrediad llawn fyddai 80% perchen-feddianwyr a 20% yn y sector rhentu preifat sy'n gyfystyr â galw am oddeutu 102 o dai perchen-feddianwyr a 26 ar gyfer y sector rhentu preifat. Ac ystyried y byddai 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion ychwanegol yn symud i fyw i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn gyda gweithwyr y cam gweithredu, byddai galw hefyd am dai ar gyfer teuluoedd.

B.4.354 Mae'r galw hwn a ddisgwylir yn gymharol isel wrth gymharu â'r cam adeiladu. Gan fod y galw yn debyg o fod wedi'i rannu dros sawl blwyddyn, gan gyd-fynd â diwedd y cam adeiladu (a rhywfaint o lety a oedd yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr adeiladu yn cael eu rhyddhau), does dim disgwyl y byddai unrhyw broblemau amlwg o ran cwrdd â'r galw am lety sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu. Ar ben hynny, mae'r CDLlC a fabwysiadwyd wedi cynllunio ar gyfer twf tai wedi'i wireddu'n rhannol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.355 Nid yw'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar y galw am dai o ganlyniad i'r cam gweithredu. Wrth ystyried hyn, nid oes disgwyl i'r cam gweithredu arwain at gynnydd yng nghost tai ac felly, nid oes disgwyl unrhyw effaith amlwg ar gost tai a fyddai'n effeithio ar allu poblogaeth prif ardal yr astudiaeth i brynu eu cartref eu hunain neu rentu llety am bris fforddiadwy.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.356 Felly, nid yw'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn nodi unrhyw broblemau amlwg o ran diwallu'r gofynion am lety sy'n gysylltiedig â gweithwyr y cam gweithredu. Byddai'r galw am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn yn weddol fach oherwydd bod disgwyl y byddai 85% o weithwyr y cam gweithredu yn bobl leol. Felly nid oes disgwyl dim sgil-effeithiau o ran prisiau tai a fyddai'n effeithio ar allu poblogaeth prif ardal yr astudiaeth i brynu eu cartref eu hunain neu rentu llety am bris fforddiadwy.

B.4.357 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.358 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol ganolig ar gost tai a llety yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Gweithlu, byddai Horizon yn sefydlu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr Wylfa Newydd. Byddai'r gwasanaeth hwn a'i grŵp goruchwylio (a fyddai'n cynnwys awdurdodau lleol) yn ffordd o fonitro effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y cyflenwad a'r galw am lety a thai o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr

adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cael ei sicrhau drwy rwymedigaeth Adran 106 a drwy'r egwyddorion yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5).

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Y Cefndir

B.4.359 Gallai'r datblygiad ddylanwadu ar nifer y plant fydd yn mynychu ysgolion lleol a sefydliadau a chyfleusterau addysgol gan gynnwys canolfannau trochi iaith. Gallai ysgolion elwa ar y cynnydd mewn poblogaethau iau. Gallai diffyg datblygiad ac, yn ei dro, diffyg newid ym mhroffil oedran presennol cymunedau fygwth cynaliadwyedd ysgolion yn y dyfodol. Fodd bynnag, gallai datblygiad newydd hefyd gynyddu'r pwysau ar leoedd ysgol pe na bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n ddigonol neu na fyddai lleoedd gwag ar gael. Byddai cynnydd yn nifer y plant di-Gymraeg oedran ysgol mewn ardaloedd lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn gallu cynyddu'r pwysau ar ganolfannau trochi iaith hefyd.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.360 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

B.4.361 Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod y nod uchelgeisiol o *"sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni"* [RD25].

Addysg a'r Iaith Gymraeg

B.4.362 Mae'r strategaeth iaith Gymraeg *Cymraeg 2050*: *Miliwn o siaradwyr* [RD9] yn nodi mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Un o'r tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon yw drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cynnwys mesurau i ddatblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth iaith Gymraeg ar gyfer oedolion.

B.4.363 Mae 'Plant a phobl ifanc/y teulu' yn faes blaenoriaeth yn *Strategaeth Iaith Gymraeg* Cyngor Sir Ynys Môn 2016-2021 gyda'r dymuniad y bydd cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol a'r tu allan a chynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gyda'u plant [RD24].

B.4.364 Ym mhrif ardal yr astudiaeth yn 2011, gwelwyd cynnydd yn y grwpiau oedran 3-4 a 5-15 a oedd yn gallu siarad Cymraeg ers 2001. Mae canran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn y grŵp oedran 5-15 o hyd, ac mae'n sylweddol uwch na'r holl grwpiau oedran eraill gydag 84.4% yn siarad Cymraeg.

B.4.365 Yn 2011, roedd 71.9% o'r boblogaeth 3-15 oed a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn amlygu llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg ymysg plant oedran ysgol. I lawer o blant sy'n siarad Cymraeg ac yn dod o gartrefi â rhieni/gofalwyr di-Gymraeg, mae'r ysgol yn darparu'r cyfleoedd cyntaf a'r prif gyfleoedd (ynghyd â chyd-destun cymdeithasol) i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ôl Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 roedd 18% o'r siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ac 11% o'r siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd, ac roedd 4% wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd [RD39]. Mae'r cynnydd ers 2001 mewn plant a gafwyd eu geni y tu allan i Gymru sy'n meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg yn dangos hefyd bod polisi addysg ddwyieithog yr Awdurdod Addysg yn cael effaith gadarnhaol o ran gallu Cymraeg plant sydd wedi cael eu geni y tu allan i Gymru.

B.4.366 Ar lefel Cymru, mae astudiaethau wedi dangos bod plant sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yn dueddol o ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg ddeng mlynedd yn ddiweddarach [RD25].

B.4.367 Mae dilyniant ieithyddol disgyblion drwy addysg gynradd yn uchel ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Mae'n bosibl ystyried bod hyn yn arwydd bod bron i bob un plentyn sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn CA1 yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf hyd at ddiwedd ei amser yn yr ysgol gynradd (diwedd CA2).

B.4.368 Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n astudio eu pynciau drwy'r Gymraeg yn lleihau wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac yn lleihau eto yn ystod eu hamser yn yr ysgol uwchradd. Mae dilyniant ieithyddol o ran addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth genedlaethol ac felly mae disgwyl i hyn wella dros y blynyddoedd nesaf.

B.4.369 Adrannau addysg Ynys Môn a Gwynedd sy'n gyfrifol am gynnal canolfannau i'r rheini sy'n dechrau dysgu Cymraeg yn hwyrach yn eu hoes, a elwir yn ganolfannau trochi iaith. Mae'r canolfannau hyn yn darparu cyrsiau Cymraeg dwys ar gyfer mewnfudwyr ifanc i'w galluogi nhw i ymgartrefu yn y gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd.

B.4.370 Mae prosiectau a mentrau wedi cael eu cynnal ar Ynys Môn yn y gorffennol ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a oedd yn cyflwyno'r Gymraeg a'i diwylliant i bobl a oedd yn symud i ardal lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned. Mae enghreifftiau o brosiectau o'r fath yn cynnwys 'Blas ar Gymru'; prosiect ar y cyd gan Fenter Iaith Môn a Chanolfannau Iaith Ynys Môn; a 'Cynllun Cymhathu' a gefnogwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

B.4.371 Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu gwerthuso ac ystyrir eu bod wedi creu newid sylweddol nid yn unig drwy leihau alltudiaeth/ofn pobl sy'n newydd i'r

ardal, ond hefyd wrth symud ymlaen i wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn 'perthyn' i'r ardal/cymdogaeth, a newid agweddau tuag at y Gymraeg yn sylweddol (y newid anoddaf i'w wneud) [RD54].

B.4.372 Mae Siarter Iaith Gymraeg ar waith ar hyn o bryd ym mhob ysgol gynradd ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, a'i bwriad yw hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant yn gymdeithasol, ac annog a chymell plant i siarad Cymraeg â'i gilydd ac yn y gymuned ehangach er mwyn dod yn unigolion dwyieithog. Cafodd Siarter yr Iaith ei datblygu yn wreiddiol yng Ngwynedd oherwydd bu cydnabyddiaeth bod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn gyfrwng cyfoes a pherthnasol i blant a phobl ifanc mewn bywyd bob dydd er mwyn iddi oroesi [RD25].

B.4.373 Mae'r Siarter Iaith Gymraeg yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, ac mae grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid lleol yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg yn y gymuned.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.374 Byddai mewnfudiad gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd yn ystod y cam adeiladu yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau addysg gan gynnwys ysgolion a chanolfannau trochi. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn ystyried y galw am leoedd ysgol o ganlyniad i deuluoedd yn symud i brif ardal yr astudiaeth gyda gweithwyr na fyddant yn byw gartref ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi fel a ganlyn.

Ysgolion cynradd

B.4.375 Ar draws prif ardal yr astudiaeth drwyddi draw, mae tua 1,657 o leoedd ar gael mewn ysgolion cynradd a hynny mewn 87 ysgol gynradd[33]. Ar y cyfnod prysuraf, amcangyfrifir y byddai gweithwyr yn dod â 285 partner a 220 dibynnydd. Byddai'r dibynyddion hyn yn ychwanegu at y boblogaeth ysgolion cynradd a phetai'r sefyllfa waethaf yn digwydd tybir y byddai'r rhain i gyd yn blant oed cynradd. Mae hyn yn annhebyg o ddigwydd.

B.4.376 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn cyfrifo petai hyn yn wir y byddai'r galw ychwanegol yn golygu y byddai'r niferoedd ar y cofrestri yn cynyddu i 88% o gyfanswm y capasiti o'r sefyllfa bresennol sef 86%; hynny yw cynnydd o 2% yn y galw a fyddai'n gadael capasiti dros ben o 12%.

B.4.377 Er bod capasiti ysgolion cynradd ar draws prif ardal yr astudiaeth yn gyffredinol yn ddigon i ddelio â dibynyddion y gweithwyr hynny na fyddant yn byw gartref, caiff ei gydnabod bod ardaloedd lle gallai'r galw arwain at gyfyngiadau o ran capasiti, fel Gorllewin Ynys Môn. Mae disgwyl y bydd capasiti ysgolion cynradd yn 2021 ar ôl gweithredu rhaglen moderneiddio

[33] Mae'r newidiadau canlynol wedi bod i niferoedd ysgolion: Roedd Ysgol Llanfachraeth, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Cylch y Garn wedi cau ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol gynradd newydd - Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu a agorodd ym mis Medi 2017. Roedd Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Parch Thomas Ellis wedi cau ym mis Awst 2017, ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i Ysgol Cybi, Caergybi a agorodd ym mis Medi 2017.

ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn yn dal i fod yn ddigon i ddelio â'r 220 o ddibynyddion newydd a gyflwynir i'r ardal o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd.

B.4.378 Bydd pob ysgol gynradd ym mhrif ardal yr astudiaeth yn cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. A thybio y byddai'r sefyllfa waethaf yn digwydd a bod yr holl blant oed ysgol sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu yn ddi-Gymraeg, byddai cyflwyno 220 o blant oed ysgol yn newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a phlant di-Gymraeg mewn ffordd niweidiol mewn ysgolion cynradd ar draws prif ardal yr astudiaeth.

B.4.379 Mae canolfannau trochi iaith eisoes yn bodoli ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan ddarparu cyrsiau Cymraeg dwys i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi nhw i ymgartrefu mewn cymdeithas ddwyieithog a chymryd rhan lawn mewn profiadau addysgol dwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn hollbwysig i helpu ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg cyfredol a osodir gan bob awdurdod lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.380 Ar hyn o bryd, mae gan y canolfannau trochi cynradd ar Ynys Môn gapasiti o 32 disgybl bob tymor gyda'i gilydd, felly cyfanswm capasiti blynyddol o 96 o ddisgyblion. Mae'r rhain eisoes yn llawn. Byddai 220 o blant oed ysgol ychwanegol i brif ardal yr astudiaeth yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu yn cynyddu'r galw am leoedd yn sylweddol y tu hwnt i gapasiti yn y canolfannau trochi.

B.4.381 Mae tystiolaeth yn bodoli i gefnogi llwyddiant addysg drochi, gan gynnwys yng Nghymru [RD55]. Mae disgyblion sy'n cael profiad o drochi yn meithrin iaith newydd ac yn llwyddo yn academaidd drwy gyfrwng yr iaith honno.

"Yn yr ysgolion dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg...mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dysgu Cymraeg drwy addysg drochi yn yr ysgol yn hytrach nag yn y cartref. Mae'r ysgolion uwchradd wedyn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn er mwyn i'w hail iaith ddatblygu fel iaith academaidd hefyd. Maent yn llwyddo'n academaidd yn eu pynciau cynnwys drwy gyfrwng eu hail iaith. Ond erbyn hynny mae ganddynt ddwy iaith gyntaf, Cymraeg a Saesneg; dyma yw hyd a lled llwyddiant a gwerth addysg drochi i ni yng Nghymru." [RD55, t.81].

B.4.382 Mae Horizon yn llawn gydnabod rôl a llwyddiant canolfannau trochi ym mhrif ardal yr astudiaeth a byddai'n gweithredu mesurau i gynyddu capasiti yn y canolfannau trochi iaith presennol. Caiff mesurau lliniaru eu cynnig i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn yn y galw a fyddai'n digwydd yn ystod y cam adeiladu.

Ysgolion uwchradd

B.4.383 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn dod i'r casgliad hyd yn oed wrth ystyried y sefyllfa waethaf y byddai'r 220 o ddibynyddion i gyd yn blant oed uwchradd, byddai'r cynnydd posibl mewn galw am leoedd ysgol yn rhoi cyfyngiadau ar gapasiti ysgolion uwchradd ar lefel prif ardal yr astudiaeth neu ar lefel is-ardal.

B.4.384 Fel rhan o'r asesiad o ysgolion cynradd, er na ddisgwylir unrhyw bryderon o ran capasiti ysgolion uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth, byddai cyflwyno 220 o blant oed ysgol i ysgolion uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth yn

newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a'r plant di-Gymraeg yn sylweddol mewn ysgolion uwchradd. Ar sail y model disgyrchiant, mae disgwyl i ysgolion uwchradd Gogledd Ynys Môn a Gorllewin Ynys Môn weld y nifer uchaf o blant oed ysgol. Ac ystyried statws y Gymraeg yn Amlwch, lle mae 61.1% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, lle mae ysgol uwchradd Ysgol Syr Thomas Jones, mae disgwyl i lefel yr effaith ar gydbwysedd ieithyddol disgyblion oed ysgol fod yn fwy nag yn yr ysgolion uwchradd yn Ne Ynys Môn ac ar Dir Mawr Menai.

B.4.385 Er bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaergybi (42.2% neu 4,614 o bobl) yn is o lawer nag yn Amlwch (61.6% neu 2,234 o bobl), ar hyn o bryd mae Caergybi wedi cael ei nodi fel un ardal ar Ynys Môn lle mae gwaith yn mynd rhagddo i normaleiddio defnyddio'r Gymraeg a chynyddu hyder ieithyddol y rheini sy'n deall Cymraeg ond nad ydynt yn ei siarad. Felly, er nad yw'r defnydd o'r Gymraeg efallai mor amlwg yng Nghaergybi, byddai cyflwyno plant oed ysgol di-Gymraeg i Ysgol Uwchradd Caergybi yn rhoi llawer iawn o bwysau ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynyddu statws a'r defnydd o'r iaith yng Nghaergybi.

B.4.386 Mae Horizon yn cydnabod mesurau i liniaru cyflwyno plant di-Gymraeg, yn enwedig i Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Syr Thomas Jones, a fyddai'n angenrheidiol, a chaiff y rhain eu cyflwyno isod o dan y pennawd 'Mesurau lliniaru a/neu wella' ac yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG).

B.4.387 Mae ystafell trochi iaith uwchradd ar gael yn Ysgol Uwchradd Caergybi, sy'n cynnig gwasanaeth tebyg i ganolfannau trochi cynradd, gan ddarparu cwrs Cymraeg dwys i fewnfudwyr. Mae cyrsiau trochi iaith hefyd yn cael eu cynnal yn Ysgol Uwchradd Bodedern dros wyliau'r haf ar gyfer disgyblion a fydd yn mynychu'r ysgol ym mis Medi'r flwyddyn honno. Mae'r cyrsiau trochi iaith hyn eisoes yn llawn, a byddai'r ychwanegiad o 220 o blant oed ysgol yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu yn achosi i'r galw fynd y tu hwnt i'r capasiti.

B.4.388 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dynodi er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer y cynnydd yn y galw am leoedd ysgol ei bod hi'n hanfodol bod Cyngor Sir Ynys Môn yn deall dosbarthiad tebygol y gweithwyr na fyddent yn byw gartref a fyddai'n dod â theuluoedd gyda nhw. Byddai Horizon yn gweithredu mesurau er mwyn cael dealltwriaeth gynnar gan weithwyr na fyddant yn byw gartref y mae disgwyl iddynt ddod â'u teuluoedd gyda nhw, am lle maent yn debygol o fyw yn ystod y cam adeiladu er mwyn caniatáu i'r awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y cynnydd yn y galw. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno uchod o dan y pennawd 'Mesurau lliniaru a/neu wella'.

B.4.389 Mae effaith y cam adeiladu ar ffigurau capasiti ysgolion yn un elfen o'r asesiad, ond mae'r effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion hefyd yn ystyriaeth bwysig.

B.4.390 Yn aml, gall iaith grŵp o ffrindiau bennu pa iaith y mae plant oedran ysgol yn ei defnyddio i gyfathrebu â'i gilydd. Felly, gallai cyflwyno plant ysgol di-Gymraeg i grwpiau o'r fath effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r plant di-Gymraeg mewn plant oedran ysgol, a gallai ddylanwadu ar ba iaith y mae plant yn ei defnyddio i gyfathrebu a chymdeithasu â'i gilydd.

B.4.391 Mae Siarter Iaith Gymraeg ar waith ar hyn o bryd ym mhob ysgol gynradd ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, a'i bwriad yw hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant yn gymdeithasol, ac annog a chymell plant i siarad Cymraeg â'i gilydd ac yn y gymuned ehangach er mwyn dod yn unigolion cwbl ddwyieithog. Hefyd, mae cefnogaeth ar gyfer rhieni ar gael ym mhrif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys prosiectau wedi'u datblygu gan y Mentrau Iaith a chanolfannau Cymraeg lleol, a chyrsiau iaith Gymraeg i deuluoedd yng nghanolfan gogledd Cymru Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Bangor.

B.4.392 Felly, mae mesurau eisoes yn eu lle ym mhrif ardal yr astudiaeth i alluogi ac annog plant oedran ysgol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd. Bydd plant oed ysgol di-Gymraeg a fydd yn symud i brif ardal yr astudiaeth yn elwa o fuddsoddiad Awdurdod Lleol drwy ennill sgiliau Cymraeg a thrwy hynny adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Fodd bynnag, er bod disgwyl i blant ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, cydnabyddir y bydd eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, mae disgwyl i rôl y Siarter Iaith gynyddu defnydd plant o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol mewn cyd-destunau cymdeithasol yn hytrach na bod y Gymraeg ddim ond yn iaith yr ystafell ddosbarth.

B.4.393 Mae Horizon yn cydnabod y mesurau presennol sydd ar waith ac y byddai angen rhagor o gefnogaeth i liniaru cyflwyno plant di-Gymraeg i ysgolion ym mhrif ardal yr astudiaeth drwy gydol y cam adeiladu. Er bod addysg yn chwarae rhan allweddol o ran cynyddu nifer y plant oed ysgol sy'n siarad Cymraeg, byddai hefyd angen cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol y tu allan i ysgolion ac yn y gymuned, gan helpu hyder a defnyddio'r Gymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.394 Felly, byddai disgwyl i gyflwyno gweithlu adeiladu a'u dibynyddion (y mae disgwyl i'r rhan fwyaf ohonynt fod yn ddi-Gymraeg) i ysgolion cyfrwng Cymraeg newid y cydbwysedd o ran siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg. Heb fesurau lliniaru a gwella, gallai hynny gael effaith niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol.

B.4.395 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.7).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.396 Byddai'r boblogaeth ychwanegol a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn o ganlyniad i'r cam gweithredu yn cynnwys 128 o weithwyr y cam gweithredu, 41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion. Mae'n bosibl i gam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd ddenu cyn drigolion lleol o brif ardal yr astudiaeth yn ôl ac felly, byddai disgwyl i gyfran o'r gweithwyr hynny a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth gynnwys cyfran o siaradwyr Cymraeg.

B.4.397 O ran yr effeithiau ar gapasiti, mae'r galw ychwanegol posibl am wasanaethau addysg sy'n codi o ddibynyddion y gweithlu gweithredu yn disgyn yn is o lawer

na'r capasiti sydd ar gael o fewn y system ar hyn o bryd, fel y nodir yn yr asesiad adeiladu. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn nodi'r effeithiau nad ydynt yn cael eu hystyried fel rhai sylweddol o ran y galw am leoedd ysgolion cynradd ac uwchradd.

B.4.398 Mae rôl canolfannau trochi iaith Gymraeg a strategaethau sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion, fel Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg Awdurdodau Addysg Lleol a'r Siarter Iaith, yn cael eu hystyried yn hollbwysig i sicrhau bod plant di-Gymraeg sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn derbyn cefnogaeth i ddysgu'r iaith ynghyd â chefnogaeth ac anogaeth i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol fel rhan o fywyd bob dydd.

B.4.399 Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth trochi iaith cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth yn orlawn ac yn ystod y cam adeiladu, cynigir mesurau lliniaru er mwyn cynyddu capasiti'r canolfannau trochi hyn er mwyn darparu ar gyfer y plant oed ysgol ychwanegol y bydd disgwyl iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu. Byddai nifer y plant oed ysgol a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn yn ystod y cam gweithredu yn llai o lawer nag yn ystod y cam adeiladu ac felly byddai'r mesurau lliniaru sydd wedi cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu yn darparu digon o leoedd er mwyn darparu ar gyfer y plant oed ysgol sy'n gysylltiedig â gweithlu'r cam gweithredu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.400 Nid oes disgwyl i gyfanswm nifer y plant oed ysgol a'u dosbarthiad drwy is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth gael effeithiau amlwg ar statws y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymysg plant oed cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.401 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.402 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r cynnydd yn nifer y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael effaith niweidiol ganolig ar ysgolion lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hynny a nodwyd ar ysgolion lleol. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar ysgolion lleol (sef mesurau 1, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 tabl B-1). Ar ben hynny, mae rhai o'r mesurau eraill a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 dan Gwestiwn 3 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar ysgolion lleol (sef mesurau 14 a 15 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C14: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Y Cefndir

B.4.403 Mae argaeledd ac ansawdd darpariaeth gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig i bobl wrth benderfynu aros mewn ardal neu symud i ardal arall am y tro cyntaf. Mae hyn yn wir am bobl hŷn yn enwedig. Gallai cadw neu sefydlu cyfleusterau gofal iechyd mewn cymuned effeithio ar hyfywedd iaith, yn enwedig pan fo cyfleusterau gofal iechyd wedi dod yn fannau ymgynnull cymdeithasol, sy'n cefnogi rhwydweithiau Cymraeg.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.404 Mae 23 o feddygfeydd ym mhrif ardal yr astudiaeth: 11 ar Ynys Môn a 12 ar Dir Mawr Menai, gyda chyfanswm o 102 o feddygon teulu. Maen nhw'n gwasanaethu 132,945 o gleifion sydd wedi cofrestru, eto wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng Ynys Môn ac ardal Tir Mawr Menai. Mae gan bob meddygfa bedwar meddyg teulu ar gyfartaledd, ac mae gan bob meddyg teulu 1,333 o gleifion ar gyfartaledd, ar draws pob meddygfa.

B.4.405 Ystyrir hyn yn is na meincnod y DU, sef 1,800 o gleifion i bob meddyg teulu, ac yn is na meincnod Cymru, sef tua 1,582 o gleifion i bob meddyg teulu. Fodd bynnag, mae pum meddygfa ym mhrif ardal yr astudiaeth lle mae nifer y cleifion i bob meddyg teulu yn uwch na meincnod Cymru. Mae'r meddygfeydd hyn yn cynnwys Meddygfa Dolwenith ym Mhenygroes; Meddygfa Cambria yng Nghaergybi; Y Ganolfan Iechyd yn Amlwch; Y Ganolfan Iechyd yn Llanfairpwll; a Meddygfa Parc Glas ym Modorgan.

B.4.406 Mae ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd, ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Yn ôl 90% o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru mae darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg [RD25].

B.4.407 Yn *Mwy na Geiriau* [RD56], roedd Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hiaith gyntaf. Mewn arolwg o 400 o bobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, "*dywedodd 41% o'r siaradwyr Cymraeg a gymerodd ran yn y cyfweliad y byddent yn hoffi cael gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg bob tro, a dywedodd cyfran debyg y byddai'n well ganddynt wneud hynny weithiau (38%)*" [RD57]

B.4.408 Hefyd, mae darparu gwasanaethau yn ffordd o greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, sy'n rhan allweddol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac annog pobl i'w defnyddio [RD25].

B.4.409 Mae darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ym maes gofal iechyd yn hollbwysig, gan mai dyma'r meysydd nad oes modd eu darparu'n llawn heb ddarpariaeth ddwyieithog bwrpasol [RD25].

B.4.410 Yn ôl fframwaith strategol Llywodraeth Cymru, *Mwy na Geiriau*, "*Mae'n bwysig fod pobl sy'n gweithio yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cydnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae gallu defnyddio'u hiaith eu hunain yn elfen greiddiol o ofal, nid opsiwn ychwanegol"*. [RD56, t.6].

B.4.411 Un o'r materion a godwyd yn ystod prosiect ar y cyd y Swyddogion Cynnwys y Gymuned oedd straen ar wasanaethau iechyd lleol, yn enwedig meddygon a deintyddion. Nid oedd llawer o bobl yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod ond roedd eraill yn gallu trefnu apwyntiad ar-lein ac ymlaen llaw. Codwyd pryderon hefyd y byddai rhagor o bwysau ar y system apwyntiadau yn golygu ei bod hi hyd yn oed yn anoddach iddynt gael gafael ar eu gwasanaethau iechyd lleol [RD51].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.412 Caiff effaith y galw am gyfleusterau gofal iechyd ym mhrif ardal yr astudiaeth o ganlyniad i'r cam adeiladu ei hasesu'n fanwl yn Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19).

B.4.413 Mae Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn rhagweld y byddai 0.24% o'r gweithlu na fyddent yn byw gartref yn cael eu cyfeirio at y GIG, sy'n cynnwys gofal ysbyty acíwt, ysbytai cymunedol, gwasanaethau meddygon teulu, gwasanaethau presgripsiynau, gwasanaethau deintyddol, iechyd cymunedol a gwasanaethau gofal iechyd meddwl. Mae'r dadansoddiad sydd ym mhennod C6 cyfrol C Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn awgrymu mai'r galw mwyaf a fyddai'n cael ei greu gan y gweithlu na fyddent yn byw gartref fyddai 16 o gleifion bob blwyddyn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu.

B.4.414 Mae Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn nodi bod hwn yn rhagolwg isel iawn ac felly y dylid ei drin yn ofalus. Os ystyrir bod y cyfrifiad yn weddol gywir byddai'n awgrymu, petai'n cael ei liniaru'n briodol, na fyddai'r Prosiect yn effeithio'n niweidiol ar wasanaethau iechyd. Mae'r cyfrifiad yn tanlinellu pwysigrwydd:

- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol cynhwysfawr sy'n tynnu'r pwysau oddi ar yr economi iechyd leol;
- sicrhau bod yr holl weithwyr na fyddant yn byw gartref yn defnyddio llawer iawn ar y gwasanaethau iechyd sydd ar gael ar y safle, hynny yw y rheini sy'n byw yng Nghampws y Safle a'r rheini sy'n byw ar draws Ynys Môn; a
- sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod gweithwyr o Brosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu hadnabod yn ddienw os a phan fyddent yn defnyddio'r GIG (gan ystyried cyfrinachedd cleifion a rhannu data).

B.4.415 Byddai rhai gweithwyr yn symud i'r ardal gyda theulu a dibynyddion. Byddai disgwyl i'r aelodau hyn o'r teulu a'r dibynyddion gofrestru â gwasanaethau GIG lleol. Ni fyddai modd iddynt ddefnyddio'r gofal iechyd a fyddai ar gael ar y safle.

B.4.416 Mae cyllid y GIG yn dilyn y boblogaeth felly byddai Horizon yn trafod unrhyw gyfraniadau gwirfoddol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am unrhyw ddiffyg mewn cyllid ar gyfer partneriaid a fyddai'n symud i'r ardal (280 ar y mwyaf) a dibynyddion (220 ar y mwyaf) yn ogystal ag unrhyw weithwyr na fyddent yn byw gartref sy'n cofrestru â meddyg teulu oddi ar y safle.

B.4.417 Mae tystiolaeth ac ymchwil yn cadarnhau bod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig, gan mai dyma'r meysydd nad oes modd eu darparu'n llawn heb ddarpariaeth ddwyieithog bwrpasol. Caiff ei gydnabod *"dydy nifer o bobl ddim ond yn gallu cyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae gallu defnyddio'u hiaith eu hunain yn elfen greiddiol o ofal, nid opsiwn ychwanegol".* [RD55, t.6].

B.4.418 Ar sail yr asesiad uchod, ni fyddai disgwyl i gam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd effeithio'n niweidiol ar ddarpariaeth cyfleusterau gofal iechyd i boblogaeth prif ardal yr astudiaeth i lefel y byddai'n effeithio ar allu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth i gael gwasanaeth gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg gan ymarferwyr iechyd Cymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.419 Felly, ar sail y cynnydd bach yn y galw am wasanaethau GIG a fyddai'n codi oherwydd y mewnlifiad o weithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd (oherwydd bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu i weithwyr na fyddant yn byw gartref yng Nghampws y Safle a chyfraniad gan Horizon at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n cofrestru â meddyg teulu oddi ar Gampws y Safle), ni fyddai yn disgwyl gweld unrhyw effaith niweidiol ar y gwasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu darparu ar gyfer poblogaeth prif ardal yr astudiaeth (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg).

B.4.420 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.421 Caiff effeithiau'r cam gweithredu ar ddarparu cyfleusterau gofal iechyd eu cwmpasu o'r asesiad sydd yn Adroddiad yr AEIG (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ar sail y ffaith y byddai niferoedd gweithlu'r cam gweithredu, a'u teuluoedd, yn is o lawer nag yn ystod y cam adeiladu, ac y byddent wedi setlo'n barhaol. Byddai disgwyl i weithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd ddefnyddio gwasanaethau presennol y GIG heb gael effaith niweidiol ar gapasiti/ansawdd (byddai cyllid arferol y GIG yn gweithredu). Byddai gwasanaeth iechyd galwedigaethol sy'n briodol i Orsaf Bŵer Niwclear hefyd yn cael ei ddarparu ar y safle drwy gydol y cam gweithredu ar gyfer gweithlu'r cam gweithredu.

B.4.422 O ran y ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer gweithlu'r cyfnodau segur, tybir y byddent yn weithwyr dros dro ac y byddent yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd heb fod yn frys sy'n agos at eu man preswylio arferol. Felly ni fyddai disgwyl iddynt effeithio'n niweidiol ar ddarpariaeth cyfleusterau gofal iechyd ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith niwtral o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.423 Byddai gweithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd wedi setlo'n barhaol a byddent yn defnyddio gwasanaethau presennol y GIG heb gael effaith niweidiol ar gapasiti/ansawdd ac felly, ni fyddai disgwyl dim effaith ar gyfleusterau neu wasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg.

B.4.424 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.425 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at effaith niwtral yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Felly ni chaiff dim mesurau lliniaru na gwella eu cynnig mewn perthynas â darparu cyfleusterau gofal iechyd nac fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG). Gweler Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19) am fesurau lliniaru a/neu wella sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal iechyd i'r gweithwyr adeiladu a gweithredu.

C15: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- fygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, e.e. yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Y Cefndir

B.4.426 Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael a'r dewis ohonynt, yn dylanwadu ar ba mor hyfyw a chynaliadwy yw cymuned. Mae cadw poblogaethau presennol yn y gymuned, neu ddenu pobl sydd â chysylltiadau lleol i ddychwelyd i'r ardal hyd yn oed, yn helpu. Mae cyfleusterau lleol yn aml yn fannau cwrdd neu'n fannau ymgynnull cymdeithasol, sy'n hybu rhyngweithio yn y gymuned ac mewn rhwydweithiau Cymraeg ei hiaith.

B.4.427 Gallai mewnfudo i'r ardal o ganlyniad i brosiect seilwaith mawr arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaethau brys (yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans) a chyfleusterau hamdden.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.428 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarperir yng nghwestiynau 9 ac 14 hefyd yn berthnasol wrth ystyried gwasanaethau lleol fel siopau, banciau, swyddfeydd post a chyfleusterau hamdden o ran gwasanaethau Cymraeg.

B.4.429 Fel y nodir yn flaenorol, mae amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Ystyrir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau bod yr iaith yn goroesi, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

B.4.430 Mae gan nifer o sectorau, gan gynnwys y sector cyhoeddus, rôl bwysig i'w chwarae i gryfhau seilwaith yr iaith Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth o'i gwerth.

B.4.431 Mae *Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn 2016-2022* yn dynodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 "*wedi creu newid sylfaenol tuag at ddarparu dewis iaith ac angen iaith gan symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr.*" [RD24, t.27]. Mae'r safonau iaith a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau yn Gymraeg [RD24, 2016].

B.4.432 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg [RD25].

B.4.433 Yn ystod prosiect ar y cyd y Swyddogion Cynnwys y Gymuned soniwyd am yr ofn o ddisodli'r Gymraeg oherwydd gwasanaethau a gweithgareddau Saesneg fel effaith yn dilyn y cynnydd yn nifer y trigolion o'r tu allan i Ynys Môn yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd [RD51].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.434 Gan ystyried y byddai poblogaeth prif ardal yr astudiaeth yn cynyddu o ganlyniad i adleoli gweithwyr na fyddent yn byw gartref, byddai'r cam adeiladu'n cynyddu'r galw am wasanaethau lleol. Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y galw yn cynnwys cyfleusterau cymunedol fel siopau lleol, swyddfeydd post, banciau a thafarndai. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau ym mhrif ardal yr astudiaeth wedi gweld gwasanaethau lleol o'r fath yn cau yn gyson. Byddai'r cynnydd yn y galw am y rhain yn cyfrannu at gadw'r mathau hyn o wasanaethau ar agor, gan leihau'r cyfleoedd iddynt gau, a thrwy hynny eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Ac ystyried cyfleusterau o'r fath sydd wedi cau'n ddiweddar, ystyrir bod hon yn effaith fanteisiol o ran sicrhau dyfodol tymor byr i ganolig y busnesau hynny'n sy'n dal i fasnachu.

B.4.435 Er y gallai o bosibl fod cynnydd yn y galw am wasanaethau cyfrwng Saesneg o ganlyniad i weithwyr nad ydynt yn rhai lleol, bydd canran dda o'r gwasanaethau sy'n cael eu diogelu yn rhai cyfrwng Cymraeg. Caiff hyn ei ystyried yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i boblogaethau lleol sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gymuned.

B.4.436 Mae disgwyl hefyd i'r mewnfudo i'r ardal o ganlyniad i'r adeiladu arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaethau brys (yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân ac achub) a chyfleusterau hamdden. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried yn fanylach ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1).

B.4.437 O ran y cynnydd yn y galw am gyfleusterau hamdden a defnydd cymunedol, roedd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sydd ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) ar sail y sefyllfa waethaf, yn nodi y gallai'r cynnydd yn y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu arwain at gynnydd mewn ymweliadau o 11% dros y lefelau ymweld presennol ar Ynys Môn. Dylid nodi fodd bynnag y byddai cyfleusterau hamdden yn cael eu darparu yng Nghampws y Safle ar gyfer y gweithwyr a fyddai'n aros yno ac y byddent ar gael i weithwyr sy'n byw mewn llefydd eraill ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.438 Byddid yn ystyried bod y cynnydd yn y galw am gyfleusterau cymunedol o'r fath yn cyfrannu at gadw cyfleusterau o'r fath sy'n rhan hollbwysig o gymunedau gwledig cynaliadwy, fel y rheini ym mhrif ardal yr astudiaeth. Mae *Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned* [RD51] yn nodi mai un o'r anfanteision sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yw eu lleoliad daearyddol sy'n golygu ei bod hi'n anodd iddynt gael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae helpu i gynnal cyfleusterau cymunedol fel cyfleusterau hamdden, tafarndai, siopau ac ati felly yn bwysig er mwyn cynnal cymunedau gwledig Cymraeg fel y rheini ym mhrif ardal yr astudiaeth. Felly, o ran diogelu darpariaeth cyfleusterau o'r fath, caiff hyn ei nodi fel effaith fanteisiol.

B.4.439 Mae cyfleusterau cymunedol fel cyfleusterau hamdden yn cyfrannu at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn agweddau bob dydd bywyd, fel dosbarthiadau ffitrwydd a gweithgareddau chwaraeon lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Ystyrir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau bod yr iaith yn goroesi, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Er y byddai cyflwyno pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i'r gymuned i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol o'r fath yn cael effaith fanteisiol o ran diogelu cyfleusterau o'r fath, mae'n bosibl y gwelir rhai effeithiau niweidiol o ran gwanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae mesurau'n cael eu cynnig i addysgu'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd ynghylch rôl y Gymraeg a'i diwylliant mewn bywyd cymunedol. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno uchod o dan y pennawd 'Mesurau lliniaru a/neu wella'.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.440 Ystyrir bod mwy o alw am gyfleusterau cymunedol o fudd gan fod hynny'n cefnogi cymunedau cynaliadwy, lle gall y Gymraeg ffynnu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i gymunedau effeithio'n niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni.

B.4.441 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir isod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn (gyda sgôr o +0.2).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.442 Byddai'r cam gweithredu yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, o ganlyniad i hyd at 128 o weithwyr y cam gweithredu yn symud i brif ardal yr astudiaeth ynghyd â 41 partner a 31 o ddibynyddion. Byddai 1,000 o staff cyfnod segur hefyd ar Ynys Môn am gyfnodau dros dro.

B.4.443 Yn gyffredinol byddai hyn yn sefydlogi'r galw am wasanaethau lleol sydd ar gael ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys siopau lleol, swyddfeydd post, banciau a thafarndai, yn dilyn cynnydd yn y galw dros y cam adeiladu. Mae cyfleusterau fel y rhain yn fannau ymgynnull cymdeithasol yn y gymuned lle siaredir yr iaith Gymraeg yn ddyddiol.

B.4.444 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau ym mhrif ardal yr astudiaeth wedi gweld gwasanaethau lleol yn cau yn gyson. Byddai sefydlogi'r galw am wasanaethau lleol fel y rhain yn cyfrannu tuag at eu diogelu yn y dyfodol, sy'n cael ei ystyried yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i boblogaethau lleol sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gymuned.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.445 Felly, mae gwasanaethau lleol yn fannau ymgynnull pwysig yn y gymuned lle siaradir yr iaith Gymraeg yn ddyddiol. Mae disgwyl i'r cynnydd cymharol fach yn y boblogaeth yn ystod y cam gweithredu gyfrannu at sefydlogi'r galw am y gwasanaethau hyn yn dilyn y cam adeiladu. Ystyrir y byddai atal gwasanaethau o'r fath rhag cau yn effaith fanteisiol yn nhermau diogelu llesiant yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol i'r dyfodol.

B.4.446 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.447 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai yn ystod y cam adeiladu ac effaith fanteisiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hynny a nodwyd ar wasanaethau lleol. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar wasanaethau lleol (sef mesurau 1, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 tabl B-1). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- fynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Y Cefndir

B.4.448 Gall datblygiad effeithio er gwaeth ar gymuned gan arwain at densiwn neu wrthdaro cymdeithasol. Gall gwrthdaro o'r fath wneud i bobl feddwl nad yw ystyriaethau diwylliannol yn cael sylw, ac fe all hyn yn ei dro lethu ysbryd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'n bosibl y gallai rhai datblygiadau arwain at deimlad o ddicter lleol, a allai gyfrannu ymhellach at densiwn cymdeithasol. Gallai diddordebau diwylliannol gwahanol rhwng grwpiau ieithyddol hefyd arwain at greu carfanau ieithyddol gan effeithio'n niweidiol ar gymhathiad cymdeithasol.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.449 Seilir hunaniaeth Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn aml iawn. Nodwyd yn ystod prosiect ar y cyd y Swyddogion Cynnwys y Gymuned bod synnwyr cryf o le a chymuned ar Ynys Môn a bod integreiddiad newydd-ddyfodiaid i gymunedau yn bwysig; fodd bynnag, dylid blaenoriaethu darparu'r wybodaeth a'r amgylchedd iawn i newydd-ddyfodiaid ddysgu'r iaith, i ysgolion aros yn ddwyieithog a drwy greu synnwyr o awyrgylch sy'n derbyn ac yn croesawu newydd-ddyfodiaid [RD51].

B.4.450 Mae mewnfudwyr di-Gymraeg o Loegr yn symud i gefn gwlad Cymru yn ffynhonnell bosibl o densiwn cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael ei chydnabod yn ardaloedd gwledig Cymru [RD58]. Mae ardaloedd gwledig Cymru, lle caiff yr iaith Gymraeg ei siarad yn helaeth a lle mae diwylliant Cymraeg ar ei gryfaf, yn agored i effeithiau niweidiol o ganlyniad i fewnfudo.

B.4.451 Mae arolwg gan Hartwell *et al*. yn ystyried effeithiau mewnfudwyr ar fywyd bob dydd yn y gymuned, yn seiliedig ar ymatebion gan aelwydydd hirsefydlog ac aelwydydd y newydd-ddyfodiaid [RD59]. Roedd aelwydydd y newydd-ddyfodiaid yn ffafriol tuag at fewnfudwyr, ond roedd rhywfaint o elyniaeth gan yr aelwydydd hirsefydlog.

B.4.452 Er bod tystiolaeth sy'n awgrymu bod tensiynau cymdeithasol yn gallu codi mewn ardaloedd Cymraeg pan fydd pobl ddi-Gymraeg yn symud i ardal, mae rhywfaint o'r dystiolaeth hon yn dyddio yn ôl i 1989 ac mae nifer o newidiadau wedi bod i dirwedd strwythurol, reoleiddiol a statudol y Gymraeg ers 1989, gyda Deddfau Iaith 1993 a 2011 yn helpu i bontio tensiynau cymdeithasol. Ar ben hynny, mae hawliau siaradwyr Cymraeg a disgwyliadau cymunedau wedi cael eu hegluro.

B.4.453 Mae tystiolaeth a gafodd ei chasglu fel rhan o brosiect ar y cyd y Swyddogion Cynnwys y Gymuned [RD51] yn fwy perthnasol ar gyfer ystyried effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar densiynau cymdeithasol a gwrthdaro.

B.4.454 Wrth drafod datblygiadau mawr fel Prosiect DCO Wylfa Newydd, mynegwyd rhai pryderon nad oedd pobl leol yn cael eu trin yn gyfartal â'r gweithlu adeiladu. Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr ofn o ddadleoli (yng nghyd-destun mynediad at swyddi, hyfforddiant, cyflogau uwch, dewisiadau tai ac ati). Soniwyd hefyd am yr ofn o ddisodli'r Gymraeg oherwydd gwasanaethau a gweithgareddau Saesneg yn dilyn y cynnydd yn nifer y trigolion o'r tu allan i Ynys Môn yn ystod y cam adeiladu [RD51].

B.4.455 Mae'r adroddiad yn nodi y byddai angen rheoli'r posibilrwydd o greu synnwyr o 'nhw' a 'ni' yn ofalus ac ystyried y cydbwysedd rhwng y trigolion sy'n teimlo y dylid cynnwys y gweithlu yn y cymunedau a'r gwasanaethau presennol a'r rheini sy'n teimlo y dylid darparu llety i'r gweithlu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gyda'u gwasanaethau annibynnol eu hunain.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.456 Yn ystod y cam adeiladu, mae gan Brosiect DCO Wylfa Newydd duedd i ysgogi tensiwn cymdeithasol mewn cymunedau lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth oherwydd graddfa a nifer y gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu.

B.4.457 Derbynnir y gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd wynebu drwgdeimlad gan ganran o boblogaeth prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys poblogaethau sy'n siarad Cymraeg, yn ystod y cyfnod adeiladu. Gallai'r dicter hwn arwain at densiwn cymdeithasol a gwrthdaro mewn cymunedau a gyda mewnfudwyr i brif ardal yr astudiaeth. Mae'n debygol y bydd hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau arwyddocaol fel y ganran o'r swyddi adeiladu sy'n debygol o gael eu llenwi gan y boblogaeth leol, effaith y cynnydd yn y galw am lety, a chyflwyno canran sylweddol o bobl ddi-Gymraeg i gymunedau lle caiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth ynghyd â diffyg ystyriaeth a pharch posibl tuag at y Gymraeg a'i diwylliant.

B.4.458 Mae canlyniadau'r Arolwg Cymunedol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd (Adroddiad yr AEI cyfrol Q, Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn awgrymu bod synnwyr cryf o gydlyniant cymunedol ar Ynys Môn gydag 81% o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod pobl Ynys Môn yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd, gyda rhywfaint o ansicrwydd. Mae'r arolwg cymunedol hefyd yn awgrymu bod gan Ynys Môn rwydwaith cymdeithasol cryf lle mae'r mwyafrif mawr o bobl yn gweld ffrindiau, teulu a chymdogion yn aml, yn enwedig ymysg y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Gall rhwydweithiau cymdeithasol cryf Ynys Môn gynyddu gwydnwch y boblogaeth i newidiadau i'r gymuned wrth adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys cyflwyno 7,505 o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u partneriaid a'u dibynyddion.

B.4.459 Roedd yr arolwg cymunedol hefyd yn ystyried sut gallai'r cydlyniant cymunedol presennol ar Ynys Môn newid o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd. Mae'r canlyniadau'n awgrymu er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) yn credu y byddai pobl leol

ar Ynys Môn yn cyd-dynnu â'r gweithwyr adeiladu, gan awgrymu ychydig iawn o effaith ar gydlyniant cymunedol, tensiwn cymdeithasol neu wrthdaro; fodd bynnag, roedd 20% o'r ymatebwyr yn ansicr. Mae hyn yn awgrymu pryder posibl ymysg y boblogaeth bresennol ynglŷn â'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref i gymunedau prif ardal yr astudiaeth. Mae mesurau lliniaru'n cael eu cynnig er mwyn lleddfu'r pryderon posibl hynny, a helpu gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i ddod yn rhan o gymunedau prif ardal yr astudiaeth, lle mae'r ffordd Gymreig o fyw, yr iaith Gymraeg, a'r diwylliant Cymraeg yn rhan annatod ohonynt.

B.4.460 Mae'r arolwg cymunedol (Adroddiad yr AEI, cyfrol Q, Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn nodi bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y byddai'n helpu gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i berthyn i gymunedau prif ardal yr astudiaeth petaent yn deall y ffordd leol o fyw. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ymysg y gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd am y ffordd Gymraeg o fyw yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys rôl y Gymraeg a'i diwylliant, er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn integreiddio'n llwyddiannus. Cafodd y farn hon ei mynegi'n amlach gan siaradwyr Cymraeg na'r rheini nad oeddent yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu'r rhan bwysig mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn ei chwarae yn ffordd o fyw cymunedau prif ardal yr astudiaeth. Mae hefyd yn awgrymu oni bai fod gweithwyr nad ydynt yn byw gartref a'u teuluoedd yn gwybod rhywfaint am y Gymraeg, neu'n gallu ei siarad, y gallai eu mewnfudiad i gymunedau prif ardal yr astudiaeth amharu mwy.

B.4.461 Er bod rôl y Gymraeg yn cael ei hystyried yn bwysig ar gyfer integreiddiad cymunedol, nid ystyrir mai dyma'r unig elfen sy'n bwysig ar gyfer integreiddiad gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i gymunedau prif ardal yr astudiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (54%) o'r farn y byddai dysgu siarad Cymraeg yn helpu gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i ddod yn rhan o'r cymunedau; fodd bynnag, roedd bron i un rhan o dair (31%) o'r ymatebwyr yn anghytuno.

B.4.462 Mae Horizon wedi gweithredu Polisi Iaith Gymraeg [RD32] sy'n amlinellu'n glir yr ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae Horizon wedi mabwysiadu Addewid Iaith Gymraeg ac wedi datblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) sy'n dangos ymrwymiad Horizon i'r bobl leol o ran cydnabod, parchu a chefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol a diwylliant.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.463 Er y gallai rhwydweithiau cymdeithasol cryf ar Ynys Môn olygu bod y boblogaeth yn fwy gwydn i newidiadau yn y gymuned yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae rhywfaint o ansicrwydd ymysg y boblogaeth sy'n awgrymu pryder posibl ymysg y boblogaeth bresennol am fewnlifiad gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref i gymuned prif ardal yr astudiaeth.

B.4.464 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.465 Byddai disgwyl i'r rhan fwyaf (85%) o weithwyr y cam gweithredu fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a byddai disgwyl i holl weithwyr y cam gweithredu bron (a'u teuluoedd) fyw ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rheini sy'n adleoli ar gyfer eu gwaith. Ac ystyried natur leol canran uchel o weithwyr y cam gweithredu, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cam gweithredu yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau presennol prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn.

B.4.466 Mae *Adroddiad y Swyddogion Cynnwys y Gymuned* [RD51] yn nodi bod y rhan fwyaf o ymatebion yn nodi bod prosiectau mawr yn y gorffennol wedi dod â chyfleoedd gwaith o ansawdd uchel gyda nhw, a oedd yn cynnig cyflog da. Mae'r gwaith yn cydnabod y byddai hyn yn cyfrannu nid yn unig at ddyfodol economaidd cynaliadwy i drigolion Ynys Môn ond hefyd at wytnwch cymdeithasol. Mae'r manteision tymor hir ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr a fydd yn byw gartref yn ystod y cam gweithredu'n awgrymu na fyddai tensiwn cymdeithasol na gwrthdaro yn fater a fyddai'n achosi pryder.

B.4.467 Caiff ei gydnabod y byddai rhai gweithwyr o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn adleoli i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn i gael gwaith yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd ac y byddai'r gweithwyr hyn a'u teuluoedd yn adleoli'n barhaol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm nifer gweithwyr y cam gweithredu (15% neu 128 o weithwyr, 40 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion) ac nid ystyrir y byddai adleoliad y gweithwyr hyn a'u teuluoedd yn cyfrannu at densiynau cymdeithasol neu raniadau yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn.

B.4.468 Mae Horizon yn cydnabod rhan annatod y Gymraeg a'i diwylliant fel rhan o fywyd bob dydd ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn ac fel y nodwyd yn flaenorol, mae Horizon wedi gweithredu Polisi Iaith Gymraeg, sy'n nodi eu hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn ystyried iaith weithredol Gorsafoedd Pŵer Niwclear yn y DU (Saesneg am resymau diogelwch); fodd bynnag, mae gan y Gymraeg ran hanfodol i'w chwarae'n gorfforaethol yn Horizon. Ar hyn o bryd mae Horizon wrthi'n datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg Gorfforaethol a Chynllun Gweithredu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.469 Felly, ac ystyried y byddai disgwyl i'r rhan fwyaf (85%) o weithwyr y cam gweithredu fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, lle mae canran uchel o'r boblogaeth bresennol yn siarad Cymraeg.

B.4.470 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

B.4.471 Caiff mesurau eu cynnig gan fod Horizon yn dymuno sicrhau y byddai'r holl weithwyr gweithredu a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg a'i diwylliant sy'n rhan hanfodol o fywyd bob dydd ar Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth.

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.472 Mae'r asesiad yn nodi y bydd y prosiect yn cael effaith niweidiol fach iawn ar densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yn y gymuned Gymraeg yn ystod y cam adeiladu ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hynny a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; a gwasanaethau cymunedol a lleol. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar wrthdaro a thensiynau cymdeithasol (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23 tabl B-1). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C17: A yw Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal; neu
- arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg?
- arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Y Cefndir

B.4.473 Gallai'r datblygiad arwain at dynnu siaradwyr Cymraeg o gymuned a/neu gyflwyno pobl ddi-Gymraeg i gymuned sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, o ganlyniad i fwy o gyfleoedd swyddi. Gallai hyn arwain at dorri cysylltiadau teuluol, gwanhau neu chwalu rhwydweithiau cymdeithasol a cholli cydlyniant cymunedol. Yn aml, cysylltiadau teuluol. rhwydweithiau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol sy'n sail i ddiwylliant a thraddodiad.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.474 Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn datgan: *"Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'n helpu i'n diffinio ni fel cenedl – yn ein cymunedau, yn ein perthnasau â ffrindiau a theulu yn ogystal â fel unigolion. Ynghyd â sawl iaith arall, mae'n ffurfio rhan o'r amrywiaeth cyfoethog sy'n llunio tirwedd gymdeithasol y wlad hon, y DU ac Ewrop."*

B.4.475 Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026* hefyd yn cydnabod bod y Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion ac ymwelwyr Ynys Môn a Gwynedd [RD15].

B.4.476 Mae rhannau o astudiaethau a thystiolaeth amrywiol yn nodi pryderon ynglŷn ag effaith negyddol y mewnfudo i Gymru wledig ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae arolwg a wnaed fel rhan o'r ymchwil i effeithiau cymdeithasol a diwylliannol y newid mewn poblogaeth ar Gymru wledig [RD59] yn nodi effeithiau negyddol y mewnfudo ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant gan aelwydydd hirsefydlog. Mae'r effeithiau yn cynnwys gwrthdaro rhwng diwylliannau, colli'r synnwyr o hunaniaeth, colli'r iaith Gymraeg, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymraeg a diffyg parodrwydd i ddysgu'r iaith Gymraeg.

B.4.477 O ran integreiddio newydd-ddyfodiaid i gymunedau Ynys Môn, mae gweithgareddau ac adnoddau wedi'u sefydlu yn y rhwydweithiau Cymraeg lleol i addysgu'r mewnfudwyr a chodi eu hymwybyddiaeth o gefndir ieithyddol a diwylliannol yr ardal.

B.4.478 Mae prosiectau o'r gorffennol fel y 'Cynllun Cymhathu' a 'Blas ar Gymru' wedi helpu newydd-ddyfodiaid i ddysgu mwy am yr ardal, cael gwybodaeth am ddysgu Cymraeg a sut i helpu eu plant wrth iddynt gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg [RD54]. Mae adolygiad o'r prosiectau hyn yn atodiad A7-1 yr adroddiad hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.479 Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'n bosibl felly y byddai'r effeithiau a achosir gan gam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg hefyd yn effeithio ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg.

B.4.480 Mae cysylltiad annatod felly rhwng yr effaith ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg ac effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar dai, cyflogaeth, ysgolion a chydlyniant cymdeithasol. Trafodir effeithiau posibl pob pwnc fel rhan o gwestiynau 12, 9, 13 ac 16 yn y drefn honno. Byddai'r effeithiau a nodwyd fel rhan o'r asesiadau hynny yn berthnasol i'r effeithiau tebygol ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg hefyd.

B.4.481 Ystyrir mai mewnfudiad gweithwyr sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu yw'r prif ffactor a fyddai'n dylanwadu ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg. Dim ond am gyfnod dros dro y byddai'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth, er y derbynnir y byddai'r cam adeiladu yn ymestyn am hyd at naw mlynedd.

B.4.482 Mae gan y mewnlifiad o tua 7,500 o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd, y tybir y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn ddi-Gymraeg, botensial i wanhau diwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg sy'n bodoli eisoes ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai cydberthynas rhwng maint yr effaith a dosbarthiad y gweithwyr na fyddent yn byw gartref drwy brif ardal yr astudiaeth, ar lefel is-ardal ac ar lefel ward, (sy'n rhoi arwydd o ddosbarthiad y gweithwyr ar sail y

model disgyrchiant). Mae hyn wedi cael ei asesu'n fanwl yng nghwestiynau 1 a 2.

B.4.483 Mae disgwyl i'r ardaloedd ym mhrif ardal yr astudiaeth y mae disgwyl iddynt weld y cynnydd uchaf mewn poblogaeth a gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg fod yn ardaloedd daearyddol lle byddai traddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn cael eu gwanhau fwyaf.

B.4.484 Mae tensiwn cymdeithasol a gwrthdaro yn cael effaith uniongyrchol ar gydlyniad cymunedol a chymdeithasol. Gallai colli cydlyniant cymdeithasol a chymunedol arwain at wanhau diwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg yn y cymunedau hynny a chaiff hyn ei asesu'n fanylach yng nghwestiwn 16 yn ogystal â'r Adroddiad Cydlyniant Cymunedol (atodiad C1-3, Cyfeirnod y Cais: 6.3.10) y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 16 yn nodi effaith niweidiol fach iawn o ran tensiynau cymdeithasol, ynghyd â mesurau lliniaru i fynd i'r afael â helpu gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i ymgartrefu ym mhrif ardal yr astudiaeth.

B.4.485 Byddai lefel yr effaith, i raddau, hefyd yn dibynnu ar agweddau'r gweithwyr na fyddent yn byw gartref tuag at yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau a hefyd agwedd trigolion lleol Cymraeg prif ardal yr astudiaeth tuag at y gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u parodrwydd i'w hannog a'u cynorthwyo i integreiddio'n ddiwylliannol ac ieithyddol. Ystyrir bod angen mesurau lliniaru effeithiol felly i leihau maint yr effaith ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg.

B.4.486 Cydnabyddir bod traddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn aml yn seiliedig ar rwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol, fel cysylltiadau teuluol. Mae'r asesiad yng nghwestiwn 16 yn awgrymu bod gan Ynys Môn rwydwaith cymdeithasol cryf lle mae'r mwyafrif mawr o bobl yn gweld ffrindiau, teulu a chymdogion yn aml, yn enwedig ymysg y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Gall rhwydweithiau cymdeithasol cryf Ynys Môn gynyddu gwytnwch y boblogaeth i wanhau posibl ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg a allai ddigwydd oherwydd bod tua 7,5000 o weithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd yn symud i'r ardal.

B.4.487 Mae diwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg hefyd yn cael eu cefnogi'n gryf gan grwpiau ieuenctid a gweithgaredd, sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, Yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a Theatr Ieuenctid Môn (prosiect sy'n cael ei redeg gan Menter Môn) i enwi dim ond rhai. Mae grwpiau o'r fath yn gyfleoedd i boblogaeth prif ardal yr astudiaeth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fel eisteddfod. Gallai effeithiau ar grwpiau o'r fath (a asesir o dan gwestiwn 18) hefyd gael sgil-effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

B.4.488 Heb fesurau lliniaru, byddai disgwyl i'r cam adeiladu effeithio'n niweidiol ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg a byddai lefel yr effaith yn amrywio mewn lleoliadau daearyddol gwahanol. Yn unol â chwestiwn 1 a chwestiwn 2, byddai graddfa'r mewnfudo i gymunedau ardaloedd penodol fel wardiau Llanbadrig a Mechell, yn arwain at wanhau mwy ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.489 Felly, mae posibilrwydd y byddai nifer y gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd y disgwylid iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu, yn gwanhau'r diwylliant a'r traddodiadau Cymraeg sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned. Byddai'r effaith fwyaf i'w gweld yn y cymunedau sy'n gweld mwy o fewnfudo gan weithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd.

B.4.490 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.6).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.491 Byddai disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr y cam gweithredu (85%) fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ac felly ni fyddai disgwyl i gam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd di-Gymraeg (fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yng nghwestiwn 2).

B.4.492 Byddai disgwyl i nifer fach o weithwyr (128) a'u teuluoedd (41 o bartneriaid a 31 o ddibynyddion) adleoli i brif ardal yr astudiaeth ar gyfer eu gwaith yn ystod y cam gweithredu. Byddai disgwyl i rai o'r rhain gynnwys cyn drigolion prif ardal yr astudiaethau sydd efallai wedi gadael yn y gorffennol ond a allai ddychwelyd a byddai disgwyl i'r rhain gynnwys teuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, at ddibenion asesu, ac er mwyn sicrhau mai'r sefyllfa waethaf bosibl sy'n cael ei hasesu, tybiwyd bod holl weithwyr y cam gweithredu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd, yn ddi-Gymraeg. Oherwydd y byddai disgwyl i adleoliad y gweithwyr hyn a'u teuluoedd i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn ddigwydd yn raddol dros nifer o flynyddoedd, ni fyddai disgwyl i'w hadleoliad i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn gael effaith amlwg ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg sy'n unigryw i Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth.

B.4.493 Byddai gweithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd yn byw mewn llety yn y cymunedau ar wasgar o amgylch Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth. Byddent o'r herwydd yn fwy o ran o'r gymuned ac yn dod yn gyfarwydd â'r traddodiadau a'r diwylliant Cymraeg, sy'n elfen annatod o fywyd cymunedol. Fodd bynnag, byddai integreiddiad gweithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n dod i gymunedau Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth ac felly eu cefnogaeth at draddodiadau a diwylliant Cymraeg yn dibynnu ar eu hagweddau a'u parodrwydd i ddysgu Cymraeg. Byddai hefyd yn dibynnu ar barodrwydd y boblogaeth leol i gynorthwyo a chefnogi gweithwyr sy'n mewnfudo a'u teuluoedd i ddod yn rhan o'r traddodiadau a'r diwylliant Cymraeg lleol.

B.4.494 Byddai'n hanfodol i weithwyr gael eu cyflwyno'n llwyddiannus i iaith a diwylliant Cymraeg prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn a chael eu hysbysu am bwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg cyn iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth. Disgwylid i fentrau ymwybyddiaeth ddiwylliannol gynyddu gwybodaeth ymysg y gweithwyr o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth am y traddodiadau a'r diwylliant Cymraeg unigryw sydd yn y cymunedau lleol. Caiff mesurau felly eu cynnig er mwyn helpu gweithwyr a'u teuluoedd sy'n symud i

Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth i ddod yn rhan o'r gymuned, gan godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i thraddodiadau a'i diwylliant unigryw.

B.4.495 Fel y nodir yng nghwestiwn 2, mae twf poblogaeth yn bwysig i hyfywedd cymunedau ac er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau, a fyddai maes o law yn cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant. Byddai disgwyl felly i'r cyfleoedd gwaith a gynigir yn ystod y cam gweithredu gael effaith fanteisiol ar y Gymraeg, ac mae'n rhaid cydbwyso hyn yn erbyn y lefel fach o fewnfudo a ddisgwylir a allai wanhau traddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.496 Mae'r effeithiau ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg yn gysylltiedig â newid yn y boblogaeth o ganlyniad i fewnfudo (gweler cwestiwn 2), allfudo (gweler cwestiwn 3) a newid i'r strwythur oed (gweler cwestiwn 4). Byddai'r mewnfudiad o weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd (200 o bobl) yn ystod y cam gweithredu, gan dybio bod pob un ohonynt yn ddi-Gymraeg, yn cael effaith niweidiol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg (drwy ostwng pwynt canran y siaradwyr Cymraeg - gweler cwestiwn 2). Fodd bynnag, byddai twf o 0.1% yn y boblogaeth yn cyfrannu tuag at gynnal a chryfhau cymunedau (ac felly, cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol). Nodir effaith fanteisiol hefyd o ran cynyddu'r boblogaeth oed gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth a gwrthdroi allfudo o ganlyniad i gynnig swyddi parhaol. Wrth ystyried yr effeithiau hyn, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

B.4.497 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.498 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol ganolig ar draddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg, lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi mesurau arfaethedig a fyddai'n ceisio gwella unrhyw effeithiau manteisiol a mesurau lliniaru a fyddai'n ceisio mynd i'r afael ag effaith gweithwyr Wylfa Newydd a'u teuluoedd yn symud i'r ardal. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar draddodiadau a diwylliant (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

C18: Ydy Prosiect DCO Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/ gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;

- cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Y Cefndir

B.4.499 Mae grwpiau ieuenctid a grwpiau gwirfoddol lleol yn dylanwadu ar gynnal a hybu'r Gymraeg drwy weithgareddau a chymorth i'r preswylwyr. Mae gan allfudiad siaradwyr Cymraeg lleol a/neu'r mewnlifiad o fewnfudwyr di-Gymraeg i ardal botensial i niweidio'r cydbwysedd cymdeithasol a chyfranogiad lleol mewn grwpiau gwirfoddol/ieuenctid/gweithgaredd dros amser.

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

B.4.500 Mae tystiolaeth yn dangos bod cydberthynas gref rhwng hyfywedd a goroesiad iaith ac ardaloedd daearyddol lle mai'r iaith honno yw'r brif iaith. Cydnabyddir bod angen dwysedd uchel o siaradwyr er mwyn i'r iaith Gymraeg fod yn iaith bob dydd mewn cymuned [RD9].

B.4.501 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol a chymunedol mewn ardal leol yn cyfrannu at werth iaith ac yn creu teimlad o berthyn i gymuned neu ardal [RD25].

B.4.502 Ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae darpariaeth helaeth o gyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau sy'n gallu helpu i gynnal a hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol Cymreig ynghyd â hyrwyddo'r profiad o fod yn rhan o gymuned Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond ddim wedi'u cyfyngu i) Yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cylchoedd Meithrin, Theatr Ieuenctid Môn, y Gwasanaeth Ieuenctid Statudol, Allenni a Chylchoedd Ti a Fi.

B.4.503 Mae'r mudiadau a'r gweithgareddau hyn yn chwarae rhan hollbwysig drwy gefnogi'r iaith mewn nifer o gymunedau ar draws prif ardal yr astudiaeth a'r tu hwnt. Maent yn gyfrifol am ddatblygu arweinwyr lleol a chefnogi gwirfoddolwyr yn y gymuned leol. Maen nhw hefyd yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol hollbwysig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae manylion llawn y cyfleoedd cymdeithasol iaith Gymraeg yn atodiad A7-1 yr adroddiad hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

B.4.504 Mae'r crynodeb sylfaenol yn nodi grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid gweithredol ym mhrif ardal yr astudiaeth, sy'n hybu rhwydweithiau creadigol a diwylliannol Cymreig yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae amrywiaeth eang o boblogaeth leol prif ardal yr astudiaeth yn weithredol mewn grwpiau fel y rhain, gan gynnwys plant, pobl ifanc, poblogaethau oed gweithio a chenedlaethau hŷn. O ran eu gallu ieithyddol, mae'r bobl sy'n weithredol mewn grwpiau fel y rhain yn cynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr.

B.4.505 Mae rôl grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid yn y gymuned yn nodedig, gan ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd, yn enwedig i bobl ifanc gymdeithasu ac ennill ystod eang o brofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, y tu allan i'r ysgol.

B.4.506 Nodwyd eisoes y byddai'r cam adeiladu'n darparu cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth leol yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg). Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth hyn a gynigir yn cyfrannu tuag at gadw'r boblogaeth leol (gan gynnwys unigolion sy'n siarad Cymraeg). Byddai hyn yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y bobl hynny sy'n weithgar mewn grwpiau gwirfoddol yn gallu parhau i chwarae rhan ynddynt, gan ddiogelu dyfodol grwpiau o'r fath.

B.4.507 Hefyd, cydnabyddir y byddai disgwyl i'r cam adeiladu gynyddu prisiau tai mewn rhai sectorau a lleoliadau o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw gan weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a fydd yn chwilio am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu.

B.4.508 Mae'n debygol y bydd cyfran o'r 3,500 o weithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth, yn mynychu grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid lleol er mwyn ceisio dod yn rhan o'r gymuned leol, yn enwedig y gweithwyr hynny fydd yn symud gan ddod â'u teuluoedd gyda hwy.

B.4.509 Er y gall hyn eu cynorthwyo i ddod yn rhan o fywyd y gymdeithas, mae cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau o'r fath â photensial i effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg o fewn grwpiau ar y dechrau, gan y gallai arwain at grwpiau'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, er mwyn cynnwys y bobl ddi-Gymraeg. Mae eisoes wedi cael ei gydnabod bod gallu ieithyddol grŵp o ffrindiau'n dylanwadu ar y defnydd o iaith. Felly, byddai cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o newid y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y grwpiau hynny. Gallai rhaniad ieithyddol ddigwydd hefyd os bydd gweithwyr nad ydynt yn byw gartref yn sefydlu eu grwpiau gwirfoddol neu grwpiau diddordeb eu hunain. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig grwpiau cyfrwng Cymraeg.

B.4.510 Mae Horizon yn cydnabod y byddai angen cyflwyno ac addysgu'r gweithlu adeiladu a'u teuluoedd a fyddai'n dod i'r ardal am rôl a phwysigrwydd y Gymraeg mewn grwpiau gwirfoddol, gweithgaredd ac ieuenctid lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth ac mae mesurau o'r fath wedi cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG). Byddai mynychu grwpiau fel hyn yn darparu cyfleoedd i'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd ddysgu a gwella'u gwybodaeth am y diwylliant, y traddodiad a'r iaith Gymraeg. Hefyd, byddai'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

B.4.511 Felly, mae'r cam adeiladu yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth leol a fyddai'n cyfrannu at gadw pobl ifanc rhag gadael prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n weithgar mewn grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd. Credir bod cadw pobl ifanc leol, gyda chanran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg, o fudd i grwpiau ieuenctid, gwirfoddol a gweithgaredd lleol, gan fod hynny'n diogelu dyfodol grwpiau o'r fath. Fodd bynnag, byddai disgwyl i gyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg

a'u teuluoedd i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol cyfrwng Cymraeg wanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y grwpiau hynny.

B.4.512 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

B.4.513 Byddai'r cam gweithredu'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth mawr i'r boblogaeth leol (gyda chanran uchel ohonynt yn siaradwyr Cymraeg), a disgwylir i 85% o weithwyr y cam gweithredu fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai'r cynnig cynyddol o gyflogaeth barhaol o ansawdd uchel yn lleol yn cyfrannu at gadw pobl leol, lleihau a hyd yn oed gwyrdroi patrwm y gorffennol o symud allan o'r ardal (fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yng nghwestiwn 3), gan sicrhau bod y bobl hynny sy'n weithredol mewn grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid yn gallu parhau i gymryd rhan weithredol, gan ddiogelu dyfodol grwpiau o'r fath. Byddai hyn yn cyfrannu at sicrhau bod grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol o'r fath yn ffynnu a'u bod yn dal yn hyfyw yn y tymor hir.

B.4.514 Mae'n debygol y byddai cyfran o weithwyr y cam gweithredu nad ydynt yn rhai lleol a'u teuluoedd (200 o bobl) a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol, yn mynychu grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid lleol er mwyn ceisio dod yn rhan o'r gymuned leol, yn enwedig y gweithwyr hynny fydd yn symud gan ddod â'u teuluoedd gyda hwy.

B.4.515 Er y gall ymuno â grwpiau o'r fath helpu mewnfudwyr a'u teuluoedd i ddod yn rhan o fywyd y gymdeithas, mae cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau o'r fath â photensial i effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg o fewn grwpiau ar y dechrau, gan y gallai arwain at grwpiau'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, er mwyn cynnwys y bobl ddi-Gymraeg. Fodd bynnag, ac ystyried y byddai disgwyl i adleoliad gweithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd ddigwydd yn raddol dros nifer o flynyddoedd ac o ystyried cyfanswm nifer y gweithwyr a'u teuluoedd a fydd yn adleoli i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn, mae disgwyl mai bach iawn fydd yr effaith hon.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

B.4.516 Felly, byddai'r cyfleoedd am gyflogaeth barhaol ar gynnig yn ystod y cam gweithredu yn cyfrannu tuag at gadw pobl leol (gan gynnwys pobl ifanc), gan gyfrannu tuag at sicrhau bod y bobl hynny sy'n weithgar mewn grwpiau gwirfoddol yn gallu parhau i chwarae rhan ynddynt, gan ddiogelu dyfodol grwpiau o'r fath, gan olygu effaith fanteisiol. Byddai mynychu grwpiau fel hyn yn darparu cyfleoedd i weithwyr y cam gweithredu nad ydynt yn rhai lleol a'u teuluoedd ddysgu a gwella'u gwybodaeth am y diwylliant, y traddodiadau a'r iaith Gymraeg. Byddai hyn yn fanteisiol i helpu mewnfudwyr i ddod yn rhan o fywyd cymunedol. Er y gallai hyn effeithio i ddechrau ar weithrediad ieithyddol y grwpiau hyn (er mwyn cynnwys y bobl ddi-Gymraeg) wrth ystyried natur raddol a nifer y gweithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli, mae disgwyl i'r effaith hon fod yn fach iawn.

B.4.517 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-11 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

B.4.518 Mae'r asesiad yn nodi y byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol fach iawn ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd (atodiad B4-1 yr AEIG) yn nodi mesurau arfaethedig sy'n ceisio gwella unrhyw effeithiau manteisiol a mesurau lliniaru a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol. Caiff mesurau lliniaru a gwella perthnasol eu hamlinellu isod. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler tabl B-1 dan gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar grwpiau ieuenctid/gweithgaredd gwirfoddol (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23). Mae holl fesurau'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hefyd.

B.5 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu

B.5.1 Mae'r asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu yn seiliedig ar y tybiaethau a'r wybodaeth sydd yn adran B.3 yr AEIG hwn. Oherwydd y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y datgomisiynu, mae'r asesiad yn cael ei gyflwyno yn erbyn pum prif agwedd o fywyd cymunedol, gan ystyried y materion a gafodd eu hasesu fel rhan o 18 cwestiwn y rhestr wirio, heb osod yr asesiad allan yn erbyn 18 cwestiwn y rhestr wirio. Nid ystyrir bod faint o fanylion sydd ar gael am ddatgomisiynu yn ddigon er mwyn asesu effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn erbyn y 18 cwestiwn yn y rhestr wirio. Disgwylir y byddai'r effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu hadolygu ac y byddai AEIG yn cael ei baratoi petai angen, cyn cychwyn ar y gwaith datgomisiynu.

Nodweddion y boblogaeth

Lefelau poblogaeth, mewnfudo, allfudo, nodweddion y boblogaeth

B.5.2 Yn y pen draw byddai datgomisiynu'n arwain at golli'r rhan fwyaf o'r 850 o swyddi uniongyrchol a fydd wedi cael eu cynnal yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd a cholli rhagor o swyddi anuniongyrchol o lefydd eraill yn yr economi leol. Fel y nodwyd dan effeithiau'r cam gweithredu, byddai bron pob un o'r swyddi hyn yn ystod y cam gweithredu yn cael eu rhoi i bobl sy'n byw ar Ynys Môn. Fodd bynnag, o ran yr Orsaf Bŵer Bresennol, mae'n debygol y bydd datgomisiynu yn gyflogwr arwyddocaol ynddo'i hun.

B.5.3 Disgwylir i'r swyddi uniongyrchol hyn gael eu colli o ganlyniad i ddatgomisiynu'r Orsaf Bŵer, a byddai disgwyl i hyn olygu bod gweithwyr yn symud o Ynys Môn. Byddai'r rhan fwyaf o'r bobl hyn a fyddai'n symud i ffwrdd mewn oedran gwaith, ond hefyd yn cynnwys unrhyw ddibynyddion. Mae gan hyn y potensial i newid strwythur oedran yr ardal leol.

B.5.4 Fodd bynnag, gan fod modd ystyried datgomisiynu yn gyflogwr ynddo'i hun, gallai hyn arwain at weithwyr yn mewnfudo (yn ddibynnol ar a fyddai'r gweithwyr yn byw gartref neu ddim yn byw gartref).

B.5.5 Mae'r potensial am allfudo o ganlyniad i golli swyddi a mewnfudo o ganlyniad i greu swyddi yn debygol o gydbwyso'r naill a'r llall; fodd bynnag nid yw'r niferoedd yn hysbys eto. Nid yw niferoedd na chanran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth mewn 60 mlynedd yn hysbys chwaith.

B.5.6 Gan nad yw maint y gweithlu a nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth yn hysbys, mae'n anodd asesu'r effaith ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg yn yr ardal leol. Byddai'r effaith hon yn cael ei hystyried yn fanylach fel rhan o'r AEIG Datgomisiynu. Byddai'r AEIG Datgomisiynu yn cael ei gynnal yn nes at yr amser datgomisiynu.

Ansawdd bywyd

Effaith ar iechyd y boblogaeth, amwynder yr ardal leol a lefel trosedd neu drais.

B.5.7 Mae potensial i'r ofn/canfyddiad o droseddu gynyddu yn ystod y cam datgomisiynu gan y bydd y presenoldeb ar y safle wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â'r lefelau yn ystod y cam gweithredu.

B.5.8 Yn ystod gwaith clirio terfynol y safle byddai'r lleoliad yn troi'n safle adeiladu, a allai godi nifer o'r un pryderon ynghylch diogelwch a phresenoldeb gweithwyr dros dro. Mae'n debyg y bydd yr effaith yr un fath â'r cam adeiladu, a aseswyd yn negyddol. Gallai hyn gyfrannu at leihau awydd pobl i fyw yn yr ADL.

B.5.9 Gyda mesurau lliniaru priodol wedi'u gosod, gan gynnwys ffensys terfyn, arwyddion a chod ymddygiad caeth, gorfodol i weithwyr, ystyrir y bydd yn ymarferol i leihau arwyddocâd yr effeithiau. Byddai asesiad llawn yn cael ei wneud, a'r mesurau lliniaru'n cael eu pennu, yn yr AEIG Datgomisiynu.

Ffactorau economaidd

Yr effeithiau ar fusnesau lleol, swyddi, amrywiaeth economaidd, lefelau cyflog/tâl a chostau tai

Newidiadau i gyflogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth

B.5.10 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) yn ystyried effaith datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd ar newidiadau i gyflogaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

B.5.11 Nid yw amseru'r datgomisiynu yn hysbys ar hyn o bryd, fodd bynnag, disgwylir i'r rhan fwyaf o'r gwaith datgomisiynu fod wedi'i wneud o fewn 20 mlynedd i'r cam cynhyrchu pŵer yn dod i ben. Byddai gweddill y datgomisiynu yn ymwneud â storio a gwaredu tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol, a byddai'n cymryd llawer mwy o amser, hyd at 120

mlynedd ychwanegol. Mae'n debyg y byddai nifer y staff yn lleihau cyn cychwyn ar y gwaith datgomisiynu, gan y byddai'r gweithrediadau'n lleihau cyn diffodd yr Uned am y tro olaf. Felly, ar ddechrau'r gwaith datgomisiynu, mae'n debygol y byddai llai nag 850 o staff yn cael eu cyflogi yng Ngorsaf Bŵer Wylfa Newydd.

B.5.12 Daeth adroddiad a oedd yn ystyried effeithiau datgomisiynu cyn orsaf bŵer Magnox yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd i'r casgliad bod effaith cau'r orsaf ar ddiweithdra lleol yn fach ac yn anodd ei chanfod [RD60]. Roedd hyn o ganlyniad i ddylanwad amrywiadau tymhorol ac amodau economaidd cenedlaethol ar lefelau cyflogaeth yn lleol. Amcangyfrifwyd bod diweithdra wedi codi llai na 1% o ganlyniad i gau'r orsaf. O'r 342 o staff a oedd wedi colli eu swyddi yn Nhrawsfynydd, roedd 338 yn dal i fyw yn lleol. O ran cadw incwm lleol, roedd y grŵp hwn i gyd yn cyfrannu at yr economi leol drwy gyflogau, pensiynau a thaliadau dileu swyddi. Amcangyfrifwyd bod hyn yn cyfateb i tua 53% o'r cyfraniad o gyflogau pan roedd Trawsfynydd yn gweithredu'n llawn.

B.5.13 Nid yw amseru'r datgomisiynu yn hysbys ar hyn o bryd, fodd bynnag, disgwylir i'r rhan fwyaf o'r gwaith datgomisiynu fod wedi'i wneud o fewn 20 mlynedd i'r cam cynhyrchu pŵer yn dod i ben. Byddai gweddill y datgomisiynu yn ymwneud â storio a gwaredu tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol, a byddai'n cymryd llawer mwy o amser, hyd at 120 mlynedd ychwanegol. Mae'n debyg y byddai nifer y staff yn lleihau cyn cychwyn ar y gwaith datgomisiynu, gan y byddai'r gweithrediadau'n lleihau cyn diffodd yr Uned am y tro olaf. Felly, ar ddechrau'r gwaith datgomisiynu, mae'n debygol y byddai llai nag 850 o staff yn cael eu cyflogi yn yr Orsaf Bŵer .

B.5.14 Daeth adroddiad a oedd yn ystyried effeithiau datgomisiynu cyn orsaf bŵer Magnox yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd i'r casgliad bod effaith cau'r orsaf ar ddiweithdra lleol yn fach ac yn anodd ei chanfod [RD60]. Roedd hyn o ganlyniad i ddylanwad amrywiadau tymhorol ac amodau economaidd cenedlaethol ar lefelau cyflogaeth yn lleol. Amcangyfrifwyd bod diweithdra wedi codi llai na 1% o ganlyniad i gau'r orsaf. O'r 342 o staff a oedd wedi colli eu swyddi yn Nhrawsfynydd, roedd 338 yn dal i fyw yn lleol. O ran cadw incwm lleol, roedd y grŵp hwn i gyd yn cyfrannu at yr economi leol drwy gyflogau, pensiynau a thaliadau dileu swyddi. Amcangyfrifwyd bod hyn yn cyfateb i tua 53% o'r cyfraniad o gyflogau pan roedd Trawsfynydd yn gweithredu'n llawn. Nid fydd colli swyddi gweithredu o'r Orsaf Bŵer felly o reidrwydd yn golygu bod y gweithwyr hynny'n gadael cymunedau prif ardal yr astudiaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn galw am asesiad manylach mewn Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer y cam datgomisiynu.

Busnesau a chadwyn gyflenwi

B.5.15 Wrth ystyried y gwariant lleol posibl yn economi gogledd Cymru yn ystod y cam datgomisiynu, tua diwedd y cam datgomisiynu, byddai angen adeiladu cyfleuster ailbecynnu tanwydd er mwyn gallu trosglwyddo'r tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio sydd ar ôl i gyfleuster gwaredu daearegol. Gallai hyn effeithio ar y gadwyn gyflenwi o ran prynu deunyddiau a gwasanaethau yng ngogledd Cymru, ynghyd â chefnogi neu ddiogelu rhywfaint o gyflogaeth leol. Mae'n annhebygol mai busnesau yng ngogledd Cymru fydd yn cyflawni

agweddau eraill o'r gwaith datgomisiynu, fel storio a chludo tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff lefel ganolraddol, gan fod y tasgau hyn yn rhai arbenigol iawn sy'n seiliedig ar wybodaeth busnesau a sectorau cyfredol, yn ôl yr asesiad economaidd-gymdeithasol (pennod C1 o'r Datganiad Amgylcheddol, Cyfeirnod y Cais 6.3.1).

B.5.16 Yn ôl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) ar gyfer datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol, amcangyfrifir y byddai'r gwaith clirio safle terfynol yn costio tua £929 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd. Mewn cymhariaeth, amcangyfrifir y byddai'r Gwaith Galluogi yn ystod cam adeiladu'r Orsaf Bŵer yn costio rhwng £8 miliwn a £12 miliwn, ac mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o hwn yn cael ei fuddsoddi'n lleol yng ngogledd Cymru. Er nad yw gwerth y buddsoddiad yng ngwaith clirio terfynol y safle yn hysbys ar hyn o bryd, tybir y gallai cyfran resymol gael ei wario yng ngogledd Cymru. Er nad yw gwerth y buddsoddiad yng ngwaith clirio'r safle yn hysbys ar hyn o bryd, byddai'r gwariant yn gyfraniad manteisiol at economi gogledd Cymru, gan gyfrannu at gynaliadwyedd tymor hir cymunedau ac felly'r Gymraeg a'i diwylliant, ac ystyrir bod hyn yn fanteisiol.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

Yr effeithiau ar ysgolion lleol, darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau lleol

B.5.17 Yn ystod y gwaith datgomisiynu, byddai potensial i lefelau'r galw am wasanaeth newid. Gallai colli 850 o swyddi parhaol sy'n gysylltiedig â gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd un ai gynyddu neu leihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus a lleol. Pe bai'r rheini a fu'n cael eu cyflogi gynt yn symud i ardal arall i chwilio am gyfleoedd swyddi newydd, efallai y byddai capasiti'r ddarpariaeth gofal iechyd ac ysgolion lleol yn cynyddu. I'r gwrthwyneb, pe bai'r unigolion hynny a'u dibynyddion yn aros yn yr ardal gyda chyflogaeth wael neu'n ddi-waith, gallai'r galw ar wasanaethau iechyd gynyddu a'r defnydd o wasanaethau lleol fel siopau leihau. Byddai'r effeithiau'n niwtral pe bai'r grŵp hwn yn dod o hyd i wahanol swyddi o ansawdd dda yn lleol. Er bod ansicrwydd ar hyn o bryd, byddai'r lefel siliau uchel sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yng Ngorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn awgrymu y byddai'r unigolion hynny'n debygol o ddod o hyd i swyddi eraill sy'n defnyddio'u sgiliau ym marchnad lafur Ynys Ynni Ynys Môn.

B.5.18 Er nad yw maint y gweithlu angenrheidiol na hyd y gwaith yn ystod y cam datgomisiynu yn hysbys, mae'n debygol y byddai'n llawer llai nag yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu. Heb y gofynion cyflogaeth a'r wybodaeth am niferoedd posibl y gweithwyr a fyddai'n byw gartref, ni ellir asesu'n fanwl yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau addysg, darpariaeth gofal iechyd na gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, byddai effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y Datgomisiynu.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

Yr effeithiau ar gydlyniant cymdeithasol, traddodiadau a diwylliant y Gymraeg ac ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol

B.5.19 Mae sawl ffactor a allai gyfrannu at newid yn y cydlyniant cymdeithasol ar Ynys Môn, gan arwain at roi grwpiau penodol yn yr ardal leol dan anfantais.

B.5.20 Gallai colli swyddi gweithredu parhaol achosi i lefelau diweithdra godi. Efallai na fydd gan unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant niwclear sgiliau perthnasol i'w trosglwyddo i'r sectorau nad ydyn nhw'n rhai niwclear. Gallai hyn effeithio ar eu potensial i gael swydd newydd. Gallai'r datgomisiynu arwain at roi'r gweithwyr a arferai gael eu cyflogi i weithredu'r Orsaf Bŵer dan anfantais.

B.5.21 Yn aml, rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol, fel cysylltiadau teuluol, a grwpiau ieuenctid/gweithgaredd/gwirfoddol, yw sail diwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg. Gallai gwanhau rhwydweithiau fel hyn ac erydu cysylltiadau teuluol o ganlyniad i'r boblogaeth bresennol (sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg) yn allfudo o ganlyniad i golli swyddi, a gweithwyr di-Gymraeg yn mewnfudo oherwydd cyfleoedd cyflogaeth, gael effaith niweidiol ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg yn yr ardal leol.

B.5.22 Yn seiliedig ar y waelodlin bresennol a barn broffesiynol, ystyrir ei bod yn ymarferol i nodi gweithgareddau gwella a lliniaru i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl. Gallai lliniaru gynnwys gweithgareddau i gael y budd mwyaf o fuddsoddiad dewisol Horizon i sicrhau etifeddiaeth fuddiol a pharhaus, ac i ddarparu cefnogaeth i weithwyr sy'n colli eu swyddi i'w helpu nhw i drosglwyddo i sectorau nad ydynt yn rhai niwclear.

B.6 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r prosiect cyfan

B.6.1 Mae crynodeb o effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno yn nhabl B-6 a thabl B-7.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl B-6 Crynodeb o effeithiau'r prosiect cyfan yn ystod y cam adeiladu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	Mewnfudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Amwynder	Troseddau	Busnesau lleol	Swyddi lleol	Amrywiaeth economaidd	Incwm	Prisiau tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau lleol	Tensiynau/gwrthdaro	Diwylliant a thraddodiadau	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	-0.6	-0.8	+0.4	+0.6	+0.2	-0.5	-0.2	+0.7	+0.8	+0.5	+0.4	-0.5	-0.7	0	+0.3	-0.2	-0.6	-0.3
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Effaith niweidiol ganolig	Effaith niweidiol fawr	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol fach	Effaith niweidiol ganolig	Effaith niweidiol ganolig	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol ganolig	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.6	-0.8	+0.4	+0.6	+0.1	-0.3	-0.1	+0.5	+0.6	+0.4	+0.3	-0.5	-0.7	0.0	+0.2	-0.1	-0.6	-0.2
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niweidiol fach iawn -0.1				Effaith niweidiol fach iawn -0.1			Effaith fanteisiol fach +0.3					Effaith niweidiol fach iawn -0.2			Effaith niweidiol fach -0.3		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

Tabl B-7 Crynodeb o effeithiau'r prosiect cyfan yn ystod y cam gweithredu (cyn gweithredu mesurau lliniaru a gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	Mewnfudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Amwynder	Troseddau	Busnesau lleol	Swyddi lleol	Amrywiaeth economaidd	Incwm	Prisiau tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau lleol	Tensiynau/gwrthdaro	Diwylliant a thraddodiadau	Grwpiau ieuenctid/gwirfoddolig weithgaredd
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	-0.2	+0.6	+0.6	+0.2	-0.3	-0.1	+0.5	+0.8	+0.7	+0.4	0	+0.1	0	+0.3	0	+0.1	+0.3
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn
	0	-0.2	+0.6	+0.6	+0.1	-0.2	-0.1	+0.4	+0.6	+0.5	+0.3	0.0	+0.1	0.0	+0.2	0.0	+0.1	+0.2
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith fanteisiol fach iawn +0.3				Effaith niweidiol fach iawn -0.2			Effaith fanteisiol fach +0.3					Effaith fanteisiol fach iawn +0.1			Effaith fanteisiol fach iawn +0.1		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith fanteisiol fach iawn +0.2																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

B.7 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella ar lefel y prosiect cyfan

B.7.1 Mae Tabl B-8, tabl B-9, tabl B-10 a thabl B-11 isod yn crynhoi'r mesurau lliniaru a gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG). Mae'r sail resymegol dros bob un o'r mesurau'n cael eu hamlinellu yn fwy manwl yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn. Cyflwynir y mesurau o dan bedair thema:

- Y Gweithlu;
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Gwasanaethau cymunedol a lleol; ac
- Atebolrwydd.

Tabl B-8 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â'r gweithlu

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
1	Mesur gwella - Mae angen cydlynu'r mesurau yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.	1-4, 7, 9-11, 13, 15-18	Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu mesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a'u rhoi ar waith yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect.	Adnoddau Dynol Horizon	Horizon - Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
2	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	3, 9-11	Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd ac adnoddau asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio a chymorth allanol o bosibl; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106 (bydd rhaid i'r rhain fod yn ddwy rwymedigaeth ar wahân er mwyn delio â disgrifiadau swyddi adeiladu a gweithredu)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael eu cofnodi yn rhan o'r broses recriwtio ac yn cael eu cynnwys ym mhroffil y swydd.				
3	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	3, 9-11	Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn.	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Siaradwyr Cymraeg allanol o bosibl.	Cyn y camau adeiladu a gweithredu	Cytundeb Adran 106 (bydd rhaid i'r rhain fod yn ddwy rwymedigaeth ar wahân er mwyn delio ag arferion cyflogi staff adeiladu a gweithredu)
4	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11	Bydd Horizon yn parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i gymunedau a phobl	Tîm Addysg Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn	Y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106 (bydd rhaid i'r rhain fod yn ddwy rwymedigaeth

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			ifanc yn rheolaidd, gan gynnwys Mapiau Llwybrau Gyrfa dwyieithog Wylfa Newydd a Phroffiliau swyddi. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn annog ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn arwain ar hyn. Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac adnoddau 'model rôl' amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig,				ar wahân er mwyn delio â'r camau adeiladu a gweithredu)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			cyflwyniadau mewn ysgolion.				
5	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11	Fel rhan o'i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Llywodraeth Cymru; Adran Gwaith a Phensiynau; Grŵp Llywio'r AEIG; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn; Gyrfa Cymru	Y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106 (bydd rhaid i'r rhain fod yn ddwy rwymedigaeth ar wahân er mwyn delio â'r camau adeiladu a gweithredu)
6	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn	3, 9-11	Diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa	Pennaeth Datblygu Strategol	Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	fwy amlwg yn Wylfa Newydd		fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.	(Cymru) Horizon	yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant		
7	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn Wylfa Newydd	3	Bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn ddwyieithog.	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon, contractwyr	Y cam adeiladu; y cam gweithredu	Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.13)
8	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu	3, 9-11	Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn darparu rheolwyr recriwtio perthnasol a	Adnoddau Dynol Horizon / Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler Mesur 1 (1242)	Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			hyfforddiant i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu.				
9	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant wrth wneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd Horizon yn gwerthfawrogi eu sgiliau ieithyddol.	1-4, 7, 16-18	Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.	Adnoddau Dynol Horizon; Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio Horizon; y Gadwyn Gyflenwi a Masnachol; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn; Contractwr Menter Newydd; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)
10	Mae angen sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal	1-4, 7-11, 16-18	Bydd Horizon yn cynnwys gofynion o ran gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ym mhob	Horizon Tîm y Gadwyn Gyflenwi a Chydlynydd	Menter Newydd	Cyn y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	yr astudiaeth ac am bolisi iaith Gymraeg Horizon.		cyfarfod rhwng contractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol).	yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14).			
11	Mesur gwella - cynyddu'r cyfleoedd i gwmnïau lleol (sy'n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) i gystadlu am waith yn Wylfa Newydd.	1-4, 8-11	Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill,	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Menter Newydd Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.				
12	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd eu sgiliau ieithyddol yn cael eu gwerthfawrogi, a phan fo hynny'n briodol, yn cael eu datblygu. Wrth i nifer y gweithwyr o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth gynyddu, mae angen gwneud siaradwyr Cymraeg yn fwy amlwg, er mwyn annog pobl i	1-4, 7, 9-11, 16-18	Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyn perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon	Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon - - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Grŵp Llandrillo Menai (y darparwr hyfforddiant y mae Horizon wedi'i benodi); Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Y cam adeiladu; parhaus	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	ddefnyddio'r iaith yn Wylfa Newydd.		yn cadw'r cynllun 'bathodyn oren' ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith.				
13	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg.	1-4, 13	Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd	Adnoddau Dynol Horizon	Menter Newydd; Cyngor Sir Ynys Môn - i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu.				

Tabl B-9 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
14	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11, 13	Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr addysg bellach	Tîm Addysg Horizon	Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Ysgolion, Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, Fforwm Penaethiaid, Bwrdd Uchelgais Economaidd	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
					Gogledd Cymru		
15	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11, 13	Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc	Hyfforddiant Horizon; tîm Addysg Horizon	Darparwyr hyfforddiant (Grŵp Llandrillo Menai)	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
16	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg.	1-2, 4, 13	Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Ysgolion, Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (grŵp cynrychioliadol sefydliadau iaith Gymraeg), Cyngor Gwynedd	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei monitro'n ofalus drwy gasglu data fel y nodir ym mesur lliniaru 13. (Cyfeirnod y Cais: 8.14)				
17	Mae angen lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o bartneriaid a dibynyddion (251 o ddibynyddion yn ôl yr amcangyfrif) sy'n dod gyda gweithwyr na fyddant yn byw gartref, o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	1-2, 4, 7, 13, 16-18	Bydd Horizon yn datblygu ac yn dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned.	Horizon, Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn		Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Tabl B-10 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a lleol

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
18	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	1-2, 4, 7, 13, 16-18	Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned.	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn; cynrychiolwyr iaith cymunedol (ee Mentrau Iaith lleol); Cyngor Gwynedd; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
19	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar	1-2, 4, 13, 15	Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	(ee gofal plant, meithrinfeydd, gwasanaethau cyn ysgol).		Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.		blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn		

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
20	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	1-2, 4, 13, 15, 16-18	Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol pan (fo hynny'n berthnasol i brosiect Wylfa Newydd Horizon) i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd.	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Tabl B-11 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag atebolrwydd

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
21	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon	Uwch Reolwyr Horizon, Datblygu Strategol Cymru a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Horizon - Adnoddau Dynol, Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu, Cadwyn Gyflenwi, Masnachol - Pennaeth Caffael Strategol	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
22	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio (Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant) grŵp rhanddeiliaid allanol i fonitro sut caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni	Horizon	Awdurdodau Lleol, Sefydliadau cymunedol	Cyn y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
23	Mae angen gwerthuso'r strategaeth hon a gwir effaith Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg.	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny	Horizon	Awdurdodau Lleol, Sefydliadau cymunedol	Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106
24	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn rhoi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith drwy gydol cyfnod adeiladu'r Prosiect. Bydd Horizon yn monitro ac yn adrodd ynghylch sut mae'n cydymffurfio â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bob chwe mis i'r Grŵp Rheoli (a nodir ym mesur	Horizon		Y cam adeiladu	Cytundeb Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			1264) a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.				

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Effeithiau gweddilliol

B.7.2 Mae Tabl B-12 isod yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

B.7.3 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG) yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod ac ar ôl adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd er mwyn mesur effeithiau gweddilliol y prosiect. Fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (atodiad B4-1 yr AEIG), byddai Horizon yn gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn galluogi asesiad o'r effeithiau gweddilliol, a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl B-12 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Effaith niweidiol ganolig	Niwtral	1, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o'r gweithwyr cam gweithredu yn dod o'r tu allan o brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg ac felly byddai hyn yn creu effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.
2	Mewnfudo	Effaith niweidiol fawr	Effaith niweidiol fach iawn	1, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o weithwyr y cam gweithredu yn dod o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg, ac felly byddai hyn yn creu effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.
3	Allfudo	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol ganolig	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 21, 22, 23	Gall pobl oedran gweithio o brif ardal yr astudiaeth ddewis aros yn yr ardal o ganlyniad i gael cyflogaeth drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd.
4	Strwythur oed	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol ganolig	1, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o'r gweithwyr cam gweithredu yn dod o'r tu allan o brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg ac felly byddai hyn yn creu

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
					effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.
5	Iechyd pobl leol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19)
6	Amwynder yr ardal leol	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach iawn	Gweler pennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5)	Gweler pennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5)
7	Troseddau/trais	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	1, 9, 10, 12, 17, 18, 21, 22, 23. Gweler hefyd y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5).	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach	10, 11. Gweler hefyd y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Byddai busnesau lleol yn elwa o'r cyfleoedd economaidd a gynigir gan Brosiect DCO Wylfa Newydd. Gall hyn arwain at effeithiau gweddilliol economaidd manteisiol yn y tymor hirach.

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
9	Swyddi lleol	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol ganolig	1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, 15	Byddai pobl oedran gweithio o brif ardal yr astudiaeth yn elwa o gyfleoedd gwaith tymor hir uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.
10	Amrywiaeth economaidd	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol ganolig	1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, 15	Byddai busnesau lleol a phobl oedran gweithio o brif ardal yr astudiaeth yn elwa o gyfleoedd gwaith tymor hir uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.
11	Cyflogau	Effaith fanteisiol fach	Effaith fanteisiol fach	1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 10, 11, 12, 14, 15	Byddai pobl oedran gweithio o brif ardal yr astudiaeth yn elwa o gyfleoedd gwaith tymor hir uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.
12	Prisiau tai	Effaith niweidiol ganolig	Niwtral	Gweler y Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4).	Gweler y Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4).
13	Ysgolion lleol	Effaith niweidiol ganolig	Effaith fanteisiol fach iawn	1, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23	A thybio bod plant a fydd yn symud i'r ardal gyda gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy wasanaethau addysg drochi leol, byddai disgwyl i'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
					ganolbwyntio ar yr iaith gymdeithasol/defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler Adroddiad yr AEI (Cyfeirnod y Cais: 8.19).
15	Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	1, 18, 19, 20, 21, 22, 23	Gallai fod rhai effeithiau manteisiol tymor hir i siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai o ganlyniad i'r cynnydd bach yn y boblogaeth a mwy o wario yn lleol.
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.
17	Traddodiadau/ diwylliant	Effaith niweidiol ganolig	Effaith fanteisiol fach iawn	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o'r gweithwyr cam gweithredu yn dod o'r tu allan o brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg ac felly byddai hyn yn creu effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o weithwyr y cam gweithredu yn dod o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg, ac felly byddai hyn yn creu

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
					effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.

C Ardal Datblygu Wylfa Newydd

C.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o'r effeithiau posibl yn sgil adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r gyfrol hon yn eithrio effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rheini yn cael sylw yn yr asesiad sydd yng nghyfrol B yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn.

C.1.2 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau o'r fath yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhag-weld yn ansoddol.

C.1.3 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.

C.1.4 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran C.4.

C.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd


C.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn wedi'u cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-13 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

C.2.2 Mae'r ardaloedd astudiaeth ar gyfer asesu gweithgareddau adeiladu a gweithredu Safle'r Orsaf Bŵer a Champws y Safle yn cynnwys Ardal Datblygu Wylfa Newydd (wedi'i diffinio yn nhabl A-13) ac Ardal Dylanwad Leol (ADL) Ardal Datblygu Wylfa Newydd, sy'n ymestyn i radiws o 5km o ffin Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys wardiau cyfan Llanbadrig a Mechell, a rhannau o wardiau Amlwch Wledig, Llanfaethlu a Llannerch-y-medd (gweler Ffigur C-1).

C.2.3 Bydd ardal astudiaeth datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael ei defnyddio ar gyfer yr asesiad sy'n ymwneud â nodweddion y boblogaeth (C1 i C4) gan fod y cwestiynau hyn yn yr asesiad yn ymwneud â phroffil y boblogaeth. Ar gyfer gweddill y cwestiynau yn yr asesiad (C5 i C18), bydd ardal astudiaeth ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael ei defnyddio, gan ei bod yn cynnwys ardal ddaearyddol ehangach sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio gan y 4,000 o weithwyr adeiladu a fydd yn aros yng Nghampws y Safle pan na fyddant yn gweithio. Yr ardal ddaearyddol hon yw'r un sydd fwyaf tebygol hefyd o gael ei heffeithio gan newidiadau i amwynderau amgylcheddol.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur C-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd



[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

C.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

C.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu yn seiliedig ar ddull Cynllun o'r Paramedr a Chynllun Gwaith, fel yr amlinellir ym mhennod D1 y Datganiad Amgylcheddol (cyflwyniad i'r broses asesu) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.1). Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r dull cynllun o'r paramedr yn ei gynnig, ac yn cynrychioli'r 'sefyllfa waethaf' o ran y Gymraeg a'i diwylliant.


Adeiladu

C.3.2 Mae sail yr asesiad a'r tybiaethau a wnaed i helpu'r AEIG hwn i nodi effeithiau posibl y gwaith o adeiladu a gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'u disgrifio isod.


- Ochr yn ochr â'r Orsaf Bŵer, Campws y Safle, datblygiadau eraill ar y safle a'r Gwaith Morol, mae'r cam adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys y gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle sydd angen ei wneud i baratoi Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyfer y gweithgareddau adeiladu.
- Yr asesiad o'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r gweithlu adeiladu a'r gofynion sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn benodol (hy effeithiau safle-benodol y gweithlu adeiladu, gan gynnwys ei effaith ar y gymuned gymdogol). Mae effeithiau posibl y gofynion o ran gweithgareddau a'r gweithlu disgwyliedig sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw yn cael eu hystyried yng nghyd-destun effeithiau'r prosiect cyfan, ac maent wedi'u disgrifio'n fanwl yng nghyfrol B yr AEIG hwn.

C.3.3 Mae Ffigur C-2 a Ffigur C-3 yn dangos dadansoddiad blynyddol o'r amserlen adeiladu ddangosol ar gyfer pob elfen o Brosiect DCO Wylfa Newydd, a rhagamcan o faint y gweithlu y disgwylir y bydd angen amdano yn ystod y cam adeiladu. Mae'r amserlen adeiladu ddangosol yn dangos y gallai cyfran o'r gweithwyr cam gweithredu ymuno â'r gweithlu adeiladu ehangach yn ystod y cam adeiladu. Mae'r gweithwyr a fydd eu hangen ar gyfer adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gorgyffwrdd â cham adeiladu rhywfaint o'r Datblygiadau Cysylltiedig eraill sy'n cael eu hystyried yn rhan o Brosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Ganolfan i Ymwelwyr ac i'r Cyfryngau.

Ffigur C-2 Amserlen adeiladu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd



Ffigur C-3 Proffil o faint y gweithlu yn ystod cam adeiladu'r Prosiect



Dosbarthiad gweithwyr adeiladu ar draws mathau o lety

C.3.4 O ganlyniad i nifer sylweddol y gweithwyr adeiladu y disgwylir y bydd angen amdanynt ar gyfer cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, mae darpariaethau wedi cael eu cynnwys yn nyluniad Prosiect DCO Wylfa Newydd. Fel y dangosir yn Ffigur C-2, byddai Campws y Safle yn cael ei adeiladu fesul cam, yn unol â rhaglen adeiladu'r Orsaf Bŵer a thwf y gweithlu. Mae datblygu a defnyddio Campws y Safle yn cynrychioli canolbwynt ar gyfer ystyried yr effeithiau posibl ar ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.3.5 Mae gweithredu Campws y Safle yn rhan o gam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Felly, mae'r effeithiau yn ystod y cam 'adeiladu' a gyflwynir yn adran C.4 yn seiliedig ar hynny.

C.3.6 Tybir y byddai gweithwyr adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd sy'n aros yng Nghampws y Safle yn aml yn teithio yn ôl i'w prif breswylfa barhaol ar y penwythnosau neu eu diwrnodau i ffwrdd.

Mesurau lliniaru creiddiol - adeiladu

C.3.1 Mae'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 (gan gynnwys y gwelliannau i Ffordd Nanner) a'r Datblygiadau Cysylltiedig (hy y Cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir; a'r Ganolfan Logisteg) sy'n rhan o Brosiect DCO Wylfa Newydd yn cael eu hystyried yn fesurau lliniaru creiddiol ar gyfer effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd. Yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, mae'r cyfleusterau sydd yng Nghampws y Safle (amwynderau hamdden, siopau adwerthu a hwylus, bar a gwasanaethau meddygol) hefyd yn cael eu hystyried yn fesurau lliniaru creiddiol ar gyfer effeithiau Campws y Safle ei hun a Phrosiect DCO Wylfa Newydd.

C.3.2 Bydd mynediad at Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac ohoni yn cael ei fonitro/rheoli gan staff diogelwch. Bydd cyfyngiadau ar drafnidiaeth breifat/cyhoeddus ar waith, a bydd gweithwyr yn manteisio ar drefniadau trafnidiaeth a noddir gan y Prosiect (hy Parcio a Theithio yn Dalar Hir, a bysiau gwennol i borthladd fferis Caergybi a'r gorsafoedd trenau lleol). Bydd darpariaethau o'r fath yn cael eu hamlinellu yn y strategaeth traffig a thrafnidiaeth yng Nghod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is God Ymarfer Adeiladu Prif Safle'r Orsaf Bŵer atodol (Cyfeirnod y Cais: 8.7).

C.3.3 Yn ogystal â hyn, mae'r mesurau lliniaru creiddiol a nodir yn asesiadau tirwedd a gweledol, ansawdd aer a sŵn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4) yn darparu mesurau lliniaru sy'n berthnasol i'r effeithiau ar y Gymraeg wrth ystyried ansawdd bywyd. Gweler penodau perthnasol cyfrol D y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4).

Arferion lliniaru da - adeiladu

Cod Ymarfer Adeiladu

C.3.4 Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnodau'r Cais: 8.7 i 8.12) yn nodi'r gofynion gwaith sy'n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth, ac yn sicrhau bod gweithgareddau

adeiladu'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gyda'r nod o leihau ac osgoi effeithiau niweidiol ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) yn nodi strategaethau prosiect cyfan wedi'u cefnogi gan Is-godau Ymarfer Adeiladu (hy Is-god Ymarfer Adeiladu Prif Safle'r Orsaf Bŵer (Cyfeirnod y Cais: 8.7) gan gynnwys Campws y Safle, a'r Is-god Ymarfer Adeiladu Gwaith Morol (Cyfeirnod y Cais: 8.8) yn yr achos hwn) sy'n darparu safonau a mesurau manwl sy'n benodol berthnasol i safle neu leoliad arbennig. Bydd Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnodau'r Cais: 8.7 i 8.12) yn ddogfennau ardystiedig, a bydd cydymffurfiad yn cael ei sicrhau drwy Ofynion y DCO.

C.3.5 Byddai'r arferion lliniaru da a nodir ym mhennod D5 (ansawdd yr aer) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.5), pennod D6 (sŵn a dirgryndod) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.6) a phennod D10 (tirwedd a gweledol) (Cyfeirnod y Cais: 6.4.10) y Datganiad Amgylcheddol hefyd yn helpu i liniaru'r effeithiau anuniongyrchol posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant gan eu bod yn ymwneud ag effeithiau ar amwynder amgylcheddol (ac felly ansawdd bywyd).

Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd

C.3.6 Bydd dyluniad tirwedd datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd y tu allan i Safle'r Orsaf Bŵer yn cael ei ddisgrifio'n fanwl mewn 'Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd', a bydd yn mynd ati i leihau effeithiau gweledol y cam adeiladu. Bydd ymddangosiad y dirwedd yn newid fesul cam dros amser a bydd yn cynnwys gwaith twmpathu, plannu coetir ac ailgyflwyno nodweddion megis ffiniau caeau. Bydd mesurau o'r fath yn darparu elfen o sgrinio i gymunedau Tregele a Chemaes. Bydd y strategaeth hon hefyd yn cynnwys mesurau rheoli cynefinoedd, a fydd yn ystyried creu cynefinoedd ac adleoli rhywogaethau lle bo angen, yn ogystal â gwaith tirweddu a phlannu priodol i ganiatáu i rywogaethau brodorol ffynnu.

Strategaeth Rheoli Gweithlu

C.3.7 Mae'r Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) yn nodi, ar hyn o bryd, rhestr o egwyddorion wedi'u diffinio y bydd Horizon yn eu defnyddio i ddenu'r adnoddau gweithlu priodol i adeiladu Prosiect Wylfa Newydd. Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu datblygu'n God Ymarfer cyn dechrau adeiladu er mwyn ei gwneud yn bosibl rheoli'r gweithlu adeiladu yn effeithiol. Drwy gyfrwng y Cod Ymarfer hwn, mae Horizon wedi ymrwymo i leihau effaith bosibl nifer uchel y gweithwyr adeiladu dros dro ar y gymuned leol drwy drefniadau cynllunio a rheoli sensitif a chadarn, gan ystyried anghenion y gymuned leol a'r amgylchedd ar yr un pryd. Bydd disgwyl i'r gweithwyr lofnodi a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer sy'n cael ei amlinellu, a hynny drwy gydol cam adeiladu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd. Bydd y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) yn ddogfen ardystiedig, a bydd cydymffurfiad â'r Strategaeth (gan gynnwys y rhwymedigaeth i baratoi a gweithredu Cod Ymarfer) yn cael ei sicrhau drwy Ofynion y DCO.

Strategaeth Swyddi a Sgiliau

C.3.8 Byddai'r gwasanaethau adeiladu sy'n rhan o'r datblygiadau yn natblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael eu caffael a'u cyflawni yn unol â Strategaeth Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi Horizon. Ei bwriad yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyflenwyr o ran gallu a chapasiti, gan roi pwyslais ar ddefnyddio contractwyr ac adnoddau lleol lle bo hynny'n briodol. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn esbonio'r potensial am weithgarwch economaidd ychwanegol yn yr ADL a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaethau a'r deunyddiau sydd eu hangen ar y datblygiad arfaethedig. Ni fydd yn ddogfen rheoli wedi'i hardystio fel rhan o'r DCO, ond serch hynny bydd amrywiol elfennau o'r strategaeth (fel y gwasanaeth cyflogaeth neu'r targedau cyflogaeth) yn cael eu sicrhau drwy gytundeb adran 106.

Gweithredu

C.3.9 Mae'r asesiad o gam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn seiliedig ar yr amcangyfrif mai 850 aelod o staff fydd yn rhan o weithlu'r cam gweithredu pan fydd yr Orsaf Bŵer yn gweithredu'n llawn. Byddai angen gweithlu cyfnod segur ychwanegol o 1,000 bob tua 18 mis ar gyfer pob adweithydd.

C.3.10 Mae hefyd yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai gweithredu'r Orsaf Bŵer yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaethau a chanllawiau rheoleiddio, yn ogystal ag ymarfer gorau a safonau'r diwydiant o ran iechyd, diogelwch a chynnal a chadw.

Mesurau lliniaru creiddiol - gweithredu

C.3.11 Fel y cyfeirir ato yn yr adran 'arferion lliniaru da - adeiladu', mae gwaith tirweddu a phlannu helaeth yn cael ei gynnig fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd yn Is-god Ymarfer Adeiladu Prif Safle'r Orsaf Bŵer (Cyfeirnod y Cais: 8.7) fel arferion lliniaru da yn nyluniad datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai hyn yn cael ei gynnal a'i ehangu yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer er mwyn lliniaru effeithiau gweledol a sŵn Safle'r Orsaf Bŵer o ran derbynyddion sensitif cyfagos, yn ogystal â gwella'r dirwedd o gwmpas yr Orsaf Bŵer yn gyffredinol.

Arferion lliniaru da - gweithredu

C.3.12 Mae Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.13) yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn y modd mwyaf cynaliadwy, effeithlon a chosteffeithiol posibl, ac yn ymwneud â cham gweithredu elfennau parhaol Prosiect DCO Wylfa Newydd (hy yr elfennau a fydd yn dal yno ar ôl i'r gwaith o adeiladu'r Orsaf Bŵer gael ei gwblhau), fel:

- yr Orsaf Bŵer, gan gynnwys offer cyffredin, a chyfleusterau, adeiladau, strwythurau a nodweddion cefnogol, ynghyd â'i chyd-destun tirwedd parhaol, ei meysydd parcio a'i llwybrau mynediad yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;

- y cyfleusterau morol parhaol, yn cynnwys y System Dŵr Oeri, morgloddiau, a'r Cyfleuster Dadlwytho Morol, yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, yn cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Garej Offer Argyfwng Symudol, a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol.

C.3.13 Mae'r Cod Ymarfer Gweithredu (Cyfeirnod y Cais: 8.13) yn ymwneud â gofynion rheoli amgylcheddol cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd (hy gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig), fodd bynnag nid yw'n ailadrodd manylion na gofynion penodol o dan gylch gwaith y Drwydded Safle Niwclear na Thrwyddedau Amgylcheddol y safle.

C.3.14 Mae'r Cod Ymarfer Gweithredu (Cyfeirnod y Cais: 8.13) yn amlinellu cyfrifoldebau a rhwymedigaethau Horizon o ran rheolaeth amgylcheddol y safle, gan gynnwys: Cyfathrebiadau a chysylltu â'r gymuned/rhanddeiliaid; Gweithrediadau cyffredinol ar y safle; a defnyddio strategaethau rheoli sy'n ymwneud â'r meysydd pwnc canlynol: Nodweddion economaidd-gymdeithasol a'r gymuned (gan gynnwys darparu swyddog cynnwys y gymuned); Traffig a thrafnidiaeth; Mynediad cyhoeddus; Ansawdd yr aer; Sŵn a dirgryndod; Rheoli gwastraff, ynghyd â materion amgylcheddol eraill.

Datgomisiynu

C.3.15 Adeg ysgrifennu hwn, nid yw manylion amseru a natur y gweithgareddau datgomisiynu yn hysbys, fodd bynnag disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith datgomisiynu yn digwydd cyn pen 20 mlynedd ar ôl gorffen cynhyrchu pŵer, ac y bydd yn debyg i waith dad-adeiladu/dymchwel traddodiadol. Byddai gweddill y gwaith datgomisiynu yn ymwneud â storio a gwaredu tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol, a byddai'n cymryd llawer mwy o amser – hyd at 120 mlynedd ychwanegol.

C.3.16 Mae'n debygol y bydd nifer y staff yn lleihau cyn dechrau'r gwaith datgomisiynu, gan y bydd gweithdrefnau yn dirwyn i ben cyn diffodd yr adweithydd am y tro olaf. Felly, ar ddechrau'r gwaith datgomisiynu, mae'n debygol y bydd llai nag 850 o staff yn cael eu cyflogi yn yr Orsaf Bŵer

C.4 Asesiad o'r effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

C.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn y 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 yr AEIG hwn sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol. Mae'r asesiad wedi'i osod yn yr un fformat ag y cyflwynwyd yn adran B.4 yr AEIG hwn; fodd bynnag, nid yw cefndir pob cwestiwn yn cael ei ailadrodd.

Nodweddion y boblogaeth

C1. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);
- arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.2 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn 2011.

C.4.3 Yn 2011, roedd gan wardiau Ardal Datblygu Wylfa Newydd (Llanbadrig a Mechell) boblogaeth breswyl o 2,902, a oedd yn 4% o boblogaeth Ynys Môn. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 57.1% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) wardiau Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gallu siarad Cymraeg.

C.4.4 Bu gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn wardiau Ardal Datblygu Wylfa Newydd rhwng 2001 a 2011 (o 1,679 (59.2%) yn 2001 i 1,608 (57.1%) yn 2011).

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.5 Byddai effeithiau unrhyw gynnydd yn y boblogaeth yn codi'n bennaf o ganlyniad i'r gwaith o adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn cynnwys y 4,000 a fydd yn aros yng Nghampws y Safle yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae effeithiau'r gweithwyr hyn ar newid mewn poblogaeth wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.6 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.7 Mae effeithiau'r gweithlu gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Orsaf Bŵer ar newid mewn poblogaeth wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.8 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.9 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar newid mewn poblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r Orsaf Bŵer, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud â'r mewnlifiad o 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle yn ystod y cam adeiladu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4, cyfrol B yr AEIG hwn.

C2. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- A allai datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg;
- A fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.10 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data poblogaeth a siaradwyr Cymraeg Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'i nodi fel rhan o gwestiwn 1 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

C.4.11 Yn 2011, roedd 56.3% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'u geni yng Nghymru. Roedd canran is (17.4%) o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Ardal Datblygu Wylfa Newydd a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â'r rheini a oedd wedi'u geni yng Nghymru (87.8%).

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.12 O ganlyniad i'r gweithlu sydd ei angen, gan gynnwys y 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle, mae disgwyl effeithiau ar fewnfudo yn deillio o'r gwaith o adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer ac adeiladu a gweithredu Campws y Safle. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.13 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.14 Mae disgwyl effeithiau ar fewnfudo yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer o ganlyniad i'r gweithlu sydd ei angen. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.15 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.16 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar fewnfudo yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud â'r mewnlifiad o 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C3. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- A yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;
- a fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.17 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran patrymau mudo ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2015.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.18 Mae effeithiau'r gwaith adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer a Champws y Safle, ar allfudo ar lefel ardal astudiaeth economaidd-gymdeithasol allweddol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Fodd bynnag, mae posibilrwydd o rai effeithiau lleol yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.19 Mae cam adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys Gwaith Galluogi'r Prosiect, sy'n gynnwys gwaith paratoi a chlirio'r safle, sydd ei angen i baratoi Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyfer adeiladu'r seilwaith ar gyfer yr Orsaf Bŵer. Mae cwmpas y gwaith paratoi a chlirio'r safle yn cynnwys dymchwel adeiladau presennol, gan gynnwys pum anheddiad, gyda thair yn wag a thenantiaid tymor byr yn preswylio mewn dwy ohonynt.

C.4.20 Byddai dymchwel aneddiadau yn arwain at symud nifer fach iawn o unigolion (dwy aelwyd), a allai arwain at raddfa fach iawn o'r boblogaeth bresennol yn allfudo o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.21 Nid yw'n hysbys i ble fyddai'r preswylwyr hynny sy'n cael eu symud yn adleoli; fodd bynnag, nid oes disgwyl i hyn gael effaith ganfyddadwy ar y Gymraeg a'i diwylliant yn yr ADL.

C.4.22 Mae digon o eiddo rhentu arall ar gael yn yr ADL ac ardal Gogledd Ynys Môn i ddarparu ar gyfer y preswylwyr sy'n cael eu symud, os dymunir. Roedd pobl yn arfer byw yn y tai preswyl mae Horizon yn berchen arnynt, ond maent yn wag erbyn hyn. Ers i'r tenantiaid hynny symud, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi aros ar Ynys Môn, ac yng Ngogledd Ynys Môn. Felly, er y gallai dymchwel yr aneddiadau hyn arwain at ddadleoli dwy aelwyd, mae'n rhesymol tybio y byddai'r tenantiaid hynny yn aros ar Ynys Môn, yng Ngogledd Ynys Môn neu yn yr ADL hyd yn oed. Mae effeithiau'r Gwaith Galluogi ar allfudo ac ar y Gymraeg a'i diwylliant felly'n cael eu hasesu fel effaith niwtral.

C.4.23 Oherwydd graddfa a hyd sylweddol y gweithgareddau adeiladu (naw blynedd) yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu, byddai potensial am golli llawer iawn o amwynder o gymunedau cymdogol yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yng nghwestiwn 6. Byddai disgwyl i'r effeithiau posibl o ganlyniad i'r newid yn amwynder amgylcheddol ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd fod yn rhai sylweddol, er gwaethaf rhoi mesurau lliniaru creiddiol ac ymarfer da ar waith (fel y cyflwynir yn adran C.3 yr AEIG hwn).

C.4.24 Byddai gan y newid hwn mewn amwynder y potensial i arwain at allfudo lleol o'r boblogaeth bresennol sy'n byw yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar hyn o bryd, yn enwedig cymunedau Cemaes a Thregele, lle byddai disgwyl i'r newidiadau mewn amwynder fod yn fwyaf sylweddol. Petai hyn yn digwydd, gallai arwain at newid yn y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny (lle mae 61.3% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd). Ac ystyried na fyddai disgwyl i effeithiau prosiect cyfan Prosiect DCO Wylfa Newydd arwain at allfudo o brif ardal yr astudiaeth, byddai'n rhesymol tybio y byddai unrhyw drigolion a allai allfudo o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn adleoli rhywle arall ym mhrif ardal yr astudiaeth neu yng Ngogledd Ynys Môn hyd yn oed.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.25 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach ar ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.26 Mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer ar allfudo wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Fodd bynnag, mae effeithiau lleol ar allfudo posibl o'r ADL yn cael eu hystyried yma o ran effeithiau uniongyrchol a allai effeithio ar amwynder amgylcheddol yr ADL, fel ansawdd yr aer, sŵn, ac effeithiau o ran y dirwedd a materion gweledol. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hasesu'n fanylach yng nghwestiwn 6.

C.4.27 Mae disgwyl i Gemaes, Tregele a chymunedau eraill yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd weld newidiadau bach a fyddai'n effeithio ar yr amwynder amgylcheddol.

C.4.28 Mae ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd eisoes yn gartref i'r Orsaf Bŵer Bresennol, sydd wedi bod yn cynhyrchu trydan ers dechrau'r 1970au. Felly,

nid yw Gorsaf Bŵer yn gysyniad newydd i drigolion ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ond cydnabyddir bod graddfa'r Orsaf Bŵer yn fwy na'r Orsaf Bŵer Bresennol. Erbyn y cam gweithredu, ni fyddai presenoldeb Gorsaf Bŵer yn rhywbeth newydd.

C.4.29 Ystyrir ei bod yn annhebygol felly y bydd allfudo'n digwydd o ganlyniad i bresenoldeb yr Orsaf Bŵer yn ystod y cam gweithredu. Fodd bynnag, pe byddai poblogaethau lleol (sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg) yn allfudo, gallai hynny arwain at golli siaradwyr Cymraeg yn barhaol o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Petai hyn yn digwydd, gallai arwain at newid yn y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny (lle mae 61.3% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.30 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.31 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach ac effaith niweidiol fach iawn ar allfudo yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig, yn y drefn honno, yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi mesurau lliniaru arfaethedig a fyddai'n mynd ati i gyfyngu ar yr effeithiau hyn. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler Tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng Nghyfrol B yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar allfudo (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22 a 23). Ar ben hynny, mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler Tabl B-2 o dan Gwestiwn 3 yng Nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar allfudo o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd (sef mesurau 2, 3, 4, 5, 6, 8, 11, 12, 14 a 15 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C4. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - tensiynau cymdeithasol/chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.32 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau Cymraeg ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn 2011.

C.4.33 Mae poblogaeth oed gweithio Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn is (60%) nag y mae ar Ynys Môn (61%) ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn uwch nag y mae ar Ynys Môn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.34 Byddai'r effeithiau ar strwythur oed y boblogaeth yn codi'n bennaf o ganlyniad i'r gwaith o adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, yn cynnwys y 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae effeithiau'r gweithwyr hyn ar newid mewn poblogaeth wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.35 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.36 Mae effeithiau gweithlu'r cam gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Orsaf Bŵer ar strwythur oed y boblogaeth wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.37 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.38 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar strwythur oed y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r Orsaf Bŵer, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud â'r mewnlifiad o 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle yn ystod y cam adeiladu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ansawdd bywyd

C5. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

- gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.39 Mae dadansoddiad manwl o'r waelodlin o ran iechyd wedi'i ddarparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd cyffredinol a'r iaith Gymraeg ar gyfer y wardiau ar draws ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.40 Yn 2011, roedd 75.5% o boblogaeth y wardiau ar draws ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn credu bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn'. O blith y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (tair oed neu hŷn), roedd 81.0% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', ac roedd 13.5% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'weddol' a 5.5% wedi dweud ei fod yn 'wael neu'n wael iawn'.

C.4.41 Mae ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'i lleoli ar draws yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is canlynol: Llanbadrig, Mechell, Llanfaethlu, Llannerch-y-medd, Amlwch Wledig a Llaneilian. Ym mharth iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanbadrig, Mechell, Llanfechell, Llannerch-y-medd, Amlwch Wledig a Llaneilian ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.42 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod Dogfen wedi'i Chymeradwyo 8.19) yn ystyried effeithiau posibl cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar iechyd y boblogaeth bresennol ger yr Ardal honno. Mae'r effeithiau ar iechyd a nodwyd yn cynnwys:

- llygrydd aer, allyriadau sŵn a llwch yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- presenoldeb gweithwyr adeiladu ger Cemaes pan na fyddant yn gweithio, a hynny'n cyfrannu at greu cymunedau llai iach neu lai diogel, neu'n cyfrannu at newidiadau mewn rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliant;
- newidiadau diwylliannol, economaidd a gweledol i hunaniaeth a chyd-destun lleol (gan gynnwys goleuadau yn ystod y nos);
- newidiadau o ran gweithgareddau corfforol oherwydd effeithiau niweidiol a dargyfeiriadau (ee llwybrau cerdded a beicio) ac effeithiau manteisiol cyfleoedd eraill a ddarperir;
- elfennau sy'n achosi straen iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â sut mae'r peryglon a'r disgwyliadau a geir yn sgil byw'n agos i Orsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cael eu deall.

C.4.43 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod Dogfen wedi'i Chymeradwyo 8.19) yn dod i'r casgliad fod yr effaith weddilliol gyffredinol ar iechyd y boblogaeth yn cael ei hystyried yn effaith fach iawn o ran y boblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Fodd bynnag, o ran grwpiau agored i niwed perthnasol, gallai'r cyfuniad o fod yn

agos i niwed amgylcheddol a chymdeithasol, a bod yn fwy sensitif i newidiadau o'r fath, arwain at effaith niweidiol ganolig. Ac ystyried y gallai'r cam adeiladu gael effaith niweidiol ar iechyd rhywfaint o boblogaeth yr ADL, a bod 61.3% o boblogaeth y wardiau ar draws ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, gallai hyn gael effaith niweidiol ar y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn y wardiau hyn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.44 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.45 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn ystyried effeithiau posibl cam gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar iechyd y boblogaeth bresennol ger yr Ardal honno. Nodir effaith niwtral gyffredinol yn ystod y cam gweithredu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.46 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.47 Mae mesurau lliniaru a gwella yn cael eu cyflwyno yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19). Nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant.

C6. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.48 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ar draws ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanbadrig, Mechell, Llanfaethlu, Llannerch-y-medd, Amlwch Wledig a Llaneilian ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.49 Mae potensial i'r gwaith o adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at ddirywiad yn ansawdd amgylcheddol a chyffredinol yr ADL. Mae'n bosibl y bydd dirywiad yn ansawdd amgylcheddol ac amwynder cyffredinol y

lleoliad hwn yn arwain at rywfaint o allfudo ymysg yr aelwydydd hynny sydd â'r gallu economaidd i wneud hynny. Mae'r effaith hon felly wedi'i chysylltu â'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 3.

C.4.50 Yn ystod cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, disgwylir i'r ADL fod yn lle llai dymunol i fyw ynddi o ganlyniad i'r canlynol:

- cyfarpar adeiladu amlwg yn weledol;
- newid i'r golau min nos mewn lleoliadau ger yr Orsaf Bŵer, fel Tregele a Chemaes;
- mwy o sŵn a dirgryndod wrth y derbynyddion, a hynny'n amrywio yn ôl math y gweithgaredd a'r lleoliad yng nghyswllt y derbynyddion;
- gostyngiad yn ansawdd yr aer.

C.4.51 Mae hyn yn debygol o effeithio ar bobl benodol yn y boblogaeth bresennol fwy nag eraill, fel grwpiau heb fawr o allu i symud, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, gofalwyr neu bobl ar incwm isel.

C.4.52 Gallai'r ffaith fod yr ADL yn lle llai dymunol i fyw ynddi arwain at ddiffyg cydbwysedd o ran grwpiau cymdeithasol, oherwydd bod y teuluoedd hynny sy'n gallu fforddio gwario mwy yn gallu symud o'r ardal. Gallai hyn arwain at grynodiad uwch o aelwydydd incwm isel yn yr ADL.

C.4.53 Yn 2011, roedd 52.4% o boblogaeth ward Llanbadrig (690 o bobl) a 61.1% o ward Mechell (918 o bobl) (dwy ward sydd o fewn yr ADL yn gyfan gwbl) yn gallu siarad Cymraeg. Felly, petai'r boblogaeth bresennol yn allfudo o'r wardiau hynny o ganlyniad i ddirywiad yn amwynder yr ADL, gallai hynny arwain at gwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn petai trigolion yn penderfynu gadael yr ardal, a fyddai o bosibl yn effeithio ar y cydbwysedd cyffredinol rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

C.4.54 Felly mae angen mesurau i liniaru'r effeithiau ar wardiau'r ADL (wardiau Llanbadrig a Mechell yn arbennig, ond nid y rhain yn unig) er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn y cymunedau hynny.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.55 Felly, mae disgwyl i'r gweithgareddau yn ystod cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at ddirywiad yn ansawdd amgylcheddol yr ADL, a allai arwain at bobl leol yn gadael yr ardal, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Petai pobl yn allfudo o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr amwynder amgylcheddol, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn yr ADL, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell.

C.4.56 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.57 Oherwydd natur a graddfa'r Orsaf Bŵer, mae'n bosibl y gallai'r gwaith o'i gweithredu arwain at ddirywiad yn ansawdd amwynder amgylcheddol yr ardal yn yr ADL. Yn ystod y cam gweithredu, gallai'r newidiadau i sŵn, dirgryndod,

golau ac amwynder gweledol sy'n gysylltiedig â phresenoldeb yr Orsaf Bŵer wneud yr ADL yn lle llai dymunol i fyw ynddi. Ar ôl rhoi mesurau lliniaru ar waith, ni ddisgwylir i'r cam gweithredu achosi effeithiau sŵn sylweddol mewn derbynyddion sensitif lleol. Disgwylir y bydd rhai newidiadau i'r golau min nos ond dim ond asesiad lefel uchel yw hyn ar hyn o bryd. Byddai presenoldeb yr Orsaf Bŵer hefyd yn nodwedd yn y dirwedd, ac yn amlwg iawn mewn rhai golygfeydd agos.

C.4.58 Fodd bynnag, mae'r ADL eisoes yn gartref i'r Orsaf Bŵer Bresennol, sydd wedi bod yn cynhyrchu trydan ers dechrau'r 1970au. Felly, nid yw Gorsaf Bŵer yn gysyniad newydd i drigolion yr ADL, ond cydnabyddir bod graddfa'r Orsaf Bŵer yn fwy na'r Orsaf Bŵer Bresennol. Erbyn y cam gweithredu, ni fyddai presenoldeb Gorsaf Bŵer yn rhywbeth newydd.

C.4.59 Ystyrir ei bod yn annhebygol felly y bydd allfudo'n digwydd o ganlyniad i bresenoldeb yr Orsaf Bŵer yn ystod y cam gweithredu. Fodd bynnag, pe byddai poblogaethau lleol (sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg) yn allfudo, gallai hynny arwain at golli siaradwyr Cymraeg yn barhaol o'r ADL.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.60 Felly, gallai'r cam gweithredu effeithio ar ansawdd amgylcheddol amwynder yr ADL, gan ystyried sŵn, dirgryndod, golau ac effeithiau gweledol. Er y gallai hyn wneud yr ADL yn lle llai dymunol i fyw, nid yw'r cysyniad o Orsaf Bŵer yn un newydd o ystyried presenoldeb yr Orsaf Bŵer Bresennol ers dechrau'r 1970au. Byddai'r Orsaf Bŵer hefyd yn gysyniad cyfarwydd yn yr ADL yn dilyn y cam adeiladu. Gan fod allfudo'n annhebygol o ddigwydd yn ystod y cam gweithredu, ni ddisgwylir y bydd effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

C.4.61 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.62 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Er bod mesurau lliniaru creiddiol ac ymarfer da eisoes wedi'u cynnig i liniaru'r effeithiau posibl hyn, mae Horizon yn cynnig sefydlu 'Cronfa Gymunedol' i liniaru ymhellach effeithiau cymunedol penodol sy'n gysylltiedig â cham adeiladu'r Orsaf Bŵer. Byddai cronfa o'r fath yn cael ei chynllunio i gefnogi cymunedau gerllaw yr effeithir arnynt er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder, yn enwedig y pryderon hynny sy'n deillio o effeithiau ar y cyd (hy rhai a godir o ganlyniad i sŵn, aer, traffig a gweithwyr yn ystod y cam adeiladu). Mae Pennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (effeithiau traffig o ran sŵn a dirgryndod) (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) yn nodi rhagor o fesurau lliniaru i fynd i'r afael ag effeithiau ar amwynder yr ardal leol. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant.

C7. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.63 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar Ynys Môn.

C.4.64 Yn ôl Police.uk, adroddwyd 111 o droseddau yn wardiau Llanbadrig a Mechell[34] yn 2016. Roedd y troseddau a adroddwyd yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, dwyn beics, bwrgleriaeth, difrod troseddol a chynnau tân yn fwriadol, bod ym meddiant arfau, trefn gyhoeddus, dwyn arall, lladrata, trosedd cerbydau, a thrais a throseddau rhyw[35].

C.4.65 Bu cwymp cynyddol sylweddol mewn cyfraddau troseddu rhwng 2001 a 2016, gyda chwymp o 49% mewn troseddau a adroddwyd yn ystod y cyfnod hwn[36].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.66 Gallai presenoldeb safle adeiladu mewn cymunedau gwledig gan mwyaf yn yr ADL arwain at bryderon ynglŷn â gweithgarwch troseddol ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae darpariaeth diogelwch ar gyfer datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael ei hystyried er mwyn rheoli'r perygl o ragor o weithgarwch troseddol.

C.4.67 Mae'r effeithiau posibl o ran troseddu yn fwy tebygol o fod yn rhai ymddangosiadol, yn hytrach nag yn seiliedig ar newidiadau go iawn mewn lefelau troseddu, o ystyried yr amrywiaeth o fesurau lliniaru diogelwch creiddiol a fyddai ar waith yn ystod y cam adeiladu. Mae bod ag ofn troseddu ei hun yn gallu achosi mwy o straen a phryder, a allai effeithio ar drigolion y cymunedau yn yr ADL.

C.4.68 O ran Campws y Safle, byddai hwn yn cael ei ddiogelu yn ôl mesurau diogelwch seilwaith hollbwysig sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth y DU. Byddai Campws y Safle wedi'i leoli yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ond nid yn y safle â thrwydded niwclear sy'n cael ei adeiladu. Byddai tîm diogelwch yn gwarchod Campws y Safle 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, gyda mynediad wedi'i reoli i gerddwyr a cherbydau. Byddai system teledu cylch cyfyng wedi'i darparu yng Nghampws y Safle ac mewn blociau llety. Bydd y safonau disgwyliedig a fydd yn berthnasol i holl weithluoedd adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd o ran eu hymddygiad pan fyddant wedi'u cyflogi yn cael

[34] Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn wardiau Llanbadrig a Mechell.

[35] Tabl D3-2 yng Nghyfrol D y Datganiad Amgylcheddol – D3 Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd – Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.3)

[36] Tabl D3-3 yng Nghyfrol D y Datganiad Amgylcheddol – D3 Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd – Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.3)

eu nodi yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5) (a fydd yn ddogfen ardystiedig, a bydd cydymffurfiad â'r Strategaeth yn cael ei sicrhau drwy Ofynion y DCO). Bydd yn nodi egwyddorion fel cod ymddygiad i weithwyr; a rhaglenni y bydd personél yn eu cyflawni (er enghraifft, cynefino a diwylliant).

C.4.69 Mae'r holl ystyriaethau dylunio hyn yn cyfrannu at leihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Felly, mae disgwyl i lefel go iawn y troseddau fod yn fach. Dros amser, efallai y bydd lefel ymddangosiadol y troseddau yng nghymunedau'r ADL mewn perthynas â datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn lleihau'n raddol, wrth i fesurau diogelwch a diogelwch y cyhoedd ddechrau cydio, gan felly leihau'r ofnau o ran troseddu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.70 Er bod disgwyl i lefel go iawn y troseddau a fyddai'n gysylltiedig â datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd fod yn fach oherwydd y mesurau diogelwch a fyddai ar waith, byddai disgwyl gweld ofn o droseddu ymysg cymunedau'r ADL. Gallai effaith o'r fath fynd yn groes i fuddiannau'r Gymraeg, sy'n ffynnu mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy.

C.4.71 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.72 Pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith fel Gorsaf Bŵer Niwclear weithredol, bydd yn dod o dan gyfrifoldeb ac awdurdodaeth yr Heddlu Niwclear Sifil, sef yr heddlu arbenigol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth plismona a diogelwch mewn ac yn agos i safleoedd niwclear yn y DU. Mae'r Heddlu Niwclear Sifil hefyd yn gyfrifol am ddiogelu deunyddiau niwclear sy'n cael eu cludo. Byddai'r Heddlu Niwclear Sifil, ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru, yn sicrhau diogelwch cyhoeddus ar gyfer y boblogaeth leol yn yr ADL, a ledled Ynys Môn a thu hwnt.

C.4.73 Byddai mwy o ddiogelwch yn y safle a ffens ffin ddiogel yn fesurau diogelwch safonol sy'n rhan o ddyluniad Safle'r Orsaf Bŵer a fyddai ar waith yn ystod y cam gweithredu, a fyddai'n sicrhau diogelwch y safle ac yn cyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd hefyd.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.74 O ganlyniad i'r cyfryw fesurau plismona a diogelwch a ddisgrifir yn yr asesiad uchod, mae disgwyl effeithiau uniongyrchol cyfyngedig o ran troseddu a/neu drais a diogelwch y cyhoedd yn yr ADL yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer.

C.4.75 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.76 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Er

bod mesurau lliniaru creiddiol ac ymarfer da eisoes wedi'u cynnig i liniaru'r effeithiau posibl hyn, byddai Horizon yn cynnig sefydlu 'Cronfa Gymunedol' i liniaru ymhellach effeithiau cymunedol penodol sy'n gysylltiedig â cham adeiladu'r Orsaf Bŵer. Byddai cronfa o'r fath yn cael ei chynllunio i gefnogi cymunedau gerllaw yr effeithir arnynt er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys ofn o droseddu yn ystod y cam adeiladu.

C.4.77 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler Tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng Nghyfrol B yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar droseddu/trais (sef mesurau 19 ac 20 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant).

Ffactorau economaidd

C8. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol;
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg;
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.78 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o nifer a chanran trigolion Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, a nifer y busnesau sydd wedi'u lleoli yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.79 Mae 24 o fusnesau wedi'u lleoli yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn cynnwys llety, tafarndai/bwytai, cigyddion, trwsio ceir, gwerthu/trwsio carafanau, siopau bwyd/caffis/llefydd bwyd parod, llefydd torri gwallt, siopau adwerthu a hwylus, a gorsaf betrol. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau hyn (19) wedi'u lleoli yng Nghemaes, y gymuned fwyaf yn yr ADL.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.80 Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar fusnesau a'r gadwyn gyflenwi i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Serch hynny, mae disgwyl i waith adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gyfrannu'n uniongyrchol at effeithiau manteisiol ar fusnesau lleol yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan eu bod yn agos i Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac oherwydd nifer y gweithwyr adeiladu a fydd yn bresennol yn Safle'r Orsaf Bŵer, a'r hyd at 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle.

C.4.81 Disgwylir y byddai busnesau lleol yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gweld effaith fanteisiol o ganlyniad i'r gwario ychwanegol. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai rhai gweithwyr adeiladu yn defnyddio

cyfleusterau a gwasanaethau allanol sydd wedi'u lleoli yng nghymunedau ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn lle'r rhai yng Nghampws y Safle. Mae hyn yn cael ei ystyried yn effaith fanteisiol i fusnesau lleol, y mae disgwyl iddynt gynnwys siaradwyr Cymraeg, gan gyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus. Mewn cymunedau Cymraeg fel yr ADL, mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant.

C.4.82 Y sail dros ddarparu cyfleusterau ar y safle yng Nghampws y Safle, fel caffi/siop goffi a siop hwylus, yw sicrhau bod dymuniadau ac anghenion masnachol y gweithwyr adeiladu yn cael eu bodloni, gan sicrhau hefyd nad oes effaith niweidiol ar boblogaeth ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd nac ar argaeledd siopau, busnesau a gwasanaethau masnachol yn sgil presenoldeb cynifer o weithwyr adeiladu.

C.4.83 O ran busnesau twristiaeth yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, canfu'r Arolwg Ymddygiad Ymwelwyr a gynhaliwyd gan Horizon yn 2015 bod bron i 90% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud na fyddai adeiladu'r Orsaf Bŵer newydd yn cael unrhyw effaith ar eu bwriad i ddychwelyd i Ynys Môn, a dim ond un o bob deg (9%) a ddywedodd y byddai'n eu hatal rhag dychwelyd i'r ynys.

C.4.84 Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai adeiladu'r Orsaf Bŵer arwain at ailddosbarthu ymwelwyr i ffwrdd o ogledd yr ynys, gan effeithio felly ar fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Y posibilrwydd hwn o ailddosbarthu ymwelwyr, o ganlyniad i newidiadau mewn amodau amgylcheddol (o ran ansawdd yr aer (llwch), sŵn a dirgryndod, a thraffig), a fyddai'n gallu arwain at effeithiau lleol ar fusnesau.

C.4.85 Gallai hynny, yn ei dro, arwain at lai o wario lleol mewn rhai mathau o fusnesau, yn enwedig y rheini na fyddent ar eu hennill yn sgil effeithiau 'goferu' ('spill-over') y gweithwyr a fydd wedi'u lleoli yng Nghampws y Safle, er enghraifft darparwyr llety lleol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod disgwyl i ddarparwyr llety lleol fod ar eu hennill yn sylweddol yn sgil y galw uwch a mwy cyson am welyau. Mae hyn yn debygol o wrthbwyso'r posibilrwydd o golli ymwelwyr o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn rhannol o leiaf.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.86 Mae disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys y rheini sy'n aros yng Nghampws y Safle, arwain at wario ychwanegol mewn busnesau lleol yn yr ADL, a fyddai'n effaith fanteisiol, gan gyfrannu at gymuned ac economi wledig gynaliadwy a ffyniannus. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod hi'n bosibl y bydd rhai busnesau twristiaeth yn gweld rhai effeithiau niweidiol oherwydd y posibilrwydd o ailddosbarthu ymwelwyr o ogledd Ynys Môn, o ganlyniad i newidiadau i ansawdd amgylcheddol yr amwynder. Fodd bynnag, byddai rhai busnesau twristiaeth yn gweld newid yn y ffynhonnell o wariant (o ymwelwyr i weithwyr adeiladu).

C.4.87 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.88 Mae disgwyl i fusnesau lleol yn yr ADL elwa o wario ychwanegol yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer o ganlyniad i weithgarwch economaidd y gweithwyr cam gweithredu. Mae'r effeithiau manteisiol i fusnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C.4.89 Mae gan yr effeithiau amgylcheddol a fyddai'n effeithio ar amwynder yr ADL (gweler cwestiwn 6) y potensial i effeithio ar nifer yr ymwelwyr a allai ymweld â gogledd Ynys Môn hefyd; fodd bynnag, mae'r ADL wedi bod yn gartref i'r Orsaf Bŵer Bresennol weithredol ers yr 1970au, a gan fod diwydiant twristiaeth Ynys Môn yn cyfrannu tua £279 miliwn at yr economi leol, mae hyn yn awgrymu y byddai effeithiau posibl gweithredu'r Orsaf Bŵer ar fusnesau twristiaeth yn rhai bach.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.90 Disgwylir i weithredu'r Orsaf Bŵer arwain at wariant ychwanegol i fusnesau yn yr ADL. Mae disgwyl y bydd y rhain yn cynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol y cam gweithredu (60 mlynedd).

C.4.91 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.92 Mae'r asesiad yn nodi y byddai datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar fusnesau lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith fanteisiol fach iawn yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler Tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng Nghyfrol B yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 10). Ar ben hynny, mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler Tabl B-2 o dan Gwestiwn 3 yng Nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 11 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C9: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd fod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy arwain at gau busnesau lleol)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.93 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, patrymau cymudo, gweithgarwch economaidd, a'r Gymraeg a'r gweithle ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.94 Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae amserlen adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd (gweler Ffigur C-2) yn nodi y bydd y gweithwyr a fydd eu hangen ar gyfer adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gorgyffwrdd â cham adeiladu Datblygiadau Cysylltiedig eraill sy'n cael eu hystyried yn rhan o Brosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Ganolfan i Ymwelwyr ac i'r Cyfryngau. Mae'r rhain wedi'u hasesu yng nghyfrol H, effeithiau cronnus o fewn y prosiect.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.95 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.96 Fel y nodir yn yr asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu uchod, mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.97 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.98 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar gyflogaeth a swyddi lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar swyddi lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4, cyfrol B yr AEIG hwn.

C10: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.99 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, llifoedd mudo a gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.100 Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer a gweithredu Campws y Safle, ar gyflogaeth a swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a Phrif Ardal yr Astudiaeth. Ni fyddai disgwyl effeithiau uniongyrchol ar amrywiaeth economaidd yn sgil adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd; felly, nid oes asesiad pellach o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'i ddarparu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.101 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.102 Mae effeithiau gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, ar gyflogaeth a swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a Phrif Ardal yr Astudiaeth. Nid oes disgwyl effeithiau uniongyrchol ar amrywiaeth economaidd yn sgil gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd; felly, nid oes asesiad pellach o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'i ddarparu.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.103 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.104 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar gyflogaeth a swyddi lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod

angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar amrywiaeth economaidd yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4, cyfrol B yr AEIG hwn.

C11: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.105 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogau wythnosol ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.106 Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.107 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.108 Fel y nodir yn yr asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu uchod, mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.109 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.110 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar lefel cyflogau lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar lefel cyflogau lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4, cyfrol B yr AEIG hwn.

C12: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- atal pobl leol Gymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal/gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.111 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phrisiau tai, tai fforddiadwy, tueddiadau mudo a chyflogaeth y farchnad lafur ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

C.4.112 Yn 2012, gwelwyd amrywiaeth yn y cymarebau rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Gwelwyd cymarebau uchel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Mechell, Amlwch Wledig (rhwng 7.1 a 10.2) a Llanbadrig (rhwng 6.3 a 7.0); a gwelwyd cymarebau is rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Llaneilian (rhwng 5.7 a 6.2), Llanfaethlu a Llannerch-y-medd (rhwng 3.5 a 4.9) [RD38].

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.113 Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, ar y galw am lety ac, felly, cost tai, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C.4.114 Gallai cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd effeithio'n niweidiol ar werth tai yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae Horizon ar hyn o bryd yn gweithredu Cynllun Cefnogaeth Pris Eiddo, sef cynllun cefnogaeth gwirfoddol i'r trigolion cymwys sy'n byw yn agos i Safle'r Orsaf Bŵer (o fewn radiws o 1km) ac sy'n dymuno symud a gwerthu eu cartref ond sy'n cael anawsterau oherwydd nad ydynt yn gallu cael pris marchnad rhesymol am werthu eu heiddo o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd.

C.4.115 Mae'r Cynllun yn defnyddio cynseiliau perthnasol o brosiectau tebyg eraill ac yn cynnig y gwahaniaeth rhwng gwerth eiddo trigolion cymwys sy'n dymuno gwerthu eu heiddo preswyl gydag a heb Prosiect DCO Wylfa Newydd (hy y golled o ran gwerth), a swm o £5,000 i helpu gyda chostau symud a ffioedd proffesiynol (gan gynnwys costau prisio) a ysgwyddir gan yr ymgeisydd.

C.4.116 Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod y boblogaeth leol o fewn radiws o 1km i Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, sy'n dymuno symud i fyw yn gallu gwneud hynny heb fod ar eu colled yn ariannol. Mae disgwyl i'r cynllun hwn fod ar waith tan ddiwedd cam adeiladu'r Orsaf Bŵer. Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar allfudo o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi'u hasesu fel rhan o gwestiwn 3.

C.4.117 Ni fyddai disgwyl i gam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd orfodi'r boblogaeth leol (y mae 57.1% ohoni'n siaradwyr Cymraeg) i adael ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae effeithiau posibl adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, ar gynyddu'r galw am lety, gan

effeithio felly ar gost llety/tai, wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan (gweler cyfrol B).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.118 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.119 Fel y nodir yn yr asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu uchod, mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer ar y galw am lety ac, felly, cost tai, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.120 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.121 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar y galw am lety ac, felly, cost tai yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar dai a llety yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4, cyfrol B yr AEIG hwn.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13. A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.122 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg a'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

C.4.123 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

C.4.124 Mae pedair ysgol gynradd yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, sef Ysgol Gynradd Cemaes, Ysgol Gymuned Llanfechell, Ysgol Gymuned Carreglefn ac Ysgol Gymuned Cylch y Garn.

C.4.125 Caeodd Ysgol Gymuned Cylch y Garn ym mis Gorffennaf 2017, ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol ardal wedi'i hadeiladu o'r newydd yn Llanfaethlu. Agorodd yr ysgol newydd, o'r enw Ysgol Rhyd y Llan, ym mis Medi 2017.

C.4.126 Yr ysgolion uwchradd agosaf i Ardal Datblygu Wylfa Newydd yw Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.127 Mae effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer a'r gweithlu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth, gan arwain felly at alw ychwanegol am leoedd ysgol a chyflwyno plant di-Gymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C.4.128 Byddai'r holl weithwyr adeiladu a fyddai'n aros yng Nghampws y Safle yn weithwyr sengl ac felly ni fyddai dim galw am leoedd ysgol ac ni fyddai hyn yn cyflwyno plant di-Gymraeg i'r ysgolion sydd agosaf i Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn yr ADL.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.129 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.130 Fel y nodir yn yr asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu uchod, mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer a'r gweithlu cam gweithredu a'u teuluoedd ar y galw am leoedd ysgol a chyflwyno plant di-Gymraeg i ysgolion wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.131 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.132 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar ysgolion lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar ysgolion lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C14: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.133 Yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, mae meddygfa, deintyddfa a fferyllfa, i gyd yng Nghemaes, llai na 1km i'r dwyrain.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.134 Mae effeithiau cam adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer a'r gweithlu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth, a fyddai felly angen darpariaeth gofal iechyd, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C.4.135 Byddai'r holl weithwyr adeiladu a fyddai'n byw yng Nghampws y Safle yn gallu cael gafael ar ofal iechyd galwedigaethol cynhwysfawr, yn ogystal â darpariaeth gofal sylfaenol yng Nghampws y Safle, a chaiff effeithiau'r gweithwyr adeiladu hyn na fyddant yn byw gartref y bydd angen cyfleusterau gofal iechyd arnynt eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.136 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.137 Fel y nodir yn yr asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu uchod, mae effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer a'r gweithlu cam gweithredu a'u teuluoedd ar y galw am ddarpariaeth gofal iechyd wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.138 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.139 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar ddarpariaeth gofal iechyd yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar ddarpariaeth gofal iechyd yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C15: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, ee yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.140 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarperir yng nghwestiynau 9 ac 14 hefyd yn berthnasol wrth ystyried gwasanaethau lleol fel siopau, banciau, swyddfeydd post a chyfleusterau hamdden o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol mewn cysylltiad â'r gwasanaethau lleol sydd wedi'u lleoli ym mhrif aneddiadau ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.141 Yr aneddiadau agosaf i Ardal Datblygu Wylfa Newydd yw Cemaes a Thregele, sydd llai na 1km i ffwrdd. Mae rhai gwasanaethau lleol yng Nghemaes, gan gynnwys ysgol gynradd, meddygfa, llyfrgell ac ardaloedd adwerthu sy'n darparu gwasanaethau nid yn unig i drigolion lleol ond i gymunedau cyfagos yng ngogledd Ynys Môn hefyd.

C.4.142 Nid oes gan Dregele unrhyw wasanaethau cymunedol allweddol, gan ddibynnu'n hytrach ar Gemaes a'r pentrefi eraill ar hyd yr A5025 er mwyn cael gafael ar wasanaethau.

C.4.143 Mae pentrefi Llanfechell a Charreglefn tua 2km a 4km, yn y drefn honno, i'r de ddwyrain o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Pentrefi preswyl ydynt yn bennaf. Mae ystod gyfyngedig o gyfleusterau yn Llanfechell, gan gynnwys ysgolion, eglwysi a derbynyddion masnachol.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.144 Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar wasanaethau a chyfleusterau lleol wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan a'u cyflwyno yn B.4 yn yr AEIG hwn. Serch hynny, mae disgwyl i waith adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gyfrannu'n uniongyrchol at y defnydd o wasanaethau a chyfleusterau lleol yn yr ADL, oherwydd eu bod yn agos ac oherwydd nifer y gweithwyr adeiladu a fydd yn bresennol yn Safle'r Orsaf Bŵer, a'r hyd at 4,000 o weithwyr a fydd yn aros yng Nghampws y Safle.

C.4.145 Ystyrir bod cynnydd yn y galw am wasanaethau o'r fath yn fanteisiol i'r Gymraeg a'i diwylliant, gan ei fod yn cyfrannu at ddiogelu eu darpariaeth, a bod cyfleusterau o'r fath yn gweithredu fel mannau i'r gymdeithas ddod ynghyd, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd. Serch hynny, gallai nifer sylweddol y gweithwyr adeiladu a fyddai'n bresennol yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a fydd yn aros yn y safle, effeithio ar ddarparu gwasanaethau o'r fath i boblogaeth leol ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.146 Drwy ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau fel y rhai a restrir isod yng Nghampws y Safle, y nod yw sicrhau nad oes effaith niweidiol ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn sgil gormod o alw:

- arlwyo: ceginau/cyfleusterau bwyta, caffi/siop goffi;
- cymuned: siop hwylus, cyfleusterau golchi dillad, mannau addoli aml-ffydd;
- hamdden – dan do: bar ac ystafell gemau, ystafelloedd amlbwrpas i ddarparu lle ar gyfer hyd at 20 o bobl, man eistedd ac ysmygu yn yr awyr agored, campfa â phwysau a chyfarpar, peiriannau gwerthu;
- hamdden – awyr agored: dwy Ardal Chwarae Amlddefnydd, pêl-droed pump yr ochr, tenis, pêl-rwyd, badminton, pêl-foli â gwair synthetig (gyda marciau a rhwydi), mannau agored eraill gan gynnwys mannau hamdden/mannau anffurfiol i'r cyhoedd ddod ynghyd.

C.4.147 O ganlyniad i'r ddarpariaeth helaeth o wasanaethau a chyfleusterau yng Nghampws y Safle, ni fyddai'r gweithwyr adeiladu yn ddibynnol ar gyfleusterau o'r fath yn y gymuned; fodd bynnag, cydnabyddir y byddai rhai gweithwyr yn defnyddio cyfleusterau yn y gymuned yn ogystal â'r rheini yng Nghampws y Safle. Mae hyn yn naturiol, ac yn digwydd o ganlyniad i gynifer o weithwyr yn aros mewn un lleoliad.

C.4.148 Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod yn sylweddol. Fodd bynnag, byddai'n arwain at effaith fanteisiol o ran cyfrannu at ddiogelu'r gwasanaethau hyn yn yr ADL, gan gyfrannu at gymunedau gwledig cynaliadwy sydd wedi'u gwasanaethu'n dda gan gyfleusterau cymunedol. Byddai hyn o fudd i boblogaeth yr ADL, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu, a fydd yn ddi-Gymraeg gan mwyaf, i gymunedau'r ADL lle mae gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol o'r fath wedi'u lleoli wanhau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.149 Disgwylir y bydd presenoldeb hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle yn arwain at rywfaint o gynnydd yn y galw am gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau'r ADL. Fodd bynnag, ni fyddai gweithwyr yn dibynnu ar y gymuned i gael gafael ar wasanaethau o'r fath oherwydd byddai darpariaeth helaeth ar gael yng Nghampws y Safle. Byddai'r cynnydd yn y galw o fudd i gymunedau'r ADL oherwydd y byddai'n cyfrannu at ddiogelu cyfleusterau cymunedol a fyddai'n cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r effaith fanteisiol hon yn erbyn yr effaith niweidiol a fyddai'n codi o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu, a fyddai'n ddi-Gymraeg yn bennaf, mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, a allai wanhau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni.

C.4.150 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.1).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.151 Mae effeithiau gweithlu cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan ar lefel prif ardal yr astudiaeth ac maent i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C.4.152 Mae disgwyl gweld cynnydd yn y galw am gyfleusterau cymunedol gan weithwyr cam gweithredu yn ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Fodd bynnag, mae disgwyl i hyn fod yn fach iawn, gan fod disgwyl i 85% o'r gweithwyr cam gweithredu fod yn byw gartref. Byddai'r cynnydd bach hwn yn y galw yn para gydol cam gweithredu'r Orsaf Bŵer (60 mlynedd), a fyddai'n effaith hirdymor fanteisiol a fyddai'n cyfrannu at gymunedau gwledig cynaliadwy yn yr ADL, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd pob dydd.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.153 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.154 Mae'r asesiad uchod yn nodi effaith fanteisiol fach iawn ar wasanaethau lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar wasanaethau lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- fynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.155 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymunedau Cymraeg eu hiaith wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.156 Mae effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd a'i weithlu adeiladu (gan gynnwys eu dibynyddion) ar densiynau cymdeithasol, gwrthdaro a rhaniadau yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth wedi'u hasesu ar lefel prosiect cyfan ac maent i'w gweld yn adran B.4.

C.4.157 Gan y byddai hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn aros yng Nghampws y Safle, mae'n naturiol disgwyl y bydd rhywfaint o ryngweithio rhwng y gweithwyr adeiladu a phoblogaeth yr ADL gan ei bod hi'n debygol y bydd rhai gweithwyr yn defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol (fel tafarndai, siopau, llyfrgelloedd ayb) sydd wedi'u lleoli yn y gymuned.

C.4.158 Fel y cyflwynir yng nghwestiwn 16 yn adran B.4, mae canlyniadau'r Arolwg Cymunedol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd (cyfrol Q yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - atodiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – canlyniadau'r Arolwg Cymunedol) (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn awgrymu bod teimlad cryf o gydlyniant cymunedol ar Ynys Môn, a bod rhwydweithiau cymdeithasol cryf yno, gyda chanran uwch o ymatebwyr yn credu bod pobl yn cyd-dynnu'n dda iawn yng Nghemaes (70%), o gymharu ag Amlwch (61%), Caergybi (59%) ac ardaloedd eraill ar Ynys Môn (48%). Gellid ystyried bod hyn yn gwneud poblogaeth yr ADL (sy'n cynnwys tref Cemaes) yn fwy gwydn i newidiadau i'r gymuned, sy'n cynnwys cyflwyno hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu a fydd yn aros yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.159 Roedd yr arolwg cymunedol hefyd yn ystyried sut gallai'r cydlyniant cymunedol presennol ar Ynys Môn newid o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) yn credu y byddai pobl leol ar Ynys Môn yn cyd-dynnu â'r gweithwyr adeiladu, gan awgrymu ychydig iawn o effaith ar gydlyniant cymunedol, tensiwn cymdeithasol neu wrthdaro. Nid oedd yr amrywiadau yn y canlyniadau rhwng rhanbarthau yn ystadegol arwyddocaol; fodd bynnag, roedd llai o bobl yng Nghemaes (51%) yn cytuno y byddai pobl yn cyd-dynnu â'r gweithwyr adeiladu, o gymharu â phobl yn Amlwch (73%), Caergybi (71%) ac ardaloedd eraill ar Ynys Môn (69%). Roedd 20% o'r ymatebwyr yn amwys neu'n ansicr. Mae hyn yn awgrymu pryder posibl ymysg y boblogaeth bresennol ynglŷn â'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref i gymunedau prif ardal yr astudiaeth, yn enwedig y cymunedau sy'n agos i Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at rywfaint o densiwn cymdeithasol/gwrthdaro rhwng trigolion ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref.

C.4.160 Mae mesurau lliniaru'n cael eu cynnig er mwyn lleddfu'r pryderon posibl hynny, a helpu gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i fwrw gwreiddiau yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth, lle mae'r ffordd Gymreig o fyw, yr iaith Gymraeg, a diwylliant Cymraeg yn rhan annatod ohonynt.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.161 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.162 Mae effeithiau cam gweithredu'r Orsaf Bŵer ar densiynau cymdeithasol/gwrthdaro/rhaniadau wedi'u hasesu ar lefel prosiect cyfan yn hytrach na'r ADL gan nad oes disgwyl i unrhyw grynodiad o weithwyr y cam gweithredu fod yn yr ADL. Caiff hyn ei gyflwyno yn adran B.4.

Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.163 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.164 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod cam gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ar densiynau cymdeithasol/gwrthdaro/rhaniadau. Ac ystyried yr effaith niweidiol yn ystod y cam adeiladu, mae mesurau lliniaru'n cael eu cynnig.

C.4.165 Mae mesurau lliniaru'n cael eu cynnig er mwyn lleddfu'r pryderon posibl hynny, a helpu gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd i fwrw gwreiddiau yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth, lle mae'r ffordd Gymreig o fyw, yr iaith Gymraeg, a diwylliant Cymraeg yn rhan annatod ohonynt.

C.4.166 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi mesurau lliniaru a gwella arfaethedig a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r effeithiau hyn sydd wedi cael eu nodi. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a'r gweithlu; plant, pobl ifanc a theuluoedd; a'r gymuned a gwasanaethau lleol. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar densiynau cymdeithasol a gwrthdaro (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22 a 23). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C17: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal; neu
- arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg?

- arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.167 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.168 Fel y nodir yng nghwestiwn 17, a gyflwynir yn adran B.4, mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Felly, gall effeithiau ar yr iaith Gymraeg effeithio ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg hefyd.

C.4.169 Felly, mae cysylltiad annatod rhwng yr effeithiau ar ddiwylliant y Gymraeg ac effeithiau posibl datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar y boblogaeth, tai, cyflogaeth, ysgolion a chydlyniant cymdeithasol. Mae effeithiau posibl pob pwnc yn cael eu trafod fel rhan o gwestiynau 1, 2, 3, 9, 12, 13 ac 16 yn y drefn honno. Mae'r effeithiau a nodwyd fel rhan o'r asesiadau hynny yn berthnasol i'r effeithiau tebygol ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg hefyd.

C.4.170 Fel y nodir yng nghwestiynau 1, 2 a 3, mae'r effeithiau sy'n ymwneud â newidiadau mewn poblogaeth o ganlyniad i weithlu adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys y rheini a fydd yn aros yng Nghampws y Safle, wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan (a gyflwynir yn adran B.4). Fodd bynnag, mae effeithiau'r gweithwyr adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'u heffeithiau ar gymunedau'r ADL wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn.

C.4.171 Felly, er bod y posibilrwydd y bydd traddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn cael eu gwanhau yn sgil gweithwyr adeiladu'n mewnfudo i'r ADL yn cael ei asesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan, mae'n berthnasol ystyried yr effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg a allai ddeillio o weithwyr adeiladu yn ymwneud â thrigolion cymunedau'r ADL, sef Tregele, Cemaes a Charreglefn, yn y gymuned. Mae posibilrwydd y bydd presenoldeb gweithwyr adeiladu yn y cymunedau hynny, yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac yn ymwneud â'r gymuned (gan gynnwys ymuno â grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd) yn gwanhau ac yn lleihau amlygrwydd traddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

C.4.172 Mae rhwydweithiau cymdeithasol a grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn yr ADL (fel y rheini ar draws prif ardal yr astudiaeth) yn cefnogi traddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn gryf, ac yn cyfrannu atynt, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r posibilrwydd y bydd gweithwyr adeiladu sy'n aros yng Nghampws y Safle yn ymuno â grwpiau o'r fath ac yn cymryd rhan ynddynt yn cael ei drafod yng nghwestiwn 18.

C.4.173 Byddai gwaith adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd y gweithgareddau a fyddai'n rhan o'r gwaith, o bosibl hefyd yn effeithio ar y ddealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant y Gymraeg oherwydd effeithiau uniongyrchol ar olion archaeolegol, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol. Mae'r rhain wedi'u hasesu'n fanwl ym mhennod D11 (treftadaeth ddiwylliannol) y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.11). Byddai posibilrwydd o effeithiau niweidiol o ran y ddealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

C.4.174 Agwedd arall ar y dirwedd hanesyddol yw enwau lleoedd hanesyddol. Mae'r rhain yn rhoi syniad o sut roedd pobl yn rhyngweithio â'u tirwedd a'u barn amdani, ac yn gallu darparu gwybodaeth am dopograffeg, hen ddefnydd a swyddogaeth y tir, digwyddiadau blaenorol, a chysylltiadau hanesyddol eraill ac esblygiad ieithyddol.

C.4.175 Mae gan enwau lleoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gysylltiadau topograffigol neu maent yn disgrifio nodweddion y dirwedd, fel Pen-yr-allt neu Penrhyn. Hefyd, maent yn gysylltiedig â phobl, er enghraifft Tyddyn-Goronwy, neu'n gysylltiedig â swyddogaeth, fel Ysgubor Ddegwm. Gyda rhai enwau lleoedd, er bod yr enw wedi'i warchod yn y dirwedd, fel Porth Wnal, byddai unrhyw gysylltiadau wedi mynd yn angof neu wedi diflannu.

C.4.176 Mae mesurau lliniaru a gwella ychwanegol yn cael eu cynnig ym mhennod D11 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.11) sy'n cynnwys cofnodi adeiladau hanesyddol, arolygon ffotograffig i ddarparu cofnod gweledol parhaol o adeiladau hanesyddol, a byrddau dehongli ar y safle yng Ngerddi Cestyll.

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.177 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.178 Mae effeithiau cam gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys gweithredu'r Orsaf Bŵer, ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan, gan na fyddai unrhyw weithwyr yn aros yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ac felly ni fyddai disgwyl gweld unrhyw effeithiau uniongyrchol penodol i safle yn deillio o ganlyniad i'r gweithwyr adeiladu.

C.4.179 Mae effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg hefyd yn gallu digwydd o ganlyniad i effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hasesu'n fanylach ym mhennod D11 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.11).

C.4.180 Er mwyn lliniaru'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant drwy golli enwau lleoedd hanesyddol, a fyddai'n digwydd yn ystod y cam adeiladu, dylid eu hailddefnyddio, lle bo hynny'n ymarferol, i enwi lleoedd yn Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai hyn yn golygu bod yr enwau lleoedd yn dal i gael eu defnyddio.

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.181 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.182 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu, ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar draddodiadau a diwylliant, sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22 a 23. Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C18: A yw datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;
  - cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

C.4.183 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r gymuned wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

C.4.184 Wrth ymyl ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd, mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn y gymuned sy'n gallu hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig):

- Yr Urdd (a gynhelir ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd);
- Merched y Wawr (a gynhelir yn Amlwch, Cemaes, Llannerch-y-medd a Llanfechell);
- Clybiau ieuenctid (a gynhelir yng Nghemaes, Amlwch, Llannerch-y-medd a Llanfair-yng-Nghornwy);
- Cylchoedd Meithrin (a gynhelir yn Amlwch, Cemaes, Carreglefn, Llannerch-y-medd a Llanfechell);
- Cylchoedd Ti a Fi (a gynhelir yng Nghemaes a Charreglefn);
- Clybiau Ffermwyr Ifanc (a gynhelir ym Modedern a Rhosybol);

- Theatr Ieuenctid Môn (Grŵp theatr ieuenctid a gynhelir yn Amlwch);
- Cangen Gymraeg Sefydliad y Merched (a gynhelir yng Ngharreglefn);
- Cymdeithas yr Engan (a gynhelir yng Nghemaes).

Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

C.4.185 Mae nifer o grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn yr ADL sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y nodir yn y waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod). Mae grwpiau o'r fath yn hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae pob un o grwpiau oed poblogaeth yr ADL yn weithredol mewn grwpiau o'r fath, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

C.4.186 Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr asesiad sy'n cael ei gyflwyno yng nghwestiynau 15, 16 ac 17, byddai disgwyl y byddai rhai o'r gweithwyr adeiladu sy'n aros yng Nghampws y Safle yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yng nghymunedau'r ADL, yn ogystal â'r cyfleusterau a ddarperir yng Nghampws y Safle. Felly, byddai rhywfaint o ryngweithio cymunedol rhwng y gweithwyr a phoblogaeth y cymunedau hynny. Mae disgwyl hefyd y gallai rhai gweithwyr fynychu grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn yr ADL, oherwydd efallai y byddant yn rhannu diddordebau cyffredin ac er mwyn ceisio bwrw gwreiddiau yng nghymunedau cynhaliol yr ADL (fodd bynnag, i raddau llai na'r gweithwyr adeiladu a'u teuluoedd a fyddai'n byw yn y gymuned).

C.4.187 Er y gall hyn helpu gweithwyr adeiladu sy'n byw yng Nghampws y Safle i fwrw gwreiddiau yng nghymunedau cynhaliol yr ADL, fel y nodir ar lefel y prosiect cyfan, mae cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau o'r fath â photensial i effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg o fewn grwpiau ar y dechrau, gan y gallai arwain at grwpiau'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, er mwyn cynnwys y di-Gymraeg. Mae eisoes wedi cael ei gydnabod bod gallu ieithyddol grŵp o ffrindiau'n dylanwadu ar y defnydd o iaith [RD25].

C.4.188 Felly, byddai cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o newid y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y grwpiau hynny. Gallai rhaniad ieithyddol ddigwydd hefyd os bydd gweithwyr nad ydynt yn byw gartref yn sefydlu eu grwpiau gwirfoddol neu grwpiau diddordeb eu hunain. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig grwpiau cyfrwng Cymraeg. Mae effeithiau o'r fath wedi cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan (wedi'u cyflwyno yn adran B.4); fodd bynnag, o ganlyniad i'r crynodiad uwch o weithwyr adeiladu sy'n aros yng Nghampws y Safle, mae disgwyl effaith fwy ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yng nghymunedau'r ADL.

C.4.189 Gallai cyflwyno hyd yn oed nifer fach iawn o weithwyr adeiladu di-Gymraeg i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd newid y defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau o'r fath, gan y byddai iaith y grwpiau hynny'n newid er mwyn pobl ddi-Gymraeg.

C.4.190 Mae strategaethau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cydnabod rôl grwpiau cymunedol yn cynnal ac yn cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned. Mae'r 'gymuned' yn cael ei nodi fel maes strategol blaenoriaeth ym mhob un o'r strategaethau iaith Gymraeg. Mae cyflwyno siaradwyr di-Gymraeg i grwpiau cymunedol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg felly'n cyflwyno anhawster/rhwystr i'r grwpiau hynny, o ran croesawu siaradwyr di-Gymraeg a chynnal y defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau bob dydd hefyd.

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam adeiladu

C.4.191 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.4).

Effeithiau yn ystod y cam gweithredu

C.4.192 Mae effeithiau cam gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys gweithredu'r Orsaf Bŵer, ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan, gan na fyddai unrhyw weithwyr yn aros yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ac felly ni fyddai disgwyl gweld unrhyw effeithiau uniongyrchol penodol i safle.

Yr effeithiau cyffredinol yn ystod y cam gweithredu

C.4.193 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

C.4.194 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd, sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22 a 23. Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd

C.5.1 Mae crynodeb o effeithiau posibl Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y camau adeiladu a gweithredu wedi'i gyflwyno yn Nhabl C-1 a Thabl C-2 yn y drefn honno.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl C-1 Crynodeb o effeithiau Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	**Mewnfudo**	**Allfudo**	**Strwythur oed**	**Iechyd**	**Amwynder**	**Troseddau**	**Busnesau lleol**	**Swyddi lleol**	**Amrywiaeth economaidd**	**Incwm**	**Prisiau tai**	**Ysgolion**	**Gofal iechyd**	**Gwasanaethau lleol**	**Tensiynau / gwrthdaro**	**Diwylliant a thraddodiadau**	**Grwpiau ieuenctid / gwirfoddol / gweithgaredd**
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	-0.3	0	-0.2	-0.5	-0.3	+0.3	0	0	0	0	0	0	+0.2	-0.4	-0.3	-0.5
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach
	0.0	0.0	-0.3	0.0	-0.1	-0.3	-0.2	+0.2	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	-0.3	-0.3	-0.4
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niweidiol fach iawn -0.1				Effaith niweidiol fach iawn -0.2			Effaith niwtral 0.0					Effaith niwtral 0.0			Effaith niweidiol fach -0.3		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

Tabl C-2 Crynodeb o effeithiau Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam gweithredu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	**Mewnfudo**	**Allfudo**	**Strwythur oed**	**Iechyd**	**Amwynder**	**Troseddau**	**Busnesau lleol**	**Swyddi lleol**	**Amrywiaeth economaidd**	**Incwm**	**Prisiau tai**	**Ysgolion**	**Gofal iechyd**	**Gwasanaethau lleol**	**Tensiynau / gwrthdaro**	**Diwylliant a thraddodiadau**	**Grwpiau ieuenctid / gwirfoddol / gweithgaredd**
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	-0.1	0	0	-0.1	-0.1	+0.3	0	0	0	0	0	0	+0.3	0	0	0
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral
	0.0	0.0	-0.1	0.0	0.0	-0.1	-0.1	+0.2	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.2	0.0	0.0	0.0
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niwtral 0.0				Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0					Effaith fanteisiol fach iawn 0.1			Effaith niwtral 0.0		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

C.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd

C.6.1 Isod ceir crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n mynd ati i gynyddu effeithiau manteisiol datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ac i fynd i'r afael â'i heffeithiau niweidiol. Mae rhagor o wybodaeth a'r sail resymegol dros bob un o'r mesurau'n cael eu hamlinellu'n fanylach yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C.6.2 Bydd holl arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro Horizon yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ddwyieithog.

C.6.3 Byddai Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Byddai hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.

C.6.4 Byddai Horizon yn sicrhau y byddai contractwyr y Prosiect yn cael gwybodaeth am gontractwyr lleol. Byddai contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.

C.6.5 Byddai Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Byddai Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd. Byddai Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Byddai Horizon yn cadw'r cynllun 'bathodyn oren' ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chyflenwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith.

C.6.6 Byddai Horizon yn ariannu'r ddarpariaeth o wasanaethau iaith cymunedol i gefnogi pobl sy'n newydd i'r ardal i fwrw gwreiddiau a datblygu capasiti yn y gymuned leol.

C.6.7 Byddai Horizon yn ariannu datblygiad modiwl hyfforddiant a darpariaeth i helpu i ddatblygu ac annog arweinyddiaeth gymunedol a sgiliau integreiddio ieithyddol ymhlith y boblogaeth leol.

C.6.8 Byddai Horizon yn helpu i ariannu gwasanaeth cyfieithu cymunedol pan fo hynny'n berthnasol i weithwyr y Prosiect i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd i grwpiau cymunedol. Gallai hyn gynnwys ariannu i ddatblygu ymhellach ap cyfieithu ar y pryd 'O Glust i Glust' Menter Môn.

C.6.9 Byddai Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio (Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant) grŵp rhanddeiliaid allanol i fonitro sut caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni

C.7 Effeithiau gweddilliol

C.7.1 Mae Tabl C-3 isod yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

C.7.2 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod ac ar ôl adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn mesur effeithiau gweddilliol yr Ardal. Fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, byddai Horizon yn gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn golygu bod modd asesu'r effeithiau gweddilliol a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl C-3 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r AEIG (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
2	Mewnfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
3	Allfudo	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach iawn	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 21, 22, 23	Petai pobl yn allfudo, gallai arwain at golli siaradwyr Cymraeg yn barhaol o ADL Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Petai hyn yn digwydd, gallai arwain at newid yn y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny (lle mae 61.3% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd).
4	Strwythur oed	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
5	Iechyd pobl leol	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r AEIG (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
				(Cyfeirnod y Cais: 8.19)	
6	Amwynder yr ardal leol	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol fach iawn	Gweler pennod D5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.5)	Gweler pennod D5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.5)
7	Troseddau/trais	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	19, 20. Gweler hefyd Strategaeth Llety Gweithwyr Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.4).	O ganlyniad i'r cyfryw fesurau plismona a diogelwch a ddisgrifir yn yr asesiad uchod, mae disgwyl effeithiau uniongyrchol cyfyngedig o ran troseddu a/neu drais a diogelwch y cyhoedd yn yr ADL yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer.
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	10, 11. Gweler hefyd y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Byddai busnesau lleol yn elwa o'r cyfleoedd economaidd a gynigir gan Brosiect DCO Wylfa Newydd. Gall hyn arwain at effeithiau gweddilliol economaidd manteisiol yn y tymor hirach.
9	Swyddi lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
10	Amrywiaeth economaidd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r AEIG (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
11	Cyflogau	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
12	Prisiau tai	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
13	Ysgolion lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
15	Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Gallai fod rhai effeithiau manteisiol tymor hir i siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai o ganlyniad i'r cynnydd bach yn y boblogaeth a mwy o wario yn lleol.
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Effaith niweidiol fach	Niwtral	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r AEIG (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
17	Traddodiadau/ diwylliant	Effaith niweidiol fach	Niwtral	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Effaith niweidiol fach	Niwtral	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.

D Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol

D.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o'r effeithiau yn sgil adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r gyfrol hon yn eithrio effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rheini yn cael sylw yn yr asesiad sydd yng nghyfrol B yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn.

D.1.2 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhagweld yn ansoddol.

D.1.3 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.

D.1.4 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran D.4.


D.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

D.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn wedi'u cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-13 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

D.2.2 Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer asesu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cynnwys yr ADL, sy'n ymestyn i radiws o 1km o'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u lleoli yn ward Llanfaethlu (gweler Ffigur D-1).

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur D-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer



Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0

FFIGUR D-1

Allwedd

- Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu)
- Ardal Dylanwad Leol
- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

1.0	MAW 18	Cyflwyniad DCO	HNPWL	HNPWL	HNPWL	HNPWL
Diwyd.	Dyddiad	Diben yr adolygiad	Lluniodd	Gwiriodd	Diwygiodd	Cymeradwyodd

Cleient: HORIZON NUCLEAR POWER

Prosiect: ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG PROSIECT WYLFA NEWYDD

Teitl y Lluniad: ARDALOEDD ASTUDIAETH ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG CYFLEUSTERAU ODDI AR SAFLE'R ORSAF BŴER

Graddfa @ A3	1:15,000	DDIM I RADDFA
Rhif Jacobs	60PO8077	
Rhif y Cleient		

Rhif y Lluniad: 60PO8077_WLIA_DCO_D_01_WT

Ni ddylid defnyddio'r lluniad hwn yn ei gyfanrwydd nac yn rhannol at unrhyw ddiben arall ar wahân i'r diben a'r prosiect y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio ar eu cyfer fel sy'n cael ei ddiffinio yn y lluniad hwn. Edrychwch ar y contract i weld y telerau ac amodau llawn.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

D.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

D.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu yn seiliedig ar ddull Cynllun o'r Paramedr a Chynllun Gwaith, fel yr amlinellir ym mhennod E1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.5.1). Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r dull cynllun o'r paramedr yn ei gynnig, ac yn cynrychioli'r 'sefyllfa waethaf' o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Adeiladu

D.3.2 Yr amcangyfrif o'r gweithlu a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer sy'n sail i'r asesiad hwn, ac mae'r tybiaethau wedi cael eu gwneud yn y cyd-destun hwn.

D.3.3 Mae Ffigur C-2 yn dangos dadansoddiad blynyddol o'r amserlen adeiladu ar gyfer pob Datblygiad Cysylltiedig yng nghyswllt Prosiect DCO Wylfa Newydd ac, o ganlyniad, syniad o'r cyfnodau amser tebygol lle bydd angen niferoedd gweithlu sylweddol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Mae'n seiliedig ar dybiaeth o 63 mis rhwng y Gwaith Adeiladu Niwclear Cyntaf a'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Uned 1, gyda'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Uned 2 yn dilyn 18 mis yn ddiweddarach. Mae'r amserlen adeiladu yn dangos y byddai cyfran o'r gweithwyr cam gweithredu yn ymuno â'r gweithlu adeiladu ehangach yn ystod y cam adeiladu, gan ychwanegu at yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ar y cyd posibl.

D.3.4 Mae'r angen am tua 80 o weithwyr i adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn gorgyffwrdd â'r nifer uchaf o weithwyr adeiladu a fydd eu hangen ar gyfer datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd byddai'n rhaid datblygu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ochr yn ochr â'r gwaith adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r gweithwyr a fydd eu hangen ar gyfer adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u cynnwys yn y proffil cyffredinol o'r gweithlu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd (mae manylion hyn ac asesiad yng nghyfrol B). Disgwylir i'r gweithlu adeiladu gyrraedd tua 9,000 ar ei uchaf. Mae hyn oherwydd y byddai'n rhaid i gyfleusterau o'r fath fod yn weithredol pan fydd y gweithrediadau pŵer yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn dechrau.

Gweithredu

D.3.5 Pwrpas y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yw gwasanaethu'r gofynion o ran gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ddiogel ac yn gyfrifol. Er y bydd y cyfleuster yn cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol, dim ond gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol (sydd angen uchafswm o dri aelod o staff bob dydd) fyddai'n rhaid ei wneud er mwyn gweithredu'r cyfleuster o ddydd i ddydd (hy y tu allan i gyfnod argyfwng).

D.3.6 Mewn cyfnodau o argyfwng (hy gweithrediadau 24/7), disgwylir y byddai gweithlu cam gweithredu'r cyfleuster yn cynyddu er mwyn cynnwys personél rheoli digwyddiadau. Mae'r asesiad o gam gweithredu'r cyfleuster hwn yn cael ei wneud ar y sail fod gweithredu'r cyfleuster o ddydd i ddydd, y tu allan i

gyfnodau o argyfwng, yn fesur priodol o'r sefyllfa waethaf o ran yr effeithiau ar yr amgylchedd, gan fod disgwyl i natur a maint yr effeithiau niweidiol aros yr un fath er gwaethaf y cynnydd yn y nifer a gyflogir. Y dybiaeth hon yw sail yr asesiad hwn.

Datgomisiynu

D.3.7 Mae sail yr asesiad o gam datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'i phennu yn ôl y dybiaeth y bydd graddfa'r gweithgareddau a fydd eu hangen yn ystod y cam datgomisiynu yn llai o lawer nag ydynt yn ystod y cam adeiladu. Tybir hefyd mai dim ond tynnu adeiladau a deunydd arall fyddai'n rhan o'r gwaith datgomisiynu, gan adael y safle mewn cyflwr diogel a hwylus i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol/diwydiannol yn y dyfodol.

D.4 Asesiad o'r effeithiau

D.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn y 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol. Mae'r asesiad wedi'i osod yn yr un fformat ag y cyflwynwyd yn adran B.4 yr AEIG hwn; fodd bynnag, nid yw cefndir pob cwestiwn yn cael ei ailadrodd. O ganlyniad i raddfa a natur y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r effeithiau cyfyngedig ar y Gymraeg a'i diwylliant (gan fod yr asesiad yn ymwneud ag effeithiau penodol i safle), mae camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, yn hytrach na fel dau gynnig ar wahân.

Nodweddion y boblogaeth

C1. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);
- arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.2 Byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u lleoli yn ward Llanfaethlu.

D.4.3 Yn 2011, roedd cyfanswm trigolion Llanfaethlu yn 1,648 a oedd yn cyfrif am 2% o boblogaeth Ynys Môn. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 64.4% o boblogaeth (tair oed a hŷn) Llanfaethlu yn gallu siarad Cymraeg.

D.4.4 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer Llanfaethlu yn 2011.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.5 Mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, ynghyd ag ystyriaeth o ble byddai'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a fyddant yn weithwyr sy'n byw gartref sydd eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), neu'n weithwyr na fyddant yn byw gartref o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth). Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

D.4.6 Ni fyddai disgwyl i adeiladu na gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer eu hunain arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.7 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.8 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Atodiad B4-1 yr AEIG).

C2. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- a allai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg;
- a fydd y newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.9 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data poblogaeth a siaradwyr Cymraeg yn ward Llanfaethlu wedi'i nodi fel rhan o gwestiwn 1 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

D.4.10 Yn 2011, roedd 64.4% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Llanfaethlu wedi'u geni yng Nghymru. Roedd canran is (20.6%) o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Llanfaethlu a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â'r rheini a oedd wedi'u geni yng Nghymru (88.6%).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.11 Fel y nodir yng nghwestiwn 1, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, ynghyd ag ystyriaeth o ble mae'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a fyddant yn weithwyr sy'n byw gartref ai peidio), ac felly'r effeithiau cysylltiedig posibl ar fewnfudo. Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth drwy fewnfudo hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

D.4.12 Ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu na datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer eu hunain arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.13 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.14 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler atodiad B4-1 yr AEIG hwn).

C3. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- a yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;
- a fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.15 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran patrymau mudo ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2015.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.16 Ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu na datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer eu hunain arwain at allfudo o'r ADL. Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan ac maent i'w gweld yn adran B.4. Er y gallai adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar

Safle'r Orsaf Bŵer arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol yr ADL, mae newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn fach o ran yr aflonyddwch ar drigolion cyfagos (gweler cwestiwn 6 am asesiad manylach o'r newidiadau posibl i ansawdd amgylcheddol ac, felly, ansawdd bywyd yn yr ADL).

D.4.17 O ran gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, roedd y safle'n arfer cael ei ddefnyddio fel depo bysiau (defnydd diwydiannol/masnachol) yn cynnwys adeiladau diwydiannol, sydd bellach yn cael eu defnyddio fel garej a llefydd i barcio cerbydau, ac felly mae rhan fwyaf o'r safle yn dir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu. Nid oes disgwyl i weithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL, yn enwedig wrth ystyried defnydd blaenorol a chyfredol y safle.

D.4.18 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y boblogaeth bresennol ac felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.19 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.20 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C4. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - Tensiynau cymdeithasol/chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.21 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau Cymraeg ar gyfer Llanfaethlu yn 2011.

D.4.22 Mae poblogaeth oed gweithio Llanfaethlu yn is (59%) nag y mae ar Ynys Môn (61%) ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yn Llanfaethlu yn uwch nag y mae ar Ynys Môn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.23 Nid yw'r asesiadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) uchod yn nodi unrhyw newid yn y boblogaeth bresennol (ac felly dim newid yn y proffil presennol o siaradwyr Cymraeg yn yr ADL). Felly, nid oes disgwyl unrhyw newidiadau ym mhroffil oed poblogaeth yr ADL.

Effaith gyffredinol

D.4.24 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.25 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

Ansawdd bywyd

C5. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.26 Mae dadansoddiad manwl o'r waelodlin o ran iechyd wedi'i ddarparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd cyffredinol a'r iaith Gymraeg ar gyfer Llanfaethlu.

D.4.27 Yn 2011, roedd 75.8% o boblogaeth Llanfaethlu yn ystyried bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn'. O blith y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (tair oed neu hŷn), roedd 81.5% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', ac roedd 13.6% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'weddol' a 4.9% wedi dweud ei fod yn 'wael neu'n wael iawn'.

D.4.28 Byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u lleoli yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanfaethlu. Ym mharth iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanfaethlu ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.29 Mae Datganiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym wedi cael ei baratoi er mwyn asesu effeithiau posibl adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (gweler adran E.2 yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod Dogfen wedi'i Chymeradwyo 8.19) am fanylion). Er bod effeithiau a allai fod yn sylweddol ar iechyd grwpiau agored i niwed (a'r cyhoedd yn gyffredinol) wedi cael eu hystyried, daeth y datganiad sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym i'r casgliad nad oes dim effeithiau ar iechyd sy'n galw am asesiad pellach.

D.4.30 Ar y sail hon, nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio ar iechyd y boblogaeth. Nid oes felly disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol, fel gwneud yr ADL yn lle llai dymunol i fyw ynddi neu gynyddu costau byw poblogaeth bresennol yr ADL. Nid oes felly disgwyl unrhyw effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Effaith gyffredinol

D.4.31 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.32 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C6. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.33 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Llanfaethlu. Ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanfaethlu ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru (1,686fed o 1,909).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.34 Byddai disgwyl i waith adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at newid yn amwynder amgylcheddol cymunedau ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd yr aer, sŵn a dirgryndod. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hasesu'n fanylach ym mhenodau C4 (Cyfeirnod y Cais: 6.5.4) a C5 (Cyfeirnod y Cais: 6.5.5) y Datganiad Amgylcheddol. Byddai disgwyl i'r effeithiau fod yn fach o ran yr aflonyddwch

ar drigolion ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ac ni fyddai disgwyl i hyn arwain at ostyngiad yn ansawdd bywyd cyffredinol cymunedau ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r effeithiau hyn fod yn ddigon sylweddol i gael effaith anuniongyrchol ar allfudo.

D.4.35 Er y byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol, dim ond gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol (a fyddai angen uchafswm o dri aelod o staff bob dydd) fyddai'n rhaid ei wneud er mwyn gweithredu'r cyfleuster o ddydd i ddydd (hy y tu allan i gyfnod argyfwng). Ni fyddai disgwyl i hyn arwain at unrhyw newidiadau i amwynder amgylcheddol ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ac felly byddai disgwyl effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Effaith gyffredinol

D.4.36 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y cam adeiladu (gyda sgôr o -0.1) ac effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y cam gweithredu.

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.37 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach iawn yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG). Mae Pennod C5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.5) yn nodi mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau ar amwynder lleol. Nid oes mesurau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant wedi'u cynnig yng nghyswllt effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C7. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.38 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar Ynys Môn.

D.4.39 Yn ôl Police.uk, adroddwyd 75 o droseddau yn ward Llanfaethlu yn 2016. Rhwng 2012 a 2016, bu cwymp o 14% yn nifer y troseddau yn ward Llanfaethlu.

D.4.40 Ym mharth diogelwch cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanfaethlu ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru (1,413eg o 1,909).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.41 Ni fyddai disgwyl i adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at effeithiau niweidiol ar lefel go iawn na'r lefel ymddangosiadol o droseddu yng nghymunedau'r ADL. Byddai'r safle'n cael ei ddiogelu yn ystod y cam adeiladu, ynghyd â ffens ffin ddiogel. Byddai hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd o droseddu. Mae newidiadau i'r lefel troseddu o ganlyniad i unrhyw newid mewn poblogaeth yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan (gweler cyfrol B).

D.4.42 Yn ystod y cam gweithredu, dim ond gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol (sydd angen uchafswm o dri aelod o staff bob dydd) fyddai'n rhan o weithgarwch bob dydd y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hy y tu allan i gyfnod argyfwng). Ni fyddai dim rheswm dros gredu y byddai gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn arwain at unrhyw newidiadau i ddiogelwch cymunedol, lefel go iawn troseddau na'r lefel ymddangosiadol o droseddu. Ni fyddai felly disgwyl dim newid i ba mor ddymunol fyddai byw yn yr ADL o ran troseddu neu ddiogelwch cymunedol o ganlyniad uniongyrchol i'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.43 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.44 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

Ffactorau economaidd

C8. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol; neu
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg;
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.45 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o nifer y busnesau sydd wedi'u lleoli yn anheddiad Llanfaethlu.

D.4.46 Mae saith busnes wedi'u lleoli yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, yn cynnwys llety, gweithredwyr teithiau/bysiau moethus/bysiau, tafarn, swyddfa bost, a chynhyrchu gwirodydd Cymreig a'u gwerthu ar-lein.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.47 Ni fyddai disgwyl effaith niweidiol ar y busnesau lleol sydd wedi'u lleoli yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn ystod y cam adeiladu o ganlyniad i natur hunangynhaliol y gweithgareddau adeiladu. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau o ran mynediad neu wahanu cymunedau ar fusnesau lleol yn yr ADL a byddai disgwyl ychydig bach o aflonyddwch oherwydd y traffig adeiladu.

D.4.48 Byddai disgwyl i bresenoldeb gweithwyr y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at fwy o wario mewn busnesau lleol fel y siop a'r swyddfa bost a'r dafarn. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu mae disgwyl iddynt fod yn gweithio ar y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r nifer fach o staff cam gweithredu o ddydd i ddydd (y tu allan i argyfwng) a fydd yn gysylltiedig â'r Labordy Arolygon Amgylcheddol, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr ADL yn sgil gwario ychwanegol fod yn fach.

D.4.49 Mae effeithiau camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar y gadwyn gyflenwi a busnesau lleol eraill wedi'u hasesu ar y lefel Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), ac maent i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Effaith gyffredinol

D.4.50 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a ddisgrifir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.51 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar fusnesau lleol yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae un o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng nghyfrol B yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 10). Ar ben hynny, mae un o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 o dan Gwestiwn 3 yng nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 11 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C9: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd fod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy arwain at gau busnesau lleol)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.52 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, patrymau cymudo, gweithgarwch economaidd, a'r Gymraeg a'r gweithle ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.53 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Yng ngoleuni hyn, ni chyflwynir asesiad ar gyfer ardal astudiaeth ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.54 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.55 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C10: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.56 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, llifoedd mudo a gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.57 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar amrywiaeth economaidd; felly, ni ddarperir asesiad pellach o ardal astudiaeth ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.58 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.59 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C11: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.60 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogau wythnosol ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.61 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar lefel cyflogau lleol; felly, ni ddarperir asesiad pellach o ardal astudiaeth ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.62 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.63 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C12: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- atal pobl leol Gymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal/gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.64 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phrisiau tai, tai fforddiadwy, tueddiadau mudo a chyflogaeth y farchnad lafur ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

D.4.65 Yn 2012, gwelwyd cymhareb eithaf isel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn ward Llanfaethlu (rhwng 3.5 a 4.8) [RD38].

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.66 Mae adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debyg i ddatblygiad confensiynol ac nid oes disgwyl y byddai'n arwain at unrhyw newidiadau i gost tai yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Gan nad oes disgwyl i'r gwaith o'u hadeiladu, eu gweithredu na'u datgomisiynu arwain at allfudo o'r ADL (fel sy'n cael ei asesu yng nghwestiwn 3), nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) yr ADL ac ni fyddai'n rhwystro poblogaeth Gymraeg yr ADL rhag dychwelyd i'r ardal.

D.4.67 Mae effeithiau unrhyw newid yn y galw am lety o ganlyniad i'r gweithlu adeiladu, gweithredu a datgomisiynu wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan (gweler cyfrol B).

Effaith gyffredinol

D.4.68 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.69 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13. A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.70 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg a'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

D.4.71 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

D.4.72 Yr ysgolion agosaf i'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yw Ysgol Ffrwd Win yn Llanfaethlu ac Ysgol Gynradd Llanfachraeth, sydd wedi'u lleoli yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Caeodd y ddwy ysgol gynradd ym mis Gorffennaf 2017, ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol ardal wedi'i hadeiladu o'r newydd yn Llanfaethlu. Agorodd yr ysgol newydd, o'r enw Ysgol Rhyd y Llan, ym mis Medi 2017.

D.4.73 Yr ysgol uwchradd agosaf i'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yw Ysgol Uwchradd Bodedern.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.74 Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral, gan nad oes disgwyl effeithiau o ran newid mewn poblogaeth, mewnfudo nac allfudo (gan fod yr effeithiau hyn wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, gweler adran B.4 yr AEIG hwn). Felly, ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio ar gofrestri disgyblion na newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg yn Ysgol Rhyd y Llan, sydd yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Mae effeithiau'r prosiect cyfan ar niferoedd disgyblion wedi'u hasesu yng nghyfrol B.

Effaith gyffredinol

D.4.75 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.76 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n

ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C14: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.77 Nid oes dim cyfleusterau gofal iechyd wedi'u darparu yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Nid oes ysbyty â chyfleusterau damweiniau ac achosion brys ar Ynys Môn; yr agosaf yw Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.78 Fel y nodir yn y waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod, nid oes dim cyfleusterau gofal iechyd yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Mae ystyriaeth o'r effeithiau ar gyfleusterau gofal iechyd wedi cael ei sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) gan nad oes disgwyl unrhyw effeithiau. Felly, ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer gael effaith ar ddarparu cyfleusterau gofal iechyd a fyddai'n effeithio ar boblogaeth Gymraeg ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.79 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.80 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C15: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, ee yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.81 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarperir yng nghwestiynau 9 ac 14 hefyd yn berthnasol wrth ystyried gwasanaethau lleol fel siopau, banciau, swyddfeydd

post a chyfleusterau hamdden o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran y gwasanaethau lleol sydd yn Llanfaethlu.

D.4.82 Byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer wedi'u lleoli tua 385m i'r gogledd o bentref Llanfaethlu. Mae gan y pentref rai cyfleusterau lleol, gan gynnwys ysgol gynradd, neuadd bentref, tŷ coffi, siop leol a swyddfa bost, tafarn gyda llety gwely a brecwast, mannau addoli, cynhyrchydd lleol o wirod Cymreig traddodiadol, gwersyllfa a chyfleusterau hamdden ym Mharc Llanfaethlu.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.83 Fel y nodir yn y waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod, cyfyngedig yw'r gwasanaethau a'r cyfleusterau cymunedol yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Y rheini a fyddai'n fwyaf tebygol o fod ar eu hennill yn sgil rhagor o ddefnydd (a rhagor o wario) gan weithwyr adeiladu yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, yw tafarn y Black Lion a'r swyddfa bost a'r siop yn Llanfaethlu. Er y byddai hyn yn cyfrannu at ddiogelu defnyddio cyfleusterau cymunedol o'r fath (ac felly'n cyfrannu at eu diogelu yn y dyfodol o ran hyfywedd), bach iawn fyddai'r effaith fanteisiol hon oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

D.4.84 Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai disgwyl effeithiau manteisiol cyfyngedig tebyg; fodd bynnag, dim ond tri gweithiwr gweithredol fyddai disgwyl iddynt fod yn bresennol yn y safle o ddydd i ddydd (hy y tu allan i gyfnod argyfwng) a byddai'r rhain yn gysylltiedig â gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol.

Effaith gyffredinol

D.4.85 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.86 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar wasanaethau lleol yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi rhagor o fesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau

difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- fynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.87 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymunedau Cymraeg eu hiaith wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.88 Pwrpas y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yw gwasanaethu'r gofynion o ran gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ddiogel ac yn gyfrifol. Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu na gweithredu cyfleuster o'r fath yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau uniongyrchol yng nghymuned Gymraeg Llanfaethlu sydd yn ADL y Cyfleusterau Oddi Ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.89 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.90 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C17: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal; neu
- arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg;
- arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.91 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.92 Mae cysylltiad annatod rhwng yr effeithiau ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg a'r effeithiau posibl ar newid mewn poblogaeth, cyflogaeth, tai, ysgolion a chydlyniant cymunedol. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo), 3 (allfudo), 9 (cyflogaeth), 12 (tai), 13 (ysgolion) ac 16 (cydlyniant cymunedol) yn nodi effeithiau niwtral o ganlyniad uniongyrchol i'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at unrhyw newidiadau yn nhraddodiadau a diwylliant lleol y Gymraeg yng nghymunedau ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Effaith gyffredinol

D.4.93 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.94 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

C18: A yw'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;
  - cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

D.4.95 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r gymuned wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

D.4.96 Yn Llanfaethlu, mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn y gymuned sy'n gallu hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig):

- Yr Urdd;

- Cylch Ti a Fi;
- Clwb Pensiynwyr;
- Clwb yr Odyn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

D.4.97 Mae rhywfaint o grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid yn ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral ar allfudo, gan na fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at unrhyw allfudo o ADL y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Nid oes disgwyl felly y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gwrdd yn unol â'u trefniadau presennol.

Effaith gyffredinol

D.4.98 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

D.4.99 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno yn (atodiad B4-1 yr AEIG).

D.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

D.5.1 Mae crynodeb o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer i'w gweld yn Nhabl D-1.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl D-1 Crynodeb o effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	Mewnfudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Amwynder	Troseddau	Busnesau lleol	Swyddi lleol	Amrywiaeth economaidd	Incwm	Prisiau tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau lleol	Tensiynau/ gwrthdaro	Diwylliant a thraddodiadau	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	0	0	0	-0.1	0	+0.1	0	0	0	0	0	0	+0.1	0	0	0
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral
	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	-0.1	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niwtral 0.0				Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0					Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

D.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

D.6.1 Mae'r asesiad a gyflwynir yn D.4 yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Dim ond dwy effaith fanteisiol fach iawn ac un effaith niweidiol fach iawn sydd wedi'u nodi yn ystod y cam adeiladu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella ychwanegol. Mae mesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol a gwella'r effeithiau manteisiol sy'n ymwneud â'r asesiad prosiect cyfan (adran B.4) i'w gweld yn adran B.7.

D.7 Effeithiau gweddilliol

D.7.1 Mae Tabl D-2 yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

D.7.2 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod ac ar ôl adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer er mwyn mesur effeithiau gweddilliol y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Fel rhan o'r Strategaeth, byddai Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn golygu bod modd asesu'r effeithiau gweddilliol a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl D-2 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
2	Mewnfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
3	Allfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
4	Strwythur oed	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
5	Iechyd pobl leol	Niwtral	Niwtral	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)
6	Amwynder yr ardal leol	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Gweler pennod E5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.5.5)	Gweler pennod E5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.5.5)

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
7	Troseddau/trais	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau gweddilliol tymor hir y tu hwnt i'r cam adeiladu.
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	10, 11. Gweler hefyd y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Byddai busnesau lleol yn elwa o'r cyfleoedd economaidd a gynigir gan Brosiect DCO Wylfa Newydd. Gall hyn arwain at effeithiau gweddilliol economaidd manteisiol yn y tymor hirach.
9	Swyddi lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
10	Amrywiaeth economaidd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
11	Cyflogau	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
12	Prisiau tai	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
13	Ysgolion lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
15	Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Gallai fod rhai effeithiau manteisiol tymor hir i siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai o ganlyniad i fwy o wario yn lleol.
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
17	Traddodiadau/ diwylliant	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

E Parcio a Theithio

E.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o'r effeithiau yn sgil adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar y Gymraeg a'i diwylliant.

E.1.2 Mae'r gyfrol hon yn eithrio effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rheini yn cael sylw yn yr asesiad sydd yng nghyfrol B yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn.

E.1.3 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhagweld yn ansoddol.

E.1.4 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.

E.1.5 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran E.4.


E.2 Ardaloedd Astudiaeth yr AEIG o ran Parcio a Theithio

E.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y cyfleuster Parcio a Theithio. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn wedi'u cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-13 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

E.2.2 Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer asesu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cynnwys yr ADL, sy'n ymestyn i radiws o 1km o'r cyfleuster Parcio a Theithio. Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio wedi'i leoli yn ward Llanfair-yn-Neubwll. Mae ward Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys dau gyngor cymunedol, sef Bodedern a Llanfair-yn-Neubwll (gweler Ffigur E-1).

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur E-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran Parcio a Theithio



FFIGUR E-1

Allwedd

- Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu)
- Ardal Dylanwad Leol
- Parcio a Theithio

1.0	MAW 18	Cyflwyniad DCO	HNPWL	HNPWL	HNPWL	HNPWL
Diwyd	Dyddiad	Diben yr adolygiad	Llunio	Gwirio	Diwyg	Cym

Cleient: HORIZON NUCLEAR POWER

Prosiect: ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG
PROSIECT WYLFA NEWYDD

Teitl y Lluniad: ARDALOEDD ASTUDIAETH ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG CYFLEUSTER PARCIO A THEITHIO

Graddfa @ A3	1:25,000	DDIM I RADDFA
Rhif Jacobs	60PO8077	
Rhif y Cleient		
Rhif y Lluniad	60PO8077_WLIA_DCO_E_01_WT	

Ni ddylid defnyddio'r lluniad hwn yn ei gyfanrwydd nac yn rhannol at unrhyw ddiben arall anw ah ân i'rdiben a'r prosiectu bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio ar eu cyfer!el sy'n cael ei ddiffinio yn y lluniad hwn. Edrychwch ar y contract wetd y telerau ac amodau llawn.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

E.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

E.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu yn seiliedig ar ddull Cynllun o'r Paramedr a Chynllun Gwaith, fel yr amlinellir ym mhennod F1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.6.1). Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r dull cynllun o'r paramedr yn ei gynnig, ac yn cynrychioli'r 'sefyllfa waethaf' o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

E.3.2 Yr amcangyfrif o'r gweithlu a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio sy'n sail i'r asesiad hwn a'r tybiaethau sydd wedi cael eu gwneud yn y cyd-destun hwn.

Adeiladu

E.3.3 Mae Ffigur C-2 yn dangos dadansoddiad blynyddol o'r amserlen adeiladu ar gyfer pob Datblygiad Cysylltiedig yng nghyswllt Prosiect DCO Wylfa Newydd ac, o ganlyniad, syniad o'r cyfnodau amser tebygol lle bydd angen niferoedd gweithlu sylweddol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Mae'n seiliedig ar dybiaeth o 63 mis rhwng y Gwaith Adeiladu Niwclear Cyntaf a'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Adweithydd Uned 1, gyda'r Dyddiad Gweithredu Masnachol ar gyfer Adweithydd Uned 2 yn dilyn 18 mis yn ddiweddarach.

E.3.4 Mae'r amserlen adeiladu yn dangos y gallai cyfran o'r gweithwyr cam gweithredu ymuno â'r gweithlu adeiladu ehangach yn ystod y cam adeiladu. O ran y gweithlu adeiladu ar gyfer y cyfleuster Parcio a Theithio, ni fyddai mwy na 70 o weithwyr ar y safle adeiladu ar unrhyw un adeg. Nid yw'r gweithwyr a fydd eu hangen i adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio a'r Datblygiadau Cysylltiedig eraill yn gorgyffwrdd â'r nifer uchaf o weithwyr adeiladu a fydd eu hangen ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn weithredol yn ystod y cyfnod hwn.

E.4 Asesiad o'r effeithiau

E.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn y 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol. Mae'r asesiad wedi'i osod yn yr un fformat ag y cyflwynwyd yn adran B.4 yr AEIG hwn; fodd bynnag, nid yw cefndir pob cwestiwn yn cael ei ailadrodd. O ganlyniad i raddfa a natur y cyfleuster Parcio a Theithio a'r effeithiau cyfyngedig ar y Gymraeg a'i diwylliant (gan fod yr asesiad yn ymwneud ag effeithiau penodol i safle), mae camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, yn hytrach na fel dau gynnig ar wahân.

Nodweddion y boblogaeth

C1. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);

- arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.2 Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio wedi'i leoli yn ward Llanfair-yn-Neubwll. Mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer Llanfair-yn-Neubwll yn 2011.

E.4.3 Yn 2011, roedd gan Llanfair-yn-Neubwll boblogaeth breswyl o 2,926 (4% o boblogaeth Ynys Môn) ac roedd tua hanner (50.5%) y boblogaeth (tair oed neu hŷn) yn gallu siarad Cymraeg.

E.4.4 Mae dadansoddiad pellach o'r data sylfaenol ar lefel cyngor cymunedol yn dangos yn glir bod gwahaniaeth sylweddol yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y ward.

E.4.5 Mae ward Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys dau gyngor cymunedol, sef Bodedern a Llanfair-yn-Neubwll. Roedd canran sylweddol uwch (70.6%) o siaradwyr Cymraeg yng nghyngor cymunedol Bodedern yn 2011 nag yn Llanfair-yn-Neubwll (38.8%). Mae'n debygol mai'r ffaith fod gwersyll RAF y Fali wedi'i leoli yn ardal cyngor cymunedol Llanfair-yn-Neubwll sy'n achosi'r gwahaniaeth sylweddol yn y ganran o siaradwyr Cymraeg rhwng y ddau gyngor cymunedol. Mae'r trigolion sy'n byw yng ngwersyll RAF y Fali yn cynnwys canran uwch o bobl sydd wedi dod o'r tu allan i'r ardal, ac felly mae canran uwch o'r trigolion yn bobl ddi-Gymraeg.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.6 Mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, ynghyd ag ystyriaeth o ble mae'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a ydynt yn weithwyr sy'n byw gartref sydd eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), neu'n weithwyr nad ydynt yn byw gartref o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth). Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster Parcio a Theithio) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

Nid oes disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

Effaith gyffredinol

E.4.7 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.8 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud â'r mewnlifiad o weithwyr yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C2. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- A allai'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg;
- A fydd y newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.9 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data poblogaeth a siaradwyr Cymraeg yn ward Llanfair-yn-Neubwll wedi'i nodi fel rhan o gwestiwn 1 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

E.4.10 Yn 2011, roedd 58.0% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Llanfair-yn-Neubwll wedi'u geni yng Nghymru. Roedd canran is (14.2%) o boblogaeth (tair oed neu hŷn) Llanfair-yn-Neubwll a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â'r rheini a oedd wedi'u geni yng Nghymru (76.9%).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.11 Fel y nodir yng nghwestiwn 1, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, ynghyd ag ystyriaeth o ble mae'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a ydynt yn weithwyr sy'n byw gartref ai peidio), ac felly'r effeithiau cysylltiedig posibl ar fewnfudo. Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r cyfleuster Parcio a Theithio) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth drwy fewnfudo hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

E.4.12 Ni fyddai disgwyl i adeiladu na gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

Effaith gyffredinol

E.4.13 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.14 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud â'r mewnlifiad o weithwyr yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C3. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- A yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;
- A fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.15 Mae'r dadansoddiad gwaelodlin a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran patrymau mudo ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2015.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.16 Ni fyddai disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at allfudo o'r ADL. Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan ac maent i'w gweld yn adran B.4.

E.4.17 Mae'n bosibl y ceir effaith ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg os bydd ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn dirywio neu os bydd lefelau presennol yr amwynderau cyffredinol yn dirywio, gan effeithio ar ansawdd bywyd. Gallai effeithiau niweidiol ar ansawdd bywyd, yn eu tro, arwain at allfudo o'r ADL.

E.4.18 Er y gallai adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol yr ADL, mae newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn fach o ran yr aflonyddwch ar drigolion cyfagos (gweler cwestiwn 6 am asesiad manylach o'r newidiadau posibl i ansawdd amgylcheddol ac, felly, ansawdd bywyd yn yr ADL).

E.4.19 Nid oes disgwyl i weithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL.

E.4.20 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y boblogaeth bresennol ac felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio.

Effaith gyffredinol

E.4.21 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn

ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.22 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag allfudo yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C4. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - Tensiynau cymdeithasol/chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.23 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau Cymraeg ar gyfer ward Llanfair-yn-Neubwll yn 2011.

E.4.24 Mae poblogaeth oed gweithio Llanfair-yn-Neubwll yn uwch (66%) nag y mae ar Ynys Môn (61%) ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yn ward Llanfair-yn-Neubwll yn is nag y mae ar Ynys Môn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.25 Nid yw'r asesiadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) uchod yn nodi unrhyw newid yn y boblogaeth bresennol (ac felly dim newid yn y proffil presennol o siaradwyr Cymraeg yn yr ADL o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfleuster Parcio a Theithio). Felly, nid oes disgwyl unrhyw newidiadau i broffil oed poblogaeth yr ADL o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfleuster Parcio a Theithio (mae effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u hasesu yng nghyfrol B).

Effaith gyffredinol

E.4.26 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.27 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am

unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r Prosiect cyfan ar strwythur oed yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ansawdd bywyd

C5. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- Gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.28 Mae dadansoddiad manwl o'r waelodlin o ran iechyd wedi'i ddarparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd cyffredinol a'r iaith Gymraeg ar gyfer ward Llanfair-yn-Neubwll.

E.4.29 Yn 2011, roedd 82.2% o boblogaeth Llanfair-yn-Neubwll yn ystyried bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn'. O blith y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (tair oed neu hŷn), roedd 83.0% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', ac roedd 12.7% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'weddol' a 4.3% wedi dweud ei fod yn 'wael neu'n wael iawn'.

E.4.30 Mae ADL y cyfleuster Parcio a Theithio wedi'i lleoli ar draws Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanfair-yn-Neubwll 1 a Llanfair-yn-Neubwll 2. Ym mharth iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanfair-yn-Neubwll 1 ymysg y 30-50% mwyaf amddifad yng Nghymru (606ed o 1,909), ac roedd Llanfair-yn-Neubwll 2 ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru (1,373ain o 1,909).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.31 Mae Datganiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym wedi cael ei baratoi er mwyn asesu effeithiau posibl adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio (gweler adran F.2 yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) am fanylion). Er bod effeithiau a allai fod yn sylweddol ar iechyd grwpiau agored i niwed (a'r cyhoedd yn gyffredinol) wedi cael eu hystyried, daeth y datganiad sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym i'r casgliad nad oes dim effeithiau ar iechyd sy'n galw am asesiad pellach.

E.4.32 Ar y sail hon, nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio ar iechyd y boblogaeth. Nid oes felly disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol, fel gwneud yr ADL yn lle llai dymunol i fyw ynddi neu gynyddu costau byw poblogaeth bresennol yr ADL. Felly, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfleuster Parcio a Theithio (mae effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u hasesu yng nghyfrol B).

Effaith gyffredinol

E.4.33 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.34 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r Prosiect cyfan ar iechyd pobl leol yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C6. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.35 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ar draws ADL y cyfleuster Parcio a Theithio. Ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanfair-yn-Neubwll 1 a Llanfair-yn-Neubwll 2 ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru (1,761ain a 1,864ain o 1,909 yn y drefn honno).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.36 Mae'n bosibl y ceir effaith ar y cydbwysedd rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg os bydd ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn dirywio neu os bydd lefelau presennol yr amwynderau cyffredinol yn dirywio, gan effeithio ar ansawdd bywyd. Gallai effeithiau niweidiol cronnus ar ansawdd bywyd, yn eu tro, arwain at allfudo o'r ADL, ac o gofio bod dros hanner poblogaeth Llanfair-yn-Neubwll (50.5%) yn siaradwyr Cymraeg, gallai hyn effeithio ar les yr iaith Gymraeg yn yr ardal honno.

E.4.37 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 – Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn asesu effeithiau'r cyfleuster Parcio a Theithio ar amwynderau lleol drwy ystyried yr effeithiau ar Gartref Preswyl Gwyddfor, cartref gofal dan berchnogaeth breifat ag 19 o drigolion, sydd wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o'r cyfleuster Parcio a Theithio ac yn yr ADL. Y categorïau gofal sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cartref gofal hwn yw dementia, anabledd dysgu, cyflwr iechyd meddwl, henaint, anabledd corfforol ac oedolion iau.

E.4.38 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn asesu mai bach fydd yr effaith ar Gartref Preswyl Gwyddfor o

ganlyniad i gam adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio, a pherygl bach iawn o aflonyddwch ar drigolion o ran newidiadau i ansawdd yr aer, a dim effeithiau sylweddol o ganlyniad i newidiadau mewn lefelau sŵn.

E.4.39 Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar bentrefi Llanfihangel-yn-Nhywyn a Bodedern o ran amwynder, gwahanu cymunedau neu fynediad wedi cael eu nodi ar gyfer cam adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio, gweler Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3).

E.4.40 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn nodi bod disgwyl effaith niweidiol ar amwynder y Ganolfan Cartio Môn gyfagos yn ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd ei fod yn agos iawn ac oherwydd hyd cyfnod y gwaith adeiladu (tua 18 mis). Disgwylir mai effeithiau niweidiol bach a geir ar amwynder y Ganolfan Cartio Môn gyfagos. Nid oes disgwyl iddynt effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

E.4.41 Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is-god Ymarfer Adeiladu Parcio a Theithio (Cyfeirnod y Cais: 8.10) yn nodi'r safonau a'r mesurau gwaith sy'n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth, ac yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gyda'r nod o reoli effeithiau niweidiol ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd yn nodi strategaethau ar gyfer y prosiect cyfan wedi'u hategu gan yr Is-god Ymarfer Adeiladu Parcio a Theithio sy'n darparu safonau a mesurau ychwanegol sy'n arbennig o berthnasol i'r cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.42 Yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn cydnabod y posibilrwydd o amhariad ar drigolion y Cartref Preswyl Gwyddfor cyfagos yn sgil newidiadau posibl mewn lefelau sŵn, ansawdd yr aer ac amseroedd siwrneiau; serch hynny, disgwylir mai bach fydd y rhain. O ganlyniad, nid oes disgwyl i gam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL ac felly byddai disgwyl effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.

E.4.43 Nid oes disgwyl llifoedd traffig uwch drwy bentrefi Llanfihangel-yn-Nhywyn na Bodedern, gan na fyddai cynnydd sylweddol mewn amseroedd siwrneiau hirach o ganlyniad i ba mor agos yw'r cyfleuster Parcio a Theithio i'r A55 (gweler Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) am fanylion).

E.4.44 Yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn cydnabod nad oes disgwyl i'r newidiadau posibl mewn sŵn, ansawdd yr aer a thraffig arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar amwynder Canolfan Cartio Môn.

E.4.45 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn cydnabod nad oes disgwyl i'r newidiadau posibl mewn sŵn, ansawdd yr aer a thraffig arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar amwynder Canolfan Cartio Môn yn ystod cam datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.46 Mae disgwyl i effeithiau'r cam datgomisiynu ar Gartref Preswyl Gwyddfor fod yn debyg o ran natur i'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu. Ystyrir y derbynnydd yn un sensitif iawn, fodd bynnag mae disgwyl i raddfa'r gwaith datgomisiynu fod yn llai na graddfa'r gwaith adeiladu, ac nid oes disgwyl effeithiau sylweddol o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd yr aer neu mewn sŵn a dirgryndod.

E.4.47 Er bod disgwyl effeithiau ar amwynder yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio, nid oes disgwyl i'r effeithiau hynny fod yn sylweddol (yn unol â'r Datganiad Amgylcheddol). Nid oes disgwyl felly i'r effeithiau hyn gael effaith ddilynol ar y cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal, nac ar ddiwylliant y Gymraeg.

Effaith gyffredinol

E.4.48 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.49 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar amwynder yr ardal leol yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C7. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.50 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar Ynys Môn.

E.4.51 Yn ôl Police.uk, adroddwyd 178 o droseddau yn ward Llanfair-yn-Neubwll yn 2016[37]. Roedd y troseddau a adroddwyd yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, dwyn beics, bwrgleriaeth, difrod troseddol a chynnau tân yn fwriadol, cyffuriau, bod ym meddiant arfau, dwyn arall, troseddau eraill,

[37] Tabl F3-2 Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 – Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3)

lladrata, trosedd cerbydau, a thrais a throseddau rhyw. Yn 2015, roedd nifer y troseddau yn ward Llanfair-yn-Neubwll ar ei lefel uchaf ers 2011[38].

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.52 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn asesu effaith y cyfleuster Parcio a Theithio ar ddiogelwch y cyhoedd. Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol ar ddiogelwch y cyhoedd yn yr ADL wedi cael eu nodi ar gyfer cam adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio, gan y byddai diogelwch safle a ffens ffin ddiogel yn cael eu darparu drwy gydol y cam adeiladu.

E.4.53 Yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, mae'r effeithiau sy'n ymwneud â throseddau'n fwy tebygol o fod yn rhai canfyddedig na'n seiliedig ar newidiadau go iawn. Disgwylir y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio'n weithredol am chwe blynedd.

E.4.54 Byddai presenoldeb diogelwch yn gofalu am y cyfleuster Parcio a Theithio 24 awr y dydd. Byddai'r swyddogion diogelwch yn monitro'r pwynt mynediad a'r teledu cylch cyfyng, ac yn patrolio'r safle. Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cynnwys ffens ddiogelwch 1.8m o uchder o amgylch y maes parcio a'r terminws bysiau. Byddai angen i bobl sy'n defnyddio'r cyfleuster Parcio a Theithio gofrestru 24 awr ymlaen llaw.

E.4.55 Mae'r holl ystyriaethau dylunio hyn yn cyfrannu at leihau ac atal troseddau. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn arwain at fwy o droseddu neu drais yn y gymuned, gan nad yw cyfleusterau Parcio a Theithio eraill Ynys Môn yn gysylliedig â mwy o droseddu neu drais. Felly, mae disgwyl i lefel go iawn y troseddau fod yn fach. Dros amser, efallai y bydd lefel ymddangosiadol y troseddau yng nghymunedau'r ADL mewn perthynas â'r cyfleuster Parcio a Theithio yn lleihau'n raddol, wrth i fesurau diogelwch a diogelwch y cyhoedd ddechrau cydio, gan felly leihau'r ofnau o ran troseddu.

Effaith gyffredinol

E.4.56 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.57 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r Prosiect cyfan ar droseddu yn ystod cam adeiladu'r Prosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

[38] Tabl F3-3 Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 – Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3)

Ffactorau economaidd

C8. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol; neu
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg;
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.58 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o nifer a chanran trigolion Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, a nifer y busnesau sydd wedi'u lleoli yn ADL y cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.59 Mae saith busnes wedi'u lleoli yn ADL y cyfleuster Parcio a Theithio, yn cynnwys llety, trwsio ceir, cyfleusterau carafanio a gwersylla, cyfleuster cartio, lle torri gwallt, salon ewinedd, a bwyty.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.60 Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar fusnesau a'r gadwyn gyflenwi i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan.

E.4.61 Mae Cyfrol F y Datganiad Amgylcheddol – Parcio a Theithio F3 (Cyfeirnod y Cais: 6.6.3) yn asesu'r effaith ar fusnesau lleol yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.62 Fel y nodir yng nghwestiwn 6 yr AEIG hwn, mae disgwyl y bydd effaith niweidiol ar amwynder y Ganolfan Cartio Môn gyfagos yn ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd ei fod yn agos iawn. Fodd bynnag, disgwylir mai effaith niweidiol fach fydd unrhyw effeithiau posibl ar amwynder, sydd ddim yn arwyddocaol.

E.4.63 Nid oes disgwyl i gam adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio ar fynediad at Ganolfan Cartio Môn gan nad oes disgwyl unrhyw newid sylweddol mewn hyd siwrneiau, gan dybio na fyddai'n rhaid cau unrhyw ffyrdd yn sgil y mân addasiadau i gyffordd yr A5 a'r gwaith gwella ar yr A55.

E.4.64 Nid oes disgwyl i gam adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio gael unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol o ran amwynder, gwahanu cymunedau neu fynediad at fusnesau eraill yn yr ADL.

E.4.65 Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei leoli wrth ymyl Cyffordd 4 yr A55. Er bod disgwyl i'r traffig ar yr A55 ac yng Nghyffordd 4 yr A55 gynyddu yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, mae natur capasiti uchel yr A55 a'r gwelliannau i Gyffordd 4 yr A55 yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd cynnydd sylweddol mewn amseroedd siwrneiau i bobl sy'n defnyddio'r llwybr hwn. Felly, nid oes disgwyl i newidiadau posibl mewn sŵn, ansawdd yr aer a thraffig gael effaith sylweddol ar amwynder, gwahanu

cymunedau, amseroedd siwrneiau na mynediad at Ganolfan Cartio Môn yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.66 Nid oes disgwyl i gam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio gael unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol o ran amwynder, gwahanu cymunedau, amseroedd siwrneiau neu fynediad at fusnesau eraill yn yr ADL.

E.4.67 Mae disgwyl mwy o wario yn yr ADL yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio o ganlyniad i bresenoldeb uwch gweithlu cam gweithredu'r Orsaf Bŵer yn yr ardal leol. Ac ystyried bod Bodedern i'r gogledd o'r A55, ac ar yr un ochr â mynedfa'r Orsaf Bŵer, credir y byddai gweithlu cam gweithredu'r Orsaf yn fwyaf tebygol o ymweld â'r pentref hwnnw i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau.

E.4.68 Felly, disgwylir i'r cyfleuster Parcio a Theithio gynhyrchu gwariant ychwanegol i fusnesau yn yr ADL a fyddai o fudd i'r busnesau lleol hyn. Mae disgwyl y bydd y rhain yn cynnwys busnesau dan berchnogaeth siaradwyr Cymraeg neu fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal yr economi leol gydol cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio (chwe blynedd).

Effaith gyffredinol

E.4.69 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-8 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.70 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar fusnesau lleol yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn nodi mesurau lliniaru prosiect cyfan a fyddai'n mynd ati i leihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae un o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar y boblogaeth (gweler tabl B-1 o dan Gwestiwn 1 yng nghyfrol B yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 10). Ar ben hynny, mae un o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar allfudo (gweler tabl B-2 o dan Gwestiwn 3 yng nghyfrol B.4 yr AEIG hwn) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar fusnesau lleol (sef mesur 11 yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C9: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- Creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd fod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy achosi i fusnesau lleol gau)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.71 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, patrymau cymudo, gweithgarwch economaidd, a'r Gymraeg a'r gweithle ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.72 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio, ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

E.4.73 Nid oes disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau mewn swyddi lleol.

Effaith gyffredinol

E.4.74 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.75 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar swyddi lleol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C10: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- Arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.76 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, llifoedd mudo a gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.77 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio, ar amrywiaeth economaidd wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan a gyflwynir yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

E.4.78 Nid oes disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau mewn amrywiaeth economaidd.

Effaith gyffredinol

E.4.79 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.80 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar amrywiaeth economaidd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C11: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.81 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogau wythnosol ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.82 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

E.4.83 Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau mewn lefel cyflogau lleol.

Effaith gyffredinol

E.4.84 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.85 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar lefel cyflogau lleol wedi'u cyflwyno

fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C12: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- Gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- Bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- Atal siaradwyr Cymraeg lleol rhag dychwelyd i'r ardal/y gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.86 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phrisiau tai, tai fforddiadwy, tueddiadau mudo a chyflogaeth y farchnad lafur ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

E.4.87 Yn 2012, gwelwyd cymarebau eithaf isel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn ward Llanfair-yn-Neubwll (rhwng 3.5 a 4.8) [RD38].

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.88 Mae adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debyg i ddatblygiad confensiynol ac nid oes disgwyl y bydd yn arwain at unrhyw newidiadau i gost tai yn yr ADL. Nid oes disgwyl i'w gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu arwain at allfudo o'r ADL (fel sy'n cael ei asesu yng nghwestiwn 3). Nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) yr ADL, nac yn rhwystro poblogaeth Gymraeg yr ADL rhag dychwelyd i'r ardal.

Effaith gyffredinol

E.4.89 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.90 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar dai a llety wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13. A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.91 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg a'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

E.4.92 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

E.4.93 Mae rhestr o'r ysgolion cynradd agosaf i'r cyfleuster Parcio a Theithio i'w gweld isod; fodd bynnag, nid oes dim un o'r rhain wedi'u lleoli yn yr ADL.

- Mae Ysgol Sefydledig Caergeiliog tua 1.3km i'r de orllewin o'r cyfleuster Parcio a Theithio.
- Mae Ysgol Gynradd y Tywyn tua 1.6km i'r de o'r cyfleuster Parcio a Theithio.
- Mae Ysgol Gymuned Bryngwran tua 2.1km i'r dwyrain o'r cyfleuster Parcio a Theithio.

E.4.94 Yr ysgol uwchradd agosaf i'r cyfleuster Parcio a Theithio yw Ysgol Uwchradd Bodedern, sydd tua 1.7km i'r gogledd ohono.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.95 Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral, gan nad oes disgwyl effeithiau o ran newid mewn poblogaeth, mewnfudo nac allfudo o ganlyniad uniongyrchol i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio. Felly, nid oes disgwyl i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio ar gofrestri disgyblion na newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg/di-Gymraeg yn yr ysgolion sy'n bodoli eisoes sydd agosaf i'r cyfleuster Parcio a Theithio (Ysgol Sefydledig Caergeiliog, Ysgol Gynradd y Tywyn, Ysgol Gymuned Bryngwran ac Ysgol Uwchradd Bodedern), sydd y tu allan i'r ADL.

Effaith gyffredinol

E.4.96 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.97 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar ysgolion lleol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar ysgolion lleol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C14: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.98 Y cyfleusterau iechyd agosaf i'r cyfleuster Parcio a Theithio yw meddygfa Fferyllfa'r Fali a deintyddfa'r Fali. Mae'r Fali tua 3.5km i'r gorllewin. Nid oes ysbyty â chyfleusterau damweiniau ac achosion brys ar Ynys Môn; yr agosaf yw Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

E.4.99 Mae Cartref Preswyl Gwyddfor wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o'r cyfleuster Parcio a Theithio ac yn yr ADL. Mae hwn yn gartref gofal dan berchnogaeth breifat ag 19 o drigolion. Y categorïau gofal sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cartref gofal hwn yw dementia, anabledd dysgu, cyflwr iechyd meddwl, henaint, anabledd corfforol ac oedolion iau.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.100 Fel y nodir yn y waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod, mae Cartref Preswyl Gwyddfor yn yr ADL. Mae posibilrwydd o amhariad ar drigolion y Cartref Preswyl Gwyddfor cyfagos yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio; fodd bynnag, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol.

E.4.101 Mae ystyriaeth o'r effeithiau ar gyfleusterau gofal iechyd wedi cael ei sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) gan nad oes disgwyl unrhyw effeithiau. Felly, nid oes disgwyl i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio ar ddarparu cyfleusterau gofal iechyd a fyddai'n effeithio ar boblogaeth Gymraeg yr ADL.

Effaith gyffredinol

E.4.102 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.103 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral ar ddarpariaeth gofal iechyd yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar ddarpariaeth

gofal iechyd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C15: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, ee yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.104 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarperir yng nghwestiynau 9 ac 14 hefyd yn berthnasol wrth ystyried gwasanaethau lleol fel siopau, banciau, swyddfeydd post a chyfleusterau hamdden o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran y gwasanaethau lleol sydd wedi'u lleoli ym mhrif aneddiadau ward Llanfair-yn-Neubwll.

E.4.105 Y pentref agosaf i'r cyfleuster Parcio a Theithio yw Llanfihangel-yn-Nhywyn, sydd tua 700m i'r de. Mae'r pentref yn cynnwys rhywfaint o gyfleusterau lleol, gan gynnwys ysgol gynradd, bwyty, salon ewinedd, lle torri gwallt a garej trwsio cerbydau.

E.4.106 Mae pentref Caergeiliog dros 1km i'r gorllewin o'r cyfleuster Parcio a Theithio. Mae'r pentref yn cynnwys ystod gyfyngedig o gyfleusterau, gan gynnwys ysgol gynradd a bwyty.

E.4.107 Mae pentref Bodedern tua 1.7km i'r gogledd o'r safle. Ac ystyried bod Bodedern i'r gogledd o'r A55, ac ar yr un ochr â mynedfa'r safle, credir hefyd y byddai'r gweithwyr yn fwyaf tebygol o ymweld â'r pentref hwnnw i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau. Mae amrywiaeth o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys siop hwylus a swyddfa bost, cigydd, meddygfa, dwy dafarn, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, salon gwallt, garej ceir a cherbydau, a mannau addoli.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.108 Nid oes disgwyl effaith ar fynediad at wasanaethau lleol gan nad oes disgwyl newidiadau sylweddol i hyd siwrneiau nac i fynediad at wasanaethau.

E.4.109 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar wasanaethau a chyfleusterau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

E.4.110 Fodd bynnag, byddai disgwyl i bresenoldeb gweithwyr adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd a gweithwyr cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio gyfrannu'n uniongyrchol at ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn yr ADL. Byddai'r gweithwyr adeiladu yn cynnwys cymysgedd o weithwyr na fyddant yn byw gartref yn aros yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth,

ynghyd â gweithwyr a fydd yn byw gartref. Mae disgwyl mwy o wario yn yr ADL yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio o ganlyniad i nifer y gweithwyr a fydd yn pasio drwy bentrefi lleol ac yn defnyddio busnesau lleol. Ac ystyried bod Bodedern i'r gogledd o'r A55, ac ar yr un ochr â mynedfa'r Orsaf Bŵer, credir y byddai gweithlu cam gweithredu'r Orsaf yn fwyaf tebygol o ymweld â'r pentref hwnnw i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau.

E.4.111 Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod yn sylweddol; fodd bynnag, byddai'n arwain at effaith fanteisiol drwy gyfrannu at eu diogelu yn yr ADL. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio (chwe blynedd), ac felly byddai o fudd i boblogaeth yr ADL, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mabwysiedig yn nodi'r *"angen i hyrwyddo economïau lleol iach fel y ffactor pwysicaf yn ôl pob tebyg i gynnal cymunedau lleol a chryfhau'r iaith"* [RD15].

Effaith gyffredinol

E.4.112 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.113 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan ar wasanaethau lleol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- Cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.114 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymunedau Cymraeg eu hiaith wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.115 Byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei ddefnyddio yn ystod cam adeiladu'r Orsaf Bŵer er mwyn cludo a rheoli llif rhai o'r gweithlu adeiladu yn

ôl ac ymlaen o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu na gweithredu cyfleuster o'r fath yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau Cymraeg ward Llanfair-yn-Neubwll.

Effaith gyffredinol

E.4.116 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.117 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru. Fodd bynnag, fel rhan o fesurau gwella'r prosiect cyfan yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, byddai Horizon yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy roi deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol ynghylch y Gymraeg (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle mae'r gweithwyr yn debygol o'u gweld. Byddai hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio.

C17: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal;
- Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg;
- Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.118 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.119 Mae cysylltiad annatod rhwng yr effeithiau ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg a'r effeithiau posibl ar newid mewn poblogaeth, cyflogaeth, tai, ysgolion a chydlyniant cymunedol. Mae'r asesiadau a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo), 3 (allfudo), 9 (cyflogaeth), 12 (tai), 13 (ysgolion) ac 16 (cydlyniant cymunedol) yn nodi effeithiau niwtral o ganlyniad uniongyrchol i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl

i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau i draddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

Effaith gyffredinol

E.4.120 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.121 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Fodd bynnag, fel rhan o fesurau lliniaru a gwella'r prosiect cyfan yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, byddai Horizon yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy roi deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol ynghylch y Gymraeg (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle mae'r gweithwyr yn debygol o'u gweld. Byddai hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio.

C18: A yw'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;
  - cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

E.4.122 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r gymuned wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

E.4.123 Yn ward Llanfair-yn-Neubwll, mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn y gymuned sy'n gallu hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig):

- Yr Urdd (a gynhelir ym mhob ysgol gynradd yn y ward ac yn Ysgol Uwchradd Bodedern)
- Merched y Wawr (a gynhelir ym Modedern);
- Clybiau ieuenctid (a gynhelir ym Modedern a Chaergeiliog);
- Cylch Meithrin (a gynhelir ym Modedern);
- Cylch Ti a Fi (a gynhelir ym Modedern);
- Clybiau Ffermwyr Ifanc (a gynhelir ym Modedern);

- Cangen Gymraeg Sefydliad y Merched (a gynhelir ym Modedern);
- Theatr Ieuenctid Môn (grŵp theatr ieuenctid a gynhelir ym Modedern).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

E.4.124 Mae nifer o grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid wedi'u lleoli yn yr ADL sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral ar allfudo, gan nad oes disgwyl i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at unrhyw allfudo o'r ADL. Nid oes disgwyl felly y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Ni fyddai effaith niweidiol o ran mynediad ar y cyfleoedd cymdeithasol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yng Nghanolfan Cartio Môn. Nid oes disgwyl i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gyfarfod yn ôl eu trefniadau presennol.

Effaith gyffredinol

E.4.125 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru. Fodd bynnag, fel rhan o fesurau lliniaru a gwella'r prosiect cyfan yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, byddai Horizon yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy roi deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol ynghylch y Gymraeg (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle mae'r gweithwyr yn debygol o'u gweld. Byddai hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio.

Mesurau lliniaru a/neu wella

E.4.126 Mae'r asesiad sy'n cael ei gyflwyno uchod yn nodi effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella.

E.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r cyfleuster Parcio a Theithio

E.5.1 Mae crynodeb o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio i'w weld yn Nhabl E-1.

Tabl E-1 Crynodeb o effeithiau'r cyfleuster Parcio a Theithio yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	Mewnfudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Amwynder	Troseddau	Busnesau lleol	Swyddi lleol	Amrywiaeth economaidd	Incwm	Prisiau tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau lleol	Tensiynau/ gwrthdaro	Diwylliant a thraddodiadau	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	0	0	0	0	0	+0.1	0	0	0	0	0	0	+0.1	0	0	0
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral
	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niwtral 0.0				Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0					Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

E.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r cyfleuster Parcio a Theithio

E.6.1 Mae'r asesiad a gyflwynir yn E.4 yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster Parcio a Theithio, a dim ond dwy effaith fanteisiol fach iawn yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella ychwanegol. Mae mesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol a gwella'r effeithiau manteisiol sy'n ymwneud â'r asesiad prosiect cyfan (adran B.4) i'w gweld yn adran B.7. Fodd bynnag, fel rhan o fesurau lliniaru a gwella'r prosiect cyfan yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, byddai Horizon yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy roi deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol ynghylch y Gymraeg (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle mae'r gweithwyr yn debygol o'u gweld. Byddai hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio.

E.7 Effeithiau gweddilliol

E.7.1 Mae Tabl E-2 isod yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

E.7.2 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn cydnabod y byddai angen gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio ac wedi hynny, er mwyn mesur effeithiau gweddilliol y cyfleuster Parcio a Theithio. Fel rhan o'r Strategaeth, byddai Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn golygu bod modd asesu'r effeithiau gweddilliol a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl E-2 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr laith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
2	Mewnfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
3	Allfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
4	Strwythur oed	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
5	Iechyd pobl leol	Niwtral	Niwtral	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)
6	Amwynder yr ardal leol	Niwtral	Niwtral	Gweler pennod F5 y Datganiad Amgylcheddol	Gweler pennod F5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.6.5)

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
				(Cyfeirnod y Cais: 6.6.5)	
7	Troseddau/trais	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	10, 11. Gweler hefyd y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Byddai busnesau lleol yn elwa o'r cyfleoedd economaidd a gynigir gan y Prosiect. Gall hyn arwain at effeithiau gweddilliol economaidd manteisiol yn y tymor hirach.
9	Swyddi lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
10	Amrywiaeth economaidd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
11	Cyflogau	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
12	Prisiau tai	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
13	Ysgolion lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
15	Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Gallai fod rhai effeithiau manteisiol tymor hir i siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai o ganlyniad i fwy o wario yn lleol.
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
17	Traddodiadau/ diwylliant	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

F Newidiadau i Briffordd yr A5025

F.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o'r effeithiau yn sgil adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r gyfrol hon yn eithrio effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rheini yn cael sylw yn yr asesiad sydd yng nghyfrol B yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn.

F.1.2 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhagweld yn ansoddol.

F.1.3 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.

F.1.4 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran F.4.


F.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Newidiadau i Briffordd yr A5025

F.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn wedi'u cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-13 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

F.2.2 Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer asesu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys yr ADL, sy'n ymestyn i radiws o 1km o'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae'r Newidiadau arfaethedig i Briffordd yr A5025 wedi'u lleoli ar draws pedair ward, sef Llanfair-yn-Neubwll, y Fali, Llanfaethlu a Mechell (gweler Ffigur F-1).

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Ffigur F-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Newidiadau i Briffordd yr A5025



[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

F.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

F.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu ar gyfer y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn seiliedig ar y dyluniadau sydd i'w gweld yn y Cynlluniau Gwaith o fewn y terfynau gwyro a amlinellir ym mhennod G1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.1). Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r Cynlluniau Gwaith a'r terfynau gwyro yn eu cynnig o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Adeiladu

F.3.2 Mae Ffigur C-2 yn dangos dadansoddiad chwarterol o amserlen adeiladu holl Ddatblygiadau Cysylltiedig Prosiect DCO Wylfa Newydd ac, o ganlyniad, syniad o'r cyfnodau amser tebygol lle bydd angen niferoedd gweithlu sylweddol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Nid yw'r gweithwyr a fydd eu hangen i adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 a'r Datblygiadau Cysylltiedig eraill (ac eithrio Campws y Safle) yn gorgyffwrdd â'r nifer uchaf o weithwyr adeiladu sydd eu hangen ar gyfer datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Ni fyddai'r gweithlu adeiladu ar gyfer y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys mwy na 171 o weithwyr ar unrhyw un adeg.

F.3.3 Mae'r arferion lliniaru da yn ystod cam adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 wedi'u hamlinellu yn Nhabl F-1.

Tabl F-1 Arferion lliniaru da – adeiladu

Disgrifiad	Amcan/pwrpas y mesur lliniaru
Mae Cod Ymarfer Adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Is-god Ymarfer Adeiladu safle-benodol (Cyfeirnod y Cais 8.12) yn nodi'r gofynion gwaith sy'n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth, ac yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gyda'r nod o leihau ac osgoi effeithiau niweidiol ar y gymuned leol, amwynder a'r amgylchedd. Bydd y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn ddarostyngedig i God Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd ac Is-god Ymarfer Adeiladu Newidiadau i Briffordd yr A5025, a fydd yn amlinellu'r strategaeth rheoli o ran ansawdd yr aer, sŵn a dirgryndod, traffig a thrafnidiaeth, mynediad cyhoeddus, ayb.	Lleihau effeithiau amgylcheddol posibl y gweithgareddau adeiladu.
Bydd mynediad yn ôl ac ymlaen o eiddo preswyl, busnesau a gwasanaethau lleol a thir amaethyddol yn cael ei gadw drwy gydol y cam adeiladu drwy ddargyfeirio gydag arwyddion, pan fo angen. Byddai hyd a lleoliad bras y dargyfeiriadau hyn yn cael eu cyfathrebu i'r partïon yr effeithir arnynt, yn ôl yr angen, cyn eu rhoi ar waith.	Cadw mynediad yn ôl ac ymlaen o eiddo preswyl, busnesau a gwasanaethau lleol a thir amaethyddol.

Disgrifiad	Amcan/pwrpas y mesur lliniaru
Mae Pennod 3 Is-god Ymarfer Adeiladu Newidiadau i Briffordd yr A5025 (Cyfeirnod y Cais: 8.12) yn amlinellu'r strategaeth ymgynghori, sy'n cynnwys ymgysylltu â'r perchnogion tir a'r meddianwyr yr effeithir arnynt i drafod lleoliad ac amseru'r gwaith adeiladu arfaethedig er mwyn lleihau aflonyddwch, lle bo hynny'n ymarferol, gan ystyried y rhaglen adeiladu gyffredinol.	Lleihau'r aflonyddwch ar berchnogion tir yr effeithir arnynt.
Bydd hysbysiad o fwriad i ddechrau gwneud gwaith adeiladu yn cael ei roi i berchnogion a meddianwyr tir amaethyddol ger y Newidiadau i Briffordd yr A5025 cyn i'r gwaith ddechrau.	Sicrhau bod perchnogion a meddianwyr tir amaethyddol ger y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cael gwybod am y bwriad i ddechrau gwaith adeiladu cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau.
Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd unrhyw dir yr oedd angen amdano dros dro ar gyfer gwaith adeiladu yn cael ei ddychwelyd i'w ddefnydd amaethyddol gwreiddiol.	Sicrhau bod tir yn cael ei adfer yn briodol ar ôl cwblhau'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.
Byddid yn ystyried newid yr arwyddion presennol ar hyd y ffordd ar hyd y Newidiadau i Briffordd yr A5025 am rai newydd i rai busnesau y mae eu mynediad wedi newid a'u busnes yn arbennig o ddibynnol ar symudiadau cerbydau o'r A5025.	Lleihau'r amhariad ar fusnesau lle mae trefniadau mynediad wedi newid o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.

F.3.4 Mae mesurau lliniaru creiddiol wedi cael eu cynnwys yn nyluniad y Newidiadau i Briffordd yr A5025 a'u hystyried yn yr asesiad o'r effeithiau posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant. Dyma grynodeb o'r mesurau lliniaru perthnasol:

- Darparu dull mynediad newydd i eiddo preswyl a busnesau a gwasanaethau lleol lle bo angen drwy addasu ffyrdd a chyffyrdd, ac ailddefnyddio adrannau presennol o ffyrdd cerbydau.
- Datblygu aliniadau ffyrdd sy'n cyd-fynd â defnydd presennol o dir a phatrymau caeau amaethyddol er mwyn lleihau faint o gaeau sy'n cael eu gwahanu, lle bo modd.
- Cynnwys mesurau yn y dyluniad, megis tanffyrdd amaethyddol, pontydd, llwybrau, dulliau mynediad preifat, a chyfleusterau trin gwartheg er mwyn cadw mynediad i anifeiliaid a cherbydau fferm.

- Cadw mynediad presennol i eiddo preswyl a busnesau a gwasanaethau lleol lle bo modd, a chynnwys pwyntiau mynediad newydd i ddaliadau tir amaethyddol o'r gwelliannau i droadau a ffyrdd osgoi.

F.4 Asesiad o'r effeithiau

F.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn y 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol. Mae'r asesiad wedi'i osod yn yr un fformat ag y cyflwynwyd yn adran B.4 yr AEIG hwn; fodd bynnag, nid yw cefndir pob cwestiwn yn cael ei ailadrodd. Mae effeithiau'r camau adeiladu a gweithredu wedi cael eu hasesu gyda'i gilydd, gan fod disgwyl i'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant fod yn debyg yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.

Nodweddion y boblogaeth

C1. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- Effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);
- Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.2 Mae ADL y Newidiadau i'r Briffordd wedi'i lleoli ar draws pedair ward ar hyd adrannau perthnasol yr A5025. Y wardiau yw Llanfair-yn-Neubwll, y Fali, Llanfaethlu a Mechell. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer y pedair ward ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn 2011.

F.4.3 Yn 2011, roedd cyfanswm poblogaeth trigolion y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn yr ADL yn 8,479 a oedd yn cynrychioli 12% o boblogaeth Ynys Môn (cyfanswm: 69,751). O gyfanswm poblogaeth trigolion y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 (8,479), roedd 34.5% yn byw yn ward Llanfair-yn-Neubwll, 27.8% yn byw yn ward y Fali, 19.4% yn ward Llanfaethlu a 18.2% yn ward Mechell.

F.4.4 Yn 2011, roedd 56.4% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn gallu siarad Cymraeg. Mae amrywiadau yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg rhwng y pedair ward, gyda chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llanfaethlu (64.4%) a'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llanfair-yn-Neubwll (50.5%) yn 2011.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.5 Mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ynghyd ag ystyriaeth o ble byddai'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a fyddant yn

weithwyr sy'n byw gartref sydd eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), neu'n weithwyr na fyddant yn byw gartref o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth). Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Newidiadau i Briffordd yr A5025) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

F.4.6 Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ynddynt eu hunain arwain at unrhyw newidiadau uniongyrchol yn lefel y boblogaeth oherwydd eu bod yn ymwneud ag adeiladu adrannau newydd o ffordd, fel ffyrdd osgoi a gwaith i newid aliniad y ffordd, mewn pum lleoliad ar hyd yr A5025 rhwng y Fali ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

Effaith gyffredinol

F.4.7 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.8 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar newid mewn poblogaeth o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C2. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- A allai'r Newidiadau i'r Briffordd arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg;
- A fydd y newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.9 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data poblogaeth a siaradwyr Cymraeg yn y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 wedi'i nodi fel rhan o gwestiwn 1 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

F.4.10 Yn 2011, roedd 61.0% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 wedi'u geni yng Nghymru. Roedd canran is (17.1%) o'r boblogaeth (tair oed neu hŷn) a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â'r rheini a oedd wedi'u geni yng Nghymru (81.5%).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.11 Fel y nodir yng nghwestiwn 1, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ynghyd ag ystyriaeth o ble byddai'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a fyddant yn weithwyr sy'n byw gartref ai peidio), ac felly'r effeithiau cysylltiedig posibl ar fewnfudo. Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Newidiadau i Briffordd yr A5025) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth drwy fewnfudo hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

F.4.12 Nid oes disgwyl i weithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Byddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 wella diogelwch y briffordd. Ar hyn o bryd, nid yw'r briffordd yn cyrraedd y safonau dylunio priffyrdd cyfredol. Er y byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn golygu adeiladu adrannau newydd o ffordd sy'n osgoi pentrefi'r Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu, byddai'r pentrefi hyn yn dal i gael eu hystyried yn bentrefi gwledig cynaliadwy y byddai modd eu cyrraedd o briffordd yr A5025. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at gynnydd yn y nifer a fyddai'n mewnfudo i'r pentrefi hynny. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Effaith gyffredinol

F.4.13 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.14 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C3. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- A yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;
- A fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.15 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran patrymau mudo ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2015.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.16 Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at allfudo o ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan ac maent i'w gweld yn adran B.4. Er y gallai adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at rai newidiadau i amwynder amgylcheddol cymunedau ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025, mae newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn fach o ran yr aflonyddwch ar drigolion cyfagos (gweler cwestiwn 6 am asesiad manylach o'r newidiadau posibl i ansawdd amgylcheddol ac, felly, ansawdd bywyd yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025). Felly, ni fyddai disgwyl dim allfudo o ganlyniad i newidiadau i'r amwynder amgylcheddol.

F.4.17 Nid oes disgwyl dim effaith ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Effaith gyffredinol

F.4.18 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.19 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C4. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - Tensiynau cymdeithasol/chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.20 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau Cymraeg ar gyfer y pedair ward ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn 2011.

F.4.21 Mae poblogaeth oed gweithio'r wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn uwch (62%) nag y mae ar Ynys Môn (61%) ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yn y wardiau yn is nag y mae ar Ynys Môn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.22 Nid yw'r asesiadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) uchod yn nodi unrhyw newid yn y boblogaeth bresennol (ac felly dim newid yn y proffil presennol o siaradwyr Cymraeg o ganlyniad uniongyrchol i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025). Nid oes disgwyl unrhyw newidiadau i broffil oed poblogaeth ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 o ganlyniad uniongyrchol i'r Newidiadau i'r Briffordd.

Effaith gyffredinol

F.4.23 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.24 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ansawdd bywyd

C5. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- Gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.25 Mae dadansoddiad manwl o'r waelodlin o ran iechyd wedi'i ddarparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd cyffredinol a'r iaith Gymraeg ar gyfer ward Llanfair-yn-Neubwll.

F.4.26 Yn 2011, roedd 79.0% o boblogaeth y wardiau ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn credu bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn'. O blith y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (tair oed neu hŷn), roedd 82.3% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', ac roedd 13.0% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'weddol' a 4.7% wedi dweud ei fod yn 'wael neu'n wael iawn'.

F.4.27 Mae ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 wedi'i lleoli ar draws Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, sef Llanfair-yn-Neubwll 1, y Fali 1, y Fali 2, Llanfaethlu a Mechell. Ym mharth iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanfair-yn-Neubwll 1 a'r Fali 1 ymysg y 30-50% mwyaf amddifad yng Nghymru (606ed ac 892ain o 1,909 yn y drefn honno), ac roedd y Fali 2, Llanfaethlu a Mechell ymysg y 50%

lleiaf amddifad yng Nghymru (1,636ain, 1,006ed ac 1,199ain o 1,909 yn y drefn honno).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.28 Mae Datganiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym wedi cael ei baratoi er mwyn asesu effeithiau posibl adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 (gweler adran G.2 yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd am fanylion). Daeth y broses sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym i'r casgliad na fyddai dim effeithiau ar iechyd sy'n galw am asesiad pellach.

F.4.29 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn nodi effeithiau manteisiol posibl (sydd ddim yn cael eu hystyried yn sylweddol) o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac ymhlith y rhain mae:

- hyrwyddo gweithgaredd corfforol drwy wella llwybrau beicio a phwyntiau croesi ar yr A5025 ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, gan wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl;
- sicrhau bod llai o allyriadau traffig yn cyrraedd y rhan fwyaf o aneddiadau, gan gyfrannu at wella ansawdd yr aer, yn enwedig mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi, a chefnogi llai o beryglon yn sgil canlyniadau iechyd anadlol niweidiol, a lleihau effeithiau niweidiol amhariadau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl;
- amodau gyrru (a chroesi) mwy diogel o ran yr A5025 i holl ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys amodau mwy diogel mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi ar gyfer cerddwyr a beicwyr o ganlyniad i lai o draffig, gan leihau'r risg o anafiadau difrifol neu farwolaethau;
- amseroedd siwrneiau gwell i'r gymuned wledig wrth gael gafael ar ofal iechyd, ysgolion a gwasanaethau mewn aneddiadau mwy, gan leihau amddifadedd mynediad a chefnogi derbyn gofal iechyd sy'n gritigol o ran amser;
- manteision economaidd ehangach yn sgil gwell priffordd i gefnogi twristiaeth a rhwydwaith dosbarthu mwy effeithlon i fusnesau, gan hybu ffyniant a'r dewisiadau o ran ffordd o fyw sy'n hybu iechyd mae hynny'n ei gynnig.

F.4.30 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd yn nodi effeithiau niweidiol posibl ar iechyd a allai godi yn sgil y Newidiadau i Briffordd yr A5025 (sydd ddim yn debygol o fod yn sylweddol). Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

- cynnydd dros dro mewn sŵn, llygredd aer ac amseroedd teithio yn ystod y cam adeiladu;
- gostyngiad dros dro yn amseroedd ymateb y gwasanaethau brys yn ystod y cam adeiladu o ganlyniad i ragor o dagfeydd ar y ffyrdd;
- cynnydd bach parhaol mewn llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig i nifer fach o aneddiadau yn ystod y cam gweithredu.

F.4.31 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn dod i'r casgliad na fyddai disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar iechyd yn sgil y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Yn

seiliedig ar yr effeithiau posibl a nodwyd uchod a gan gydbwyso'r effeithiau niweidiol dros dro posibl ar iechyd yn ystod y cam adeiladu yn erbyn yr effeithiau manteisiol tymor hir a fyddai'n cael eu sicrhau yn ystod gweithredu Newidiadau i Briffordd yr A5025, byddai disgwyl effaith fanteisiol yn gyffredinol ar iechyd poblogaeth ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Byddai disgwyl i hyn gael effaith fanteisiol anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant, gan fod 56.4% o boblogaeth yr ADL yn gallu siarad Cymraeg.

Effaith gyffredinol

F.4.32 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.33 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C6. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.34 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ar hyd adrannau perthnasol yr A5025 yn yr ADL. Ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd y pum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar hyd yr A5025 ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.35 Byddai disgwyl i waith adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at newid yn amwynder amgylcheddol cymunedau ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 o ganlyniad i newidiadau mewn sŵn, ansawdd yr aer, ac amseroedd teithio. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hasesu'n fanylach ym mhenodau G5 (Cyfeirnod y Cais: 6.7.5), G6 (Cyfeirnod y Cais: 6.7.6) a G10 (Cyfeirnod y Cais: 6.7.10) y Datganiad Amgylcheddol. Byddai disgwyl i'r effeithiau fod yn fach o ran yr aflonyddwch a achosir i drigolion ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025, gyda disgwyl i'r cam adeiladu bara am tua 18 mis. Ni fyddai disgwyl i hyn leihau'r ansawdd bywyd yn gyffredinol yng nghymunedau ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Felly, ni fyddai disgwyl gweld unrhyw effeithiau

anuniongyrchol ar allfudo, ac felly'r Gymraeg a'i diwylliant, o ganlyniad i'r cam adeiladu.

F.4.36 Ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, byddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 wella amwynder amgylcheddol pentrefi y Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu, gan greu effaith fanteisiol yn y tymor hir. Byddai'r cymunedau hyn yn parhau i fod yn gymunedau cynaliadwy a hygyrch, a byddai'n haws cyrraedd priffordd yr A5025 ohonynt, ond byddai'r cymunedau yn elwa ar ansawdd bywyd gwell o ganlyniad i lai o gerbydau yn pasio drwy'r pentrefi, yn enwedig ym mhentrefi Llanfachraeth a'r Fali. Byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys osgoi'r Fali wrth deithio o'r A55 tuag at Ardal Datblygu Wylfa Newydd (adran 1) ac osgoi pentref Llanfachraeth (adran 3). Serch hynny, mae pentref Llanfaethlu wedi'i wahanu oddi wrth yr A5025, er ei fod yn agos iawn iddi. Felly, byddai disgwyl i'r gwaith o wella aliniad yr A5025 yn adran 5 arwain at newidiadau bach iawn i amwynder amgylcheddol Llanfaethlu o ganlyniad i lai o lif traffig drwy'r pentref.

F.4.37 Rhaid cydbwyso'r newidiadau dros dro i amwynder amgylcheddol y cymunedau yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn ystod y cam adeiladu yn erbyn yr effeithiau manteisiol tymor hir a ddisgwylir ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, a fyddai o fudd i boblogaeth y cymunedau hyn (sy'n cynnwys canran uchel (56.4%) o siaradwyr Cymraeg).

Effaith gyffredinol

F.4.38 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.39 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C7. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.40 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar Ynys Môn.

F.4.41 Mae parth 'diogelwch cymunedol' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried amddifadedd mewn perthynas â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cynnwys profiad go iawn o droseddu a thân, ynghyd â'r canfyddiad o

ddiogelwch wrth grwydro yn yr ardal leol (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn y parth hwn, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is y Fali 1 ymysg y 30-50% mwyaf amddifad yng Nghymru (823ain o 1,909), ac roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanfair-yn-Neubwll 1, y Fali 2, Llanfaethlu a Mechell ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru (1,423ain, 1,856fed, 1,413eg a 1,478ain yn y drefn honno).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.42 Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 (yn ystod y cam adeiladu nac ar ôl eu gorffen) arwain at effeithiau niweidiol ar lefel go iawn na'r lefel ganfyddedig o droseddu yng nghymunedau'r ADL. Byddai'r mesurau lliniaru ymarfer da yn ystod y cam adeiladu yn cynnwys (lle bo'n briodol) ffensys dros dro er iechyd a diogelwch y cyhoedd ac anifeiliaid, a hefyd i osgoi achosion o dresmasu. Ni fyddai caniatâd i bersonél heb awdurdod gael mynediad at yr ardal lle byddai'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, oni bai fod y prif gontractwr/contractwyr yn rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Effaith gyffredinol

F.4.43 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.44 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ffactorau economaidd

C8. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol; neu
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg;
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.45 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o nifer a chanran trigolion Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, a nifer y busnesau sydd wedi'u lleoli yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Adran 1: Y Fali

F.4.46 Mae 23 busnes wedi'u lleoli yn ADL adran 1 y Newidiadau i'r Briffordd, yn cynnwys llety, bar/bwytai, cigydd, trwsio ceir, siopau bwyd/caffis/llefydd bwyd parod, trefnydd angladdau, lle torri gwallt, cyflenwr olew cynhesu, swyddfa bost, iard wageni, cartref gofal preswyl, siopau adwerthu a hwylus, a gorsafoedd petrol.

Adran 3: Llanfachraeth

F.4.47 Mae chwe busnes wedi'u lleoli yn ADL adran 3 y Newidiadau i'r Briffordd, yn cynnwys llety, swyddfa bost, tafarn, siopau adwerthu a hwylus, a gwasanaeth iechyd cyfannol amgen.

Adran 5: Llanfaethlu

F.4.48 Mae wyth busnes wedi'u lleoli yn ADL adran 5 y Newidiadau i'r Briffordd, yn cynnwys llety, gweithredwyr bysiau/bysiau moethus/teithiau, caffi, tafarn, swyddfa bost, a chynhyrchu gwirodydd Cymreig a'u gwerthu ar-lein.

Adran 7: Cefn Coch

F.4.49 Mae tri busnes wedi'u lleoli yn ADL adran 7 y Newidiadau i'r Briffordd, yn cynnwys llety, gwasanaeth tacsis, a chwmni teithio a thrafnidiaeth.

Cyffordd ffordd fynediad Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd

F.4.50 Dim ond un busnes lleol sydd wedi'i leoli yn ADL cyffordd ffordd fynediad Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, sef Gorsaf Betrol Tregele.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.51 Mae nifer o fusnesau lleol wedi'u lleoli yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd a allai deimlo effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd o ran y newidiadau i fynediad cerbydau at y busnesau hynny, a hefyd yr effeithiau posibl ar lwyddiant masnachol busnesau yn y dyfodol.

F.4.52 Wrth ystyried adran 1, byddai disgwyl i Orsaf Betrol Gwalia weld newid o ran mynediad i gerbydau. Byddai'r orsaf betrol wedi'i lleoli ar ffordd ac un pen iddi wedi'i gau; felly byddai angen i gwsmeriaid a gweithwyr deithio 0.4km yn ychwanegol i gyrraedd yr A5025 ar ei newydd wedd.

F.4.53 Byddai adran 1 yn mynd â thraffig presennol o'r A5025 ac i ffwrdd o ganol pentref y Fali, a fyddai'n debygol o gael effaith ar Orsaf Betrol Gwalia, gan yr ystyrir ei bod hi'n dibynnu ar gwsmeriaid sy'n pasio heibio. Mae Gorsaf Betrol Gwalia hefyd wedi'i lleoli ar yr A5025 bresennol, a fyddai'n ffordd ac un pen iddi wedi'i gau o ganlyniad i'r Newidiadau i'r Briffordd. O ganlyniad i'r newid bach mewn mynediad i gerbydau, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar lwyddiant masnachol tebygol busnesau yn y dyfodol.

F.4.54 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.73) yn nodi effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar lwyddiant masnachol tebygol busnes ffermio Ynys Wen, o ganlyniad yn bennaf i faint o dir bydd angen ei ddefnyddio i adeiladu adran 1

y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Gweler pennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.3) am asesiad manylach.

F.4.55 Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i'r Briffordd sy'n gysylltiedig ag adran 3 arwain at unrhyw newidiadau yn y mynediad i gerbydau at fusnesau lleol. Byddai adran 3 yn mynd â thraffig presennol o'r A5025 ac i ffwrdd o ganol pentref Llanfachraeth, a fyddai'n debygol o effeithio ar y busnesau lleol yn y canol, gan gynnwys swyddfa bost Llanfachraeth, gwesty'r Holland a Wynnstay Country Store. Er y byddai cyfran o'r cwsmeriaid sy'n pasio heibio yn cael ei cholli, ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar lwyddiant masnachol tebygol busnesau yn y dyfodol, gan y byddai cymuned Llanfachraeth a'r aneddiadau cyfagos yn dal yn ddibynnol ar wasanaethau'r busnesau.

F.4.56 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.73) yn nodi effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar lwyddiant masnachol tebygol busnes ffermio Bedo, o ganlyniad yn bennaf i faint o dir bydd angen ei ddefnyddio i adeiladu adran 1 y Newidiadau i Briffordd yr A5025, gwahanu a'r effeithiau gweithredol dilynol ar y busnes. Gweler pennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.3) am asesiad manylach.

F.4.57 Byddai disgwyl i'r Newidiadau i'r Briffordd sy'n gysylltiedig ag adran 5 arwain at newidiadau yn y mynediad i gerbydau at rai busnesau lleol, gan gynnwys Tafarn y Black Lion, y Coffee House Shop a'r swyddfa bost yn Llanfaethlu.

F.4.58 Byddai Tafarn y Black Lion wedi'i lleoli ar ffordd ac un pen iddi wedi'i gau; felly, byddai'n rhaid i gwsmeriaid a gweithwyr deithio 0.1km ychwanegol i gyrraedd yr A5025 ar ei newydd wedd.

F.4.59 Mae disgwyl i fusnesau lleol sydd wedi'u lleoli yng nghanol pentref Llanfaethlu (y Coffee House Shop a swyddfa bost Llanfaethlu) weld newid yn y mynediad i gerbydau gan y byddai adran 5 yn osgoi canol pentref Llanfaethlu. Byddai'r busnesau lleol wedi'u lleoli ar ffordd ac un pen iddi wedi'i gau; felly, byddai'n rhaid i gwsmeriaid a gweithwyr deithio 0.3km yn ychwanegol i gyrraedd yr A5025 ar ei newydd wedd.

F.4.60 Fel y nodir ym mhennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.3), nid oes disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn adran 5 effeithio ar lwyddiant masnachol tebygol busnesau ffermio.

F.4.61 Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i'r Briffordd sy'n gysylltiedig ag adran 7 arwain at unrhyw newidiadau yn y mynediad i gerbydau at fusnesau lleol, na newidiadau i'r tir fydd ei angen, ac nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar lwyddiant masnachol tebygol busnesau yn y dyfodol. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gyflwynir ym mhennod G3 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.3) yn nodi effaith niweidiol sylweddol ar fferm Tyn-y-Felin a fyddai'n debygol o effeithio ar lwyddiant masnachol y busnes ffermio yn y dyfodol.

F.4.62 Nid oes disgwyl i'r Newidiadau i'r Briffordd sy'n gysylltiedig â chyffordd ffordd fynediad Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd effeithio ar unrhyw fusnesau lleol o ran newidiadau yn y mynediad i gerbydau, llwyddiant masnachol yn y dyfodol a llwyddiant masnachol busnes ffermio yn y dyfodol.

F.4.63 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, mae disgwyl effeithiau bach ar fusnesau lleol o ran y newid yn y mynediad i gerbydau a'r newidiadau posibl o ran cwsmeriaid sy'n pasio heibio. Byddai disgwyl o hyd i'r cymunedau yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd fod yn ddibynnol ar y busnesau hynny. Byddai disgwyl i'r busnesau yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd hefyd gael budd o ragor o wario o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd am tua 18 mis. Ystyrir y byddai'r cynnydd hwn mewn gwariant mewn busnesau lleol sy'n berchen i bobl leol ac sy'n cael eu rhedeg gan bobl leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, yn cael effaith fanteisiol ar y Gymraeg.

F.4.64 Yn ystod cam adeiladu'r Newidiadau i'r Briffordd, byddai mynediad yn ôl ac ymlaen o fusnesau a gwasanaethau lleol a thir amaethyddol yn cael ei gadw drwy gydol y cam adeiladu drwy ddargyfeirio gydag arwyddion dwyieithog, pan fo angen. Byddai hyd a lleoliad bras y dargyfeiriadau hyn yn cael eu cyfathrebu i'r partïon yr effeithir arnynt, yn ôl yr angen, cyn eu rhoi ar waith.

F.4.65 Byddai proses ymgynghori â'r perchnogion tir a'r meddianwyr yr effeithir arnynt hefyd yn mynd rhagddi. Bydd y broses hon yn ymwneud â lleoliad ac amseru'r gwaith adeiladu arfaethedig i leihau aflonyddwch, lle bo hynny'n ymarferol, gan ystyried y rhaglen adeiladu gyffredinol. Byddai hysbysiad o fwriad i ddechrau gwneud gwaith adeiladu hefyd yn cael ei roi i berchnogion a meddianwyr tir amaethyddol ger y Newidiadau i Briffordd yr A5025 cyn i'r gwaith ddechrau.

F.4.66 Ar ôl cwblhau'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, fel rhan o'r mesurau lliniaru ymarfer da, byddid yn ystyried newid yr arwyddion presennol ar hyd y ffordd ar hyd y Newidiadau i Briffordd yr A5025 am rai newydd i rai busnesau y mae eu mynediad wedi newid a'u busnes yn arbennig o ddibynnol ar symudiadau cerbydau o'r A5025.

F.4.67 O ran yr effeithiau a nodir uchod yng nghyswllt adrannau 1 a 3, sydd â'r potensial i arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar lwyddiant masnachol busnesau ffermio yn y dyfodol, dim ond i ddwy fferm y maent yn berthnasol; fodd bynnag, gallai effeithiau o'r fath gael effeithiau niweidiol tymor hir ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 pe bai'r ffermydd hynny'n rhoi'r gorau i fasnachu neu'r perchnogion tir/tenantiaid hynny'n symud. Gallai'r effeithiau sy'n dylanwadu ar lwyddiant masnachol y ddwy fferm yn y dyfodol arwain at berchnogion tir yn rhoi'r gorau i fasnachu neu'n symud, a hefyd gyfyngu ar allu cenedlaethau'r dyfodol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) i ffermio yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

F.4.68 Rhaid cydbwyso cydbwysedd cyffredinol yr effeithiau manteisiol a niweidiol bach iawn ar fusnesau lleol yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn erbyn yr effeithiau niweidiol ar ddwy fferm a allai arwain at effeithiau ar lwyddiant masnachol y ffermydd yn y dyfodol. Yng ngoleuni hyn, mae effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol wedi ei nodi.

Effaith gyffredinol

F.4.69 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.70 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Brifford yr A5025. Nid oes mesurau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnig fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C9: A yw'r Newidiadau i'r Brifford yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- Creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd fod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy achosi i fusnesau lleol gau)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.71 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, patrymau cymudo, gweithgarwch economaidd, a'r Gymraeg a'r gweithle ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.72 Mae effeithiau'r Newidiadau i'r Brifford ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Yng ngoleuni hyn, ni chyflwynir asesiad ar gyfer ardal astudiaeth ADL y Newidiadau i'r Brifford.

Effaith gyffredinol

F.4.73 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.74 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Brifford yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C10: A yw'r Newidiadau i'r Brifford yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- Arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.75 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, llifoedd mudo a gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.76 Mae effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i'r Briffordd ar amrywiaeth economaidd; felly, ni ddarperir asesiad pellach o ardal astudiaeth ADL y Newidiadau i'r Briffordd.

Effaith gyffredinol

F.4.77 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.78 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C11: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.79 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogau wythnosol ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.80 Mae effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar lefel cyflogau lleol; felly, ni ddarperir asesiad pellach o ardal astudiaeth ADL y Newidiadau i'r Briffordd.

Effaith gyffredinol

F.4.81 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.82 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C12: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- Gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- Bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- Atal siaradwyr Cymraeg lleol rhag dychwelyd i'r ardal/y gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.83 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phrisiau tai, tai fforddiadwy, tueddiadau mudo a chyflogaeth y farchnad lafur ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

F.4.84 Yn 2012, gwelwyd cymarebau eithaf isel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Llanfair-yn-Neubwll (rhwng 3.5 a 4.8), Llanfaethlu (rhwng 3.5 a 4.8) a'r Fali (rhwng 4.9 a 5.6), a gwelwyd cymarebau uchel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Mechell (rhwng 6.3 a 7.0) a Llanbadrig (rhwng 7.1 a 10.2) [RD38].

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.85 Byddai'r Newidiadau i'r Briffordd yn cynnwys adeiladu adrannau newydd o ffordd, fel ffyrdd osgoi a gwaith alinio ffyrdd, mewn pum lleoliad ar hyd yr A5025 rhwng y Fali ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai gwaith o'r fath yn ystod y cam adeiladu neu ar ôl gorffen yn effeithio ar gost tai yn gyffredinol yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai Adran 3 arwain at wella amwynder eiddo preswyl ar hyd priffordd bresennol yr A5025 yn gyffredinol yn y pentref gan fod disgwyl i lefelau presennol y traffig ddisgyn mwy na 60%. Gallai hyn arwain at gynnydd cyffredinol yng ngwerth anheddau preswyl ym mhentref Llanfachraeth; fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnydd hwn mewn gwerth yn un sylweddol. Wrth ystyried effaith y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gyffredinol, nodir effaith niweidiol gyffredinol fach iawn.

Effaith gyffredinol

F.4.86 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.87 Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cael effaith niweidiol fach iawn ar gost tai a llety yn ystod y cam adeiladu, ac effaith niwtral yn ystod y cam gweithredu. Fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5), byddai Horizon yn sefydlu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr. Byddai'r gwasanaeth hwn a'i grŵp goruchwylio (a fyddai'n cynnwys awdurdodau lleol) yn ffordd o fonitro effeithiau'r Prosiect ar y cyflenwad a'r galw am lety a thai o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13. A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.88 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg a'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

F.4.89 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

F.4.90 Mae pedair ysgol gynradd yn ardal ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025, gan gynnwys Ysgol Gymuned y Fali, Ysgol Gynradd Llanfachraeth, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Gymuned Cylch y Garn.

F.4.91 Caeodd Ysgol Gynradd Llanfachraeth, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Gymuned Cylch Y Garn ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol ardal wedi'i hadeiladu o'r newydd yn Llanfaethlu ar hyd yr A5025, sy'n lleoliad canolog yn y dalgylch cyfun. Agorodd yr ysgol newydd, o'r enw Ysgol Rhyd y Llan, ym mis Medi 2017.

F.4.92 Yr ysgolion uwchradd agosaf i Ardal Datblygu Wylfa Newydd yw Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.93 Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral, gan nad oes disgwyl effeithiau

o ran newid mewn poblogaeth, mewnfudo nac allfudo (gan fod yr effeithiau hyn wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, gweler adran B.4 yr AEIG hwn).

F.4.94 Felly, nid oes disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 effeithio ar gofrestri disgyblion na newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg/di-Gymraeg yn ysgolion presennol Ysgol Gymuned y Fali ac Ysgol Rhyd y Llan.

Effaith gyffredinol

F.4.95 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.96 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar ysgolion lleol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C14: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.97 Y meddygfeydd agosaf i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yw Fferyllfa'r Fali (cangen o Feddygfa Victoria, Caergybi; Y Feddygfa, Bro'r Ysgol, Meddygfa Bodedern; a Chemaes, Stryd Fawr, Cemaes.

F.4.98 Ysbyty Gwynedd ym Mangor sy'n darparu gwasanaethau ysbyty ar gyfer trigolion Ynys Môn. Yn ogystal ag Ysbyty Gwynedd, mae uned mân anafiadau ar gael yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi. Mae'r fferyllfeydd agosaf yn y Fali a Chemaes.

F.4.99 Mae practisiau deintyddol yn y Fali ac yng Nghemaes sy'n darparu gwasanaethau i gleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

F.4.100 Mae ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd ar Ynys Môn yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Mae 90% o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn credu bod darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg [RD25].

F.4.101 Mae parth mynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried amddifadedd sy'n deillio o anallu aelwyd i gael gafael ar amrywiaeth eang o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd [RD61]. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (ee ddim yn gallu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol amddifadedd (ee ddim yn gallu

mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol). Mae'r parth hwn yn mesur amseroedd teithio i amrywiaeth o wasanaethau fel procsi ar gyfer mynediad ehangach at wasanaethau [RD61]. Roedd Llanfair-yn-Neubwll 1, Llanfaethlu a Mechell ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau (217eg, 56fed a 77ain o 1,909 yn y drefn honno), ac roedd y Fali 2 ymysg y 30% i 50% o ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru (746fed o 1,909) ac roedd y Fali 1 ymysg y 50% o ardaloedd lleiaf amddifad yng Nghymru (1,329ain o 1,909).

F.4.102 Mae dadansoddiad gwaelodlin manwl ar fynediad at wasanaethau iechyd ar gael yn Natganiad Sgrinio Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd yng nghyswllt Gwelliannau i Briffordd yr A5025, sy'n rhan o'r dogfennau a gyflwynir gyda'r cais cynllunio.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.103 Fel y nodir yn y parth sy'n cael ei gyflwyno uchod, mae'r cyfleusterau gofal iechyd sydd yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd yn y Fali. Er y byddai newidiadau i'r ffordd o gael mynediad i bentref y Fali wrth deithio o'r A55 neu ar hyd yr A5025 o gyfeiriad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, byddai'r rhain yn fach ac ni fyddent yn effeithio ar ddarpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau o'r fath na'u hyfywedd yn y dyfodol.

F.4.104 Yn ystod y cam adeiladu, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn nodi'r posibilrwydd o ostyngiadau dros dro yn amseroedd ymateb y gwasanaethau brys oherwydd rhagor o dagfeydd ar y ffyrdd. Yn ôl yr hyn a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ar ôl gorffen adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, yn gyffredinol byddai effeithiau manteisiol a fyddai'n gysylltiedig ag amseroedd siwrneiau gwell i'r gymuned wledig wrth gael gafael ar ofal iechyd, gan leihau amddifadedd mynediad a chefnogi derbyn gofal iechyd sy'n gritigol o ran amser.

Effaith gyffredinol

F.4.105 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.106 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar newid darpariaeth gofal iechyd o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C15: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, ee yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.107 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth waelodlin sy'n ymwneud â chyfleusterau a gwasanaethau lleol yn y cymunedau ar hyd yr A5025 wedi'i nodi yn atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Trosolwg o'r cymunedau ar hyd llwybr y Newidiadau i'r Briffordd

Y Fali

F.4.108 Mae'r Fali yn bentref mawr sydd ym mhen gorllewinol yr A5025. Mae gan y pentref nifer o gyfleusterau a gwasanaethau pwysig gan gynnwys ysgol gynradd, meddygfa, practis deintyddol, fferyllfa, sawl siop, bwytai, mannau addoli, mynwent, gorsaf drenau, swyddfa bost, gorsafoedd gwasanaeth/petrol, garejys trwsio cerbydau a chyfleusterau hamdden sy'n gysylltiedig â Pharc Mwd, gan gynnwys ardal bêl-droed werdd, cae chwarae a choetir.

Llanynghenedl

F.4.109 Mae Llanynghenedl yn bentrefan rhwng y Fali a Llanfachraeth, ar hyd yr A5025. Nid oes dim cyfleusterau lleol yn y pentrefan ac felly mae'r trigolion yn dibynnu ar gyfleusterau a gwasanaethau eraill sydd ar hyd yr A5025 ar gyfer eu hanghenion bob dydd.

Llanfachraeth

F.4.110 Mae Llanfachraeth yn bentref ar yr A5025, ger arfordir gorllewinol yr ynys. Mae gan y pentref rai cyfleusterau lleol, gan gynnwys neuadd bentref, siop leol, swyddfa bost, siop nwyddau cefn gwlad, tafarn, mannau addoli a mannau gwyrdd. Caeodd Ysgol Gynradd Llanfachraeth ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol gynradd newydd yn Llanfaethlu – Ysgol Rhyd y Llan.

Llanfaethlu

F.4.111 Mae Llanfaethlu yn bentref bach rhwng Llanfachraeth a Llanrhuddlad, ar hyd yr A5025. Mae gan y pentref rai cyfleusterau lleol, gan gynnwys ysgol gynradd (Ysgol Rhyd y Llan), neuadd bentref, caffi, siop leol a swyddfa bost, tafarn gyda llety gwely a brecwast, mannau addoli, cynhyrchydd lleol o wirodydd Cymreig traddodiadol, gwersyllfa a chyfleusterau hamdden ym Mharc Llanfaethlu. Caeodd Ysgol Ffrwd Win ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol gynradd newydd yn Llanfaethlu – Ysgol Rhyd y Llan.

Llanrhuddlad

F.4.112 Mae Llanrhuddlad yn bentref bach i'r gogledd o Lanfaethlu, ar hyd yr A5025. Mae cyfleusterau lleol cyfyngedig yn y pentref, yn cynnwys mannau addoli. Caeodd Ysgol Gymuned Cylch y Garn ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r disgyblion wedi cael eu trosglwyddo i ysgol gynradd newydd yn Llanfaethlu – Ysgol Rhyd y Llan.

Tregele

F.4.113 Mae Tregele yn bentref bach i'r de o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Nid oes gan y pentref unrhyw wasanaethau cymunedol allweddol, ac mae'n dibynnu ar Gemaes a'r pentrefi eraill ar hyd yr A5025 er mwyn cael gafael ar wasanaethau.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.114 Mae nifer o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol wedi'u lleoli yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd, a gallai'r Newidiadau effeithio arnynt o ran y newidiadau yn y mynediad i gerbydau. Mae'r effeithiau ar fusnesau lleol yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd wedi'u hasesu yng nghwestiwn 8 a byddai rhai o'r busnesau hynny sydd wedi cael eu hasesu yn cael eu hystyried yn gyfleusterau cymunedol hefyd, fel tafarndai, siopau a swyddfeydd post. Er mwyn osgoi dyblygu effeithiau, nid yw'r cyfleusterau cymunedol sydd eisoes wedi cael eu hasesu fel rhan o gwestiwn 8 wedi cael eu hasesu fel rhan o'r cwestiwn hwn.

F.4.115 Mae'r cyfleusterau cymunedol ym mhentrefi y Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu wedi'u nodi yn y waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod.

F.4.116 Byddai newidiadau i drefniadau mynediad at gyfleusterau cymunedol o fewn y Newidiadau i'r Briffordd yn amharu rhywfaint ar ddefnyddwyr yn ystod y cam adeiladu; fodd bynnag, ar ôl gorffen y gwaith byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn golygu ei bod hi'n haws cyrraedd cyfleusterau o'r fath oherwydd amser siwrneiau llai i drigolion ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

F.4.117 Yn yr un modd â busnesau lleol ac eiddo preswyl, byddai mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol fel neuaddau pentref, mannau addoli, mannau agored, mynwentydd, gorsafoedd trenau a gorsafoedd heddlu yn cael ei gynnal bob amser yn ystod y cam adeiladu drwy ddefnyddio arwyddion dargyfeirio dwyieithog. Byddai hyd a lleoliad bras y dargyfeiriadau hyn yn cael eu cyfathrebu i'r partïon yr effeithir arnynt, yn ôl yr angen, cyn eu rhoi ar waith.

F.4.118 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nid oes disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 gael effaith ar ddarparu gwasanaethau cymunedol lleol yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Effaith gyffredinol

F.4.119 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

F.4.120 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.121 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar wasanaethau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- Cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.122 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymunedau Cymraeg eu hiaith wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.123 Byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys adeiladu adrannau newydd o ffordd, fel ffyrdd osgoi a gwaith ail-alinio ffordd. Byddai'n rhaid gwneud y gwaith hwn gan nad yw'r seilwaith ffordd presennol ar hyd yr A5025 yn cyrraedd y safonau dylunio cyfredol ac nid yw'n addas i ymdopi â'r llif traffig disgwyliedig sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu Gorsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd. Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu na gweithredu gwaith i wella'r briffordd fel y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau Cymraeg ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Effaith gyffredinol

F.4.124 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.125 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar densiynau cymdeithasol/gwrthdaro o ganlyniad i gamau adeiladu a

gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C17: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal;
- Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg;
- Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.126 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.127 Mae cysylltiad annatod rhwng yr effeithiau ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg a'r effeithiau posibl ar newid mewn poblogaeth, cyflogaeth, tai, ysgolion a chydlyniant cymunedol. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo), 3 (allfudo), 9 (cyflogaeth), 12 (tai), 13 (ysgolion) ac 16 (cydlyniant cymunedol) yn nodi effeithiau niwtral, ac eithrio'r effeithiau ar gost tai yn Llanfachraeth, a allai gael effaith niweidiol fach iawn ar y Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i gynnydd posibl mewn gwerth tai yn y pentref, a allai ddeillio o wella'r amwynder a lleihau'r traffig yn gyffredinol.

F.4.128 Oherwydd y byddai disgwyl i'r effaith hon fod yn un fach, ni fyddai disgwyl i hyn effeithio'n niweidiol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gyffredinol. Fodd bynnag, efallai y ceir effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg ym mhentref Llanfachraeth.

Effaith gyffredinol

F.4.129 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.130 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Wylfa Newydd

yn nodi mesurau arfaethedig a fyddai'n ceisio gwella unrhyw effeithiau manteisiol a mesurau lliniaru a fyddai'n ceisio mynd i'r afael ag effaith gweithwyr Wylfa Newydd a'u teuluoedd yn symud i'r ardal. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yng nghyswllt yr effeithiau ar boblogaeth (gweler Tabl B-1 dan Gwestiwn 1 uchod) hefyd yn berthnasol i'r effeithiau ar draddodiadau a diwylliant (sef mesurau 1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23). Mae pob un o fesurau'r Strategaeth hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad B4-1 yr AEIG hwn.

C18: A yw'r Newidiadau i'r Briffordd yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - Cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;
  - Cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

F.4.131 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r gymuned wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

F.4.132 Wrth ymyl yr A5025 mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn y gymuned sy'n gallu hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig):

- Yr Urdd (a gynhelir ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ger yr A5025);
- Merched y Wawr (a gynhelir yn y Fali, Cemaes, Bodedern a Llanfechell);
- Clybiau ieuenctid (a gynhelir yn y Fali, Llanfachraeth, Bodedern a Llanfair-yng-Nghornwy);
- Cylchoedd Meithrin (a gynhelir yn y Fali, Cemaes, Bodedern a Llanfechell);
- Cylchoedd Ti a Fi (a gynhelir yn Llanfaethlu, Cemaes a Bodedern);
- Clybiau Ffermwyr Ifanc (a gynhelir ym Modedern a Rhosybol);
- Clwb y Cob (a gynhelir yn y Fali);
- Cangen Gymraeg Sefydliad y Merched (a gynhelir ym Modedern);
- Clwb Pensiynwyr (a gynhelir yn Llanfaethlu);
- Clwb yr Odyn (a gynhelir yn Llanfaethlu);
- Cymdeithas yr Engan (a gynhelir yng Nghemaes).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

F.4.133 Mae'r waelodlin sy'n cael ei chyflwyno uchod yn nodi grwpiau gwirfoddol a grwpiau ieuenctid gweithredol yn ADL y Newidiadau i'r Briffordd, sy'n hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol Cymreig a rhwydweithiau creadigol yn

ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn cynnwys adeiladu adrannau newydd o ffordd, fel ffyrdd osgoi a gwaith ail-alinio ffordd, a fyddai'n arwain at rywfaint o newidiadau i drefniadau mynediad at gyfleusterau cymunedol ym mhentrefi'r Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu.

F.4.134 Yn ystod y cam adeiladu, efallai y byddai rhywfaint o amharu o ran oedi wrth deithio; fodd bynnag, byddai mynediad at yr holl gyfleusterau cymunedol (gan gynnwys y rheini lle mae grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn cwrdd) yn cael ei gadw bob amser drwy ddargyfeirio gydag arwyddion dwyieithog, pan fo angen. Yn ystod y cam gweithredu, fel rhan o liniaru ymarfer da, byddid yn ystyried disodli arwyddion presennol ar hyd y ffordd ar hyd y Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar gyfer rhai cyfleusterau cymunedol, lle byddai newid i'r trefniadau mynediad. Ni fyddai effaith niweidiol ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025.

F.4.135 Cydnabyddir yng nghwestiwn 12 y gallai'r Newidiadau i'r Briffordd arwain at effaith niweidiol fach iawn ar y Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i'r cynnydd posibl mewn gwerth tai ym mhentref Llanfachraeth (gweler cwestiwn 12 am fwy o fanylion). Gan fod disgwyl i'r effaith hon fod yn un fach iawn, byddai disgwyl effeithiau cyfyngedig ar grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd yn ardal y Newidiadau i Briffordd yr A5025.

Effaith gyffredinol

F.4.136 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

F.4.137 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar grwpiau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, ac felly nid ystyrir bod angen am fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

F.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd

F.5.1 Mae crynodeb o effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd ar y Gymraeg a'i Diwylliant i'w weld yn nhabl F-2.

Tabl F-2 Crynodeb o effeithiau'r prosiect cyfan yn ystod y camau adeiladu a gweithredu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	**Mewnfudo**	**Allfudo**	**Strwythur oed**	**Iechyd**	**Amwynder**	**Troseddau**	**Busnesau lleol**	**Swyddi lleol**	**Amrywiaeth economaidd**	**Incwm**	**Prisiau tai**	**Ysgolion**	**Gofal iechyd**	**Gwasanaethau lleol**	**Tensiynau/ gwrthdaro**	**Diwylliant a thraddodiadau**	**Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/**
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	0	0	+0.2	+0.3	0	-0.3	0	0	0	-0.2	0	0		0	-0.1	-0.1
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith niweidiol fach iawn	Niwtral
	0	0	0	0	+0.2	+0.2	0	-0.2	0	0	0	-0.2	0	0	0	0	-0.1	0
Sgôr mynegai dimensiynol	Niwtral				Effaith fanteisiol fach iawn			Effaith niweidiol fach iawn					Niwtral			Niwtral		
	0				+0.1			-0.1					0.0			0.0		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

F.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Newidiadau i'r Briffordd

F.6.1 Mae mesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol a gwella'r effeithiau manteisiol o ran effeithiau prosiect cyfan Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi'u cyflwyno yng nghyfrol B yr AEIG hwn a'u crynhoi yn adran B.7. Yng ngoleuni'r mesurau lliniaru hynny, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd.

F.7 Effeithiau gweddilliol

F.7.1 Mae Tabl F-3 isod yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

F.7.2 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn cydnabod y byddai angen gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod y gwaith o adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ac wedi hynny, er mwyn mesur effeithiau gweddilliol y Newidiadau hyn. Fel rhan o'r Strategaeth, byddai Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn golygu bod modd asesu'r effeithiau gweddilliol a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl F-3 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
2	Mewnfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
3	Allfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
4	Strwythur oed	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
5	Iechyd pobl leol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
6	Amwynder yr ardal leol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler pennod G5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.5)	Gweler pennod G5 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.7.5)
7	Troseddau/trais	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Gweler y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Gweler y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).
9	Swyddi lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
10	Amrywiaeth economaidd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
11	Cyflogau	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
12	Prisiau tai	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	Gweler y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5).	Gweler y Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5).
13	Ysgolion lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
15	Gwasanaethau lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
17	Traddodiadau/ diwylliant	Effaith niweidiol fach iawn	Effaith niweidiol fach iawn	1, 9, 10, 12, 17, 18, 20, 21, 22, 23	Byddai gweithwyr adeiladu sy'n dewis aros ym mhrif ardal yr astudiaeth a hyd at 15% o'r gweithwyr cam gweithredu yn dod o'r tu allan o brif ardal yr astudiaeth ac yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg ac felly byddai hyn yn creu effeithiau gweddilliol ar ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

G Canolfan Logisteg

G.1.1 Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r asesiad o'r effeithiau yn sgil adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r gyfrol hon yn eithrio effeithiau'r prosiect cyfan ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rheini yn cael sylw yn yr asesiad sydd yng nghyfrol B yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) hwn.

G.1.2 Mae'r effeithiau a nodir yn bodoli cyn gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a/neu'r mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol. Mae mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a mesurau gwella i gynyddu'r effeithiau manteisiol yn cael eu nodi ar ddiwedd pob cwestiwn. Mae effeithiau gweddilliol, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a/neu wella ar waith, yn cael eu rhagweld yn ansoddol.

G.1.3 Mae effeithiau cronnus, gan gynnwys effeithiau o fewn y prosiect o ran Prosiect DCO Wylfa Newydd drwyddo draw, yn cael eu trafod yng nghyfrol H.


G.1.4 Mae data a thystiolaeth manwl o'r waelodlin o ran yr AEIG yn cael eu cyflwyno yn atodiad A7-1; fodd bynnag, mae crynodeb o'r data a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n berthnasol i bob cwestiwn yn yr asesiad yn cael ei gyflwyno yn yr asesiad sydd yn adran G.4.

G.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Ganolfan Logisteg

G.2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r ardaloedd astudiaeth sy'n berthnasol i'r asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y Ganolfan Logisteg. Mae cwmpas daearyddol yr ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr AEIG hwn wedi'u cyflwyno a'u diffinio yn nhabl A-13 yr AEIG hwn, ac mae'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddir yn yr asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan i'w gweld yn ffigur A-1 a ffigur A-2.

G.2.2 Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer asesu'r Ganolfan Logisteg yn cynnwys yr ADL, sy'n ymestyn i radiws o 1km o'r Ganolfan. Byddai'r Ganolfan Logisteg wedi'i lleoli yn ward Kingsland ac mae'r ADL 1km yn ymestyn i wardiau Ffordd Llundain a Threarddur (gweler Ffigur G-1).

Ffigur G-1 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG o ran y Ganolfan Logisteg



[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

G.3 Sail yr asesiad a'r tybiaethau

G.3.1 Mae'r cais am gydsyniad datblygu yn seiliedig ar ddull Cynllun o'r Paramedr a Chynllun Gwaith, fel yr amlinellir ym mhennod H1 y Datganiad Amgylcheddol (cyflwyniad i'r broses asesu) (Cyfeirnod y Cais: 6.8.1). Mae'r asesiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi ystyried yr hyblygrwydd y mae'r dull cynllun o'r paramedr yn ei gynnig, ac yn cynrychioli'r 'sefyllfa waethaf' o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Adeiladu

G.3.2 Graddfa fras y gweithlu adeiladu (dim mwy na 40 o weithwyr adeiladu) a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Ganolfan Logisteg yw sail yr asesiad hwn.

G.3.3 Mae Ffigur C-2 yn dangos dadansoddiad blynyddol o'r amserlen adeiladu ar gyfer yr holl elfennau o Brosiect DCO Wylfa Newydd ac, o ganlyniad, syniad o'r cyfnodau amser tebygol lle bydd angen niferoedd gweithlu sylweddol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Nid yw'r gweithwyr a fydd eu hangen i adeiladu'r Ganolfan Logisteg a'r Datblygiadau Cysylltiedig eraill (ac eithrio Campws y Safle) yn gorgyffwrdd â'r nifer uchaf o weithwyr adeiladu sydd eu hangen ar gyfer datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd byddai'r Ganolfan Logisteg yn weithredol yn ystod y cyfnod hwn.

G.3.4 Mae Cod Ymarfer Adeiladu trosfwaol Prosiect DCO Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais 8.6) a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnod y Cais: 8.7 i 8.12) yn nodi'r safonau a'r mesurau gwaith sy'n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth, ac yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol, gyda'r nod o reoli effeithiau niweidiol ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) yn nodi strategaethau prosiect cyfan wedi'u cefnogi gan Is-godau Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnod y Cais: 8.7 i 8.12) sy'n darparu safonau a mesurau ychwanegol sy'n benodol berthnasol i safle neu leoliad arbennig.

Gweithredu

G.3.5 Graddfa fras gweithlu'r cam gweithredu (14 swydd yn ôl pob tebyg) a'r gweithgareddau sy'n gysylltedig â gweithredu'r Ganolfan Logisteg yw sail yr asesiad hwn, ac mae'r tybiaethau wedi cael eu gwneud yn y cyd-destun hwn.

Datgomisiynu

G.3.6 Graddfa fras y gweithlu (y disgwylir iddo fod yn debyg o ran sgiliau a maint i weithlu'r cam adeiladu) a'r gweithgareddau a wneir yn ystod cam datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg yw sail yr asesiad hwn. Tybir hefyd y byddai datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg yn cynnwys tynnu adeiladau i lawr, a gadael y safle mewn 'cyflwr hwylus' ar gyfer defnydd posibl os na cheir hyd i ddefnydd cymunedol neu fusnes arall ar gyfer y cyfleuster pan fydd ei gam gweithredu yn dod i ben. Mae'r asesiad hwn yn cael ei wneud ar y sail y bydd y gwaith datgomisiynu yn cynnwys tynnu'r adeiladau i lawr a gadael y safle mewn cyflwr hwylus, gan fod hynny'n cynrychioli'r 'sefyllfa waethaf'.

G.4 Asesiad o'r effeithiau

G.4.1 Ystyrir yr effeithiau yn erbyn y 18 cwestiwn canlynol yn y rhestr wirio, yn ôl y fethodoleg a ddisgrifir yn adran A.5 sy'n cwmpasu'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol. Mae'r asesiad wedi'i osod yn yr un fformat ag y cyflwynwyd yn adran B.4 yr AEIG hwn; fodd bynnag, nid yw cefndir pob cwestiwn yn cael ei ailadrodd. O ganlyniad i raddfa a natur y Ganolfan Logisteg a'r effeithiau cyfyngedig ar y Gymraeg a'i diwylliant (gan fod yr asesiad yn ymwneud ag effeithiau penodol i safle), mae camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, yn hytrach na fel dau gynnig ar wahân.

Nodweddion y boblogaeth

C1. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

- Effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol);
- Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.2 Byddai'r Ganolfan Logisteg wedi'i lleoli yn ward Kingsland ac mae'r ADL 1km yn ymestyn i wardiau Ffordd Llundain a Threarddur.

G.4.3 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran dosbarthiad y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar gyfer wardiau Kingsland, Ffordd Llundain a Threarddur yn 2011.

G.4.4 Yng Nghyfrifiad 2011, roedd cyfanswm poblogaeth trigolion y wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg yn 5,246 a oedd yn cynrychioli 7.5% o boblogaeth Ynys Môn (cyfanswm: 69,751). O gyfanswm poblogaeth trigolion y wardiau ar draws y Ganolfan Logisteg (5,246), roedd 29.1% yn byw yn ward Kingsland, 28.4% yn ward Ffordd Llundain a 42.5% yn ward Trearddur. Yn 2011, roedd 41.5% o boblogaeth (tair oed neu hŷn) y wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg yn gallu siarad Cymraeg. Mae amrywiadau yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg rhwng y tair ward, gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Ffordd Llundain (45.3%) a'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Trearddur (38.1%) yn 2011.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.5 Mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg, ynghyd ag ystyriaeth o ble mae'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a ydynt yn weithwyr sy'n byw gartref sydd eisoes yn byw yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), neu'n weithwyr nad ydynt yn byw gartref o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth). Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n

gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Ganolfan Logisteg) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

G.4.6 Nid oes disgwyl i adeiladu na gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

Effaith gyffredinol

G.4.7 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.8 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar newid mewn poblogaeth o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C2. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

- A allai'r Ganolfan Logisteg arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg;
- A fydd y newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.9 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data poblogaeth a siaradwyr Cymraeg ar gyfer y wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg wedi'i nodi fel rhan o gwestiwn 1 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 41.5% o'r boblogaeth (tair oed neu hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na'r ganran yng Ngogledd Ynys Môn, De Ynys Môn, Gorllewin Ynys Môn, Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Roedd Cyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod 60.1% o boblogaeth Caergybi (tair oed neu hŷn) yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.10 Fel y nodir yng nghwestiwn 1, mae'r effeithiau ar newid mewn poblogaeth yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r gweithlu a fydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg, ynghyd ag ystyriaeth o ble mae'r gweithwyr hynny wedi'u lleoli (hy a ydynt yn weithwyr sy'n byw gartref ai peidio), ac felly'r effeithiau cysylltiedig posibl ar fewnfudo. Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Ganolfan Logisteg) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau

ar newid mewn poblogaeth drwy fewnfudo hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

G.4.11 Nid oes disgwyl i adeiladu na gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg.

Effaith gyffredinol

G.4.12 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.13 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar fewnfudo o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o'r effeithiau sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C3. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at fwy o allfudo?

- A yw'r broses o allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg;
- A fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.14 Mae'r dadansoddiad gwaelodlin a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 1 a 2 hefyd yn berthnasol i gwestiwn 3, sy'n ymwneud ag allfudo. Mae Atodiad A-7 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran patrymau mudo ar Ynys Môn rhwng 2001 a 2015.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.15 Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ei hun arwain at allfudo o'r ADL. Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan ac maent i'w gweld yn adran B.4. Er y gallai adeiladu'r Ganolfan Logisteg arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol yr ADL, mae newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn rhai bach o ran yr aflonyddwch ar drigolion cyfagos (gweler cwestiwn 6 am asesiad manylach o'r newidiadau posibl i ansawdd amgylcheddol ac, felly, ansawdd bywyd yn yr ADL).

G.4.16 O ran gweithredu'r Ganolfan Logisteg, mae'r safle ar blot gwag mewn ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer defnydd diwydiannol, sydd wrth ymyl datblygiadau diwydiannol ac adwerthu sydd eisoes yno. Nid oes disgwyl i weithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL, yn enwedig wrth ystyried defnydd blaenorol a chyfredol y safle.

G.4.17 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y boblogaeth bresennol ac felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg.

Effaith gyffredinol

G.4.18 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.19 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar allfudo o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C4. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - Tensiynau cymdeithasol/chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.20 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran strwythur oed y boblogaeth a sgiliau Cymraeg ar gyfer y wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg yn 2011.

G.4.21 Mae poblogaeth oed gweithio'r wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg ychydig yn is (60%) na chyfartaledd Cymru (63%), ond mae ychydig yn uwch nag Ynys Môn (61%) a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (61%). Mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yng Nghaergybi yn uwch nag y mae yng Nghymru gyfan, ond yn is nag y mae yn Ynys Môn a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.22 Nid yw'r asesiadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) uchod yn nodi unrhyw newid yn y boblogaeth bresennol (ac felly dim newid yn y proffil presennol o siaradwyr Cymraeg yn yr ADL o ganlyniad uniongyrchol i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg). Felly, nid oes disgwyl unrhyw newidiadau

i broffil oed poblogaeth yr ADL o ganlyniad uniongyrchol i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg.

Effaith gyffredinol

G.4.23 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.24 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar strwythur oed y boblogaeth o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ansawdd bywyd

C5. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- Gwneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.25 Mae dadansoddiad manwl o'r waelodlin o ran iechyd wedi'i ddarparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) ac mae atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol o ran iechyd cyffredinol a'r iaith Gymraeg ar gyfer y wardiau ar draws ADL y Ganolfan Logisteg.

G.4.26 Yng Nghyfrifiad 2011, roedd cyfran uchel (78.1%) o'r boblogaeth ar draws wardiau ADL y Ganolfan Logisteg yn ystyried bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn'. O blith y boblogaeth Gymraeg ei hiaith (tair oed neu hŷn) sy'n byw yn y wardiau hyn, roedd 78.1% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', ac roedd 16.2% wedi dweud bod eu hiechyd yn 'weddol' a 5.7% wedi dweud ei fod yn 'wael neu'n wael iawn'.

G.4.27 Mae hyn yn cymharu â'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan, lle'r roedd 77.7% o'r boblogaeth yn ystyried bod eu hiechyd yn 'dda neu'n dda iawn', a 7.4% o'r boblogaeth yn ystyried bod eu hiechyd yn 'wael neu'n wael iawn'.

G.4.28 Mae ADL y Ganolfan Logisteg wedi'i lleoli ar draws Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Trearddur 2, Kingsland a Ffordd Llundain. Ym mharth iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Kingsland a Ffordd Llundain ymysg y 10-20% mwyaf

amddifad yng Nghymru, ac roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Trearddur 2 ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.29 Mae Datganiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym wedi cael ei baratoi er mwyn asesu effeithiau posibl adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg (gweler adran H.2 yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) am fanylion). Er bod effeithiau a allai fod yn sylweddol ar iechyd grwpiau agored i niwed (a'r cyhoedd yn gyffredinol) wedi cael eu hystyried, daeth y datganiad sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym i'r casgliad nad oes dim effeithiau ar iechyd sy'n galw am asesiad pellach.

G.4.30 Ar y sail hon, nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg effeithio ar iechyd y boblogaeth. Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol, fel gwneud yr ADL yn lle llai dymunol i fyw ynddi neu gynyddu costau byw poblogaeth bresennol yr ADL, ac felly nid oes disgwyl effeithiau ar y Gymraeg chwaith.

Effaith gyffredinol

G.4.31 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.32 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar iechyd o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C6. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.33 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Trearddur 2, Kingsland a Ffordd Llundain. Ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Ffordd Llundain ymysg y 20-30% mwyaf amddifad yng Nghymru, roedd Kingsland ymysg y 30-50% mwyaf amddifad yng Nghymru, ac roedd Trearddur 2 ymysg y 50% lleiaf amddifad yng Nghymru.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.34 Mae Pennod H5 (ansawdd yr aer) y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.8.5) yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau gweddilliol sylweddol ar ansawdd yr aer yn gysylltiedig â'r Ganolfan Logisteg.

G.4.35 Mae Pennod H6 (sŵn a dirgryndod) y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.8.6) yn dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol o ran sŵn a dirgryndod, heblaw am rai bach, ar ôl rhoi mesurau lliniaru ar waith.

G.4.36 O ran gweithredu'r Ganolfan Logisteg, mae'r safle ar blot gwag mewn ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer defnydd diwydiannol, ochr yn ochr â datblygiadau diwydiannol ac adwerthu sydd eisoes yno. Nid oes disgwyl i weithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL, yn enwedig wrth ystyried defnydd blaenorol a chyfredol y safle.

G.4.37 Felly, nid ystyrir ei bod yn debygol y bydd y Ganolfan Logisteg yn cael effaith ar amwynder yr ardal leol, nac yn gwneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi.

Effaith gyffredinol

G.4.38 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.39 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar amwynder yr ardal leol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C7. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned? A allai wneud y canlynol:

- Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.40 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran troseddu ar Ynys Môn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.41 Mae Atodiad O.5 yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) yn cynnwys Datganiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym a oedd yn ystyried mai bach iawn yw'r potensial am unrhyw weithgarwch anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol o ganlyniad uniongyrchol i'r Ganolfan Logisteg, a hynny oherwydd mesurau diogelwch fel ffensys, rhwystrau, teledu cylch cyfyng a

staff diogelwch ar y safle. Felly, nid oes disgwyl i lefelau go iawn troseddau newid.

Effaith gyffredinol

G.4.42 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0).

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.43 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar droseddu o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Ffactorau economaidd

C8. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol; neu
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg;
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/manteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.44 Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o niferoedd a chanrannau trigolion Ynys Môn sydd wedi'u cyflogi mewn gwahanol sectorau.

G.4.45 Ac ystyried pa mor agos y bydd y Ganolfan Logisteg i dref borthladd Caergybi, mae toreth o fusnesau lleol a derbynyddion masnachol eraill yn ADL y Ganolfan Logisteg. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u lleoli ym Mharc Diwydiannol/Adwerthu Penrhos, sydd ddim yn bell i'r gogledd o'r Ganolfan Logisteg.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.46 Mae Pennod H3 (Nodweddion economaidd-gymdeithasol) y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.8.3) yn disgrifio effaith y Ganolfan Logisteg ar fusnesau lleol. Mae Pennod H3 (Cyfeirnod y Cais: 6.8.3) yn dod i'r casgliad canlynol: er bod potensial am effeithiau lleol, bach ac anaml yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol o ganlyniad i'r Ganolfan Logisteg.

G.4.47 Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Ganolfan Logisteg arwain at

fwy o wario mewn busnesau lleol yng Nghaergybi. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu a'r nifer fach o'r staff cam gweithredu o ddydd i ddydd a fydd yn gysylltiedig â'r Ganolfan Logisteg, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr ADL yn sgil gwariant ychwanegol fod yn fach.

G.4.48 Mae effeithiau camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ar y gadwyn gyflenwi a busnesau lleol eraill wedi'u hasesu ar y lefel Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), ac maent i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Effaith gyffredinol

G.4.49 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1).

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.50 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg. Nid oes mesurau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnig fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C9: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? A allai wneud y canlynol:

- Creu swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd fod pobl leol Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iawn);
- Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy achosi i fusnesau lleol gau)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.51 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, patrymau cymudo, gweithgarwch economaidd, a'r Gymraeg a'r gweithle ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.52 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ar gyflogaeth a swyddi lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Yng ngoleuni hyn, ni chyflwynir asesiad ar gyfer ardal astudiaeth ADL y Ganolfan Logisteg.

Effaith gyffredinol

G.4.53 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.54 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar fusnesau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C10: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd;
- Arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.55 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth y farchnad lafur, llifoedd mudo a gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.56 Gan fod effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Ganolfan Logisteg) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan, mae'r effeithiau ar swyddi lleol hefyd yn cael eu hasesu ar y lefel honno (a gyflwynir yn adran B.4).

G.4.57 Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ei hun arwain at unrhyw newidiadau mewn amrywiaeth economaidd.

Effaith gyffredinol

G.4.58 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.59 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar amrywiaeth economaidd o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C11: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bod â'r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.60 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogau wythnosol ar gyfer Ynys Môn a gogledd Cymru wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.61 Mae effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ar lefel cyflogau lleol wedi'u hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan sydd i'w gweld yn adran B.4 yr AEIG hwn. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hasesu yn yr ardal astudiaeth Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

G.4.62 Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg ei hun arwain at unrhyw newidiadau mewn lefel cyflogau lleol.

Effaith gyffredinol

G.4.63 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.64 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar gyflogau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C12: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety? A allai wneud y canlynol:

- Gorfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned;
- Bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith;
- Atal siaradwyr Cymraeg lleol rhag dychwelyd i'r ardal/y gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.65 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phrisiau tai, tai fforddiadwy, tueddiadau mudo a chyflogaeth y farchnad lafur ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

G.4.66 Yn 2012, gwelwyd cymarebau eithaf isel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn wardiau Kingsland (rhwng 3.5 a 4.8), a gwelwyd cymarebau uchel rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm yn ward Trearddur (rhwng 7.1 a 10.2) [RD38].

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.67 Mae adeiladu'r Ganolfan Logisteg yn debyg i ddatblygiad confensiynol ac nid oes disgwyl y byddai'n arwain at unrhyw newidiadau i gost tai yn ADL y Ganolfan Logisteg. Gan nad oes disgwyl i'r gwaith o'i hadeiladu, ei gweithredu na'i datgomisiynu arwain at allfudo o'r ADL (fel sy'n cael ei asesu yng nghwestiwn 3), nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) yr ADL ac ni fyddai'n rhwystro poblogaeth Gymraeg yr ADL rhag dychwelyd i'r ardal.

G.4.68 Mae effeithiau unrhyw newid yn y galw am lety o ganlyniad i'r gweithlu adeiladu, gweithredu a datgomisiynu wedi'u hasesu ar lefel y prosiect cyfan (gweler cyfrol B).

Effaith gyffredinol

G.4.69 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.70 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar gost tai lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Cyflenwad seilwaith ac addysg

C13. A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol;
- Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.71 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg a'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

G.4.72 Mae addysg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n ddwyieithog, gan gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

G.4.73 Mae dwy ysgol gynradd yn ADL y Ganolfan Logisteg, sef Ysgol Kingsland ac Ysgol Gymraeg Morswyn.

G.4.74 Yr ysgol uwchradd agosaf i'r Ganolfan Logisteg yw Ysgol Uwchradd Caergybi.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.75 Mae'r asesiadau a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo) a 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral, gan nad oes disgwyl effeithiau o ran newid mewn poblogaeth, mewnfudo nac allfudo (gan fod yr effeithiau hyn wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, gweler adran B.4 yr AEIG hwn). Nid oes disgwyl felly i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg effeithio ar gofrestri disgyblion na newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg/di-Gymraeg mewn ysgolion presennol.

Effaith gyffredinol

G.4.76 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.77 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar gost ysgolion lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C14: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.78 Mae Cartref Nyrsio Fairways wedi'i leoli i'r de o'r Ganolfan Logisteg ac yn yr ADL. Mae'n gartref gofal dan berchnogaeth breifat, a'r categorïau gofal sydd wedi'u cofrestru ar ei gyfer yw dementia, henaint ac anabledd corfforol. Nid oes ysbyty â chyfleusterau damweiniau ac achosion brys ar Ynys Môn; yr agosaf yw Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.79 Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gymunedau cymdogol a gwasanaethau lleol, gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd, o ran gwahanu

cymunedau a mynediad. Y rheswm am hyn yw y byddai gweithgareddau adeiladu yn digwydd o fewn y ffin sydd wedi'i diffinio ar gyfer y safle, ac nid ydynt yn cynnwys y gofyniad i gau neu leihau pwyntiau neu lwybrau mynediad. Nid oes disgwyl i fwy o draffig a thagfeydd oherwydd y Ganolfan Logisteg yn benodol fod yn ffactor o ran gwasanaethau (gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd) yn yr ADL yn ystod y cam gweithredu, oherwydd byddai disgwyl i draffig sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu gael ei gyfeirio i ddefnyddio llwybrau penodol a lleihau faint o amser sy'n cael ei dreulio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Effaith gyffredinol

G.4.80 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.81 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar gost darpariaeth gofal iechyd o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C15: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai? A allai wneud y canlynol:

- Bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned, ee yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.82 Mae'r dadansoddiad sylfaenol a ddarperir yng nghwestiynau 9 ac 14 hefyd yn berthnasol wrth ystyried gwasanaethau lleol fel siopau, banciau, swyddfeydd post a chyfleusterau hamdden o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae Atodiad A7-1 yr AEIG hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth sylfaenol o ran y gwasanaethau lleol sydd yng Nghaergybi.

G.4.83 Byddai'r Ganolfan Logisteg wedi'i lleoli tua 1.7km o ganol tref Caergybi. Caergybi yw tref fwyaf Ynys Môn a dyma'r brif ganolfan o ran adwerthu a gwasanaethau. Mae gan Gaergybi nifer o gyfleusterau cymunedol hefyd, gan gynnwys saith ysgol gynradd, ysgol uwchradd, coleg, ysbyty cymunedol, pum meddygfa a chanolfan hamdden. Mae gan y dref amgylchedd adeiledig cyfoethog gyda nifer o adeiladau rhestredig, ac mae wedi'i hamgylchynu gan amgylchedd naturiol o ansawdd uchel.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.84 Nid oes disgwyl effaith ar fynediad at wasanaethau lleol gan nad oes disgwyl newid sylweddol i hyd siwrneiau.

G.4.85 Mae disgwyl rhagor o wario yn yr ADL yn ystod cam adeiladu'r Ganolfan Logisteg o ganlyniad i'r gwariant uwch gan staff Prosiect DCO Wylfa Newydd a chyflenwyr sy'n gweithio yn yr ardal leol.

G.4.86 Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod yn sylweddol; fodd bynnag, byddai'n arwain at effaith fanteisiol drwy gyfrannu at eu diogelu yn yr ADL. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol cam gweithredu'r Ganolfan Logisteg (chwe blynedd), ac felly byddai o fudd i boblogaeth yr ADL, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi'r *"angen i hyrwyddo economïau lleol iach fel y ffactor pwysicaf yn ôl pob tebyg i gynnal cymunedau lleol a chryfhau'r iaith"* [RD15, t.41].

Effaith gyffredinol

G.4.87 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o +0.1). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.88 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith fanteisiol fach iawn ar wasanaethau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg. Nid oes mesurau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnig fel rhan o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

C16: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith? A allai wneud y canlynol:

- Cael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill;
- Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.89 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymunedau Cymraeg eu hiaith wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.90 Pwrpas y Ganolfan Logisteg byddai gwasanaethu'r gofynion o ran gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ddiogel ac yn gyfrifol. Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu na gweithredu cyfleuster o'r fath yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yn y cymunedau Cymraeg yn ADL y Ganolfan Logisteg.

Effaith gyffredinol

G.4.91 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.92 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar densiynau cymdeithasol/gwrthdaro o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C17: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o arwain at newidiadau i'r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o'r ardal;
- Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg;
- Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw;
- Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.93 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant y Gymraeg wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.94 Mae cysylltiad annatod rhwng yr effeithiau ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg a'r effeithiau posibl ar newid mewn poblogaeth, cyflogaeth, tai, ysgolion a chydlyniant cymunedol. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiynau 1 (newid mewn poblogaeth), 2 (mewnfudo), 3 (allfudo), 9 (cyflogaeth), 12 (tai), 13 (ysgolion) ac 16 (cydlyniant cymunedol) yn nodi effeithiau niwtral o ganlyniad uniongyrchol i'r Ganolfan Logisteg. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl felly i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan

Logisteg arwain at unrhyw newidiadau yn nhraddodiadau a diwylliant lleol y Gymraeg yng nghymunedau ADL y Ganolfan Logisteg.

Effaith gyffredinol

G.4.95 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.96 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar draddodiadau/diwylliant y Gymraeg o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

C18: A yw'r Ganolfan Logisteg yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol? A allai wneud y canlynol:

- Arwain at orfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
  - cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd;
  - cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

G.4.97 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r gymuned wedi'i nodi yn adran B.4 ac atodiad A7-1 yr AEIG hwn.

G.4.98 Wrth ymyl ADL y Ganolfan Logisteg mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn y gymuned sy'n gallu hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau creadigol Cymraeg yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig):

- Yr Urdd (a gynhelir ym mhob ysgol gynradd ac yn Ysgol Uwchradd Caergybi)
- Merched y Wawr;
- Clwb ieuenctid;
- Cylch Meithrin;
- Cylch Ti a Fi.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

G.4.99 Mae nifer cyfyngedig o grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid wedi'u lleoli yn yr ADL sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r asesiad a gyflwynir yng nghwestiwn 3 (allfudo) yn nodi effaith niwtral ar allfudo, gan nad

oes disgwyl i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw allfudo o'r ADL. Nid oes disgwyl felly y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Nid oes disgwyl i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg effeithio nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gwrdd yn unol â'u trefniadau presennol.

Effaith gyffredinol

G.4.100 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod ac wrth ddefnyddio'r pwysoliad (a gyflwynir yn nhabl A-14 yr AEIG hwn), nodir effaith niwtral yn gyffredinol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (gyda sgôr o 0). Mae'r effaith hon heb fesurau lliniaru.

Mesurau lliniaru a/neu wella

G.4.101 Mae'r asesiad a gyflwynir uchod yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar grwpiau lleol o ganlyniad i gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg, ac felly nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella. Mae mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag effeithiau'r prosiect cyfan wedi'u cyflwyno fel rhan o'r asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan, sydd i'w weld yn adran B.4 yr AEIG hwn.

G.5 Crynodeb cyffredinol o effeithiau'r Ganolfan Logisteg

G.5.1 Mae crynodeb o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg i'w weld yn Nhabl G-1.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl G-1 Crynodeb o effeithiau'r Ganolfan Logisteg yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu (cyn gweithredu mesurau lliniaru/gwella)

	Nodweddion y boblogaeth				Ansawdd bywyd			Ffactorau economaidd					Cyflenwad seilwaith			Cymdeithasol a diwylliannol		
	Gwahaniaeth cyffredinol	Mewnfudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Amwynder	Troseddau	Busnesau lleol	Swyddi lleol	Amrywiaeth economaidd	Incwm	Prisiau tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau lleol	Tensiynau/ gwrthdaro	Diwylliant a thraddodiadau	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd
Sgôr mynegai sylfaen (heb bwysoliad)	0	0	0	0	0	0	0	+0.1	0	0	0	0	0	0	+0.1	0	0	0
Gan ddefnyddio'r pwysoliad	1	1	1	1	0.5	0.5	0.5	0.7	0.7	0.7	0.7	1	1	0.5	0.7	0.7	1	0.7
Sgôr mynegai sylfaen (gyda phwysoliad)	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Effaith fanteisiol fach iawn	Niwtral	Niwtral	Niwtral
	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	+0.1	0.0	0.0	0.0
Sgôr mynegai dimensiynol	Effaith niwtral 0.0				Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0					Effaith niwtral 0.0			Effaith niwtral 0.0		
Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol	Effaith niwtral 0.0																	

Effaith gyffredinol	Sgôr mynegai sylfaen	Allwedd maint yr effaith
Effaith fanteisiol	+0.1 i +0.2	Effaith fanteisiol fach iawn
	+0.3 i +0.4	Effaith fanteisiol fach
	+0.5 i +0.7	Effaith fanteisiol ganolig
	+0.8 i +1.0	Effaith fanteisiol fawr
Effaith niwtral	0	Effaith niwtral
Effaith niweidiol	-0.1 i -0.2	Effaith niweidiol fach iawn
	-0.3 i -0.4	Effaith niweidiol fach
	-0.5 i -0.7	Effaith niweidiol ganolig
	-0.8 i -1.0	Effaith niweidiol fawr

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

G.6 Crynodeb o fesurau lliniaru a/neu wella'r Ganolfan Logisteg

G.6.1 Mae'r asesiad a gyflwynir yn G.4 yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Ganolfan Logisteg. Dim ond dwy effaith fanteisiol fach iawn sydd wedi'u nodi yn ystod y cam adeiladu. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen am unrhyw fesurau lliniaru a/neu wella ychwanegol. Mae mesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol a gwella'r effeithiau manteisiol sy'n ymwneud â'r asesiad prosiect cyfan (adran B.4) i'w gweld yn adran B.7.

G.7 Effeithiau gweddilliol

G.7.1 Mae Tabl G-2 isod yn nodi'r effeithiau gweddilliol posibl ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith. Byddai unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn llai niweidiol ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru ar waith. Byddai unrhyw effeithiau manteisiol gweddilliol yn fwy manteisiol ar ôl rhoi'r mesurau gwella ar waith.

G.7.2 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Atodiad B4-1 yr AEIG hwn, yn cydnabod y byddai angen gwneud gwaith monitro parhaus yn ystod y gwaith o adeiladu'r Ganolfan Logisteg ac wedi hynny, er mwyn mesur effeithiau gweddilliol y Ganolfan. Fel rhan o'r Strategaeth, byddai Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai hyn yn golygu bod modd asesu'r effeithiau gweddilliol a fyddai'n cyfrannu at brosiectau tebyg yn y dyfodol.

Tabl G-2 Crynodeb o'r effeithiau gweddilliol

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
1	Newid mewn poblogaeth	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
2	Mewnfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
3	Allfudo	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
4	Strwythur oed	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
5	Iechyd pobl leol	Niwtral	Niwtral	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19)
6	Amwynder yr ardal leol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
7	Troseddau/trais	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
8	Busnesau a chadwyn gyflenwi	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).	Gweler y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3).
9	Swyddi lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
10	Amrywiaeth economaidd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

Cwestiwn rhestr wirio'r AEIG		Yr effaith gyffredinol o'r cam adeiladu	Yr effaith gyffredinol o'r cam gweithredu	Y mesurau lliniaru a gwella mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler tablau B-6, B-7, B-8 a B-9)	Effeithiau gweddilliol
11	Cyflogau	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
12	Prisiau tai	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
13	Ysgolion lleol	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
14	Darpariaeth gofal iechyd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
15	Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Effaith fanteisiol fach iawn	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Gallai fod rhai effeithiau manteisiol tymor hir i siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai o ganlyniad i fwy o wario yn lleol.
16	Tensiynau cymdeithasol/ gwrthdaro	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
17	Traddodiadau/ diwylliant	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral
18	Grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd	Niwtral	Niwtral	Gweler y mesurau lliniaru prosiect cyfan a gyflwynir yn nhabl B-12.	Niwtral

H Effeithiau cronnus

H.1 Cyflwyniad

Beth ydy effeithiau cronnus?


H.1.2 Efallai na fydd effeithiau unigol un datblygiad neu brosiect yn arwain at effeithiau sylweddol ar eu pen eu hunain ond gallent fod yn sylweddol wedi'u cyfuno ag effeithiau eraill. Yn yr un modd, mae modd i effeithiau sylweddol unigol gyfuno ag effeithiau eraill i fod yn fwy sylweddol. Effeithiau cronnus ydy'r enw ar yr effeithiau cyffredinol a fydd yn deillio o'r naill sefyllfa neu'r llall.

H.1.3 Mae'n bosibl i effeithiau cronnus ddigwydd ar bob lefel (prosiect, datblygiad neu weithgaredd). Er enghraifft, gall effeithiau cronnus ddeillio o wahanol weithgareddau (ond o fewn yr un datblygiad), o ddatblygiadau gwahanol (o fewn yr un prosiect), neu ar draws gwahanol brosiectau. Mabwysiadwyd y derminoleg a ganlyn i ddisgrifio'r categorïau gwahanol o effeithiau cronnus sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd.

- O fewn y datblygiad: mae effeithiau pynciau cyfun yn gallu codi pan fydd mwy nag un effaith o'r un datblygiad yn effeithio ar un adnodd neu dderbynnydd, a hynny fel rheol ar yr un pryd. Er enghraifft, gallai adar yn nythu yn agos at safle datblygiad gael eu heffeithio gan sŵn a llwch sy'n codi o'r datblygiad hwnnw; gallai'r effaith gyfunol fod yn fwy sylweddol na'r effeithiau sŵn a llwch unigol wedi eu hasesu ar wahân. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi yng nghyfrolau B i G yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y gyfrol hon.
- O fewn y prosiect: mewn prosiect cymhleth sy'n cynnwys nifer o ddatblygiadau, fel Prosiect DCO Wylfa Newydd, gall effeithiau cronnus godi pan fydd datblygiadau gwahanol yn effeithio ar un adnodd neu dderbynnydd (yn yr un prosiect) ar yr un pryd. Er enghraifft, gallai'r sŵn o waith adeiladau Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a'r golau o waith adeiladu Newidiadau i Briffordd yr A5025 gyfuno i effeithio ar un boblogaeth o ystlumod sy'n bwydo yn yr ardal.
- Effeithiau rhwng prosiectau: gall hyn ddigwydd pan fydd mwy nag un prosiect yn effeithio ar yr un pryd ar un adnodd neu dderbynnydd. Er enghraifft, gallai sŵn o adeiladu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a sŵn adeiladu llinell bŵer uwchben arfaethedig y National Grid gyfuno i gael effaith gronnus ar drigolion lleol.

H.1.4 Mae Ffigur H-2 yn dangos bod effeithiau cronnus o fewn y prosiect yn deillio o nifer o ddatblygiadau ac mae effeithiau cronnus rhwng prosiectau yn deillio o nifer o brosiectau.

Ffigur H-2 Tarddiad effeithiau cronnus



H.1.5 Mae effeithiau cronnus yn gallu bod yn ychwanegol neu'n gyfun, ac mae'r termau hyn yn cael eu trafod isod.

- Ychwanegol: mae effeithiau ychwanegol yn digwydd pan fydd derbynnydd yn profi dwy effaith o'r un fath sy'n ychwanegu at ei gilydd i greu un effaith gronnus fwy ac a allai fod yn fwy sylweddol. Er enghraifft, gallai dwy ffynhonnell ar wahân sydd ill dwy yn cynhyrchu llwch ar yr un pryd, ond ar lefelau nad ydynt yn debyg o greu niwsans sylweddol ar eu pen eu hunain, gyfuno i achosi niwsans llwch sylweddol wrth weithredu gyda'i gilydd.
- Cyfun: mae effeithiau cyfun (neu synergaidd) yn digwydd pan fydd derbynnydd yn profi dwy effaith o wahanol fathau. Mae'n bosibl i'r effaith gyfun fod yn fwy na'r rhannau ar wahân. Er enghraifft, gallai'r golau sy'n cael ei gynhyrchu o weithgareddau adeiladu un prosiect gyfuno â phresenoldeb strwythurau ffisegol newydd sy'n gysylltiedig â phrosiect gwahanol, ar eu pen eu hunain ni fyddai'r naill na'r llall yn cael eu hasesu fel effaith sylweddol, ond drwy eu cyfuno byddai modd iddynt effeithio'n sylweddol ar ymddygiad ystlumod.

Sut rydym yn asesu effeithiau cronnus

H.1.6 Dyma sut mae Horizon yn asesu effeithiau cronnus.

Terfynau amser a lle

H.1.7 Mae effeithiau cronnus yn deillio o nifer o effeithiau unigol yn digwydd yn yr un lle a naill ai ar yr un pryd neu dros gyfnod estynedig, cyfun. Mae terfynau amser a lle Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi cael eu diffinio drwy ystyried y canlynol:

- parthau dylanwad/ardaloedd astudiaeth Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol pwnc-benodol;
- Ardal astudiaeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; ac
- Amserlen Prosiect DCO Wylfa Newydd.

H.1.8 Mae Pennod 12 y Datganiad Amgylcheddol (cwmpas) (Cyfeirnod y Cais: 6.9.2) yn rhoi cwmpas yr asesiad o'r effeithiau cronnus, ar sail ystyriaeth o'r terfynau amser a lle hyn.

Prosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol

H.1.9 Mae angen nodi prosiectau o'r gorffennol, prosiectau cyfredol neu brosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol a allai gyfrannu at effeithiau cronnus. Mae prosiectau o'r gorffennol fel rheol yn cael eu cynnwys yn y waelodlin amgylcheddol, ac yn cael eu hystyried fel prosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol dim ond os ydy effeithiau go iawn y prosiect yn dal i gael eu pennu drwy waith monitro a mesur, neu pan fyddant wedi cael eu gwneud yn y cyfnod rhwng casglu'r wybodaeth sylfaenol a chynnal yr asesiad.

H.1.10 Caiff prosiectau cyfredol eu galw weithiau yn 'ddatblygiad ymrwymedig'. Mae'r term hwn yn cyfeirio at y prosiectau hynny (y tu allan i Brosiect DCO Wylfa Newydd) sydd ar hyn o bryd yn paratoi i ddechrau gweithgareddau adeiladu, neu sydd â chydsyniad cynllunio llawn mewn lle ac mae'n rhesymol disgwyl y byddant yn bwrw ymlaen. Mae prosiectau datblygiad ymrwymedig wedi cael eu cynnwys yn y waelodlin ar gyfer rhai pynciau penodol, yn enwedig y rheini sy'n defnyddio data traffig gwaelodlin wedi'i fodelu fel rhan o'u hasesiad, ac felly maent wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad o'r effeithiau cronnus dim ond i'r graddau nad ydynt eisoes wedi cael eu hystyried fel rhan o'r waelodlin, er mwyn osgoi cyfrif effeithiau ddwywaith.

H.1.11 Mae Pennod 12 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.9.2) yn nodi sut y canfuwyd prosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol sydd â'r potensial i gyfrannu at effeithiau cronnus gyda Datblygiad Wylfa Newydd.

Derbynyddion

H.1.12 Mae derbynyddion y byddai mwy nag un datblygiad neu brosiect yn effeithio arnynt wedi cael eu nodi drwy gyfeirio at asesiadau amgylcheddol ar gyfer y prosiectau ar y rhestr fel a'r datblygiadau ym Mhrosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Pennod 12 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.9.2) yn rhoi rhagor o fanylion.

Lliniaru

H.1.13 Mae'r asesiad o effeithiau cronnus sy'n cael ei gyflwyno yn y gyfrol hon yn seiliedig ar yr effeithiau gweddilliol a nodir yng nghyfrolau B i G yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn, sy'n golygu bod mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gynharach yn y broses asesu yn cael eu hystyried. Wrth asesu effeithiau cronnus mae modd cynnig mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer effeithiau cronnus pan fo'n briodol.

H.1.14 Mewn achosion pan fyddai'r effeithiau cronnus a ganfuwyd yn fwy sylweddol na'r effeithiau unigol sy'n rhan ohonynt, nodir mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer yr effeithiau cronnus pan fo hynny'n bosibl.

H.1.15 Mae'r rhesymau dros fod angen mesurau lliniaru ychwanegol o'r fath, neu pam na chaiff rhai eu cynnig ar gyfer rhai effeithiau, yn cael eu disgrifio yng nghyfrol H yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn. Ni fydd hi bob amser yn bosibl i Horizon liniaru effeithiau cronnus rhwng prosiectau heb fewnbwn gan ddatblygwyr trydydd parti. Fodd bynnag, adeg cyflwyno'r cais am DCO, cyfyngedig fu'r ymgynghoriad â datblygwyr perthnasol ynghylch datblygu mesurau lliniaru. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal fel sy'n briodol ar y cyfle cyntaf.

H.2 Effeithiau cronnus o fewn y prosiect

H.2.1 Cynhaliwyd asesiad i werthuso'r potensial i bob un o'r datblygiadau unigol ym Mhrosiect DCO Wylfa Newydd ryngweithio â'i gilydd a thrwy hynny fod ag effeithiau cronnus o fewn y prosiect ar iechyd. Mae'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn berthnasol i'r datblygiadau canlynol sydd gyda'i gilydd yn creu Prosiect DCO Wylfa Newydd ac sydd felly'n cael eu hystyried yn yr asesiad o'r effeithiau cronnus o fewn y prosiect:

- yr Orsaf Bŵer (gan gynnwys 'effeithiau'r Prosiect cyfan' ac effeithiau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd), edrychwch ar gyfrolau B ac C;
- y Cyfleusterau oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, edrychwch ar gyfrol D;
- y cyfleuster Parcio a Theithio, edrychwch ar gyfrol E;
- Newidiadau i Briffordd yr A5025, edrychwch ar gyfrol F; ac
- y Ganolfan Logisteg, edrychwch ar gyfrol G.

H.2.2 Mae Tabl H-2 yn crynhoi'r holl gyfraniadau effeithiau cronnus o fewn y prosiect o ddatblygiadau unigol ar draws yr 18 cwestiwn yn y rhestr wirio a nodir fel derbynyddion. Mae Tabl H-3 yn cyflwyno'r matrics sgorio i nodi effaith gyffredinol pob datblygiad unigol yn ogystal ag effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg.

H.2.3 Mae Tabl H-3 yn seiliedig ar yr asesiadau ar gyfer pob un o gydrannau'r prosiect a gyflwynir yng nghyfrolau B-G ac ar sgôr yr asesiadau a gyflwynir yn y tablau cryno ar ddiwedd pob asesiad. Caiff yr effeithiau cronnus o fewn y prosiect eu sgorio yn Nhabl H-3. Mae pwysoliad o ran pwysigrwydd wedi cael ei roi i bob un o gydrannau'r prosiect (fel y cytunwyd â chynllunwyr iaith Horizon). Mae'r pwysoliad sy'n cael ei roi fel a ganlyn:

Y pwysoliad sy'n cael ei roi i effeithiau cronnus o fewn y prosiect yng nghyswllt yr AEIG

Agweddau ar ddatblygiad Wylfa Newydd		% pwysoliad o ran pwysigrwydd
B	Effeithiau'r prosiect cyfan	80%
C	Prif Safle'r Orsaf Bŵer	10%
D	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	5%
E	Cyfleuster Parcio a Theithio	5%
F	Newidiadau i Briffordd yr A5025	5%
G	Canolfan Logisteg	5%

H.2.4 Gyda'i gilydd, byddai disgwyl i adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, yn enwedig o ran effeithiau'r prosiect cyfan, effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae hyn yn bennaf oherwydd y nifer fawr (tua 7,500) o weithwyr adeiladu a'u teuluoedd na fyddent yn byw yn eu cartrefi a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn poblogaeth a gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r effeithiau niweidiol hyn yn erbyn yr effeithiau manteisiol sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd cyflogaeth sylweddol. Amcangyfrifir y cyflogir 2,000 o weithwyr a fydd yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn golygu bod modd i bobl oed gweithio, gan gynnwys pobl ifanc, aros yn eu cymunedau. Mae'n cynnig y potensial i wyrdroi patrymau'r gorffennol o bobl ifanc yn symud allan o'r ardal. Ystyrir bod darparu cyfleoedd i'r boblogaeth leol aros yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth yn fanteisiol o ran cynnal hyfywedd cymunedau sydd, maes o law, yn cefnogi lles y Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol.

H.2.5 At ei gilydd, mae'r asesiad o'r effeithiau'n nodi effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel a fydd yn cael eu cynnig am gyfnod o 60 mlynedd, i oddeutu 722 o bobl a fydd yn byw gartref. Byddai'r swyddi hyn yn golygu bod modd i weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) (mae 42.7% ohonynt yn siarad Cymraeg) aros yn y cymunedau Cymraeg. Mae cadw pobl oedran gweithio a phobl ifanc yn eu cymunedau yn cyfrannu at ddichonoldeb tymor hir y cymunedau a'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae'n debyg y byddai'r gweithwyr hyn yn magu teuluoedd dwyieithog ac y byddant yn cyfrannu at ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

H.2.6 Wrth ystyried effaith gyffredinol (o ran y system sgorio) adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd o ran effeithiau'r prosiect cyfan, nodir effaith fanteisiol fach iawn. Wrth ddefnyddio'r system sgorio (a gyflwynir yn Nhabl H-2), nodir sgôr mynegai sylfaen cyffredinol ar gyfer pob datblygiad unigol fel a ganlyn:

- Effeithiau'r prosiect cyfan: effaith fanteisiol fach iawn;
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd: effaith niweidiol fach iawn;
- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer; effaith niwtral;
- Cyfleuster Parcio a Theithio: effaith niwtral;
- Newidiadau i Briffordd yr A5025: effaith niwtral; ac
- Y Ganolfan Logisteg: effaith niwtral.

H.2.7 Mae hyn yn rhoi sgôr mynegai sylfaen cyffredinol ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd, mae'r sgoriau cyfun hyn yn rhoi sgôr mynegai sylfaen cyffredinol o sero (0) sy'n golygu effaith niwtral. Mae'r effaith hon cyn gweithredu'r mesurau ychwanegol a nodir yng nghyfrol I yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn i liniaru'r effeithiau a gwella'r effeithiau manteisiol a nodir yn yr asesiad o'r effeithiau a gyflwynir yng nghyfrol B i G yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl H-1 Effeithiau cronnus o fewn y prosiect

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
Nodweddion y boblogaeth								
C1. Gwahaniaeth cyffredinol	Yn ystod y cam adeiladu byddai disgwyl i'r cynnydd o oddeutu 7,500 o weithwyr na fyddent yn byw yn eu cartrefi a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth gael effaith niweidiol fawr ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan leihau canran y siaradwyr Cymraeg. Byddai'r effeithiau mwyaf yn y wardiau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd gan gynnwys Llanbadrig a Mechell. Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai disgwyl i'r cynnydd yn y boblogaeth o oddeutu 200 o weithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn gael effaith niweidiol ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg/pobl ddi-Gymraeg i raddau a fyddai'n arwain at effaith niweidiol ar amlygrwydd y	Mae effeithiau adeiladu a gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd gan gynnwys effeithiau'r 4,000 o weithwyr adeiladu a fydd yn byw yng Nghampws y Safle ar newidiadau poblogaeth, yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ynddo'i hun, arwain at unrhyw newidiadau mewn poblogaeth gan fod y rhain yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ynddynt eu hunain arwain at unrhyw newidiadau uniongyrchol ym maint y boblogaeth oherwydd eu bod yn ymwneud ag adeiladu adrannau newydd o ffordd fel ffyrdd osgoi a gwaith i newid aliniad y ffordd mewn pum lleoliad ar hyd yr A5025 rhwng y Fali ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar newid mewn poblogaeth yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	**Ardal Datblygu Wylfa Newydd**	**Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol**	**Parcio a Theithio**	**Newidiadau i Briffordd yr A5025**	**Canolfan Logisteg**	**Disgrifiad o'r effaith gronnus**	**Maint yr effaith gronnus**
	Gymraeg a'r defnydd ohoni fel iaith gymunedol. Wrth ystyried bod disgwyl i boblogaeth Ynys Môn ddisgyn erbyn 2039, byddai'r cynnydd bach hwn yn y boblogaeth yn cyfrannu at gynnal a chryfhau hyfywedd cymunedau (a thrwy hynny cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol). Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.							
C2. Mewnfudo	Yn ystod y cam adeiladu byddai effaith niweidiol mewnfudiad gweithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd am gyfnod dros dro. Fodd bynnag, ystyrir bod y cyfnod adeiladu (hyd at naw blynedd) yn ddigon hir i effeithio'n niweidiol ar les y Gymraeg a'i diwylliant mewn rhai wardiau y byddai disgwyl iddynt weld lefel uchel o fewnfudo. Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai disgwyl i fewnfudiad bach o weithwyr y cam gweithredu a'u	Mae effeithiau ar fewnfudo a fydd yn deillio o adeiladu ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr Orsaf Bŵer, adeiladu a gweithredu Campws y Safle a gweithredu'r Orsaf Bŵer yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ynddo'i hun, arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau i'r boblogaeth bresennol gan fod y rhain yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ei hun arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Newidiadau i Briffordd yr A5025) yn cael eu hasesu ar lefel y prosiect cyfan. Nid oes disgwyl i weithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at fewnfudo a fyddai'n arwain at unrhyw newidiadau yn y boblogaeth bresennol. Felly, nid oes disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar fewnfudo yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Brifffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	teuluoedd (tua 200) a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn gael effaith ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg/pobl ddi-Gymraeg i raddau a fyddai'n arwain at effaith niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd ohoni fel iaith gymunedol ym mhrif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn. Mae'r cam gweithredu'n cynnig y potensial i ddenu trigolion lleol sydd efallai wedi gadael yr ardal i ddychwelyd i'r ardal. Gallai hyn olygu bod siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd yn dychwelyd yn ogystal â theuluoedd di-Gymraeg. Fodd bynnag, dylid cydbwyso'r mewnfudiad bach hwn o bobl ddi-Gymraeg yn erbyn yr effeithiau manteisiol cyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant sy'n gysylltiedig â thwf mewn poblogaeth (drwy fewnfudo) ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd a ddisgwylir				boblogaeth bresennol. Er y byddai'r Newidiadau i Brifffordd yr A5025 yn golygu adeiladu adrannau newydd o ffordd sy'n osgoi pentrefi'r Fali, Llanfachraeth a Llanfaethlu, byddai'r pentrefi hyn yn dal i gael eu hystyried fel pentrefi gwledig cynaliadwy a hygyrch y byddai modd eu cyrraedd o brifffordd yr A5025. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Brifffordd yr A5025 arwain at gynnydd yn y nifer a fyddai'n mewnfudo i'r pentrefi hynny. Felly, ni fyddai disgwyl newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg. Effaith niwtral gyffredinol.			

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n dod i'r fei (sy'n seiliedig ar strategaeth o dwf economaidd). Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach gyffredinol.							
C3. Allfudo	Yn ystod y cam adeiladu, byddai disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth sylweddol a fydd yn cael eu cynnig i weithwyr a fydd yn byw yn eu cartrefi eu hunain (2,000 o swyddi ar y cyfnod adeiladu prysuraf) leihau patrymau'r gorffennol sef pobl ifanc a phobl oed gweithio yn symud o Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'n bosibl i'r cam gweithredu leihau neu hyd yn oed wyrdroi'r patrwm o allfudo a welwyd yn Ynys Môn dros y blynyddoedd diwethaf, drwy ddarparu cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel (am 60 o flynyddoedd) i boblogaeth leol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob	Byddai'r Gwaith Galluogi yn cynnwys dymchwel anheddau, ac mae dau o'r rheini'n cael eu defnyddio. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid symud dwy aelwyd, a allai arwain at raddfa fach iawn o allfudo o Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Oherwydd graddfa a hyd sylweddol y gweithgareddau adeiladu (naw blynedd) yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, byddai potensial am golli llawer iawn o amwynder o gymunedau cymdogol yn Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn	Arferai'r safle gael ei ddefnyddio fel depo bysiau (defnydd diwydiannol/masnachol) ac mae'r rhan fwyaf o'r safle yn dir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu. Nid oes disgwyl i weithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol, yn enwedig wrth ystyried defnydd blaenorol a chyfredol y safle, a fyddai'n arwain at allfudo. Effaith niwtral gyffredinol.	Er ei bod hi'n bosibl y gallai adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol ystyrir bod newidiadau o'r fath yn fach o ran amharu ar drigolion cyfagos. Nid oes disgwyl i weithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol a fyddai'n arwain at allfudo. Effaith niwtral gyffredinol.	Er ei bod hi'n bosibl y gallai adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i Briffordd yr A5025, ystyrir bod newidiadau o'r fath yn fach o ran amharu ar drigolion cyfagos. Ni fyddai disgwyl dim allfudo o ganlyniad i newidiadau i'r amwynder amgylcheddol. Ni fyddai disgwyl dim effaith ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg/di-Gymraeg o ganlyniad i'r	Er ei bod hi'n bosibl y gallai adeiladu'r Ganolfan Logisteg arwain at rai newidiadau yn amwynder amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol ystyrir bod newidiadau o'r fath yn fach o ran amharu. O ran gweithredu'r Ganolfan Logisteg, mae'r safle mewn ardal sydd wedi cael ei dynodi ar gyfer defnydd diwydiannol, a ni fyddai disgwyl i weithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr Ardal Dylanwad	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar allfudo yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	Dydd (Adeiladu) (tua 722 o swyddi). Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol ganolig gyffredinol.	ystod y cyfnod adeiladu. Gallai hyn arwain at allfudo lleol. Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd allfudo'n digwydd o ganlyniad i bresenoldeb yr Orsaf Bŵer yn ystod y cam gweithredu. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.			Newidiadau i Briffordd yr A5025. Effaith niwtral gyffredinol.	Leol ac ni fyddai disgwyl i hyn arwain at allfudo. Effaith niwtral gyffredinol.		
C4. Strwythur oed	Yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu, mae'r cyfleoedd cyflogaeth sylweddol (tua 2,000 o swyddi ar y cyfnod adeiladu prysuraf a thua 722 o swyddi yn ystod y cyfnod gweithredu o 60 mlynedd) yn cynnig potensial sylweddol i gadw pobl ifanc a phobl oed gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth a'u denu i'r ardal, mae hon yn ardal sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio a gallai hyn newid cydbwysedd strwythur oed prif ardal yr astudiaeth. Ystyrir	Caiff effeithiau'r gweithlu adeiladu a gweithredu sy'n gysylltiedig ag Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar strwythur oed y boblogaeth eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Nid oes disgwyl dim newidiadau i boblogaeth Ardal Dylanwad Leol y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, felly, ni fydd newid i broffil oed y boblogaeth. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl dim newidiadau i boblogaeth Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio, felly ni fydd newid i broffil oed y boblogaeth. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl dim newidiadau i boblogaeth Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i Briffordd yr A5025, felly ni fydd newid i broffil oed y boblogaeth. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl dim newidiadau i boblogaeth Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg, felly ni fydd newid i broffil oed y boblogaeth. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar strwythur oed y boblogaeth yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	bod cymunedau sydd â chydbwysedd oed ac sydd â mwy o bobl ifanc a phobl oed gweithio sy'n siarad Cymraeg yn fuddiol o ran lles y Gymraeg. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol ganolig gyffredinol.							
Ansawdd bywyd								
C5. Iechyd	Yn ystod y cam adeiladu, caiff effeithiau niweidiol posibl amharu'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol ar y cymunedau sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd eu pwyso yn erbyn y manteision economaidd a chyflenwi ynni ehangach ar gyfer iechyd y boblogaeth leol. Mae disgwyl i ddatblygu economaidd cynaliadwy greu amodau cadarnhaol ar gyfer iechyd a lles. Mae hyn yn arwain at effaith fanteisiol fach iawn anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Byddai disgwyl i'r cam gweithredu gael effaith fanteisiol ar iechyd y	Byddai disgwyl i adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd gael effaith niweidiol ganolig ar iechyd rhai grwpiau agored i niwed yn y boblogaeth yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd, a byddai'r effaith ar y boblogaeth gyffredinol yn fach iawn. Yn ystod y cam adeiladu, byddai disgwyl i hyn gael effaith niweidiol anuniongyrchol fach iawn ar y Gymraeg a'i diwylliant. Nodir effaith niwtral gyffredinol yn ystod	Daeth y datganiad sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyflym i'r casgliad nad oes dim effeithiau ar iechyd sy'n galw am asesiad pellach. Ar y sail hon, ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio ar iechyd y boblogaeth. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio effeithio ar iechyd y boblogaeth. Ni fyddid felly'n disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol, fel lleihau pa mor ddymunol fyddai byw yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio na chynyddu costau byw poblogaeth bresennol yr Ardal Dylanwad Leol. Ni fyddid felly'n disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Effaith	Ar sail yr effeithiau posibl a nodwyd a gan gydbwyso'r effeithiau niweidiol dros dro posibl ar iechyd yn ystod y cam adeiladu yn erbyn yr effeithiau manteisiol tymor hir a fyddai'n cael eu cyflawni yn ystod gweithredu Newidiadau i Briffordd yr A5025, byddid yn disgwyl effaith fanteisiol gyffredinol ar iechyd poblogaeth Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Byddai disgwyl i hyn gael effaith fanteisiol	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg effeithio ar iechyd y boblogaeth. Ni fyddid felly'n disgwyl unrhyw effeithiau anuniongyrchol, fel lleihau pa mor ddymunol fyddai byw yn Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg na chynyddu costau byw poblogaeth bresennol yr Ardal Dylanwad Leol ac felly ni fyddai effeithiau ar Gymraeg a'i	Byddai'r effaith fanteisiol fach iawn a nodwyd o ran effeithiau'r prosiect cyfan oherwydd manteision economaidd ehangach ac o ran cyflenwi ynni ynghyd ag effeithiau manteisiol tymor hir gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gallu arwain at effaith fanteisiol gronnus ar iechyd y boblogaeth. Fodd bynnag, ni fyddai'r effaith hon yn newid arwyddocâd yr effaith.	Effaith fanteisiol fach iawn.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	bobl leol; drwy effeithiau manteisiol o ran gweithgarwch ffisegol a chyflogaeth, effaith niwtral o ran tai a rhywfaint o effeithiau sŵn a dirgryndod, nid ydy'r rhain yn cael eu hystyried fel effeithiau sylweddol, sy'n arwain at effaith fanteisiol fach iawn. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	y cam gweithredu. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.		niwtral gyffredinol.	anuniongyrchol fach ar y Gymraeg a'i diwylliant. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	diwylliant. Effaith niwtral gyffredinol.		
C6. Amwynder	Mae disgwyl y bydd modd priodoli effeithiau'r prosiect cyfan o ran amwynder i newidiadau mewn sŵn a dirgryndod o ganlyniad i draffig. Nodir bod effeithiau sŵn a dirgryndod gweddillol yn amrywio o effeithiau manteisiol mawr i niweidiol mawr o ganlyniad i ostyngiad/cynnydd mewn traffig yn ystod y dydd/nos ar gyfer derbynyddion preswyl ac ardal chwarae gyhoeddus. Mae'n bosibl i hyn effeithio (cynyddu a lleihau) ar ba mor ddymunol ydy byw mewn ardaloedd penodol, a allai gael	Byddai disgwyl i'r gweithgareddau yn ystod adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at ddirywiad yn ansawdd amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol a allai arwain at bobl leol yn gadael yr ardal, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Petai pobl yn allfudo o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr amwynder amgylcheddol, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn yr	Byddai disgwyl i effeithiau adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer fod yn fach o ran yr amharu ar drigolion Ardal Dylanwad Leol Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ac ni fyddai disgwyl i hyn arwain at ostyngiad yn ansawdd bywyd cyffredinol cymunedau Ardal Dylanwad Leol y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Ni fyddid felly'n disgwyl unrhyw effaith anuniongyrchol ar allfudo. Ni fyddai disgwyl i'r gweithredu o ddydd i ddydd arwain at unrhyw	Yn ystod y cam adeiladu, perygl bach o amharu o ran amwynder, gwahanu cymunedau neu fynediad, newidiadau mewn ansawdd aer a lefelau sŵn ar gymdogion a phentrefi Llanfihangel-yn-Nhywyn a Bodedern o ran amwynder, gwahanu cymunedau neu fynediad. Mae disgwyl y bydd effaith niweidiol ar amwynder y Ganolfan Cartio Môn gyfagos yn	Rhaid cydbwyso'r newidiadau dros dro i amwynder amgylcheddol y cymunedau yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn ystod y cam adeiladu yn erbyn yr effeithiau manteisiol tymor hir a ddisgwylir ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, a fyddai o fudd i boblogaeth y cymunedau hyn (sy'n cynnwys canran uchel (56.4%) o siaradwyr Cymraeg). Effaith	Yn ystod y cam adeiladu, ni fyddai disgwyl dim effeithiau sylweddol ar amwynder amgylcheddol Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg. Yn ystod y cam gweithredu, mae'r safle mewn ardal sydd wedi cael ei dynodi at ddefnydd diwydiannol, ochr yn ochr yn ochr â datblygiadau diwydiannol ac adwerthu sydd eisoes yno. Nid	Nid oes disgwyl dim effaith gronnus o fewn y prosiect ar amwynder gan nad oes disgwyl gorgyffwrdd gofodol o'r effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig ag Ardal Datblygu Wylfa Newydd.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	effaith anuniongyrchol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.	Ardal Dylanwad Leol, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell. Byddai modd i'r cam gweithredu effeithio ar ansawdd amgylcheddol amwynder yr Ardal Dylanwad Leol. Er y gallai hyn olygu ei bod hi'n llai dymunol byw yn yr Ardal Dylanwad Leol, mae trigolion yn gyfarwydd â'r cysyniad o fyw yn agos at yr Orsaf Bŵer Bresennol ers dechrau'r 1970au. Byddai'r Orsaf Bŵer hefyd yn gysyniad cyfarwydd yn yr ADL yn dilyn y cam adeiladu. Gan fod allfudo'n annhebygol o ddigwydd yn ystod y cam gweithredu, ni ddisgwylir y bydd effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol	newidiadau i amwynder amgylcheddol Ardal Dylanwad Leol Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd ei fod yn agos. Nid oes disgwyl i weithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr ADL. Effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	fanteisiol fach gyffredinol.	oes disgwyl i weithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at newidiadau annerbyniol i ansawdd amgylcheddol yr Ardal Dylanwad Leol, yn enwedig wrth ystyried defnydd blaenorol a chyfredol y safle, a fyddai'n arwain at allfudo nac yn ei gwneud hi'n llai dymunol byw yn Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg. Effaith niwtral gyffredinol.		

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		fach iawn gyffredinol.						
C7. Troseddau	Ni fyddai disgwyl i'r adeiladu na'r gweithredu gynyddu lefel y troseddau na thrais ym mhrif ardal yr astudiaeth a fyddai'n ei gwneud hi'n llai dymunol byw ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai unrhyw gynnydd yn lefel y troseddau neu'r trais yn gymesur i'r cynnydd mewn poblogaeth. Ni fyddai disgwyl i'r cynnydd hwn effeithio ar ba mor ddymunol ydy byw ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ni fyddai disgwyl iddo ddylanwadu ar y cydbwysedd cymdeithasol tymor hir yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	Er y byddai disgwyl i lefel go iawn y troseddau a fyddai'n gysylltiedig ag Ardal Datblygu Wylfa Newydd fod yn fach oherwydd y mesurau diogelwch a fyddai ar waith, byddai disgwyl gweld ofn o drosedd ymysg cymunedau'r Ardal Dylanwad Leol. Gallai effaith o'r fath fynd yn groes i fuddiannau'r Gymraeg, sy'n ffynnu mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy. Pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith fel Gorsaf Bŵer Niwclear weithredol, bydd yr Orsaf Bŵer yn dod o dan gyfrifoldeb ac awdurdodaeth yr Heddlu Niwclear Sifil, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth plismona a diogelwch mewn ac yn agos i safleoedd niwclear	Ni fyddai disgwyl i adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at effeithiau niweidiol ar lefel go iawn na'r lefel ymddangosiadol o droseddu yng nghymunedau'r ADL. Ni fyddai dim rheswm dros gredu y byddai gweithredu'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn arwain at unrhyw newidiadau i ddiogelwch cymunedol, lefel go iawn troseddau na'r lefel ymddangosiadol o droseddu. Ni fyddid felly'n disgwyl dim newid i ba mor ddymunol fyddai byw yn yr Ardal Dylanwad Leol o ran trosedd neu ddiogelwch cymunedol. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol ar ddiogelwch y cyhoedd yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio yn ystod y cam adeiladu oherwydd byddai diogelwch safle a ffens ffin ddiogelwch yn cael eu darparu. Yn ystod cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio, mae'r effeithiau sy'n ymwneud â throseddau'n fwy tebygol o fod yn rhai canfyddedig na'n seiliedig ar newidiadau go iawn. Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio, fel y mae'n cael ei ddarparu mewn lleoliadau eraill ar Ynys Môn, yn arwain at	Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 (yn ystod y cam adeiladu nac ar ôl eu gorffen) arwain at effeithiau niweidiol ar lefel go iawn na'r lefel ganfyddedig o drosedd yng nghymunedau Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Effaith niwtral gyffredinol.	Bach iawn fyddai'r potensial am unrhyw weithgareddau anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol oherwydd mesurau diogelwch, fel ffensys, rhwystrau, teledu cylch cyfyng a staff diogelwch ar y safle. Ni fyddai disgwyl i lefelau go iawn troseddau newid felly. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar lefel y troseddau yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Er y byddai effaith niweidiol fach iawn ar drosedd yn Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd oherwydd presenoldeb gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd, ni fyddai disgwyl dim effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant gan na fyddai unrhyw orgyffwrdd daearyddol o ran yr effeithiau.	Effaith niweidiol fach iawn.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		yn y DU. Byddai mwy o ddiogelwch yn y safle a ffens ffin ddiogel yn fesurau diogelwch safonol sy'n rhan o ddyluniad Safle'r Orsaf Bŵer a fyddai ar waith yn ystod y cam gweithredu, a fyddai'n sicrhau diogelwch y safle ac yn cyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd hefyd. O'r herwydd, mae disgwyl effeithiau uniongyrchol cyfyngedig o ran trosedd a/neu drais a diogelwch y cyhoedd yn yr Ardal Dylanwad Leol yn ystod cam gweithredu'r Orsaf Bŵer. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.		gynnydd mewn trosedd neu drais yn y gymuned. Felly, mae disgwyl i lefel go iawn y troseddau fod yn fach. Effaith niwtral gyffredinol.				
Ffactorau economaidd								
C8. Busnesau lleol	Byddai disgwyl i'r cam adeiladu gynhyrchu manteision mawr i fusnesau lleol gan gynnwys y sector	Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu a gweithredu yn Ardal Datblygu	Ni fyddai disgwyl dim effeithiau o ran mynediad neu wahanu cymunedau ar fusnesau lleol yn yr	Er bod disgwyl y bydd effaith niweidiol ar amwynder y Ganolfan Cartio	Rhaid cydbwyso cydbwysedd cyffredinol yr effeithiau manteisiol a	Er bod potensial am effeithiau manteisiol bach ac anaml lleol i fusnesau lleol	Nodir effeithiau manteisiol ar fusnesau lleol o ran effeithiau'r prosiect cyfan yn ogystal â datblygiadau	Effaith fanteisiol ganolig.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	twristiaeth, a byddai'n cael effaith fanteisiol gyffredinol ar fusnesau lleol, gan gynnwys busnesau Cymraeg, gan gyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus. Mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith fel Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai busnesau lleol yn gweld dadleoli llafur yn lleol o ganlyniad i'r cyfleoedd cyflogaeth newydd a ddaw yn sgil y cam adeiladu. Yn ystod y cam gweithredu, byddai'r gwariant ychwanegol yn yr economi leol oherwydd gwariant gweithredol a chyflogau ychwanegol a fyddai'n cael eu talu yn ystod y cam gweithredu o fudd i fusnesau lleol gan gynnwys busnesau Cymraeg. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu,	Wylfa Newydd arwain at wariant ychwanegol mewn busnesau lleol yn yr Ardal Dylanwad Leol, a fyddai'n effaith fanteisiol, gan gyfrannu at gymuned ac economi wledig gynaliadwy a ffyniannus. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod hi'n bosibl y bydd rhai busnesau twristiaeth o bosibl yn gweld rhai effeithiau niweidiol oherwydd posibilrwydd ailddosbarthu ymwelwyr o ogledd Ynys Môn yn ystod y cam adeiladu, o ganlyniad i newidiadau i ansawdd amgylcheddol amwynder. Fodd bynnag, byddai rhai busnesau twristiaeth yn gweld newid yn y ffynhonnell o wariant (o ymwelwyr i weithwyr adeiladu). Wrth ystyried y camau adeiladu a	ADL a byddai disgwyl ychydig bach o aflonyddwch oherwydd y traffig adeiladu. Byddai disgwyl i bresenoldeb gweithwyr adeiladu a gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at fwy o wariant mewn busnesau lleol fel y siop a'r Swyddfa Bost a'r dafarn. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu mae disgwyl iddynt fod yn gweithio ar y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r nifer fach o staff cam gweithredu o ddydd i ddydd (y tu allan i argyfwng) a fydd yn gysylltiedig â'r Labordy Arolygon Amgylcheddol, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr ADL yn sgil gwario ychwanegol fod yn fach. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	Môn gyfagos yn ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio, nid oes disgwyl i'r effaith fod yn sylweddol. Nid oes disgwyl i'r cyfleuster Parcio a Theithio gael unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol o ran amwynder, gwahanu cymunedau, amseroedd siwrneiau neu fynediad at fusnesau eraill yn ADL y cyfleuster Parcio a Theithio. Byddai disgwyl i'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at wariant ychwanegol i fusnesau yn ADL y cyfleuster Parcio a Theithio, a fyddai o fudd i'r busnesau lleol hyn. Mae disgwyl y bydd y rhain yn cynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith. Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi	niweidiol bach iawn ar fusnesau lleol yn ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn erbyn yr effeithiau niweidiol ar ddwy fferm a allai arwain at effeithiau ar lwyddiant masnachol y ffermydd yn y dyfodol. Effaith niweidiol fach gyffredinol.	yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, ni fyddai disgwyl dim effeithiau sylweddol. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	unigol. Mae'r effeithiau manteisiol a nodwyd ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, y cyfleuster Parcio a Theithio, y Newidiadau i Briffordd yr A5025 a'r Ganolfan Logisteg yn effeithiau sy'n ddaearyddol benodol. Fodd bynnag, byddai gorgyffwrdd ag effeithiau manteisiol y prosiect cyfan a nodwyd. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, ni fyddai'r rhain yn newid arwyddocâd yr effeithiau.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	nodir effaith fanteisiol ganolig gyffredinol.	gweithredu, nodir effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.		wledig gydol cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.				
C9. Swyddi lleol	Ystyrir bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam adeiladu yn fanteisiol, gan fod hyn yn cadw gweithlu Cymraeg presennol yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Disgwylir y bydd tua 2,000 o weithwyr a fydd yn byw gartref yn cael eu cyflogi pan fydd y gwaith adeiladu yn ei anterth. Er mai dros dro fyddai'r swyddi hyn, maent yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig i bobl leol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae 48% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu yn siarad Cymraeg yn yr ardal honno. Byddai'r cyfleoedd gwaith parhaol (am 60 o flynyddoedd), o ansawdd uchel, a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu yn arwain at effaith fanteisiol fawr ar y Gymraeg a'i	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyflogaeth a swyddi lleol eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogaeth a swyddi lleol eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ynddo'i hun, arwain at unrhyw newidiadau mewn swyddi lleol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn effeithiau'r prosiect cyfan. Effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar gyflogaeth a swyddi lleol eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Effaith niwtral gyffredinol.	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg ynddi'i hun, arwain at unrhyw newidiadau mewn swyddi lleol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn effeithiau'r prosiect cyfan. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar swyddi lleol yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn, oherwydd byddai 85% o'r gweithlu gweithredu (amcangyfrif o 722) yn bobl leol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Ystyrir bod cyfleoedd gwaith yn agwedd bwysig o gynnal a chryfhau cymunedau ac felly'r Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig ar Ynys Môn, sydd wedi gweld pobl ifanc yn gadael yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol ganolig gyffredinol.							
C10. Amrywiaeth economaidd	Mae'r cyfleoedd am gyflogaeth a'r ystod eang o swyddi a fydd yn cael eu cynnig yn y cam adeiladu yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd ym mhrif ardal yr astudiaeth, a fyddai yn fanteisiol i'r Gymraeg a'i diwylliant o ran helpu i gadw pobl leol, cyfran uchel ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r berthynas rhwng twf	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r cyfleusterau Parcio a Theithio ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a	Caiff effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg ar gyflogaeth, swyddi lleol ac, felly, amrywiaeth economaidd, eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar amrywiaeth economaidd yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	economaidd a llesiant y Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol yn glir, gan gyflwyno cyfleoedd i Horizon gynyddu gwerth economaidd y Gymraeg fel sgìl ar gyfer y gweithle. Fodd bynnag, oherwydd natur arbenigol y swyddi adeiladu, byddai hyn hefyd yn golygu y byddai gweithwyr na fyddent yn byw gartref yn symud i brif ardal yr astudiaeth. Yn ystod y cam gweithredu, byddai 85% o weithlu'r cam gweithredu (amcangyfrif o 722) yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai hyn yn arwain at effeithiau manteisiol mawr o ran cyflogaeth i boblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn swyddi parhaol o ansawdd uchel. Caiff hyn ei gydbwyso yn yr erbyn effaith niweidiol fach iawn o ran rhai pobl ddi-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ac Ynys	gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar amrywiaeth economaidd. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar amrywiaeth economaidd. Effaith niwtral gyffredinol.	gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar amrywiaeth economaidd. Effaith niwtral gyffredinol.	Briffordd yr A5025 ar amrywiaeth economaidd. Effaith niwtral gyffredinol.	uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg ar amrywiaeth economaidd. Effaith niwtral gyffredinol.		

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	Môn. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol ganolig gyffredinol.							
C11. Incwm	Mae disgwyl i'r cam adeiladu arwain at gynyddu'r incwm wythnosol canolrif ar gyfer Ynys Môn drwyddi draw. Fodd bynnag, gallai cyflogau uwch o gyfleoedd cyflogaeth adeiladu gael effaith niweidiol ar rai busnesau lleol. Ystyrir mai galwedigaethau uchel eu gwerth yw'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu. Byddai'r rhain yn cyfrannu at gynyddu enillion cyffredinol trigolion prif ardal yr astudiaeth yn enwedig Ynys Môn, gan fod disgwyl i 85% o'r gweithlu gweithredu fod ym mhrif ardal yr astudiaeth gyda'r rhan fwyaf ar Ynys Môn. Mae swyddi'r cam gweithredu hefyd yn swyddi parhaol am 60 o flynyddoedd. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol fach gyffredinol.	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyflogau lleol/lefelau cyflog eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyflogau lleol. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau camau adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogau lleol/lefelau cyflog eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gyflogau lleol. Effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar lefelau cyflog lleol eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio ar gyflogau lleol. Effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau'r Newidiadau i'r Briffordd ar gyflogau lleol/lefelau cyflog eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil y Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar gyflogau lleol. Effaith niwtral gyffredinol.	Caiff effeithiau adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg ar gyflogau lleol/lefelau cyflog eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl dim effeithiau uniongyrchol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg ar gyflogau lleol. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar incwm yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
C12. Prisiau tai	Ar lefel prif ardal yr astudiaeth, mae faint o lety sydd ar gael yn dangos bod digon o gapasiti i gwrdd â'r holl alw am lety gan weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref. Fodd bynnag, gan fod fforddiadwyedd tai yn broblem yn barod ar Ynys Môn, gallai'r cynnydd yn y galw am lety yng Ngogledd a Gorllewin Ynys Môn arwain at godi pris llety eto fyth, gan wneud problem sy'n bodoli'n barod yn waeth, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Petai hyn yn digwydd, byddai hyn yn lleihau faint o lety sydd ar gael i'r boblogaeth leol, yn enwedig pobl ifanc, am bris fforddiadwy. Gallai hyn effeithio'n niweidiol ar hyfywedd cymunedau Cymraeg, gan effeithio ar les y Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol. Nid ydy'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sydd ym mhennod C1 y Datganiad Amgylcheddol (economaidd-	Gall adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd effeithio'n niweidiol ar werth tai yn Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Ar hyn o bryd mae Horizon yn cynnal cynllun Cefnogaeth Pris Eiddo, sy'n sicrhau bod y boblogaeth leol o fewn radiws o 1km i Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, sy'n dymuno symud i fyw, yn gallu gwneud hynny heb fod ar eu colled yn ariannol. Mae disgwyl i'r cynllun hwn fod ar waith tan ddiwedd cam adeiladu'r Orsaf Bŵer sy'n arwain at effaith niwtral. Caiff effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer ar y galw am lety a chost tai eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at allfudo o'r Ardal Dylanwad Leol, nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) yr Ardal Dylanwad Leol ac ni fyddai'n rhwystro poblogaeth Gymraeg yr Ardal Dylanwad Leol rhag dychwelyd i'r ardal. Effaith niwtral gyffredinol.	Mae adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn debyg i ddatblygiad confensiynol ac nid oes disgwyl y byddai'n arwain at unrhyw newidiadau i gost tai yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio. Nid oes disgwyl y byddai ei adeiladu na'i weithredu yn arwain at allfudo. Nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) yr Ardal Dylanwad Leol, ac ni fyddai'n rhwystro poblogaeth Gymraeg Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio rhag dychwelyd i'r ardal. Effaith niwtral gyffredinol.	Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r Newidiadau i'r Briffordd, yn ystod y cam adeiladu neu ar ôl gorffen, yn effeithio ar gost tai yn gyffredinol yn Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i'r Briffordd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai Adran 3 arwain at wella amwynder eiddo preswyl ar hyd priffordd bresennol yr A5025 yn gyffredinol yn y pentref gan fod disgwyl i lefelau presennol y traffig ddisgyn mwy na 60%. Gallai hyn arwain at gynnydd cyffredinol yng ngwerth anheddau preswyl ym mhentref Llanfachraeth; fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y	Ni fyddai disgwyl i adeiladu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw newidiadau i gost tai yn Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg. Gan nai fyddai disgwyl i'r gwaith o'i hadeiladu na'i gweithredu arwain at allfudo o Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg, nid oes rheswm dros gredu y byddai'n arwain at ddigartrefedd na straen tai ymysg poblogaeth bresennol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg ac ni fyddai'n rhwystro poblogaeth Gymraeg Ardal Dylanwad Leol y	Nodir effaith niweidiol fach ar gost tai ar lefel prosiect cyfan a nodir effaith niweidiol fach iawn o ran y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Gallai'r cyfuniad o'r ddau o bosibl arwain effaith gronnus ar gost tai ym mhentref Llanfachraeth. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r effaith ar gost tai yn fach ac felly byddai arwyddocâd cyffredinol yr effaith yn ddim mwy na'r hyn a nodwyd ar gyfer effeithiau'r prosiect cyfan.	Effaith niweidiol ganolig.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	gymdeithasol) (Cyfeirnod Dogfen y Cais 6.3.1) yn nodi unrhyw gyfyngiadau amlwg i ddiwallu'r galw sy'n gysylltiedig â'r gweithredu. Mae'r galw am lety ym mhrif ardal yr astudiaeth ac ar Ynys Môn yn weddol fach oherwydd bod disgwyl y byddai 85% o weithwyr y cam gweithredu yn bobl leol. Felly nid oes disgwyl dim sgil-effeithiau o ran prisiau tai a fyddai'n effeithio ar allu poblogaeth prif ardal yr astudiaeth i brynu eu cartref eu hunain neu rentu llety am bris fforddiadwy. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach gyffredinol.	effaith niwtral gyffredinol.			byddai'r cynnydd hwn mewn gwerth yn un sylweddol. Effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	Ganolfan Logisteg rhag dychwelyd i'r ardal. Effaith niwtral gyffredinol.		
Cyflenwad seilwaith ac addysg								
C13. Ysgolion	Byddai disgwyl i gyflwyno gweithlu adeiladu a'u dibynyddion i ysgolion cyfrwng Cymraeg newid y cydbwysedd o ran siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Heb fesurau lliniaru a gwella, gallai hynny gael effaith niweidiol ar	Caiff effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd gan gynnwys yr Orsaf Bŵer a'r gweithlu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n symud i	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at unrhyw newidiadau mewn poblogaeth ac felly ni fyddai disgwyl i hyn effeithio ar gofrestri myfyrwyr na newid y	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at unrhyw newidiadau mewn poblogaeth ac felly ni fyddai disgwyl i hyn effeithio ar	Ni fyddai disgwyl i'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at unrhyw newidiadau mewn poblogaeth ac felly ni fyddai disgwyl i hyn effeithio ar gofrestri myfyrwyr na newid y	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw newidiadau i'r boblogaeth ac felly ni fyddai disgwyl i hyn	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ysgolion lleol yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	y defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol. Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai disgwyl i gyfanswm nifer y plant oedran ysgol a'u dosbarthiad drwy is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth gael effeithiau amlwg ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymysg plant oed cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol ganolig gyffredinol.	brif ardal yr astudiaeth eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Byddai'r holl weithwyr adeiladu a fyddai'n aros yng Nghampws y Safle yn weithwyr sengl ac felly ni fyddai dim galw am leoedd mewn ysgolion ac ni fyddai hyn yn cyflwyno plant di-Gymraeg i'r ysgolion sydd agosaf at Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Caiff effeithiau gweithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd ar y galw am leoedd ysgol a chyflwyno plant di-Gymraeg i ysgolion eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/di-Gymraeg mewn ysgolion yn Ardal Dylanwad Leol y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Effaith niwtral gyffredinol.	gofrestri myfyrwyr na newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/di-Gymraeg mewn ysgolion presennol sydd agosaf at y cyfleuster Parcio a Theithio. Effaith niwtral gyffredinol.	cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/di-Gymraeg yn yr ysgolion presennol. Effaith niwtral gyffredinol.	effeithio ar gofrestri plant na newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/di-Gymraeg mewn ysgolion presennol. Effaith niwtral gyffredinol.	eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	
C14. Gofal iechyd	Ar sail y cynnydd bach yn galw am wasanaethau'r GIG a fyddai'n deillio o	Caiff effeithiau adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa	Nid oes dim cyfleusterau gofal iechyd yn Ardal Dylanwad Leol y	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio	Mae'r cyfleusterau gofal iechyd sydd yn Ardal Dylanwad	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r	Mae effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar gyfleusterau gofal	Dim effaith gronnus.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	ganlyniad i weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref yn symud i'r ardal gyda'u teuluoedd, ni ddisgwylir effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a darpariaeth ar gyfer poblogaeth prif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu. Byddai gweithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd wedi setlo'n barhaol a byddent yn defnyddio gwasanaethau presennol y GIG heb gael effaith niweidiol ar gapasiti/ansawdd ac felly, ni fyddai disgwyl dim effaith ar gyfleusterau neu wasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	Newydd a'r gweithlu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth sydd felly angen darpariaeth gofal iechyd eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Byddai'r holl weithwyr adeiladu a fyddai'n byw yng Nghampws y Safle yn gallu cael gafael ar ofal iechyd galwedigaethol cynhwysfawr, yn ogystal â darpariaeth gofal sylfaenol yng Nghampws y Safle, a chaiff effeithiau'r gweithwyr adeiladu hyn na fyddant yn byw gartref y bydd angen cyfleusterau gofal iechyd arnynt eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Caiff effeithiau gweithredu'r Orsaf Bŵer a gweithlu'r cam gweithredu a'u teuluoedd ar y galwam ddarpariaeth gofal iechyd eu	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer. Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio ar y ddarpariaeth o gyfleusterau gofal iechyd y mae poblogaeth Gymraeg Ardal Dylanwad Leol y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn dibynnu arnynt. Effaith niwtral gyffredinol.	a Theithio effeithio ar y ddarpariaeth o gyfleusterau gofal iechyd a fyddai'n effeithio ar boblogaeth Gymraeg yr Ardal Dylanwad Leol. Effaith niwtral gyffredinol.	Leol y Newidiadau i Briffordd yr A5025 wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd yn y Fali. Er y byddai newidiadau i'r ffordd o gael mynediad i bentref y Fali wrth deithio o'r A55 neu ar hyd yr A5025 o Ardal Datblygu Wylfa Newydd, byddai'r rhain yn fach ac ni fyddent yn effeithio ar ddarpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau o'r fath na'u hyfywedd yn y dyfodol. Yn ystod y cam adeiladu, mae hi'n bosibl y bydd cynnydd dros dro yn amseroedd ymateb y gwasanaethau brys oherwydd cynnydd yn yr amser teithio. Ar ôl gorffen adeiladu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, byddai effeithiau	Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw effeithiau sylweddol i gymunedau cymdogol a gwasanaethau lleol, gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd, o ran gwahanu cymuned a mynediad. Nid oes disgwyl i fwy o draffig a thagfeydd oherwydd y Ganolfan Logisteg yn benodol fod yn ffactor o ran gwasanaethau (gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd) yn yr Ardal Dylanwad Leol yn ystod y cam gweithredu, oherwydd byddai disgwyl i draffig gael ei gyfeirio i ddefnyddio llwybrau penodol a lleihau faint o amser sy'n cael	iechyd lleol yn cael eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Ni fyddai disgwyl unrhyw effeithiau cronnus ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd datblygiadau unigol eraill ar ben y rheini a nodwyd yn effeithiau'r prosiect cyfan.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.			manteisiol a fyddai'n gysylltiedig ag amseroedd siwrneiau gwell i'r gymuned wledig wrth gael gafael ar ofal iechyd, gan leihau amddifadedd mynediad a gan gefnogi derbyn gofal iechyd sy'n gritigol o ran amser. Effaith niwtral gyffredinol.	ei dreulio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Effaith niwtral gyffredinol.		
C15. Gwasanaethau lleol	Ystyrir bod mwy o alw am gyfleusterau cymunedol o fudd gan fod hynny'n cefnogi cymunedau cynaliadwy, lle gall y Gymraeg ffynnu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i gymunedau effeithio'n niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni. Yn gyffredinol byddai'r cynnydd bach yn y boblogaeth yn ystod y cam gweithredu yn sefydlogi'r galw am wasanaethau lleol sydd	Disgwylir y byddai presenoldeb hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle yn arwain at rywfaint o gynnydd yn y galw am gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau'r Ardal Dylanwad Leol. Fodd bynnag, ni fyddai gweithwyr yn dibynnu ar y gymuned i gael gafael ar wasanaethau o'r fath oherwydd byddai darpariaeth helaeth ar gael yng	Mae rhywfaint o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn Ardal Dylanwad Leol Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a fyddai'n elwa o fwy o weithwyr adeiladu yn eu defnyddio (a gwariant ychwanegol) Er y byddai hyn yn cyfrannu at ddiogelu defnyddio cyfleusterau cymunedol o'r fath, bach iawn fyddai'r effaith fanteisiol hyn oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu a gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cyfleusterau Oddi ar	Byddai disgwyl i bresenoldeb gweithwyr adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd a gweithwyr gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio gyfrannu'n uniongyrchol at ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleusterau Parcio a Theithio. Ni fyddai disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod	Byddai newidiadau i drefniadau mynediad at gyfleusterau cymunedol o fewn y Newidiadau i'r Briffordd yn amharu rhywfaint ar ddefnyddwyr yn ystod y cam adeiladu; fodd bynnag, ar ôl gorffen y gwaith byddai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn golygu ei bod hi'n haws cyrraedd cyfleusterau o'r fath oherwydd amser siwrneiau	Ni fyddai disgwyl effaith ar fynediad at wasanaethau lleol gan na fyddid yn disgwyl newid sylweddol i hyd siwrneiau. Byddid yn disgwyl mwy o wariant yn Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu o ganlyniad i bresenoldeb y darparwyr caffael a chyflenwyr	Nodir effeithiau manteisiol ar wasanaethau lleol o ran effeithiau'r prosiect cyfan yn ogystal â datblygiadau unigol. Mae'r effeithiau manteisiol a nodwyd ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, y cyfleuster Parcio a Theithio, y Newidiadau i Briffordd yr A5025 a'r Ganolfan Logisteg yn effeithiau sy'n ddaearyddol benodol, byddai gorgyffwrdd â'r effeithiau manteisiol prosiect cyfan a	Effaith fanteisiol fach iawn.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	ar gael ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys siopau lleol, swyddfeydd post, banciau a thafarndai, yn dilyn cynnydd yn y galw dros y cyfnod adeiladu. Mae cyfleusterau fel y rhain yn fannau ymgynnull cymdeithasol yn y gymuned lle siaredir yr iaith Gymraeg yn ddyddiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau ym mhrif ardal yr astudiaeth wedi gweld gwasanaethau lleol yn cau yn gyson. Byddai sefydlogi'r galw am wasanaethau lleol fel y rhain yn cyfrannu tuag at eu diogelu yn y dyfodol, sy'n cael ei ystyried yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i boblogaethau lleol sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gymuned. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	Nghampws y Safle. Byddai'r cynnydd yn y galw o fudd i gymunedau'r ADL oherwydd y byddai'n cyfrannu at ddiogelu cyfleusterau cymunedol a fyddai'n cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r effaith fanteisiol hon yn erbyn yr effaith niweidiol a fyddai'n codi o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu, a fyddai'n ddi-Gymraeg yn bennaf, mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, a allai wanhau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni. Yn ystod y cam gweithredu, byddid yn disgwyl gweld cynnydd yn y	Safle'r Orsaf Bŵer. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	yn sylweddol; fodd bynnag, byddai'n arwain at effaith fanteisiol drwy gyfrannu at ddiogelu gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio a Theithio. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	llai i drigolion ADL y Newidiadau i Briffordd yr A5025. Yn yr un modd â busnesau lleol ac eiddo preswyl, byddai mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol fel neuaddau pentref, mannau addoli, mannau agored, mynwentydd, gorsafoedd trenau a gorsafoedd heddlu yn cael ei gynnal bob amser yn ystod y cam adeiladu drwy ddefnyddio arwyddion dargyfeirio dwyieithog. Effaith niwtral gyffredinol.	Prosiect DCO Wylfa Newydd yn yr Ardal Dylanwad Leol. Effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.	nodwyd. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, ni fyddai'r rhain yn newid arwyddocâd yr effeithiau.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		galw am gyfleusterau cymunedol gan weithwyr y cam gweithredu yn Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Fodd bynnag, mae disgwyl i hyn fod yn fach iawn, gan fod disgwyl i 85% o'r gweithwyr cam gweithredu fod yn byw gartref. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith fanteisiol fach iawn gyffredinol.						
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol								
C16. Tensiynau/gwrthdaro	Er y gallai rhwydweithiau cymdeithasol cryf ar Ynys Môn olygu bod y boblogaeth yn fwy gwydn i newidiadau yn y gymuned yn ystod y cam adeiladu, mae rhywfaint o ansicrwydd ymysg y boblogaeth sy'n awgrymu pryder posibl ymysg y boblogaeth bresennol am fewnlifiad gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref i	Caiff effeithiau posibl datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'i weithlu adeiladu (gan gynnwys eu dibynyddion) ar densiynau cymdeithasol, gwrthdaro a rhaniadau yng nghymunedau Cymraeg prif ardal yr astudiaeth eu hasesu ar lefel prosiect cyfan.	Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu a gweithredu Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau uniongyrchol yng nghymuned Gymraeg Llanfaethlu sydd yn Ardal Dylanwad Leol y Cyfleusterau Oddi Ar Safle'r Orsaf Bŵer.	Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu a gweithredu cyfleuster Parcio a Theithio yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau Cymraeg ward Llanfair-yn-Neubwll.	Nid oes rheswm dros gredu y byddai adeiladu a gweithredu gwaith i wella'r briffordd fel y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau Cymraeg Ardal Dylanwad Leol y Newidiadau i	Nid fyddai rheswm dros gredu y byddai adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau Cymraeg Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan	Mae effeithiau niweidiol bach iawn ar densiynau/gwrthdaro wedi cael eu nodi o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac effeithiau'r prosiect cyfan. Er bod yr effeithiau ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn effeithiau sy'n ddaearyddol benodol, byddent yn gorgyffwrdd ag effeithiau'r prosiect cyfan. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, ni fyddai	Effaith niweidiol fach.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	gymuned prif ardal yr astudiaeth. Ac ystyried bod disgwyl i'r rhan fwyaf (85%) o weithwyr y cam gweithredu fod yn weithwyr lleol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai cam gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yng nghymunedau prif ardal yr astudiaeth ac Ynys Môn. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	Gan y byddai hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle, mae disgwyl y bydd rhywfaint o ryngweithio rhwng y gweithwyr adeiladu a phoblogaeth yr Ardal Dylanwad Leol gan ei bod hi'n debygol bod rhai gweithwyr yn debyg o ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol (fel tafarndai, siopau, llyfrgelloedd ac ati). Fodd bynnag, wrth ystyried darpariaeth helaeth y cyfleusterau ar y safle yng Nghampws y Safle, ni fyddai disgwyl i'r lefel hon o ryngweithio cymunedol fod yn sylweddol. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at rywfaint o densiynau cymdeithasol/ gwrthdaro rhwng trigolion Ardal Dylanwad Leol	Effaith niwtral gyffredinol.	Effaith niwtral gyffredinol.	Briffordd yr A5025. Effaith niwtral gyffredinol.	Logisteg. Effaith niwtral gyffredinol.	hyn yn newid arwyddocâd yr effeithiau.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r gweithwyr na fyddant yn byw gartref. Caiff effeithiau cam gweithredu'r Orsaf Bŵer ar densiynau cymdeithasol/ gwrthdaro/ rhaniadau eu hasesu ar lefel prosiect cyfan yn hytrach na'r Ardal Dylanwad Leol gan nad oes disgwyl i unrhyw rai o weithwyr y cam gweithredu fod yn yr Ardal Dylanwad Leol yn benodol. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.						
C17. Diwylliant a thraddodiadau	Mae posibilrwydd y bydd nifer y gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd (7,500) y disgwylir iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu, yn gwanhau diwylliant a thraddodiadau presennol y Gymraeg, yn ogystal â'r defnydd a	Mae posibilrwydd y bydd presenoldeb gweithwyr adeiladu yn y cymunedau hynny, yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac yn ymwneud â'r gymuned, yn gwanhau ac yn lleihau amlygrwydd	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at unrhyw newidiadau yn nhraddodiadau a diwylliant lleol y Gymraeg yng nghymunedau Ardal Dylanwad Leol Cyfleusterau Oddi ar	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at unrhyw newidiadau yn nhraddodiadau a diwylliant lleol y Gymraeg yng nghymunedau Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster	Gallai'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 gael effaith niweidiol fach iawn ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd cynnydd posibl yng ngwerth tai yn Llanfachraeth, a allai ddeillio o	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw newidiadau yn nhraddodiadau a diwylliant lleol y Gymraeg yng nghymunedau Ardal Dylanwad	Caiff effeithiau niweidiol ar ddiwylliant/ traddodiadau eu nodi o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd (bach iawn), Newidiadau i Briffordd yr A5025 (bach iawn) ac effeithiau'r prosiect cyfan (bach). Er bod yr effeithiau ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa	Effaith niweidiol ganolig.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	wneir o'r Gymraeg yn y gymuned. Byddai disgwyl i faint o weithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd a fyddai'n symud i'r ardal yn ystod y cam gweithredu fod yn tua 200 o unigolion, a fyddai'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae twf poblogaeth drwy fewnfudo yn bwysig er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau (ac felly, cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer y dyfodol). Rhaid cydbwyso hyn yn erbyn gwanhau'r Gymraeg a'i diwylliant a allai ddigwydd oherwydd bod mwy o bobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach gyffredinol.	traddodiadau a diwylliant y Gymraeg. Byddai gwaith adeiladu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd y gweithgareddau adeiladu a fyddai'n angenrheidiol, o bosibl hefyd yn effeithio ar ein dealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant y Gymraeg oherwydd effeithiau uniongyrchol ar olion archaeolegol, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol. Mae gan enwau lleoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gysylltiadau topograffigol neu maent yn disgrifio nodweddion y dirwedd, neu maent hefyd yn gysylltiedig â phobl neu â swyddogaeth. Gyda rhai enwau lleoedd, er bod yr enw wedi'i warchod yn y dirwedd,	Safle'r Orsaf Bŵer. Effaith niwtral gyffredinol.	Parcio a Theithio. Effaith niwtral gyffredinol.	wella'r amwynder yn gyffredinol a gostyngiad yn lefel y traffig. Oherwydd y byddai disgwyl i'r effaith hon fod yn un fach, ni fyddai disgwyl i hyn effeithio'n niweidiol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gyffredinol. Fodd bynnag, efallai y ceir effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg ym mhentref Llanfachraeth. Effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.	Leol y Ganolfan Logisteg. Effaith niwtral gyffredinol.	Newydd a'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn effeithiau sy'n ddaearyddol benodol, byddent yn gorgyffwrdd ag effeithiau'r prosiect cyfan. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, ni fyddai hyn yn newid arwyddocâd yr effeithiau.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		byddai unrhyw gysylltiadau wedi mynd yn angof neu wedi diflannu. Caiff effeithiau cam gweithredu datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd gan gynnwys gweithredu'r Orsaf Bŵer ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Mae effeithiau ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg hefyd yn gallu digwydd o ganlyniad i effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.						
C18. Grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd	Mae'r cam adeiladu yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth leol a fyddai'n cyfrannu at gadw pobl ifanc rhag gadael prif ardal yr	Byddid yn disgwyl y gallai rhai o'r gweithwyr adeiladu a fydd yn byw yng Nghampws y Safle fynychu rhai grwpiau	Mae rhywfaint o grwpiau gwirfoddol/ gweithgaredd/ ieuenctid yn Ardal Dylanwad Leol Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer	Mae nifer o grwpiau gwirfoddol/ gweithgaredd/ ieuenctid yn Ardal Dylanwad Leol y cyfleuster Parcio	Yn ystod y cam adeiladu, efallai y byddai rhywfaint o amharu o ran oedi wrth deithio; fodd bynnag, byddai mynediad at yr	Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg arwain at unrhyw	Caiff effeithiau niweidiol ar grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd eu nodi o ran Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac effeithiau'r prosiect	Effaith niweidiol fach.

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	astudiaeth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n weithgar mewn grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd. Credir bod cadw pobl ifanc leol, gyda chanran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg, o fudd i grwpiau ieuenctid, gwirfoddol a gweithgaredd lleol, gan fod hynny'n diogelu dyfodol grwpiau o'r fath. Fodd bynnag, byddai disgwyl i gyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/ cymunedol cyfrwng Cymraeg wanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y grwpiau hynny. Byddai'r cyfleoedd am gyflogaeth barhaol a fyddai ar gael yn ystod y cam gweithredu yn cyfrannu tuag at gadw pobl leol (gan gynnwys pobl ifanc), gan gyfrannu tuag at sicrhau bod y bobl hynny sy'n weithgar mewn grwpiau gwirfoddol yn gallu parhau i chwarae rhan ynddynt, gan ddiogelu dyfodol grwpiau o'r	gwirfoddol/ ieuenctid/ gweithgaredd lleol yn yr Ardal Dylanwad Leol. Er y gall hyn helpu gweithwyr adeiladu sy'n byw yng Nghampws y Safle i integreiddio â chymunedau'r Ardal Dylanwad Leol, mae cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau o'r fath â photensial i effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg o fewn grwpiau ar y dechrau, gan y gallai arwain at grwpiau'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, er mwyn cynnwys pobl ddi-Gymraeg. Byddai cyflwyno pobl ddi-Gymraeg i grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ cymunedol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o newid y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y	sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes disgwyl y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer effeithio nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gwrdd yn unol â'u trefniadau presennol. Effaith niwtral gyffredinol.	a Theithio sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes disgwyl y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Ni fyddai effaith niweidiol o ran mynediad ar y cyfleoedd cymdeithasol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yng Nghanolfan Cartio Môn. Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn effeithio ar nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gwrdd yn unol â'u trefniadau presennol. Effaith niwtral gyffredinol.	holl gyfleusterau cymunedol (gan gynnwys y rheini lle mae grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd yn cwrdd) yn cael ei gadw bob amser drwy ddargyfeirio gydag arwyddion dwyieithog, pan fo angen. Yn ystod y cam gweithredu, fel rhan o liniaru ymarfer da, byddid yn ystyried disodli arwyddion presennol ar hyd y ffordd ar hyd y Newidiadau i Briffordd yr A5025 ar gyfer rhai cyfleusterau cymunedol, lle byddai newid i'r trefniadau mynediad. Ni fyddai effaith niweidiol ar grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r Newidiadau i Briffordd yr	allfudo o Ardal Dylanwad Leol y Ganolfan Logisteg. Nid oes disgwyl felly y collir poblogaeth Gymraeg sy'n weithgar mewn grwpiau o'r fath. Ni fyddai disgwyl i adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg effeithio ar nac amharu ar allu grwpiau o'r fath i gwrdd yn unol â'u trefniadau presennol. Effaith niwtral gyffredinol.	cyfan. Er bod yr effeithiau ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn effeithiau sy'n ddaearyddol benodol, byddent yn gorgyffwrdd ag effeithiau'r prosiect cyfan. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, ni fyddai hyn yn newid arwyddocâd yr effeithiau.	

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol (disgrifiad cryno a'u lefel)						Effaith gronnus o fewn y prosiect	
	Effaith prosiect cyfan	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg	Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
	fath, gan olygu effaith fanteisiol. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niwtral gyffredinol.	grwpiau hynny. Gallai rhaniad ieithyddol ddigwydd hefyd os bydd gweithwyr nad ydynt yn byw gartref yn sefydlu eu grwpiau gwirfoddol neu grwpiau diddordeb eu hunain. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar grwpiau gwirfoddol/ gweithgaredd/ ieuenctid sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig grwpiau cyfrwng Cymraeg. Caiff effeithiau cam gweithredu Ardal Datblygu Wylfa Newydd gan gynnwys gweithredu'r Orsaf Bŵer ar grwpiau ieuenctid/ gwirfoddol/ gweithgaredd eu hasesu fel rhan o effeithiau'r prosiect cyfan. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol fach iawn gyffredinol.			A5025. Effaith niwtral gyffredinol.			

Tabl H-2 Matrics sgorio effeithiau cronnus o fewn y prosiect

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol							
	Effaith prosiect cyfan		Ardal Datblygu Wylfa Newydd		Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg
	Adeiladu	Gweithredu	Adeiladu	Gweithredu				
Nodweddion y boblogaeth								
C1. Gwahaniaeth cyffredinol	-0.6	0	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C1	-0.2		0					
C2. Mewnfudo	-0.8	-0.2	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C2	-0.3		0					
C3. Allfudo	+0.4	+0.6	-0.3	-0.1	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C3	+0.6		-0.2					
C4. Strwythur oed	+0.6	+0.6	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C4	+0.6		0					
Ansawdd bywyd								
C5. Iechyd	+0.1	+0.1	-0.1	0	0	0	+0.2	0
Sgôr gyffredinol C5	+0.1		-0.1					
C6. Amwynder	-0.3	-0.2	-0.3	-0.1	-0.1	0	+0.3	0
Sgôr gyffredinol C6	0		-0.2					
C7. Troseddau	-0.1	-0.1	-0.2	-0.1	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C7	-0.1		-0.2					
Ffactorau economaidd								
C8. Busnesau lleol	+0.5	+0.4	+0.2	+0.2	+0.1	+0.1	-0.3	+0.1
Sgôr gyffredinol C8	+0.5		+0.2					
C9. Swyddi lleol	+0.6	+0.6	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C9	+0.6		0					
C10. Amrywiaeth economaidd	+0.4	+0.5	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C10	+0.5		0					

Derbynnydd	Effeithiau datblygiadau unigol							
	Effaith prosiect cyfan		Ardal Datblygu Wylfa Newydd		Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol	Parcio a Theithio	Newidiadau i Briffordd yr A5025	Canolfan Logisteg
C11. Incwm	+0.3	+0.3	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C11	+0.3		0					
C12. Prisiau tai	-0.5	0	0	0	0	0	-0.1	0
Sgôr gyffredinol C12	-0.3		0					
Cyflenwad seilwaith ac addysg								
C13. Ysgolion	-0.7	+0.1	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C13	-0.6		0					
C14. Gofal iechyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C14	0		0					
C15. Gwasanaethau lleol	+0.2	+0.2	+0.1	+0.2	+0.1	+0.1	0	+0.1
Sgôr gyffredinol C15	+0.2		+0.2					
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol								
C16. Tensiynau/gwrthdaro	-0.1	0	-0.3	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C16	-0.1		-0.2					
C17. Diwylliant a thraddodiadau	-0.6	+0.1	-0.3	0	0	0	-0.1	0
Sgôr gyffredinol C17	-0.3		-0.2					
C18. Grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/ gweithgaredd	-0.2	+0.2	-0.4	0	0	0	0	0
Sgôr gyffredinol C18	0		-0.2					
Sgôr mynegai sylfaen gyffredinol datblygiadau unigol	-0.6	+0.2	-0.1	0	0	0	0	0
	+0.1		-0.1					
Sgôr mynegai sylfaen gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd i gyd	0							

H.3 Effeithiau cronnus rhwng prosiectau

H.3.1 Cynhaliwyd asesiad i werthuso potensial Prosiect DCO Wylfa Newydd i ryngweithio â phrosiectau eraill a thrwy hynny gael effeithiau cronnus rhwng prosiectau ar y Gymraeg a'i diwylliant.

H.3.2 Rhan allweddol o'r broses o asesu effeithiau cronnus rhwng prosiectau ydy adnabod y prosiectau hynny o'r gorffennol, y prosiectau cyfredol a phrosiectau mae'n rhesymol eu rhagweld yn y dyfodol a allai gyfrannu at effeithiau cronnus o'r fath.

H.3.3 Mae 0 yn nodi'r rhestr fer o brosiectau eraill a nodwyd. Mae pennod 12 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Cais: 6.9.2) yn cynnwys y rhestr hirach a'r broses ddethol.

H.3.4 Mae Tabl H-3 yn crynhoi'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer yr 18 cwestiwn yn y rhestr wirio. Mae ei gasgliad yn cynnwys barn broffesiynol ynghylch yr effeithiau cronnus rhwng prosiectau, hy effaith gyffredinol gyfun Prosiect DCO Wylfa Newydd a phob prosiect perthnasol arall.

Prosiectau eraill a allai gyfrannu at effeithiau cronnus

Cyfeirnod	Datblygwr	Teitl y Prosiect a disgrifiad ohono
AN01	Magnox Limited	Dagomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol Datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol (Wylfa) gan gynnwys tynnu'r tanwydd, cynnal a chadw a gofalu am y cyfleusterau presennol wedi'i ddilyn gan ddatgomisiynu a chlirio cam terfynol.
AN02	Orthios Group	Parc Eco Ynys Môn: Gorsaf bŵer biomas 299MWe o fewn y cynllun presennol sydd wedi cael cydsyniad. Cyfleuster tyfu corgimychiaid ar y tir (dyframaethu). Cyfleuster mawr dan do heb bridd ar gyfer tyfu llysiau (hydroponeg). Cyfleuster pecynnu bwyd mae modd ei gompostio o'r cartref. Canolfan Ragoriaeth. Ymchwil a datblygu. Glanfa dŵr dwfn ar gyfer mewnforio deunyddiau mawr.
AN04	Land and Lakes	Pentref hamdden ym Mharc Arfordir Penrhos.
AN05	Conygar Stena Line Ltd	Ailddatblygu Glannau Caergybi Datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr ar hyd 1.2km o lannau Caergybi yn Nhraeth Newry a Phorth-y-Felin.

Cyfeirnod	Datblygwr	Teitl y Prosiect a disgrifiad ohono
AN06	Conygar	Parc Cybi Cam 2 Datblygiadau cyflogaeth defnydd cymysg, yn bennaf gofod dosbarthu a warysau ar ymyl deheuol Caergybi wrth ochr yr A55.
AN07	National Grid	Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru Cysylltiad newydd ar gyfer yr ynni newydd a fydd yn cael ei gynhyrchu yng ngogledd Cymru. Mae'r dulliau newydd o gynhyrchu ynni'n cynnwys Prosiect DCO arfaethedig Wylfa Newydd yn ogystal â nifer o brosiectau ynni adnewyddadwy.
AN08	TPG Wind Limited (menter ar y cyd rhwng E.ON ac Eurus Energy UK Ltd)	Rhyd-y-groes Repower Mae gan Fferm Wynt bresennol Rhyd-y-groes, sydd wrth lannau gogledd Ynys Môn yng Nghymru, 22 tyrbin ac mae'n gallu cynhyrchu hyd at 6.6MW o bŵer. Mae cynigion i ddisodli'r tyrbinau presennol â hyd at 11 tyrbin modern, a allai gynhyrchu hyd at 9.9MW o ynni adnewyddadwy.
AN09	M-Sparc	Parc Gwyddoniaeth Menai Parc gwyddoniaeth newydd ar gyrion Gaerwen. Mae'n cael ei ddatblygu fel lleoliad ar gyfer prosiectau ymchwil ar gyfer diwydiant, Busnesau Bach a Chanolig a Chwmnïau Corfforaethol, er mwyn sbarduno twf mewn gwyddoniaeth ar sail gwybodaeth yng ngogledd orllewin Cymru.
AN10	Nwy hylifedig naturiol Amlwch (LNG)	Amlwch LNG Byddai tanceri yn mewnforio nwy hylifedig i angorfa 3km oddi wrth arfordir Amlwch. Byddai'r nwy wedyn yn cael ei drosglwyddo drwy bibell o dan y môr o'r llwyfan angori i'r safle ger tref Amlwch, lle byddai modd ei drosi'n ôl yn nwy naturiol a'i anfon i rwydwaith nwy y DU.
AN11	Minesto	Dyfnder Caergybi, 10 MW (a datblygiad fesul cam i 80MW) Gosodiad barcud llanw oddi ar arfordir Caergybi, ac elfennau ar y tir a chysylltiad â'r grid.
AN13	Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Gynradd Caergybi Ysgol gynradd newydd a fydd yn disodli Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol y Parc ac Ysgol Llaingoch, ar hen safle Ysgol Cybi yng Nghaergybi.
AN14	Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Gynradd Llanfaethlu Cynlluniau am ysgol gynradd newydd i ddisodli Ysgol Cylch y Garn, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Llanfachraeth.

Cyfeirnod	Datblygwr	Teitl y Prosiect a disgrifiad ohono
AN15	Cyngor Sir Ynys Môn	Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig ffordd gyswllt newydd 2.5km o hyd o amgylch ochr ddwyreiniol Llangefni er mwyn i draffig allu cyrraedd y stad ddiwydiannol yn haws yng Ngholeg Menai a lleihau'r traffig a ddisgwylir yng nghanol tref Llangefni.
AN20	Cwmnïau cyfleustodau (amrywiol)	Tynnu gwasanaethau (ac yn rhai achosion eu disodli) sydd ar hyn o bryd ar waith yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae cynlluniau mewn lle i dynnu neu ddisodli gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli ee ceblau trydanol sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei wneud gan y cwmnïau cyfleustodau perthnasol o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir a chaiff ei ariannu gan Horizon.
AN23	Countryside Renewables	Fferm Solar Llanbadrig Datblygu 220 acer (89ha) o dir amaethyddol yn Llanbadrig er mwyn gosod fferm solar gyda'r potensial i gynhyrchu hyd at 50MW.
AN24	Grŵp Llandrillo Menai	Coleg Menai Cais hybrid yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio llawn i greu canolfan beirianneg newydd, maes parcio, ardal chwarae i blant a gwaith cysylltiedig a gwneud cais am ganiatâd cynllunio amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygiad preswyl gyda 157 o anheddau, gwesty a chyfleuster bwyd a diod ynghyd â maes parcio a gwaith cysylltiedig ar dir yng Ngholeg Menai, Ffordd y Coleg, Llangefni.
AN25	Dŵr Cymru Welsh Water	Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd Darparu cyflenwad o ddŵr yfed ar gyfer adeiladu a gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, sy'n golygu tynnu, trin a chyflenwi.
AN30	Stena Line Port Ltd	Ehangu Porthladd Caergybi.
GW01	Snowdonia Pumped Hydro Limited	Cyfleuster Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy Adeiladu a gweithredu cynllun pwmpio a storio 600MWh, gyda'r capasiti i gynhyrchu 99.9MW yn chwarelfeydd Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr, ger Llanberis, Gwynedd.

Cyfeirnod	Datblygwr	Teitl y Prosiect a disgrifiad ohono
GW02	Cyngor Gwynedd	Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd Prifffordd 9.8km newydd a fydd yn dechrau yng nghylchfan y Goat (cyffordd yr A499/487) ac yn dod i ben yng nghylchfan Plas Menai. Bydd gan y llwybr newydd 22 o strwythurau ar wahân gan gynnwys saith pont.
RI02	Dublin Port Company	Alexandra Basin Redevelopment Project. Estyniad i seilwaith i agor Porthladd Dulyn ar gyfer llongau pleser a chargo mwy. Bydd y porthladd yn carthu afon Liffey er mwyn gwneud ei hangorfeydd yn ddyfnach ynghyd â'r sianel fynedfa o 7m i 10m o leiaf. Bydd hyn yn cael gwared â'r problemau mynediad sy'n cael eu hachosi gan y llanw ac yn galluogi llongau pleser a chargo mawr i droi ym Masn Alexandra ac angori yn yr East Link Bridge, yn hytrach na bacio'n ôl fyny afon Liffey i'w hangorfeydd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
RI03	Dun Laoghaire Harbour Company (Iwerddon)	Angorfa Llong Bleser Newydd Arfaethedig ar gyfer Llongau Pleser Mawr yn Harbwr Dun Laoghaire. Mae Dun Laoghaire Harbour Company wedi cael caniatâd ar gyfer cyfleuster llongau pleser a fydd yn gallu delio â llongau pleser a fydd hyd at 250m o hyd.
NU02	EDF Energy	Hinkley Point C (Gwlad yr Haf) Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear newydd drwy ddefnyddio technoleg AREVA ERP.
NU03	EDF Energy	Sizewell C (Suffolk) Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear newydd drwy ddefnyddio technoleg AREVA ERP.
NU04	NuGen	Moorside (Cumbria) Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear newydd drwy ddefnyddio technoleg Westinghouse AP1000.

Tabl H-3 Effeithiau cronnus rhwng prosiectau

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
Nodweddion y boblogaeth				
C1. Gwahaniaeth cyffredinol	Effaith niweidiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni, Dargyfeirio Cyfleustodau, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am leoliad y gweithwyr y byddai eu hangen ac a fyddai'r gweithwyr hyn yn byw gartref ai peidio.	Mae'r posibilrwydd y bydd effeithiau cronnus yn codi o ran nodweddion y boblogaeth, ac yn arbennig yr effeithiau posibl ar gyfran y siaradwyr Cymraeg, yn deillio o nifer y gweithwyr, safle eu cartref a'r gorgyffwrdd posibl rhwng rhaglen Prosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau eraill. Gallai'r galw ar y sector adeiladu presennol yn lleol gynyddu'n sylweddol. Gyda'i gilydd, gallai'r cynnydd hwn mewn galw arwain at weithwyr yn symud i'r ardal i achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr holl brosiectau hyn. Er y gallai'r rhain greu cyfleoedd ar gyfer y gweithlu adeiladu lleol, petai'r galw hwn yn mynd yn fwy na'r gweithlu lleol sydd ar gael, neu os na fyddai'r sgiliau angenrheidiol ar gael yn lleol, gallai gweithwyr ychwanegol nad ydynt yn byw gartref symud i brif ardal yr astudiaeth. Gallai hyn gael effaith gronnus niweidiol ar nodweddion poblogaeth prif ardal yr astudiaeth.	Effaith niweidiol fach
C2. Mewnfudo	Effaith niweidiol fach	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae rhywfaint o wybodaeth	Gallai'r galw ar y sector adeiladu presennol yn lleol gynyddu'n sylweddol. Gyda'i gilydd, gallai'r cynnydd hwn mewn galw arwain at weithwyr yn symud i'r ardal i achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr holl brosiectau hyn. Er y gallai'r rhain greu cyfleoedd ar gyfer y gweithlu adeiladu lleol, petai'r galw hwn yn mynd yn fwy na'r gweithlu lleol sydd ar gael, neu os na fyddai'r sgiliau angenrheidiol ar gael yn lleol, gallai gweithwyr ychwanegol nad	Effaith niweidiol fach-ganolig

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		ar gael am leoliad y gweithwyr y byddai eu hangen ac a fyddai'r gweithwyr hyn yn byw gartref ai peidio.	ydynt yn byw gartref symud i brif ardal yr astudiaeth. Byddai mewnlifiad y gweithwyr sy'n symud i'r ardal, (tybir y bydd cyfran sylweddol ohonyn nhw'n ddi-Gymraeg), yn effeithio ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg gan gynyddu'r gyfran o bobl ddi-Gymraeg. Gallai'r effaith a gaiff nifer gronnus o fewnfudwyr di-Gymraeg yn symud i ardal, lle mae 61% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, fod yn effaith negyddol.	
C3. Allfudo	Effaith fanteisiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).	Mae'n bosibl y byddai effaith gronnus fanteisiol ar y Gymraeg yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) o ganlyniad i ostyngiad mewn allfudo oherwydd y cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n cael eu darparu gyda'i gilydd.	Effaith fanteisiol fach-ganolig
C4. Strwythur oed	Effaith fanteisiol ganolig	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox; Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos; Ailddatblygu Glannau Caergybi; Cam 2 Parc Cybi; Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru; Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am leoliad y gweithwyr y byddai eu hangen ac a fyddai'r gweithwyr hyn yn byw gartref ai peidio.	Mae potensial am effeithiau cronnus o ran newid mewn poblogaeth. Petai hyn yn digwydd, mae'n debyg y byddai effaith gronnus o ran strwythur oed y boblogaeth. Byddai disgwyl i unrhyw weithwyr a fyddai'n symud i'r ardal fod o oed gweithio. Byddai hyn yn effaith gronnus fanteisiol oherwydd byddai hyn yn helpu i ail-gydbwyso strwythur oed y boblogaeth, yn enwedig ar gyfer Ynys Môn.	Effaith fanteisiol ganolig
Ansawdd bywyd				

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
C5. Iechyd	Effaith fanteisiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd ydy datgomisiynu Magnox, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: y ganolfan i Ymwelwyr ac i'r Cyfryngau, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid, Uwchraddio Fferm Wynt Rhyd-y-groes Repower, Piblinell LNG Amlwch, Gwaith cyfleustodau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, Fferm Solar Llanbadrig, a Chyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd. Mae'r datblygiadau eraill yn debyg o ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol (yr A5025, yr A55, yr A5 a'r A487). Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Môn. Pentref hamdden Land and Lakes, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Parc Cybi Cam 2 datblygiadau cyflogaeth, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid, Uwchraddio Fferm Wynt Rhyd-y-groes Repower, Parc Gwyddoniaeth Menai, Piblinell LNG Amlwch, cynhyrchu ynni llanw Dyfnder Caergybi, Ysgol Gynradd Caergybi, Ysgol Gynradd Llanfaethlu, Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni, Gwaith cyfleustodau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio ynni hydro Glyn Rhonwy, a Ffordd Osgoi'r A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau mae disgwyl iddynt gyfrannu ydy datgomisiynu Magnox; Parc Eco Môn, Pentref hamdden Land and Lakes, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Parc Cybi Cam 2 datblygiadau cyflogaeth, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid, Uwchraddio Fferm Wynt Rhyd-y-groes Repower, Parc Gwyddoniaeth Menai, Piblinell LNG Amlwch, Cynhyrchu ynni llanw Dyfnder Caergybi, Ysgol Gynradd Caergybi, Ysgol Gynradd Llanfaethlu, Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni, Gwaith cyfleustodau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Cynllun Pwmpio a Storio ynni hydro Glyn Rhonwy, a Ffordd osgoi'r A487 o Gaernarfon i Bontnewydd.	Mae potensial am effeithiau cronnus dros dro ar iechyd y boblogaeth ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu ac effaith gronnus barhaol yn ystod y cam gweithredu. Mae potensial am effeithiau cronnus dros dro ar iechyd oherwydd traffig yn ystod y cam adeiladu i'r boblogaeth sy'n byw wrth ymyl y rhwydwaith ffyrdd. Mae potensial am effeithiau cronnus manteision parhaol i iechyd yn ystod y camau adeiladu a gweithredu oherwydd mwy o gyfleoedd cyflogaeth.	Effaith fanteisiol fach iawn
C6. Amwynder	Effaith niweidiol fach	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: y ganolfan i Ymwelwyr ac i'r Cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid, Uwchraddio Fferm Wynt Rhyd-y-groes Repower, Piblinell LNG Amlwch, Gwaith cyfleustodau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, Fferm Solar Llanbadrig, a Chyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd.	Mae potensial am effaith gronnus niweidiol oherwydd y prosiectau hyn gyda'i gilydd yn ardal gogledd orllewin Ynys Môn oherwydd aflonyddwch a newid i olygfeydd. O ran aflonyddwch, mae'r berthynas gryfaf gyda datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol. Gyda'i gilydd gallai'r prosiectau hyn ei gwneud hi'n llai dymunol byw yng ngogledd	Effaith niweidiol fach

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
			orllewin Ynys Môn. Ac ystyried bod cyfran uchel o boblogaeth Gogledd Ynys Môn yn siarad Cymraeg (60.8%), gallai hyn effeithio'n niweidiol ar les y Gymraeg yn yr ardal honno.	
C7. Troseddau	Effaith niweidiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau adeiladu mawr.	Er y byddai nifer o brosiectau adeiladu mawr yn cael eu gwneud yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ar yr un pryd, ni chredir y byddai'r rhain gyda'i gilydd yn arwain at gynnydd yn lefel y troseddau. Fodd bynnag, petai'r prosiectau hyn yn arwain at fewnlifiad o weithwyr na fyddant yn byw gartref i brif ardal yr astudiaeth, gallai hyn arwain at gynnydd cymesur yn lefel y troseddau. Gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant.	Effaith niweidiol fach iawn
Ffactorau economaidd				
C8. Busnesau lleol	Effaith fanteisiol ganolig	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Ehangu Porthladd Caergybi a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau mawr y byddai disgwyl iddynt gyfrannu at economi'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) o ran y galw ar y gadwyn gyflenwi ac ar fusnesau lleol.	Caiff y potensial am effeithiau cronnus sylweddol ar fusnesau a'r gadwyn gyflenwi eu hystyried yn gyffredinol fel rhai manteisiol eu natur. Byddai'r buddsoddiad cyffredinol y byddid yn ei ddisgwyl yn economi'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) ac Ynys Môn yn cynyddu oherwydd y buddsoddiad a fyddai'n digwydd fel rhan o brosiectau eraill. Oherwydd y synergedd rhwng datblygu economaidd a'r Gymraeg, ystyrir bod hyn yn fanteisiol.	Effaith fanteisiol ganolig
C9. Swyddi lleol	Effaith fanteisiol ganolig	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Briffordd yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch,	Mae'r tebygolrwydd o effeithiau cronnus yng nghyswllt cyflogaeth yn fwyaf tebygol o ddod o'r galw am lafur a'r gorgyffwrdd rhwng rhaglenni Prosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau eraill.	Effaith fanteisiol ganolig

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).	Mae nifer o brosiectau eraill yn debyg o orgyffwrdd â Phrosiect DCO Wylfa Newydd o ran eu rhaglen, a allai gynyddu'r galw am weithlu lleol o'r sector adeiladu yn sylweddol. Gallai'r cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n codi o Brosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau eraill gael effaith gronnus fanteisiol i'r economi leol, gan gynnwys y gweithlu lleol. Mae'n bosibl y byddai effaith gronnus fanteisiol o'r gyflogaeth adeiladu yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) a lefelau cyflogaeth yn gyffredinol ar Ynys Môn yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Gallai cyfleoedd cyflogaeth o'r fath helpu i gynnal y boblogaeth leol a denu cyn-breswylwyr i ddychwelyd ar ôl gadael yr ardal yn y gorffennol i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, ar Ynys Môn yn enwedig.	
C10. Amrywiaeth economaidd	Effaith fanteisiol ganolig	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Brifford yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau mawr a fydd yn cyfrannu at yr amrywiaeth economaidd yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).	Gyda'i gilydd mae'r prosiectau hyn yn cynnig y potensial i gynyddu amrywiaeth economaidd yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) oherwydd y gwahanol fathau o swyddi a fydd yn cael eu cynnig mewn diwydiannau gwahanol. Gallai hyn fod yn fanteisiol o ran y gyflogaeth sydd ar gael i weithwyr sy'n byw gartref ond gallai hefyd wneud yr ardal yn fwy deniadol i weithwyr nad ydynt yn gartref.	Effaith fanteisiol ganolig
C11. Incwm	Effaith fanteisiol fach	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Brifford yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref	Gyda'i gilydd mae'r prosiectau hyn yn cynnig y potensial i gynyddu'r gwahanol fathau o swyddi a fydd	Effaith fanteisiol fach

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni, Dargyfeirio Cyfleustodau, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau mawr a fydd yn cyfrannu at yr amrywiaeth economaidd yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).	yn cael eu cynnig mewn diwydiannau gwahanol. Gallai hyn fod yn fanteisiol o ran y gyflogaeth sydd ar gael i weithwyr sy'n byw gartref. Fodd bynnag, nid oes llawer o fanylion ar gael am effaith bosibl prosiectau eraill ar incwm.	
C12. Prisiau tai	Effaith niweidiol fach	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Gallai'r prosiectau hyn arwain at ragor o alw am lety o'r sector rhentu preifat oherwydd natur tymor hir eu rhaglenni gwaith.	Cydnabyddir y gallai'r cynnydd mewn cyflogaeth o raglen Prosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau eraill gynyddu'r galw am dai yn yr ardal leol os bydd cyfnodau prysuraf y rhaglenni adeiladu yn cyd-daro, gan ddenu rhagor o weithwyr na fyddant yn byw gartref i fyw yn yr ardal. Mae'n bosibl y bydd effeithiau cronnus sylweddol ar allu'r stoc dai leol i ddiwallu'r galw pan fydd yr holl brosiectau sydd ar y rhestr fer yn cael eu cyfuno. Mae'n bosibl i'r cynnydd hwn yn y galw arwain at gynnydd cronnus ym mhris llety ym mhrif ardal yr astudiaeth. Gallai hyn effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant petai hyn yn cynyddu cost tai y tu hwnt i fforddiadwyedd pobl leol (y mae 61% ohonynt yn siarad Cymraeg).	Effaith niweidiol fach
Cyflenwad seilwaith ac addysg				
C13. Ysgolion	Effaith niweidiol ganolig	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Oherwydd natur dymor hir eu rhaglenni gwaith, gallai'r prosiectau hyn olygu bod gweithwyr ac o bosibl eu teuluoedd yn symud i brif ardal yr astudiaeth.	Mae'n bosibl i effeithiau cronnus ddigwydd o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar leoedd ysgol gan gynnwys canolfannau trochi iaith, oherwydd bod gweithwyr yn symud i brif ardal yr astudiaeth oherwydd bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth, petaent yn dod â'u teuluoedd/plant oed ysgol gyda nhw. Gyda'i gilydd, gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau	Effaith niweidiol ganolig

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
			eraill gynyddu nifer y plant oed ysgol di-Gymraeg mewn ardaloedd lle caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei darparu, a allai yn ei dro roi mwy o bwysau ar y canolfannau trochi iaith.	
C14. Gofal iechyd	Effaith niwtral	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Oherwydd natur dymor hir eu rhaglenni gwaith, gallai'r prosiectau hyn olygu bod gweithwyr ac o bosibl eu teuluoedd yn symud i brif ardal yr astudiaeth ac felly cynyddu'r galw am ddarpariaeth gofal iechyd.	Nid oes llawer o wybodaeth ar gael am y cynnydd posibl mewn galw am wasanaethau gofal iechyd oherwydd prosiectau eraill. Petai'r galw am wasanaethau fel gofal iechyd gyda'i gilydd yn mynd dros y capasiti sydd ar gael ar hyn o bryd, byddai hyn yn effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg, oherwydd ni fyddai pobl hŷn leol a phobl agored i niwed yn gallu cael apwyntiad i weld ymarferwyr iechyd Cymraeg yn amserol er gwaethaf y ffaith bod y gyfraith yn mynnu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nodir effaith niwtral gyffredinol ar y galw am ddarpariaeth gofal iechyd o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd felly, ni ddisgwylir effaith gronnus.	Effaith niwtral
C15. Gwasanaethau lleol	Effaith fanteisiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, sydd â gofynion staffio mor sylweddol y gallai eu gweithwyr gynyddu'r galw ar wasanaethau lleol.	Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael a'r dewis ohonynt, yn dylanwadu ar ba mor hyfyw a chynaliadwy yw cymuned. Mae cyfleusterau lleol fel siopau, banciau a thafarndai yn aml yn fannau i bobl gyfarfod a chymdeithasu, gan gefnogi rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith a rhyngweithio cymunedol. Disgwylir gweld effeithiau cronnus manteisiol o ran cyflenwad seilwaith a'r iaith Gymraeg yn codi yn sgil mwy o alw am wasanaethau a chyfleusterau lleol, a fyddai'n cyfrannu at	Effaith fanteisiol fach iawn

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
			ddiogelu gwasanaethau yn y dyfodol.	
Agweddau cymdeithasol a diwylliannol				
C16. Tensiynau/gwrthdaro	Effaith niweidiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Oherwydd natur dymor hir eu rhaglenni gwaith, gallai'r prosiectau hyn olygu bod gweithwyr ac o bosibl eu teuluoedd yn symud i brif ardal yr astudiaeth.	Petai'r prosiectau hyn yn arwain at weithwyr na fyddant yn byw gartref yn symud i brif ardal yr astudiaeth gallai hyn arwain at effaith gronnus ar densiynau cymdeithasol/gwrthdaro, fodd bynnag, nid oes digon o wybodaeth ar gael er mwyn gallu mesur yr effaith hon.	Effaith niweidiol fach iawn
C17. Diwylliant a thraddodiadau	Effaith niweidiol fach	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Brifford yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni, Dargyfeirio Cyfleustodau, Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau sylweddol y byddai disgwyl iddynt gynyddu'r galw am fwy o weithwyr sy'n byw gartref yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu). Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am leoliad y gweithwyr y byddai eu hangen ac a fyddai'r gweithwyr hyn yn byw gartref ai peidio.	Gyda'i gilydd, gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd a phrosiectau eraill arwain at fewnlifiad sylweddol o weithwyr nad ydynt yn byw gartref i brif ardal yr astudiaeth. Tybir y byddai cyfran fawr ohonynt yn ddi-Gymraeg. Efallai na fydd y gweithwyr hyn (ac unrhyw deuluoedd) yn gwerthfawrogi traddodiadau a diwylliant y Gymraeg nac yn eu deall. Gallai hyn effeithio'n niweidiol ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymraeg, gan ei bod hi'n bosibl i'r mewnlifiad o weithwyr na fyddant yn byw gartref wanhau diwylliant a thraddodiadau Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth.	Effaith niweidiol fach-ganolig
C18. Grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd	Effaith niweidiol fach iawn	Yn ogystal â Phrosiect DCO Wylfa Newydd, y prosiectau y mae disgwyl iddynt gyfrannu at effeithiau cronnus ydy Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Gwelliannau i Brifford yr A5025, Cais Cynllunio Gwlad a Thref Horizon: Y ganolfan i ymwelwyr ac i'r cyfryngau, datgomisiynu Magnox, Parc Eco Ynys Môn, Parc Arfordir Penrhos, Ailddatblygu Glannau Caergybi, Cam 2 Parc Cybi, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Rhyd-y-Groes Re-power, Parc Gwyddoniaeth Menai, Nwy Naturiol Amlwch, Dyfnder Caergybi, Ffordd Gyswllt Llangefni., Dargyfeirio Cyfleustodau., Fferm Solar Llanbadrig, Coleg Menai, Cyflenwad Dŵr Yfed Wylfa Newydd, Ehangu Porthladd Caergybi, Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy a Ffordd Osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Oherwydd natur dymor hir rhaglenni gwaith datgomisiynu Magnox a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, gallai'r rhain	Mae'r cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael eu cynnig gan y prosiectau hyn yn gyfle i bobl leol o'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) aros yn lleol. Byddai hyn o fudd o ran y Gymraeg a'i diwylliant drwy alluogi unigolion sy'n weithgar mewn grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd i aros yn yr ardal. Fodd bynnag, petai'r prosiectau hyn yn arwain at fewnlifiad o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u	Effaith niweidiol fach iawn-fach

Derbynnydd	Effaith gyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd	Effeithiau'r prosiectau ar y rhestr fer	Effaith gronnus rhwng prosiectau	
			Disgrifiad o'r effaith gronnus	Maint yr effaith gronnus
		olygu bod gweithwyr ac o bosibl eu teuluoedd yn symud i brif ardal yr astudiaeth.	teuluoedd i'r ardal, gallai hyn effeithio ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn grwpiau o'r fath.	

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

I Cyfeiriadau

Tabl I-1 Rhestr cyfeiriadau

ID	Cyfeiriad
RD1	Niwclear Horizon. 2014. *Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iaith.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&ved=0ahUKEwjznouukNXQAhUBJ8AKHSARDd4QFggnMAA&url=http%3A%2F%2Fconsultation.horizonnuclearpower.com%2Fdownload%2Fdocuments%2F14&usg=AFQjCNHFaja1BV7x_66TP_2j9LUXICgrfw&bvm=bv.139782543,d.d2s
RD2	Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2005. *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0017/24362/lingustic_impact_assessment_cym.pdf
RD3	Cyngor Sir Ynys Môn. 2007. *Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynlluniо_ar_Iaith_Gymraeg.pdf
RD4	Cyngor Gwynedd. 2009. *Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Unedol/CCA-Cynllunio-ar-Iaith-Gymraeg.pdf
RD5	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. 2014. *Canllawiau Cynllunio Atodol LDP6; Yr Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://spp.conwy.gov.uk/2017doc.asp?cat=11691&doc=28227&Language=2
RD6	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. 2011. *Canllawiau Cynllunio Atodol 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0008/136646/SPG-3-Cym.pdf
RD7	Llywodraeth Cymru. 2017. *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 26 Hydref 2017]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/171012-technical-advice-note-20-planning-and-the-welsh-language-cy.pdf
RD8	Llywodraeth Cymru. 2014. *Nodyn Cyngor Technegol 20: Canllawiau Ymarfer ar gynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn:

ID	Cyfeiriad
	http://gov.wales/docs/desh/publications/140617practice-guidance-planning-welsh-language-cy.pdf
RD9	Llywodraeth Cymru. 2017. *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 18 Gorffennaf 2017]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf
RD10	Nomis. 2011. *Cyfrifiad 2011.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2017]. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/all_tables
RD11	Niwclear Horizon. 2016. *Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam 2, Prosiect Wylfa Newydd, Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://consultation.horizonnuclearpower.com/cyfnod-2/dogfennau-technegol
RD12	Llywodraeth Cymru. 2016. *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9). [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 18 Tachwedd 2016]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/161117planning-policy-wales-edition-9-cy.pdf
RD13	Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2008. *Pobl, Lleoedd, Dyfodol. Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/130701wales-spatial-plan-2008-update-en.pdf
RD14	Llywodraeth Cymru. 2010. *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf
RD15	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2017. *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016. Datganiad Ysgrifenedig.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Rhagfyr 2017]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-M%C3%B4n-Datganiad-Ysgrifenedig.pdf
RD16	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. 2013. *Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://spp.conwy.gov.uk/section.asp?cat=11076&Language=2
RD17	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. 2011. *Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0005/184685/CDLl-Terfynol-6.1.12.pdf

ID	Cyfeiriad
RD18	Cyngor Sir Ynys Môn. 2014. *Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/08/11/i/r/p/Gorsaf-Niwclear-Newydd-yn-Wylfa-Canllawiau-Cynllunio-Atodol-Mabwysiadwyd-Gorffennaf-2014.pdf
RD19	Cyngor Sir Ynys Môn. 2014. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/download/45048
RD20	Cyngor Gwynedd. 2014. *Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Addysg/Cynllun-Strategol-Y-Gymraeg-mewn-Addysg.aspx
RD21	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. 2014. *Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-2017* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/602/Cynllun_Strategol__y_Gymraeg_mewn_Addysg_201417.pdf
RD22	Cyngor Sir Ynys Môn. 2013. *Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn 2013-2025.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/11/26/ein-hynys-ein-dyfodol-2.pdf
RD23	Cyngor Sir Ynys Môn. 2013. *Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-2017.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf
RD24	Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn. 2016. *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 03 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf
RD25	Hunaniaith. 2014. *Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Strategaeth-Iaith-Gwynedd.pdf
RD26	Niwclear Horizon. 2009. *Environmental Impact Assessment Scoping Report, Proposed Nuclear Power Station, Wylfa Anglesey, North Wales*.
RD27	Comisiwn Cynllunio Seilwaith 2010. *Scoping Opinion Proposed Nuclear Power Station at Wylfa, Anglesey.*
RD28	Niwclear Horizon. 2016. *Wylfa Newydd Generating Station Environmental Impact Assessment Scoping Report*. Caerloyw.

ID	Cyfeiriad
RD29	Yr Arolygiaeth Gynllunio. 2016. *Scoping Opinion Proposed Wylfa Newydd Generating Station.*
RD30	Niwclear Horizon. 2017. *Wylfa Newydd Project Addendum to the Environmental Impact Assessment Scoping Report.*
RD31	Yr Arolygiaeth Gynllunio. 2017. Scoping Opinion Proposed Wylfa Newydd Project.
RD32	Niwclear Horizon. 2016. *Polisi Iaith Gymraeg* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: http://www.horizonnuclearpower.com/upload/interactive/welsh-language-policy/files/assets/basic-html/index.html#1
RD33	Niwclear Horizon. 2016. *Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Awst 2016]. Ar gael yn: https://consultation.horizonnuclearpower.com/cyfnod-2/dogfennau-technegol
RD34	Niwclear Horizon. 2016. *Addewid y Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Awst 2016]. Ar gael yn: https://consultation.horizonnuclearpower.com/cyfnod-2/dogfennau-annhechnegol
RD35	IFF Research/Prifysgol Warwick. 2005. *Workforce Mobility and Skills in the UK Construction Sector.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.citb.co.uk/documents/research/mobskillslondonandseast05_tcm17-17441.pdf
RD36	or Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2016. *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Gwynedd a Môn.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/CDLL.013---Asesiad-Effaith-ar-yr-Iaith-Gymraeg-(Mawrth-2016).pdf
RD37	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2015. *Papur Pwnc 10 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd: Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Iaith-Gymraeg-a-Diwylliant.pdf
RD38	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2015. *Papur Pwnc 10B Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn: Proffil Ieithyddol Ynys Môn* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-

ID	Cyfeiriad
	Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-M%C3%B4n-(Mawrth-2014)---Terfynol.pdf
RD39	Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. 2015. *Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf
RD40	Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2003. *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2017]. Ar gael yn: http://gov.wales/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbw.pdf?lang=cy
RD41	Nomis. 2001. *Cyfrifiad 2001.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2017]. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2001
RD42	Llywodraeth Cymru. 2016. *Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol, llif a chyfnod newid.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2017]. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/MigrationBetweenWalesAndRestOfUK-by-LocalAuthority-Flow-PeriodOfChange
RD43	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2015a. *Papur Pwnc 10A Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn: Proffil Iaith Gwynedd.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 25 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Papur-Testun-10A-Proffil-Iaith-Gwynedd.pdf
RD44	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. 2016. *Papur Pwnc 3A: Poblogaeth a Thai.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 26 Mehefin 2017]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/PT.007---Papur-Testun-3A-Poplogaeth-a-Thai-(Mawrth-2016).pdf
RD45	Planning and Development Ltd. 2016. *Adroddiad 1: Diweddariad Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 27 Mehefin 2017]. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/l/q/u/LHMA-July-16-Cymraeg.pdf
RD46	Jones, Hywel, M. 2017. *Ynys Môn: canlyniadau Cyfrifiadau 1961 a 1971.*
RD47	Yr Arolygiaeth Gynllunio. 2017. *Adroddiad ar yr Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2011-2016 Ynys Môn a Gwynedd.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2017]. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-

ID	Cyfeiriad
	amgylchedd/Adroddiad-Arolygydd/2.-Adroddiad-yr-Arolygydd-CDLl-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-Môn-Adroddiad-Arolygwyr.pdf
RD48	Llywodraeth Cymru. 2016c. *Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2017]. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojections-by-localauthority-year
RD49	Llywodraeth Cymru. 2015. *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 9 Medi 2016]. Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy
RD50	Daily Post. 2009. *Fear of crime 'worse than reality' say North Wales Police*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/fear-crime-worse-reality-say-2795506
RD51	Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon. 2017. *Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned Ebrill 2017.*
RD52	EDF Energy. 2011. *Environmental Statement – Volume 2. Hinkley Point C Development Site*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd: Hydref 2016]. Ar gael yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010001/EN010001-005038-4.3%20-%20Volume%202%20-%20Hinkley%20Point%20C%20Development%20Site%201.pdf
RD53	Glasson, J. a Chadwick, A. 1995. *The Local Socio-Economic Impacts of the Sizewell B Construction Project, 1987-1995*. Impacts Assessment Unit: Prifysgol Oxford Brookes.
RD54	Menter Iaith Môn. 2012. *Proffil Iaith Ynys Môn.*
RD55	Brentnall, J., Cann, J. ac Williams, C. 2009. *Language in Multilingual Wales*. Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes: Prifysgol Bangor.
RD56	Llywodraeth Cymru. 2012. *Mwy na geiriau*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 9 Medi 2016]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dhss/publications/121121narrativecy.pdf
RD57	Llywodraeth Cymru. 2016. *Views on health services in Wales: re-contact survey.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 2 Awst 2017]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161018-views-health-services-re-contact-survey-en.pdf
RD58	Day, G. 2002. *Making Sense of Wales: A Sociological Perspective*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
RD59	Hartwell, S., Kitchen, L., Milbourne, P. a Morgan, S. 2007. *Population Change in Rural Wales: Social and Cultural Impacts Research Report No. 14.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 15 Hydref 2015]. Ar gael yn: http://www.walesruralobservatory.org.uk/sites/default/files/14.%20Po

ID	Cyfeiriad
	pulation%20Change%20in%20Rural%20Wales%20-%20Social%20and%20Cultural%20Impacts.pdf (Saesneg yn unig)
RD60	Jones, S., Day, G., Morris, E. a Williams, T. 2001. *The dynamics of demographic change and migration in north west Wales*. Prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, CELTEC ac Arsyllfa Cyflogaeth Leol Gogledd Cymru,
RD61	Llywodraeth Cymru. 2015. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014. [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 9 Medi 2016]. Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy

Atodiad I1 yr AEIG – Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Cynnwys

1 Cyflwyniad 1
1.1 Gwybodaeth am y Strategaeth 1
Cefndir a chyd-destun 1
Termau a diffiniadau 1
Cydnabyddiaeth 1
2 Methodoleg 2
2.1 Methodoleg ar gyfer datblygu'r Strategaeth 2
Adolygu llenyddiaeth 2
Y gweithdy cyntaf i randdeiliaid (Mehefin 2016) 3
Datblygu fframwaith ar gyfer y Strategaeth (Gorffennaf-Awst 2016) 4
Cyfweliadau â rhanddeiliaid (Awst-Hydref 2016) 4
Yr ail weithdy i randdeiliaid (Hydref 2016) 5
Datblygu'r Strategaeth 5
3 Crynodeb 7
Addewid Iaith Gymraeg Horizon 7
Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig 7
4 Mesurau Lliniaru a Gwella 27
4.1 Trosolwg 27
4.2 Y Gweithlu 27
Penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant 27
Ystyried y sgiliau Iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn y Prosiect 28
Sicrhau gallu yn y Gymraeg wrth gyfweld staff 29
Parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd swyddi i bobl ifanc 29
Targedu'r gwaith recriwtio at siaradwyr Cymraeg fel rhan o strategaethau recriwtio ehangach 30
Cytuno ar bolisi cyfathrebu mewnol 32
Sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio 32
Datblygu a mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg 32
Dosbarthu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg drwy'r broses recriwtio a'r gadwyn gyflenwi 34
Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried mewn prosesau caffael ... 35
Sicrhau bod gwybodaeth am gontractwyr lleol yn cael ei dosbarthu drwy'r gadwyn gyflenwi 36
Datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg, annog pobl i fanteisio ar yr hyfforddiant a sefydlu rhaglen fentora 37
Casglu data am anghenion teuluoedd gweithwyr sy'n symud i'r ardal 40
4.3 Plant, pobl ifanc a theuluoedd 41

Datblygu adnoddau addysgiadol ar gyfer dysgwyr mewn addysg gynradd, addysg uwchradd ac Addysg Bellach *41*
Cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect a'r wythnos cipolwg ar waith *42*
Cefnogi'r gwasanaeth trochi iaith *43*
Datblygu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect *44*
4.4 Gwasanaethau cymunedol a lleol 45
Cefnogi cynrychiolwyr iaith cymunedol *46*
Cefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar *47*
Cefnogi gwasanaeth cyfieithu cymunedol *48*
4.5 Atebolrwydd 48
Sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei goruchwylio'n fewnol *49*
Sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei goruchwylio'n allanol *49*
Gwerthuso effaith y prosiect ar y Gymraeg *50*
4.6 Mesurau lliniaru a gwella ehangach 50
5 Cyfeiriadau 52
5.1 Rhestr cyfeiriadau 52

1. Cyflwyniad

1.1 Gair am y Strategaeth hon

1.1.1 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (y Strategaeth) ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd (y Prosiect) yn cynnwys y mesurau sydd wedi'u nodi ar gyfer lliniaru a gwella effeithiau'r Prosiect ar y Gymraeg a'i diwylliant ym Mhrif Ardal yr Astudiaeth Economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddogfen Strategaeth hon yn rhoi gwybodaeth gefndir am y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth, golwg gyffredinol ar y fethodoleg a fabwysiadwyd a'r mesurau sydd wedi cael eu datblygu.

Y cefndir a'r cyd-destun

1.1.2 Mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu yng nghyd-destun fframwaith polisi lleol a chenedlaethol ac mae'n ystyried nifer o ddogfennau a strategaethau allweddol, yn ogystal â deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth hefyd yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) a gyhoeddwyd fel rhan o'r cais am DCO. Mae rhagor o fanylion am yr AEIG ar gael yn Adran 2. Mae polisïau a deddfwriaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u nodi yn Adran A.2 yr AEIG.

1.1.3 Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi llesiant y Gymraeg ac mae wedi gweithredu Polisi Iaith Gymraeg [RD1], sy'n amlinellu'n glir ei ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Termau a diffiniadau

1.1.4 Mae rhestr o'r prif dermau, y diffiniadau a'r acronymau ar gael yn Adran 5 y Strategaeth hon.

Cydnabyddiaeth

1.1.5 Rydym yn ddiolchgar i Randdeiliaid y Gymraeg sydd wedi rhoi o'u hamser ac sydd wedi cyflwyno tystiolaeth i ddatblygu'r Strategaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys staff Horizon, aelodau o grŵp llywio AEIG y Prosiect a rhanddeiliaid eraill ym maes yr Iaith Gymraeg sydd wedi dod i weithdai ac sydd wedi cyflwyno dogfennau ategol gwerthfawr[39].

[39]Mae grŵp llywio gyda chadeirydd annibynnol wedi'i sefydlu i arwain y broses AEIG a sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cael cyfrannu'n ehangach at AEIG y Prosiect. Mae cynrychiolwyr o Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd, Menter Môn, Llais Ni a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd yn aelodau o'r grŵp llywio hwn ar gyfer yr AEIG. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn arsylwi gwaith grŵp llywio'r AEIG, ond nid ydynt yn aelodau ohono.

2 Methodoleg

2.1 Y fethodoleg ar gyfer datblygu'r Strategaeth

2.1.1 Mae'r Strategaeth hon wedi'i datblygu ar sail adolygiad o Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Roedd yn cynnwys cymysgedd o weithdai i randdeiliaid, ymgynghoriadau un-i-un ac adolygiadau o ddogfennau a llenyddiaeth berthnasol. Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull a ddilynwyd wrth ddatblygu'r Strategaeth hon.

Adolygu llenyddiaeth

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

2.1.2 Fel rhan o'r cais am DCO ar gyfer y Prosiect, mae Horizon wedi cynnal asesiad i ddeall sut gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r AEIG wedi nodi nifer o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr iaith, gan gynnwys:

- effaith gadarnhaol bosibl drwy gyfrwng mwy o gyfleoedd am swyddi i siaradwyr Cymraeg, yn lleol ac o'r tu allan i'r ardal;
- effaith negyddol bosibl ar ganran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd lle bydd cyfran uchel o weithwyr dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu;
- effaith negyddol bosibl ar ddarparwyr addysg oherwydd mwy o alw am leoedd a'r angen i ddarparu cymorth trochi iaith ychwanegol i sicrhau bod plant yn dod yn ddwyieithog;
- newidiadau posibl i'r farchnad dai, a all fod o fudd i fusnesau twristiaeth lleol, ond a allai gynyddu'r gystadleuaeth am lety rhent preifat;
- effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol (mae nifer ohonynt yn cyflogi siaradwyr Cymraeg) o ganlyniad i gyfleoedd i sicrhau contractau newydd neu oherwydd mwy o alw am nwyddau a gwasanaethau gan weithlu Wylfa Newydd.

2.1.3 Cyhoeddwyd *Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Prosiect Wylfa Newydd* fel rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un yn 2014. Adolygwyd hwn i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer y gweithdy cyntaf a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth hon. Cyhoeddwyd *Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg* fel rhan o PAC 2 ac mae'r AEIG terfynol wedi'i baratoi fel rhan o'r cais am DCO.[40]

2.1.4 Adolygwyd yr Adroddiad Interim AEIG fel rhan o PAC 2 ac mae'r AEIG terfynol wedi'i adolygu wrth baratoi'r Strategaeth hon. Fel hyn, roedd modd

[40] Mae adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd fel rhan o'r AEIG ar gael yn www.horizonnuclearpower.com/consultation

i'r Strategaeth hon ystyried tystiolaeth a oedd yn ymwneud â'r prif effeithiau a nodwyd drwy'r AEIG.

Adolygu llenyddiaeth ehangach

2.1.5 Adolygwyd amrywiaeth o lenyddiaeth arall er mwyn casglu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r mesurau yn y Strategaeth hon, gan gynnwys:

- Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD1];
- canllawiau a strategaethau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon (gweler Adran A.2 yr AEIG);
- cynlluniau gweithredu a strategaethau iaith Gymraeg a sgiliau ieithyddol sydd wedi'u cyhoeddi gan sefydliadau eraill;
- adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer datblygu a chynllunio'r gweithlu (ee fframweithiau cymhwysedd a sgiliau iaith Gymraeg, adnoddau asesu'r gweithlu, deunyddiau ymwybyddiaeth);
- tystiolaeth am arferion effeithiol o ran ymgysylltu â'r gymuned (ee gwerthuso rhaglenni iaith cymunedol).

Y gweithdy cyntaf i randdeiliaid (Mehefin 2016)

2.1.6 Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mehefin 2016 gydag aelodau o grŵp llywio'r AEIG a rhai rhanddeiliaid y Gymraeg allanol. Nod y gweithdy oedd cytuno ar y prif themâu ar gyfer y Strategaeth a'r mesurau lliniaru a gwella cyffredinol y dylid eu cynnwys ynddi.

2.1.7 Trefnwyd y gweithdy i gynnwys cwestiynau am y mathau o fesurau lliniaru y gellid eu datblygu o dan dair prif thema:

- Y Gweithlu;
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Gwasanaethau cymunedol a lleol.

2.1.8 Nodwyd y rhain ar ôl adolygu *Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Prosiect Wylfa Newydd* a blaenoriaethau *Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016-2021* [RD2][41]

2.1.9 Yn ystod y gweithdy, treuliodd pob un a oedd yn cymryd rhan amser yn trafod y tair thema uchod. Cytunwyd ar grynodeb o'r prif fesurau lliniaru, yn eu barn nhw, o dan bob thema.

2.1.10 Enwebwyd tri a oedd yn cymryd rhan yn y gweithdy i 'hwyluso' grwpiau llai a rhannwyd y rhai eraill yn dri grŵp o bedwar neu bump. Trafododd pob un o'r grwpiau hyn un o'r tair thema. Roedd yr hwylusydd ar gyfer pob grŵp yn gwneud nodiadau ac yn paratoi crynodeb er mwyn i aelodau'r grŵp gytuno

[41] Nodwyd pedwaredd thema, sef 'Atebolrwydd' ac fe'i hychwanegwyd ar ôl cynnal ail weithdy i randdeiliaid (Gweler 2.1.21).

arno. Yna, roedd pawb (heblaw am yr hwyluswyr) yn symud i'r bwrdd nesaf i drafod thema arall.

2.1.11 Roedd yr hwylusydd ar gyfer pob grŵp yn aros wrth ei fwrdd ac yn rhannu'r pwyntiau pwysig a oedd wedi codi o'r drafodaeth flaenorol â'r grŵp newydd. Roedd y grŵp newydd yn trafod yr un pwyntiau ac yn ystyried beth roeddent yn cytuno/anghytuno â nhw yn ogystal â beth roeddent yn dymuno ei ychwanegu neu ei newid. Roedd yr hwylusydd yn nodi pan roedd y grwpiau'n cytuno ar bwynt.

2.1.12 Ar ôl y tair sesiwn grŵp, cyflwynodd yr hwyluswyr adborth mewn sesiwn lawn. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cytuno bod y crynodeb o'r adborth yn adlewyrchu eu trafodaethau. Paratowyd adroddiad yn dilyn y gweithdy. Rhannwyd yr adroddiad hwn ag aelodau grŵp llywio'r AEIG er mwyn ei drafod mewn cyfarfod dilynol ym mis Gorffennaf 2016. Cytunwyd ei fod yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r meysydd lliniaru a gwella cyffredinol y dylid eu cynnwys yn y Strategaeth.

Datblygu fframwaith ar gyfer y Strategaeth (Gorffennaf-Awst 2016)

2.1.13 Ar ôl cytuno ar y mesurau cyffredinol ar gyfer adroddiad y gweithdy, datblygwyd fframwaith ar gyfer y mesurau lliniaru a gwella ym mis Gorffennaf ac Awst 2016. Roedd grŵp llywio'r AEIG yn cytuno y dylai'r fframwaith gynnwys union fanylion y mesurau sydd eu hangen i gyflawni'r meysydd lliniaru cyffredinol a gafodd eu cynnwys yn adroddiad y gweithdy. Hefyd, cytunodd grŵp llywio'r AEIG y dylai'r Strategaeth enwi'r sefydliad(au) a fyddai'n gyfrifol am arwain ar gyflawni pob mesur, yn ogystal â sefydliadau partner allweddol y byddai'n rhaid eu cynnwys. Cytunwyd hefyd y dylid cynnwys amserlenni/cerrig milltir a chostau pan fo hynny'n bosibl.

2.1.14 Roedd y fframwaith a ddatblygwyd ac a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd grŵp llywio'r AEIG yn cynnwys y canlynol:

- Mesurau eang y cytunwyd arnynt gyda grŵp llywio'r AEIG
- Disgrifiad o'r mesur
- Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?
- Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?
- Amserlen
- Costau
- Dull monitro

2.1.15 Cytunodd grŵp llywio'r AEIG ar y fframwaith ar gyfer y Strategaeth ym mis Awst 2016.

Cyfweliadau â rhanddeiliad (Awst-Hydref 2016)

2.1.16 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau un-i-un â rhanddeiliaid y Gymraeg rhwng mis Awst a mis Hydref 2016. Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu safbwyntiau

mwy manwl am y meysydd lliniaru y dylid eu cynnwys yn y Strategaeth a nodi sut gellid rhoi'r rhain ar waith. Cafwyd tystiolaeth yn y cyfweliadau un-i-un a wnaeth ein helpu ni i gwblhau'r fframwaith a oedd wedi cael ei ddatblygu.

Cyfweliadau â staff Horizon

2.1.17 Cynhaliwyd cyfweliadau â naw aelod o staff Horizon ym mis Awst a mis Medi 2016. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adrannau canlynol yn Horizon: Adnoddau Dynol, Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi, Ymgysylltu â'r Diwydiant, Addysg, Dysgu a Datblygu, Cynaliadwyedd Corfforaethol a Hyfforddiant.

Cyfweliadau ag aelodau'r grŵp llywio a rhanddeiliaid y Gymraeg

2.1.18 Cynhaliwyd cyfweliadau ag aelodau o grŵp llywio'r AEIG a chynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliad eraill yn ystod mis Medi a mis Hydref 2016. Cynhaliwyd cyfanswm o 13 o gyfweliadau ag unigolion yn ystod y cyfnod hwn.

Yr ail weithdy i randdeiliaid (Hydref 2016)

2.1.19 Cafodd y mesurau drafft eu datblygu ymhellach cyn yr ail weithdy i randdeiliaid, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Roedd y gweithdy'n cynnwys aelodau o'r grŵp llywio a grŵp ehangach o randdeiliaid y Gymraeg nag oedd yn y gweithdy ym mis Mehefin. Cyn y gweithdy, dosbarthwyd copïau drafft o'r fframwaith wedi'i lenwi i bawb a oedd yn bresennol.

2.1.20 Nod y gweithdy oedd rhannu'r mesurau lliniaru drafft ar gyfer y Prosiect a'u datblygu ymhellach. Amcanion y gweithdy oedd:

- cadarnhau a herio pa mor briodol oedd y mesurau;
- edrych yn fwy manwl ar y mesurau;
- ystyried y trefniadau monitro cysylltiedig ar gyfer y Strategaeth.

2.1.21 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy i graffu ar y mesurau drafft a'u trafod yn ystod y cyfarfod. Casglwyd sylwadau ysgrifenedig am y mesurau drafft a ddarparwyd fesul un yn ogystal â nodiadau o drafodaethau'r grwpiau. Defnyddiwyd y rhain i fireinio'r mesurau ac i ychwanegu rhagor o fanylion. Dynodwyd pedwaredd thema, sef 'Atebolrwydd' (a mesurau cysylltiedig) ac ychwanegwyd y thema hon at y Strategaeth ar ôl y gweithdy.

Datblygu'r Strategaeth

2.1.22 Paratowyd Strategaeth ddrafft ac fe'i rhannwyd ag aelodau grŵp llywio'r AEIG ym mis Mawrth 2017. Casglwyd sylwadau grŵp llywio'r AEIG ac fe'u hadolygwyd, a pharatowyd drafft arall er mwyn i Horizon adolygu hynny'n fewnol ym mis Ebrill 2017.

2.1.23 Paratowyd fersiwn derfynol y Strategaeth ar gyfer y cais am DCO ym mis Ionawr 2018. Datblygwyd y Strategaeth tra roedd AEIG ar gyfer y DCO yn cael ei adolygu hefyd. Ystyriodd yr adolygiad hwn yr effeithiau a oedd wedi'u nodi o dan y 18 cwestiwn yn yr AEIG. Nodwyd pa fesurau oedd eu hangen i helpu i liniaru a gwella'r effeithiau hynny hefyd. Felly, mae'r mesurau lliniaru a gwella

sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth yn cael eu cyflwyno o dan bob un o'r cwestiynau a'r effeithiau a nodwyd yn yr AEIG hefyd.

3 Crynodeb

3.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r cynigion lliniaru a gwella sydd wedi cael eu datblygu ar gyfer y Prosiect. Ar lefel strategol, mae hyn yn cynnwys Addewid Iaith Gymraeg Horizon [RD3], sy'n nodi meysydd lliniaru a gwella cyffredinol (gweler 3.1.2). Ar lefel fwy manwl, mae'r mesurau lliniaru a gwella yn cael eu cyflwyno o Adran 3.1.3 ymlaen.

Addewid Iaith Gymraeg Horizon

3.1.2 Roedd Horizon wedi datblygu a chyhoeddi Addewid Iaith Gymraeg [RD3] i gefnogi a gwella'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant fel rhan o'r Prosiect. Mae'r Addewid Iaith Gymraeg [RD3] yn crynhoi'r meysydd lliniaru a gwella cyffredinol o dan dair thema: Y Gweithlu; Plant a phobl ifanc; a Chymuned. [42]

Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig

3.1.3 Mae'r Strategaeth yn cyflwyno mesurau sy'n cael eu sicrhau drwy gyfrwng rhwymedigaethau o dan Adran 106, gofyniad y DCO, y Cod Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Cod Ymarfer Gweithredu (Cyfeirnod y Cais: 8.13) yn ogystal â mesurau sy'n rhan o'r Pecyn o Fanteision Cymunedol. Mae'r mesurau lliniaru a gwella ar gyfer y Prosiect wedi'u datblygu gyda'r bwriad o alluogi Horizon i gyflawni'r Addewid Iaith Gymraeg yn ogystal ag effeithiau lliniaru a gwella sydd wedi'u nodi yn yr AEIG [gweler Cyfrolau B-G o'r AEIG]. Mae'r sail resymegol dros bob un o'r mesurau'n cael eu hamlinellu yn fwy manwl yn adran 4 y Strategaeth hon. Mae'r AEIG hefyd yn cyflwyno'r mesurau hyn o dan bob un o'r effeithiau sydd wedi'u nodi ar y Gymraeg a'i diwylliant.

3.1.4 Rhestrir y mesurau isod yn Nhablau 3.1 - 3.4 o 1 i 24.

[42] Cyhoeddwyd yr Addewid Iaith Gymraeg fel rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau (PAC 2) ac mae modd cael gafael ar y wybodaeth hon ar wefan yr ymgynghoriad: https://consultation.horizonnuclearpower.com/download/documents/191

Tabl 3-1 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â'r gweithlu

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
1	Mesur gwella - mae angen cydlynu'r mesurau yn y strategaeth gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 9-11, 13, 15-18	Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect.	Adnoddau Dynol Horizon	Horizon - Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu	Cyn adeiladu	Adran 106
2	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	3, 9-11	Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu	Adnoddau Dynol Horizon a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio a chymorth allanol o bosibl; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn adeiladu	Adran 106 (disgrifiadau swyddi adeiladu a gweithredu)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			hangen ar gyfer pob swydd yn cael ei chofnodi yn rhan o'r broses recriwtio ac yn cael ei chynnwys ym mhroffil y swydd				
3	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod y Prosiect	3, 9-11	Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn.	Adnoddau Dynol Horizon a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Siaradwyr Cymraeg allanol o bosibl.	Cyn adeiladu a chyn gweithredu	Adran 106 (arferion cyflogi gweithwyr adeiladu a gweithredu)
4	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11	Bydd Horizon yn parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i gymunedau a phobl ifanc yn rheolaidd, gan gynnwys Proffiliau Swyddi a 'Mapiau Llwybrau Gyrfa'	Tîm Addysg Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn	Adeiladu; parhaus	Adran 106 (camau adeiladu a gweithredu)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			dwyieithog Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn arwain ar hyn. Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac adnoddau 'model rôl' amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion.				

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
5	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11	Fel rhan o'i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Adnoddau Dynol Horizon a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Llywodraeth Cymru; yr Adran Gwaith a Phensiynau; Grŵp Llywio'r AEIG; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn; Gyrfa Cymru	Adeiladu; parhaus	Adran 106 (camau adeiladu a gweithredu)
6	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn	3, 9-11	Diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa	Pennaeth Datblygu Strategol	Adnoddau Dynol Horizon a'r Cydlynydd	Cyn adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	fwy amlwg yn Wylfa Newydd		fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.	(Cymru) Horizon;	Iaith Gymraeg a'i Diwylliant		
7	Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn Wylfa Newydd	3	Bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn ddwyieithog.	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon, contractwyr	Adeiladu; gweithredu	Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.6) Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.13)
8	Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu	3, 9-11	Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn darparu	Adnoddau Dynol Horizon / Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler	Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn adeiladu; parhaus	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			rheolwyr recriwtio perthnasol a hyfforddiant i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu.	Mesur 1 (1242)			
9	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant wrth wneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd Horizon yn gwerthfawrogi eu sgiliau ieithyddol.	1-4, 7, 16-18	Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.	Adnoddau Dynol Horizon; Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	Rheolwyr Recriwtio Horizon; y Gadwyn Gyflenwi a Masnachol; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn; Contractwr Menter Newydd; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Cyn adeiladu	Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)
10	Mae angen sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol	1-4, 7-11, 16-18	Bydd Horizon yn cynnwys gofynion	Horizon Tîm y Gadwyn	Menter Newydd	Cyn adeiladu; parhaus	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	o sefyllfa'r Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac am bolisi iaith Gymraeg Horizon.		gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod â chontractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol).	Gyflenwi a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14).			
11	Mesur gwella - cynyddu'r cyfleoedd i gwmnïau lleol (sy'n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) i gystadlu am waith yn Wylfa Newydd.	1-4, 8-11	Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n	Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon	Menter Newydd Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyn adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.				
12	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, mae angen gwella'r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd eu sgiliau ieithyddol yn cael eu gwerthfawrogi, a phan fo hynny'n briodol, yn cael eu datblygu. Wrth i nifer y gweithwyr o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth gynyddu, mae	1-4, 7, 9-11, 16-18	Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyn perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn	Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon - - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Grŵp Llandrillo Menai (y darparwr hyfforddiant y mae Horizon wedi'i benodi); Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Adeiladu; parhaus	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	angen gwneud siaradwyr Cymraeg yn fwy amlwg, er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn Wylfa Newydd.		sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun bathodyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddaru hyn bob blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg.				
13	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig ar addysg.	1-4, 13	Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr	Adnoddau Dynol Horizon	Menter Newydd; Cyngor Sir Ynys Môn - i sicrhau bod y wybodaeth	Adeiladu	Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod y Cais: 8.5)

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu		berthnasol yn cael ei rhoi		

Tabl 3-2 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
14	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11, 13	Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr Addysg Bellach	Tîm Addysg Horizon	Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Ysgolion, Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, Fforwm Penaethiaid, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Adeiladu.	Adran 106
15	Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd	3, 9-11, 13	Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc	Hyfforddiant Horizon; tîm Addysg Horizon	Darparwyr hyfforddiant (Grŵp Llandrillo Menai)	Cyn adeiladu.	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
16	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg.	1-2, 4, 13	Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw.	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Ysgolion, Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (grŵp cynrychioliadol sefydliadau iaith Gymraeg), Cyngor Gwynedd	Cyn adeiladu.	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro drwy gasglu data.				
17	Mae angen lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o bartneriaid a dibynyddion (251 o ddibynyddion yn ôl yr amcangyfrif) sy'n dod gyda gweithwyr na fyddant yn byw gartref, o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	1-2, 4, 7, 13, 16-18	Bydd Horizon yn datblygu ac yn dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned.	Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn		Adeiladu	Adran 106

Tabl 3-3 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a lleol

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
18	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.	1-2, 4, 7, 13, 16-18	Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned.	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn; cynrychiolwyr iaith cymunedol (ee Mentrau Iaith lleol); Cyngor Gwynedd; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg	Adeiladu	Adran 106
19	Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig ar addysg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar (ee gofal plant, meithrinfeydd,	1-2, 4, 13, 15	Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar	Adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	gwasanaethau cyn ysgol).		barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.		cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn		
20	Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref	1-2, 4, 13, 15, 16-18	Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny'n	Horizon	Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn	Cyn adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth.		berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu cadarnhau cyn adeiladu.				

Tabl 3-4 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag atebolrwydd

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
21	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i	Uwch Reolwyr	Horizon - Adnoddau	Cyn adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant		oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon	Horizon, Datblygu Strategol Cymru a'r Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant - Gweler mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14)	Dynol, Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu, Cadwyn Gyflenwi, Masnachol - Pennaeth Caffael Strategol		
22	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio grŵp rhanddeiliaid allanol (Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant) i fonitro'r broses o roi'r Stratgeaeth ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni	Horizon	Awdurdodau Lleol, Sefydliadau cymunedol	Cyn adeiladu	Adran 106
23	Mae angen gwerthuso'r Strategaeth hon a gwir	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y	Horizon	Awdurdodau Lleol,	Adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
	effaith Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg.		Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp rhanddeiliad allanol yn goruchwylio hynny		Sefydliadau cymunedol		
24	Er mwyn lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant	1-4, 7, 13, 15-18	Bydd Horizon yn gweithredu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant cyn cyfnod adeiladu'r Prosiect a thrwy gydol y cyfnod hwnnw. Bydd Horizon yn monitro ac yn adrodd ar sut mae'n cydymffurfio â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bob chwe mis i'r Grŵp Rheoli (a nodir ym mesur	Horizon		Adeiladu	Adran 106

Rhif yr eitem	Mater	Cwestiynau perthnasol i'r AEIG	Disgrifiad o'r mesur	Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn?	Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn?	Sbardun	Dull sicrhau
			1264) a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.				

4 Mesurau lliniaru a gwella

4.1 Trosolwg

4.1.1 Mae'r adran hon yn cynnwys disgrifiad mwy manwl o bob un o'r mesurau lliniaru a gwella ar gyfer Wylfa Newydd. Cyflwynir y rhain o dan bedair thema:

- Y Gweithlu;
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Gwasanaethau cymunedol a lleol;
- Atebolrwydd.

4.1.2 Mae gwybodaeth am sut mae pob un o'r mesurau hyn yn cael eu sicrhau wedi'u cynnwys yn Nhablau 3-1 i 3-4 uchod.

4.2 Y Gweithlu

4.2.1 Mae'r mesurau sydd wedi'u datblygu o dan thema'r gweithlu yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu, recriwtio, dysgu a datblygu staff sy'n cael eu cyflogi gan Horizon. Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau hyn yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â staff sy'n gweithio yn Wylfa Newydd, er bod rhai'n berthnasol i staff ar draws y cwmni'n ehangach. Mae rhai mesurau sy'n ymwneud â chontractwyr y Prosiect wedi cael eu datblygu.

Penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Mesur 1 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r Prosiect (yn arwain: Horizon).

4.2.2 Pennaeth Datblygu Strategol (Cymru) sy'n gyfrifol am Bolisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] ar hyn o bryd. Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i oruchwylio'r broses o roi Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] ar waith yn ogystal â mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Byddai hyn yn cynnwys goruchwylio'r broses o ddatblygu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg Horizon ac adnoddau ar gyfer asesu gofynion sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi (gweler mesur 8) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) mewn partneriaeth â thîm Adnoddau Dynol Horizon. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cysylltu â Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r rhaglen dysgu Cymraeg a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth (gweler mesur 12, Llwybr Lliniaru, eitem 1253) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) ar gyfer y gweithlu, yn ogystal â goruchwylio'r system fentora fewnol. Byddai'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cysylltu â phartneriaid allanol allweddol fel y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg,

Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru er mwyn cael cyngor a manteisio ar yr adnoddau y mae'r partneriaid hyn yn eu datblygu hefyd.

Ystyried y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd ar y Prosiect

Mesur 2 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael ei chofnodi yn rhan o'r broses recriwtio ac yn cael ei chynnwys ym mhroffil y swydd (yn arwain: Horizon)

4.2.3 Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi *'byddwn yn asesu'n ffurfiol pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni pob rôl yn ein sefydliad. Byddwn yn ystyried ac yn cofnodi pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni rhai swyddi penodol o fewn y sefydliad ee lle ceir cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd.'* Bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod yr holl swyddi gweithredu ar y Prosiect yn cael eu hasesu yn ôl fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg cydnabyddedig (gweler mesur 8) (Cyfeirnod y Cais: 8.14). Er mwyn gwneud hyn, bydd y cwestiwn 'Pa lefel o sgiliau Cymraeg sydd ei hangen ar y swydd hon?' yn cael ei gynnwys fel ystyriaeth ganolog wrth ddiffinio gofynion yr holl swyddi newydd ar y Prosiect.

4.2.4 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y dylai Horizon sicrhau bod lefel y sgiliau Cymraeg sydd ei hangen ar bob swydd newydd yn cael ei hasesu yn ystod cam cynharaf y broses o gynllunio'r gweithlu. Yn ôl ymgynghoriad, mae tua 30-40 o reolwyr recriwtio yn Horizon yn datblygu 'proffiliau swydd' mewn partneriaeth â'r tîm Adnoddau Dynol wrth gynllunio i recriwtio staff newydd. Bydd y cwestiwn 'pa lefel o sgiliau Cymraeg sydd ei hangen ar y swydd hon?' yn cael ei gynnwys yn ystod y cam hwn a bydd yn ystyried lefel y sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg arfaethedig (gweler mesur 8) (Cyfeirnod y Cais: 8.14).

4.2.5 Yn ôl y sôn mae ymwybyddiaeth gymysg o'r iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr recriwtio ar hyn o bryd. Mae rhoi'r mesur hwn ar waith yn tybio y câi hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant ei ddarparu i 30-40 rheolwr recriwtio i gychwyn. Byddai angen hyfforddiant mwy penodol yn dilyn hyn i wneud yn siŵr bod gan reolwyr recriwtio'r sgiliau ar gyfer asesu anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi. Mae'n bosibl y gallai'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ddarparu'r math hwn o hyfforddiant (gweler mesur 1) (Cyfeirnod y Cais: 8.14). Mae'n bosibl y byddai angen cynnwys sefydliadau hyfforddiant allanol neu sicrhau bod y tîm Adnoddau Dynol yn cynnwys unigolion sydd â phrofiad o asesu anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi.

Sicrhau gallu yn y Gymraeg wrth gyfweld staff

Mesur 3 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn. (yn arwain: Horizon).

4.2.6 Bydd Horizon yn parhau i sicrhau bod siaradwr Cymraeg yn cael ei gynnwys ar baneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn perthnasol am sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o staff Wylfa Newydd Horizon yn siaradwyr Cymraeg, a bydd penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynyddu'r capasiti hwn ymhellach. Nododd Rhanddeiliaid y Gymraeg y bydd angen cael staff â sgiliau iaith Gymraeg er mwyn gallu asesu cymhwysedd iaith Gymraeg ymgeiswyr yn ystod cyfweliadau. Gellid cefnogi'r mesur hwn ymhellach drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o dîm Adnoddau Dynol canolog Horizon. Yn y gorffennol, mae Horizon wedi dod â staff allanol sy'n siarad Cymraeg i eistedd ar baneli cyfweld pan nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael yn fewnol.

Parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd swyddi i bobl ifanc

Mesur 4 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i gymunedau a phobl ifanc yn rheolaidd, gan gynnwys Proffiliau Swyddi a 'Mapiau Llwybrau Gyrfa' dwyieithog Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) a chyflenwyr lleol yn ymwneud â'r adnoddau a'r gweithgareddau 'model rôl' hyn ac yn arwain arnynt, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion (yn arwain: Horizon).

4.2.7 Mae gan Horizon wefan ddwyieithog (yn unol â pholisi iaith Gymraeg y cwmni [RD2]) ac mae wedi datblygu adran ohoni yn benodol ar gyfer pobl ifanc (www.horizonnuclearpower.com/dyfodol). Mae'n cynnwys cyfres o adnoddau addysgol dwyieithog (Mapiau Llwybrau Gyrfa) sy'n ceisio **hyrwyddo ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa a chyfleoedd swyddi** ar y Prosiect, yn ogystal â chynyddu faint o bobl sy'n astudio pynciau STEM yn lleol. Mae Horizon yn bwriadu datblygu Mapiau Llwybrau Gyrfa fel adnodd rhyngweithiol a fyddai'n caniatáu i bobl ifanc gofnodi pa bynciau y maent yn eu hastudio ar hyn o bryd er mwyn cael gweld pa gyfleoedd swyddi perthnasol sydd ar gael yn Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn cynnwys y datganiad cyffredinol ar y gwerth a roddir ar sgiliau iaith Gymraeg (Gweler mesur 9) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) mewn gwybodaeth am gyfleoedd gwaith yn Wylfa Newydd.

4.2.8 Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg fod datblygu deunyddiau sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r Prosiect i'r boblogaeth leol yn flaenoriaeth. Mae Horizon wedi datblygu chwe 'Map Llwybrau Gyrfa' sy'n amlinellu'r mathau o rolau a fydd ar gael yn Wylfa Newydd. Mae Horizon hefyd wedi datblygu chwe phroffil swydd sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn digwyddiadau, ac mae'r cwmni'n ystyried eu datblygu ymhellach yn glipiau fideo sy'n cynnwys staff, graddedigion a phrentisiaid yn siarad am eu swyddi a'u profiadau o weithio yn Wylfa Newydd. Mae'r proffiliau swyddi wedi'u hanelu at bobl â lefelau gwahanol o gymwysterau ee prentisiaeth, graddedigion, pobl sydd wedi gadael Addysg Bellach. Bwriedir i'r adnoddau ar y wefan gael eu gweld gan bobl ifanc ac oedolion a'u rhannu ag ysgolion, colegau a Phrifysgolion. Gellir datblygu fersiynau rhyngweithiol o'r proffiliau sy'n galluogi pobl ifanc i ddewis pynciau o ddiddordeb iddynt a'u cyfeirio at yr yrfa fwyaf perthnasol iddyn nhw.

4.2.9 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y dylai Horizon hyrwyddo'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r Prosiect ymhlith y boblogaeth leol, yn arbennig pobl ifanc. Cytunodd y rhanddeiliaid y dylai hyn gynnwys digwyddiadau cyhoeddus a deunyddiau hyrwyddo sy'n amlygu'r llwybrau posibl neu'r llwybrau mynediad i fathau gwahanol o rolau a swyddi.

4.2.10 Mae Horizon yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Gyrfa Cymru a chyflogwyr allweddol eraill ledled Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo cyfleoedd i bobl leol. Mae'n datblygu deunyddiau model rôl a allai helpu i annog pobl leol i ystyried gyrfa yn Wylfa Newydd. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu datblygu yn 2018, ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys clipiau o brentisiaid Horizon, drwy gyfrwng sianel YouTube Horizon. Gallai modelau rôl gynnwys staff presennol Wylfa Newydd neu gwmnïau lleol sydd wedi llwyddo i ennill contractau. Gallai'r modelau rôl fod yn rhan o gyflwyniadau, digwyddiadau gyrfaoedd, fideos ac wedi'u proffilio mewn deunyddiau ysgrifenedig.

4.2.11 Mae Horizon yn datblygu Rhaglen Llysgennad STEM a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2018. Bydd y rhaglen o weithgareddau i fodelau rôl yn cynnwys staff Wylfa Newydd - yn cynnwys cyn-ddisgyblion ysgolion Ynys Môn, siaradwyr Cymraeg, dysgwyr Cymraeg a phobl ifanc ar eu cynlluniau graddedig a phrentisiaeth. Fel rhan o hyn, mae'r cwmni'n gobeithio datblygu clipiau fideo yn cynnwys enghreifftiau o arferion da o ran technegau cyfweld gyda staff y Prosiect, graddedigion, staff lleol a phrentisiaid o bosibl hefyd.

Targedu'r gwaith recriwtio at siaradwyr Cymraeg fel rhan o strategaethau recriwtio ehangach

Mesur 5 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Fel rhan o'i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â

chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. (yn arwain: Horizon)

4.2.12 Fel rhan o'i strategaethau recriwtio ehangach, bydd Horizon yn hysbysebu swyddi drwy sianeli recriwtio, gan gynnwys y rhai hynny sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg yn bennaf. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno bod amryw o sianeli posibl a all alluogi Horizon i dargedu deunyddiau recriwtio (hysbysebion swyddi) at gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Y cam cyntaf i Horizon fydd nodi rhestr o gyfryngau recriwtio a fyddai'n galluogi Horizon i dargedu siaradwyr Cymraeg orau ym mhrif ardal yr astudiaeth a thu hwnt. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwefannau recriwtio fel Lleol.net, Safle Swyddi a Golwg 360. Gallai hyn fod yn rhan o swydd y Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) mewn perthynas â'r tîm Adnoddau Dynol.

4.2.13 Bydd Horizon hefyd yn hysbysebu swyddi drwy'r gwasanaeth broceriaeth lleol (Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth Wylfa Newydd) sy'n cael ei sefydlu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Grŵp Llandrillo-Menai, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Horizon. Bwriad y gwasanaeth broceriaeth yw bod yn 'siop un stop' i bobl leol gael gwybod am gyfleoedd yn Wylfa Newydd[43] a bydd y gwasanaeth yn cael ei dreialu yn ystod y broses recriwtio ar gyfer cyfnodau cynnar y prosiect (ee Paratoi a Chlirio'r Safle).

4.2.14 Bydd Horizon hefyd yn dosbarthu cyfleoedd swyddi drwy sefydliadau sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg (ee awdurdodau lleol, sefydliadau ieuenctid, sefydliadau diwylliannol). Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg y dylai Horizon gysylltu â sefydliadau sy'n gweithio â siaradwyr Cymraeg i geisio llunio rhestr o sefydliadau a allai helpu i annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi yn Wylfa Newydd. Y cam cyntaf i Horizon fydd cysylltu â'r sefydliadau hyn (o bosibl drwy gynrychiolwyr ymgysylltu â'r gymuned Horizon yn Wylfa Newydd) ac amlinellu'r sail resymegol dros ddosbarthu cyfleoedd am swyddi drwyddynt hwy er mwyn ceisio eu cael i gydweithio i dargedu siaradwyr Cymraeg. Ar ôl hyn, bydd Horizon yn datblygu dull o ddosbarthu cyfleoedd swyddi drwy'r sefydliadau hyn (ee rhestr ddosbarthu drwy e-bost).

4.2.15 Hefyd, bydd Horizon yn dosbarthu cyfleoedd am swyddi i asiantaethau sy'n ymwneud ag olrhain pobl ifanc (ee Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, Prifysgolion) i hyrwyddo cyfleoedd am swyddi ymhlith y rheini a allai fod wedi symud o brif ardal yr astudiaeth. Mae denu pobl leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, sydd wedi gadael prif ardal yr astudiaeth, yn ôl i weithio ar y Prosiect yn Wylfa Newydd yn effaith gadarnhaol bosibl. Er mwyn cyflawni hyn, bydd Horizon yn cysylltu ag asiantaethau sy'n ymwneud ag olrhain pobl ifanc (ee Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, awdurdodau lleol, Prifysgolion) er mwyn ceisio eu cael i gydweithio i dargedu hysbysebion swyddi at siaradwyr Cymraeg. Y cam cyntaf i Horizon fydd ymgysylltu â'r sefydliadau hyn ac

[43] Roedd hwn yn cael ei alw'n 'Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth Wylfa Newydd' adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

amlinellu'r sail resymegol dros ddosbarthu cyfleoedd swyddi drwyddynt hwy. Ar ôl hyn, bydd Horizon yn cytuno ar ddull o ddosbarthu cyfleoedd swyddi drwy'r sefydliadau hyn (ee rhestr ddosbarthu drwy e-bost).

Cytuno ar bolisi cyfathrebu mewnol

Mesur 6 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Diweddaru polisi iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog (yn arwain: Horizon)

4.2.16 Mae polisi iaith Gymraeg cyfredol Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni yn *'cefnogi ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl, tra'n cydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y diwydiant niwclear yn y DU ac iaith ein rheoleiddwyr.'* Mae hefyd yn nodi y bydd Horizon *'ymdrechu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol lle bynnag y bo'n rhesymol gwneud hynny.'* Mae'r mesur hwn yn cynnig diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon i gynnwys mwy o fanylion ynghylch y math o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.

Sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio

Mesur 7 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd yr holl arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn ddwyieithog (yn arwain: Horizon).

4.2.17 Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi bod yr holl arwyddion parhaol a dros dro yn safle'r Prosiect yn ddwyieithog. Mae hefyd yn nodi y bydd *Horizon '…yn annog pob trydydd parti sy'n gweithredu ar ein rhan i osod arwyddion dros dro dwyieithog mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd lle bynnag y bo'n bosibl.'* Horizon fydd yn gyfrifol am yr holl arwyddion cyhoeddus yn safle'r Prosiect. Mae rhanddeiliaid y Gymraeg wedi pwysleisio'r ffaith bod angen sicrhau bod yr holl fusnesau sy'n ymwneud â darparu contractau fel rhan o'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Prosiect yn dilyn unrhyw ofynion ieithyddol sy'n cael eu pennu ym manylion y tendrau. Dylai Horizon adolygu gwahanol gategorïau o arwyddion ar y safle er mwyn ystyried a yw'n briodol i arwyddion sy'n hollbwysig o ran diogelwch fod yn ddwyieithog, gan gydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y rheoleiddwyr a'r diwydiant niwclear yn y DU. Dylai'r adolygiad ystyried a yw'n briodol defnyddio ieithoedd eraill hefyd pan fo'n briodol (ee pan na fydd nifer sylweddol o weithwyr yn siaradwyr Cymraeg na Saesneg).

Datblygu a mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg

Mesur 8 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn darparu rheolwyr recriwtio perthnasol a

hyfforddiant i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu (yn arwain: Horizon).

4.2.18 Mae polisi iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni 'yn asesu'n ffurfiol pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni pob rôl yn ein sefydliad.' Mae hefyd yn nodi *'Rydym yn cadw cofnod anffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg rhai cyflogeion drwy ein system mewnrwyd, fel y gallwn gyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg at y person priodol. Bydd sgiliau iaith Gymraeg hefyd yn cael eu nodi ar gofnodion hyfforddi cyflogeion.'*

4.2.19 Bydd Horizon yn datblygu **fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg** ac yn ei roi ar waith fel rhan o'r Strategaeth hon. Defnyddir model cydnabyddedig fel Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE) lefelau 1-5 ar gyfer hyn. Bydd y fframwaith hwn yn defnyddio arferion da o sefydliadau eraill (ee Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Ceredigion) ac yn galluogi Horizon i gofnodi lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd ei hangen yn ffurfiol ar gyfer swyddi perthnasol yn Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r fframwaith hwn.

4.2.20 Mae fframwaith ALTE yn darparu dull o asesu cymhwysedd unigolion o ran sgiliau iaith Gymraeg a gellid ei ddefnyddio i nodi pa lefel o sgiliau (0-5) fyddai'n ofynnol ar gyfer swyddi adeiladu a gweithredu perthnasol yn Wylfa Newydd. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o'r sgiliau llafar ac ysgrifenedig fyddai'n ofynnol ar gyfer swyddi. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu bod defnyddio fframwaith cydnabyddedig fel ALTE yn well na labelu gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Yn ôl y rhanddeiliaid roedd nodi'r lefelau cymwyseddau llafar ac ysgrifenedig yn gwneud pethau'n gliriach i ymgeiswyr, ac y gallai defnyddio'r termau 'hanfodol' neu 'ddymunol' annog y rheini sy'n hyderus yn siarad Cymraeg, ond sydd â sgiliau ysgrifenedig is yn y Gymraeg rhag mynd amdani. Mae fframwaith ALTE Heddlu Gogledd Cymru yn enghraifft o'r math yma o ddull, ac mae'n amrywio o lefel 0 (dim sgiliau iaith Gymraeg sylweddol) i lefel 5 - 'medrus' (cymwys, hyderus ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd wrth gyflawni dyletswyddau). Mae sgiliau lefel 1 fel arfer yn galluogi unigolion i ddangos cwrteisi ieithyddol ee deall/defnyddio cyfarchion ar ddesg neu ffôn yn y dderbynfa, ynganu enwau personol/lleoedd.

4.2.21 Bydd Horizon yn datblygu **adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg** ochr yn ochr â'r fframwaith cymhwysedd hwn hefyd, er mwyn asesu a chofnodi'n ffurfiol beth yw gofynion lefel sgiliau iaith Gymraeg swyddi yn Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg i ddatblygu'r adnodd hwn, ac yn defnyddio arferion da o adnoddau asesu y mae sefydliadau eraill yn eu defnyddio (ee Grŵp Llandrillo Menai, Cyngor Sir Gaerfyrddin).

4.2.22 Mae modd defnyddio adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar y cyd â fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg i helpu i gynllunio pa lefel o sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd. Fel arfer bydd yn cynnwys cyfres o gwestiynau fel: 'A yw'r swydd yn cynnwys cyswllt rheolaidd ag aelodau o'r cyhoedd, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn?', 'A yw'r swydd yn cynnwys cyswllt ag asiantaethau lleol a sefydliadau rhanddeiliaid?' Caiff ymatebion i'r cwestiynau uchod eu

graddio a byddant yn rhoi arwydd o lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

4.2.23 Bydd datblygu'r fframwaith hwn a'r adnodd asesu yn un o swyddogaethau'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant mewn partneriaeth a'r tîm Adnoddau Dynol (gweler mesur 1) (Cyfeirnod y Cais: 8.14). Efallai y byddai angen cymorth allanol i ddatblygu fframwaith ALTE priodol ar gyfer Horizon mewn ymgynghoriad â staff Adnoddau Dynol. Gellid sicrhau'r math yma o gymorth drwy secondiad gan gyflogwyr sydd â'r profiad o ddatblygu/gweithredu fframwaith ALTE (ee awdurdodau lleol neu gyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus) neu gyda chefnogaeth y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg

4.2.24 Er mwyn rhoi'r mesur hwn ar waith, bydd rheolwyr recriwtio ac Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer y Prosiect yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a **hyfforddiant dilynol mwy manwl er mwyn gallu defnyddio'r adnodd asesu a'r fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg** er mwyn asesu anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi. Gallai'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ddarparu'r hyfforddiant hwn, mewn partneriaeth â'r timau Adnoddau Dynol a Hyfforddiant.

Dosbarthu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg drwy'r broses recriwtio a'r gadwyn gyflenwi

Mesur 9 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.

4.2.25 Bydd Horizon yn datblygu datganiad cyffredinol ar werth sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael ei gynnwys ym mhob hysbyseb swydd/ manyleb swydd/ manyleb person ar gyfer swyddi adeiladu a gweithredu pan fydd gofyn perthnasol ynghlwm â'r swydd ee 'Mae Horizon yn gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg fel un o sgiliau'r gweithlu ac rydym yn awyddus i gefnogi gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith'. Bydd Horizon yn sicrhau bod pob un o gontractwyr y Prosiect ym mhob haen yn gorfod cynnwys datganiad tebyg ar ei ddeunydd recriwtio hefyd.

4.2.26 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y byddai datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg yn rhoi amlygrwydd i'r Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio. Roedd y rhanddeiliaid yn credu y dylid cynnwys datganiad o'r fath yn yr holl ddeunyddiau recriwtio, beth bynnag fo anghenion ieithyddol penodol pob swydd. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai datganiad o'r fath yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ac yn annog pobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg i wneud cais am swyddi. Byddai sicrhau bod contractwyr yn defnyddio'r datganiad hwn yn cefnogi'r ymrwymiad o 'wneud yn siŵr bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael ystyriaeth a pharch priodol yn ein gweithgareddau cadwyn gyflenwi' sydd yn Siarter Cadwyn Gyflenwi Horizon.

4.2.27 Bydd Horizon hefyd yn nodi lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar ddeunyddiau recriwtio ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg. Fel y nodwyd ym mesur 8, bydd Horizon yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu iaith Gymraeg ar gyfer penderfynu ar ofynion iaith Gymraeg swyddi ar lefelau 0-5. Bydd lefel y sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig a fydd yn ofynnol (yn seiliedig ar y fframwaith a'r adnodd asesu) yn cael eu nodi yn y deunyddiau recriwtio, a byddant yn fwyaf tebygol o ddefnyddio disgrifiadau yn ogystal â'r lefelau. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu bod y dull hwn yn well na labelu gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Yn ôl y rhanddeiliaid roedd nodi'r lefelau cymhwysedd llafar ac ysgrifenedig yn gwneud pethau'n gliriach i ymgeiswyr, ac y gallai defnyddio'r termau 'hanfodol' neu 'ddymunol' annog y rheini sy'n hyderus yn siarad Cymraeg, ond sydd â sgiliau ysgrifenedig is yn y Gymraeg rhag mynd amdani. Bydd Horizon hefyd yn cadw cofnod ffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg staff a bydd yn monitro cynnydd staff sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau iaith Gymraeg a mynd ar hyfforddiant. Gall hyn gynnwys defnyddio'r adnodd hunanasesu sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg.

4.2.28 Fel rhan o'r mesur hwn, bydd Horizon yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y Gymraeg ar Ynys Môn ac yng ngogledd orllewin Cymru mewn pecynnau recriwtio ar gyfer swyddi. Bydd y wybodaeth a gaiff ei dosbarthu yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg a'i diwylliant ar Ynys Môn ac yng ngogledd orllewin Cymru, gwybodaeth am y system addysg leol, manteision bod yn ddwyieithog a chyfleoedd i ddysgu'r iaith. Gallai hyn fod yn grynodeb o'r pecynnau croeso arfaethedig ar gyfer staff newydd a'u teuluoedd (gweler mesur 17) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) i sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu.

Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried mewn prosesau caffael

Mesur 10 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod â chontractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn polisi iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol). (yn arwain: Horizon).

4.2.29 Mae polisi iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni *'yn annog pob trydydd parti sy'n gweithredu ar ein rhan i osod arwyddion dros dro dwyieithog mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd lle bynnag y bo'n bosibl'*. Bydd Horizon yn diwygio ei weithdrefn paratoi manylebau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i staff sy'n eu datblygu ystyried a oes gofyn i'r gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan gontractwyr gynnig gwasanaeth dwyieithog (ee ymholiadau dros y ffôn neu staff derbynfa mewn swyddfeydd). Yn yr achosion hynny lle mae angen bod yn ddwyieithog, bydd y staff sy'n paratoi'r manylebau'n cynnwys y gofyn hwn fel rhan o'r fanyleb ac yn ei ystyried wrth asesu unrhyw gynigion. Hefyd, bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda

ar gyfer cyfarfodydd cychwynnol â chontractwyr pan fydd y gwaith yn cael ei wneud yng ngogledd Cymru yn bennaf. Y cam cyntaf fydd cytuno ar hyn â Menter Newydd, sef y contractwr Haen 1 a fydd yn gyfrifol am adeiladu Wylfa Newydd.

4.2.30 Bydd trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i Horizon yn rhwym wrth ddyletswydd i lynu wrth unrhyw ofynion ieithyddol sy'n cael eu hamlinellu yn y dogfennau tendro a'r manylebau. I'r perwyl hwn, roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y dylai prosesau caffael a gaiff eu rheoli'n uniongyrchol gan Horizon a'r rhai a gaiff eu rheoli gan gontractwyr gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chapasiti iaith Gymraeg sefydliadau (ee nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg) a sut bydd contractwyr yn cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg Horizon [RD2]. Byddai modd casglu'r wybodaeth hon gan gontractwyr drwy gynnwys ffurflen y mae'n rhaid ei dychwelyd gyda dogfennau cais am gynigion a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu gwybodaeth am gapasiti iaith Gymraeg.

Sicrhau bod gwybodaeth am gontractwyr lleol yn cael ei dosbarthu drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan

Mesur 11 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd cyflenwyr Horizon yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru (yn arwain: Horizon).

4.2.31 Mae Siarter y Gadwyn Gyflenwi Horizon yn ymrwymo i *'wneud yn siŵr bod y gymuned leol a'r gadwyn gyflenwi yn cael gwybod am gyfleoedd newydd ac yn cael cyfle teg i gystadlu'*. Mae Horizon wedi sefydlu porth cyflenwyr ac mae wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i hyrwyddo cyfleoedd i gontractwyr lleol. Er mwyn sicrhau bod busnesau lleol (sy'n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) yn gallu manteisio ar gyfleoedd tendro yn Wylfa Newydd, tynnodd rhanddeiliaid y Gymraeg sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o fusnesau lleol yn y gadwyn gyflenwi, yn arbennig ymhlith cwmnïau Haen 1 a Haen 2. I'r perwyl hwn, bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr yn Haenau 2 ac is yn cael y gronfa ddata fusnes a gaiff ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Hefyd, dylai Horizon a Menter Newydd fonitro gwerth contractau sy'n cael eu dyfarnu i gwmnïau o ogledd Cymru fel rhan o'r cyfnod adeiladu. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddangos effaith economaidd uniongyrchol y prosiect dros amser.

Datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg, annog pobl i fanteisio ar yr hyfforddiant a sefydlu rhaglen fentora

Mesur 12 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyn perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun bathodyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddaru hyn bob blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg. (yn arwain: Horizon).

4.2.32 Bydd Horizon yn ei gwneud yn ofynnol i holl staff Wylfa Newydd Horizon allu dangos cwrteisi ieithyddol a bod yn ymwybodol o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd y mesur hwn yn cryfhau ymrwymiad presennol Horizon drwy gynnwys **codi ymwybyddiaeth o iaith** fel rhan o raglen gynefino gorfforaethol i staff yn Wylfa Newydd, a hynny ar gyfer staff adeiladu a gweithredu.

4.2.33 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y dylai holl staff y Prosiect allu dangos cwrteisi ieithyddol a bod yn ymwybodol o Bolisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2]. Oherwydd hyn, roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y dylai codi ymwybyddiaeth o iaith fod yn orfodol ar gyfer holl staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect, a hynny o fewn cyfnod penodol o amser ar ôl recriwtio. Gellid darparu'r hyfforddiant hwn drwy gyfrwng modiwl e-ddysgu ar lwyfan dysgu mewnol Horizon ochr yn ochr â modiwlau hyfforddi eraill. Gellid rhannu enghreifftiau o arferion da (ee Grŵp Llandrillo Menai, Heddlu Gogledd Cymru) â Horizon fel templedi posibl i'w hystyried. Bydd Horizon hefyd yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r cwrs hwn.

4.2.34 Gallai datblygu a chefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fod yn rhan o rôl y Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1). Ar gyfer staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn barod, gellid teilwra hyfforddiant i'w helpu i annog a chefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau (ee modelu arfer da o ran annog pobl sy'n dysgu Cymraeg, sut i fod yn fentoriaid/hyrwyddwyr iaith yn y gweithle). Bydd Horizon yn sicrhau bod y modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gael i staff adeiladu a chyflenwyr ac yn sicrhau bod contractwyr yn defnyddio'r modiwl. Byddai hyn cefnogi'r ymrwymiad o 'wneud yn siŵr bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael ystyriaeth a pharch priodol yn ein gweithgareddau cadwyn gyflenwi' sydd yn Siarter Cadwyn Gyflenwi Horizon.

4.2.35 Fel rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant, bydd Horizon yn gosod deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle bydd gweithwyr yn debygol o'u gweld. Bydd hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio.[44]

4.2.36 O ran **hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu** yn ehangach, bydd Horizon yn sicrhau bod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael sy'n mapio'r fframwaith sgiliau iaith Gymraeg sy'n cael ei ddatblygu. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu bod sicrhau bod staff adeiladu a gweithredu perthnasol y Prosiect yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o gontinwwm yn flaenoriaeth.

4.2.37 Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi *'Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnig darpariaeth benodol i gynorthwyo staff i wella'u sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn anelu at gynnwys sgiliau iaith Gymraeg yn ein prosesau rheoli a hyfforddi staff yn y dyfodol*.' Mae Horizon wedi cefnogi aelodau o staff sydd wedi gofyn am hyfforddiant iaith Gymraeg drwy dalu drostynt i fynd ar gyrsiau yng Nghanolfan Iaith a Threftadaeth Cymru, Nant Gwrtheyrn. Mae'r cwmni wedi darparu gwersi Cymraeg yn ei swyddfeydd yng Nghaerloyw a Wylfa Newydd hefyd.

4.2.38 Mae gan Horizon femorandwm dealltwriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddarparu hyfforddiant i staff. Mae Horizon wedi gofyn i Grŵp Llandrillo Menai ddarparu hyfforddiant iaith i staff yn Wylfa Newydd ac mae wrthi'n cwblhau manylion y ddarpariaeth sydd ei hangen. Gallai datblygu'r rhaglen hon o hyfforddiant fod yn rhan o rôl y Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar gyfer y Prosiect (gweler mesur 1) (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.14). Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu ei raglen ar gyfer hyfforddi'r gweithlu. Bydd Horizon yn monitro cynnydd staff sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau iaith Gymraeg a mynd ar hyfforddiant. Gall hyn gynnwys defnyddio'r adnodd hunanasesu sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg.

4.2.39 Yn ogystal â threfnu rhaglen hyfforddiant, bydd Horizon yn annog staff gweithredu i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy fynd ar gyrsiau hyfforddi. Bydd **annog staff i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg** yn un o gyfrifoldebau'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo cyrsiau mewnol neu allanol (ee cyrsiau preswyl dwys) neu hyrwyddo cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio sgiliau Cymraeg (ee grwpiau trafod i ddysgwyr, rhaglen fentora). Ar gyfer staff adeiladu, bydd Horizon yn annog Menter Newydd a chontractwyr i ddarparu gwybodaeth i weithwyr am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

4.2.40 Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd trefniadau ffurfiol Horizon ar gyfer gwerthuso gweithwyr yn golygu casglu gwybodaeth am y galw am hyfforddiant iaith

[44] Mae'r parcio a theithio yn gyfleuster dros dro lle bydd gweithwyr yn gallu parcio eu cerbydau'n ddiogel a bydd ein bysiau gwennol yn mynd â nhw i Safle'r Orsaf Bŵer. Mae'r safle wedi cael ei ddylunio i gynnwys parth ar gyfer bysiau i gasglu a gollwng teithwyr, gyda swyddfa rheoli a llefydd parcio i'r staff (a fydd yn gweithio yn y cyfleuster parcio a theithio).

Gymraeg ymhlith gweithwyr lle mae eu swyddi'n gofyn am rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg (ALTE lefelau 1-5). Bydd hyn yn ffordd fwy systematig o asesu'r galw am y ddarpariaeth a **monitro'r gwaith o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg** dros amser. Yn ystod y broses o werthuso staff gweithredu Wylfa Newydd Horizon, bydd rheolwyr llinell Horizon yn gofyn i weithwyr sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau yn yr iaith Gymraeg ar lefelau ALTE 1-5 a ydynt yn dymuno datblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg, ac os bydd staff yn mynegi diddordeb, yn eu hannog i bennu nodau i wneud hynny.

4.2.41 Bydd Horizon yn cadw cofnod ffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg y staff hynny sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg (ALTE lefelau 1-5) ac yn cofnodi cynnydd y rheini sydd wedi pennu nodau ar gyfer datblygu eu sgiliau. Gallai hyn gynnwys defnyddio'r adnodd hunanasesu sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg. Gallai dilyn trywydd y wybodaeth a gasglwyd fod yn rhan o rôl y Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1).

4.2.42 Er mwyn cefnogi staff sy'n datblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg, bydd Horizon yn **sefydlu system fentora ar gyfer staff adeiladu a gweithredu sy'n dysgu Cymraeg** ac yn creu cyfleoedd anffurfiol i staff gweithredu ymarfer eu Cymraeg yn y gweithle (ee clybiau sgwrsio dros frecwast/cinio). Bydd Horizon yn datblygu disgrifiad o rôl mentor Cymraeg yn y gweithle ac yn gwahodd staff i fynegi diddordeb mewn dod yn fentoriaid ar gyfer gweithwyr sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg. Bydd hyn yn ffordd o gefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg ac yn creu rhwydwaith cefnogi gwerthfawr i ategu'r cyrsiau ffurfiol. Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu ei system fentora. Roedd nifer o randdeiliaid y Gymraeg wedi tynnu sylw at fanteision sefydlu systemau mentora anffurfiol i gefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg. Yn ogystal â defnyddio sgiliau siaradwyr Cymraeg presennol Wylfa Newydd, mae ymchwil yn dangos y gallai dilyn y math yma o ddull helpu'r rhai sy'n mynd ar gyrsiau ffurfiol i ddatblygu eu sgiliau iaith. Roedd manteision posibl eraill yr oedd rhanddeiliaid y Gymraeg wedi tynnu sylw atynt yn cynnwys gwella ysbryd staff ac annog mwy o gyfathrebu ar draws adrannau. Gallai sefydlu system fentora fod yn un o gyfrifoldebau'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Bydd Horizon yn annog Menter Newydd a chontractwyr i ddarparu gwybodaeth i weithwyr adeiladu am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

4.2.43 Bydd Horizon yn cadw'r **cynllun 'bathodyn oren' ar gyfer siaradwyr Cymraeg** ac yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr Haen 2 ac is yn rhoi cynllun o'r fath ar waith hefyd. Ar hyn o bryd, mae Horizon yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn 'Cymraeg' pan fyddant yn y gwaith ac mae'n rhoi bathodynnau i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg sy'n dechrau gweithio i'r cwmni (mae'r bathodynnau ar gael drwy gynllun 'Iaith Gwaith' Comisiynydd y Gymraeg). Amlygodd rhanddeilaid y Gymraeg fanteision posibl gweithredu'r math hwn o gynllun yn y gweithle ymhlith yr holl fusnesau sy'n ymwneud â darparu contractau fel rhan o'r gwaith o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd. Gall y math yma o gynllun godi ymwybyddiaeth o sgiliau ieithyddol yn y gweithle ac annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gyda chyd-weithwyr. Gall hefyd hyrwyddo hyder ymhlith dysgwyr Cymraeg i arfer eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Yn ogystal, pan fo'r staff oddi ar y safle

neu mewn digwyddiadau cyhoeddus gall cynllun o'r fath helpu i ddangos capasiti ieithyddol gweithlu Horizon i bobl leol. Bydd Horizon yn cadw ei gynllun bathodynnau siaradwyr Cymraeg ac yn ystyried a ellid gwnïo bathodynnau ar ddillad gwaith staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd Horizon hefyd yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr yn Haen 2 ac is yn mabwysiadu cynllun o'r fath. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd cychwynnol â'r contractwyr ynghylch contractau.

Casglu a rhannu data am anghenion teuluoedd gweithwyr sy'n symud i'r ardal

Mesur 13 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu (yn arwain: Horizon).

4.2.44 Bydd Horizon yn datblygu adnodd y gellir ei ddefnyddio ar ôl recriwtio er mwyn casglu data ynghylch a yw teuluoedd gweithwyr adeiladu a gweithredu newydd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth yn symud i'r ardal. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth gyflawn a dienw am nifer y plant sy'n symud i'r ardal, y gymuned maent yn debygol o symud iddi, am ba mor hir maent yn debygol o aros a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg.

4.2.45 Tynnodd rhanddeiliaid y Gymraeg sylw at yr angen i ddeall proffiliau teuluoedd y gweithwyr adeiladu a gweithredu a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth cyn gynted â phosibl, a hynny er mwyn i wasanaethau lleol baratoi cymaint â phosibl. Dyma oedd yr achos yn benodol i'r darparwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar, a oedd yn pwysleisio bod angen gallu cynllunio ar gyfer y mewnlif i ddalgylchoedd ysgolion a'r effaith bosibl ar ddarparwyr blynyddoedd cynnar cyn gynted â phosibl.

4.2.46 Bydd Horizon yn cysylltu ag adrannau addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i asesu pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer cynllunio gwasanaethau iaith Gymraeg (yn arbennig gwasanaethau blynyddoedd cynnar, addysg a throchi) yn gynnar yn y broses. Bydd hyn yn cynnwys lefel y manylion sy'n ofynnol, pa mor aml y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ac ystyriaethau diogelu data. Bydd Horizon yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar ganiatâd o rannu gwybodaeth am nifer y recriwtiaid adeiladu a gweithredu newydd a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth sy'n symud i gymunedau gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar.

4.2.47 I sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i ddarparwyr addysg cyn gynted â phosib, bydd Adnoddau Dynol Horizon ac Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn trafod pa wybodaeth y gellid ei chasglu gan recriwtiad newydd i'r Prosiect a sut y gellid rhannu'r wybodaeth hon yn ddiogel (gyda chaniatâd yr unigolion) ar ôl iddynt dderbyn cais am swydd. Bydd gofyn ystyried dyletswyddau diogelu data a chrynhoi a thynnu enwau oddi ar ddata. Mae Horizon wrthi'n cynllunio Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y gallai'r gwasanaeth hwn gefnogi'r gwaith o gasglu'r math hwn o ddata am deuluoedd gweithwyr.

4.3 Plant, pobl ifanc a theuluoedd

4.3.1 Mae'r mesurau sy'n cael eu datblygu o dan y thema plant, pobl ifanc a theuluoedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg, pecynnau croeso i deuluoedd, adnoddau addysg a phrentisiaethau. Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn arwain ar rai o'r mesurau, a Horizon fydd yn arwain ar y rhai eraill.

Datblygu adnoddau addysgol ar gyfer dysgwyr mewn addysg gynradd, addysg uwchradd ac Addysg Bellach

Mesur 14 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr Addysg Bellach (yn arwain: Horizon).

4.3.2 Mae Horizon, mewn partneriaeth ag ysgolion, wrthi'n datblygu **deunyddiau ystafell ddosbarth addysgol dwyieithog ar gyfer plant cynradd** wedi'u hanelu at ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2. Cwblhawyd rhan gyntaf y gwaith hwn yn hydref 2016. Mae chwe uned sy'n mapio â chwricwlwm yr ysgol wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth ag athrawon cynradd ar Ynys Môn. Mae'r deunyddiau'n cynnwys clipiau fideo ac animeiddiadau ac maent ar gael ar wefan Horizon (www.horizonnuclearpower.com/dyfodol). Mae Cydlynydd Rhaglen Addysg Horizon wedi cyflwyno sesiynau gan ddefnyddio'r deunyddiau hyn mewn ysgol gynradd leol, a bwriedir cynnal rhagor o sesiynau yn ystod 2018 mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Mae Horizon hefyd yn ystyried datblygu deunyddiau wedi'u hanelu at ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Byddai'r rhain yn cefnogi'r deunyddiau presennol yng Nghyfnod Allweddol 2 (Camau STEM). Mae'r deunyddiau hyn yn canolbwyntio ar hyrwyddo gyrfaoedd STEM ymhlith disgyblion cynradd a herio safbwyntiau ystrydebol ar rywedd mewn gyrfaoedd STEM. Bydd Horizon yn monitro'r defnydd a wneir ar y deunyddiau ac yn gwerthuso adborth athrawon a disgyblion ynghylch yr adnoddau fel rhan o'r broses fonitro ar gyfer y Strategaeth.

4.3.3 Mae Horizon wedi datblygu **deunyddiau ystafell ddosbarth sy'n ymwneud â gwyddoniaeth ar gyfer ysgolion uwchradd** gan gynnwys yr adnoddau addysgol 'Batris Llysiau' ar gyfer athrawon a disgyblion. Mae dwy ysgol uwchradd ar Ynys Môn wedi cael y deunyddiau hyn yn barod a bydd y tair arall yn eu cael yn nes ymlaen yn 2018. Mae Horizon hefyd wedi gweithio gyda dwy

ysgol uwchradd i ddatblygu cynlluniau gwersi Ffiseg Cyfnod Allweddol 4. Bydd Horizon yn cyflenwi deunyddiau addysgol i alluogi ysgolion i gynnal rhagor o sesiynau Ffiseg ymarferol sy'n ategu adnoddau y mae GwE (consortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru) wedi'u datblygu'n barod.

4.3.4 Bydd Cydlynydd Rhaglen Addysg Horizon yn gweithio gydag un o ysgolion uwchradd Ynys Môn hefyd i ddatblygu deunyddiau ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn **lleoliadau Cyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16**. Bydd y rhain yn ddwyieithog ac ar gael ar wefan Horizon. Bydd hefyd mewn partneriaeth â CBAC a GwE, consortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru. Y gobaith yw y bydd CBAC yn achredu'r adnoddau hyn unwaith y bydd y fersiynau terfynol yn barod.

4.3.5 Mae Horizon wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd, i ddatblygu clipiau fideo dwyieithog a fydd yn cefnogi pobl ifanc gyda sgiliau cyfweld ac i baratoi CVs. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod 2018. Bydd Horizon yn monitro'r defnydd a wneir ar y deunyddiau ystafell ddosbarth ac yn gwerthuso adborth athrawon a disgyblion ynghylch yr adnoddau fel rhan o'r broses fonitro ar gyfer y Strategaeth.

Cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect a'r wythnos Cipolwg ar Waith

Mesur 15 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc (yn arwain: Horizon)

4.3.6 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn croesawu **cynllun prentisiaethau** y Prosiect fel llwybr pwysig i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc yn Wylfa Newydd. Dechreuodd carfan gyntaf prentisiaid Wylfa Newydd ym mis Medi 2016. Mae wyth o brentisiaid (mae chwech ohonynt yn siarad Cymraeg ac mae'r ddau arall o Ynys Môn). Y bwriad yw ehangu'r cynllun prentisiaeth dros y blynyddoedd i ddod. Bydd Horizon yn cynnal y cynllun prentisiaethau wrth i'r Prosiect ddatblygu, gan ystyried cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol. Bydd nifer y lleoedd sy'n cael eu cynnig a'u derbyn, y cyfraddau cwblhau a'r cyfraddau dilyniant i gyflogaeth yn cael eu monitro bob blwyddyn, a bydd Rhanddeiliaid y Gymraeg yn dal i gael y wybodaeth hon.

4.3.7 Bydd Horizon yn parhau i ddarparu **'Wythnos Cipolwg ar Waith'** i bobl ifanc hefyd**.** Mae Horizon wedi treialu wythnos 'Cipolwg ar Waith' ar gyfer 12 o fyfyrwyr ysgolion uwchradd Ynys Môn a myfyrwyr Addysg Bellach Grŵp Llandrillo Menai. Mae hyn yn rhoi cipolwg ar wahanol adrannau'r cwmni, yn ogystal â gweithgareddau rhyngweithiol sy'n paratoi'r rhai sy'n cymryd rhan ar gyfer byd gwaith (ee datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd, paratoi ar gyfer cyflwyniadau a chymryd rhan mewn cyfweliadau ffug). Cafodd yr Wythnos Cipolwg ar Waith ei hymestyn i bara pythefnos ym mis Gorffennaf 2017, ac roedd yn targedu myfyrwyr Blynyddoedd 11-13.

Cefnogi'r gwasanaeth trochi iaith

Mesur 16 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro drwy gasglu data. (yn arwain: Cyngor Sir Ynys Môn)

4.3.8 Mae adroddiad yr AEIG yn nodi y bydd tua 251 o blant yn dod i'r ardal yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu (hynny yw, 220 o blant oed ysgol yn ystod y cam adeiladu a hyd at 31 yn ystod y cam gweithredu). Mae'r data hwn yn seiliedig ar asesiad economaidd-gymdeithasol Horizon ar gyfer y Prosiect. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y bydd 220 o blant oedran ysgol i staff adeiladu yn cyrraedd rhwng dechrau'r cam adeiladu a chyfnod prysuraf y cam adeiladu. Tybir y bydd 31 plentyn ychwanegol yn cyrraedd yn ystod y cam gweithredu. Nid yw'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn dadansoddi'r data fesul blwyddyn.

4.3.9 Ar hyn o bryd, mae canolfannau trochi iaith Gymraeg awdurdodau lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth yn darparu cyrsiau Cymraeg dwys i bobl sy'n newydd i'r ardal i'w galluogi nhw i gymryd rhan lawn mewn addysg ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth trochi iaith yn gweithio gyda tua 70 o ddisgyblion bob blwyddyn, ac mae ganddo bum aelod o staff llawn amser. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cwrs dwys, llawn amser am ddeg wythnos i ddisgyblion mewn un o ddau leoliad ar Ynys Môn, gyda gwaith un-i-un i ddilyn hynny. Mae pob athro trochi iaith yn gweithio gyda tua 15 o ddisgyblion yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn (yn cyflwyno cwrs deg wythnos yn un o'r canolfannau) ac yn gwneud gwaith dilynol wedi'i dargedu gyda'r disgyblion yn ystod tymor yr haf.

4.3.10 Mae pum aelod o staff llawn amser yn darparu cyrsiau trochi iaith Gymraeg i ddisgyblion mewn dwy ganolfan ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Tynnodd cynrychiolwyr Cyngor Sir Ynys Môn sylw at y ffaith fod yr addysg yn y canolfannau'n tueddu i ganolbwyntio ar ddisgyblion cynradd, gyda disgyblion uwchradd yn tueddu i ofyn am addysg beripatetig ar safle'r ysgol. Mae addysg beripatetig yn tueddu i fod yn fwy trwm ar adnoddau.

4.3.11 Mae'r AEIG yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r mewnlif o blant oed ysgol a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu yn cynyddu'r galw am leoedd y tu hwnt i gapasiti yn y canolfannau trochi. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y Gymraeg y byddai angen tîm estynedig a fyddai'n gallu gweithio ar draws llawer o ysgolion a chanolfannau yn ogystal â gyda grwpiau oedran gwahanol. Byddai union natur darpariaeth ychwanegol yn dibynnu ar y canlynol:

- nifer y plant oed ysgol sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth (amcangyfrif o 251 yn ystod y cam gweithredu);
- oed y plant sy'n cyrraedd: byddai'r ddarpariaeth drochi ar gyfer disgyblion uwchradd yn debygol o fod angen rhagor o adnoddau na'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cynradd;
- pa bryd mae'r plant yn symud i'r ardal.

4.3.12 Byddai'r gwasanaeth athrawon peripatetig sy'n cael ei gynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn yn gallu gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws yr awdurdodau lleol yn ogystal ag yn y canolfannau trochi pe bai angen. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y dylai'r gwasanaeth athrawon peripatetig fod yn ddigon hyblyg i weithio yng Ngwynedd pe bai mwy o alw ar y gwasanaethau trochi yn y sir honno.

4.3.13 Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg hefyd fod angen capasiti i gefnogi disgyblion a theuluoedd â dim sgiliau Saesneg neu fawr ddim sgiliau o'r fath sy'n dymuno cael gafael ar y math hwn o gymorth. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r mesurau lliniaru ehangach ar gyfer Wylfa Newydd

4.3.14 Fel rhan o'r broses o fonitro'r Strategaeth hon, dylai Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd fonitro'r mewnlif o ddisgyblion newydd i ysgolion a faint sy'n manteisio ar y ddarpariaeth drochi yn erbyn y data rhagamcanol o asesiadau economaidd-gymdeithasol Horizon (gweler mesur 13).

Datblygu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect

Mesur 17 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Horizon i ddatblygu a dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned. (yn arwain: Horizon, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn).

4.3.15 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu pecynnau croeso i deuluoedd sy'n symud i Gymru ac mae'n ystyried eu treialu ar Ynys Môn. Pe bai Horizon yn datblygu pecynnau croeso tebyg yn annibynnol, mae posibilrwydd y byddai achosion o ddyblygu (er y gallai pecynnau croeso i staff Horizon gynnwys gwybodaeth atodol sy'n benodol i'r cwmni). Fodd bynnag, ymddengys nad oes unrhyw ddull o sicrhau bod pecynnau croeso yn cael eu dosbarthu a'u hesbonio i bobl sy'n symud i'r ardal. Mae rhanddeiliaid y Gymraeg yn teimlo y dylai'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant gynnwys mesur ar gyfer canfod cynrychiolwyr iaith Gymraeg cymunedol i sicrhau bod y pecynnau croeso yn cael eu dosbarthu i bobl sy'n symud i'r ardal ac i feithrin capasiti ymhlith y boblogaeth leol. Dylai Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon, a chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru gynnal deialog barhaus i drafod cynnwys arfaethedig y pecynnau croeso hyn ar yr iaith ac er mwyn cytuno ar sut gall Horizon ddefnyddio templed Llywodraeth Cymru ar gyfer y pecynnau hyn. Yn dilyn hyn, dylai Horizon

ystyried pa wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer teuluoedd gweithlu'r Prosiect.

4.4 Gwasanaethau cymunedol a lleol

4.4.1 Mae Horizon wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau cymunedol lleol ers 2013 i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn un o'r meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried ceisiadau am arian. Mae Addewid y Gymraeg Horizon [Horizon, 2016] yn nodi y bydd y cwmni'n cefnogi gweithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg, fel chwaraeon, y celfyddydau a cherddoriaeth. Mae enghreifftiau o'r math o sefydliadau y mae'r cwmni wedi'u cefnogi i'w gweld yn Nhabl 4-1 isod.

Tabl 4-1 Enghreifftiau o weithgareddau Cymraeg y mae Horizon wedi'u cefnogi ers 2013

Sefydliadau cymunedol	Prosiectau a sefydliadau addysgol	Digwyddiadau a sefydliadau diwylliannol
Menter Môn: cefnogi cynlluniau iaith fel 'I understand it, but I don't speak it' a chynllun 'Fy Ardal i' sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth Ynys Môn. Cyfleusterau yn Neuadd Bentref Rhosneigr Canolfan Gymunedol Noddfa	Ysgol David Hughes: Meddalwedd a chaledwedd TG Gwasanaeth Ysgolion William Mathias: Cefnogi Digwyddiad Cerddoriaeth ar gyfer Plant Ysgol Cylch Meithrin Cymraeg Amlwch Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Y Deyrnas Gopr: Rhaglen Addysg a Diwylliant i blant ysgolion lleol yn ogystal â grwpiau cymunedol a chelf ar Ynys Môn.	Gŵyl Gopr 2016: cefnogi gŵyl gerddoriaeth ddwyieithog a gynhaliwyd yn Amlwch ym mis Awst. Môn FM: gorsaf radio gymunedol ddwyieithog Ynys Môn, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr Rhoi cefnogaeth ariannol i Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Môn yn 2014 a 2016. Eisteddfod Môn 2015

4.4.2 Mae'r mesurau sydd wedi cael eu datblygu o dan y thema gwasanaethau cymunedol a lleol yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o gymdeithas, datblygu capasiti mewn cymunedau lleol, cefnogi prosiectau cymunedol (ee chwaraeon, diwylliant) a chefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Sefydliadau eraill fydd yn arwain ar y rhan fwyaf o'r mesurau, yn hytrach na Horizon.

Cefnogi cynrychiolwyr iaith cymunedol

Mesur 18 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned. (yn arwain: Cyngor Sir Ynys Môn)

4.4.3 Bydd Horizon yn ariannu'r ddarpariaeth o wasanaethau iaith cymunedol i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y byddai gofyn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r broses o ddod yn rhan o gymuned ar gyfer y mewnlif o tua 7,000 o weithwyr o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r AEIG yn nodi nifer y gweithwyr y disgwylir y bydd yn symud i bob ardal ym mhrif ardal yr astudiaeth, a bwriad y mesur hwn yw lliniaru effaith y mewnlif hwn o weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y gallai darparu gwasanaethau iaith cymunedol helpu i liniaru'r effaith. Byddai angen i wasanaethau iaith cymunedol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol presennol er mwyn meithrin capasiti mewn cymunedau Cymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i fewnfudwyr ddod yn rhan o'r gymuned, yn arbennig y rheini sy'n symud eu teuluoedd i'r ardal hefyd. Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg fod sawl enghraifft o brosiectau a fu'n llwyddiannus lle roedd cynrychiolwyr iaith cymunedol penodol wedi cael eu defnyddio (ee prosiectau gan Gyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

4.4.4 Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg y byddai gofyn pennu union ffocws y gwaith hwn unwaith y byddai proffil y gweithlu a fyddai'n symud i'r ardal yn gliriach. Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid y Gymraeg y gellid gwneud hyn ar sail ddaearyddol (ee yn ôl dalgylch ysgolion), yn ôl thema (ee hamdden, diwylliant, teuluoedd, cymorth i'r Siarter Iaith) neu yn ôl grŵp oed yn dibynnu ar natur y cymorth sy'n cael ei nodi yn ystod y cyfnod adeiladu.

4.4.5 Y prif bartner (Cyngor Sir Ynys Môn) fyddai'n pennu'r union ddull o weithio, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a sefydliadau cymunedol presennol a gynrychiolir ar Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (fel Menter Môn, Urdd Gobaith Cymru a Chlybiau Ffermwyr Ifanc). Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg hefyd y dylai'r tîm fod yn hyblyg er mwyn gweithredu mewn cymunedau yng Ngwynedd pe bai Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd o'r farn bod angen hyn.

4.4.6 Dylai Cyngor Sir Ynys Môn fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau iaith cymunedol hyn ac adrodd yn ôl ar hyn i'r grŵp rhanddeiliaid allanol sy'n goruchwylio'r Strategaeth hon (gweler mesur 22) bob blwyddyn.

4.4.7 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y byddai meithrin capasiti yn y gymuned Gymraeg leol yn bwysig er mwyn i'r gweithwyr sy'n symud i'r ardal lwyddo i ddod yn rhan o'r gymuned. Cytunwyd y gallai darparu cynrychiolaeth iaith gymunedol (gweler mesur 18) gefnogi'r broses o ddatblygu'r capasiti hwn, ond mae angen cael adnoddau i'w galluogi i ddatblygu'r sgiliau hyn mewn cymunedau. I'r perwyl hwn, roedd nifer o ymgyngoreion wedi nodi bwlch yn y

ddarpariaeth bresennol sy'n sicrhau bod gan bobl leol y sgiliau i fod yn arweinwyr cymunedol (ee drwy gymryd rhan mewn Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, llywodraethwyr ysgolion, cynghorau cymuned). Nodwyd hefyd y gallai hyfforddiant helpu i sicrhau bod gan bobl strategaethau ar gyfer integreiddio pobl sy'n newydd i'r ardal.

4.4.8 Fel rhan o'r mesur hwn, byddai Horizon yn ariannu'r gwaith o ddatblygu deunyddiau hyfforddi priodol i gefnogi'r broses helpu mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned ac er mwyn meithrin capasiti yn y gymuned leol. Gallai'r math hwn o hyfforddiant hefyd ganolbwyntio ar faterion fel:

- sut mae cyflwyno'r Gymraeg a'i diwylliant i bobl sy'n symud i'r ardal;
- datblygu sgiliau arwain cymunedol mewn cyd-destun dwyieithog;
- sut mae cynnal digwyddiad dwyieithog yn llwyddiannus;
- cadeirio cyfarfod yn ddwyieithog;
- cynllunio gweithgareddau cymunedol dwyieithog ee grwpiau, gweithgareddau celf, clybiau chwaraeon.

4.4.9 Y cam cyntaf o ran rhoi'r mesur hwn ar waith ddylai fod i'r sefydliad sy'n arwain (Cyngor Sir Ynys Môn) adolygu'r arfer presennol, fel datblygiad yr 'Academi Arweinyddiaeth Gymunedol' yng Ngheredigion o dan arweiniad Cered, Menter Iaith Ceredigion a Theatr Felinfach. Dylid gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r modiwl hwn hefyd. Byddai gofyn chwilio am ragor o wybodaeth am gostau posibl datblygu modiwl o'r fath.

4.4.10 Unwaith y caiff ei ddatblygu, dylid monitro faint o bobl sy'n dechrau ar y cwrs ac yn ei ddarparu a dylid gwerthuso adborth y cyfranogion.

Cefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar

Mesur 19 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.4.11 Nid yw effaith y Prosiect ar nifer y plant oed cyn ysgol (0-4) wedi'i rhagweld fel rhan o'r asesiad economaidd-gymdeithasol cyffredinol. O ganlyniad, bydd gofyn cytuno ar fesurau i liniaru unrhyw effaith bosibl ar y sector blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar ôl y cais am DCO. Bydd gofyn i Horizon gael trafodaeth barhaus â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a

Menter Iaith Môn i drafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a lliniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.4.12 Gallai Mesur 13, sy'n ymwneud â Horizon yn rhannu gwybodaeth am nifer y plant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth â gweithwyr y Prosiect, roi gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd er mwyn iddynt gynllunio'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar (ee nifer y plant oed cyn ysgol sy'n symud i wahanol ardaloedd ac yn defnyddio'r ddarpariaeth) ar y cyd â darparwyr blynyddoedd cynnar allweddol fel Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn. Bydd rhoi'r mesurau hyn ar waith yn golygu y gellir asesu effaith y Prosiect ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a datblygu mesurau lliniaru fwy manwl.

4.4.13 Mae addewid y Gymraeg Horizon [RD3] yn nodi y bydd y cwmni'n cefnogi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu a siarad Cymraeg â'i gilydd, gan ddefnyddio arfer da o ran dysgu iaith a throsglwyddo iaith. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y bydd y mewnlif o deuluoedd i'r ardal yn rhoi mwy o bwysau ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys mewn lleoliadau addysg feithrin a gofal plant sy'n cael eu cynnal a rhai sydd ddim yn cael eu cynnal. Awgrymodd rhanddeiliaid y Gymraeg y dylid cynnal dadansoddiad i nodi'r problemau capasiti o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn enwedig gofal plant cyfrwng Cymraeg a Ti a Fi (sef grwpiau i rieni a'u plant sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg). Cyhoeddwyd Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Ynys Môn ym mis Mawrth 2017. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r ddeialog barhaus rhwng Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

Cefnogi gwasanaeth cyfieithu cymunedol

Mesur 20 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny'n berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu cadarnhau cyn adeiladu.

4.4.14 Mae rhanddeiliaid y Gymraeg o'r farn y bydd y mesur hwn yn galluogi grwpiau cymunedol i barhau i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg pan fydd pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn bresennol. Bydd hyn yn helpu i liniaru effaith pobl sy'n newydd i'r ardal ar yr iaith a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cymunedol. Byddai angen ariannu offer a thîm bach o gyfieithwyr ar y pryd. Mae angen trafod hyn ymhellach gyda Menter Môn i bennu cwmpas gofynion ariannu.

4.4.15 Gallai Menter Môn fonitro'r mesur hwn, gan adrodd bob blwyddyn ar faint sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'r grŵp rhanddeiliad allanol sy'n goruchwylio'r Strategaeth hon (gweler mesur 22).

4.5 Atebolrwydd

4.5.1 Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod datblygu dulliau priodol i oruchwylio rhoi'r Strategaeth hon ar waith yn Horizon ac ar gyfer

monitro cynnydd yn allanol yn hollbwysig. Roedd datblygu'r prosesau hyn yn cael eu hystyried yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, a bod camau cywiro'n cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n dod i'w rhan. Mae tri mesur penodol wedi'u datblygu isod, sy'n ymwneud â sut mae'r Strategaeth yn cael ei monitro gan bartneriaid allanol ac yn Horizon.

Sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei goruchwylio'n fewnol

Mesur 21 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon (yn arwain: Horizon).

4.5.2 Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg mai un o nodweddion allweddol rhoi strategaethau iaith Gymraeg ar waith yn llwyddiannus mewn sefydliadau eraill oedd y ffaith fod uwch reolwyr yn cymryd perchnogaeth dros y strategaeth ac yn goruchwylio'r broses o'i rhoi ar waith. Oherwydd hyn, cytunodd Rhanddeiliaid y Gymraeg y dylai grŵp o uwch swyddogion yn Horizon gymryd perchnogaeth o'r Strategaeth hon a monitro'r broses o'i rhoi ar waith yn rheolaidd. Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli a fydd yn cynnwys uwch arweinwyr o Horizon yn ogystal â'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1) a rheolwyr allweddol o'r timau Adnoddau Dynol, Hyfforddiant/Dysgu, Addysg a Datblygu a Masnachol/Cadwyn Gyflenwi.

4.5.3 Byddai angen pennu cylch gorchwyl y grŵp, ond yn fras, byddai'n cynnwys adolygu cynnydd o gymharu â phob un o'r mesurau yn y Strategaeth a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i oresgyn unrhyw anawsterau.

Sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei goruchwylio'n allanol

Mesur 22 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio grŵp rhanddeiliaid allanol (Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant) i fonitro'r broses o roi'r Stratgeaeth ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni (yn arwain: Horizon)

4.5.4 Mae monitro a goruchwylio'n allanol yn bwysig i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei harchwilio a bod arbenigedd Rhanddeiliaid lleol y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio wrth roi'r mesurau ar waith. Bydd sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol, o bosibl drwy ddefnyddio aelodau presennol grŵp llywio'r AEIG a Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn, yn ffordd annibynnol o fonitro ac yn sicrhau y bydd y Strategaeth yn gyson â gweithgareddau sefydliadau partner. Rôl y grŵp yn fras fydd adolygu cynnydd o gymharu â phob un o'r mesurau yn y Strategaeth a rhoi cyngor ynghylch y mesurau sydd eu hangen i oresgyn unrhyw anawsterau. Tasg bwysig i'r grŵp fydd datblygu fframwaith atebolrwydd i fonitro'r Strategaeth.

Gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg

Mesur 23 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp rhanddeiliad allanol yn goruchwylio hynny (yn arwain: Horizon)

4.5.5 Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp rhanddeiliad allanol a Horizon yn goruchwylio hynny. Bydd Horizon a'r grŵp rhanddeiliad allanol yn cytuno ar yr union gylch gorchwyl, yr amseru a'r fethodoleg ar gyfer y gwaith gwerthuso hwn. Fodd bynnag, gallai'r gwerthusiad gynnwys cam dros dro (ee hanner ffordd drwy'r cyfnod adeiladu) a cham terfynol (ee ar ddiwedd y cyfnod adeiladu). Byddai'r gwerthusiad yn gallu edrych yn fanwl ar sut mae union effeithiau'r Prosiect yn cymharu â'r effeithiau disgwyliedig. Bydd dau ddiben i hyn:

- Yn ystod y cam dros dro, galluogi Horizon a'r grŵp rhanddeiliad allanol i ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r broses o roi'r mesurau lliniaru ar waith;
- Yn y cam terfynol, darparu data fel sail ar gyfer gwaith cynllunio iaith ar gyfer datblygiadau mawr yn y dyfodol.

Mesur 24 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn rhoi Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith cyn cyfnod adeiladu'r Prosiect a thrwy gydol y cyfnod hwnnw. Bydd Horizon yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfiad â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i'r grŵp rheoli bob chwe mis (a nodir ym mesur 21 / eitem 1264 yn y Llwybr Lliniaru) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) a bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn. (yn arwain: Horizon)

4.5.6 Bydd y broses o roi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith yn cael ei monitro'n barhaus drwy gydol y cam adeiladu. Bydd Horizon yn adrodd i'r grŵp rheoli (a nodir ym mesur 21 / eitem 1264 yn y Llwybr Lliniaru) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) ar sut mae'n cydymffurfio â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Ar ben hynny, bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn monitro'r borses o'i rhoi ar waith.

4.6 Mesurau lliniaru a gwella ehangach

4.6.1 Mae mesurau lliniaru a gwella ychwanegol sy'n berthnasol i'r Gymraeg a'i diwylliant wedi'u cynnwys yn y dogfennau eraill sydd wedi'u cyflwyno gyda'r DCO. Mae'r mesurau hyn yn ymwneud â rheoli ble mae gweithwyr y Prosiect yn byw, ystyried unrhyw effeithiau ar y ddarpariaeth gofal iechyd lleol, sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fusnesau lleol ac ailddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg coll. Caiff mesurau yn y meysydd pwnc hyn sy'n berthnasol i'r Gymraeg eu cynnwys yn y Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4);

yn yr Adroddiad Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19); yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3) ac yng Nghyfrol D y Datganiad Amgylcheddol - Prif Safle'r Orsaf Bŵer D11 - Treftadaeth ddiwylliannol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.11).

5 Cyfeiriadau

5.1 Rhestr cyfeiriadau

Tabl 5-1 Rhestr cyfeiriadau

ID	Cyfeiriad
RD1	Pŵer Niwclear Horizon. 2016. *Polisi Iaith Gymraeg* [Ar-lein]. [Cyrchwyd 02 Awst 2017]. Ar gael yn: https://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/Public%20Documents/welsh-language-policy/HNP%20Welsh%20Language%20Policy%20SEPT%2016.pdf
RD2	Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn. 2016. *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd: 03 Hydref 2016]. Ar gael yn: https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf
RD3	Pŵer Niwclear Horizon. 2016. *Addewid y Gymraeg.* [Ar-lein]. [Cyrchwyd 02 Awst 2017]. Ar gael yn: https://consultation.horizonnuclearpower.com/download/documents/191